

YSGOL Y GYMRAEG, PRIFYSGOL
CAERDYDD

**EFFAITH
DAD-DDIWYDIANNU
AR YR IAITH
GYMRAEG YNG
NGHWM
GWENDRAETH**

TRAETHAWD A GYFLWYNIR AR GYFER
GRADD Ph.D PRIFYSGOL CYMRU

HYWEL BEFAN OWEN

MAI 2005

UMI Number: U584014

All rights reserved

INFORMATION TO ALL USERS

The quality of this reproduction is dependent upon the quality of the copy submitted.

In the unlikely event that the author did not send a complete manuscript and there are missing pages, these will be noted. Also, if material had to be removed, a note will indicate the deletion.



UMI U584014

Published by ProQuest LLC 2013. Copyright in the Dissertation held by the Author.
Microform Edition © ProQuest LLC.

All rights reserved. This work is protected against
unauthorized copying under Title 17, United States Code.



ProQuest LLC
789 East Eisenhower Parkway
P.O. Box 1346
Ann Arbor, MI 48106-1346

DATGANIAD

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn eisoes o ran sylwedd am unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnodwyd H. B. Owen (ymgeisydd)

Dyddiad 11/05/05

GOSODIAD 1

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ymchwiliadau i fy hun, ac eithrio lle y nodir yn wahanol.

Cydnabyddir ffynonellau eraill gan droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau manwl. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnodwyd H. B. Owen (ymgeisydd)

Dyddiad 11/05/05

GOSODIAD 2

Yr wyf yn rhoi, drwy hyn, ganiatâd i'm traethawd, os derbynir ef, fod ar gael i'w lun-gopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnodwyd H. B. Owen (ymgeisydd)

Dyddiad 11/05/05

CRYNODEB

Bwriad yr astudiaeth hon yw ystyried effaith datblygiadau economaidd ar yr iaith Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth yn ystod y cyfnod 1891-2005. Ar ddechrau'r cyfnod yr oedd yr ardal yn un amaethyddol ond erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg profodd yr ardal ddatblygiadau diwydiannol ar raddfa helaeth. Y lofa oedd prif gyflogwr yr ardal am bron i hanner canrif ac yr oedd yn ganolog i bob agwedd o fywyd y trigolion. Fodd bynnag, arweiniodd cau'r pyllau glo at ddiweithdra, digofaint ac amrywiol broblemau eraill. Nid oes bellach un prif gyflogwr a gwelir amryw o ddiwydiannau yn darparu cyflogaeth i drigolion Cwm Gwendraeth. Yn wahanol i'r lofa, nid y Gymraeg yw iaith naturiol nifer o'r gweithwyr sydd yn y swyddi hyn. Ystyrir newidiadau eraill megis y rhai hynny sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn sgîl datblygiad yr M4.

Trafodir cefndir hanesyddol ac ieithyddol yr ardal a rôl allweddol Cwm Gwendraeth yn y cyd-destun cenedlaethol. Yn ogystal, bydd trafodaeth o'r hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill sef Israel, Iwerddon, Gwlad y Basg a Chatalonia ar gyfer deall y cyd-destun rhyngwladol. Dadansoddir yn fanwl dystiolaeth Cyfrifiadau 1891 a 1901 ym mhlwyf Llan-non ar gyfer ystyried tueddiadau ar lefel meicro. Trafodir nifer o agweddau sy'n graidd i'r astudiaeth gyfan gan gynnwys tueddiadau mudo a phatrymau iaith o fewn y teulu.

Ystyrir y rhwydweithiau hynny fu'n cynnal y Gymraeg yn yr ardal yn ystod yr ugeinfed ganrif. Bu lleihad yn eu pwysigrwydd ac yr oedd hyn yn cyd-fynd â dadfeiliad y diwydiant glo. Arweiniodd hyn at sefydlu Menter Cwm Gwendraeth yn 1991 sef y fenter iaith gyntaf yng Nghymru a thrafodir ei dylanwad wrth gynnal y Gymraeg yn yr ardal. Cynhaliâs waith maes yn yr ardal drwy gyfrwng dosbarthu holiaduron a chynnal cyfweiliadau dwys a chyflwynir dadansoddiad manwl o'r canlyniadau.

Yn yr astudiaeth hon, rhoddir sylw i ardal sydd wedi profi effeithiau ôl ddiwydiannol niweidiol ond sy'n parhau yn un o gadarnleoedd yr iaith, ac sydd yn allweddol yn yr ymdrechion i ddiogelu'r iaith Gymraeg.

DIOLCHIADAU

Yn ystod y cyfnod y bûm yn ymchwilio ar gyfer y traethawd hwn derbyniais gymorth gwerthfawr gan nifer o unigolion a hoffwn fynegi fy niolchgarwch i'r canlynol:

Yr Athro Colin H. Williams, fy nghyfarwyddwr ymchwil, am ei arweiniad cadarn, a'i anogaeth a chefnogaeth gyson a chyfeillgar,

Y Mri Cefin Campbell, Brin Davies, y Parchedig Elwyn Jenkins, Mrs. Deris Williams, a'r Cynghorwyr Eirwyn Williams a Terry Davies am eu parodrwydd i gael eu cyfweld ac am gyflwyno gwybodaeth ar faterion penodol.

Prifathrawon a staff Ysgol Gynradd Cross Hands, Ysgol Gyfun Maes-yr-Yrfa ac Ysgol Gyfun y Gwendraeth am eu cydweithrediad parod, ynghyd â thrigolion yr ardal wrth gytuno i lenwi'r holiaduron fel rhan o'r gwaith maes.

Yr Athro Geraint H. Jenkins, Cyfarwyddwr Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru a staff y Ganolfan, ynghyd â Dr Mari A. Williams am eu cymorth gwerthfawr pan dreuliais y cyfnod Medi-Rhagfyr 1998 yn gwneud gwaith ar Gyfrifiad 1891 (Pennod 3) yn sgîl sicrhau ysgoloriaeth Syr Thomas Parry-Williams.

Yr Athro Harold Carter; Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Llyfrgell Prifysgol Caerdydd, Menter Cwm Gwendraeth, Mentrau Iaith Myrddin, Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn ogystal, fy nghydweithwyr yn Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru am eu cydweithrediad parod; dylwn ychwanegu fy mod wedi cychwyn ymchwilio a pharatoi'r traethawd tra'n fyfyrwr yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a'i gwblhau yn fy amser 'hamdden' tra'n gweithio yn yr Uned Iaith, Llywodraeth y Cynulliad. Dymunaf bwysleisio nad yw'r sylwadau a gyflwynir yn adlewyrchu mewn unrhyw ffordd safbwynt swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol.

Hoffwn ddatgan fy ngwerthfawrogiad i'm teulu a ffrindiau am eu cefnogaeth, ac yn arbennig i'm brawd Tomos am ei sylwadau ar y llawysgrif.

CYNNWYS

Cyfról 1

	Tudalen
Pennod 1: Cefndir Hanesyddol ac Ieithyddol Cwm Gwendraeth	1
Mapiau	52
Pennod 2: Y Gymraeg mewn Cyd-destun Rhyngwladol	73
Pennod 3: Tystiolaeth Cyfrifiad 1891 ym Mhlwyf Llan-non	125
Pennod 4: Yr Iaith Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth 1891-1991	162
Pennod 5: Menter Cwm Gwendraeth: Y Fenter Iaith Gyntaf yng Nghymru	199
Pennod 6: Dadansoddiad o'r Gwaith Maes : Strwythur yr holiadur, iaith yr aelwyd a sgiliau ieithyddol	256
Pennod 7 : Dadansoddiad o'r Gwaith Maes : Cyflogaeth, peuoedd cymdeithasol, cyfryngau torfol a Menter Cwm Gwendraeth	286
Ffigurau (Gwaith Maes)	319
Pennod 8 : Diwedd glo, Casgliadau a Thrafodaeth Gyffredinol	340
Llyfryddiaeth	371

PENNOD 1 : CEFNDIR HANESYDDOL A IEITHYDDOL CWM GWENDRAETH

1.1 Cyflwyniad a chefnidir hanesyddol

Pwrpas yr astudiaeth hon fydd asesu effeithiau dad-ddiwydiannu ar yr iaith Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth gan ystyried y berthynas rhwng sefyllfa'r iaith â'r cyd-destun economaidd. Am gyfnod helaeth o'r ugeinfed ganrif, cynhyrchu glo oedd prif ddiwydiant yr ardal hon, a fu cyn hynny yn un amaethyddol. Yr oedd y diwydiant glo yn ei anterth yn cyflogi nifer sylweddol o weithwyr a'r Gymraeg oedd iaith y lofa a'r pentrefi lleol. Caewyd y glofeydd yn ystod ail-hanner y ganrif a phrofwyd effeithiau dad-ddiwydiannu ar y gymdeithas leol gan wanhau nifer o'r peuoedd traddodiadol fu'n cynnal yr iaith. Profwyd diweithdra a gorfodwyd i nifer o bobl ifanc galluog adael yr ardal gan gynnwys rhai a fyddai wedi datblygu i fod yn arweinwyr naturiol yn y gymuned. Mae hyn efallai yn egluro'r diffyg hyder yn gyffredinol ac yn benodol mewn perthynas ag agweddau ieithyddol. Ystyrir yn fanwl effeithiau'r newidiadau hyn ar sefyllfa'r iaith, yr ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg ac ail-greu rhai o rhwydweithiau cymdeithasol-ieithyddol yng Nghwm Gwendraeth.

Cwm Gwendraeth yw'r ardal yn sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'r Mynydd Mawr, tua deg milltir i'r gogledd o dref Llanelli a tharddle afonydd Gwendraeth Fawr a Gwendraeth Fach, i Gydwelli, lle mae'r ddwy afon yn ymuno cyn iddynt lifo i Fae Caerfyrddin. Cafodd elfennau daearegol ddylanwad sylweddol ar ddatblygiad hanesyddol yr ardal hon. Mae porfeydd cymharol ffrwythlon yn nyffryn y Gwendraeth Fach gyda'r ffermydd gwasgaredig yn canolbwyntio ar gynhyrchion llaeth. Datblygodd pentrefi bychan megis Porthyrhyd, Llangyndeyrn, Pontantwn a Llandyfaelog. Ar y llaw arall, mae gwythiennau glo carreg cyfoethog yn nyffryn y Gwendraeth Fawr. Yn sgîl datblygiad y diwydiant glo tyfodd o amgylch y glofeydd bentrefi mawr Cross Hands, Y Tymbl, Pontyberem, Pont-iets a Thrimsaran. Profwyd newidiadau economaidd a chymdeithasol aruthrol yn y pentrefi hyn gyda dirywiad ac yna ddiflaniad y diwydiant glo. Cliriwyd y tipiau ac olion eraill y

diwydiant glo. Ym mhen uchaf y Cwm, ger pentref Cross Hands, sefydlwyd ar safle'r gwaith glo archfarchnadoedd enfawr. Ger y Parc Busnes llewyrchus adeiladwyd ffordd osgoi sy'n ddilyniant o draffordd yr M4, gyda phegwn gorllewinol y draffordd ym Mhont Abraham, dair milltir a hanner i ffwrdd i'r dwyrain.

Amgylchynir y Cwm gan drefi Caerfyrddin i'r gorllewin, Llanelli i'r de, Llandeilo i'r gogledd ac nid yw dinas Abertawe ond rhyw bymtheg milltir i'r dwyrain o bentref Cross Hands (**Map 1**). Serch hynny, tra bod rhai o'r canolfannau hyn yn cynnwys niferoedd cymharol isel o siaradwyr Cymraeg ar sail tystiolaeth Cyfrifiad 2001, sef 13.4 y cant yn Abertawe, 42.9 y cant yng Nghaerfyrddin a 33.2 y cant yn Llanelli, yr oedd 64.95 y cant o boblogaeth Cwm Gwendraeth yn siarad Cymraeg (Aitchison & Carter 2004 : 150-151). Mae'r ganran am Gwm Gwendraeth yn seiliedig ar ystadegau a gasglwyd am wardiau yn ymestyn o Gors-las yn y gogledd hyd at Gydweli yn y de. Fodd bynnag, canolbwyntir yn yr astudiaeth hon ar yr ardaloedd gogleddol lle mae niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn llawer uwch. Mae'r ffaith bod bron i dri chwarter y boblogaeth yn medru'r iaith yn adlewyrchu safle'r ardal fel un o gadarnleoedd y Gymraeg ac yn un sy'n rhaid ei gwarchod os yw'r iaith i oroesi yn y dyfodol. Ar sail ystadegau a gyflwynwyd mewn cyfrifiad blaenorol, dywedod Aitchison a Carter

For the most part centred on the Gwendraeth and Amman valleys, this outlier distinguishes itself from other regions in south Wales by the high proportion of Welsh speakers.

(Aitchison & Carter 1985 : 14)

Bellach ystyrir ardaloedd gorllewinol Maes Glo'r De fel yr ardaloedd allweddol yn nyfodol yr iaith yn sgîl eu poblogaeth uchel o'u cymharu ag ardaloedd mwy gwledig a phoblogaethau gwasgaredig gorllewin Cymru.

Mae Cwm Gwendraeth wedi ei lleoli mewn ardal Amcan 1, gydag ardaloedd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys i dderbyn cyllid Amcan

1 yr Undeb Ewropeaidd gan bod eu Cynnyrch Domestig Gros (GDP) yn llai na 75 y cant o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd. Nodir mai nod Amcan 1 yw lleihau'r gwahaniaeth hwn drwy hybu twf mewn Cynnyrch Domestig Gros a chynnydd mewn cyflogaeth a gweithgaredd economaidd (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru 2001: 4). Bydd ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn derbyn £1.14 biliwn gan yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2000-06 ar gyfer rhaglen Amcan 1 tra bydd £860 miliwn yn dod o ffynonellau cyhoeddus y Deyrnas Unedig a thua £430 miliwn o'r sector breifat.

Mae gan Gwm Gwendraeth heddiw boblogaeth o dros 25,000 sy'n cynnwys pentrefi a chymunedau bychan a dyfodd yn sgîl datblygiad y diwydiant glo. Cyn tua 1850, yr oedd Cwm Gwendraeth yn bennaf yn gymuned amaethyddol, er i'r ardal ddenu sylw rhai masnachwyr a diwydianwyr dros y canrifoedd. Sefydlwyd bwrdeistref fechan ger y castell a godwyd yng Nghydweli gan y Normaniaid ar ddechrau'r ddeuddegfed ganrif. Yn 1176 ymladdwyd brwydr enwog yno pan drechwyd Gwenllian, arweinydd byddin y Cymry, gan y Norman, Maurice de Londres. Cysylltir Yr Arglwydd Rhys, sef wŷr Gwenllian, gyda sefydlu'r eisteddfod gyntaf i'w chynnal yng Nghymru. Yn y bymthegfed ganrif trigai'r beirdd Ieuan Deulwyn ac Ieuan Tew Ieuanc yng nghyffiniau'r castell, a chyfeiriwyd at y cysylltiad rhwng y castell a theulu Dinefwr gan Lewis Glyn Cothi (Stephens 1997 : 124-5). Nid oes amheuaeth na chafodd dylanwadau Cymreig effaith ar sefydliadau estron megis castell a bwrdeistref Cydweli. Yn yr un modd, ymdoddodd i'r gymdeithas leol y gweithwyr estron a fudodd i Gwm Gwendraeth dros y canrifoedd. Wrth deithio drwy'r ardal rhwng 1536-1539 cyfeiriodd John Leland at y gwahaniaeth rhwng y glo a gynhyrchwyd yn Llanelli a glo carreg y Cwm:

At Llanethle, a village of Kidwelli lordship, a vi miles from Kidwelli, the habitants digge coles . . . There be ii maner of thes coles . . . So that Vendwith Vawr could be stone coles; Llanethle coles ring colis.

(Smith 1906 : 59-60)

Sefydlwyd gwaith alcam yng Nghydweli yn 1737 ac agorwyd nifer o weithiau haearn a chwareli yng Nghwm Gwendraeth. Ymdrechwyd i gysylltu'r gweithfeydd glo gyda'r arfordir, ac adeiladodd Thomas Kymer gamlas gyntaf Cymru, rhwng 1766 a 1768, i gario glo o'i lofeydd yng Ngharwe i'r arfordir ger Cydweli. Wedyn estynnwyd y gamlas i Borth Tywyn, sef prif harbwr sir Gaerfyrddin ar gyfer allforio glo, ac i fyny'r Cwm, heibio i Gwm-mawr. Canlyniad deddf yn 1812 oedd ffurfio *The Kidwelly and Llanelly Canal and Tramroad Company*. Yr oedd y ddeddf hefyd yn ymdrin ag ymestyn y gamlas i'r dwyrain, i gyfeiriad Llanelli ac i'r gogledd, ar hyd Cwm Gwendraeth, heibio i Gwm-mawr. Yn gysylltiedig â'r fenter hon oedd Alexander Raby, gŵr o Loegr a fu'n amlwg yn y datblygiadau diwydiannol yn ardal Llanelli ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Troswyd y gamlas yn rheilffordd yn 1868-9 ac erbyn hyn yr oedd y diwydiant glo yn datblygu'n gyflym. Cynhyrchwyd glo carreg a allforiwyd o borthladdoedd Porth Tywyn, Llanelli ac Abertawe. Cynyddodd y boblogaeth yn aruthrol gyda phentrefi Pontyberem, Y Tymbl a Cross Hands yn tyfu'n sylweddol erbyn troad yr ugeinfed ganrif yn sgîl datblygiad y glofeydd lleol (**Map 2**). Effeithiodd amryw o ddeddfau yn ddirfawr ar drigolion Cwm Gwendraeth a gwelwyd gwrthwynebiad chwyrn i rai ohonynt. Yn eu plith oedd Deddf Cau'r Comin yn 1811 a fu'n gyfrifol am ddsbarthu a gwerthu tir comin y Mynydd Mawr. Fel canlyniad daeth i ben nifer o arferion traddodiadol.

Cyfrannodd deddfau eraill, megis Deddf Newydd y Tlodion (1834) a Deddf Cymudo'r Degwm (1836) at gwynion trigolion yr ardal. Yn ychwanegol at hyn bu dyfodiad y System Dyrpeg, pwysau gormesol y tollbyrth ynghyd â dadfeiliad cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru yn gyfrifol am derfysgoedd Beca a ffrwydrodd yn 1839. Bu nifer o ddigwyddiadau cyffrous yng Nghwm Gwendraeth yn y flwyddyn 1843. Ar 22 Awst ymosodwyd ar Gelliwernen, Llan-non, cartref John Edwards a oedd yn stiward i'r tiffeddiannwr lleol, Rees Goring Thomas, Llan-non. Dri diwrnod yn ddiweddarach, cadeiriodd William Chambers yr Ieuengaf, diwydiannwr ac ynad yn Llanelli, gyfarfod ar Fynydd Sylen lle yr oedd torf o dair mil wedi ymgasglu. Eto ar ddechrau mis Medi yr oedd ef yn un o'r ynadon a ddedfrydodd yr arweinydd lleol, John Hughes o'r

Tymbl (Jac Tŷ Isha), wedi i'r ynadon dderbyn gwybodaeth am y bwriad i ymosod ar dollbyrth Pontarddlais a'r Hendy. Cafodd ei allfudo am ugain mlynedd ac ar ôl cwblhau'r mwyafrif o'i ddedfryd, priododd ac ymsefydlodd yn Tasmania. Ymhlith y rhai eraill a ymosododd ar fferm Gelli-glyd ar ddiwedd mis Awst oedd Shoni Sgubor Fawr, ac yr oedd ef a Dai'r Cantwr hefyd yn gyfrifol am ymosod ar gartref Mr Slocombe, rheolwr Gwaith Haearn y Gwendraeth, Pontyberem. Cawsant hwy hefyd eu dal ac alltudiwyd Dai'r Cantwr am ugain mlynedd a Shoni am oes.

1.2 Y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg- y boblogaeth a'r iaith Gymraeg

Nid oes amheuaeth na fu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn allweddol yn hanes y Gymraeg. Dywed Robert Owen Jones:-

'Roedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ganrif fyrlymus a phur dyngedfennol yn hanes y Gymraeg. Cafwyd cyfnewidiadau a effeithiodd ar bob agwedd ar fywyd y bobl ac a adawodd eu cysgodion ar hynt y Gymraeg hyd at ail hanner yr ugeinfed ganrif.

(Jones 1997 : 239)

Bu twf syfrdanol ym mhoblogaeth Cymru yn ystod y ganrif. Yn 1801, pan gynhaliwyd y cyfrifiad cyntaf, yr oedd poblogaeth Cymru yn 601,767 ac fe'i dosbarthwyd yn weddol gyfartal ledled Cymru. Yr oedd poblogaeth siroedd Caerfyrddin, Morgannwg a Mynwy yn cynrychioli 30.7 y cant o drigolion Cymru yn 1801. Fodd bynnag, fel y dengys y tabl isod yr oedd y ganran hon wedi cynyddu i 43.1 y cant yn 1851, 61.2 y cant yn 1891 a 64.8 y cant yn 1901. Erbyn 1911, yr oedd 1,696,334 o drigolion y dair sir hon yn cynrychioli 69.5 y cant o boblogaeth Cymru sef cyfanswm o 2,442,041. Yr oedd cynnydd o 850,000 ym mhoblogaeth Cymru yn ystod y cyfnod 1881-2001, ac o'r cynnydd hwn, yr oedd 610,000 o'r bobl ychwanegol (neu 70 y cant) yn byw yn sir Forgannwg (Williams 1995 : 37).

Tabl 1.2 : Poblogaeth Cymru 1801-1911

	1801	1851	1891	1901	1911
Cymru	601,767	1,188,914	1,776,405	2,015,012	2,442,041
Sir Gaerfyrddin	55,571	94,672	118,624	123,570	151,050
Sir Forgannwg	74,189	240,095	693,072	866,250	1,130,668
Mynwy	54,750	177,130	275,242	316,864	414,666
Cyfanswm y boblogaeth yn siroedd Caerfyrddin, Morgannwg a Mynwy	184,510	511,897	1,086,938	1,306,684	1,696,384
Canran y boblogaeth yn y dair sir mewn perthynas â Chymru	30.7	43.1	61.2	64.8	69.5

(Y tabl yn seiliedig ar ystadegau'r Cyfrifiad a ymddengys yn Jones: 1998 : 17-18)

Y prif ffactorau fu'n gyfrifol am hyn oedd y cynnydd naturiol yn y boblogaeth megis bod pobl yn byw yn hŷn ynghyd â'r mewnfudo i siroedd fel canlyniad i'r datblygiadau diwydiannol mewn rhannau o Gymru. Fel y pwysleisia Dot Jones:-

... efallai mai'r ffactor demograffig mwyaf grymus o safbwynt newid iaith yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd mudo - ymfudiad pobloedd o'r man lle y cawsant eu geni a'u magu.

(Jones 1998 : 12)

Ar ddechrau'r ganrif yr oedd tua tri chwarter poblogaeth Cymru yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth mewn cyferbyniad â 18.2 y cant o'r gweithlu erbyn canol y ganrif (Jones 1987 : 240). Er y pwyslais ar amaethyddiaeth yn

1801, yr oedd ardaloedd diwydiannol wedi datblygu yng Nghymru erbyn hyn. Cyfeiriodd Brinley Thomas at y Chwyldro Diwydiannol fel ymateb Prydain i argyfwng ynni ail hanner y ddeunawfed ganrif (Thomas 1980: 1-15). Hefyd, cyffelybwyd y Chwyldro i ddrama dair act gyda De Cymru yn chwarae rhan allweddol ymhob act o'r ddrama fawr. Yr act gyntaf oedd y blynyddoedd 1784-1800 pan gafodd yr argyfwng ynni ei ddatrys; yn yr ail act, sef y cyfnod 1800-46 gosodwyd seiliau'r economi fodern yn sgîl creu offer peirianyddol, rheilffyrdd a llongau ager, ac yn y drydedd act, y blynyddoedd 1846-1900 ceir cyfnod o lewyrch pan ddaeth Prydain yn weithdy'r byd a chanolfan economi Môr yr Iwerydd (Thomas 1987: 423-4). Mewn ysgrif flaenorol, cyfeiriwyd at ddyddiadau'r dair act yn 1760-1790, 1790-1850 a 1850-1900 (Thomas 1986: 8-9). Nodwyd pedwar cyfnod yn hanes y datblygiadau diwydiannol gan Harold Carter yn ei astudiaeth o gymunedau trefol a diwydiannol: cyfeiriwyd at y cyntaf yn un 'cyn-ddiwydiannol'; yr ail yn ymestyn o ganol y ddeunawfed ganrif tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn cyfeirio yn bennaf at y diwydiant haearn; y trydydd yn dilyn gyda chloddio ac allforio glo yn brif weithgarwch, a'r pedwerydd i raddau yn cyd-redeg gyda datblygiad trefi yn cyflawni dyletswyddau gwasanaeth a gweinyddiaeth (Carter 1989b : 269-271). Gwelwyd yng Nghwm Gwendraeth a'r cyffiniau ddatblygiadau a oedd yn cadarnhau yr hyn a ddywed Brinley Thomas am y dair act a thri chyfnod cyntaf Harold Carter, a gwelir ymdriniaeth berthnasol ym Mhenodau 3 a 4.

Trafodir rhai o brif nodweddion y datblygiadau diwydiannol yng nghyfrol John Williams, *Was Wales Industrialised?* (1995) ac mae ei sylwadau ef hefyd yn berthnasol i'r astudiaeth bresennol. Dywed bod y broses drefoli (*urbanization*) wedi datblygu yn aruthrol yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, gyda bron i 60 y cant o'r boblogaeth yn byw mewn cymunedau gyda mwy na 5,000 o bobl, o'i gymharu â llai na 20 y cant yn 1851 ac ychydig llai na 50 y cant yn 1891. Eto, mae'n nodi bod yr ystadegau yn gor-bwysleisio cyflymdra'r broses, gan gyfeirio at y gwahaniaeth sylweddol rhwng natur y gymdeithas a sefydlwyd yng Nghwm Rhondda, gyda 113,000 o drigolion yn Nosbarth Trefol y Rhondda yn 1901, a'r un yng Nghaerdydd, lle yr oedd 164,000 o drigolion (Williams 1995: 16-7). Y

mae modd addasu'r gymhariaeth hon i'r sefyllfa yng Nghwm Gwendraeth a byddai'n rhaid bod yn ofalus iawn ynglŷn â disgrifio'r boblogaeth yno yn rhan o gymuned drefol.

Rhoddodd John Williams ystyriaeth hefyd i ddsbarthiad swyddi yn yr ardaloedd diwydiannol, gan bwysleisio'r lleihad yn y nifer sy'n gweithio yn y sector amaethyddol, gyda'r canran yn gostwng o 35 y cant o'r gweithlu yn 1851 i 12 y cant yn 1911, a'r cynnydd yn ystod yr un cyfnod o 200,000 yn y sector a ddisgrifiwyd yn 'Mining and Quarrying', gyda'r ganran gyfatebol yn codi o 17 y cant i 32 y cant. Erbyn 1911 rheolwyd economi Cymru gan yr hyn a ddisgrifiwyd yn 'cynhyrchu sylfaenol' (*primary production*), yn cynnwys amaethyddiaeth, a'r diwydiannau glo, plwm a llechi, ac yn gyfrifol am gyflogi 44 y cant o weithlu a oedd wedi ehangu yn ddirfawr (Williams 1995:18-22). Yr oedd nifer y glowyr wedi cynyddu yn aruthrol yn ystod y cyfnod 1881-1911, o 101,700 yn 1881 (neu 21 y cant o'r gweithlu) i 256,250 (31.7 y cant) yn 1911. (Williams 1995 : 289-90). Yn y deng mlynedd ar hugain cyn 1914, tyfodd y gweithlu o 80,000 i 240,000, ac o'r cynnydd o 160,000, gweithiai 157,000 (neu 98.1 y cant) ym Maes Glo De Cymru (Williams 1995 : 39).

Yn 1911, cyrhaeddodd cyfanswm y siaradwyr Cymraeg 977, 366, sef y nifer uchaf erioed. Er bod nifer y rhai a fedrai'r Gymraeg wedi dyblu cynyddodd nifer y di-Gymraeg saithgwaith ac adlewyrchir hyn yn ystadegau'r Cyfrifiad. Cyfeiriodd Robert Owen Jones at 80 y cant yn medru'r Gymraeg yn 1801 o'u cymharu â 50 y cant yn 1901, ac yn ei farn ef :-

'Roedd hwn yn newid o bwys oherwydd collodd y Gymraeg dir sylweddol, a bellach yn hytrach na bod yn iaith mwyafrif y boblogaeth 'roedd yn iaith leiafrifol a diethr mewn rhai parthau o'r wlad.

(Jones 1997 : 240)

1.3 Effaith diwydiant ar yr iaith Gymraeg: syniadau Brinley Thomas a'r ymateb iddynt.

Yn y gorffennol tueddai nifer o ysgrifenyddyr ddatgan fod y twf economaidd a welwyd yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi dylanwadu'n niweidiol ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Diwydiant oedd y grym pwerus a fu'n gyfrifol am Seisnigeiddio Cymru yn ystod y ganrif honno gan adael siroedd gwledig y gogledd a'r gorllewin fel cadarnleoedd olaf y traddodiad Gymraeg. Daeth cefn gwlad i gynrychioli pob agwedd o'n diwylliant cenedlaethol. Dywed David Williams yn ei gyfrol *A History of Modern Wales*:-

In the course of the nineteenth century the industrialization of Wales added a further division in so far as it brought in a large non-Welsh population which has never been assimilated. . .The building of roads and railways, and the enormous growth of Welsh industry as part of the economic development of Britain, profoundly affected Welsh life; so much so that there is a marked tendency to regard Welsh culture as being in essence the culture of rural Wales and not of the industrial areas.

(Williams 1950:269)

Mynegwyd safbwynt wahanol, a newydd yn 1959 gan Brinley Thomas yn ei erthygl 'Wales and the Atlantic Economy'. Dadleuodd na fu effaith diwydiant yn andwyol i'r iaith yn y cyfnod 1850-1913 ond yn hytrach mai dyma fu'n gyfrifol am ei pharhad yn y cyfnod hwn:-

the Welsh language was saved by the redistribution of a growing population brought about by industrialism.

(Thomas 1959:189)

Cyfeiriodd at y ffaith fod 388,000 wedi gadael ardaloedd gwledig Cymru yn y cyfnod 1851-1911 tra bod 336,000 wedi symud i ardaloedd glofaol de a

gogledd Cymru yn yr un cyfnod. Eto mae'n cydnabod bod nifer helaeth o'r rhai a ymfudodd i'r maes glo yn ddi-Gymraeg ond yr oedd 160,000 a ymfudodd i sir Forgannwg rhwng 1861 a 1911 yn hanu o siroedd Cymru.

Tabl 1.3.1 : Niferoedd a chanran siaradwyr Cymraeg 1891-1911

	1891	1901	1911
[Cymru]	910,289	929,824	977,366
	54.5	49.9	44.6
Sir Gaerfyrddin	100,282	113,947	127,236
Sir Forgannwg	320,072	344,892	393,692
Mynwy	38,959	35,690	35,247
Cyfanswm y siaradwyr Cymraeg yn siroedd Caerfyrddin, Morgannwg a Mynwy	459,313	494,529	556,175
Canran y boblogaeth yn y dair sir mewn perthynas â Chymru	50.5	53.2	57.0

(Y tabl yn seiliedig ar ystadegau'r Cyfrifiad a ymddengys yn Jones: 1998 : 225)

Fel y dengys y tabl uchod, erbyn 1911 yr oedd 556,175 o siaradwyr Cymraeg yn siroedd Morgannwg, Mynwy a Chaerfyrddin yn cynrychioli 57 y cant o gyfanswm y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yr adeg honno. Yr oedd y nifer hyn yn cymharu â 459,313 sef 50.5 y cant yn 1891.

Pwysleisiodd Brinley Thomas na fyddai'r mwyafrif wedi bod yno o gwbl oni bai am y datblygiadau yn yr ardaloedd diwydiannol, ac yn enwedig twf syfrdanol Maes Glo De Cymru. Mae'n rhagweld beth fyddai wedi digwydd petai Cymru wedi bod yn wlad amaethyddol yn yr un modd ag Iwerddon. Mae'n dadlau y byddai poblogaeth wledig Cymru a oedd yn Gymraeg i'r carn

yn yr hanner canrif cyn 1911 wedi gorfod mynd i Loegr neu dramor a byddai hynny wedi bod yn drychineb i'r iaith Gymraeg. Ni ddigwyddodd hynny oherwydd yr oedd yng Nghymru ganolfannau diwydiannol erbyn y cyfnod hwn. Eto mae'n rhaid cydnabod bod nifer o Gymry wedi ymfudo i ardaloedd yn Lloegr yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, megis i Lannau Mersi, Canolbarth Lloegr a Llundain. Yn 1851 cyfrifwyd yn Lloegr un o bob deg person a aned yng Nghymru, ond erbyn 1881 a 1911 cynyddodd y gyfran hon i un o bob wyth person. (Jones 1998 : 13).

Ni ellir gwadu nad oedd nifer y Cymry yn yr Unol Daleithiau wedi cynyddu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dengys y *Digest of Welsh Historical Statistics* bod nifer y Cymry yno wedi cynyddu o 29, 868 yn 1850 i 74, 533 yn 1870 a chyrraedd uchafbwynt o 100, 079 yn 1890 (Williams 1985: 76). Nid oes amheuaeth, wrth eu cymharu â'r Albanwyr â'r Gwyddelod, mai nifer bychan o Gymry a aeth dros Fôr Iwerydd ond fel y noda Dot Jones cadwodd y Cymry ym maes glo carreg Pennsylvania 'eu traddodiadau mor daer, os nad yn fwy taer na'r cymunedau a adawsant yng Nghymru' (Jones 1998 : 13). Eto, yn wahanol i rannau eraill o Brydain, cyfradd gymharol fechan oedd patrwm ymfudo o Gymru i'r Unol Daleithiau. Rhwng 1841 a 1901 dyblodd poblogaeth Cymru i ychydig dros dwy filiwn gyda 50 y cant yn siarad Cymraeg. Serch hynny, fel y dangosodd Dr.Garrett Fitzgerald, cyn Brif Weinidog Iwerddon, yr oedd poblogaeth Iwerddon wedi haneru yn ystod yr un cyfnod, o 8,175,000 i 4,459,000, gyda dim ond 19 y cant yn siarad Gwyddeleg. Dadleuodd FitzGerald bod y lleihad yn nifer siaradwyr ifanc yr iaith Wyddelig wedi dechrau yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif, cyn y Newyn Mawr a chyflwyno addysg gynradd y wladwriaeth. Yn ystod wythdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymfudodd 655,000 o bobl o Iwerddon i'r Unol Daleithiau, tra yn yr un cyfnod dim ond 12,640 a aeth o Gymru (FitzGerald 1984 : 117-155).

Cytunodd Glanmor Williams gyda Brinley Thomas drwy nodi bod diwydiant wedi arwain at fudo mewnol yng Nghymru. Daeth diwydiant a chyfoeth i Gymru, nid yn unig i'r trefi a ddatblygodd yn bennaf yn sgîl y

Chwyldro Diwydiannol megis Merthyr, Llanelli a Blaenau Ffestiniog ond hefyd i'r hen drefi marchnad a phorthladdoedd. Dywed Glanmor Williams:-

For the first time, there existed a sufficiently large Welsh-speaking urban population and a wide enough margin of prosperity to support flourishing societies and institutions; most important of all to sustain a really vigorous publishing industry for Welsh books and periodicals.

(Williams 1971 : 11)

Atgyfnerthwyd hyn i gyd gan ledaeniad Anghydfurfiaeth, ac unman yn fwy amlwg nag yn yr ardaloedd diwydiannol. Nid oedd yn rhaid i'r Cymry, yn wahanol i'r Gwyddelod a'r Albanwyr, adael eu mamwlad a'u hiaith i sicrhau gwaith, yn enwedig yn y Byd Newydd. Dywed Philip Jones:-

During the eighty or so years after 1800 Welsh rural emigration was diverted to an industrial region within Wales, where it immensely strengthened the fabric of Welsh cultural life in the nineteenth century rather than being dissipated in the alien culture realms of England, America or Australasia.

(Jones 1969 : 93)

Nodwedd ddiddorol o'r symudiadau mudo yn ystod cyfnod y diwydiannu oedd bod nifer o'r bobl a fagwyd yn ardaloedd gwledig Cymru wedi symud i ardaloedd eraill yng Nghymru. Bu lleihad amlwg yn y rhai ddaeth i Forgannwg o siroedd eraill Cymru: 78 y cant yn 1861-1871 o'u cymharu â 33 y cant yn 1901- 1911. Er bod dros hanner yr ymfudwyr (53 y cant) yn parhau i ddod o siroedd eraill Cymru, yn ystod y cyfnod 1891-1901 yr oedd dros dwy rhan o dair (67 y cant) ohonynt yn dod o Loegr. Yng nghydestun dadl Brinley Thomas, mae'n rhaid cydnabod bod hyn yn berthnasol ar gyfer ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg oherwydd gyda datblygiad y diwydiant glo daeth nifer helaeth o'r mewnfudwyr o Loegr.

Lleolwyd y Maes Glo mewn ardal a oedd yn cynnwys siaradwyr Cymraeg ac felly arweiniodd y mewnfudo at gryfhau'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y pentrefi glofaol yn nhermau poblogaethol a diwylliant. Yr oedd Cymry Cymraeg o'r ardaloedd gwledig yn dod â'u diwylliant Cymraeg i'r ardaloedd diwydiannol, ac yr oedd yn bosibl iddynt fagu eu plant mewn awyrgylch Gymraeg. Mynegodd Brinley Thomas bod Cymreictod rhai cymunedau mor amlwg a chadarn nes bod yr ymsefydlwyr Seisnig ynghyd â'r Eidalwyr yn cael eu hasimileiddio a chael gafael ar yr iaith. Mae'n anghytuno gydag honiad David Williams bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu oherwydd y twf naturiol yn y boblogaeth. Yn hytrach mae'n pwysleisio mai diwydiant fu'n gyfrifol am alluogi'r bobl a oedd yn cynrychioli'r cynnydd naturiol hwn i aros yng Nghymru. Oni bai am y cyllid a gynhyrchwyd gan y sector ddiwydiannol mae'n debyg na fyddai wedi bod yn bosibl sefydlu ac ariannu'r sefydliadau cenedlaethol hynny a ystyrir yn bileri'r gymdeithas heddiw, sef Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Genedlathol Cymru. Yr oedd bwrlwm o weithgareddau diwylliannol yn nhrefi a phentrefi de Cymru, a rhoddwyd cefnogaeth aruthrol i'r cyfarfodydd pregethu, cyngherddau ac oratorios, darlithiau ac eisteddfodau a gynhaliwyd yn y Cymoedd (Morgan 1972 : 7-122, Walters : 1997, Williams : 1998).

Nodwedd amlwg o'r mewnfudo yng Nghymru oedd mai i'r ardaloedd glofaol ac nid i'r trefi arfordirol yr oedd y mwyafrif yn dewis ymsefydlu. Yr oedd hyn yn ganlyniad i ddau brif rheswm. Yn sgîl y ffaith bod rhan sylweddol o'r Maes Glo wedi ei leoli yng ngogledd Morgannwg yr oedd y mewnfudwyr o ogledd a chanolbarth Cymru yn cyrraedd y Maes Glo yn gyntaf. Yn ail, bu traddodiad mudo er dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i drefi haearn Morgannwg a leolwyd yn y Maes Glo. Gyda'r pwyslais cynyddol ar y diwydiant glo ynghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg parhaodd yr ardal i ddenu mewnfudwyr Cymreig. Canlyniad hyn oedd bod nifer o gymunedau yn y cymoedd yn Gymraeg eu natur tra bod rhai trefi arfordirol yn fwy Seisnig. Dadleuodd I.G Jones bod ymfudwyr nad oedd yn siaradwyr Cymraeg yn ffafrio 'coastal towns rather than upland valleys [which] helped to preserve relatively undiluted the essential Welsh language basis of the new culture' (Jones 1980:

50). Yn 1891 yr oedd 65 y cant o'r 304,000 yn Ardal Gofrestredig Merthyr Tydful, Pontypridd a Chastell Nedd yn siaradwyr Cymraeg o'i cymharu â 14 y cant o'r 164,000 yn Ardal Gofrestredig Caerdydd. Yn 1891 yr oedd 59 y cant o drigolion Cymru yn siaradwyr Cymraeg, gyda 36 y cant o'r ffigwr hwn wedi eu lleoli ym Morgannwg: 34 y cant mewn siroedd rhannol ddiwydiannol a 30 y cant yn y siroedd gwledig. Dengys y tabl isod sy'n nodi cefndir y mewnfudwyr i sir Forgannwg yn 1891 a 1911 y gwahaniaeth amlwg rhwng yr ardaloedd diwydiannol a'r rhai gwledig:-

Tabl 1.3.2 : Mewnfudwyr yn ystod eu hoes a gyfrifwyd ym Morgannwg yn 1891 a 1911, yn ôl Cenedl ac Ardal Preswylfa.

Cenedl	1891			1911		
	Maes Glo	Eraill	Cyfanswm	Maes Glo	Eraill	Cyfanswm
Cymry	98,569	24,396	122,965	126,169	24,963	151,132
Ddim yn Gymry	71,687	57,597	129,284	141,464	68,033	209,497
Cyfanswm	170,256	81,993	252,249	267,633	92,996	360,629

(Jones 1969: 87-9)

Hyd yn oed mor ddiweddar â'r flwyddyn 1951, yr oedd mwyafrif o'r siaradwyr Cymraeg yn byw yn ardaloedd diwydiannol De Cymru: cyfeiriodd Brinley Thomas at y ffaith bod 54 y cant o'r Cymry Cymraeg yn byw yno. Mae'n bendant ei farn:-

Instead of bemoaning the rural exodus, the Welsh patriot should sing the praises of industrial development . . . The unrighteous Mammon in opening up the coalfields at such a pace unwittingly gave the Welsh language a new lease of life and Welsh Nonconformity a glorious high noon.

(Thomas 1959:192)

Un o'r tueddiadau a welwyd yn yr ardaloedd diwydiannol oedd penderfyniad nifer o Gymry Cymraeg i ddefnyddio'r Saesneg yn hytrach na'i mamiaith yn y cartref. Yn wir, gellir cymharu hyn â'r sefyllfa heddiw yng Nghwm Gwendraeth lle mae nifer o rieni yn penderfynu rhoddi blaenoriaeth i'r Saesneg. Yn y cymunedau diwydiannol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg cysylltwyd Saesneg â statws, datblygiad a chynnydd ac felly gwelwyd nifer o Gymry Cymraeg yn gwneud ymdrech i ddysgu a siarad Saesneg. Dywed Sian Rhiannon Williams:-

Yn y dyddiau cynnar, Saeson oedd y meistri a'r rheolwyr bron i gyd, a'r Saesneg oedd iaith weinyddol y gweithfeydd, ac iaith y byd masnachol yn gyffredinol.

(Williams 1992 : 17)

Datblygodd y syniad o deulu 'Dic Sion Dafydd', a bathwyd y term 'cywilydd iaith' wrth sôn am y bobl hynny oedd yn ymwrthod â'r Gymraeg am ei bod yn ystyried yr iaith yn un israddol (Williams 1992 : 19). Eto, dyrchafwyd rhai Cymry a fedrai'r Saesneg i'r swyddi uchaf ac yn wir bu hyn yn fanteisiol i'r meistri oherwydd y gagendor cymdeithasol a ieithyddol a fodolai rhyngddynt â'i gweithwyr. Er mwyn ceisio dileu'r gagendor hwn cefnogodd y cyflogwyr weithgareddau diwylliannol y capeli Cymraeg ynghyd â'r eisteddfodau lleol erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn 1829 sefydlwyd Cymdeithas y Dynolwyr yn Nant-y-glo a'i bwriad oedd gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yn y byd masnachol. Eto methu a wnaethant a daeth y mwyafrif o'r gymdeithas i dderbyn mai Saesneg oedd iaith masnach a diwydiant. Ni thrafodwyd materion busnes drwy gyfrwng y Gymraeg yn aml iawn (Williams 1992 : 19-21).

Bu cryn feirniadu yn dilyn sylwadau Brinley Thomas ynglŷn ag effaith diwydiant ar yr iaith Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Beirniadwyd Thomas yn bennaf am anwybyddu effaith ymfudo ar yr ardaloedd gwledig. Dywed Colin Williams:-

The pull of urban and industrial employment weakened the demographic base of rural Wales which was so vital to the reproduction of its economic and social order.

(Williams 1990:32)

Gellir dadlau bod gwanhau Cymreictod cefn gwlad Cymru wedi ei orbwysleisio mewn llenyddiaeth a beirniadaeth lenyddol yn ystod y blynyddoedd ar ôl yr Ail Rhyfel Byd. Er bod y mewnlifiad i'r ardaloedd diwydiannol wedi cynnal Cymreictod nifer o gymunedau, ni ellir anwybyddu effaith diwydiant ar gefn gwlad Cymru. Yr oedd datblygiadau diwydiannol yn tanseilio cryfder demograffig yr iaith Gymraeg yn yr ardaloedd gwledig. Pwysleisia Aitchison a Carter gymhlethdod y sefyllfa:-

Paradoxically, [industrialization] both helped to ensure the survival of Welsh and precipitated its further decline.

(Aitchison & Carter 1985: 5-6)

Maent yn pwysleisio bod trefi yn fannau cyfarfod lle mae angen dull cyffredin o gyfathrebu. Yn sgîl hyn daeth Saesneg, a oedd eisoes yn iaith llywodraeth a'r gyfraith, yn iaith masnach a busnes. Canlyniad hyn oedd symud y ffin ieithyddol: 'the frontier of the language, adjudged by the proportion of people speaking it rather than their absolute numbers, was pushed back in the industrial areas in a further major episode of retreat.' (Aitchison & Carter 1985: 5-6).

Beirniadwyd syniadau Brinley Thomas gan Dudley Baines am eu bod yn anghywir i bwysleisio natur unigryw ymfudo yng Nghymru o'i gymharu â gweddill Prydain. Dadleuodd Baines yn 1985 bod ymfudo o ardaloedd gwledig Cymru ar ei uchaf yn ystod wythdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef y cyfnod pan fu ehangu sylweddol ym Maes Glo De Cymru. Yr oedd Baines o'r farn nad oedd y duedd hon yn wahanol i'r hyn a ddigwyddodd yn siroedd dinesig a gwledig Lloegr:-

Consequently, the industrialization of Wales cannot have seriously affected either the rate or the timing of emigration from the Welsh rural counties.

(Baines 1985: 270)

Er bod R.I Aaron yn cydfynd â honiad Brinley Thomas bod yr iaith wedi ei hachub yn sgîl ail-leoli'r boblogaeth, mae'n pwysleisio mai nid fel canlyniad i ddatblygu diwydiannol yn unig y daeth y mewnfudwyr o'r ardaloedd gwledig i Dde Cymru ddiwydiannol. Hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif yr oedd y mwyafrif ohonynt yn Gymry Cymraeg ac ymdoddodd yr ychydig oedd yn ddi-Gymraeg yn gymharol rhwydd. Mae Aaron o'r farn bod ffigurau'r ddegawd 1901-1911 yn adrodd stori tra gwahanol. Dengys y ffigurau am y cyfnod hwn bod mewnfudo o'r tu allan i Gymru yn uchel iawn:-

The linguistic balance was upset and instead of absorbing the English-speaking immigrants the Welsh speakers themselves were in danger of being absorbed. The most significant figure in the 1911 Census Report was not the 50,000 increase in the number speaking Welsh but the decline in the percentage of Welsh speakers in Wales from 49.9 per cent in 1901 to 43.5 per cent in 1911.

(Aaron 1969: 230)

Mewn ymateb i sylwadau Aaron, yr oedd Brinley Thomas yn cydnabod bod lluo o fewnfudwyr Seisnig wedi symud i'r ardaloedd diwydiannol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, a'r ffaith bod sir Fynwy wedi ei Seisnigo erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr hyn sy'n ansicr yn ei farn ef ydyw graddfa'r Cymreictod a sicrhawyd yng Nghymru (ag eithrio sir Fynwy) erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r dylanwad ar ddirywiad yr iaith, ymfudo a'r cynnydd naturiol a ddaeth yn sgîl diwydiant. Lledaenodd dylanwadau Saesneg i'r ardaloedd oedd yn cynnwys niferoedd uchel o Gymry Cymraeg, yn sgîl diwydiant, drwy ardal ddwyieithog a weithredai fel 'buffer zone'

ddiwylliannol. Er y cytuna Brinley Thomas bod rhanbarth ddwyieithog yn bodoli mewn rhai ardaloedd nid yw'n effeithio ar ei safiad:-

Nevertheless it cannot alter the fact that by the middle of the nineteenth century the absolute number of people speaking Welsh had reached a total which would have been impossible if Wales had not had an industrial revolution based on coal, iron, steel, and ample capital resources.

(Thomas 1986 : 15)

1.4 Methodoleg

Yn ystod y traethawd hwn gwneir defnydd o ystod eang o ffynonellau:

1.4.1 Ffynonellau Eilradd (a thraethodau ymchwil)

Cyfeiriwyd eisoes yn y bennod hon, a gwneir hynny hefyd yng ngweddill y traethawd, at weithiau gan haneswyr ac arbenigwyr sosio-ieithyddol. Mae cyhoeddiadau diweddar yn tanlinellu gwerth ymwybyddiaeth o hanesyddiaeth ar gyfer astudiaeth sy'n cyfuno hanes cymdeithasol a ieithyddol. Tan yn gymharol ddiweddar ni roddwyd llawer o sylw gan haneswyr i Gwm Gwendraeth, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf cyhoeddwyd *Hanes Plwyf Llan-non* yn 1984, *Cwm Gwendraeth a Llanelli* yn 1989, *Glofeydd Cwm Gwendraeth* yn 1995, a *Cwm Gwendraeth, Cyfres y Cymoedd* yn 2000. Hefyd, bywgraffiadau, megis *Lewis Tymbl a Tom Nefyn, Portread*; a hanes Rheilffordd Llanelli a'r Mynydd Mawr; capeli unigol megis Bethel a Tabor Cross Hands, a Tabernacl, Cefneithin; a Chlwb Rygbi Pontyberem. Cyfrannwyd erthyglau i gylchgronau megis *Trafodion Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin*, ac *Y Gwendraeth, Trafodion Cymdeithas Hanesyddol Dyffrynnoedd Gwendraeth*. Yn ogystal, bu'r ardal yn destun nifer o draethodau ymchwil gan fyfyrwyr Prifysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn enwedig ers sefydlu Menter Cwm Gwendraeth yn 1991.

1.4.2 Dosbarthu holiaduron

Ym mhenodau 6 a 7 o'r traethawd byddaf yn dadansoddi'r gwaith maes y cynhaliais yng Nghwm Gwendraeth. Yr oedd y gwaith maes yn cynnwys dosbarthu holiaduron i drigolion pentref Cross Hands; rhieni ysgol gynradd y pentref; a disgyblion y ddwy ysgol uwchradd yn yr ardal sef Ysgol Gyfun Maes-yr-Yrfa ac Ysgol y Gwendraeth. Cyflawnwyd y gwaith maes ar sail yr hyn a ystyrir yn fethodoleg ethnograffeg. Fel y dywed Martyn Hammersley a Paul Atkinson:

In recent decades ethnography has become a popular approach to social research, along with other kinds of qualitative work.

(Hammersley & Atkinson 1995 : 1)

1.4.3 Cyfweiliadau dwys

I gyd-fynd â dosbarthu'r holiaduron, yr oedd yn allweddol cynnal cyfweiliadau dwys â nifer o unigolion allweddol fyddai mewn sefyllfa i ddarparu gwybodaeth allweddol am y broses o newid ac adfywiad ieithyddol yng Nghwm Gwendraeth. Yr oedd yn angenrheidiol ystyried yn ofalus pwy fyddai'n gallu darparu'r wybodaeth holl bwysig sef y rhai a ystyrir yn '*gatekeepers*'. Dywed Martyn Hammersley a Paul Atkinson:

By gatekeepers I mean actors with control over key sources and avenues of opportunity . . . The identification of the general class of 'gatekeepers' would then allow us to go on to ask some pertinent questions of a general nature.

(Hammersley & Atkinson 1995 : 34)

Yr oedd yr unigolion a ddewiswyd yn cynnwys rhai a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol yn ddyddiol â'r ymdrech i gynnal yr iaith yn lleol ac yn genedlaethol ynghyd ag arweinwyr lleol sef cynghorwyr sir. Yr oeddynt yn cynrychioli gwahanol lefelau o'r broses o adfywiad ieithyddol ac yr oedd y cyfweiliadau yn fy ngalluogi i sicrhau gwybodaeth allweddol.

Yn ystod 1998 bûm yn cyfweld â Cefin Campbell, Cyfarwyddwr Menter Cwm Gwendraeth ar y pryd; Terry Davies, sydd bellach yn Gynghorydd Sir; y Cyn-Gynghorydd Brin Davies a fu'n cynrychioli pentref Cross Hands ar Gyngor Sir Caerfyrddin; a'r Parchedig Elwyn Jenkins a oedd yn gyn-löwr a wnaeth adael yr ardal ac yna gwasanaethu fel gweinidog ym Mrynaman, Aberystwyth ac yna Llanbedr-Pont-Steffan. Yn sgîl y datblygiadau yn ardal Cwm Gwendraeth ac yn hanes y mentrau iaith yn sir Gaerfyrddin a ledled Cymru, penderfynais y dylid cynnal mwy o gyfweiliadau er mwyn cael diweddariad o'r sefyllfa a chael darlun cyflawn o'r maes. Felly yn ystod 2004, bûm yn cyfweld am yr ail-dro, Cefin Campbell sydd bellach yn Gyfarwyddwr Mentrau Iaith Myrddin a'r Cynghorydd Brin Davies. Yn ogystal, bûm yn cyfweld Deris Williams, Cyfarwyddwr Menter Cwm Gwendraeth, Y Cynghorydd Eirwyn Williams, sy'n cynrychioli ardal etholedig Cynwil Gaeo, am ei gyfrifoldeb am bolisi'r iaith Gymraeg ar Gyngor Sir Caerfyrddin ac sydd hefyd yn Gadeirydd Mentrau Iaith Myrddin, a Bethan Roberts, Arweinydd Uned Datblygu Cymunedol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cyflwynir trawsgrifiadau o'r cyfweiliadau hyn yn Atodiadau 6 a 7 a chofnodwyd yn y rhai a baratowyd ar gyfer y trigolion lleol ddulliau mynegiant llafar sydd yn adlewyrchu tafodiaith Cwm Gwendraeth: tybiaf y gallant fod o ddefnydd hefyd ar gyfer astudiaethau gan arbenigwyr tafodieithol

1.4.4 Y Cyfrifiad

Y brif ffynhonnell sydd ar gael i fesur nifer a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yw'r cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd. Er bod amryw o broblemau wedi codi wrth ystyried canlyniadau'r cyfrifiadau ers hynny, mae'r cyfrifiad yn parhau fel un o'r ffynonellau pwysicaf wrth gofnodi gallu ieithyddol yng Nghymru. Ni ofynnwyd cwestiwn ar yr iaith cyn 1891 ond gwnaed hynny ym mhob cyfrifiad ers y flwyddyn honno. Cyfrifiad 1891 oedd y cyntaf i gynnwys cwestiwn yn gofyn am wybodaeth o'r iaith Gymraeg. Yn sgîl y ffaith bod canlyniadau am unigolion wedi eu rhyddhau, cyflwynir ddadansoddiad manwl o dystiolaeth Cyfrifiad 1891 ym mhlwyf Llan-non ym Mhennod 3 ac o Gyfrifiad 1901 ym Mhennod 4. Mae'r wybodaeth a rhyddhawyd yn ffynhonnell hanesyddol gwerthfawr iawn a oedd yn fy

ngalluogi i ystyried ynghyd â gwybodaeth o'r iaith, gyfansoddiad ieithyddol teuluoedd gan gynnwys trosglwyddiad yr iaith yn y cartref, patrymau mudo i Gwm Gwendraeth yn sgîl datblygiad y gweithfeydd glo a swyddi'r trigolion lleol a'r iaith a siaradwyd yn y gwaith.

Yn y bennod hon byddaf yn ystyried canlyniadau'r cyfrifiadau a gynhaliwyd bob blwyddyn (ag eithrio 1941 pan na chynhaliwyd cyfrifiad) er 1891. Byddaf yn ystyried y canlyniadau ar lefel genedlaethol, sirol ac ar gyfer wardiau yn benodol yng Nghwm Gwendraeth. Mae dwy brif elfen wrth fapio ystadegau'r cyfrifiad a rhaid gwahaniaethu rhyngddynt i osgoi camddealltwriaeth. Y cyntaf yw nifer absoliwt y Cymry Cymraeg fesul ardal, a'r ail yw canran y siaradwyr, eto fesul ardal. Mae defnyddio ystadegau am y nifer absoliwt a'r canran yn arwain at ganlyniadau/fapiau tra gwahanol i'w gilydd. Er enghraifft, yng Nghyfrifiad 2001 nodwyd bod 32,504 yn medru'r Gymraeg yng Nghaerdydd, 28, 938 yn Abertawe a 1,942 yn ward Peblig yn ardal Caernarfon. Eto, ystyrir Peblig fel y ward Cymreiciaf yng Nghymru yn sgîl y ffaith bod 88.0 y cant yn medru'r Gymraeg yno mewn cyferbyniad â 11.0 y cant yng Nghaerdydd a 13.4 y cant yn Abertawe.

Cyfrifiad 1971 oedd y cyntaf i holi am allu siaradwyr Cymraeg i ddarllen ac ysgrifennu'r iaith ynghyd â siarad Cymraeg. Yng Nghyfrifiad 1981, am y tro cyntaf ers 1921, ni chyhoeddwyd ystadegau am yr iaith yn ôl y cymunedau (plwyfi cyn hynny) yng Nghymru. Mae'r cwestiynau cyffredinol a ofynir yn y cyfrifiad yn peri problemau amrywiol. Maent yn cynnwys yr anhawster i fesur pa mor rhugl yw siaradwyr Cymraeg, ni ofynnir am ddealltwriaeth o'r Gymraeg ac ni ellir ystyried plant tair oed yn ddwyieithog. Mae cymharu canlyniadau cyfrifiadau yn anodd oherwydd bod natur y cwestiynau yn newid. Er enghraifft, yr oedd cymharu canlyniadau Cyfrifiad 1981 a 1991 yn anodd oherwydd y penderfyniad i gynnwys yng Nghyfrifiad 1991 'trigolion cartrefi gweigion', megis myfyrwyr, a hepgorwyd yn 1981. Nid oedd Cyfrifiad 1991 yn holi am allu pobl i siarad Saesneg ac felly nid oedd modd ystyried nifer y Cymry uniaith.

Yn ogystal â'r cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd, dros y blynyddoedd defnyddiwyd ffynonellau eraill i fesur nifer y siaradwyr Cymraeg. Yn wir, yr arolwg mwyaf cynhwysfawr heblaw am y cyfrifiad oedd Arolwg Cymdeithasol Cymru a gynhaliwyd rhwng Medi a Rhagfyr 1992 a oedd yn cynnwys 13,000 o dai (*households*) a 27,720 o unigolion. Gofynnwyd cwestiynau mwy manwl o'r defnydd o'r Gymraeg a dywed Higgs, Williams a Dorling :

its main advantage over the Census was its attempt to gauge ability (albeit still based on self-assessment) and provide a measure of competence in the language.

(Higgs, Williams a Darling 2004: 190)

Dangosodd yr arolwg fod 74 y cant o boblogaeth Cwm Gwendraeth yn siarad Cymraeg; y Gymraeg oedd mamiaith 52 y cant o'r boblogaeth; ac yr oedd 86 y cant o siaradwyr Cymraeg yn gallu darllen Cymraeg (Jones & Williams 2000 : 70). Yn drawiadol, dangosodd canlyniadau'r Arolwg bod 21.5 y cant yn siarad Cymraeg o'i gymharu â 18.6 y cant yn ôl tystiolaeth Cyfrifiad 1991. Yn yr un modd, yr oedd canlyniadau Arolwg o'r Gweithlu (*Labour Force Survey*) a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2003 yn dangos bod bron i 30 y cant yn siarad Cymraeg o'i gymharu â 20.8 y cant yng Nghyfrifiad 2001. Er na ddylid diystyru pwysigrwydd y cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd, mae'n amlwg fod angen cynyddu'r data am y Gymraeg. Yn wir, mae *Iaith Pawb* sef cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg yn cydnabod hynny:

Braidd yn gyfyng yw'r ystod o ddata ystadegol ac ymchwil am y Gymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd i wneuthurwyr polisi a chynllunwyr iaith. Mae'r cyfrifiad 10-mlynedd yn darparu gwybodaeth sylfaenol am y niferoedd sy'n medru'r Gymraeg ac mae gwahanol arolygon sampl yn cael eu cynnal o dro i dro, ond mae angen data mwy cynhwysfawr wedi'i dargedu'n well a

mwy rheolaidd er mwyn ein galluogi i weld ac asesu gwir effaith polisiau.

(Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003: 17)

Ers cyhoeddi *Iaith Pawb*, bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymwneud fwyfwy â maes data yn enwedig yn eu dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2001, ac yn ystod 2003, cytunwyd y byddai uwch ystadegydd o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ar secondiad i'r Bwrdd. Yn ystod 2004, cyhoeddwyd y byddai'r Bwrdd yn comisynu tri phrosiect sef arolwg manwl o ddefnydd iaith; dadansoddiad o rwydweithiau pobl ifanc 13-17 oed a sut y gellir cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg; a rhesymau rhai rhieni dwyieithog dros fagu plant uniaith.

1.5 Sefyllfa Cyffredinol y Gymraeg rhwng 1891 a 1991

Yng Nghyfrifiad 1891, cofnodwyd bod 898, 914 sef 54.4 y cant yn siarad Cymraeg. Yr oedd y nifer wedi cynyddu i 929, 824 (49.9 y cant) erbyn Cyfrifiad 1901 ac i 977,366 (43.5 y cant) yn 1911, sef y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd erioed. Mae'n werth ystyried bod 190,300 o siaradwyr uniaith Cymraeg wedi eu cofnodi yng Nghyfrifiad 1911 (Williams 2000: 23). Bu gostyngiad cynyddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yr arwydd cyntaf o leihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg oedd yn y blynyddoedd rhwng y Ddau Ryfel Byd a chyfeiriodd Aitchison a Carter at arwyddocâd hynny:

buan y trawsnewidiwyd cymunedau uniaith yn rhai dwyieithog ym mhob rhan o'r wlad. Yr oedd y tueddiad hwn yn arwyddocaol oherwydd y mae dwyieithrwydd yn amlwg yn gam pendant yn y broses o golli iaith; gellir ei ystyried yn rhywbeth sy'n gyfwerth â chymysgu côd

(Aitchison & Carter 2000: 33)

Gellir dadlau mai un o'r digwyddiadau pwysicaf rhwng y Ddau Rhyfel Byd yng nghyd-destun y Gymraeg a'i diwylliant oedd sefydlu Urdd Gobaith Cymru

gan Ifan ab Owen Edwards yn 1922. Yn arwyddocaol, erbyn diwedd yr Ail Rhyfel Byd, yr oedd y Cymry uniaith Gymraeg bron wedi diflannu. Fel y dengys Tabl 1.5.1, yr oedd y blynyddoedd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf yn rhai tywyll i'r iaith Gymraeg. Cyfeiria Hywel Jones a Colin Williams at arwyddocâd y cyfnod hwn wrth ystyried hanes y Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif:

The period 1921-39 was the crisis-point for Welsh, for a generation was denied the opportunity to learn Welsh. This reflected parental rejection of the language and an unresponsive education system. This powerful combination of forces mirrored the convictions of British imperial values and attitudes that deemed that Welsh was irrelevant in a modernizing world order,
(Jones and Williams 2000: 49-50)

Yn y cyfnod cyn ac ar ôl y Rhyfel, cafodd allfudo ac effeithiau dad-ddiwydiannu ddylanwad amlwg ar y Gymraeg yng nghymunedau Maes Glo De Cymru. Fodd bynnag, nid oedd y tueddiadau hyn wedi effeithio'n sylweddol ar gymunedau y Maes Glo Carreg a oedd yn cynnwys Cwm Gwendraeth. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd yr oedd statws israddol i'r Gymraeg.

Wrth ddadansoddi canlyniadau'r cyfrifiad yng Nghwm Gwendraeth mae'n allweddol bwrw golwg ar y cyd-destun cenedlaethol. Mae Cwm Gwendraeth yn rhan o sir Gaerfyrddin ac mae'r tabl isod yn cofnodi cyfran y siaradwyr Cymraeg yno ac yng ngweddill Cymru rhwng 1901 a 1981:

Tabl 1.5.1 : Medru'r Gymraeg 1901-1981 (%) (Sir cyn 1974)

	1901	1911	1921	1931	1951	1961	1971	1981
Meirionnydd	93.7	90.3	82.1	86.1	75.4	75.9	73.5	68.2
Aberteifi	93.0	89.6	82.1	87.1	79.5	74.8	67.6	63.2
Môn	91.7	88.7	87.4	87.4	79.8	75.5	65.7	61.0
Caerfyrddin	90.4	84.9	82.3	82.3	77.3	75.1	66.0	60.0
Caernarfon	89.6	85.6	79.2	79.2	71.7	68.3	62.0	59.7
Dinbych	61.9	56.7	48.4	48.5	38.5	34.8	28.1	24.2
Trefaldwyn	47.5	44.8	42.3	40.7	35.1	32.3	28.1	24.0
Brycheiniog	45.9	41.5	37.2	37.3	30.3	28.1	22.9	19.3
Penfro	34.4	32.4	30.3	30.6	26.9	24.4	20.7	18.1
Fflint	49.1	42.2	32.7	31.7	21.1	19.0	14.7	13.5
Morgannwg	43.5	38.1	31.6	30.5	20.3	17.2	11.8	10.0
Maesyfed	6.2	5.4	6.3	4.7	4.5	4.5	3.7	5.0
Mynwy	13.0	9.6	6.4	6.0	3.5	3.4	2.1	2.7
Cymru	49.9	43.5	37.1	36.8	28.9	26.0	20.8	18.9

(Aitchison & Carter 2000: 42, 51)

Mae'r gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn amlwg, yn enwedig yng nghadarnleoedd traddodiadol yr iaith yn y gorllewin a'r gogledd.

Ymddangosodd nifer o arolygon ac astudiaethau o safle'r Gymraeg megis 'Lle'r Gymraeg a'r Saesneg yn Ysgolion Cymru' yn 1953. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai un o'r trobwyntiau amlycaf yng nghyd-destun y Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif oedd darlith enwog Saunders Lewis yn 1962 sef

‘Tynged yr Iaith’. Yn y ddarlith honno proffwydodd Lewis dranc yr iaith Gymraeg:

Mi ragdybiaf hefyd y bydd terfyn ar y Gymraeg yn iaith fyw, ond parhau'r tueddiad presennol, tua dechrau'r unfed ganrif ar hugain, a rhoi bod dynion ar gael yn Ynys Prydain y pryd hynny.

(Lewis 1972 : 7)

Yn dilyn y ddarlith ffurfiwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, sydd wedi ymdrechu yn ddygn yn y frwydr i gynnal a hybu'r iaith. Nid oedd canlyniadau Cyfrifiad 1961 yn cadarnhau'n llwyr broffwydoliaethau tywyll Lewis oherwydd ni ellir galw gostyngiad o 2.9 y cant rhwng 1951 a 1961 yn un dramatig. Fodd bynnag, yn ystod y ddegawd ganlynol rhwng 1961 a 1971 bu gostyngiad o 5.2 y cant yng nghanran y siardwyr Cymraeg yng Nghymru a gostyngiad o 9.1 y cant yn sir Gaerfyrddin.

Er bod pryderon am ddyfodol yr iaith wedi eu lleisio yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, yn y chwedegau gwnaed ymdrechion i gryfhau ei safle, yn enwedig ym myd addysg. Eisoes sefydlwyd yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yn Aberystwyth yn 1939, er na ddaeth dan adain yr Awdurdod Addysg Lleol tan 1951. Agorwyd yr ysgol gyntaf gan Awdurdod Addysg Lleol yn Llanelli yn 1947. Yn ogystal, yn 1956 penderfynodd Awdurdod Addysg Sir y Fflint sefydlu'r ysgol uwchradd gyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg, sef Ysgol Glan Clwyd ac yn 1962 agorwyd Rhydfelen, sef yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyntaf ym Morgannwg. Eto, un o'r datblygiadau pwysicaf oedd penderfyniad nifer o rieni, yn enwedig yn ardaloedd poblog y de ddwyrain, i sefydlu ysgolion meithrin Cymraeg. Erbyn 1970, yr oedd oddeutu trigain o ysgolion meithrin ac yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1971 sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin Cymraeg. Yn ystod y bum mlynedd ar hugain ddiwethaf datblygodd y Mudiad ac erbyn 2003 sefydlwyd 586 o grwpiau meithrin a 435 o gylchoedd Ti a Fi ledled Cymru (www.mym.co.uk). Fel y dywed Aitchison a Carter:

These developments embraced the full spectrum of education from nursery school to university and college, and even included provision for Welsh-medium adult education. Together they constituted a combined attempt to restore a key language domain- one that had been all but lost at the turn of the century.

(Aitchison a Carter 1994:44)

Eto er y datblygiadau hyn, ac ymdrechion eraill megis y rhai gan Gymdeithas yr Iaith, gwelwyd sefyllfa'r iaith yn dirywio'n gyflym yn ystod y chwedegau a'r saithdegau. Fel y dengys **Mapiau 3, 4 a 5** yr oedd cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi lleihau'n ddirfawr yn enwedig yn y cadarnleoedd. Yr oedd ffactorau demograffig wedi cyfrannu at hyn. Er nad oedd di-boblogi gwledig wedi effeithio'n uniongyrchol ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg, yr oedd yn gyfrifol am golli bywiogrwydd ieithyddol. Yn y cyfnod 1961-1981 bu cynnydd yn y boblogaeth yn y mwyafrif o ardaloedd gwledig Cymru. Yn ogystal, yr oedd mwyafrif cymunedau gwledig Cymru er 1961 wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y mewnfudwyr, a ddaeth yn bennaf o ddinasoedd Lloegr i sicrhau bywyd tra gwahanol a mwy hamddenol. Mae gwrth-drefoli yn nodwedd gyffredin yn y byd gorllewinol. Yn y gorffennol yr oedd cefn gwlad Cymru a oedd mor ddiarffordd yn amddiffyn yr iaith. Eto nid oes angen amgyffred effaith y mewnlifiad ar Gymreictod cymunedau gwledig Cymru, a daeth effaith mewnfudwyr yn fater llosg yng nghyd-destun yr iaith. Er gwaetha'r gwrth-drefoli yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae diboblogi yn parhau yn nghefn gwlad Cymru. Yn wir yn 1987/1988 symudodd 15,324 i Ddyfed tra fod 10, 354 wedi gadael y sir (Adran Gynllunio Sir Dyfed 1989). Mae **Mapiau 6 a 7** yn adlewyrchu canlyniadau Cyfrifiadau 1981 a 1991 yn Nyfed. Yr hyn sy'n allweddol i'w gofio wrth ystyried effaith y mewnfudwyr ar yr iaith yw eu bod yn 'cuddio' y niferoedd o bobl ifanc sy'n mudo o'r cadarnleoedd traddodiadol. Mewn erthygl yn *Barn* yn 2001, cyfeiria Gwion Owain at y broses o drefoli:

Os yw gwrth-drefoli yn ffenomen mewn cymdeithasau ôl-ddiwydiannol yna mae proses o drefoli yn dal i ddigwydd i raddau yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Mae hyn yn creu bygythiad yn arbennig yn yr ardaloedd lle mae hygrychedd gwaith a gwasanaethau yn broblem.

(Owain 2001: 28)

Felly, er y dirywiad amlwg yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod y chwedegau a dechrau'r saithdegau, yr oedd ymdrechion amlwg i adfer yr iaith. Fel y dywed Aitchison a Carter yr oedd datblygiadau pwysig yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn:

Yr oedd newidiadau mawr ar droed yn economi Cymru. Yr oedd ail-lunio sylfaenol yn digwydd ym myd amaeth a diboblogi yn parhau. Yn ogystal, yr oedd y proses o drawsnewid diwydiannol llwyr, a fyddai'n nodweddu'r 1980au, ar fin dechrau.

(Aitchison & Carter 2000: 59-60)

Rhwng 1971 a 1981 gwelwyd parhad yng ngostyngiad nifer y siaradwyr Cymraeg ond ar raddfa dipyn llai (**Map 8**). Eto yr oedd y gwahaniaeth ym mhatrwm cyfrannedd y siaradwyr Cymraeg yn drawiadol ac argyfyngus. Dengys mapiau Aitchison a Carter y lleihad sylweddol yn y cymunedau hynny lle'r oedd dros 80 y cant yn medru'r Gymraeg. Yn 1981 yr oedd 66 o'r rhain o'u cymharu â 279 yn 1961. Yr oeddent yn cynrychioli 9.7 y cant o arwynebedd cyfan Cymru yn hytrach na 36.8 y cant yn 1961, er i'r Cymry Cymraeg gynrychioli'r mwyafrif mewn 364 cymuned, sef 47 y cant o arwynebedd cyfan Cymru (Aitchison & Carter 1994:52).

Yr oedd Cyfrifiad 1991 (**Map 9**) yn cadarnhau proffwydoliaeth Aitchison a Carter ynglŷn â dirywiad parhaus y Gymraeg tan 2001, ond y byddai wedyn ychwanegiad sylweddol yn nifer y Cymry Cymraeg. Yr oeddent o'r farn y byddai cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd poblog dwyreiniol megis Caerdydd a'r cyffiniau, Casnewydd, Yr Wyddgrug, a

Llandrindod. Ar y llaw arall, yr oeddynt yn proffwydo dyfodol llai sicr i'r iaith yn y cadarnleoedd traddodiadol, gyda cholledion posib mewn rhai ardaloedd. Yn eu plith fyddai rhannau o'r ardaloedd gwledig ac yn enwedig ardaloedd diwydiannol Gorllewin Morgannwg a de-ddwyrain Dyfed sy'n cynnwys niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Yr oedd cyfran y siaradwyr Cymraeg bellach yn 18.6 y cant o'i gymharu â 18.9 y cant yn 1981. Yn naturiol, mae colled o 0.3 y cant yn unig i'w groesawu wrth ystyried y lleihad o 6.2 y cant rhwng 1961 a 1971 a 1.9 y cant yn y cyfnod 1971-1981.

Mae'n bosibl mai'r datblygiad mwyaf trawiadol erbyn wythdegau a nawdegau'r ugeinfed ganrif ac wedi hynny yw'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg gan bobl ifanc. Hyd at yn ddiweddar, tybiwyd mai iaith y genhedlaeth hŷn oedd y Gymraeg yn gyffredinol. Fodd bynnag, trawsnewidiwyd y sefyllfa gyda datblygiad y Gymraeg o fewn y sector addysg yn enwedig penderfyniad rhieni i ddewis addysg ddwyieithog i'w plant. Yr oedd y tueddiadau hyn yn fwyaf amlwg yn y de-ddwyrain. Yn ogystal, fel yr amlinellir yn Neddf Addysg 1988 mae'r Gymraeg yn cael ei ystyried fel pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn orfodol i bob disgybl yng Nghymru. Felly, mae pob disgybl yn astudio'r Gymraeg naill ai fel iaith gyntaf neu ail iaith am 11 mlynedd o 5 i 16 oed. Er bod gofid gan rhai beirniaid am safon dysgu'r Gymraeg yn enwedig yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg ni ddylid anwybyddu'r ffaith bod y rhan helaethaf o ddisgyblion Cymru wedi astudio'r Gymraeg am 11 mlynedd ac felly dylai pawb fod â pheth dealltwriaeth o'r iaith.

Yn 1991 cyflwynwyd ystadegau ar gyfer y cymunedau canlynol yng Nghwm Gwendraeth:-

Tabl 1.5.2 : Nifer a Chanran yn siarad Cymraeg yng Nghwm Gwendraeth, Cyfrifiad 1991

	Nifer	%
Cross Hands	1,086	80.4
Cydweli	1,831	59.7
Glyn	1,438	73.2
Pontyberem	2,162	80.5
Trimsaran	1,667	64.2
Y Tymbl	2,770	78.0
Gors-las	2,602	78.4

(Lluniwyd y tabl uchod ar sail yr ystadegau a welir yn Aitchison & Carter 1994:121)

Felly drwy ddefnyddio'r data ar gyfer y cymunedau uchod ar sail Cyfrifiad 1991, gellir dweud fod 13,567 neu 73.5 y cant o boblogaeth y cymunedau uchod yng Nghwm Gwendraeth yn medru'r Gymraeg. Serch hynny, rhaid ychwanegu nad dyma cyfanswm Cymry Cymraeg y Cwm. O'r tabl uchod gwelir mai'r Tymbl sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghwm Gwendraeth yn ôl Cyfrifiad 1991. Ond wrth ddadansoddi'r canrannau gwelir mai ym Mhontyberem a Cross Hands y mae'r Gymraeg ar ei chryfaf, a'r ganran isaf yng Nghydweli. Mae ffiniau Cwm Gwendraeth yn annelwig ac mae hyn yn gyfrifol am yr ystadegau amrywiol a gyflwynir yn y gwahanol adroddiadau.

Mae ystadegau a gasglwyd gan Adran Gynllunio'r hen Sir Ddyfed, sy'n seiliedig ar y 'Small Area Statistics' ar gyfer 1991 yn dangos mai nifer y Cymry Cymraeg yng Nghwm Gwendraeth yw 19,484, sef 71.5 y cant o'r

boblogaeth. Yr oedd 84.5 y cant ohonynt yn medru darllen Cymraeg, 76.8 y cant yn gallu ysgrifennu Cymraeg a 75.8 y cant yn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae'r ystadegau hyn yn uwch na'r rhai cyfatebol yng Ngorllewin Morgannwg sef 57.7 y cant o'r Cymry Cymraeg yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith. Maent yn uwch hefyd na chyfartaledd Dyfed, sef 72.9 y cant ond eto yn is na chyfartaledd Cymry Cymraeg Gwynedd, sef bron i 83 y cant yn medru darllen ac ysgrifennu'r iaith yn 1991. Wrth ystyried canran llythrennedd siaradwyr Cymraeg yng ngorllewin Morgannwg cyfeiriodd Heini Gruffydd at sylwadau cyffredinol Aitchison a Carter, a Fishman:-

Mae gwendid llythrennedd . . . yn arwydd o ddirywiad
ieithyddol yn y dyfodol

(Gruffudd 1996 : 40)

1.6 Arolygon Pentrefi

Yn lleol, cynhaliwyd arolygon pentrefi manwl fel rhan o waith cymunedol Menter Cwm Gwendraeth ac ynddynt yr oedd gwybodaeth am allu ieithyddol y pentrefwyr. Cyflwynwyd ystadegau manwl am nifer o bentrefi'r Cwm, ar sail cwestiynau, gan gynnwys rhai yn ymwneud â faint o gartrefi, ac unigolion a atebodd yr holiaduron a ddosbarthwyd; pa mor hir yr oedd yr atebwyr wedi byw yn y pentrefi; cyflogaeth; addysg a chysylltiad ag addoldai. O ddiddordeb arbennig y mae'r atebion am lefelau ieithyddol nifer o gymunedau'r Cwm, a hefyd faint o'r ffurflenni dwyieithog a ddosbarthwyd a ddychwelwyd wedi eu llenwi yn y Gymraeg. Saesneg oedd iaith y mwyafrif, a chyfartaledd y rhai a ddefnyddiodd y Gymraeg yn amrywio o 48.1 y cant ym Mancffosfelen i 15.5 y cant ym Mhontyberem, gyda 36 y cant yn Nre-fach, 24.2 y cant yng Nghefnethin, a 23.9 y cant ym Mhont-henri.

Cyflwynir manylion am niferoedd yr ymatebwyr, siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, siaradwyr Cymraeg ail iaith, dysgwyr pan yn oedolion, ac yna faint oedd ddim yn deall llawer o'r iaith Gymraeg ac yn olaf faint oedd yn deall dim o gwbl o'r iaith. O'r pentrefi a archwiliwyd, a lle holwyd y cwestiynau hyn, y rhai gyda'r mwyaf o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf oedd Pontyberem a Dre-

fach, gyda 71 y cant o'r ymatebwyr. Yn y ddau bentref yr oedd 3 y cant yn ddysgwyr tra'n oedolion, a 5 y cant heb wybodaeth o gwbl o'r iaith. Yr unig wahaniaeth rhyngddynt oedd fod 12 y cant o ymatebwyr Pontyberem yn siaradwyr Cymraeg ail-iaith, a 10 y cant heb fod yn deall llawer, tra'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Dre-fach oedd 11 y cant ar gyfer y ddau ymateb. Ym Mhont-henri yr oedd 68 y cant o'r ymatebwyr yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf; ym Mancffosfelen a Chefneithin 64 y cant ac ar gyrion Cwm Gwendraeth yr oedd 62 y cant yn siaradwyr Cymraeg ym Meinciau; 61 y cant ym Mhorthyrhyd a 58 y cant yn Llanddarog. Yr oedd canrannau y dysgwyr pan yn oedolion yn y pentrefi hyn i gyd yn 3 y cant ar wahân i 2 y cant ym Mhontyberem, Cefneithin a Phorthyrhyd. Y mae'n ddiddorol nodi, gan ystyried y drafodaeth ar effaith mudo ar bentref Carwe, mai canran y siaradwyr Cymraeg iaith cyntaf yno ar sail yr arolwg pentref oedd 38 y cant.

Gofynnwyd cwestiynau ychydig yn wahanol yng Nghors-las a Thrimaran. Yng Nghors-las, yr oedd 59 y cant yn siaradwyr Cymraeg rhugl; 22 y cant o safon gweddol; 12 y cant bron yn medru'r Gymraeg; a 7 y cant heb unrhyw wybodaeth. Yn Thrimaran, yr oedd 57 y cant yn siaradwyr Cymraeg rhugl; 18 y cant yn gwybod ychydig o ymadroddion; 14 y cant yn dweud fod ei Saesneg yn well na'i Cymraeg; a 11 y cant heb ddeall Cymraeg o gwbl. Ymhlith y siaradwyr Cymraeg, yr oedd 68 y cant yn siarad Cymraeg y tu fewn i'w teuluoedd, a 65 y cant gyda'u ffrindiau. Siaradai eraill yr iaith gyda'u plant (53 y cant), neu mewn dafarn neu glwb (41 y cant). Lleiafrif a siaradai'r iaith tra'n siopa, yn y gweithle neu mewn addoldy (36 y cant, 35 y cant a 27 y cant). Gwnaed y defnydd mwyaf pan yn ysgrifennu'r iaith ar gardiau penblwydd (94 y cant), llythyr i gyfaill (52 y cant) neu wrth ysgrifennu siec (47 y cant). Serch hynny, yr oedd diffyg hyder ynglŷn ag ysgrifennu'r iaith. Yr oedd 88 y cant yn hyderus o'i galluoedd ysgrifennu, 81 y cant yn deall yr iaith, 64 y cant yn darllen yr iaith, a dim ond 46 y cant yn hyderus i ysgrifennu'r Gymraeg.

Ychydig o'r ymatebwyr a fynychai ddisbarthiadau nos, a'r canran cyffredinol yn y Cwm oedd 6 y cant Eto, yr oedd un awgrym gobeithiol i'r Gymraeg yn y nifer a fynegodd ddidordeb mewn mynychu dosbarthiadau petai

rhai yn cael eu cynnig. Y tri phwnc mwyaf poblogaidd oedd cyfrifiaduron, hanes lleol ac yna gwersi Cymraeg, gyda 24 y cant yn mynegi diddordeb mewn astudio'r pwnc ym Mancffosfelen a Thrimsaran.

1.7 Cyfrifiad 2001

Cyfrifad 2001 oedd y cyntaf ers bron i ganrif oedd yn cofnodi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Dengys Cyfrifad 2001 bod 582,400 sef 20.8 y cant yn gallu siarad Cymraeg. Yr oedd hyn yn cymharu â 508, 100 (18.7 y cant) yn 1991 a 503, 500 (19.0 y cant) yn 1981 (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk). Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod cymharu ffigyrau 1991 a 2001 yn anodd oherwydd gofynnwyd cwestiynau ychydig yn wahanol : 'A ydych yn siarad Cymraeg' yng Nghyfrifad 1991 ac 'A ydych yn gallu siarad Cymraeg' yng Nghyfrifiad 2001.

Tabl 1.7.1 : Canlyniadau Cyfrifad 2001 (3 oed a throsodd)

Awdurdod lleol	Yn siarad Cymraeg		Yn gallu siarad Cymraeg		Newid	
	1991		2001		Newid	
	Nifer ¹	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Pwyntiau canran
Ynys Môn	41,239	62.0	38,893	60.1	-2,346	-1.9
Gwynedd	78,732	72.1	77,846	69.0	-886	-3.1
Conwy	31,444	30.6	31,298	29.4	-146	-1.2
Sir Ddinbych	23,293	26.7	23,760	26.4	467	-0.3
Sir y Fflint	18,405	13.5	20,599	14.4	2,194	0.8
Wrecsam	15,985	13.7	18,105	14.6	2,120	0.9
Powys	23,589	20.5	25,814	21.1	2,225	0.5
Ceredigion	36,027	59.1	37,918	52.0	1,891	-7.1
Sir Benfro	19,754	18.3	23,967	21.8	4,213	3.4
Sir Gaerfyrddin	89,221	54.9	84,196	50.3	-5,025	-4.5
Abertawe	28,549	13.3	28,938	13.4	389	0.1
Castell-nedd Port Talbot	23,710	17.8	23,404	18.0	-306	0.2
Pen-y-bont ar Ogwr	10,161	8.3	13,397	10.8	3,236	2.5
Bro Morgannwg	7,752	6.9	12,994	11.3	5,242	4.4
Rhondda; Cynon; Taf	20,038	9.0	27,946	12.5	7,908	3.5
Merthyr Tudful	4,238	7.5	5,532	10.2	1,294	2.7
Caerffili	9,710	6.0	18,237	11.2	8,527	5.2
Blaenau Gwent	1,522	2.2	6,417	9.5	4,895	7.3
Tor-faen	2,126	2.5	9,780	11.1	7,654	8.7
Sir Fynwy	1,634	2.1	7,688	9.3	6,054	7.2
Casnewydd	2,878	2.3	13,135	10.0	10,257	7.7
Caerdydd	18,089	6.6	32,504	11.0	14,415	4.4
Cymru	508,098	18.7	582,368	20.8	74,270	2.1

¹ Amcangyfrifon ar gyfer yr awdurdodau unigol

(www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

Fel y dengys y tabl uchod, sir Gaerfyrddin oedd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg ond yno hefyd y bu'r gostyngiad mwyaf yn nifer y siaradwyr. Bu'r cynnydd mwyaf yng nghanran siaradwyr Cymraeg yn neddwyrain Cymru megis yn Nhorfaen, Casnewydd a Blaenau Gwent. Yng Nghaerdydd y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg. Adlewyrchir y tueddiadau hyn ar **Fap 10**. Mae'r cynnydd yn enwedig ymhlith yr ifanc yn ganlyniad yn bennaf i ddatblygiad addysg Gymraeg. Fodd bynnag, er bod canlyniadau'r cyfrifiad yng nghadarnleoedd traddodiadol yr iaith yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi parhau'n weddol gyson, bu gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. Yn wir, yng Ngheredigion y gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. Gellir priodoli hyn i newidiadau demograffig gyda mewnfudiad siaradwyr di-Gymraeg ac allfudiad siaradwyr Cymraeg ifanc. Cyfeiriodd y Cyngorydd Eirwyn Williams at ganlyniadau cymysg Cyfrifiad 2001 yn sir Gaerfyrddin:

Troi negatif yn bositif efallai. Yr oeddwn ychydig yn siomedig gan mod i'n disgwyl y byddai rhagor o bobl yn siarad Cymraeg. Ond mae yna gynnydd yn digwydd yn yr oedran 11-15 oed 'rwy'n meddwl. Fy nghofid mawr i yw'r diffyg trosglwyddiad iaith lle mae un rhiant efallai yn siarad Cymraeg, mae yna ddiffyg pryderus i'r cyfeiriad hynny. Drwy'r mentrau iaith yr ydym yn bwriadu nid yn unig edrych ar y sefyllfa ond gwneud rhywbeth yn ei gylch

(Atodiad 7.3 : C11

Mae Tabl 1.7.2 yn cynnwys ystadegau am sgiliau eraill yn y Gymraeg a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2001 gan gynnwys sgiliau darllen ac ysgrifennu. Mae **Map 11** yn arddangos tueddiadau siaradwyr Cymraeg wrth ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg ar sail canlyniadau Cyfrifiad 2001. Bydd ffigurau am y sgiliau hyn ar gyfer wardiau Cwm Gwendraeth ar sail tystiolaeth Cyfrifiad 2001 yn ymddangos ym Mhennod 6.

Tabl 1.7.2: Sgiliau Eraill yn y Gymraeg (3 oed a throsodd)

Sgiliau	Nifer	Canran
Deall Cymraeg llafar	661,526	23.6
Gallu Darllen Cymraeg	567,152	20.2
Gallu Ysgrifennu Cymraeg	495,519	17.7
Gallu Siarad, Darllen ac Ysgrifennu Cymraeg	457,946	16.3
Deall Cymraeg llafar yn unig	138,416	4.9
Gyda o leiaf un gallu yn y Gymraeg	797,717	28.4
Heb unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg	2,007,984	71.6

(www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

Mae tabl 1.7.3 yn cadarnhau canlyniadau Cyfrifiad 2001 ar gyfer wardiau Cwm Gwendraeth. Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith bod cymharu canlyniadau Cyfrifiadau 1991 a 2001 yn anodd oherwydd natur y cwestiynau a ofynwyd. Yn achos Cwm Gwendraeth mae hynny hyd yn oed yn anoddach oherwydd newid ffiniau y wardiau a gofnodwyd. Er enghraifft, yn 1991 cofnodwyd canlyniadau ar gyfer Cross Hands ond erbyn 2001 yr oedd canlyniadau'r pentref wedi eu hymgorffori yn rhai Llan-non. Ar sail canlyniadau'r tabl isod gellir dweud fod 18,799 yn siarad Cymraeg sef 64.95 y cant o'r boblogaeth 3 oed a throsodd yng Nghwm Gwendraeth.

Tabl 1.7.3 Canlyniadau Cyfrifiad 2001 yng Nghwm Gwendraeth

Ward	Grŵp Oedran	Cyfanswm Poblogaeth	Nifer yn gallu siarad Cymraeg	Canran yn gallu siarad Cymraeg
Glyn	3 oed a throsodd	1973	1301	65.9
Glyn	10-14	143	124	86.7
Glyn	25-39	332	193	58.1
Glyn	75 oed a throsodd	173	130	75.1
Gors-las	3 oed a throsodd	3624	2558	70.6
Gors-las	10-14	231	196	84.8
Gors-las	25-39	717	441	61.5
Gors-las	75 oed a throsodd	375	298	79.5
Cydweli	3 oed a throsodd	3183	1623	51.0
Cydweli	10-14	226	125	55.3
Cydweli	25-39	604	234	38.7
Cydweli	75 oed a throsodd	295	189	64.1
Llan-non	3 oed a throsodd	4839	3450	71.3
Llan-non	10-14	334	279	83.5
Llan-non	25-39	927	587	63.3
Llan-non	75 oed a throsodd	416	345	82.9

Pontyberem	3 oed a throsodd	2719	2000	73.6
Pontyberem	10-14	192	174	90.6
Pontyberem	25-39	543	352	64.8
Pontyberem	75 oed a throsodd	250	208	83.2
Trimsaran	3 oed a throsodd	2461	1409	57.3
Trimsaran	10-14	186	128	68.8
Trimsaran	25-39	479	221	46.1
Trimsaran	75 oed a throsodd	182	123	67.6

(www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

Mae **Mapiau 12, 13, 14 a 15** yn adlewyrchu canlyniadau Cyfrifiad 2001 yn sir Gaerfyrddin.

1.8 Y Cysyniad o'r 'Fro Gymraeg'.

Ystyrir Cwm Gwendraeth yn rhan o'r 'Gymru Gymraeg', gyda Harold Carter yn cyfeirio at ymylon dwyreiniol Dyfed sef yr ardal sy'n cefnu ar Lanelli (Carter 1994:8.). Yng Nghyfrifiad 1991, heblaw am Bontyberem a Cross Hands yng Nghwm Gwendraeth, dim ond cymunedau Brynaman a Llynfell oedd â dros 80 y cant yn medru'r Gymraeg yn Nyfed. Wrth ystyried yr ardal yng nghyd-destun cenedlaethol mae'n werth nodi mai deuddeg cymuned yn Arfon, wyth yn Nwyfor a phedair yn Môn oedd yr unig unedau eraill a oedd yn cynnwys dros 80 y cant o Gymry Cymraeg yn 1991 Yn draddodiadol cydnabyddir ardaloedd gwledig gogledd a gorllewin Cymru yn gadarnleoedd yr iaith a elwir yn fynych yn 'Y Fro Gymraeg'. Nid oes ffiniau penodedig i'r 'Fro Gymraeg', ond yn gyffredinol mae'n cynnwys ardaloedd gyda dros 70 y cant neu 80 y cant yn siarad yr iaith Gymraeg. Yn 1901, gellid ystyried cadarnle'r iaith yn yr ardaloedd hynny a oedd â 90 y cant yn medru'r Gymraeg. Serch

hynny, erbyn 1991 bu'n rhaid gostwng y ganran i 50 y cant i ddiffinio'r 'cadarnle' gyda'r un hyder. Mae diffinio 'cadarnle' yn y modd hyn yn peri problemau oherwydd ar fap gwahaniaethir rhwng ardaloedd sydd â dyweder 69 y cant yn medru'r iaith a'r rhai hynny sydd â 70 y cant. Yn wir, dadleuodd J.E. Ambrose a C.H. Williams yn 1981 nad yw'r iaith yn sicr o fod yn ddiogel yn yr ardaloedd hynny lle mae dros 80 y cant yn siarad yr iaith ac nid yw'n sicr o ddiflannu lle mai dim ond 10 y cant sy'n siarad yr iaith.

Dangosodd D T Williams (1937) a J G Thomas (1956) fod y ffin ieithyddol yn symud yn raddol tua'r gorllewin (**Map 16**). Yn 1961 dywedodd Jones a Griffiths: *the distribution emphasizes that there is predominantly Welsh Wales, fairly sharply divided from a highly anglicized area and yielding territorially only reluctantly to the small, peripheral advances of the latter* (Jones & Griffiths 1963:195). Dyma'r sefyllfa oedd yn sail i'r syniad poblogaidd o'r 'Fro Gymraeg' a ddeilliodd o ddarlith radio enwog Saunders Lewis 'Tynged yr Iaith' (Lewis 1972). Er na chyfeiriodd Saunders Lewis at 'Y Fro Gymraeg' cydnabyddir yn gyffredinol mai ef oedd yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'r syniad. Yn ogystal, deilliodd y syniad o ffynhonnell academiaidd. Yn 1959, dadleuodd E.G Bowen, er nad oes llawer o undod daearyddol yng Nghymru, yr oedd yna ardaloedd yn ffurfio undod diwylliannol ac ieithyddol (Bowen 1959 : 1-24).

Credai Mudiad Adfer nad oedd llawer o ddyfodol i'r iaith a'i diwylliant y tu allan i'r Fro Gymraeg. Mudiad Adfer oedd yn gyfrifol am boblogeiddio'r syniad o'r 'Fro Gymraeg' drwy ddadlau y dylid canolbwyntio'r ymdrechion i ddiogelu'r iaith yn y gorllewin yn hytrach nag yn ardaloedd mwy Seisnig Cymru. Ystyrir trefi yn ganolfannau sy'n cyflwyno syniadau estron mewn cyferbyniad â'r ardaloedd gwledig sef cadarnleoedd y diwylliant Cymreig. Yn sgîl dirywiad y cymunedau Cymraeg ar ddiwedd y chwedegau dadleuodd Emyr Llywelyn mai *amod cyntaf achub y Gymraeg yw arbed cyfartaledd y siaradwyr Cymraeg yn siroedd y Gorllewin rhag mynd yn is* (Llywelyn 1970:22). Pwysleisiodd eraill megis Phil Williams a Cynog Dafis werth cynnal y bröydd Cymraeg.

Yn ddi-os, un o'r cyhoeddiadau amlycaf a ymddangosodd yng nghydestun y drafodaeth ar y 'Fro Gymraeg' oedd *Adfer a'r Fro Gymraeg* gan Emyr Llywelyn yn 1976. Bu cryn ymateb i'r gyfrol yn bennaf oherwydd ei chynnwys eithafol. Pwysleisiodd Emyr Llywelyn mai ofer fyddai ceisio ad-ennill y Cymry Cymraeg ac achub y Cymry Cymraeg os nad oedd yr amodau perthnasol yn bodoli i allu byw'n llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr oedd o'r farn bod gan y Cymry Cymraeg dri dewis, sef derbyn y sefyllfa fel ag yr oedd; protestio fel ag y gwnaeth Cymdeithas yr Iaith; neu droi cefn a chreu amgylchfyd newydd. Mae'n rhoi cryn sylw i'r tir yn y gorllewin sy'n eiddo i'r Cymry Cymraeg ond sydd bellach wedi ei feddiannu gan fewnfudwyr:

Bellach, prin fod tir ar ôl i ni wneud ein safiad olaf arno. Ein tir a anrhaethir yn ein gŵydd: o flaen ein llygaid dietifeddir ni.

(Llywelyn 1977 : 13)

Yn sgîl yr holl fewnfudo i'r gorllewin honodd nad oedd Cymru'n bod bellach ond mewn enw. Ceir y syniad fod gan yr awdur rhyw ymdeimlad emosiynol â'r tir yn y gorllewin a'r Cymry Cymraeg fydd berchen y tir hynny am byth. Mae'n nodi'r berthynas unigryw sydd rhwng cenedl â thir. Cyfeiriodd at y modd y bu tir yn bwysig i genhedloedd eraill megis Israel drwy rhoddi hyder iddynt.

Dadl sylfaenol Emyr Llywelyn oedd fod y Cymry Cymraeg wedi eu gwasgaru ledled Cymry a phetaent yn dychwelyd i'r gorllewin byddai eu hymdrechion yn cael eu sianelu i'r un cyfeiriad. Yn ei farn ef yr oedd Cymry Cymraeg yn gwastraffu eu hadnoddau wrth frwydro dros yr iaith ledled Cymru. Credai mai amhosib fyddai achub y Gymraeg y tu allan i'r Fro ac mai dyma gamgymeriad Cymdeithas yr Iaith. Ar y llaw arall credai y gellid adfer y Gymraeg yn siroedd y gorllewin o fewn ugain mlynedd. Wrth wrthod yr honiad y gellir Cymreigio Caerdydd neu Abertawe mewn cyfnod byr mae'n diystyru'r gymhariaeth gyda'r Hebraeg yn Israel drwy nodi bod y sefyllfa'n hollol wahanol yn y ddwy wlad:

Y rheswm y llwyddodd yr Israeliaid oedd am eu bod yn angori ac yn gwreiddio y dychweledigion mewn cymdeithas fyw 'run pryd a dysgu'r iaith iddynt.

(Llywelyn 1977 : 74)

Eto, cyfeiriodd at Israel fel enghraifft i Gymru o genedl a orosodd heb dir na llywodraeth a bydd trafodaeth ar yr Hebraeg ym Mhennod 2. Yn ogystal, credai y dylai Cymru fabwysiadu symbol tebyg i'r Talmud sydd gan Israel a fyddai'n dilyn rheolau megis peidio siarad Saesneg. Y proclamaswn y mae'n ei gyhoeddi yw argymhell sefydlu y Cyfamodwyr Cymreig.

Yn ogystal â'r alwad i Gymry Cymraeg wladychu i'r gorllewin mae Emyr Llywelyn yn rhoi cryn sylw i'r iaith Gymraeg ac mae'n haeru na ellir bod yn Gymro heb wybodaeth o'r iaith. Mae'n dadlau bod y rhai sy'n byw y tu allan i'r Fro yn debyg i'r Iddew yn y *Diaspora*. Eto, nid yw o'r farn fod ei syniadau yn bradychu'r di-Gymraeg ac mae dyfodol y Gymraeg a'r 'Fro Gymraeg' yn berthnasol i bawb yng Nghymru. Nid yw Emyr Llywelyn o'r farn fod pleidiau seneddol, hyd yn oed Plaid Cymru yn mynd i wella'r sefyllfa. Mae'n feirniadol iawn o Blaid Cymru am wneud defnydd o'r iaith Saesneg ac mae'n eironig yn ei farn ef mai yn ystod llywyddiaeth Saunders Lewis y bu i'r Blaid 'fynd ar gyfeiliorn'. Yn ogystal, mae o'r farn nad yw protestiadau Cymdeithas yr Iaith yn debygol o ennyn llwyddiant er iddynt rhoi carthasis i'r unigolyn, ac er iddo ef fod yn gysylltiedig â'r protestiadau hyn. Mae brogarwch yn bwysg iawn i Emyr Llywelyn ac mae'n sylweddoli ei bwysigrwydd yn nyfodol yr iaith ac mae'n awyddus i'w hadfer. Yn wir, mae o'r farn mai 'Bro' yw'r gair gorau i ddisgrifio'r hyn mae Adfer yn ei gynrychioli:

Nid darn o dir yn unig yw Bro, ond cwlwm cymdeithas. Dyma fy nghri, dyma fy llef-cymdeithas.

(Llywelyn 1977 : 87)

Bu cryn ymateb yn dilyn cyhoeddi cyfrol Emyr Llywelyn. Mae'n debyg mai adolygiad R Tudur Jones yn *Tafod y Ddraig* yn 1977 dan y pennawd

‘Cysgod y Swastika’ a ysgogodd fwyaf o drafodaeth. Yr oedd geiriau agoriadol yr adolygiad ‘Mae hwn yn llyfr rhyfedd a brawychus iawn’ (Jones 1977:10) yn rhoi braslun i’r darllenwyr o’r hyn sy’n dilyn. Yr oedd R Tudur Jones o’r farn fod *Adfer a’r Fro Gymraeg* yn adlais o syniadau athronwyr Ewropeaidd megis y Ffrancwr, Comte a’r Almaenwr, Alfred Rosenberg. Dywedodd bod dadl Emyr Llywelyn yn atseinio’r Natsiaid er ei fod yn gwahaniaethu ychydig o’r meddylfryd Natsiaidd am nad oedd yn pwysleisio hil. Serch hynny, yr oedd ei honiad mai dim ond ymhlith gwerin cefn-gwlad y canfyddid diwylliant Cymraeg yn ei atgoffa o’r Ffasgwyr. Yr oedd R Tudur Jones yn gweld tebygrwydd rhwng penderfyniad y Drydedd Reich i ddanfôn plant ysgol i dreulio rhai misoedd ar y ffermydd yn y broydd gwir Ellmynaidd â galwad Emyr Llywelyn i bobl symud o’r dinasoedd yng Nghymru i gefn gwlad. Ym marn R Tudur Jones, nid oedd gwahaniaeth rhwng syniadau Joseph Goebbels, pennaeth Gweinyddiaeth Bropaganda’r Almaen a fynegodd y syniadau uchod â rhai Emyr Llywelyn yn *Adfer a’r Fro Gymraeg*.

Nid oedd yn syndod i nifer ymateb yn chwyrn i adolygiad R Tudur Jones ac yn eu plith yr oedd Ieuan Wyn, Siân Wyn Siencyn ynghyd ag Emyr Llywelyn ei hun a gyhoeddodd bamffled yn ymateb i’r cyhuddiadau. Mae’n debyg mai’r hyn a gythruddodd hwy fwyaf yn adolygiad R Tudur Jones oedd y tebygrwydd a welai rhwng syniadau mudiad Adfer â’r Natsiaid (Wyn 1977 : 14). Ym marn Ieuan Wyn, nid yw’r cenedlaetholdeb a fynegwyd gan Emyr Llywelyn yn wahanol i’r hyn a goleddwyd gan yr Iddew, Zimmern a Chymry megis Waldo Williams, O.M Edwards a D.J Williams. Yn yr un modd mae’n diystyru’r cysylltiad rhwng y pwyslais a roddir gan Adfer ar y diwylliant gwledig â Natsiaeth drwy nodi y bu’n elfen ganolog o genedlaetholdeb gwledydd Ewropeaidd ers canrifoedd. Cyhuddodd R.Tudur Jones o droi’r ‘eneidfaeth’ (a elwid yn “*Volksgait*” sef y term Ellmynaidd gan R.Tudur Jones) ‘yn rhyw elfen sinistr a pheryglus’ (Wyn 1977 : 14). Beirniadwyd cynnwys adolygiad R Tudur Jones hefyd mewn llythyr gan Siân Wyn Siencyn yn *Nhafod y Ddraig*. Yn yr un modd ag ymateb Ieuan Wyn, prif neges y llythyr yw’r ymosodiad ar y tebygrwydd a wêl R Tudur Jones rhwng Adfer â syniadau Natsiaeth.

Cyfeiriodd Colin Williams at astudiaeth a wnaed yn 1974 a ddangosodd fod agweddau at y Gymraeg yn gwanhau hyd yn oed yn yr ardaloedd agosaf at 'Y Fro Gymraeg':-

Their responses were more akin to the pattern derived from respondents in the anglicized periphery than to the Welsh core area.

(Williams 1987:65)

Ers 1961 gwelwyd 'Y Fro Gymraeg' yn diflannu i raddau helaeth ac fel y dywedodd Harold Carter yn 1994:-

Mae'r 'Fro Gymraeg' yn fwy bregus nag erioed . . . wrth geisio rhagweld y dyfodol, ac wrth edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael, yr awgrym yw ei bod yn cael ei herydu'n barhaus. Mae ynddi lawer gormod o fylchau sy'n golygu na all gynnal y cysyniad o ardal ddiffiniedig, gyflawn ac unffurf.

(Carter 1994: 28)

Er bod ardaloedd a chymunedau sy'n cynnwys cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg yn parhau maent yn wasgaredig ac nid yw'r 'Fro Gymraeg' yn ei hystyr wreiddiol yn bodoli heddiw. Er bod y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg i'w groesawu yn yr ardaloedd poblog mae'r sefyllfa yn y cadarnleoedd traddodiadol yn peri pryderon am y dyfodol.

1.9 Syniadau pellach am y Fro Gymraeg ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif

Yn ystod 2001, cafwyd adlais o lawer o ddadleuon Adfer pan sefydlwyd y mudiad iaith Cymuned. Er bod Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi bod yn ymgyrchu dros yr iaith ers chwedegau'r ugeinfed ganrif ac wedi sicrhau nifer o hawliau ychwanegol i siaradwyr Cymraeg yn sgîl eu protestiadau, yr oedd nifer yn teimlo bod angen sefydlu mudiad iaith penodol i ganolbwyntio ar warchod yr iaith yng nghadarnleoedd yr iaith yn y gogledd a'r gorllewin. Yn yr un modd

â sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, yr oedd y radio yn gefndir i sefydlu Cymuned yn sgîl sylwadau'r Cynghorydd Seimon Glyn yn ystod trafodaeth ar *Radio Wales* ar 17 Ionawr 2001. Yn y gyfrol *Llythyrau at Seimon Glyn*, mae Simon Brooks yn crynhoi'r hyn a ddywedodd:

Dywedodd fod diwylliant cynhenid Cymru o dan fygythiad oherwydd nad oedd y mewnfudwyr o Saeson yn barod i ddysgu Cymraeg, honnodd fod y Saesneg yn iaith estron ym Mhen Llŷn, a mynnodd y dylai pobl ifanc leol gael blaenoriaeth yn y maes tai dros bensiywyr o Loegr. Fel canlyniad, cafodd ei ddifriö.

(Brooks 2001 : 8)

Bu ymateb syfrdanol i'w sylwadau yn ystod y misoedd canlynol mewn papurau newydd a chyhoeddiadau eraill. Bu'r *Welsh Mirror* yn feirniadol iawn o'i sylwadau. Yn wir, ar dudalen flaen *The Welsh Mirror* ar 18 Ionawr, sef y diwrnod yn dilyn sylwadau Seimon Glyn, pennawd y papur oedd:

Voice of Hate. 'Racist' Plaid councillor's attack on the English. .
. A Senior Plaid Cymru chief has been branded the voice of hate after an horrific string of anti-English slurs.

(*Welsh Mirror* Ionawr 18 2001)

Cafwyd ymateb tebyg am fisoedd gan golofnwyr ac unigolion a gwelwyd rhai megis Janet Street-Porter yn ei cholofn yn *The Independent on Sunday* yn manteisio ar y cyfle i ddatgan eu rhagfarn yn erbyn y Cymry.

Ar y llaw arall, bu cefnogaeth i sylwadau Seimon Glyn a amlygwyd mewn cyhoeddiadau megis *Barn*, ac yn y gyfrol *Llythyrau at Seimon Glyn*, ceir tystiolaeth o'r gefnogaeth a fu i'w sylwadau gan Gymry Cymraeg a di-Gymraeg gan bobl o ardaloedd traddodiadol Gymraeg ac ardaloedd mwy Seisinig, a rhai y tu hwnt i Gymru. Er y bu gor-ymateb difrifol i'w sylwadau, mae'n bosibl mai'r adwaith bwysicaf o'r sylwadau oedd ei fod wedi gwneud i bobl gydnabod a meddwl o ddifrif am ddyfodol y cymunedau Cymraeg. Er bod

pobl yn ymwybodol o broblemau megis y mewnlifiad, yr oedd y ffaith bod gŵr cyhoeddus gyda dylanwad lleol wedi defnyddio iaith mor gryf yn gwneud i bobl ystyried difrifoldeb y sefyllfa. Fel cynghorydd Plaid Cymru, ni ellir gwadu na fu ei sylwadau yn embaras i'r Blaid, ac mae'n debygol y cafodd effaith ar berfformiad y Blaid yn Etholiad Cyffredinol 2001. Fodd bynnag, beirniadwyd y Blaid yn llym am beidio ymateb yn gadarnhaol i argyfwng y cymunedau Cymraeg. Ym mis Gorffennaf 2001 cynhaliwyd cyfarfod ym Mynytho i sefydlu y mudiad iaith Cymuned.

1.10 Newidiadau demograffig a dad-ddiwydiannu

Tuedd amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw'r mudo cyson o gadarnleoedd traddodiadol yr iaith megis Cwm Gwendraeth i'r trefi mawr Yn ystod wythdegau'r ugeinfed ganrif, gwelwyd lleihad mewn gweithgarwch ddiwydiannol yng nghymoedd de Cymru, ac ar yr un pryd cynnydd ym mhwystrwydd dinas Caerdydd. Yn ystod yr ugeinfed ganrif bu newidiadau syfrdanol ym myd diwydiant a chyfeiriodd Gottmann at hyn:-

The twentieth century has inverted the old profile of the division of labour. In the past most workers were occupied in the production of goods, that is in agriculture, mining and manufacture . . . A small minority of white-collar workers served in the management of public and private affairs . . . In our century this minority has grown enormously while the other sectors of the labour force have shrunk.

(Gottmann 1987-gweler Aitchison & Carter 1994: 46-47)

Gelwir y broses yma'n aml yn dad-ddiwydiannu (*de-industrialization*) ac mae'r tueddiadau hyn sy'n gyffredin yn y Gorllewin wedi effeithio'n ddirfawr ar Gymru. Arweiniodd dirywiad y diwydiant glo at leihad sylweddol yn y boblogaeth ac yr oedd cwmp y diwydiant glo a'r diwydiannau trwm yn ffactorau amlwg yn y lleihad a welwyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng nghymoedd de-Cymru. Er enghraifft, bu lleihad ym mhoblogaeth y Rhondda o 100,309 yn 1961 i 77,800 yn 1986. Effeithiwyd ar Gymreictod nifer o

gymunedau glofaol, yn enwedig yn y Maes Glo Carreg a oedd yn cynnwys nifer uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn yr un modd bu lleihad yn y rhai a gyflogwyd ym maes amaethyddiaeth. Dywed Harold Carter:-

Yn sicr, mae ad-drefnu amaethyddiaeth a chyfalafu ar y naill law a dad-ddiwydiannu ar y llall wedi cyfrannu at gollu Cymry Cymraeg.

(Carter 1994 : 18)

1.11 Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Yr oedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ymdrin â nifer o agweddau yn gysylltiedig â'r iaith ac yn eu plith yr oedd cymal yn gorchymyn sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gorff statudol. Bu Bwrdd Iaith ymgynghorol mewn bodolaeth cyn hynny. Credai'r Arglwydd Ferrers fod y canllawiau gwirfoddol a gyhoeddwyd gan y corff hwn yn y sector breifat wedi bod yn allweddol i hybu'r iaith. Ar y llaw arall, mynegwyd cryn siom gan rai nad oedd Mesur y Llywodraeth wedi dilyn canllawiau eu drafft hwy. Dywedodd yr Arglwydd Elis-Thomas (a ddaeth yn Gadeirydd cyntaf y Bwrdd Iaith Statudol yn Mai 1993) :

fod gan y Bwrdd swyddogaeth gyffredinol - ond holl bwysig - o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith, a'r swyddogaeth benodol o oruchwylio, paratoi a gweithredu'r cynlluniau.

(Thomas 1994 : 10)

Gallesid disgwyl y buasai sefydlu corff a oedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg wedi cael croeso twymgalon gan y Cymry Cymraeg. Fodd bynnag, cafwyd beirniadaeth lem o fodolaeth y Bwrdd a'i ddiffyg pwerau. Yr oedd Cymdeithas yr Iaith yn amlwg yn ei gwrthwynebiad ond mynegwyd anfodlonrwydd gan fudiadau eraill megis Cefn ac unigolion. Wrth ystyried gwrthwynebiad Cymdeithas yr Iaith mae'n rhaid ystyried ei bod wedi ymgyrchu am Ddeddf Iaith lawer mwy grymus (yn eu tyb hwy) na'r hyn a gafwyd yn 1993.

Prif swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw ‘hybu a hyrwyddo defnyddio’r iaith Gymraeg’. O fewn y swyddogaeth eang hon, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn darparu’n benodol ar gyfer rhoi grantiau; cynghori’r Cynulliad Cenedlaethol; cynghori cyrff a mudiadau eraill (a all fod yn gyrrff cyhoeddus, cwmnïau preifat neu fudiadau gwirfoddol); a goruchwylio a rheoleiddio’r modd y mae cyrff cyhoeddus yn mabwysiadu ac yn gweithredu cynlluniau iaith o dan y Ddeddf. Mae’r Bwrdd yn cynnal gorolwg strategol o addysg Gymraeg.

Dros y blynyddoedd bu cryn feirniadaeth o waith a bodolaeth y *cwangos* gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Er bod y Bwrdd wedi derbyn canmoliaeth am ei waith beirniadwyd y Bwrdd yn gyson gan fudiadau megis Cymdeithas yr Iaith. Yn ystod mis Gorffennaf 2004, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan y byddai tri o’r *cwangos* mwyaf, sef Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru ac ELWA yn cael eu diddymu ac yn dod yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn dilyn hyn, codwyd cwestiynau am ddyfodol gweddill y *cwangos* gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg a bu cryn drafodaeth yn ystod haf 2004 am ddyfodol y cyrff hyn. Ar 30 Hydref datganodd Rhodri Morgan y byddai swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael eu cyfuno â rhai Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn Ebrill 2007. Yn ogystal, sefydlir Swyddfa Dyfarnydd i ymgymryd â swyddogaethau rheoleiddio’r Bwrdd (www.cymru.gov.uk). Er bod rhai o gyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad, Bwrdd yr Iaith Gymraeg oedd yr unig gorff cyhoeddus diwylliannol a noddwyd gan y Cynulliad i’w ddiddymu’n llwyr. Bu cryn drafodaeth yn dilyn y penderfyniad gyda nifer o’r gwrthbleidiau yn y Cynulliad, ynghyd â beirniaid eraill, yn gofidio y gallai’r penderfyniad arwain at wleidyddoli’r iaith a dileu’r consenws a ddatblygodd dros y blynyddoedd. Rhoddir ystyriaeth bellach i oblygiadau’r datblygiad hwn eto yn y traethawd.

1.12 Menter Cwm Gwendraeth

Ymhlith amryw ddyletswyddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg mae darparu grantiau i'r mentrau iaith, sef ymdrechion i hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ardaloedd penodol. Yn Ionawr 1991, sefydlwyd endid newydd a thra phwysig sef Menter Cwm Gwendraeth. Yr oedd hwn yn ddatblygiad allweddol yn yr ymdrech i warchod y Gymraeg yn un o gadarnleoedd amlycaf yr iaith yng Nghymru. Fel y dywedwyd eisoes mae'r ardal yn un tyngedfennol ar gyfer dyfodol yr iaith oherwydd mae'r ffin ieithyddol wedi symud yn raddol tuag at y gorllewin. Bellach mae cymunedau yng Nghwm Gwendraeth oedd â dros 80 y cant yn medru'r Gymraeg yn 1991, yn wynebu bygythiad ieithyddol difrifol.

Yr ysbrydoliaeth a oedd yn gefndir i'r prosiect arloesol hwn oedd llwyddiant ysgubol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghwm Gwendraeth yn 1989, a Chymreictod trigolion y Cwm a frigodd i'r wyneb yn ystod y tair blynedd o baratoi ar gyfer yr ŵyl. Fel y dywedir yn Strategaeth Menter Cwm Gwendraeth :-

Un o effeithiau mwyaf positif yr holl weithgarwch byrlymus a brofwyd oedd gweld blodeuo yr ysbryd cymdogol cryf a'r ymroddiad pwrpasol hwnnw sydd yn nodweddiadol o'r cymoedd hyn, ac yn ei sgil ond yn bwysicach efallai sylweddoliad graddol bod y fro gyfan yn rhan o rywbeth amgenach na pharatoadau Eisteddfodol- eu bod yn rhan o ddeffroad ieithyddol.

(Campbell 1991 : 3)

Felly, deilliodd sefydlu Menter Cwm Gwendraeth yn uniongyrchol o'r gymuned leol yn sgîl yr hwb a gafwyd adeg ymweliad yr Eisteddfod. Nid oes amheuaeth nad oes rhai eisteddfodau yn cael effaith mwy trawiadol ar y boblogaeth leol nag eraill, ac yr oedd Eisteddfod 1989 yn sicr yn un o'r rhain. Bwriad Menter Cwm Gwendraeth oedd ceisio adeiladu ar y sylfeini hynny er mwyn sicrhau parhad y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth. Mae Menter Cwm Gwendraeth yn sefydliad annibynnol ond ers 1998, bu'n rhan o Fentrau Iaith

Myrddin. Sefydlwyd Mentrau Iaith Myrddin yn Ebrill 1998 er mwyn cefnogi a chydlynu gweithgarwch y chwe menter iaith leol, hyrwyddo prosiectau sirol a datblygu partneriaethau strategol gyda chyrff a mudiadau yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ar draws y sir.

1.13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru a datblygiadau perthnasol

Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999, daeth y Gymraeg yn fwyfwy yn rhan o'r agenda boliticaidd yng Nghymru. Penodwyd Gweinidog yn y Cabinet â chyfrifoldeb dros y Gymraeg a Phwyllgor Pwnc oedd yn ymwneud â'r iaith. Tom Middlehurst oedd yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 cyn i Jenny Randerson fod yn Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg yn dilyn sefydlu'r Llywodraeth Bartneriaeth. Yn sgîl etholiad 2003 pan lwyddodd y Blaid Lafur i gael mwyafrif yn y Cynulliad penodwyd Alun Pugh yn Weinidog. Y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 Oed oedd yn ymwneud â'r Gymraeg cyn sefydlu'r Pwyllgor Diwylliant ym mis Tachwedd 2000. Rhwng mis Mai 2001 a mis Gorffennaf bu'r Pwyllgor Diwylliant yn cynnal arolwg polisi o'r iaith Gymraeg. Yn yr un modd, bu'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cynnal arolwg o'r iaith Gymraeg yn y byd addysg. Cyflwynodd nifer o fudiadau ac unigolion dystiolaeth i'r ddau bwyllgor a chafwyd amrywiaeth barn ar sut ddylid symud ymlaen. Ym mis Gorffennaf 2002, cyhoeddwyd y ddogfen *Ein Hiaith: Ei Dyfodol* sef canlyniadau yr arolygon polisi. Fel y dywedir yn rhagair cadeiryddion y ddau Bwyllgor, sef Rhodri Glynn Thomas AC a Gareth Jones AC:

Roedd yn amlwg o'r cychwyn cyntaf nad oedd sefyllfa lle'r oedd 18% yn unig o'r boblogaeth yn siarad y Gymraeg yn gynaliadwy. Cafwyd tystiolaeth bod cadarnleoedd gwledig traddodiadol y Gymraeg dan bwysau enfawr tra bod trefi a dinasoedd ledled Cymru, yn arbennig yn y De-ddwyrain, yn wynebu galwadau sylweddol am addysg cyfrwng Gymraeg. Nodwyd mai addysg blynyddoedd cynnar oedd y prif faes ar gyfer buddsoddi er mwyn creu continwwm addysgol a fyddai'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

(Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2002 : 3)

Ar 29 Gorffennaf 2002, lawnsiodd Jenny Randerson y ddogfen "Dyfodol Dwyieithog : A Bilingual Future" sef datganiad cychwynnol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bolisi iaith Gymraeg mewn ymateb i *Ein Hiaith: Ei Dyfodol*. Yna ar 27 Tachwedd 2002, lawnsiwyd *Iaith Pawb*, sef cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi ei seilio ar dair prif elfen sy'n canolbwyntio ar yr iaith ar lefel genedlaethol, cymunedol ac i'r unigolyn. Ar lefel genedlaethol, cyhoeddwyd y byddai Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn parhau fel corff cenedlaethol ar gyfer cynllunio ieithyddol yng Nghymru. I gydfynd â *Iaith Pawb*, cyhoeddwyd y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn neilltuo £28.2 miliwn yn ychwanegol ar gyfer yr iaith Gymraeg rhwng 2003-2006 gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i dderbyn £16 miliwn, £9.5 miliwn ar gyfer y sector addysg, £1.3 miliwn i Gyngor Llyfrau Cymru a £1.5 miliwn i sefydlu cwmni Theatr Gymraeg Genedlaethol. Mae'n debygol mai un o brif negeseuon *Iaith Pawb* yw'r angen i brif-ffrydio'r Gymraeg. Mae targedau allweddol *Iaith Pawb* yn cynnwys:

- Cynyddu'r ganran o boblogaeth Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg 5 pwynt canran erbyn 2011
- Atal y lleihad yng nghadanleoedd yr iaith lle mae dros 70 y cant yn siarad yr iaith
- Cynyddu'r ganran o blant sy'n derbyn addysg cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynyddu canran y teuluoedd lle'r Gymraeg yw'r brif iaith
- Prif-ffrydio gwasanaethau Cymraeg

(Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003 : 11)

Felly, mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyfraniad cyrff megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn holl bwysig ar gyfer cynnal a hyrwyddo'r iaith yng Nghwm Gwendraeth a ledled Cymru. Yn lleol, gwneir cyfraniad

arbennig gan Fenter Cwm Gwendraeth a hefyd Mentrau Iaith Myrddin. Fodd bynnag, yn ogystal â'r strwythurau cenedlaethol a lleol y mae'n hanfodol sicrhau cefnogaeth brwd gan unigolion ar lefel gymunedol.

Rhestr Mapiau

Map 1 Lleoliad Daearyddol Cwm Gwendraeth

Map 2 Glofeydd Cwm Gwendraeth

Map 3 Cyfrifiad 1961: Canran Poblogaeth Cymru yn medru'r Gymraeg

Map 4 Cyfrifiad 1971: Canran Poblogaeth Cymru yn medru'r Gymraeg

Map 5 Lleihad yn siaradwyr Cymraeg yn ne-orllewin Cymru rhwng 1961-1981

Map 6 Cyfrifiad 1981: Dyfed, Dosbarthiad Canran Siaradwyr Cymraeg

Map 7 Cyfrifiad 1991: Dyfed. Dosbarthiad Canran Siaradwyr Cymraeg

Map 8 Cyfrifiad 1981: Canran Poblogaeth Cymru yn medru'r Gymraeg

Map 9 Cyfrifiad 1991: Canran Poblogaeth Cymru yn medru'r Gymraeg

Map 10 Cyfrifiad 2001 : Canran yn gallu siarad Cymraeg (pawb 3 oed a throsodd)

Map 11 Cyfrifiad 2001: Siaradwyr Cymraeg : Canran sy'n gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg (3 oed a throsodd)

Map 12 Cyfrifiad 2001 : Sir Gaerfyrddin : Canran sy'n gallu siarad Cymraeg fesul Cymuned (3 oed a throsodd)

Map 13 Cyfrifiad 2001 : Sir Gaerfyrddin : Cymunedau (3 oed a throsodd)

Map 14 Cyfrifiad 2001 : Sir Gaerfyrddin : Plant 3 i 4 oed, canran a nifer yn gallu siarad Cymraeg

Map 15 Cyfrifiad 2001 : Sir Gaerfyrddin : Pobl 25 i 29 oed. Canran yn gallu siarad Cymraeg

Map 16 : Y ffin ieithyddol yn symud i'r Gorllewin 1931-1951

Map 17 Cyfrifiad 2001 : Sir Gaerfyrddin : Canran a anwyd y tu allan i Gymru

Map 18 Cyfrifiad 2001 : Mudo pobl ifanc 20 i 24 oed gyda sgiliau Cymraeg. Niferoedd a symudodd yn ystod y 12 mis cyn Cyfrifiad 2001

Ffynonellau

Mapiau 1 a 5 Campbell 1991: 1


Map 2 Treharne 1995 : v,vi

Mapiau 3,4, 8 a 9 Aitchison & Carter 1994 : 48, 49, 53, 94

Mapiau 6 a 7 Adran Gynllunio Cyngor Sir Dyfed 1981 a 1991

Mapiau 10, 11, 12, 13, 14, 15, 17 a 18: www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Map 16 Aitchison & Carter 1991: 63




MAP 1

Mynegai i'r Map

<i>Rhif</i>	<i>Glofa</i>	<i>Rhif</i>	<i>Glofa</i>
1	Craiglon	36	Ynyshafren
2	Hay's	37	Glan Gwendraeth
3	Coed	38	Rhas
4	Ffrwd	39	Ponthenri
5	Hansard Rhif 3	40	Tynywern
6	Pwll Gent	41	Tynycwm
7	Llanddyry	42	Marchoglwyn
8	Cilrhedyn	43	Caeglas
9	Bryndias	44	Capel Ifan
10	Lefel Penygroes	45	Pentremawr
11	Y Star	46	Pwll y Bumcwart
12	Waunyclun	47	Coalbrook
13	Caeduan	48	Glynhebog
14	Waunhir	49	Cynheidre Rhif 3 a 4
15	Graigog	50	Clos Uchaf
16	Y Waunffynhonnau	51	Cwmmawr Newydd
17	Drap	52	Pwll Cwmmawr
18	Hansard Rhif 1	53	Dynant Newydd
19	Cwmbach	54	Hen Dynant
20	Tanerdy	55	Y Tymbl
21	Llwynywiwer	56	Tyisha
22	Pumcwart	57	Dyffryn Araul
23	Syddyn Melyn	58	Drefach
24	Hansard Rhif 2	59	Closyrynn
25	Berkenshaw	60	Parcydai
26	Lefel Fforest	61	Mynydd Mawr Rhif 1
27	Carwe	62	Mynydd Mawr Rhif 2
28	Plasbach	63	Blaenhirwaun
29	Gwendraeth	64	Pwll Cross Hands
30	Danybanc	65	Slant Cross Hands
31	Brondini	66	Gorsgoch
32	Cynheidre Rhif 1 a 2	67	Castell y Garreg
33	Tygywyn	68	Yr Emlyn
34	Ffou	69	Cwmgwili
35	Slant Caepontbren	70	Pwll Caepontbren


O.N. — Mae llawer o byllau a slantiau nas dangosir ar y map gan eu bod a chysylltiad â'r rhai sydd wedi eu henwi.

Map 3



Aitchison & Carter 1994 : 48

Map 4




Aitchison & Carter 1994 : 49

Map 5

Maps 3, 4 and 5 show the decline in Welsh-speakers in South-West Wales between 1961 and 1981.



Dengys Map 3, 4 a 5 y dirywiad yn ôl siaradwyr Cymraeg yn Ne-Orllewin Cymru rhwng 1961-1981.

CANRAN SIARADWYR
CYMRAEG YN 1961
PERCENTAGE OF POPULATION
ABLE TO SPEAK WELSH
1961





MAP 3

CANRAN SIARADWYR
CYMRAEG YN 1971
PERCENTAGE OF POPULATION
ABLE TO SPEAK WELSH
1971



MAP 4

CANRAN SIARADWYR
CYMRAEG YN 1981
PERCENTAGE OF POPULATION
ABLE TO SPEAK WELSH
1981



MAP 5

DYFED

DOSBARTHIAID CANRAN
SIARADWYR CYMRAEG WRTH
GYMUNED
1981

FFINIAU DOSBARTHIAU ———
FFINIAU CYMUNEDAU ———


75% a throsodd

50 — 74%


25 — 49%

12 — 24%

0 dan 12%




CYFRIFIAD 1991 : DYFED
DOSBARTHAD CANRAN SIARADWYR
CYMRAEG




SIARADWYR CYMRAEG %

0.00 -	11.99	□
12.00 -	24.99	▨
25.00 -	49.99	▩
50.00 -	74.99	■
75.00 -	100.00	■

Map 8





Aitchison & Carter 1994 : 53



Aitchison & Carter 1994 : 94

CYMRU Canran yn gallu siarad Cymraeg, 2001: pawb 3 oed a throsodd
WALES Percentage able to speak Welsh, 2001: all aged 3 and over





Lluniwyd y map gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
 Ffynhonnell: Tabl CAS146 Cyfrifiad 2001.
 © Hawffraint y Goron 2004. Atgynhychir deunydd hawffraint y Goron â chaniatâd Rheolydd HMSO
 Map designed by the Welsh Language Board
 Source: Table CAS146 2001 Census.
 © Crown Copyright 2004. Crown copyright material is reproduced with the permission of the Controller of HMSO.



**BWRDD YR IAITH
 GYMRAEG - WELSH
 LANGUAGE BOARD**

Siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd: % sy'n gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg, 2001
Welsh speakers 3 years old and over: % able to read and write Welsh, 2001




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl S133. Hawlfraint y Goron 2005. Atgynhychir deunydd Cyfrifiad 2001 â chaniatâd Rheolydd HMSO.
 Source: 2001 Census, table S133. Crown copyright 2005. Census material is reproduced with the permission of the Controller HMSO.

BWRDD YR IAITH
 GYMRAEG · WELSH
 LANGUAGE BOARD

SIR GAERFYRDDIN 2001 CARMARTHENSHIRE

% yn gallu siarad Cymraeg / % able to speak Welsh
fesul Cymuned / by Community




Ffynhonnell: Tabl CAS146 Cyfrifiad 2001. Hawlfraint y Goron, 2003. Atgynhychir deunydd y Cyfrifiad â chaniatâd Rheolydd HMSO.
Source: Table CAS146 2001 Census. Crown Copyright 2003. Census material is reproduced with the permission of the Controller HMSO.

SIR GAERFYRDDIN 2001 CARMARTHENSHIRE

Cymunedau / Communities


Pawb 3 oed a throsodd / All aged 3 and over



Map 13

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 Tabl KS25. Hawlfraint y Goron 2004. Atgynhyrchir deunydd y Cyfrifiad â chaniatâd Rheolydd HMSO.
Source: 2001 Census Table KS25. Crown Copyright 2004. Census material is reproduced with the permission of the Controller HMSO.

SIR GAERFYRDDIN Plant 3 i 4 oed: canran a nifer yn gallu siarad Cymraeg, 2001



Nifer yn gallu siarad Cymraeg, 3 i 4 oed
Cyfrifiad 2001

1 Dot = 1 siaredwr


% yn gallu siarad Cymraeg, 3 i 4 oed
Adranau etholiadol Cyfrifiad 2001

Dark Green	60.6 <= 75.7	(15)
Medium Green	50 < 60.6	(12)
Light Green	30.9 < 50	(16)
White	10.3 < 30.9	(15)

Lluniwyd y map gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
Ffynhonnell: Tabl CAS146 Cyfrifiad 2001.
© Hawffraint y Goron 2004. Atgynhychir deunydd hawffraint y Goron â chaniatâd Rheolydd HMSO

SIR GAERFYRDDIN 2001 CARMARTHENSHIRE

Pobl 25 i 39 oed / People aged 25 i 39




% yn gallu siarad Cymraeg / % able to speak Welsh
fesul Cymuned / by Community

- 63 < 71.6 (9)
- 50.7 < 63 (34)
- 38.4 < 50.7 (17)
- 26.1 < 38.4 (6)
- 14.7 < 26.1 (6)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 Tabl CAS146. Hawffraint y Goron 2004. Atgynhychir deunydd y Cyfrifiad â chaniatâd Rheolydd HMSO.
Source: 2001 Census Table CAS146. Crown Copyright 2004. Census material is reproduced with the permission of the Controller HMSO.


Map 16



Aitchison & Carter 1991: 63

**Mudo pobl ifanc 20 i 24 oed gyda sgilliau Cymraeg.
Niferoedd a symudoedd yn ystod y 12 mis cyn Cyfrifiad 2001
o Sir Gaerfyrddin i weddill Cymru**

*Migration of people 20 to 24 years old
with Welsh skills. Numbers who moved
in 12 months before 2001 Census
from Carmarthenshire to the rest of Wales*



PENNOD 2 : Y GYMRAEG MEWN CYD-DESTUN RHYNGWLADOL

Cyn canolbwytio ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru ac yn enwedig effaith dad-ddiwydiannu ar yr iaith yng Nghwm Gwendraeth, trafodir yn gyffredinol ddyfudiad ieithyddol (*language shift*), marwolaeth ieithyddol ac adfywiad ieithyddol. Rhoddir ystyriaeth arbennig i'r Hebraeg yn Israel, yr Wyddeleg yn yr Iwerddon, y Fasgeg yng Ngwlad y Basg a Chatalaneg yng Nghatalonia. Yn draddodiadol, mae arbenigwyr ym maes sosio-ieithyddiaeth wedi ystyried yr Hebraeg fel yr enghraifft fwyaf nodweddiadol o iaith a lwyddwyd i'w hadfer. Eto mae enghreifftiau eraill o lwyddiannau megis Ffrangeg yn Quebec a Chatalaneg yng Nghatalonia. Catalonia yw un o'r ychydig wledydd yn Ewrop i'r Llywodraeth baratoi adroddiad llawn ar ymestyn y defnydd o'r iaith mewn ystod eang o weithgareddau, gan osod targedau manwl ynghyd â dulliau i'w cyrraedd, a cheisio sicrhau cydweithrediad llawn yr amrywiol sefydliadau yn y wlad (Williams 2000: 176). Rhoddwyd cryn sylw hefyd i'r llwyddiant i adfer yr Hebraeg yn Israel ond i'r gwrthwyneb, ystyrir hanes y Wyddeleg yn Iwerddon fel enghraifft o ymdrech aflwyddiannus. Mae'r Fasgeg hefyd mewn sefyllfa fregus, er bod arwyddion o adfywiad cymharol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n werth nodi fod gan yr enghreifftiau y trafodir gysylltiadau amlwg â Chymru. Tystia nifer o enwau lleoedd ac addoldai yng Nghymru heddiw i ddylanwad pell-gyrhaeddol Gwlad yr Addewid. Mae sefyllfa'r Gymraeg wedi ei chymharu'n gyson gyda'r Wyddeleg yn bennaf oherwydd agosatrwydd y ddwy wlad a'r cysylltiadau Celtaidd. Eto, mae'n debyg fod gan y Gymraeg fwy yn gyffredin gyda'r Fasgeg, ac fel y dywed Reg Hindley:-

Basque rural survival resembles that of Welsh, with a steady loss of main towns and industrial areas which attracted immigration and a slower loss of smaller market towns where the needs of commerce promoted the rival 'main' language but

the daily pressures of the constant presence of large numbers of incomers were much weaker or absent.

(Hindley 1990: 236)

2.1 Dyfudiad Ieithyddol

Weithiau mae dyfudiad ieithyddol yn adlewyrchu ffactorau politicaidd fel ag a ddigwyddodd yn Israel. Yn yr un modd gall adlewyrchu ffactorau economaidd megis yr angen i sicrhau gwaith. Yn y gwledydd hynny lle y Saesneg yw'r brif iaith, mae pobl yn dysgu'r iaith i sicrhau swyddi da. Canlyniad hynny yw dwyieithrwydd ac mae hyn bob amser yn rhagflaenu dyfudiad ieithyddol, er nad yw bob amser yn arwain at symudiad ieithyddol. Yn wir, bu'n rhaid i nifer o siaradwyr Cymraeg, Gwyddeleg a'r Aeleg symud o'u mamwlad i Loegr i sicrhau gwaith ac felly yr oedd gwybodaeth o'r Saesneg yn angenrheidiol. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan yr oedd pwerau trefedigaethol yn meddiannu gwledydd, daeth eu hieithoedd hefyd yn ddominyddol. Yr oedd gwledydd megis Ffrainc, Prydain, Sbaen a Phortiwgal fel arfer yn gorfodi eu hiaith gyda'u rheolaeth. Eto, nid oedd hyn bob amser yn arwain at ddyfudiad ieithyddol a gorchfygiad ieithoedd. Yr oedd amlieithedd wedi ymsefydlu ac yn ffordd o fyw yn nifer o wledydd megis India a Phapua Gini Newydd ac yn y mwyafrif o wledydd yr Affrig. Nid oedd yn bosib i iaith estron ddisodli cannoedd o ieithoedd brodorol. Serch hynny, yn y gwledydd hynny lle nad oedd amlieithedd eang a lle yr oedd dim ond un iaith frodorol cyn i'r gwladychwyr gyrraedd, yr oedd ieithoedd yn aml mewn perygl. Dywed Janet Holmes:-

Where one group abrogates political power and imposes its language along with its institutions-government administration, law courts, education, religion-it is likely that minority groups will find themselves under increasing pressure to adopt the language of the dominant group.

(Holmes 1992 : 60)

Yn aml ystyrir mewnfudwyr sy'n siarad iaith wahanol yn fygythiad gan y gymuned frodorol. Yn y gwledydd uniaith swyddogol megis Lloegr,

Awstralia, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau, disgwylir i fewnfudwyr siarad Saesneg. Ystyrir siarad Saesneg da yn arwydd o gymhathiad llwyddiannus a thybiwyd yn gyffredinol y golygai hyn roddi'r gorau i'r iaith leiafrifol. Er bod dyfudiad ieithyddol fel arfer yn cymryd tair neu bedair cenhedlaeth, gellir ei gwblhau mewn dim ond dwy cenhedlaeth. Yn raddol mae iaith y gymdeithas ddominyddol yn disodli'r famiaith leiafrifol. Yn Seland Newydd, mae'r gymuned Maoriaidd wedi symud o unieithrwydd yn yr iaith frodorol Maori ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddwyieithrwydd Maori a Saesneg yn gyntaf, ac yna i unieithrwydd Saesneg yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Bellach mae llai nag ugain y cant o'r gymuned Maoriaidd yn gallu siarad yr iaith frodorol a phrin yw'r cyfleoedd i'w defnyddio.

Yn yr un modd, mae'r mwyafrif o Aboriginiaid Awstralia a nifer o Indiaid Americanaidd wedi colli eu hieithoedd dros bedair neu bump cenhedlaeth o deyrnasiad trefedigaethol. Datblygodd Saesneg, sef iaith y grŵp dominyddol, yn iaith y brodorion a lleihaodd eu nifer yn ddirfawr yn sgîl rhyfeloedd a chlefydau. Canlyniad rheolaeth drefedigaethol economaidd a pholitecaidd oedd difodi nifer o ieithoedd brodorol yn hytrach na *diglossia* gyda graddfeydd amrywiol o ddwyieithrwydd fel ag a ddigwyddodd yn nifer o wledydd Africa, Asia a De America. Pan y digwydd dyfudiad ieithyddol mae bron bob amser yn symudiad i'r iaith ddominyddol. Nid oes unrhyw gymhelliad gan y gymuned ddominyddol i fabwysiadu iaith y lleiafrif. Cysylltir yr iaith lywodraethol gydag urddas a statws gymdeithasol ac nid yw'n syndod fod nifer o siaradwyr ifanc ieithoedd lleiafrifol yn gweld manteision o'i defnyddio.

2.2 Marwolaeth Ieithyddol

Pan fo pawb sy'n siarad iaith yn marw, mae'r iaith ei hun yn marw ar yr un pryd fel cyfrwng. Diflannodd rhwng hanner cant a saith deg o'r cyfanswm o tua dau gant o ieithoedd Aboriginiaidd adeg dyfodiad yr Ewropeaid fel canlyniad naill ai i gyflafan yr Aboriginiaid neu oherwydd y clefydau hynny a gyflwynwyd gan yr Ewropeaid. Dyma enghraifft o farwolaeth ieithyddol yn hytrach na dyfudiad ieithyddol. Mewn cyferbyniad â hynny, mae'r gymuned

Twrcaidd yn Lloegr yn troi i'r Saesneg ond nid yw ei hiaith mewn peryg oherwydd mae'n parhau'n brif iaith Twrci. Mae Janet Holmes yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng dyfudiad ieithyddol a marwolaeth ieithyddol:-

Language shift generally refers to the process by which one language displaces another in the linguistic repertoire of a community. It also refers to the result of this process. Language death has occurred when a language is no longer spoken naturally anywhere in the world.

(Holmes 1992 : 64)

Mae'n gallu bod yn dasg anodd i ddarganfod pryd yn union mae iaith wedi marw oherwydd gall proses dirywiad iaith fod yn un raddol. Mae yna gryn ddi-ddordeb adeg marwolaeth siaradwr olaf iaith benodol. Yn wir, nid Dolly Pentreath oedd siaradwr olaf Cernyweg er bod plac i'w weld uwchlaw ei thŷ yn Mousehole. Eto, gallwn fod yn fwy sicr mai Ned Maddrell a fu farw yn 1974 oedd siaradwr brodorol olaf y Fanaweg. Yn dilyn gwelliannau cyfathrebu gellir olrhain helyntion ieithoedd yn fwy cywir.

Wrth ystyried y modd mae ieithoedd yn marw, mae'n werth cyfeirio at y sylw a wneir yn aml eu bod yn organig a bod ganddynt fywyd naturiol. Ceir nodwedd gynnar o'r syniadau hyn yn ngwaith Thomas Jones, *The British language in its lustre* (1688):-

To languages as well as Dominions. . . there is an appointed time; they have had their infancy, foundations and beginning, their growth and increase in purity and perfection; as also in spreading, and propagation: their state of consistency: and their old age, declinings and decays.

(Morgan 1983 : 44-5)

Nododd Kloss fod yna dri prif fath o farwolaeth ieithyddol: sef un heb ddyfudiad ieithyddol, un a achoswyd yn sgîl dyfudiad ieithyddol, a marwolaeth

ieithyddol mewn enw drwy metamorffosis megis fod yr iaith yn cael ei ddiraddio i statws tafodiaith pan mae cymuned yn rhoddi'r gorau i ysgrifennu iaith ac yn dechrau defnyddio iaith arall. Yn ogystal, nododd y gall *the intrinsic hostility of the technology based infrastructre of modern civilization* arwain at farwolaeth ieithyddol (Kloss 1984 : 65). Ni ellir gwadu nad yw nifer o genedlaetholwyr ieithyddol yn ofni datblygiadau diweddar. Mae hyn yn ganlyniad i'r cysylltiad annatod rhwng grymoedd modern a ieithoedd dominyddol. Eto, mae'n bwysig ystyried fod nifer sy'n anhapus â'r byd modern technolegol, soffistigedig, yn cael eu cymell i ddychwelyd i'w gwreiddiau lle parheir i siarad yr iaith frodorol. Er y ceir cryn wrthwynebiad pan y digwydd dyfudiad ieithyddol, ar adegau gwelir cymysgedd o edmygedd, eiddigedd a phragmatiaeth. Yn wir, yr oedd y symudiad ieithyddol yn y ganrif ddiwethaf o'r Wyddeleg i'r Saesneg yn cynnwys cryn awydd i wneud hynny. Dywed John Edwards:-

There is no doubt, overall, that the most obvious and usual cause of language decline and death is an inadequate concentration of speakers faced with economically powerful and technically sophisticated neighbours.

(Edwards 1985 : 50)

Y broses amlycaf o sut y digwydd marwolaeth ieithyddol yw pan na throsglwyddir iaith o'r rhieni i'w plant a phwysleisiodd Norman Denison hyn yn 1977. Dyma'n union a ddigwyddodd yn Iwerddon dros ganrif yn ôl. Erbyn heddiw, hyd yn oed yn y *Gaeltacht*, mae'r mwyafrif o rieni wedi penderfynu magu eu plant drwy gyfrwng y Saesneg.

Mae nifer o arbenigwyr yn y maes wedi ysgrifennu'n emosiynol am ddirywiad ieithyddol drwy ddefnyddio termau megis marwolaeth ieithyddol, llofruddiaeth ieithyddol neu fod ieithoedd wedi cyflawni hunanladdiad. Mae rhai megis Pearse o'r farn fod y Wyddeleg wedi'i llofruddio gan y Saeson. Cyfeiriodd at bolisi addysgol Seisnig a welwyd yn Iwerddon yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel *murder machine*, gyda'r bwriad i ddinistrio'r diwylliant

brodorol, yn enwedig y Wyddeleg. Dadleuodd Corkery nad yw ieithoedd yn marw'n naturiol ond yn hytrach iddynt gael eu lladd gan y rhai hynny sy'n awyddus i ddinistrio'r genedl. Nododd Flann O'Brien:-

The present extremity of the Irish language is due mainly to the fact that the Gaels deliberately flung that instrument of beauty and precision from them.

(O'Brien 1973 : 125)

Cyfeiriodd Brooks at y modd na ellir difa iaith mae pobl yn benderfynol o'i chadw'n fyw (Brooks 1907 : 22). Felly, honnodd rhai beirniaid fod y Wyddeleg wedi cyflawni hunanladdiad. Yn ddi-os, mae'r drafodaeth ar farwolaeth a hunanladdiad ieithyddol wedi ei chymhlethu gan astudiaethau ideolegol. Yn wir, y bobl hynny sy'n debygol o gefnogi iaith mewn perygl sydd hefyd fel arfer yn cefnogi'r syniad o farwolaeth ieithyddol. Ar y llaw arall, mynegir y perspectif hunanladdiad gan y rhai hynny sy'n ceisio asesu dirywiad ieithyddol yn wrthrychol.

Mae'n bosibl nad yw cymuned yn gweld y broses fel un hunan ataliad ond yn hytrach fel newid syml. Yn sgîl hyn, gallwn drafod y syniad am lofruddiaeth a hunanladdiad drwy ystyried y pwysau cymdeithasol a arweinir at hunanladdiad dynol. Yn aml, cysylltir hunanladdiad gyda phobl dan bwysau neu gyda ffigwr amlwg. Mewn cyferbyniad â hyn, pan ddigwydd hunanladdiad ieithyddol, mae fel rheol iaith arall sy'n creu'r pwysau a arweinir at ddyfudiad a dirywiad ieithyddol; gellir dweud fod yna lofrudd bob amser. Serch hynny, fel ag y mae person yn gallu achosi hunanladdiad heb fod yn lofrudd ei hun, gall un iaith arwain at ddirywiad iaith arall yn anuniongyrchol ac heb fwriadu gwneud hynny. Pwysleisiodd John Edwards y dylid ceisio osgoi defnyddio'r termau hyn:-

Discussions of language decline and death would do well to avoid terms like 'murder' and 'suicide' altogether, and to emphasise the complexities of social situations in which these

phenomena occur.

(Edwards 1985 : 52-53)

2.3 Adfywiad Ieithyddol

Pan fo dirywiad ieithyddol yn gyflawn neu ar fin ei gwblhau, yn aml gwelir ymdrechion i adfywio'r iaith. Eto, mae rhai ieithoedd yn farw ac nid oes modd eu hadfer. Nid yw ieithoedd yn angenrheidiol yn marw pan mae ei holl siaradwyr yn marw. Mae cofnod ysgrifenedig yn brawf o rhyw fath o fywyd, oherwydd mae yna bosibilrwydd y bydd cyfryngau (*hosts*) newydd yn ymddangos ac yn mynd allan â'r iaith a'i siarad yn y gymdeithas. Yn yr un modd â diffinio'r adeg pan fo iaith wedi marw mae'n anodd penderfynu pryd yn union mae adfywiad yn dechrau. Yn ddi-os, mae glynyn'n llythrennol i'r Lladin *vivere* yn rhy llym. Nid yw'r term adfywiad yn unig yn golygu adfer bywyd ar ôl marwolaeth oherwydd gall hefyd gyfeirio at ail-eni ac adnewyddu a rhwystro dirywiad rhag annilyniant (*discontinuity*). Awgrymodd Carol Eastman fod y term 'adfywiad ieithyddol' yn cynnwys adfer iaith i'w hen safle ynghyd ag atgyfodi iaith farw. Mae'n anodd gwybod a ddylid defnyddio'r term adfer neu adfywiad ac mae'n amwys pryd mae iaith yn farw. Yn aml mae llwyddiant yr ymdrechion a wneir i adfywio ieithoedd yn dibynnu ar hyd a lled y golled ieithyddol. Yn aml erbyn y sylweddolir bod angen adfywio iaith mae ei sefyllfa'n rhy ddifrifol i'w hadfer, gyda'r dirywiad yn adlewyrchu newidiadau cymdeithasol sylfaenol (Edwards 1985 : 86). Dadleuodd Moshe Nahir fod pob ymdrech i adfer ieithoedd wedi methu heblaw am yr Hebraeg ac mae'r ymgyrchoedd aflwyddiannus, yn ei farn ef, yn cynnwys y rhai o blaid y Wyddeleg, y Llydaweg a'r Gymraeg.

Mae mesur llwyddiant iaith a adferwyd yn dibynnu'n hollol ar sut y diffinir y term 'adfer iaith'. Os yw'n cynnwys adfer ieithoedd sydd wedi disgyn i statws leiafrifol i ddefnydd cyfathrebol eang, yna ymddengys mai'r Hebraeg yw'r unig lwyddiant. Dadleuodd rhai fod Cernyweg yn yr un modd â'r Hebraeg wedi ei hadfer. Er nad oes llawer o amheuaeth nad oedd yr iaith yn farw erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, prin y gellir ei galw'n famiaith gyffredinol. Dadleuodd Glanville Price fod yr iaith yn farw a'r hyn sydd wedi ei hadfer

mewn gwirionedd yw'r hyn y geilw'n *Cornic* sef ffug Gernyweg modern (Price 1984 : 142). Yn aml mae yna ymdeimlad y dylid fod wedi gweithredu'n gynt i warchod iaith. Bu farw Dolly Pentraeth, siaradwraig olaf y Gernyweg yn 1777, ond ni ymddengys unrhyw bryder am yr iaith am ganrif wedi hynny. Ar adegau nid yw diddordebau llenyddol yn cydfynd â phryderon am siaradwyr brodorol iaith. Er i Mathew Arnold boeni'n ddirfawr am lenyddiaeth Geltaidd yr oedd yn awyddus i weld diwedd ar siarad y Gymraeg.

Mae'n anodd adfer iaith os yw ei niferoedd wedi disgyn i rif arbennig. Nid oes ffigwr pendant ac mae'n debyg fod mwy o fygythiad i'r 600,000 o siaradwyr Llydaweg nag sydd i'r 250,000 o siaradwyr yr Islandaidd yng Ngwlad yr Iâ sy'n wlad annibynnol. Eto nid yw sefydlu gwladwriaeth yn datrys popeth ac mae'r Wyddeleg yn brawf o hynny. Y Wyddeleg yw'r unig iaith Geltaidd sydd â gwladwriaeth i'w gwarchod, ond er gwaethaf hyn mae'n parhau i fod mewn cyflwr gwan. Yn ddi-os, yr ewyllys i adfywio iaith yw'r brif ffactor wrth geisio gwrthdroi colled ieithyddol. Mae arweiniad yn allweddol ac fel y nododd D.P Moran wrth drafod y Wyddeleg:-

Without scholars [the revival] cannot succeed: with scholars as leaders it is bound to fail.

(Moran 1900 : 268)

Ni fu erioed angen cyfathrebu yn y Wyddeleg oherwydd y dylanwadau Seisnig ac mae hyn yn hollol wahanol i'r hyn a ddigwyddodd yn Israel. Llwyddwyd yno i adfywio'r Hebraeg ar ôl i'r iaith fod yn farw am bron i 1700 o flynyddoedd, oni bai am y defnydd cyfyngedig ar gyfer gweddiâu a darlleniadau crefyddol.

2.4 Yr Hebraeg

Yn gyffredinol, y ddwy elfen a ystyrir yn gyfrifol am adfer yr Hebraeg oedd cyfraniad diflino Ben Iehwda ynghyd â'r mudiad Seionaidd yn Ewrop ac ym Mhalesteina ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Hyrwyddodd y mudiad hwn adferiad yr iaith Hebraeg glasurol yn iaith bob dydd y

mewn fudwyr Iddewig ym Mhalesteina. Bu cryn drafod ymhlith ysgolheigion ynglŷn â chyfraniad Ben Iehwda yn y broses o adfer yr Hebraeg. Nid oes amheuaeth nad oedd ei ymdrechion wedi eu rhamanteiddio a cheir yr argraff wrth ddarllen ambell i adroddiad ei fod wedi cyflawni gwyrth wrth adfer yr iaith ar ei ben ei hun. Gellir dadlau na lwyddodd unrhyw un o'i gynlluniau. Eto, yr oedd ei gyfraniad yn allweddol wrth iddo ddyfalbarhau yn wyneb gwrthwynebiad cyson. Dadleuodd Douglas Shaffer, a oedd wedi ei ddylanwadu gan lyfr James Finn, *Stirring Times* (1878), na fu erioed adfywiad o'r iaith Hebraeg ac mai parhad o'r iaith Aramaeg oedd Hebraeg modern. Nid yw'n gywir honni bod yr iaith Hebraeg wedi marw'n llythrennol. Fel y dywed Jack Fellman:-

the revival of Hebrew was not an artificial resurrection from the dead. Indeed, there is no attested case in history where a language that had actually died, that is, had gone out of use in 'all' forms of communication, was successfully revived.

(Fellman 1973 : 11-12)

Mae'n wir dweud na ddefnyddiwyd yr Hebraeg cyn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar ddeg fel iaith bob dydd. Eto, ceir enghreifftiau o Iddewon yn siarad Hebraeg ar achlysuron arbennig megis ar y Saboth neu adeg gwyliau.

Bu'r Hebraeg yn iaith bob dydd i bobl Israel a Jwdea am oddeutu 1300 o flynyddoedd, cyn tua'r flwyddyn 200 A.D pan ddaeth y ddwy iaith ryngwladol ar y pryd, sef Groegeg ac Aramaeg, i gymryd ei lle. Eto, parhaodd yr Hebraeg yn iaith ysgrifenedig ac yr oedd sefyllfa'r iaith yn yr Oesoedd Canol yn debyg iawn i Ladin. Er na fu'r Hebraeg erioed yn iaith farw, yr oedd ei dirywiad yn amlwg. Erbyn tua 1850, yr oedd nifer o Iddewon wedi dysgu ieithoedd Ewropeaidd ac felly nid oedd angen yr Hebraeg arnynt. Yn ogystal, yr oedd y problemau a wynebid drwy ddefnyddio geiriau Hebraeg hynafol gogyfer â dibenion modern wedi arwain nifer o awduron ifanc i farnu y dylai'r Hebraeg farw'n llwyr, hyd yn oed fel iaith ysgrifenedig yn yr un modd â'r Lladin. Felly, pan ymddangosodd erthygl Ben Iehwda dan y teitl 'Cwestiwn

difrifol' yn y cylchgrawn Iddewig *Ha-Shahar* yn 1879, yr oedd yr Hebraeg yn parhau i fod yn iaith ysgrifenedig ond yr oedd dyfodol tymor hir yr iaith yn ymddangos yn dywyll.

Nid oes amheuaeth nad oedd Ben Iehwda wedi gosod esiampl i eraill drwy siarad Hebraeg yn ei gartref ei hun. Dangosodd hynny y gallai'r Hebraeg fod yn iaith naturiol bob dydd yn y cartref. Eto, gallasai Ben Iehwda fod wedi sicrhau mwy o lwyddiannau petai wedi symud i ardal arall megis Jaffa. Yn hytrach, penderfynodd aros mewn ardal geidwadol o Jeriwsalem lle wynebodd wrthwynebiad ffyrnig yr Iddewon Uniongred. Methiant yn bennaf fu galwad Ben Iehwda i Iddewon ymsefydlu ym Mhalesteina, er ei fod o'r farn mai dyma'r unig ateb i sefyllfa argyfyngus yr Hebraeg, ac ni chafodd fawr o lwyddiant hefyd wrth sefydlu cymdeithasau oedd yn siarad Hebraeg. Credai Jack Fellman mai adfer yr Hebraeg yn yr ysgolion oedd y cam pwysicaf ym mreuddwyd Ben Iehwda i adfer yr Hebraeg. Ni fuasai Ben Iehwda wedi llwyddo i ddylanwadu ar ddatblygiad yr Hebraeg yn yr ysgolion, heblaw am gyfraniad allweddol Nissim Bechar a feddyliodd am y syniad o ddysgu Hebraeg yn yr ysgolion. Er mai dim ond am dri mis y bu Ben Iehwda yn athro, ymledodd ei ddylanwad, yn enwedig i'r trefedigaethau amaethyddol a'r trefi poblog newydd. Er bod nifer o'r rhieni yn awyddus ar y dechrau i'w plant ddysgu iaith megis Ffrangeg, yr oedd eu hagwedd tuag at yr Hebraeg yn newid wrth iddynt weld eu plant yn llwyddo i'w dysgu. Yr oedd sefydlu ysgolion meithrin (y cyntaf yn 1894) yn gam pwysig arall ynghyd â'r ysgolion uwchradd Hebraeg.

Gwelodd Ben Iehwda hefyd bwysigrwyd y newyddiadur yn ei frwydr i adfer yr Hebraeg. Yr oedd ei newyddiadur, sef *Ha-Zevi*, yn gyfle iddo gyflwyno geiriau newydd, ac yr oedd ei bapurau newydd yn allweddol o ran adfywiad yr Hebraeg. Rhoddwyd cyfle i drafod pynciau eang, a llwyddodd i fathu nifer o eiriau newydd. Un o'i gampau pwysicaf oedd ei eiriadur, a daeth Ben Iehwda yn symbol personol o'r Hebraeg fel iaith fodern a seciwlar. Yn sgîl y ffaith fod cymaint o eiriau newydd wedi eu bathu, yr oedd yn hanfodol i Ben Iehwda fod Cyngor yr Iaith wedi ei sefydlu. Eto cyfyngedig oedd cyfraniad y

Cyngor ym mlynnyddoedd cynnar adfywiad yr Hebraeg yn bennaf oherwydd prinder cyllid a'r difaterwch tuag at ei waith.

Cafodd un o ddulliau dysgu'r iaith Hebraeg yn Israel ddylanwad mawr ar Gymru, ac yn ystod y blynnyddoedd diweddar daeth y term 'Wlpan' yn un cyfarwydd iawn ymhlith athrawon a dysgwyr y Gymraeg. Datblygodd y dull yma yn Israel gyda'r bwriad i gymhathu mewnfudwyr Iddewig di-Hebraeg, yn ieithyddol, ac yn ddiwylliannol, a sicrhau mai'r Hebraeg fyddai prif iaith y wladwriaeth newydd (Williams 2000: 209, Crowe 1988: 17). Addaswyd yng Nghymru ddulliau trylwyr y system 'Wlpan' gan arloeswyr megis Chris Rees, a phwysleisiwyd egwyddorion megis dysgu ar gyrsiau carlam, mynegiant llafar, y Gymraeg fel prif iaith dosbarth, a chynnal dosbarthiadau pum gwaith yr wythnos am gyfnod o tua tri i bedwar mis. Wedi meistroli prif egwyddorion yr iaith lafar, trefnir wedyn i fyfyrwyr symud ymlaen i astudio'r iaith ysgrifenedig safonol.

Yn y byd modern mae gan bob iaith gystadleuydd mewn rhyw gyd-destun neu gilydd: yn allanol megis ym myd masnach rhyngwladol neu gysylltiadau diplomyddol neu yn fewnol yn ei chymunedau ethno-diwylliannol. Mae hyn yn fwy cywir am ieithoedd sydd mewn perygl. Yn Israel bu amlicithedd yn hynod gyffredin drwy gydol hanes y wlad. Wrth drafod yr Hebraeg, nododd Joshua Fishman:-

Hebrew has become, in the course of this century, the mother tongue and major spoken language of the vast bulk of the native-born Jewish population of a reborn Jewish state. Its former diglossic relationships with other Jewish vernaculars and with co-territorial non Jewish vernaculars has been set aside. And yet, some old problems continue, at a much reduced level of intensity, and new ones have appeared on the horizon that need to be watched.

(Fishman 1991 : 314)

Yn sgîl y ffaith fod Israel yn noddfa i Iddewon sydd wedi eu herlid, ymdrechwyd i hybu mewnfudo cyson i'r wlad. Canlyniad hyn yw presenoldeb nifer o Iddewon sydd ddim yn siarad Hebraeg ac mae eu niferoedd yn ddigon i sicrhau gwasanaethau arbennig yn eu mamieithoedd, yn enwedig oedolion fydd byth yn medru'r Hebraeg. Yn aml mae'r cyfrifiad yn anwybyddu nifer o ieithoedd brodorol Iddewig na ddisgwyliid iddynt fodoli. Yn wir tangyfrifir Iddew-Almaeneg (*Yiddish*) gan 50 y cant wrth anwybyddu'r Iddewon Uniongred sy'n parhau i'w siarad. Er bod y gystadleuaeth gan Iddew-Almaeneg wedi lleihau i lefel isel iawn nid yw wedi diflannu'n llwyr, yn enwedig yn ardaloedd Uniongred Jeriwsalem lle bu cynnydd amlwg yn ystod nawdegau'r ugeinfed ganrif. Yn fwy arwyddocaol na hyn yw'r defnydd eang o Saesneg ar y naill law, a'r anwybodaeth o Arabeg ar y llaw arall ymhlith Iddewon yn Israel. Datblygodd astudio Saesneg yn hynod boblogaidd yn ystod y blynyddoedd ddiwethaf, ac mae gwybodaeth o'r iaith yn angenrheidiol ar gyfer gyrfaoedd academiaidd a pholiticaidd llwyddiannus. Nid yw hyn yn golygu fod dyfodol yr Hebraeg mewn unrhyw berygl fel mamiaith. Eto, fel y nododd Joshua Fishman :-

it has suddenly become provincialized and peripheralized in the eyes of many of its speakers , particularly in the eyes of the younger generation and of the intellectuals. It is not so much that English represents a more believable image of modernity than does Hebrew (as English does relative to Arabic among young Israeli Arabs), but that Hebrew is no longer the 'heart of the matter' for the younger generation, and the older generation's concern and travail on behalf of Hebrew now seem quaint, if not outright funny, to a good portion of the young who have moved on to more pressing and substantive concerns.

(Fishman 1991 : 315)

2.5 Y Wyddeleg

Mewn cyferbyniad i hanes yr Hebraeg, nid oes amheuaeth mai methiant yn bennaf fu'r ymdrechion i adfywio'r Wyddeleg. Yr oedd canlyniadau

Cyfrifiad 2002 a gyhoeddwyd ym mis Mai 2004 yn nodi cynnydd yn nifer y siaradwyr Gwyddeleg: 1, 570, 894 yn 2002 o'i gymharu â 1, 430, 205 yn 1996. O ran canran, yr oedd gostyngiad bychan o 43.5 y cant yn 1996 i 42.8 y cant yn 2002. gyda llai o bobl yn siarad yr iaith (www.eurolang.net). Yr oedd gallu i siarad Gwyddeleg yn uwch ymhlith merched (45.9 y cant) na dynion (39.7 y cant). Yr oedd mwy o ferched yn siarad yr iaith na dynion ym mhob grŵp oedran â'r gwahaniaeth amlycaf yn y grŵp 15-19 oed. Yn galonogol, yr oedd dwy rhan o dair o ddisgyblion ysgol rhwng 10 a 19 oed yn gallu siarad yr iaith. Mae gallu yn yr iaith yn disgyn yn y grŵp oedran ôl addysgol, ond mae'n cynyddu eto yn y grŵp oedran 45-54 oed. Gellid dadlau bod cynnydd yn nifer y boblogaeth sy'n siarad Gwyddeleg i'w ddisgwyl wrth ystyried bod bron pawb sy'n byw yng Ngweriniaeth Iwerddon wedi dysgu'r iaith am o leiaf wyth mlynedd yn yr ysgol. Cyfeiriodd Donncha Ó hÉallaithe, ystadegydd ieithyddol ac Uwch Ddarlithydd Mathemateg at yr angen i gofio hyn:

To get a proper picture of the state of Irish, it is necessary to remove the school-going age groups. When we do that it is possible to get a more accurate picture. There are a million adults, 1,032,693 to be exact, who claim ability to speak Irish or 37 % of the adult population, that is one out of every three adults.

(www.eurolang.net)

Nododd mai dim ond 130,000 o'r dros miliwn o'r siaradwyr Gwyddeleg ymhlith y boblogaeth sy'n siarad Gwyddeleg sy'n gwneud hynny'n ddyddiol neu'n wythnosol ac nid yw dros 40 y cant o oedolion sy'n gallu siarad yr iaith yn gwneud hynny o gwbl. Mae'n amlwg fod y cwestiwn allweddol o allu a defnydd sy'n gyffredin yng Nghymru hefyd yn berthnasol yn Iwerddon. Arwyddwyd Deddf Ieithoedd Swyddogol 2003 ar 14 Gorffennaf 2003. Dyma'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth i ddarparu fframwaith statudol i weithredu gwasanaethau drwy gyfrwng y Wyddeleg, a phrif amcan y Ddeddf oedd sicrhau bod mwy a gwell safon o wasanaethau cyhoeddus ar gael drwy gyfrwng y Wyddeleg.

Bu dirywiad cyson yn nifer y siaradwyr Gwyddeleg mamol, ac yn sgîl y ffaith y bu'r iaith yn orfodol yn yr ysgolion ers 1922, gwelwyd cynnydd mewn gallu arwynebol. Erbyn hyn, mae'n debyg mai dim ond 3 y cant o Wyddelod y tu allan i'r *Gaeltacht* sy'n siarad yr iaith yn gyson. Er bod y ganran yn llawer uwch yn y *Gaeltacht* mae'r sail ieithyddol yno hefyd yn gwanhau. Er bod gan tua 6 y cant o boblogaeth Gweriniaeth Iwerddon wybodaeth o'r iaith mae ei defnydd ymarferol wedi lleihau'n ddirfawr. Prin fu'r ymchwil i'r defnydd a'r gallu o'r iaith ac mae'n debyg fod nifer yn bryderus o'r ymateb a fyddai i'w canlyniadau. Yn wir, bu cryn gynnwrf yn dilyn cyhoeddi arolwg gan Macnamara yn 1966 o ddwyieithrwydd ac addysg gynradd. Ei brif bwynt oedd fod yr amser a roddwyd i'r Wyddeleg yn lleihau safonau yn yr iaith Saesneg. Bu cryn ymateb hefyd yn dilyn sylwadau Brennan yn 1964:-

if research were to show an undoubted drop in standards of English it would be regrettable: but it would have to be tolerated for the greater good : the production of integrated Irish personalities

(Brennan 1964 : 271)

Er na chafwyd ymateb yn syth gan y Gweinidog Addysg, beirniadwyd yr arolwg gan y Llywodraeth a'r Gynghrair Wyddeleg.

Wrth drafod y Wyddeleg, ni ellir anwybyddu'r *Gaeltacht*. Er bod y cyfan o boblogaeth y *Gaeltacht* yn siarad Saesneg, y *Gaeltacht* yw'r unig rhan o Iwerddon lle mae'r Wyddeleg yn parhau i'w siarad fel iaith gymunedol. Mae gwarchod y *Gaeltacht* fel ardal lle siaredir y Wyddeleg wedi ei ystyried yn holl bwysig gan lywodraethau Iwerddon ers sefydlu'r Wladwriaeth Wyddeleg. Nid yn unig mae'r *Gaeltacht* yn cynnig cyfleoedd i warchod y traddodiad Wyddeleg, mae'n cynnig lleoliad addas i'r rhai hynny sydd yn awyddus i ddysgu'r iaith. Fel y dywed Patrick Commings:

The Irish *Gaeltacht* exemplifies the dilemmas of state management of both economic development and linguistic processes in a disadvantaged rural region. The case for state intervention rests both on the economically marginal status of the *Gaeltacht* and on the state's own aim of maintaining Irish as a community language.

(Commins 1988: 25)

Ar un adeg yr oedd Iwerddon gyfan yn *Gaeltacht* ond erbyn hyn mae'r ardaloedd lle siaredir yr iaith bron yn llwyr wedi eu lleoli ar hyd yr arfordir gorllewinol. Mae poblogaeth y *Gaeltacht* oddeutu 70,000 ond mae nifer y siaradwyr Gwyddeleg yn llai. Er bod y *Gaeltacht* yn cynrychioli dim ond 2.3 y cant o boblogaeth Iwerddon mae 7.4 y cant o'r holl siaradwyr Gwyddelig wedi eu lleoli yno, ynghyd â 45 y cant o'r holl deuluoedd Gwyddelig. Mae cyfran y siaradwyr Gwyddelig wedi lleihau o 86.5 y cant yn 1961 i 82.9 y cant yn 1971 ac i 77.4 y cant yn 1981 (Fishman 1991 : 124). Yn draddodiadol, bu ardaloedd y *Gaeltacht* yn rhai gwledig a thlawd a bu ymfudo cyson oddi yno. Er bod dyfodol y Wyddeleg fel petai'n dibynnu ar y *Gaeltacht*, nid oes amheuaeth nad yw wedi ei rhamanteiddio. Yn 1938, cyfeiriodd Byrne at yr ardal fel un cyfoethog a barddonol (Byrne 1938). Yr oedd y bobl a oedd yn byw ychydig y tu hwnt i ffin y *Gaeltacht*, a oedd hefyd yn dlawd, yn wrthwynebus i'r sylw arbennig yr oedd eu cymdogion yn eu derbyn. Canlyniad sefydlu diwydiannau oedd lleihau cyfradd diweithdra a'r nifer a ymfudodd o'r ardal i'r dwyrain Seisnig. Gwelwyd hefyd gynnydd yn nifer y mewnfudwyr Seisnig. Fel yr esbonia John Edwards, mae'r sefyllfa'n un gymhleth:-

The paradox is this: the *Gaeltacht* is vital to the language but, because of its socio-economic situation, is constantly encroached upon by English-language influences. If nothing is done, it will continue to shrink: if things are done, an artificial enclave may be created. Further, special measures may actually expedite English influence.

(Edwards 1985 : 58)

Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw polisïau economaidd y Llywodraeth i atal allfudiad o'r *Gaeltacht* ac i atal diweithdra wedi rhwystro siaradwyr Gwyddeleg i symud i ardaloedd dinesig, Seisnig. Dywed Colin Williams:

For the successful economic development-in the sense of raising living standards and halting overseas emigration-has not stemmed the process of language shift.

(Williams 1988 : 286)

Yn y *Gaeltacht*, bu gostyngiad yn nifer y siaradwyr Gwyddeleg. Dangosodd Cyfrifiad 2002 bod tri o bob pedwar o boblogaeth y *Gaeltacht* yn siarad Gwyddeleg, gyda siaradwyr yr iaith yn cynrychioli 73 y cant o holl boblogaeth y *Gaeltacht* o'i gymharu â 76 y cant yn 1996. Yr oedd cyfran y siaradwyr yn amrywio â'r uchaf yn swydd Cork (83.1 y cant). Yn drawiadol, yr oedd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Gwyddeleg yn holl ardaloedd y *Gaeltacht* rhwng 1996 a 2002. Yn ogystal, yr oedd defnydd dyddiol o'r Wyddeleg yn y *Gaeltacht* wedi disgyn o 60 y cant i 55 y cant yn 2002 (www.eurolang.net). Casglwyd gwybodaeth manwl am y sefyllfa ieithyddol yn y *Gaeltacht* gan y *Coimisiún na Gaeltachta* a sefydlwyd gan y Llywodraeth yn mis Ebrill 2000. Cynhaliwyd 28 o gyfarfodydd cyhoeddus, rhwng Tachwedd 2000 a Chwefror 2001, ledled Iwerddon, gan gynnwys dau yng Ngogledd Iwerddon. Tynnwyd sylw at yr anghysonderau ynglŷn â'r defnydd o'r iaith yn y *Gaeltacht*, yr anawsterau ynglŷn â chadw ieuentid yn y *Gaeltacht*, yr angen i wella'r ddarpariaeth ar y radio a'r teledu, a safon yr iaith a ddefnyddir gan y cyfryngau (Grin 2003 : 155-156).

Cyn dyfodiad y Normaniaid yn y ddeuddegfed ganrif, yr oedd dyfodol y Wyddeleg yn ymddangos yn ddiogel, gyda'r mwyafrif o'r gwladychwyr Celtaidd, y Pictiaid, yr Eingl Sacsoniaid, y Llychlynwyr a'r Daniaid o dan ddylanwad yr iaith Wyddeleg. Yn sgîl dyfodiad siaradwyr Ffrangeg a Saesneg, gwelwyd newidiadau, ond nid oedd y broses yn un gyflym. Dim ond yn y trefi o fewn y *Pale*, sef yr ardal arfordirol dwyreiniol yn cynnwys Dulyn, yr

ymsefydlodd Ffrangeg a Saesneg, a dim ond yma, ac ychydig o ardaloedd gwledig eraill yr oedd y Saesneg yn bodoli. Serch hynny, yn sgîl dyfodiad y Tuduriaid bu trawsnewidiad yn hanes y Wyddeleg. Lluniodd Harri V111 nifer o ddeddfau yn rhwystro'r defnydd o'r Wyddeleg. Yn fwy arwyddocaol na hyn oedd y cynllun gwladychu gyda'r bwriad i ymsefydlwyr Seisnig gymryd lle'r Gwyddelod. Cyrhaeddodd y cynllun hwn ei anterth yn ystod teyrnasiad Cromwell. Rhwng 1600 a 1800 daeth Saesneg yn iaith bob dydd i tua hanner y boblogaeth a'r un mwyaf dylanwadol, ac ni dderbyniodd y siaradwyr Gwyddeleg gydnabyddiaeth swyddogol (Edwards 1985 : 53-54). Arweiniodd y Newyn Mawr yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg at ymfudo ar raddfa helaeth. Effeithiwyd yn bennaf ar yr ardaloedd gwledig Gwyddelig, a chafodd hyn eto ddylanwad niweidiol ar yr iaith Wyddeleg.

Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bach iawn oedd nifer y Gwyddelod uniaith. Yr oedd dwyieithrwydd fel arfer yn gam unffordd tuag at y Saesneg. Eto nid yw'r ffactorau hyn yn ddigon i esbonio cyflymder y symudiad ieithyddol. Mae'n bwysig cofio fod y Gwyddelod wedi cyfrannu'n ddirfawr tuag at ddyfudiad ieithyddol y Wyddeleg. Fel y dywed de Fréine:-

the worst excesses were not imposed from outside . . . Most of the reasons adduced for the suppression of the Irish language are not so much reasons as consequences of the decision to give up the language.

(de Fréine 1977 : 83-4)

Mae arbenigwyr eraill yn rhoddi llai o bwyslais ar ormes y gorffennol. Yn wir, ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae'r materion mwyaf allweddol yn ymwneud ag ymdrechion i gynnal ac adfywio'r Wyddeleg. Gwnaed rhain yn bennaf gan fudiadau ac unigolion oedd yn perthyn i'r dosbarth uwch, ac i'r mwyafrif ohonynt yr oedd yr iaith yn gymhwyster ychwanegol yn hytrach nag yn un mamol. Y corff ieithyddol pwysicaf oedd y Gynghrair Wyddeleg a sefydlwyd yn 1893. Ei fwriad oedd cynnal yr iaith ond yr oedd yn awyddus hefyd i'w hadfer fel iaith gyffredinol. Yr oedd y mudiad i adfer y Wyddeleg yn

rhan o duedd Ewropeaidd yn enwedig yn yr ardaloedd Celtaidd lle gwnaed ymdrechion rhamantaidd a chenedlaethol i drawsnewid y machlud Celtaidd i'r dadeni Celtaidd. Lleihaodd pwysigrwydd y Gynghrair yn dilyn sefydlu gwladwriaeth annibynnol Iwerddon yn 1921. Eto yr oedd wedi llwyddo i gyflwyno'r Wyddeleg yn yr ysgolion a'r Brifysgol ac wedi denu cefnogaeth eang. Serch hynny, ni lwyddwyd i adfer yr iaith ymhlith y mwyafrif o'r siaradwyr Saesneg, ac ni chafodd effaith tymor hir ar gynnal a datblygu'r *Gaeltacht*. Eto, bu'n allweddol yn y mudiad dros annibyniaeth (Edwards 1985 : 55). Credai nifer, megis Corkery, fod sefydlu gwladwriaeth annibynnol yn allweddol oherwydd am y tro cyntaf er 1169 bu'r wladwriaeth yn gefn i'r iaith. Ar y llaw arall, mae rhai arbenigwyr yn amheus os fu'r wladwriaeth yn gefnogol i'r iaith (Corkery 1968 : 128).

Yn dilyn sefydlu'r wladwriaeth annibynnol, daeth y Wyddeleg yn iaith genedlaethol a swyddogol. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o adfer yr iaith i'r ysgolion. Gwrthododd rhai beirniaid, megis Donald Akenson, yr honiad mai'r Ysgolion Cenedlaethol fu'n bennaf gyfrifol am ddirywiad y Wyddeleg. Eto, ymddangosodd yn syniad da i'r ysgolion Gwyddeleg geisio adfer yr iaith o gofio mai'r ysgolion Prydeinig a gyhuddwyd o'i lladd. Bu'r Wyddeleg yn bwnc gorfodol o'r dechrau ac yr oedd y dosbarth babanod i'w gynnal drwy gyfrwng y Wyddeleg, iaith estron i'r mwyafrif. Yr oedd y mesurau hyn yn ganlyniad i'r argymhellion a benderfynwyd yng Nghynhadledd Mudiad Cenedlaethol Athrawon Gwyddeleg yn 1921 ar gais Yr Athro Timothy Corcoran, Athro Addysg, Prifysgol Dilyn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i'w gynllun i adfywio'r Wyddeleg, a chredai y byddai mwyafrif o'r merched a addysgwyd drwy gyfrwng y Wyddeleg yn athrawon naturiol. Credai fod yr iaith Saesneg yn arwain at feddwl Seisnig. Eto derbyniodd yr angen i ddefnyddio'r Saesneg drwy argymhell cyfieithu llenyddiaeth Gatholig Ewropeaidd i'r iaith honno. Yn rhyfeddol, honnodd yn 1925 y gallai'r ysgolion poblogaidd adfer y Wyddeleg heb gymorth positif o'r cartref. Yr oedd gan eraill syniadau cyffelyb i Corcoran ond yr oedd ei safle yn y Brifysgol yn golygu y talwyd cryn sylw i'w sylwadau pan drafodwyd iaith ac addysg (Edwards 1985 : 56).

Gwrthwynebai athrawon benderfyniad y Llywodraeth i adfywio'r iaith drwy gyfrwng yr ysgolion yn unig. Cyn 1973, yr oedd llwyddo yn y Wyddeleg yn angenrheidiol cyn sicrhau Tystysgrif Gadael. Yr oedd nifer yn wrthwynebus i'r polisi hwn a'r angen am wybodaeth o'r iaith i sicrhau swyddi yn y Gwasanaeth Sifil. Yn ddi-os, canolbwyntiwyd yr ymdrechion i adfywio'r iaith yn yr ysgolion cynradd. Serch hynny, mae nifer o'r athrawon yn anghymwys i wneud hynny oherwydd nid yw'r Colegau Ymarfer Dysgu yn dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Wyddeleg. Mewn gwirionedd, nid yw'n syndod bod yr ysgolion wedi methu, oherwydd ni chefnogir eu hymdrechion gan unrhyw agwedd arall o fywyd Gwyddelig. Yn 1980, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn ar ddatblygiad addysg gan gynnwys y Wyddeleg. Sylweddolwyd na ellir adfer yr iaith drwy gyfrwng yr ysgolion yn unig a rhoddwyd mwy o sylw ar siarad yr iaith. Gellir ystyried y Papur Gwyn ar un wedd fel ymateb i adroddiad y pwyllgor, *Committee on Irish Language Attitudes Research* (1975). Prin yw nifer yr ysgolion yn y Gogledd sy'n dysgu'r Wyddeleg ac maent yn rhai preifaf tra yn y De mae nifer ohonynt yn gyhoeddus. Yn y gorffennol, cefnogwyd yr ysgolion hyn gan y dosbarth canol oherwydd yr angen i sicrhau swyddi ond bellach maent yn genedlaetholgar eu cymeriad ac fe'u cefnogir yn bennaf gan y dosbarth gweithiol. Eto, mae'n debyg mai'r dosbarthiadau isaf yn y gymdeithas sydd fwyaf gwrthwynebus i'r defnydd o'r iaith.

Yn 1972 sefydlodd y Llywodraeth y corff *Comhairle na Gaeilge* i gynghori ar faterion yn ymwneud â'r Wyddeleg, ac argymhellwyd y dylid gosod datblygiadau yn y *Gaeltacht* o dan asiantaeth ganolog. Yn ogystal, yn 1975 sefydlwyd *Bord na Gaeilge* sy'n gyfrifol am hybu'r iaith, ond bu nifer yn feirniadol o'i gweithgarwch. Sefydlwyd yr asiantaeth *Údarás na Gaeltachta* yn 1979 ond wynebodd amryw o broblemau. Yn dilyn datganiad Dydd Gwener y Groglith a awgrymodd sefydlu corff i hyrwyddo'r Wyddeleg a Sgoteg Wlster, ar 2 Rhagfyr 1999 sefydlwyd *Foras na Gaeilge*. Mae'r corff hwn yn gyfrifol am hyrwyddo'r Wyddeleg ledled Iwerddon, gan gynnwys annog pobl i siarad ac ysgrifennu'r iaith yn gyhoeddus ac yn breifat. Mae *Foras na Gaeilge* yn gyfrifol am gynghori Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon, a hefyd Cynulliad Gogledd Iwerddon ynghyd â chyrrff yn y sector gyhoeddus, gwirfoddol a

phrefat mewn perthynas â'r Wyddeleg. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau a staff *Bord na Gaeilge* i'r corff newydd. Ymhlith cyfrifoldebau *Foras na Gaeilge* y mae ariannu cyrff a gweithgareddau Gwyddeleg ynghyd â chyhoeddi deunydd dwyieithog.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae agweddau pobl tuag at y Wyddeleg wedi newid. Yn draddodiadol, cysylltwyd yr iaith â thlodi, yr ardaloedd gwledig a gwaith traddodiadol megis amaethyddiaeth a physgota. Erbyn hyn, mae'r iaith yn gryfach mewn dinasoedd megis Derry, Dilyn a Belfast, ac mae mwy o gyfleodd i ddefnyddio'r iaith mewn canolfannau dinesig. Bellach, mae mwy o barch i'r iaith ac mae nifer yn awyddus i ddysgu'r iaith yn Iwerddon ac hefyd mewn gwledydd eraill megis yr Unol Daleithiau, Canada ac Awstralia. Datblygodd nifer o safleoedd ar y We yn benodol i'r Wyddeleg gan gynnwys rhai i ddysgwyr. Nid oes amheuaeth nad oedd sefydlu'r orsaf deledu Wyddeleg *TG4* yn 1996, ynghyd â'r orsaf radio *Raidio na Gaeltachta* yn 1972, yn gamau allweddol yn natblygiad yr iaith. Fodd bynnag, bu'n rhaid cystadlu gyda'r gorsafoedd Seisnig ac mae dylanwad y teledu yn arbennig yn cyfrannu'n ddirfawr tuag at Seisnigeiddio'r boblogaeth. Sefydlwyd y papur Gweyddelig dyddiol *Lá* ym mis Ebrill 2003 ac erbyn hyn gwerthir oddeutu 5,000 o gopiau yn ddyddiol (www.bnag.ie). Bu cynnydd hefyd yn y nifer o rieni sy'n awyddus i'w plant dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Wyddeleg. Erbyn hyn, mae 159 o ysgolion cynradd a 33 o ysgolion ôl-gynradd (*post-primary*) yn dysgu drwy gyfrwng y Wyddeleg y tu allan i'r *Gaeltacht* (www.bnag.ie).

Y broblem i'r Llywodraeth yw na all llwyr gefnogi'r Wyddeleg ac argymhell symudiad llwyr i'r iaith, ond ni all hefyd ymwrthod â'r mudiad ieithyddol. Fel y noda Macnamara, yr oedd y Llywodraeth yn wynebu problemau dybryd pe buasent wedi gorfodi'r iaith ar y boblogaeth.

It seems unlikely, indeed, that the native government could ever have secured a substantial material advantage for Irish at any level of society without methods so dictatorial that Irish

democracy would have been destroyed. And in the final analysis, neither Irish politicians nor the Irish people wanted that.

(Macnamara 1971 : 86)

Erbyn sefydlu'r wladwriaeth yr oedd y mwyafrif o Wyddelod wedi troi i'r Saesneg ers rhai degawdau. Bu rhai beirniaid, megis Ussher, yn sinicaidd iawn eu barn:-

the Irish of course like their Irish, but they like it dead

(Ussher 1949 : 107)

Y broblem sydd wedi wynebu'r Wyddeleg yw na fu unrhyw gynllunio ieithyddol holistig mewn perthynas â'r iaith. Yn hytrach, cymerwyd yn ganiataol y byddai ymlyniad symbolaidd pobl tuag at yr iaith yn ddigonol i sicrhau ei dyfodol. Yn y llenyddiaeth sy'n ymwneud â ieithoedd lleiafrifol, mae nifer o gyfeiriadau at hanes y Wyddeleg fel cyfle a gollwyd, neu fel enghraifft o'r anhawster i gynllunio llywodraethol i ysgogi adfywiad ieithyddol. Eto, mae'r hyn a ddigwyddodd yn fwy cymhleth, yn enwedig gan dderbyn barn Ó Riagáin nad oes modd ystyried polisïau ieithyddol yn 'autonomous independent factor' (Ó Riagáin 1997: 283). Yn hytrach, rhaid iddynt adlewyrchu tueddiadau a pholisïau eraill, yn seiliedig ar y cyd-destun socio-economaidd ond eto gyda chefnogaeth llywodraethol i sicrhau fod sefydliadau cyhoeddus yn parchu hawliau ieithyddol y dinasyddion. Eto, ni ddylid dod i'r casgliad fod y Gwyddelod wedi troi cefn ar eu hiaith a bod eu hymdrechion i'w hadfer wedi methu'n llwyr. Er mai methiant fu'r *Gaeltacht* yn bennaf, mae rhai ardaloedd yn y dwyrain wedi gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Gwyddeleg. Yn wir, dadleuodd John Edwards mai'r Wyddeleg o'r holl ieithoedd Celtaidd y ceisiwyd eu hadfer, a fu fwyaf llwyddiannus. Eto, bu rhai beirniaid megis P. Ellis a Mac A'Ghobbainn yn feirniadol iawn (Edwards 1985 : 62). Yn gyffredinol, mae dirywiad y Wyddeleg wedi ei ystyried yn ganlyniad i ymsefydlu Seisnig. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio fod y Wyddeleg wedi parhau'n gryf am oddeutu pedwar can mlynedd yn wyneb cryn gystadleuaeth

ieithyddol. Ymdoddwyd yr ymsefydlwyr Seisnig a lluniwyd cyfreithiau i hybu'r Saesneg. Eto, newidiodd hyn yn sgîl amodau politicaidd a chymdeithasol newydd ond cymerodd dros ddau can mlynedd i'r Saesneg ymsefydlu. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd dyfudiad ieithyddol ar raddfa eang yn dilyn cyfres o amgylchiadau yn hytrach na pholisi gormesol yn unig. Mae'n bosibl mai prin yw'r gobaith i wneud y Wyddeleg yn iaith gyfathrebol ledled Iwerddon. Eto, y gobaith yw y bydd cyfran helaeth o'r boblogaeth yn ddwyieithog. Mae'n galonogol fod dwy rhan o dair o boblogaeth Iwerddon yn cytuno fod y Wyddeleg yn allweddol i gynnal hunaniaeth Wyddeleg, ac fel y dywed Joshua Fishman:-

Obviously a quarter million or so fluent speakers of Irish, in a time of already growing Europeanization of outlook, of industry and of economic prospects as a whole, cannot be considered a total failure by any means.

(Fishman 1991 : 128)

2.6 Y Fasgeg

Wrth gymharu sefyllfa'r Wyddeleg yn Iwerddon gyda'r Fasgeg yng Ngwlad y Basg, yr hyn sy'n gyffredin rhwng y ddwy wlad yw'r frwydr arfog a'r elfen genedlaethol. Mae gan Iwerddon boblogaeth o bum miliwn gyda 70 y cant yn byw yng Ngweriniaeth Iwerddon tra bod 30 y cant yn byw yn chwe sir y Gogledd dan reolaeth Prydain. Mewn cyferbyniad â hyn mae poblogaeth Gwlad y Basg oddeutu 2,872,593, gyda 91 y cant yn byw yn nhaleithiau'r de dan awdurdod Sbaen, tra bod 9 y cant yn byw yn y Gogledd dan awdurdod Ffrainc. Yn y ddwy wlad mae'r Eglwys Gatholig yn gryf ac mae'n ymddangos fod mwyafrif y boblogaeth yn awyddus i weld diwedd i'r helyntion sy'n bodoli yno. Mae'r ddau fudiad cenedlaethol, *Sinn Féin* yn Iwerddon a *Herri Batasuna* yng Ngwlad y Basg, yn gwrthod cydnabod y llywodraethau hunanlywodraethol a sefydlwyd, ac yn eu hystyried yn amherthnasol wrth geisio datrys y gwrthdaro. Mae'n debyg fod y berthynas rhwng *Sinn Féin* a'r *IRA* yn ddigon tebyg i'r un rhwng *Herri Batasuna* ac *ETA*. Mae'r gwrthdaro yn ymwneud â ffin sy'n amgylchynu'r ddwy wlad ond mewn ffyrdd gwahanol, ac nid oes


amheuaeth na fu'r frwydr arfog yn fwy difrifol yn Iwerddon nag yng Ngwlad y Basg. Yn wahanol i *Sinn Fein* a dderbyniodd gefnogaeth gan genedlaetholwyr yn yr Unol Daleithiau, ymddengys fel petai'r Basgwyr yno'n ddigon hapus gyda'r drefn bresennol yn y taleithiau deheuol ac nid yw'r mwyafrif yn cefnogi *ETA*. Serch hynny, y prif wahaniaeth rhwng y ddwy wlad yw fod y ddwy gymuned yng Ngogledd Iwerddon mewn gwrthdaro yn barhaol. Er bod ymdeimlad gwrth Fasgeg yn dod i'r wyneb yng Ngwlad y Basg o bryd i'w gilydd, ni ellir sôn am ddwy gymuned mewn gwrthdaro parhaol â'i gilydd. Nid oes amheuaeth nad yw ceisio datrys problem Gwlad y Basg yn llawer llai cymhleth nag un Iwerddon.

Dadleuodd Joshua Fishman fod sefyllfa'r Fasgeg yn nawdegau'r ugeinfed ganrif yn debyg i'r Wyddeleg dair neu bedair cenhedlaeth yn ôl, pan yr oedd ymdrechion i geisio gwrthdroi dyfudiad ieithyddol yn dechrau ac yn edrych yn obeithiol. Er bod statws cyfreithiol y Wyddeleg yn uwch na'r Gymraeg a'r Fasgeg, mae'n amlwg bod ei gwir gryfder yn waeth. Dywed Louis Nunez Astrain:-

we could say that the Irish Government has developed, with regard to the native language, a policy of 'diffusion' (support for the language in education and the media) as well as a 'territorial' policy (support for monolingualism in the Gaeltacht), albeit very weak support in both instances.

(Astrain 1997 : 145)

Serch hynny, er bod ymrwymiad y Llywodraeth i'r Wyddeleg yn wan, gall weithredu i sicrhau dyfodol yr iaith yn y *Gaeltacht*. Ni fyddai'n bosib gweithredu yn gyffelyb yng Ngwlad y Basg. Er sefydlu'r *Basque Autonomous Community* yn 1979, bu'r Fasgeg ynghyd â'r Sbaeneg yn ieithoedd swyddogol yn nhaleithiau Bizkaia, Gipuzkoa ac Araba. Yn ogystal, mae gan yr iaith ychydig o statws swyddogol yn nhalaith Navarre. Eto nid oes statws swyddogol yn ardaloedd Ffrangeg Gwlad y Basg. Daeth grŵp o gynghorau trefol yn ne'r wlad at ei gilydd gyda'r bwriad o wireddu gobeithion y rhai hynny sy'n



awayddus i fyw eu bywydau yn llwyr drwy gyfrwng y Fasgeg. Mae'r cynghorau hyn yn rhan o'r mudiad a elwir yn *UEMA* a sefydlwyd yn 1989 ac ar hyn o bryd mae ugain o gynghorau yn aelodau. Mae'r mudiad yn cynnwys ardaloedd sydd a mwy na 80 y cant yn siarad y Fasgeg. Mae tua 100 o'r ardaloedd hyn mewn cyfanswm o tua phum cant yn rhannau deheuol y wlad ac mae eu cyfanswm o siaradwyr Basgeg tua 100,000 mewn cyfanswm o 600,000. Maent i gyd yn ardaloedd lle mae'r boblogaeth yn wasgaredig (Astrain 1997 : 24-5).

Mae yna wahaniaeth sylfaenol rhwng Iwerddon â Gwlad y Basg. Prif fwriad yr ymgyrch genedlaethol yn Iwerddon yw ailuno'r de a'r gogledd tra mai prif nod y Basgwyr yw sicrhau eu hawl i hunan-lywodraeth gyda'r bwriad i warchod eu hunaniaeth genedlaethol, yn enwedig eu hiaith. Ailuno tiriogaethol sy'n bwysig i'r Basgwyr a'u nod ar hyn o bryd yw ailuno'r pedair talaith ddeheuol yn hytrach nag ailuno'r de a'r gogledd. Er bod diogelu'r Wyddeleg yn sicr yn un o'r amcanion cenedlaethol, ymddengys petai'r Gwyddelod yn ystyried eu bod wedi colli eu hiaith. Ar y llaw arall mae yna gefnogaeth amlwg ymhlith y Basgwyr i'r *ikastola*, sef yr ysgolion sy'n dysgu oedolion i ddarllen ac ysgrifennu'r iaith ac i'r wasg Fasgeg. Er nad yw pawb yn ystyried yr iaith yn bwysig, nid oes amheuaeth nad yw'n rhan annatod o hunaniaeth Basgeg. Er bod chwaraeon, dawnsio, coginio, gwyliau ynghyd â nifer o agweddau eraill yn cynrychioli hunaniaeth Basgeg, mae'n amlwg fod yr iaith yn allweddol, a chanlyniad colli'r iaith oedd creu ymdeimlad o ddiacter ymhlith y Basgwyr (Astrain 1997 : 146).

Er bod tebygrwydd rhwng y sefyllfa yng Ngwlad y Basg ac Iwerddon, mae'n wir i ddweud bod y sefyllfa ieithyddol yng Ngwlad y Basg yn debycach i'r Gymraeg na'r Wyddeleg. Yn ogystal â sefyllfa'r ddwy iaith, mae nifer o ffactorau eraill yn gyffredin rhwng Gwlad y Basg a Chymru. Fel y dywed Gardner, Serralvo a Williams:

Indeed, it seems that the present weakened state of both Welsh and Basque owes much to very similar factors: primarily, the change to the present capitalist mode of production, based on

mining (coal in Wales, iron ore in the Basque Country) and steel production in the middle of the last century, which brought with it the need for a single language in common with the rest of the state.

(Williams 2000: 320)

Fodd bynnag, yn wahanol i'r Gymraeg mae'n rhaid i'r Fasgeg wynebu bygythiad dwy iaith wladwriaethol, sef Ffrangeg a Sbaeneg, a datblygodd ffurf safonol o'r Gymraeg yn gynharach na'r Fasgeg.

Mae'n werth nodi mai'r Fasgeg neu'r *Euskara* yw'r iaith hynaf yn Ewrop a'r unig iaith sy'n parhau o'r rhai a siardwyd ar y cyfandir cyn dyfodiad yr Indo-Ewropeaid oddeutu pedair mil o flynyddoedd yn ôl. Nid oes tystiolaeth yn awgrymu y siardwyd unrhyw iaith yno cyn y Fasgeg. Mae'r iaith yn unigryw am nad oes ganddi unrhyw gysylltiadau ieithyddol. Siaredir yr iaith heddiw gan oddeutu 660,000 o bobl ar ochr orllewinol y Pyreneau ar hyd Bae Gwasgwyn. Mae llai na 80,000 o siardwyr wedi eu lleoli ar yr ochr Ffrangeg i'r ffin tra bod y gweddill ar yr ochr Sbaeneg. Mae'r ardal lle siaredir yr iaith yn ymestyn o ychydig y tu allan i ddinas Bayonne yn y gogledd i ymylon dinas ddiwydiannol Bilbao yn y gorllewin ac maent yn cynnwys nifer helaeth o siardwyr yr iaith. San Sebastian yw'r unig ganolfan o bwys sy'n perthyn i'r ardal lle siaredir yr iaith. Yn ogystal, fel canlyniad i ymfudo ag amryw o resymau eraill, canfyddir siardwyr yr iaith ledled y byd, megis yn ninasoedd eraill Sbaen a Ffrainc, yn Llydaw, Gwlad Belg, Lloegr, gorllewin yr Unol Daleithiau, rhannau o America Ladin ac Awstralia.

Nid oes amheuaeth na fu polisiau Madrid a Paris yn wrthwynebus i'r Fasgeg yn ystod y ddeunawfed ganrif, y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Eto datblygwyd hyn yn sylweddol yn dilyn sefydlu llywodraeth Franco yn ne'r Pyreneau. Gwelwyd y Wladwriaeth Sbaenaidd yn gwahardd arwyddion cyhoeddus yn y Fasgeg, ynghyd â chofrestru dinesig plant ag enwau Basgeg. Ni dderbyniwyd Academi'r Iaith Fasgeg a sefydlwyd yn 1918 yn swyddogol nes 1976, yn dilyn marwolaeth Franco. Mae'n debyg mai

nid enciliad yr ardal lle siaredir yr iaith sy'n peri fwyaf o bryder ond yn hytrach dirywiad amlwg yr iaith yn yr ardal honno. Yn ei amcangyfrif o nifer siaradwyr yr iaith yn 1868 nododd Ladislao de Velasco fod 54 y cant o boblogaeth y saith talaith yn siarad Basgeg. Erbyn 1991 yr oedd y ganran hon wedi disgyn i 23.7 y cant.

Tabl 2.6.1: Niferoedd a chanrannau siaradwyr Basgeg

	Cyfanswm y boblogaeth	Cyfanswm y boblogaeth dros 2 oed	Siaradwyr Basgeg	
			Nifer	%
BAC *	2,104,041	2,068,927	543,617	26.3
<i>Araba</i>	272,447	267,557	22,995	8.6
Biscay	1,155,106	1,136,358	215,219	18.9
<i>Gipuxkoa</i>	676,488	65,012	05,403	45.9
Navarre	519,277*	501,989**	50,951 **	10.5
Iparraldea	249,275***	212,400****	56,200 ****	26.4
Gwlad y Basg	2,872,593	2,783,316	650,768	23.4

Ffynonellau: * Cyfrifiad 1991; ** Cyfrifiad 1986; *** Cyfrifiad 1990; **** Dros 15 yn unig yn seiliedig ar arolwg sosioieithyddol 1996.

(Gardner 2000: 20)

Yn yr un modd â chyfrifiadau mewn gwledydd eraill, mae canlyniadau'r cyfrifiad yng Ngwlad y Basg yn annibynadwy wrth fesur gallu ieithyddol. Er bod y wybodaeth a gyflwynir yn y cyfrifiad yn ffynhonnell ddefnyddiol iawn ar gyfer amrywiaeth o agweddau, yn yr un modd â'r cyfrifiad yng Nghymru, nid yw'n darparu llawer o wybodaeth am allu ieithyddol.

Mae'r ardal lle siaredir yr iaith yn bennaf yn fynyddig a gwlyb. Eto, gwahanol iawn yw de Gwlad y Basg, sef yr ardal lle bu'r dirywiad amlycaf.

Mae'n llawer mwy gwastad a sych na'r gogledd, yn boethach yn yr haf ac yn oerach yn y gaeaf. Mae tir mynyddig Gwlad y Basg, ynghyd â statws isel yr iaith, wedi arwain at amrywiaeth o dafodieithoedd, ac mae rhai o wahanol ardaloedd Gwlad y Basg yn cael anhawster i ddeall eu gilydd yn siarad. Ers chwedegau'r ugeinfed ganrif bu'r Basgwyr yn datblygu ffurf safonol o'r iaith, *euskera batua* dan arweiniad *Euskaltzaindia*, Academi Frenhinol yr Iaith Fasgeg. Yn ystod y ddau can mlynedd ddiwethaf, yr oedd dirywiad yr iaith yn fwy amlwg yn ardaloedd deheuol Gwlad y Basg sydd dan reolaeth Sbaen, yn hytrach na'r rhan ogleddol sydd dan reolaeth Ffrainc. Yn ddi-os, cyfrannwyd at y broses hon gan fewnlifiad o weithwyr uniaith Sbaeneg i'r de yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Eto, yn y blynyddoedd diwethaf, bu arwyddion o adfywiad yn ne'r wlad. Er 1981 gofynnwyd cwestiwn ar yr iaith yn y cyfrifiad: yn Alava, Guipuzcoa a Vizcaya yn 1981 ac yn Navarre yn 1986 a 1991. Nid yw'r cyfrifiad wedi casglu gwybodaeth ieithyddol am yr ardaloedd gogleddol dan awdurdod Ffrainc. Dengys y wybodaeth a gasglwyd yn y cyfrifiad, yn y de, fod nifer y siaradwyr wedi cynyddu o 21.5 y cant yn 1981 ac i 24.5 y cant yn 1986 i 26 y cant yn 1991 (taleithiau Alava, Guipuzcoa a Vizcaya). Drwy gynnwys Navarre gellir nodi mai cyfran y siaradwyr Basgeg oedd 21.7 y cant yn 1986 a 22.9 y cant yn 1991. Mae'n bwysig ystyried fod y Basgwyr yn tueddu i oramcangyfrif eu gwybodaeth o'r iaith. Eto dengys yr ystadegau a gyflwynir gan y cyfrifiad obaith am y dyfodol yn dilyn y cynnydd cymharol yng nghanran siaradwyr y Basgeg yn ne'r wlad (Astrain 1997 : 13-14).

Hyd at yn gymharol ddiweddar, yr oedd cyfran o boblogaeth Gwlad y Basg yn siaradwyr uniaith yr iaith Fasgeg. Erbyn heddiw, mae bron yn amhosib i fyw'n llwyr gyda gwybodaeth o'r Fasgeg yn unig. Heblaw am blant o dan saith oed mae'r mwyafrif (heblaw am siaradwyr oedrannus yn Gipuzkoa) yn ddwyieithog (Ffrangeg a Sbaeneg). Yn 2001, cyfeiriwyd at agweddau amrywiol grwpiau cymdeithasol Gwlad y Basg mewn adroddiad ar Bolisi Iaith Gwlad y Basg gan Ddiprwy Weinyddiaeth Gwlad y Basg ar gyfer Polisi Iaith. Ar y cyfan tueddai dosbarthiadau llywodraethol Gwlad y Basg, gan gynnwys uchelwyr, masnachwyr, arweinwyr crefyddol a'r dosbarth canol (*y bourgeoisie*) fod yn elyniaethus tuag at yr iaith, a'r unig eithriad i hyn oedd rhai carfannau

yn yr Eglwys (*Report . . . Basque Autonomous Community* 2001:12). Ers marwolaeth Franco yn 1975 bu ymdrechion i ail-ddatgan pwysigrwydd yr iaith yn y De, a bellach am y tro cyntaf yn ei hanes mae gan y Fasgeg nifer helaeth o siaradwyr ail-iaith. Mae'n orfodol i Fasgwyr wneud defnydd o'r Ffrangeg neu'r Sbaeneg; nid oherwydd rhesymau cyfreithiol, ond yn sgîl statws cymdeithasol isel yr iaith Fasgeg. Yn wir, yr oedd canlyniad 5,300 o gyfweliadau ledled Gwlad y Basg yn 1991, a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn *Jakin* ar ddiwedd 1993, yn dangos fod dros hanner poblogaeth Gwlad y Basg yn fwy cyfforddus yn cyfathrebu'n Ffrangeg neu'n Sbaeneg yn hytrach na'r Fasgeg. Yn ogystal, dim ond 53 y cant o deuluoedd Basgeg sy'n siarad yr iaith yn y cartref, 44 y cant pan mae'r siaradwr Basgeg yn ymweld â'u ffrindiau a 37 y cant pan maent yn y gwaith (Astrain 1997 : 15).

Ers marwolaeth Franco yn 1975, mae nifer, yn enwedig sylwebwyr tramor o'r farn fod plant a phobl ifanc Gwlad y Basg yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Fasgeg. Nid yw hyn yn wir o gwbl, ac adlewyrchir hyn yn y grŵp oedran allweddol, chwech i bedair ar ddeg. Yn y tair dalaith dan awdurdod Ffrainc, dim ond 1.4 y cant o blant sy'n derbyn eu haddysg yn y Fasgeg yn yr ysgolion a elwir yn *ikastolak*, sef ysgolion preifat a hybir gan rieni am resymau gwladgarol. Daeth y mudiad i fodolaeth yn dilyn arbrofion yn Guipuzcoa yn y chwedegau a drefnwyd ar y dechrau yn y dirgel. Er na chefnogwyd y mudiad gan yr awdurdodau, fe'i goddefwyd ac mae'n arloesol yn Ewrop. Bellach mae wedi lledu i bob cwr o'r wlad. Yn 1991-92, yr oedd yr ysgolion yn y rhannau deheuol yn darparu addysg i 17 y cant o ddisgyblion. Oni bai am ddyfodiad yr ysgolion buasai trosglwyddiad yr iaith i'r rhai a fagwyd yng nghyfnod Franco wedi bod yn anhebygol iawn.

Yn y rhannau deheuol dan awdurdod Sbaen, dengys ffigurau diweddar nad yw 58.3 y cant o blant yn medru'r iaith erbyn iddynt gwblhau eu haddysg orfodol yn bedair ar ddeg (Astrain 1997 : 17). Eto, bu cynnydd parhaol yn nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion ac sy'n dysgu'r iaith, ac mae'r cyfrifiad yn cadarnhau'r tueddiad hwnnw. Cofnodwyd fod 36 y cant o'r rhai rhwng 15-17 oed yn hawlio eu bod yn gallu darllen mewn cyferbyniad â 23 y cant o'r rhai

rhwng 25- 29 oed (Fishman 1991 : 180). Yn ogystal, mae'r ddwy sianel deledu Basgeg, chwe sianel radio sy'n darlledu yn y Fasgeg, ynghyd â'r twf mewn cynhyrchu llyfrau Basgeg a'r papur dyddiol Basgeg a sefydlwyd er 1990, yn arwyddion calonogol eraill o adfywiad yr iaith.

Addysg yw prif gyfrwng adfywiad ieithyddol yng Ngwlad y Basg. Mae rhieni yn gynyddol wedi dewis addysg cyfrwng Basgeg i'w plant ac i raddau llai addysg ddwyieithog. Tra bod hyn wedi digwydd yn y sector gynradd ac uwchradd, bu'r cynnydd mwyaf dramatig mewn addysg feithrin. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y Basgwyr ifanc sy'n siarad yr iaith ac mae dysgu Basgeg fel ail iaith wedi dod i ben mewn rhai o gadarnleoedd yr iaith. Er bod Llywodraeth Gwlad y Basg yn ymrwymedig i farchnata manteision dwyieithrwydd, dylid pwysleisio bod y newidiadau yn nulliau dysgu Basgeg mewn ysgolion yn ganlyniad i ddewis rhieni, yn hytrach na gorfodaeth gan y Llywodraeth. Er mwyn galluogi ysgolion i ddarparu ar gyfer y cynnydd hyn yn y galw am addysg ddwyieithog, darperir cyrsiau trochi i athrawon yn yr iaith Fasgeg er mwyn eu galluogi i ddysgu yn y ddwy iaith. Mae hyn wedi arwain at gynnydd dros gyfnod o ugain mlynedd yn yr athrawon sy'n gallu dysgu'n ddwyieithog a'r canrannau yn codi o 4 y cant i 64 y cant (www.cymru.gov.uk)

Wrth i Fasgwyr ganolbwyntio a thrawsnewid y ddarpariaeth addysg ddwyieithog yn y sector cynradd ac uwchradd, yr oeddynt wedi anwybyddu meysydd megis addysg galwedigaethol ac addysg uwch. Erbyn hyn, mae mwy o ddeunydd addysgu Basgeg ar gyfer cyrsiau addysg galwedigaethol. Er bod diffyg deunydd addysgu ar gael hefyd yn y sector addysg uwch, mae cynnydd graddol yn nifer y cyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Fasgeg. Yn galonogol, mae myfyrwyr yn manteisio i astudio'r cyrsiau hynny sydd ar gael yn yr iaith Fasgeg, ac mae oddeutu 30 y cant o ddarlithwyr yn gallu dysgu'n ddwyieithog.

Mae Basgwyr wedi buddsoddi'n sylweddol yn y sector addysg i oedolion ac mae nifer o ganolfannau addysg oedolion sef *euskaltegi* a

darpariaeth chefnogaeth ganolog sef *HABE* sy'n darparu deunydd addysgu ac hyfforddiant i athrawon: gwneir llawer o hyn ar y We. Mae dros 110 o ganolfannau dysgu Basgeg i Oedolion ac oddeutu 37,000 o Fasgwyr yn mynchu'r cyrsiau (www.cymru.gov.uk). Y cyrsiau mwyaf poblogaidd yw'r rhai sy'n darparu hyfforddiant dwy awr am bum niwrnod yr wythnos. Mae oddeutu €28 miliwn wedi ei wario ar addysg Basgeg i oedolion â'r mwyafrif wedi ei neilltuo i sybsideiddio'r cyrsiau a gynigir gan y gwahanol ganolfannau addysg i oedolion, â'r mwyafrif yn sefydliadau preifat. Cyflogir oddeutu 60 yn uniongyrchol gan *HABE* a chyflogir yr athrawon iaith yn uniongyrchol gan y canolfannau addysg i oedolion. Mae ffocws y canolfannau iaith wedi symud o ddarparu cyrsiau ar gyfer oedolion ifanc, sy'n adlewyrchiad o lwyddiant y system addysgol, i ddarparu hyfforddiant ieithyddol ar gyfer y rhai sydd mewn swyddi. Gellir dadlau fod gormod o bwyslais wedi ei rhoi ar y sector addysg ar draul rhai peuoedd eraill, megis iaith y cartref, y gwaith ac ym myd iechyd.

Ers y Chwyldro Ffrengig yn 1789, bu'r awdurdodau yn ardaloedd gogleddol Gwlad y Basg yn gweithredu polisi o wrthwynebu pob iaith ar wahân i'r Ffrangeg. Eto, yn sgîl dirywiad yr iaith yn yr ardaloedd hyn, bu peth cefnogaeth swyddogol i'r iaith megis yn yr ysgolion lle dysgwyd yr iaith. Serch hynny, pur ddi-nod fu'r achosion hyn yn nhermau eu niferoedd a'u darpariaeth ariannol. Gellir sôn am sefyllfa debyg yn ardaloedd deheuol y wlad: yn Navarre lle bu'r awdurdodau yn gefnogol i'r iaith tra mae'n dirywio ond go brin y gellir sôn am unrhyw ymdrechion i'w hadfywio.

Yn yr un modd, ni roddwyd cefnogaeth am flynyddoedd i'r papur dyddiol *Egunkaria*, sef yr unig bapur a gyhoeddir yn uniaith yn yr iaith Fasgeg. Er bod yr awdurdodau yn talu am hysbysebion swyddogol yn y papurau Sbaeneg, gwrthodwyd gwneud hynny yn y papur Basgeg tan 1994 pan rhoddodd y *Comunidad Autónoma Vasca (CAV)* sef y rhanbarth Fasgeg o fewn y Wladwriaeth Sbaeneg derfyn ar y polisi hwn. Yn draddodiadol, bu dinasyddion Gwlad y Basg yn fwy cefnogol i'r iaith na'r awdurdodau sy'n pwysleisio'n barhaol fod yr iaith ar gynnydd. Yn yr un modd ag Iwerddon,

mae cefnogaeth gyhoeddus i'r Fasgeg ac ym mhob arolwg barn mae oddeutu 80 y cant o'r boblogaeth yn gefnogol i'r cwestiynau hynny a ofynir am yr iaith. Ni ellir sicrhau y bydd y gefnogaeth hon yn parhau ac mae angen ar frys bolisiâu ieithyddol i sicrhau parhad yr iaith fel un fyw.

Wrth ystyried effaith diwydiant ar y Gymraeg yng Nghymru ac yng Nghwm Gwendraeth yn benodol, mae'n ddiddorol sylwi ar ddigwyddiadau perthnasol yng Ngwlad y Basg. Yn ei gymhariaeth o'r newidiadau ieithyddol a welwyd yng Nghymru â Gwlad y Basg rhwng canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg â'r cyfnod yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf, dangosodd Germán Basterra fod y diwydiannu a welwyd yn y ddwy wlad yn rhan o'r ehangu byd-eang o ddulliau cynhyrchu cyfalafol, yn seiliedig ar bresenoldeb mwynhaearn a glo. Dechreuodd diwydiannu yng Ngwlad y Basg gydag uno tollau ar hyd ffiniau cenedlaethol Sbaen yn 1841. Cyn 1900, yr oedd diwydiannu wedi ei gyfyngu i'r ardaloedd yn amgylchynu Bilbao ac i raddau llai, y canolfannau dinesig yn Guipuzcoa. Parhaodd Navarre ac Alava yn bennaf yn wledig tan bumdegau'r ugeinfed ganrif. Rhan ganolog o botensial diwydiannol Gwlad y Basg oedd haenau hynod gyfoethog o fwynhaearn a glo a leolwyd ger Bilbao.

Yn 1868 yr oedd Deddf y Glofeydd yn caniatáu allforio mwyn ac arweiniodd hyn at fuddsoddiad tramor yn enwedig gan Brydain. Ymhen amser yr oedd gwledydd tramor yn rheoli oddeutu 50 y cant o'r diwydiant glo yng Ngwlad y Basg. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd Sbaen yn cynhyrchu 21.5 y cant o gynnyrch mwynhaearn y byd, ac yr oedd y mwyafrif o'r mwyn yn cael ei gloddio o amgylch Bilbao. Ar ôl 1900 ac yn enwedig ar ôl 1910, dirywiodd y sector glo yn ddirfawr. Eto parhaodd ehangu diwydiannaol Gwlad y Basg, yn enwedig diwydiant trwm. Arweiniodd yr ail gyfnod o ehangu diwydiannol yng Ngwlad y Basg at fewnfudo ar raddfa helaeth. Rhwng 1955 a 1975 profodd Gwlad y Basg y twf demograffaid mwyaf yn Sbaen ar wahân i dalaith Madrid. Tra bod poblogaeth Sbaen wedi cynyddu ar gyfartaledd o 23.5 y cant yr oedd y gyfran hon yn 60 y cant yng Ngwlad y Basg. Gwelwyd y twf mwyaf yn yr ardaloedd diwydiannol newydd.

Yn wir cynyddodd poblogaeth Guipuzcoa o 10,106 yn 1940 i 37, 310 yn 1973.
Dywed Marianne Heiberg:-

The reasons behind this mass immigration had not changed.
Spain was still mainly rural and impoverished. Labour-short
Basque industry offered employment and reasonable wages.

(Heiberg 1989 : 94-95)

Er bod gweithwyr wedi mewnfudo o ardaloedd tu hwnt i Wlad y Basg cyn yr Ail Rhyfel Byd, bu cynnydd sylweddol yn eu niferoedd wedi hynny. Ar ddiwedd y pumdegau, daeth nifer ohonynt o ardaloedd megis Galicia a Castile Newydd. Eto yn y chwedegau daeth rhai o ardaloedd pellenig megis Andalucia a Extremadura. Yr oedd eu dylanwad yn llawer mwy sylweddol na'r rhai a ddaeth yn gynharach, nid oherwydd eu bod yn fwy niferus, ond gan fod diwydiant wedi ymestyn i bob rhan o Wlad y Basg ac nid yn unig yr ardaloedd diwydiannol. Tra bod gan ganolfannau dinesig megis Bilbao a San Sebastian draddodiad Sbaenaidd hir, yr oedd nifer o'r canolfannau diwydiannol mwy diweddar, megis Mondragon, Durango ac Ermura wedi eu lleoli yng nghefn gwlad. Bu cryn wrthwynebiad i'r mewnfudo gan y brodorion a theimlai nifer eu bod wedi datblygu'n lleiafrif yn eu mamwlad. Yn ddi-os, un ffordd y gallai'r mewnfudwyr integreiddio oedd dysgu'r iaith Fasgeg ac yn wir dyna y ceisiodd llawer eu wneud. Eto mae'n iaith anodd i'w dysgu a phrin yw'r rhai sy'n llwyddo i wneud hynny. Maent yn ymwybodol hefyd fod mwyafrif o'r brodorion heb ddysgu'r iaith. Dywed Joshua Fishman:-

the Spanish-speaking newcomers to the Basque region-
particularly those coming to its more urban areas-typically found
it neither possible, desirable nor even imaginable that they learn
Basque.

(Fishman 1991 : 152)

Yr oedd y chwyldro diwydiannol a ddechreuodd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn enwedig yn Vizcaya a Guipuzcoa wedi

llwyddo i ddarostwng y Basgeg i statws iaith lleiafrifol yn y ddwy dalaith. Gellir dadlau bod tair ffactor yn gysylltiedig â diwydiant wedi cyfrannu at wthio Basgeg yn iaith lleiafrifol. Yn gyntaf, symudodd Basgwyr o ardaloedd gwledig i drefi lle yr oedd y Basgeg yn gymdeithasol yn llai pwysig. Yn y gorffennol, nid oedd angen i Fasgwyr gael gwybodaeth o Sbaeneg ond yn y trefi diwydiannol bu'n rhaid iddynt ddysgu a defnyddio Sbaeneg. Yn ogystal, ymfudodd nifer o Fasgwyr i'r Unol Daleithiau, canolbarth a de America ac aeth nifer o Fasgwyr Ffrengig i ardaloedd eraill yn Ffrainc, yn enwedig i Baris. Yn ail, symudodd nifer o weithwyr a oedd yn siarad Sbaeneg o ardaloedd eraill yn Sbaen a chanlyniad hyn oedd nifer uwch o siaradwyr Sbaeneg na siaradwyr Basgeg mewn rhai ardaloedd. Yn drydydd, ehangwyd y defnydd o addysg a oedd yn bennaf drwy gyfrwng y Sbaeneg (*Report . . . Basque Autonomous Community 2001 : 12*)

Yn yr un modd â nifer o ieithoedd lleiafrifol eraill cysylltir y Fasgeg gyda'r ardaloedd gwledig. Eto, nid yw hyn yn gywir oherwydd yn sgîl diwydiannu y ddwy dalaith Vizcaya a Guipuzcoa, mae dros hanner y siaradwyr Basgeg wedi eu lleoli yn y dinasoedd a'r trefi. Dan deyrnasiad Franco, cafodd y Basgwyr eu gwaradwyddo yn ddwylliannol ac yn boliticaidd, ond gwelwyd ffyniant economaidd. Mae Basgwyr yn ddiffuant eu barn fod eu hiaith wedi bod mewn perygl gwirioneddol yn ystod cyfnod Franco. Maent yn cyfeirio at ffactorau megis gormes diwylliannol Sbaeneg yn gyffredinol (sef polisi swyddogol Franco yn gwahardd defnyddio'r Fasgeg), y wasg dorfol a oedd yn llwyr drwy gyfrwng y Sbaeneg, mewnfudo sylweddol o weithwyr Sbaenaidd a lleihad yn y sector wledig lle yr oedd diwylliant a'r iaith Fasgeg yn cael eu gwarchod fel ffordd o fyw. Eto dengys Cyfrifiad 1991 fod 681,030 yn medru'r iaith ac mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r amcangyfrif o 4-600,000 a oedd yn medru'r iaith yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ar sail hyn, dadleuodd Marianne Heiberg :-

These figures seem to question one of the most widely and emotionally held beliefs in the Basque country today- that due to centralization and industrialization the Basque language has

been decimated. On the contrary, despite its rural roots and lack of a developed literary tradition, Euskera seems to have survived these forces rather better than many similar languages in milder political climates, for example, Welsh and Gaelic.

(Heiberg 1989 : 100)

Mae Basgwyr wedi rhoddi cryn bwyslais ar hyrwyddo defnydd o'r iaith ac yn raddol ymestyn defnydd o'r iaith i beuoedd newydd. Mae Llywodraeth Gwlad y Basg yn darparu cymorthdaliadau er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cael ei hyrwyddo yn gyffredinol yn y cyfryngau megis papurau newydd, cylchgronau, papurau cymunedol a radio. Mae dwy sianel deledu cyhoeddus yng Ngwlad y Basg yn darlledu'n y Fasgeg a'r Sbaeneg, ac mae gan y ddwy eu cyllidebau eu hunain. Yn ogystal, mae sianelau teledu lleol. Mae nifer o gynlluniau gan y Llywodraeth sy'n annog plant i ddefnyddio Basgeg yn eu hamser hamdden a darllen llyfrau Basgeg. Mae Basgwyr wedi bod yn frwd iawn i ddatblygu defnydd o'r iaith yn y cyfryngau newydd a thechnoleg a darperir grantiau a chymorthdaliadau, er enghraifft, i sicrhau fersiynau ar y We o bapurau newydd Basgeg.

Mae arolygon iaith a gynhelir bob pum mlynedd yn rhan allweddol o gynllunio ieithyddol yng Ngwlad y Basg. Maent yn galluogi cynllunwyr ieithyddol i sicrhau gwybodaeth fanwl o'r nifer sy'n siarad Basgeg ynghyd â defnydd o'r iaith mewn gwhanol sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae'r arolygon hefyd yn galluogi cynllunwyr ieithyddol i fesur ac asesu effeithiolrwydd eu cynlluniau i adfywio'r iaith. Llwyddiant cymharol fu datblygu defnydd o'r Fasgeg o fewn y gwasanaeth sifil. Cyflwynwyd cynllun proffil ieithyddol ar gyfer swyddi'r gwasanaeth sifil er mwyn mesur faint o Fasgeg sydd ei hangen ar gyfer swyddi penodol ond mae hyn wedi gwanhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Williams 2000: 329). Yn gyffredinol, mae angen gallu ieithyddol uwch ar gyfer swyddi sy'n ymwneud â'r cyhoedd gan gynnwys rhai yn ymwneud â meysydd addysg ac iechyd. Bu ewyllys da tuag at hyn, ac mae mwyafrif y staff sydd mewn swyddi â phroffil ieithyddol wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol o Fasgeg ar gyfer eu gwaith. Fodd bynnag, mae ychydig o

ansicrwydd os yw hyn wedi helpu i drawsnewid Basgeg i fod yn iaith weithredol o fewn y gwasanaeth sifil. Felly, cyfyngir y defnydd o'r iaith i rannau penodol o'r weinyddiaeth. Mae Dirprwy Weinyddiaeth ar gyfer Polisi Iaith yn Llywodraeth Gwlad y Basg yn rhan o Adran Ddiwylliant y Llywodraeth. Sefydlwyd y Dirprwy Weinyddiaeth yn 1983 yn fuan ar ôl pasio Cyfraith i Hyrwyddo'r Fasgeg (1982). Swyddogaeth y Weinyddiaeth yw cydlynu a monitro polisi ieithyddol Llywodraeth Gwlad y Basg, a hefyd datblygu a sefydlu'r meini prawf y mae'r Llywodraeth yn awdurdodi y dylid eu dilyn gan y weinyddiaeth cyhoeddus.

Mae cefnogaeth sefydliadol yn holl bwysig wrth adfer ieithoedd lleiafrifol, ac mae'n amlwg fod difaterwch sefydliadol yn yr ardaloedd yn Ffrainc lle siaredir Basgeg yn arwain at leihad yn nifer y siaradwyr a defnydd dyddiol o'r iaith. Mae Basgwyr wedi buddosoddi llawer o amser ac ymdrech ar lefel llywodraeth ganolog a lleol i ddatblygu cynlluniau iaith ar gyfer cynyddu'r niferoedd o siaradwyr Basgeg a chyfloedd i ddefnyddio'r iaith. Er bod addysg yn holl bwysig i adfer yr iaith mae cryn bwyslais yng Ngwlad y Basg ar gynyddu'r cyfloedd i ddefnyddio'r iaith ym mywyd bob dydd. Anogaeth yn hytrach na gorfodaeth yw ymagwedd y Basgwyr i adfywiad ieithyddol. Mae'r sector breifat yn cael ei hannog i ddefnyddio'r iaith ac mae manteision Basgeg a dwyieithrwydd yn cael eu hyrwyddo a'u marchnata'n eang.

Yn gyffredinol, er bod Cyfrifiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Basgeg, bu dirywiad sylweddol yn yr iaith yn yr ardaloedd ogleddol. Rhoddir syniad yn yr astudiaeth *Euromosaic* o gryfderau a gwendidau y cymunedau lle siaredir Basgeg. Mewn arolwg o'r pedwar deg wyth o ieithoedd lleiafrifol Ewrop, gosodir y *Basque Autonomous Community* (BAC) yn wythfed, Navarre yn unfed ar hugain, ac Ardal Basgaid Ffrainc yn chweched ar hugain: ar y rhestr hon gosodwyd Cymru yn unfed ar ddeg. Amcangyfrifodd adroddiad angyhoeddiedig Llywodraeth Gwlad y Basg, *Reclus*, petai polisïau presennol yn parhau, y byddai canrannau siaradwyr Basgeg yn parhau i gynyddu yn y BAC, disgyn yn Ffrainc, a byddent yn ddibynnol ar sut y gweithredir y polisïau yn Navarre (Williams 2000:332).

2.7 Catalaneg

Tra siaredir Basgeg mewn dwy wlad yn Ewrop, siaredir Catalaneg mewn pedair gwlad, sef Sbaen, Ffrainc, Yr Eidal, ac Andorra. Y prif ganolfan yw Catalonia, un o'r ddwy ar bymtheg o gymunedau hunan-lywodraethol Sbaen. Er i Gatalonia a Gwlad y Basg fod yn rhan o wladwriaeth Sbaen, yr oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng cenedlaetholdeb y ddwy wlad, gyda therfysgaeth gwleidyddol a gynrychiolir gan *ETA*, a mudiad i sicrhau gwladwriaeth ar wahân, yn fwy nodweddiadol yng Ngwlad y Basg. Gwelir agweddau gwahanol gan y dosbarth canol, y *bourgeoisie*, yn y ddwy wlad. Maent yn adlewyrchu datblygiadau economaidd a gwleidyddol ond ar yr un pryd rhaid bod yn ofalus i beidio a gor-symleiddio'r sefyllfa gymhleth ynddynt. Yng Ngwlad y Basg, datblygodd y dosbarth canol, y *bourgeoisie*, gysylltiadau agos gyda chyfalafwyr Sbaen drwy eu diddordeb arbennig mewn bancio a nwyddau cyfalaf (*capital goods*) ac o ganlyniad tueddent i fod yn elyniaethus i genedlaetholdeb Basgaidd (McRoberts 2001: 187). Ar y llaw arall, yr oedd prif ddiddordeb dosbarth canol Catalonia, a oedd yn fwy niferus, mewn nwyddau traul (*consumer goods*), a gan ganolbwyntio ar weithgareddau yng Nghatalonia, yr oeddynt ar y cyfan yn fwy cefnogol i genedlaetholdeb Catalonia.

Wrth ystyried hanes a sefyllfa ieithyddol Catalaneg, mae'n werth ystyried bod y term 'iaith leiafrifol' yn un amwys wrth ddisgrifio Catalaneg. Mae'n wir dweud bod Catalaneg yn iaith leiafrifol yng nghyd-destun gwladwriaeth Sbaen. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd hynny lle siaredir Catalaneg mae'r iaith yn ddi-os yn iaith fwyafrifol ac mae'n iaith swyddogol yn Andorra. Er nad oes gan Gatalaneg statws swyddogol o fewn y Gymuned Ewropeaidd, mae mwy yn siarad Catalaneg na rhai o'r ieithoedd swyddogol megis Ffinneg, Daneg a Swedeg. Fel y dengys Tabl 2.7.1, Catalaneg sydd â'r nifer mwyaf o siaradwyr o'u gymharu â'r ieithoedd lleiafrifol eraill yn Ewrop.

Tabl 2.7.1 : Nifer o siaradwyr Catalaneg a rhai ieithoedd lleiafrifol eraill

Iaith	Siaradwyr	Gwledydd
Catalaneg	7,220,000	Sbaen, Ffrainc, Eidal, Andorra
Galiseg	2,420,000	Sbaen
Almaeneg ¹	2,220,000	Ffrainc, Eidal, Gwlad Belg
Occitaneg	2,100,000	Sbaen, Ffrainc, Eidal
Sardeg	1,300,000	Eidal
Gaeleg	1,240,000	Prydain, Iwerddon
Basgeg	683,000	Sbaen, Ffrainc
Cymraeg	508,000	Prydain

(www.cultura.gencat.net/llengcat)

(1) Almaeneg yw'r iaith a siaredir fwyaf yn y Gymuned Ewropeadd gyda 92,420,000 o siaradwyr. Y tu allan i'r Almaen ac Awstria fe'i hystyrir yn iaith lleiafrifol)

Yn hanesyddol ac yn boliticaidd, ystyrir Catalaneg fel iaith leiafriol ond eto mae'r sefyllfa yn wahanol i nifer o'r ieithoedd eraill am resymau demograffig, statws cyfreithiol a rheolaeth ieithyddol. Awgrymwyd bod Catalaneg yn unigryw yn Ewrop gan mai dyna'r unig iaith o'i maint sydd wedi llwyddo i oroesi tair canrif o ideoleg cenedl-wladwriaeth (nation-state) heb wladwriaeth i'w chefnogi (May 2001 : 239-240) .

Yn Sbaen, siaredir yr iaith mewn pedair ardal awtonomaidd sef Catalonia, y mwyafrif o Valencia (cyfeirir at y Gatalaneg y siaredir yno fel *Valencià*), Yr Ynysoedd Balearaidd a rhan o ddwyrain Aragon, sef Franja de Ponent. Dengys Tabl 2.7.2 y gallu i siarad a deall Catalaneg ar sail cyfrifadau a chofrestryddion 1986, 1991 a 1996. Felly, mae dros 7 miliwn yn siarad yr iaith a bron i 10 miliwn yn deall yr iaith. Mae sefyllfa cymdeithasol, gwleidyddol, cyfreithiol a sosio-ieithyddol Catalaneg yn amrywio'n fawr yn y tiriogaethau lle siaredir yr iaith. Yn ddi-os, dyma'r iaith gryfaf yng nghymuned Catalonia, yn bennaf yn sgîl cefnogaeth y *Generalitat*, sef llywodraeth hunanlywodraethol Catalonia sydd yn ystyried yr iaith yn ganolog i'w polisïau, a gwaith y *DGPL* sef y *General Directorate for Language Policy*, sef y prif gorff sy'n gyfrifol am bolisi ieithyddol Catalaneg. Yn ystod 2004 uwchraddiwyd statws y *DGPL* i fod yn *Secretariat* ar gyfer Cynllunio Ieithyddol Catalaneg (yn hytrach na *Directorate General*). Mae'r adran nawr yn ran o Adran Arlywydd (*Presidencia*) y *Generalitat*. Bydd yn ddiddorol gweld y datblygiadau yn ystod y blynyddoedd nesaf yn enwedig wrth ystyried y newidiadau arfaethedig yng Nghymru i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Tabl 2.7.2 . Siaradwyr Catalaneg yn ôl tiriogaeth (1996)

TIRIOGAETH	POBLOGAETH	SIARAD		DEALL	
		NIFER	CANRAN	NIFER	CANRAN
Andorra	64,311	49,519	77.0	62,381	97.0
Catalonia	6,090,040	4,506,512	75.3	5,683,237	95.0
Yr Ynysoedd Balearaidd	760,379	473,322	66.7	629,641	88.8
Valencia	4,009,329	1,969,703	50.6	3,199,085	82.1
Franja de Ponent (Aragon)	50,000	45,000	90.0	47,250	94.5
Gogledd Catalonia	369,476	125,622	34.0	203,211	55.0
Alguer (Sardinia)	38,316	17,625	46.0	20,000	52.2
CYFANSWM	11,381,851	7,187,303	63.1	9,844,805	86.5

(www.cultura.gencat.net/llengcat)

Cofnodwyd am y tro cyntaf yn 1176 yr enw 'Catalunya' fel endid gwleidyddol gyda'i iaith ei hunan. Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg a'r bedwaredd ganrif a'r ddeg, sefydlodd Catalonia, fel rhan o deyrnas Aragon, ei hunan yn ranbarth forwrol bwysig, gan ymgorffori nifer o ardaloedd, gan gynnwys Mallorca (1229), a Valencia (1238). Yn ystod y cyfnod hwn yr oedd yr iaith Gatalaneg wedi datblygu yn un o'r Ieithoedd Romáwns gwreiddiol, gan ddisodli Lladin fel yr iaith gofnodol yng Nghatalonia erbyn y drydedd ganrif ar ddeg. Ynddi darparwyd y côd ffiwdal gynharaf yn Ewrop, y côd forwrol hynaf yn Ewrop, a'r iaith Romáwns gyntaf i'w defnyddio mewn gwyddoniaeth ac athroniaeth. Bu cyfnod o ddirywiad gwleidyddol ac ieithyddol, yn dilyn cytundeb Compromiso de Caspe yn 1412 rhwng Catalonia a Castile, ac yn

arbennig wedi priodas Isabel o Castile a Ferdinand o Aragon, yn 1469, ac uniad y ddwy ranbarth. Er gwaethaf yr addewidion i barchu eu hieithoedd, arferion a sefydliadau, arweiniodd polisïau canoliaethol Castile at ddiddymu sefydliadau hunanlywodraethol Catalonia a gwanhau'r iaith Gatalaneg.

Yn dilyn gwarchae Barcelona yn 1714, trechwyd Catalonia. Diddymwyd Senedd Catalonia (*y Corts*) a'r Llywodraeth (*Diputació Generalitat*), a chollwyd y cyfan o'r hunan-reolaeth hynny a sefydlwyd ers y Canol Oesoedd. Yn ogystal, daeth i ben cyfnod yn ymestyn dros 500 mlynedd pan y Gatalaneg oedd iaith swyddogol Catalonia. Yn y blynyddoedd dilynol, profodd Catalonia am y tro cyntaf, ormes sefydliadol, diwylliannol ac ieithyddol gan wladwriaeth ganolog Sbaen a geisiodd gyflwyno Castileg yn hytrach na Chatalaneg yn iaith gweinyddiaeth, busnes ac addysg. Yr unig beuoedd lle parhawyd i ddefnyddio'r Gatalaneg oedd y cartref a'r eglwys (May 2001 : 240).

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, llwyddodd Catalonia yn wahanol i nifer o ardaloedd Sbaen i ddiwydiannu. Fel y dywed Stephen May:

Industrialisation contributed to the rise of a strong middle class and established a pattern that was to characterise Catalonia's position within the wider Spanish state until well into the twentieth century. In effect, while Catalonia remained politically marginalised, it increasingly became the economic powerhouse of Spain.

(May 2001 : 241)

I gydfynd â hyn, er bod Catalaneg yn parhau i gael ei gwahardd o fywyd cyhoeddus, gwelwyd adfywiad diwylliannol. Daeth yr iaith fwyfwy yn ganolog i genedlaetholdeb diwylliannol Catalonia ac arweiniodd hyn at safoni a moderneiddio'r iaith ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Yr oedd hyn yn allweddol i adfywiad yr iaith. Yn dilyn adfer ychydig o statws diwylliannol ac ieithyddol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd Catalonia am gyfnod byr yn

adfer ei statws politicaidd. Rhwng 1914-25, caniatáodd yr Arlywydd Enric Ptat de la Riba fesur o hunan-lywodraeth i Gatalonia ond dychwelyd i fod o dan rheolaeth ganolog Sbaen oedd hanes Catalonia o dan arlywyddiaeth Primo de Rivera. Gwelwyd yr Ail Weriniaeth yn adfer mesur o ymreolaeth politicaidd i Gatalonia gyda Statud Ymreolaeth 1932 ynghyd â statws cyfartal i'r Gatalaneg.

Trawsnewidiwyd y cyfnod hwn o lewyrch i'r iaith yn sgîl llwyddiant Franco yn Rhyfel Cartref Sbaen (1936-1939). Am bron i 40 mlynedd dioddefodd Catalonia orthrwm politicaidd, diwylliannol ac ieithyddol. Gwaharddwyd Catalaneg o beuoedd cyhoeddus megis addysg, y cyfryngau, gweinyddiaeth, busnes, addysg a chrefydd. Caniatáwyd y defnydd o'r Catalaneg yn yr Eglwys Gatholig yn dilyn Ail Gyngor y Fatican yn 1965. Bellach, iaith y teulu oedd Catalaneg. Cafodd sefydlu yr orsaf deledu Sbaeneg *RVTE* yn 1959 effaith sylweddol at Gatalaneg a lledaenodd yr iaith Sbaeneg i beuoedd newydd. Cyfeiriodd Gardner, Serralvo a Williams at arwyddocâd hyn:

It was the beginning of the most effective process of bilingualization yet, even more so than state schooling. The process has persisted up to the present when as a consequence, not a single monolingual Catalan speaker exists any more. As in the Welsh, Irish and Basque cases, the complete bilingualization of minority-language monolinguals has profound implications for language policy. This represents a significant step towards linguistic and cultural homogenization in which minority-language claims can no longer be formulated on a basis of ignorance of the language of the state.

(Williams 2000 : 338)

Nodwedd amlwg o gyfnod Franco oedd cryfhau ymhellach genedlaetholdeb diwylliannol Catalanaidd ac yr oedd yr iaith yn ganolbwynt i hyn. Yn ystod cyfnod Franco, yn ogystal, ceisiwyd dileu ieithoedd eraill a siaradwyd yn y wladwriaeth Sbaeneg megis Basgeg a Galiseg. Fodd bynnag, yn wahanol i Wlad y Basg lle mae cenedlaetholdeb Basgeg yn pwysleisio ymwahanu,

canolbwyntiodd cenedlaetholdeb Catalanaidd ar sicrhau mwy o ymreolaeth y tu fewn i Sbaen.

Er y cynnydd yng nghenedlaetholdeb diwylliannol Catalanaidd a'r parhad yn y defnydd o'r Gatalaneg gan y dosbarth canol cyfoethog, yr oedd cyfnod Franco yn un andwyol i'r Gatalaneg. Addysgwyd cenedlaethau o Gatalanwyr yng Nghastileg. Gwelwyd mewnfudo sylweddol i Gatalonia o rannau eraill o Sbaen yn enwedig yn ystod datblygiad economaidd Catalonia yn y 1950au ac yn y 1960au (Williams 2000 : 338). Yn y gorffennol, yn dilyn datblygu diwydiannol bu'r mewnfudo i Gatalonia o rannau eraill o Sbaen ar raddfa llawer llai ac yr oedd Catalaneg wedi ei chysylltu â symudiad cymdeithasol. Fodd bynnag, trawsnewidiwyd y sefyllfa yng nghyfnod Franco ac yr oedd gweithwyr bellach yn dewis mewnfudo i Gatalonia yn hytrach nag i wledydd eraill gan eu bod yn gallu aros yn eu mamwlad a pharhau i siarad Sbaeneg. Cyfrannodd polisiau Franco a mewnfudiad siaradwyr Sbaeneg i Gatalonia at ostyngiad nifer y siaradwyr Catalaneg yng Nghatalonia o 90 y cant yn 1939 i 60 y cant yn 1975 (May 2001 : 243). Yr oedd y mewnfudo hefyd yn drawiadol o safbwynt dosbarth. Fel y dywed Stephen May:

It was also to see the establishment of linguistic differences along broadly class lines, as the in-migrants who spoke Castilian Spanish were predominantly working class, while Catalan remained a language of prestige closely associated with the economically prosperous middle class.

(May 2001 : 243)

Yn dilyn marwolaeth Franco yn 1975, dechreuodd y broses o adfer hunan-lywodraeth Catalonia ynghyd â dod â'r iaith Gatalaneg yn ôl i fywyd cyhoeddus. Cyfansoddiad Sbaen yn 1978 oedd y cam cyntaf i gydnabod yn swyddogol ieithoedd heblaw am Sbaeneg yn nhiriogaeth Sbaen. Er bod y cyfansoddiad yn dynodi Sbaeneg fel iaith swyddogol Sbaen ac yn mynnu y dylai ei holl ddinasyddion wybod yr iaith, yr oedd yn caniatáu bod ieithoedd eraill yn Sbaen yn swyddogol o fewn eu tiriogaethau penodol. Cam pwysig

arall yn natblygiad yr iaith oedd Statud Awtonomiaeth yn 1979. Yr oedd y Statud yn datgan mai Catalaneg oedd iaith Catalonia ynghyd â Sbaeneg, sef iaith gwladwriaeth Sbaen. Ymhlith cymalau eraill y Statud oedd y datganiad y byddai'r *Generalitat* yn gwarantu defnydd normal a swyddogol o'r ddwy iaith. Datblygiadau pwysig eraill oedd Deddfau Iaith Catalaneg 1993 a 1998. Yr oedd Deddf 1993 yn ymwneud yn bennaf â sefydlogi Catalaneg yn ngweinyddiaeth cyhoeddus, addysg a'r cyfryngau. Yr oedd Deddf 1998 yn canolbwyntio ar y meysydd hynny ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol lle yr oedd y defnydd o Gatalaneg heb ei warantu ond a oedd yn addas i gynnwys deddfwriaeth ar sail tystiolaeth y cyfrifiadau. Yr oedd y meysydd hyn yn cynnwys y cyfryngau torfol preifat, rhai diwydiannau diwylliannol a gweithgareddau economaidd (Williams 2000 : 341) .

Yn 1980, penderfynodd y *Generalitat* sefydlu corff penodol i gydlynu adfywiad y Gatalaneg sef y *DGPL*. Dywed Gardner, Serralvo a Williams fod hyn yn cynrychioli:

resumption of language planning by the Catalan government after more than forty years of language repression. This time the bulk of its policies were to be directed towards planning the status of the language, without neglecting the planning of its corpus.

(Williams 2000: 343)

Yn ystod yr 1980egau penderfynodd y *DGPL* ganolbwyntio ar ymestyn y defnydd o'r Gatalaneg i ddinasyddion Catalonia. Yn ystod cyfnod Franco, parhaodd y mwyafrif o'r teuluoedd yng Nghatalonia i ddefnyddio'r iaith yn y cartref ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif oedd yn gallu ysgrifennu Catalaneg. Mae addysg wedi chwarae rôl allweddol yn natblygiad yr iaith ac yr oedd Deddf 1983 yn datgan mai Catalaneg oedd iaith addysg ar bob lefel addysgol. Erbyn hyn, Catalaneg yw prif gyfrwng dysgu yn ysgolion cynradd ac uwchradd Catalonia ac mae nifer cynyddol o gyrsiau ym mhrifysgolion Catalonia ar gael drwy gyfrwng yr iaith.

Yn yr un modd â'r Fasgeg gellid ystyried y mwyafrif helaeth o'r ymdrechion i hybu'r iaith Gatalaneg yn ystod cyfnod Franco fel cynllunio o'r gwaelod i fyny (*bottom-up*). Fodd bynnag, trawsnewidiwyd y sefyllfa yn sgîl polisiau'r *Generalitat* ar gyfer adfer y Gatalaneg. Fel y dywed Gardner, Serralvo a Williams:

Even if there are some civic organizations which still mobilize and campaign for more active promotion of Catalan, and others which protest against the neglect of the rights of Spanish L1-speaking citizens, claiming that language policies by the autonomous government go too far, 'top-down' planning is the predominant form of language planning in Catalonia.

(Williams 2000: 349)

Ers sefydlu'r *DGPL* yn 1980, mae cefnogaeth sefydliadol amlwg i'r iaith ac mae pob lefel ac adran o'r Llywodraeth wedi cysylltu â sefydliadau cyhoeddus eraill. I gyd-fynd â'r gefnogaeth sefydliadol i'r iaith, mae nifer o gynllunwyr ieithyddol proffesiynol yn gweithio fel rhan o'r gyfundrefn. Yn 2000, nodwyd bod 600 o gynllunwyr ieithyddol proffesiynol (Williams 2000 : 349), sy'n llawer uwch na'r hyn a welir yng Nghymru. Mae uned iaith ym mhob un o adrannau'r Llywodraeth sydd eto'n drawiadol wrth gymharu'r sefyllfa â'r un yng Nghymru.

Mae ail-sefydlu Catalaneg fel iaith swyddogol wedi ei gyflawni drwy ymgymryd â rhaglen cynllunio ieithyddol eang o fewn Catalonia. Nod ganolog polisi ieithyddol Catalonia yw normaleiddio'r Gatalaneg ym mhob agwedd o fywyd cyhoeddus. Yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf, yn enwedig yn sgîl llwyddiant y gyfundrefn addysg, bu cynnydd amlwg ym mhoblogaeth Catalonia sy'n gallu deall a siarad yr iaith. Cafodd oedolion gyfleodd i wella eu sgiliau ieithyddol drwy gyfrwng cyrsiau i oedolion. Mae llwyddiant y cyrsiau yn esiampl i Gymru, sy'n dioddef yn enbyd o ddarpariaeth a chyfundrefn annigonol yn y sector Cymraeg i Oedolion. Yn sgîl polisiau a chefnogaeth y

llywodraeth, siaredir yr iaith fwyfwy mewn sefydliadau cyhoeddus a pheuoedd megis y gweithle, y cyfryngau a siopau. Fodd bynnag, fel y noda Gardner, Serralvo a Williams, nid yw'r iaith wedi profi llewyrch ddiamheuol:

Catalan is used more in the domain of the public institutions than in informal and everyday activities. A main cause of this is the tendency of Catalan speakers to a loss of linguistic loyalty towards Catalan due to the decrease of conflict in the linguistic contact between Spanish and Catalan,

(Williams 2000: 351)

Er bod nifer o fewnfudwyr Sbaeneg wedi dysgu Catalaneg, Sbaeneg yw eu dewis iaith mewn nifer o sefyllfaeodd cyhoeddus.

Cyfeiria Stephen May at dair prif nod i normaleiddio ieithyddol yng Nghatalonia, sef sicrhau hyrwyddiad symbolaidd a sefydliadol gweithredol y Gatalaneg ym mheuoedd ieithyddol allweddol cyhoeddus a phreifat; unioni anlythrennedd ac unrhyw ymdeimlad israddol yn gysylltiedig â Chatalaneg a ddatblygodd yn ystod cyfnod Franco; a sicrhau ymrwymiad siaradwyr iaith gyntaf Sbaeneg i Gatalaneg. Yn ogystal, i wrthsefyll unrhyw elyniaeth tuag Gatalaneg fel bygythiad i Sbaeneg, fel iaith gwladwriaeth Sbaen (May 2001 : 246-47). Mae'n wir i ddweud yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf fod Catalonia wedi llwyddo i wireddu'r ddwy nod gyntaf ond mae'r drydydd yn parhau yn y fantol. Erbyn hyn, mae dinasyddion Catalonia yn gallu defnyddio Catalaneg ym mhob achlysur, yn gyhoeddus a phreifat, a gwneir bron y cyfan o waith y *Generalitat* ac awdurdodau lleol yn llafar ac yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gatalaneg.

Mae'r mwyafrif yng Nghatalonia o blaid hunan-lywodraeth, ond gan gadw'r cysylltiad â Sbaen, ac adlewyrchir hyn ym mholisiâu'r prif bleidiau gwleidyddol (Smith 1982 : 33). Ar yr un pryd, dylid nodi bod carfan o siaradwyr Sbaeneg yng Nghatalonia yn gwrthwynbu mwy o hawliau i siaradwyr Catalaneg ac yn teimlo eu bod o dan anfantais ieithyddol. Fodd

bynag, mae'n rhaid cydnabod nad yw hyrwyddo Catalaneg yn bygwth yr iaith Sbaeneg ac hawliau siaradwyr Sbaeneg. Fel y dywed Stephen May:

Unlike Québec's formal proscription of English in commerce and advertising, for example, Spanish has never been officially proscribed in Catalonia in any domain (not least because the Spanish Constitution forbids it), nor for that matter has any other language.

(May 2001: 251)

Sbaeneg yw'r unig iaith swyddogol yng ngwladwriaeth Sbaen tra dim ond hawl cyd-swyddogol sydd gan y Gatalaneg yng Nghatalonia. Mae Sbaeneg yn parhau fel prif iaith y cyfryngau, y gyfraith, busnes a threthiant yng Nghatalonia ond eto rhoddir lle blaenllaw i'r Gatalaneg yn y wasg ac ar y gorsafoedd radio a theledu. Ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, gorchmynodd Llywodraeth Catalonia y dylid cyfieithu i'r Gatalaneg ganran o ffilmiau a ddangosir yng Nghatalonia. Gwrthwynebwyd y datblygiad hwn gan gwmnïau ffilm mawrion megis *20th Century Fox*. Cyfeiriodd George Jones o brosiect Mercator Cyfryngau at hyn:

This situation has led to a debate in Catalan society between those who support the protectionist stance of the Catalan government and those who favour a totally open market.

(www.aber.ac.uk/~merwww)

Mae prosiect Mercator yn ymchwilio i'r cyfryngau, gan eu diffinio yn eang i gynnwys y wasg, cyhoeddi llyfrau, archifau a llyfrgelloedd yn ogystal â dulliau darlledu a'r cyfryngau newydd. Prif nod Mercator yw casglu, cadw, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth drwy rwydwaith dogfennaeth a gwybodaeth am ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol yn yr Undeb Ewropeaidd.

Chwaraeodd artistiaid a deallusion Catalonia rhan bwysig yn natblygiad cenedlaethol Catalonia dros dwy ganrif, a phwysleisiwyd hyn gan Anthony D.

Smith yn ei drafodaeth ar gyfranid deallusion (yr *intelligentsia*) i genedlaetholdeb yn gyffredinol (Smith 1979 : 156). Felly, mae Catalaneg yn wahanol i ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop yn sgîl ei sefyllfa sosio-ieithyddol, cyfreithiol a demograffig. Mae Catalaneg ar drothwy safoni'r iaith ac felly mae siaradwyr yr iaith yn methu deall pam nad yw'n un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Yn wir, yn ystod araith gyntaf José Luis Rodríguez Zapatero fel Prif Weinidog Sbaen ym mis Ebrill 2004, nodwyd y bydd y Llywodraeth yn ymgyrchu i wneud Catalaneg yn iaith Swyddogol o fewn yr Uned Ewropeaidd. Arweiniodd hyn at rai megis yr Aelod Seneddol Ewropeaidd, Eurig Wyn yn dadlau y dylai'r Gymraeg gael ei hystyried yn iaith swyddogol o fewn yr Undeb Ewropeaidd. (*The Western Mail* : 14 Mai 2004). Wrth i fwy o wledydd ddod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 2004, bydd nifer yr ieithoedd swyddogol yr Undeb yn cynyddu o 11 i 20. Yn drawiadol, dim ond Pwyleg o'r ieithoedd swyddogol newydd sy'n cynnwys mwy o siaradwyr na Chatalaneg. Datblygiad arwyddocaol o safbwynt y Gymraeg oedd y cyhoeddiad ar 8 Mawrth 2005 gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'r Cyfansoddiad Ewropeaidd yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg.

2.8 Cymariaethau Rhyngwladol

Er bod yna wahaniaethau amlwg yn sefyllfaoedd yr ieithoedd lleiafrifol a drafodwyd yn y bennod hon, mae yna hefyd nifer o themâu cyffredin.

- ***Diwydiannu***

Profodd y gwledydd dan sylw gyfnodau o ddiwydiannu ar wahanol adegau yn eu hanes. Er bod diwydiannu wedi effeithio mewn amrywiol ffyrdd ar yr ieithoedd, yn wahanol i rhai ieithoedd lleiafrifol, llwyddodd yr ieithoedd dan sylw yn y bennod hon i oroesi.

Arweiniodd y datblygiadau diwydiannol at fewnfudo ac allfudo:

- ***Mewnfudo***

Canlyniad datblygiadau diwydiannol oedd fod rhai ardaloedd penodol wedi profi mewnfudo sylweddol. Er enghraifft, yn y *Gaeltacht* yn Iwerddon, gwelwyd ymsefydlwyr Seisnig yn cael eu denu yn sgîl diwydiant. Yn yr un modd, yng Ngwlad y Basg mae Bilbao wedi denu gweithwyr o ardaloedd estron ac mae hyn yn wir hefyd am Barcelona yng Nghatalonia. Mae'n bwysig ystyried bod y tueddiadau hyn yn gyffredin mewn gwledydd ac ardaloedd eraill sydd wedi profi datblygiadau sylweddol. Yn wir, yn Llydaw mae diwydiant wedi denu siaradwyr Ffrangeg o weddill y wlad ynghyd â gweithwyr tramor megis o Bortiwgal ac Algeria a fyddai'n debygol o ddysgu Ffrangeg yn hytrach na Llydaweg. Yn ogystal, mae'n werth cofio mai canlyniad cyffredinol y Chwyldro Diwydiannol yng Nghymru oedd Seisnigeiddio nifer o ardaloedd.

- ***Allfudo/ Ymfudo***

Fel y nodwyd eisoes, bu ymfudo cyson o'r gwahanol rannau o'r gwledydd a drafodwyd yn y bennod hon. Er enghraifft, arweiniodd y Newyn Mawr at ymfudo sylweddol o Iwerddon i wledydd eraill megis America. Er bod y *Gaeltacht* yn ardal benodol i warchod y Wyddeleg bu ymfudo cyson i ardaloedd eraill. Wrth gwrs, mae ymfudo wedi bod yn ffactor allweddol yn nirywiad y Gymraeg yng nghymunedau gwledig Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain. Soniwyd eisoes ym Mhenod 1 bod cymunedau gwledig Cymru wedi gweld ymfudo parhaol o'r ardaloedd hynny i drefi a dinasoedd, yn enwedig Caerdydd. Fodd bynnag, dylid cofio bod nifer o Gymry yn y gorffennol, yn enwedig yn nauddegau a thridegau'r ugeinfed ganrif, wedi gorfod symud er mwyn sicrhau gwaith i ddinasoedd megis Llundain a Lerpwl yn Lloegr. Er bod yr ymfudo o gymunedau gwledig yn parhau ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, yn ddi-os mae'n fwy llesol fod gan Gymry y dewis i fyw o fewn eu gwlad eu hunain ac felly'n gallu parhau i siarad y Gymraeg. Y broblem wrth gwrs yw nad yw'r Gymraeg yn iaith gymunedol mewn dinasoedd megis Caerdydd, ac mae'r cyfleodd i ddefnyddio'r iaith wedi eu cyfyngu i beuoedd penodol. Y gobaith yw y bydd polisïau megis rhai y Cynulliad yn rhoi cyfle i bobl ifanc yn enwedig i barhau i fyw yng

nghymunedau gwledig os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r cysylltiad rhwng diwydiant a llewyrch ieithoedd lleiafrifol yn un annatod ac mae sylwadau Nick Gardner am y Fasgeg yn berthnasol am yr ieithoedd a drafodwyd yn y bennod hon, ynghyd a'r Gymraeg:

It nevertheless seems urgent to link general economic planning with language planning.

(Gardner 2000: 89)

- ***Addysg***

Mae'n amlwg bod y system addysg yn allweddol i wrthdroi dyfudiad ieithyddol ac yn holl bwysig wrth sicrhau fod plant mor ifanc a phosibl yn cael eu trwytho mewn ieithoedd. Fodd bynnag, fel ag a ddigwyddodd yn achos y Fasgeg, mae tueddiad i roddi gormod o bwyslais ar addysg i adfer ieithoedd lleiafrifol. Er mwyn i ieithoedd ddatblygu a pharhau, mae'n angenrheidiol eu bod yn cael eu siarad a'u defnyddio y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae angen i beuoedd eraill megis y teulu, gefnogi ymdrechion y gyfundrefn addysg i ddatblygu ieithoedd. Yn wir, mae hyn yn broblem sy'n berthnasol yn achos y Gymraeg, gyda'r mwyafrif o blant sydd bellach yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dod o deuluoedd lle nad yw'r ddau riant yn siarad yr iaith. Yn wir, fel y trafodir mewn rhannau eraill o'r traethawd hwn, mae trosglwyddiad iaith yn un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu'r Gymraeg ar hyn o bryd ac sydd hefyd yn berthnasol yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol eraill.

- ***Gallu/Defnydd***

Nodwedd amlwg sy'n gyffredin rhwng yr ieithoedd a drafodwyd ac sydd hefyd yn berthnasol yng nghyd-destun y Gymraeg yw'r gwahaniaeth amlwg rhwng gallu a defnydd. Mae'n rhaid bod yn wyliadwrus pan mae cyfrifiadau neu arolygon iaith yn dangos cynnydd mewn gallu ieithyddol oherwydd nid yw hynny'n arwain yn naturiol at ddefnydd ehangach o'r iaith.

- **Cyfryngau**

Mae'n amlwg bod gan y cyfryngau gyfraniad pwysig i warchod a hyrwyddo ieithoedd gan gynnwys y rhai a drafodwyd yn y bennod hon. Mae datblygiad y cyfryngau torfol megis y teledu a radio yn holl bwysig yn natblygiad ieithoedd lleiafrifol. Trafodir pwysigrwydd y cyfryngau torfol yng nghyd-destun y Gymraeg yn ddiweddarach yn y traethawd pan yn dadansoddi tueddiadau trigolion Cwm Gwendraeth wrth wyllo'r teledu a gwrando ar y radio.

2.9 Gweithgaredd/ Rhwydweithiau Gwleidyddol

Corff dylanwadol wrth warchod buddiannau ieithoedd lleiafrifol yw *EBLUL* sef yr *European Bureau for Lesser Used Languages*. Ariannir *EBLUL* yn bennaf gan yr Undeb Ewropeaidd a cheir swyddfeydd yn Nulyn a agorwyd yn 1984 ac ym Mrwsel yn 1992. Ymhlith gweithgareddau *EBLUL* mae darparu newyddion dyddiol am ieithoedd a diwylliant drwy gyfrwng yr asiantaeth newyddion *Eurolang*; cyhoeddi'r cylchgrawn *Contact* dair gwaith y flwyddyn yn Ffrangeg a Saesneg; darparu gwasanaeth ymgynghorol a gwybodaeth; a gweithredu fel gwasg gyhoeddi. Er bod dylanwad *EBLUL* wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ni ellir diystyru ei gyfraniad yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar.

Datblygiad diweddar sy'n ceisio diogelu ieithoedd lleiafrifol Ewrop yw eu cynnwys yn rhan o'r Siartr Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol. Mae'r ieithoedd hyn yn cynnwys y Gymraeg, y Wyddeleg, y Fasgeg a Chatalaneg. Wrth ystyried bod nifer o agweddau yn gyffredin i'r amrywiol ieithoedd lleiafrifol, mae'n holl bwysig bod cyfleoedd i gynllunwyr ieithyddol rhannu profiadau. Yn wir, bu cydweithio yn ystod y blynyddoedd diwethaf rhwng Byrddau Iaith yn Ewrop. Yn 2001, yr oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn amlwg wrth sefydlu rhwydwaith o Fyrddau Iaith Ewropeaidd a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymru, Friesland, Catalonia, Gwlad y Basg, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Ffindir. Y cyfarfod cyntaf ym Mrwsel yn 2001 oedd y cyntaf o'i bath i'w gynnal ar lefel Ewropeaidd a phenderfynwyd sefydlu rhwydwaith parhaol o fyrddau iaith swyddogol Ewrop. Yn ystod 2003,

derbyniodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg bron i €200k gan y Comisiwn Ewropeaidd i ddatblygu ymhellach y rhwydwaith i fyrddau iaith yn Ewrop. Dechreuodd y prosiect yn Ionawr 2004. Yn gyffredinol, y pedwar maes penodol sydd dan ystyriaeth yng nghyfarfodydd y Byrddau Iaith yw:-

- trosglwyddo iaith
- technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
- marchnata
- addysg drochi ac addysg dair-ieithog.

Yn ystod Haf 2005, bydd pedair gwefan yn cael eu sefydlu i gyd-fynd â'r pynciau uchod er mwyn nodi casgliadau'r prosiect a rhannu arfer da ynghyd â dyletswyddau eraill. Yn ogystal â themâu cyffredin, mae'r cyfarfodydd yn gyfle i gryfhau'r elfen o gydweithio rhwng byrddau iaith swyddogol neu adrannau llywodraeth sy'n delio â chynllunio ieithyddol, a chynyddu'r dealltwriaeth o gynllunio ieithyddol holistaidd mewn sefyllfaoedd ieithoedd lleiafrifol ble mae cyrff swyddogol yn hyrwyddo'r defnydd o'r ieithoedd hynny. Amcan arall y cyfarfodydd yw datblygu llais cydlynol i fyrddau iaith swyddogol ar lefel Ewropeaidd. (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk).

Ar wahân i Israel ac i raddau Catalaneg, y prif wahaniaeth rhwng y Wyddeleg â'r ieithoedd lleiafrifol eraill a drafodir yn y bennod hon yw fod ganddi wladwriaeth i gefnogi'r iaith. Yn gyffredinol, cydnabyddir mai methiant fu'r ymdrechion yn Iwerddon i hyrwyddo'r iaith, yn enwedig drwy gyfrwng y system addysg. Fodd bynnag, ni ddylid anwybyddu'r ffaith na fu dyfudiad llwyr o'r Wyddeleg i'r Saesneg ac fel y dywed Colin Williams:

Industrialization and anglicization need not necessarily induce a total language shift from Irish to English. Despite the overall trend to the opposite, some areas which were predominantly English speaking ten years ago are now Irish speaking

(Williams 1988 : 288)

Er nad oes gan y Gymraeg, Catalaneg a'r Fasgeg wladwriaethau i'w cefnogi, nid oes amheuaeth bod sefyllfa'r ieithoedd hynny yn fwy llewyrchus na'r Wyddeleg. Ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru yn 1999, gwelwyd nifer o feirniaid yn pwysleisio'r angen i fod yn wyliadwrus na fyddai'r Gymraeg yn dilyn hynt y Wyddeleg ar ôl sefydlu'r wladwriaeth yn Iwerddon. Er bod sefyllfa'r ddwy wlad yn dra gwahanol ac mai mesur o hunanlywodraeth sydd gan Gymru, mae yna bosibilrwydd y gallai pobl fod yn cymryd y Gymraeg yn ganiataol. Er enghraifft, er bod gan Aelodau'r Cynulliad y cyfle i siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd llawn o'r Cynulliad a Phwyllgorau Pwnc, gwelir nifer o'r Aelodau sy'n gallu siarad Cymraeg yn dewis defnyddio'r Saesneg yn rhannol oherwydd diffyg arfer defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyhoeddus ond yn bennaf oherwydd yr angen i ddenu sylwadau yn y wasg Saesneg. Ar ôl dadansoddi sefyllfa'r Wyddeleg, y Fasgeg a Chatalaneg yn y bennod hon, cytunaf â sylwadau Gardner, Serralvo a Williams sy'n dadlau bod gan y Gymraeg mwy i'w dysgu gan yr ieithoedd hynny yn hytrach na ieithoedd Celtaidd eraill megis y Wyddeleg:

Our message is that Welsh-language policy framers should be relying less on the tired cliché of Celtic solidarity and adapting several of the proactive measures developed within Euskadi and Catalonia.

(Williams 2000: 311)

Yn yr un modd, gellir dadlau fod gan y Gymraeg hefyd wersi i'w dysgu i leiafrifoedd ieithyddol eraill. Fel y dywed Nick Gardner yng nghyd-destun y Fasgeg:

In some aspects at least the Basques could usefully learn from the Welsh: economic planning, land use planning, maintenance of a broad consensus on language policy, specific procedures in education, use of private sector involvement, minority language promotion in the business sector, academic evaluation of processes...

(Gardner 2000: 89)

PENNOD 3 : TYSTIOLAETH CYFRIFIAD 1891 YM MHLWYF LLAN-NON

Mae rhan sylweddol o ardal ogleddol Cwm Gwendraeth y tu mewn i ffiniau plwyf Llan-non gan gynnwys pentrefi Llan-non, Cross Hands, Y Tymbl a Phontyberem. Yn y bennod hon rhoddir ystyriaeth fanwl i dystiolaeth Cyfrifiad 1891 mewn perthynas â'r plwyf. Ni fu datblygiadau syfrdanol ym mhlwyf Llan-non cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn bennaf oherwydd ei chymeriad gwledig. Dim ond pum teulu a drigai ym mhentref Llan-non ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, ac erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg dim ond 191 o dai oedd yn y plwyf a Llan-non oedd yr unig bentref (Gibbard 1984a : 127). Ardal Pontyberem oedd y cyntaf ym mhlwyf Llan-non i weld arwyddion o'r datblygiadau diwydiannol ac adlewyrchir hynny gan dystiolaeth cyfrifiadau 1841 ac 1851.

Adeiladwyd *Gwendraeth Row* ychydig cyn 1841 ynghyd â *Gwendraeth House* a *Concrete House*. Ym Mhontyberem, cysylltir datblygiad y diwydiant glo â theulu Watney. Preswyliai Alfred Watney yn *Coalbrook House* a chyfeirir ato yng Nghyfrifiad 1851 fel meistr glo a haearn, a gyflogai dau gant o weithwyr. Llwyddodd ei dad, Daniel i sicrhau meddiant o lofa'r *Coalbrook* yn 1838. Priododd Alfred ag Elisabeth, merch Alexander Raby yn eglwys Pontyberem ar 10 Awst 1848. Canwyd cerdd o foliant iddo gan y bardd lleol William Thomas, 'Gwilym Mai'. Cyfeiriodd at rinweddau'r teulu ynghyd â'i ymdrechion i gynorthwyo'r rhai a ddioddefodd yn sgîl y ddamwain yn 1852 a laddodd 26 o lowyr:

Ond pwy yn fwy parod i estyn cynhorthwy,
Â'i galon mor wresog i wrando eu hiaith?
'Doedd neb yn yr ardal i'w gael mor deimladwy,
Â Watney drugarog, perchennog y gwaith.

(Ap Huw 1873 : 24)

Yn yr un modd talodd Stephen Evans, Fferm Cil-carw deyrnged i deulu Watney, am eu hymateb i'r ddamwain, yn ei *Hanes Pontyberem* (1856):

Gellir dweud i'r meistri hyn ymddwyn yn neilltuol o dda, tirion a theimladwy tuag at weddwon ac amddifaid y rhai a gawsant eu diwedd.

(Owen 1989a : 7)

Mae'r ganmoliaeth i deulu Watney yn adlewyrchu'r berthynas glòs a fodolai rhwng y glowyr a pherchnogion glo yn yr ardal. Eto yr oedd adegau pan ddaeth i'r amlwg y tyndra a oedd yn bodoli dan yr wyneb. Er bod gan drigolion Pontyberem barch aruthrol at deulu Watney ceir cyfeiriad yng Nghyfrifiad 1851 at ddiswyddo gweithwyr yn y glofeydd a'r gweithfeydd haearn. Teulu Watney oedd berchen y *Coal and Iron Works* a gwelwyd y pwll isaf, y pwll uchaf ynghyd â'r *Coalbrook* newydd yn dod yn rhan o'r *Pontyberem Collieries*. Er bod y *Pontyberem Collieries* a gwaith y Pentremawr (a leolid ym mhlwyf Llan-non) yn ddylanwadau amlwg yn y pentref nododd Noel Gibbard:

Eto i gyd ni ddatblygodd yn lle enfawr, ac ni phentyrwyd y tai ar bennau ei gilydd, fel mewn ambell i le yn y Rhondda, neu ym Merthyr Tudful.

(Gibbard 1984a : 128)

Hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd Y Tymbl yn bentref gwledig bychan. Yn wir yn ystod wythdegau'r ganrif dim ond saith neu wyth o dai ac ychydig o lowyr oedd yn y pentref er bod rhai cwmnïau bychan yn yr ardal. Serch hynny, trawsnewidiwyd y pentref yn 1887 wrth i aelodau o deulu Waddell agor glofa'r *Great Mountain* yn Y Tymbl. Yr oedd codi preswylfa ger y lofa i letya glowyr o ogledd Lloegr a'r Alban yn arwydd pellach o ddatblygiad y pentref. Erbyn 1890 disgrifiwyd y pentref fel '*a rapidly growing place*' gyda phoblogaeth o bum cant (Morgan 1962 : 83). Bu ymateb cadarnhaol i'r alwad am lowyr o bell ac agos ac erbyn 1892

cyflogwyd bron i chwe chant o weithwyr gan y cwmni a chynhyrchwyd pedwar can tunnell o lo yn ddyddiol. Mewn ymateb i'r twf aruthrol hwn, yr oedd tua 125 o dai yn y pentref, gyda dros 100 ohonynt wedi eu hadeiladu gan y cwmni sef *Tumble Row*, a alwyd yn *High Street* yn ddiweddarach (bydd manylion am y stryd hon yng nghyd-destun tystiolaeth Cyfrifiad 1891 yn ymddangos yn ddiweddarach). Profwyd anawsterau yn sgîl y berthynas rhwng y gweithwyr brodorol a'r rhai a ddaeth o'r tu allan, ac oherwydd gwahaniaethau crefyddol, diwylliannol ac ieithyddol, nid oedd cyd-fyw bob amser yn rhwydd. Yn ogystal, mynegwyd anfodlonrwydd ynglŷn ag amodau gweithio a gostyngiad ym maint cyflogau, ac arweiniodd hyn at Streic 1893 a thrafodir hyn eto ym Mhennod 4.

Mae'n amlwg i'r gymuned wledig orfod addasu i'r datblygiadau diwydiannol a magu perthynas gyda pherchnogion y lofa. Yn wahanol i nifer o'r tîrfeddianwyr yr oedd y perchnogion yn byw yn y pentref ac yr oedd y pentrefwyr yn ymwybodol iawn o'u presenoldeb yn y lofa ac ym mywyd cyhoeddus y pentref. Arwydd o ddylanwad teulu Waddell yn yr ardal oedd yr ymgais aflwyddiannus yn 1907 i geisio newid enw pentref Y Tymbl i *Waddelston*. Datblygodd Y Tymbl ychydig cyn pentref Cross Hands a brofodd newidiadau amlwg yn dilyn twf glofa'r *New Cross Hands*. Cyn hynny, cyfeiriwyd at lofeydd bychain lleol yn y gymdogaeth, gyda theulu Norton, a hanai o swydd Derby, yn chwarae rhan amlwg yn yr ymdrechion i wneud defnydd o'r adnoddau lleol. Preswyliai dau frawd mewn plastai bychan ger y pentref, sef Charles Henry yn y *Meadows*, a John Howard yn Nant-glas. Cyfeiriwyd yn 1868 at *Norton's Colliery* a'r *Cross Hands Colliery Co.* Terfynwyd gweithgareddau'r cwmni yn 1899, a sefydlwyd yn y flwyddyn honno y *New Cross Hands Colliery Co.* gydag Edward Allen Cleeves yn un o'r penaethiaid dylanwadol.

Dengys Tabl 3.1 y cynnydd a fu ym mhoblogaeth plwyf Llan-non erbyn blynyddoedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn sgîl y datblygiadau diwydiannol ac a gofnodir mewn cyfres o gyfrifiadau. Gwelir gostyngiad yn y boblogaeth o'r pumdegau hyd

at wythdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yr oedd hyn yn ganlyniad, mae'n bosib, i'r ymfudo a'r symud o blwyf i blwyf yn enwedig ymhlith y gweithwyr fferm.

Tabl 3.1 Poblogaeth Plwyf Llan-non 1801-1911

Blwyddyn	Poblogaeth
1801	1, 233
1811	1, 199
1821	1,396
1831	1, 582
1841	1, 769
1851	1, 696
1861	1, 656
1871	1, 581
1881	1, 648
1891	2, 104
1901	2, 633
1911	4, 687
1921	4, 844
1931	5, 599
1971	5, 479

(Gibbard 1984a : 127)

Cyfeiria Noel Gibbard at y trawsnewidiad syfrdanol a fu yng nghyfansoddiad yr ardal:

Ym 1831, 315 o deuluoedd oedd yn y plwyf i gyd, a 205 ohonynt ynghlwm wrth y tir; 126 o unigolion yn 'Agricultural Labourers', a 79 o ferched, 20 mlwydd oed ac o dan hynny, yn 'servants'. Newidiodd y gweithiau glo y sefyllfa yn sylfaenol

erbyn dechrau'r ganrif bresennol, ac erbyn 1947 dim ond saith y cant oedd yn ennill eu bywoliaeth ar y tir yng nghylch gwledig Llanelli i gyd.

(Gibbard 1984a : 128)

Wrth ystyried y twf hwn, mae'n bwysig ystyried bod plwyf Llan-non yn perthyn i un o siroedd Cymreiciaf Cymru sef sir Gaerfyrddin. Dengys Tabl 3.2 fod 6,3345 o drigolion y sir, sef 56.5 y cant yn 1891 yn siaradwyr uniaith Gymraeg. Dim ond 10.5 y cant o boblogaeth y sir a gofnodwyd yn siaradwyr uniaith Saesneg tra bod 33.0 y cant yn ddwyieithog. Siroedd Meirionnydd, Aberteifi, Môn a Chaernarfon yn unig oedd â chanran uwch o siaradwyr uniaith Gymraeg. Yn 1891 yr oedd 54.5 y cant o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg gyda 30.4 y cant yn siaradwyr uniaith Gymraeg.

Tabl 3.2 : Iaith a leferid gan boblogaeth Cymru ar sail Cyfrifiad**1891 ¹****(2 flwydd a throsodd)**

Siroedd	Nifer				Canran			
	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfanswm	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfanswm
Caerfyrddin	63345	36937	11751	112033	56.5	33.0	10.5	100.0
Meirionnydd	45856	12023	3621	61500	74.6	19.5	5.9	100.0
Aberteifi	61624	17111	3979	82714	74.5	20.7	4.8	100.0
Môn	23200	7201	2059	32460	71.5	22.2	6.3	100.0
Caernarfon	78780	28330	12604	119714	65.8	23.7	10.5	100.0
Dinbych	37195	35030	38310	110535	33.6	31.7	34.7	100.0
Fflint	10484	16879	12862	40225	26.0	42.0	32.0	100.0
Maldwyn	16414	15846	31770	64030	25.6	24.8	49.6	100.0
Morgannwg	142346	177726	326481	646553	22.0	27.5	50.5	100.0
Penfro	13673	10804	51959	76436	17.9	14.1	68.0	100.0
Brycheiniog	5228	136999	31086	50013	10.4	27.4	62.2	100.0
Mynwy	9816	29743	217664	257223	3.8	11.6	84.6	100.0
Maesfed	75	924	15270	16269	0.5	5.7	93.8	100.0
CYMRU	508036	402253	759416	1669705	30.4	24.1	45.5	100.0

1. Heggoryd 3076 a lefarai ieithoedd eraill a 12833 nad oeddynt wedi nodi eu hiaith

(Census of Population 1893 : 561-2)

Yr oedd gwybodaeth am gynnwys Cyfrifiad 1891 ar lefel siroedd a dosbarthiadau Cofrestru ar gael eisoes. Trafodwyd eisoes ym mhennod gyntaf y traethawd hwn ganlyniadau'r cyfrifiadau ar lefel genedlaethol a gynhaliwyd er 1891. Yn wir, y dull hwn o drafod tranc yr iaith ar lefel genedlaethol a sirol yw'r dull mwyaf traddodiadol o wneud hynny. Eto, pan rhyddhawyd y wybodaeth fanwl am y Cyfrifiad i'r cyhoedd ar 2 Ionawr 1992 (yn sgîl y rheol gan mlynedd), am y tro cyntaf yr oedd ystadegau llawn ar gael am sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Felly, yr oedd hynny yn fy ngalluogi i gynnig astudiaeth ar lefel 'meicro' ac yn y bennod hon ceir dadansoddiad o sampl 100 y cant o blwyf Llan-non. Yr oedd y cyfrifiad a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 1891 yn y dair sir ar ddeg yng Nghymru yn

ddigon tebyg i'r rhai blaenorol wrth nodi cyfeiriad, enw, oedran, swydd a man geni yr ymatebwyr ond am y tro cyntaf erioed casglwyd gwybodaeth yn ymdrin â gallu ieithyddol. Cyfeiria Gwenfair Parry at bwysigrwydd y digwyddiad:

Ni ellir gorbwysleisio cyfoeth a phwysigrwydd y ffynhonnell hon i haneswyr sydd â'u bryd ar astudio newid ieithyddol. Trwyddi, gellir dadansoddi strwythur cymdeithasol- economaidd y defnydd o'r Gymraeg ar derfyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny mewn manylder godidog.

(Parry 1998 : 73)

Yr oedd y wybodaeth a gyflwynwyd gan ganlyniadau'r cyfrifiad yn fy ngalluogi i greu ffeiliau data ar gyfrifiadur am enw, cyfeiriad, oed, perthynas i'r penteulu, galwedigaeth, man geni ac wrth gwrs iaith. Yn sgîl y wybodaeth a gyflwynwyd yr oedd modd llunio tablau a chynnig dadansoddiad ar iaith trigolion y plwyf o ran oedran; rhyw; man geni; perthynas â'r penteulu; a galwedigaeth. Yn ogystal, yr oedd modd sicrhau gwybodaeth fanwl am blant yr ymatebwyr; iaith plant o deuluoedd lle'r oedd rhieni uniaith a dwyieithog; ynghyd â iaith y rhai hynny a hanai o'r plwyfi cyfagos. Ar sail tystiolaeth y cyfrifiad yr oedd modd ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys

- Cymhlethdod y patrymau ieithyddol a throsglwyddiad iaith o fewn y teulu, ac oddi fewn y tylwyth
- Patrymau mewnfudo i'r ardal
- Adeiledd economaidd-gymdeithasol
- Cysylltiadau rhwng gweithgarwch economaidd a phroses newid ieithyddol

Mae'r ymdriniaeth a wneir gennyf yn y bennod hon o dystiolaeth Cyfrifiad 1891 yn dilyn yr un patrwm ag a welir yn y gyfrol *Miliwn o Gymry Cymraeg!* gan Gwenfair Parry a Mari A. Williams. Yr oedd y gyfrol yn deillio o brosiect

ymchwil y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru a ariannwyd gan Y Cyngor Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ar gyfer ystyried strwythur cymdeithasol-economaidd y Gymraeg ar sail tystiolaeth Cyfrifiad 1891. Treuliais gyfnod yn y Ganolfan yn ystod 1998 yn sgîl sicrhau ysgoloriaeth Syr Thomas Parry-Williams a manteisiais ar y cyfle i gydweithio ag aelodau staff ymchwil y prosiect.

Gosodwyd y cwestiwn yn ymwneud â'r iaith dan y golofn ychwanegol 'Iaith a leferir'. Disgwylid i'r ymatebwyr nodi '*English*' pe llefarent Saesneg yn unig, 'Cymraeg' pe llefarent Cymraeg yn unig a'r 'Ddwy' neu '*Both*' pe llefarent y ddwy iaith. Gofynnwyd cwestiwn yn ymwneud â'r Wyddeleg yn Iwerddon er 1851 a'r Aeleg yn yr Alban er 1881 ond nid oedd yna unrhyw arwyddion yn ystod wythdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y byddai cwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg yn ymddangos yng Nghyfrifiad 1891. Er bod cyhoeddi astudiaeth E.G. Ravenstein o ieithoedd Celtaidd Prydain yn 1879 ynghyd â phapur A. J. Ellis yn 1882, *On the Delimitation of the English and Welsh Languages* yn ddylanwadol yn y cylchoedd Celtaidd mae'n amheus y byddai'r Llywodraeth yn talu gormod o sylw iddynt. Cafodd y cwestiwn ar yr iaith ei gynnwys yn dilyn sylwadau W.A Macdonald, Aelod Seneddol *Queen's Country* yn ystod ail ddarlleniad Mesur y Cyfrifiad yn y Senedd ar 21 Gorffennaf 1890 a nododd mai rhyfedd fyddai anwybyddu siaradwyr Cymraeg yn y mesur a effeithiai Gymru a Lloegr. Ni fu unrhyw wrthwynebiad i hynny ond cyfyngwyd y cwestiwn i drigolion Cymru yn unig. Yn y cyfnod cyn Ebrill 1891 bu cryn ddadlau a thrafod ynglŷn â'r cyfrifiad gydag unigolion megis Beriah Gwynfe Evans, Michael D. Jones a Thomas Gee yn y *Faner* yn cynghori'r Cymry ar faterion megis pwysigrwydd llenwi pob colofn yn Gymraeg, nodi eu gallu yn y Gymraeg ac i fynnu ffurflenni Cymraeg (Jenkins 1999: 2-3, *Baner ac Amserau Cymru, 21 Mawrth 1891*: 4). Yr oeddent hefyd yn gofidio am y modd y geiriwyd y cwestiwn, 'Iaith a leferir' oherwydd credent y gallai arwain at ansicrwydd a fyddai yn ei dro yn lleihau nifer y Cymry uniaith. Yn swyddogol disgwylid i'r rhai hynny fyddai'n gallu tystio yn Saesneg mewn llys barn i nodi eu bod yn hyddysg yn y ddwy iaith ond mae'n

debyg mai prin fu'r cyhoeddusrwydd am hynny.

Dosbarthwyd ffurflen y cyfrifiad i bob tŷ yng Nghymru rhwng dydd Llun 30 Mawrth a dydd Iau 2 Ebrill ac yr oedd i'w gasglu ar 6 Ebrill. Yn naturiol, yr oedd cryn gyfrifoldeb ar ysgwyddau'r cyfrifwyr (*enumerators*) i sicrhau y cyflawnwyd pob gorchwyl ac nid yw'n syndod bod y dasg yn ormod i rhai. Bu Beriah Gwynfe Evans yn hallt ei feirniadaeth gan eu cyhuddo o fod yn ddiog ac yn gelwyddog. Yn ogystal ceir enghreifftiau o gyfrifwyr yn amharu'n annheg gyda'r ffurflenni Cymraeg megis yng Nghaerdydd. Eto fel y noda Geraint H Jenkins:

Er gwaethaf hyn, dengys yr astudiaeth hon fod cyfrifwyr wedi cyflawni eu tasgau beichus yn bur gydwybodol, a bod unrhyw gamgymeriadau neu anghysondebau yn ganlyniad i frys a dryswch.

(Jenkins 1999: 5)

Bu problemau gyda ffurflenni Cymraeg wrth i rai ardaloedd gwyno am eu habsenoldeb a danfonwyd ffurflenni i'r manau anghywir megis danfon rhai Cymraeg i'r boblogaeth Wyddeleg yn Bootle (Jenkins 1999: 6). Trafodir yn fanwl gan Geraint H. Jenkins oblygiadau gwleidyddol gwendidau gweinyddol dosbarthu ffurflenni'r cyfrifiad (Jenkins 1999 : 1-29). Cyfeiria at gŵyn y Parch. J. Towyn Jones yng nghyfarfod Cymdeithas Rhyddfrydol Dwyrain Caerfyrddin fod y cyfrifwyr heb ddsbarthu ffurflenni Cymraeg yn yr ardal a'u bod wedi gorchymyn y rhai a lenwodd eu ffurflenni yn Gymraeg i'w hail-lenwi yn Saesneg (Jenkins 1999: 6 ; *The Welshman 30 Mai 1891: 3*). Mynegwyd nifer o'r cwynion hyn yn Nhy'r Cyffredin gan bedwar aelod seneddol Cymreig, sef Samuel T. Evans, David Lloyd George, J. Bryn Roberts a David A. Thomas, a beirniadwyd Brydges P. Henniker, y Cofrestrydd Cyffredinol. yn llym gan David Lloyd George yn Nhy'r Cyffredin am awgrymu i nifer y siaradwyr uniaith Cymraeg gael eu chwyddo yn dwyllodrus (Jenkins 1999: 7, 10). Cafwyd ymateb tanllyd hefyd yn y Wasg, yn enwedig gan Beriah Gwynfe Evans yn *Baner ac Amserau Cymru*, y *Western Mail*, a'r *Times* (*Baner ac*

Amserau Cymru, 15 Ebrill 1891, The Western Mail, 21 Ebrill 1891, The Times, 31 Awst 1894). Ar y llaw arall, gwrthwynebwyd y Cymry gwlatgar gan olygydd y *Western Mail*, a ddadleuai mai cynllwyn gan ‘*ultra-Welsh patriots*’ oedd yr holl helynt am ffurflenni Cymraeg ac agwedd negyddol y cyfrifwyr, a hefyd gan John Gibson, golygydd y *Cambrian News* (*Western Mail, 18 Ebrill 1891; Cambrian News, 17 Ebrill 1891*). Yr oedd cyfrol Southall, *The Welsh Language Census of 1891* (1895) yn ymgais i ddangos anallu y Cofrestrydd Cyffredinol i ddadansoddi canlyniadau ieithyddol y cyfrifiad yng Nghymru. Beirniadwyd ef hefyd am fethu darparu digon o ffurflenni Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymraeg, a hefyd gan Thomas Darlington, Arolygydd ei Mawrhydi, am ei sylwadau sarhaus am y Cymry (*Wales, 1, 1894; Y Genhinen XI, rhif 4, 1893*)

Yn ogystal, mae rhai sylwebwyr cyfoes megis Edward Higgs wedi bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd canlyniadau'r cwestiynau yn ymwneud â'r Gymraeg:

The results obtained by means of these questions do not appear to have been very trustworthy.

(Higgs 1996 : 90)

Yn yr un modd gellir dadlau ar ôl dadansoddi tystiolaeth y cyfrifiad ym mhlwyf Llan-non bod cyfanswm y siaradwyr uniaith Saesneg hefyd wedi ei orgyfrif. Gwelir enghreifftiau o anghysondebau yn sefyllfa ieithyddol rhai aelwydydd yn nystiolaeth y cyfrifiad ac a drafodir yn y bennod hon. Eto i gyd, mae Cyfrifiad 1891 yn ffynhonnell amhrisiadwy i'r rhai hynny sy'n dadansoddi sefyllfa ieithyddol Cymru a fel y dywed Geraint H Jenkins:

Beth bynnag am ei ddiffygion, ni ellir gwadu nad yw cyfrifiad 1891 yn cynnwys mwynglawdd o wybodaeth werthfawr. . . a effeithiai ar barhad a ffyniant yr iaith Gymraeg yn negawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

(Jenkins 1999 : 20)

Mae Cyfrifiad 1891 yn cynnwys manylion allweddol am gyfansoddiad plwyf Llan-non gan gynnwys y rhai hynny a ymfudodd i'r ardal i sicrhau gwaith yn sgîl datblygiad y diwydiant glo.

Tabl 3.3 : Iaith a leferid gan boblogaethau Plwyf Llan-non, Dosbarth Cofrestru Llanelli , Sir Gaerfyrddin a Chymru, 1891
(2 flwydd oed a throsodd)

	Nifer				Canran			
	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfanswm	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfanswm
Llan-non ¹	1643	253	57	1953	84.1	13.0	2.9	100.0
D.G Llanelli ²	25366	17630	6161	49157	51.6	35.9	12.5	100.0
Sir Gaerfyrddin ³	63345	36937	11751	112033	56.5	33.0	10.5	100.0
Cymru⁴	508036	402253	759416	1669705	30.4	24.1	45.5	100.0

1. Hefgorwyd 11 nad oeddynt wedi nodi eu hiaith ac un a lefarai Ffrangeg a Saesneg.
2. Hefgorwyd 200 nad oeddynt wedi nodi eu hiaith a 58 a lefarai ieithoedd eraill.
3. Hefgorwyd 583 nad oeddynt wedi nodi eu hiaith a 69 a lefarai ieithoedd eraill.
4. Hefgorwyd 12,833 nad oeddynt wedi nodi eu hiaith a 3,076 a lefarai ieithoedd eraill.

Fel y dengys Tabl 3.3, yr oedd y mwyafrif helaeth, sef 1643 o unigolion (2 flwydd oed a throsodd) neu 84.1 y cant, poblogaeth plwyf Llan-non, yn siaradwyr uniaith Gymraeg yn ôl tystiolaeth Cyfrifiad 1891. Tra bod 253 o unigolion, 13.0 y cant yn medru'r Gymraeg a'r Saesneg, dim ond 57 o drigolion y plwyf sef 2.9 y cant oedd yn siaradwyr uniaith Saesneg. Lleolid plwyf Llan-non yn Nosbarth Cofrestru Llanelli ac yno y canfuwyd y boblogaeth uchaf yn sir Gaerfyrddin yn 1891 sef 49,157 o'i gymharu â 32, 410 yn Nosbarth Cofrestru Caerfyrddin, 19, 404 yn Llandeilo Fawr a 11, 062 yn Llanymddyfri. Eto, mae'n ddiddorol nodi mai yn Nosbarth Cofrestru Llanelli hefyd y lleolid y ganran isaf o siaradwyr uniaith Gymraeg sef 51.6 y cant o'i gymharu â 55.1 y cant yng Nghaerfyrddin, 61.5 y cant yn Llanymddyfri a 68.7 y cant yn Llandeilo Fawr.

Tabl 3.4: Iaith a leferid yn ôl oedran, 1891
(2 flwydd oed a throsodd)

	Cymraeg	Nifer		Cyfanswm	Cymraeg	Canran		Cyfanswm
		Y Ddwy	Saesneg			Y Ddwy	Saesneg	
2-5	226	16	6	248	91.1	6.5	2.4	100.0
6-14	387	49	4	440	88.0	11.1	0.9	100.0
15-24	344	71	22	437	78.8	16.2	5.0	100.0
25-44	406	71	19	496	81.9	14.3	3.8	100.0
45-64	188	36	3	227	82.8	15.9	1.3	100.0
65+	92	10	3	105	87.6	9.5	2.9	100.0
Cyfanswm	1643	253	57	1953	84.1	13.0	2.9	100.0

Mae Tabl 3.4 yn tanlinellu natur Gymraeg yr ardal sydd dan sylw. Yr oedd dros 80 y cant o'r boblogaeth ym mhob grŵp oedran heblaw am yr un 15-24 yn siaradwyr uniaith Gymraeg gyda'r ganran uchaf, 91.1 y cant, yn y grŵp 2-5. Er bod siaradwyr Saesneg i'w canfod ym mhob grŵp oedran, nifer cymharol fechan oeddynt heblaw am 22 yn y grŵp 15-24 a 19 yn y grwp 25-44. Yr oedd mwyafrif aelodau'r ddau grŵp oedran hyn yn gyflogedig, ac mae'n arwyddocaol mai ymysg oedolion o'r grwpiau oedran hyn hefyd y cofnodwyd y nifer uchaf o siaradwyr dwyieithog. Cymharol debyg yw'r ystadegau wrth ystyried gallu ieithyddol poblogaeth plwyf Llan-non yn ôl rhyw.

Tabl 3.5: Iaith a leferid yn ôl oedran a rhyw, 1891
(2 flwydd oed a throsodd)

Oed	Rhyw	Nifer			Canran				
		Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfanswm	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfanswm
2-5	G	112	5	3	120	93.3	4.2	2.5	100.0
	B	114	11	3	128	89.1	8.6	2.3	100.0
6-14	G	201	25	1	227	88.6	11.0	0.4	100.0
	B	186	24	3	213	87.3	11.3	1.4	100.0
15-24	G	181	33	16	230	78.7	14.3	7.0	100.0
	B	163	38	6	207	78.7	18.4	2.9	100.0
25-44	G	195	41	10	246	79.3	16.6	4.1	100.0
	B	211	30	9	250	84.4	12.0	3.6	100.0
45-64	G	92	19	1	112	82.1	17.0	0.9	100.0
	B	96	17	2	115	83.5	14.8	1.7	100.0
65+	G	44	5	2	51	86.3	9.8	3.9	100.0
	B	48	5	1	54	88.9	9.2	1.9	100.0
Cyfanswm	G	825	128	33	986	83.7	13.0	3.3	100.0
	B	818	125	24	967	84.6	12.9	2.5	100.0

Fel y dengys Tabl 3.5, nid oes unrhyw amrywiaeth amlwg yn niferoedd nac ychwaeth yng nghanrannau y gwrywod a gofnodwyd yn y tri chategori ieithyddol: yr oedd 986 o wrywod (83.7 y cant) a 967 o fenywod (84.6 y cant) yn siaradwyr uniaith Cymraeg, 128 o wrywod (13.0 y cant) a 125 o fenywod (12.9 y cant) yn siarad Cymraeg a Saesneg tra fod 33 o wrywod (3.3 y cant) a 24 o fenywod (2.5 y cant) wedi eu cofnodi yn siaradwyr uniaith Saesneg.

Tabl 3.6: Iaith a leferid yn ôl man geni, 1891

(2 flwydd oed a throsodd) ¹

Man geni	Nifer				Canran			
	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfanswm	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfanswm
Sir Gaerfyrddin	1554	203	6	1763	88.2	11.5	0.3	100.0
Sir Aberteifi	16	4	--	20	80.0	20.0	--	100.0
Sir Benfro	7	6	16	29	24.1	20.7	55.2	100.0
Sir Faesyfed	--	1	--	1	--	100.0	--	100.0
Sir Frycheiniog	5	5	--	10	50.0	50.0	--	100.0
Sir Forgannwg	54	15	6	75	72.0	20.0	8.0	100.0
Sir Fynwy	1	4	2	7	14.3	57.1	28.6	100.0
Sir Gaernarfon	--	1	--	1	--	100.0	--	100.0
Cymru ²	2	--	--	2	100	--	--	100.0
Lloegr	3	14	26	43	7.0	32.5	60.5	100.0
Eraill ³	--	--	1	1	--	--	100.0	100.0
Cyfanswm	1642	253	57	1952	84.1	13.0	2.9	100.0

1. Hefgorwyd un nad oedd wedi nodi ei fan geni.

2. Heb nodi sir.

3. Man geni: Iwerddon

Amlygir yn Nhabl 3.6 na fu unrhyw fewnlifiad sylweddol i'r ardal y tu hwnt i sir Gaerfyrddin, ac mae hyn yn wir hefyd am bentref Glanamau, yn Nyffryn Aman ychydig o filltiroedd i'r dwyrain. Archwiliwyd cofnodion y cyfrifiad yn fanwl ar gyfer y pentref hwn yn y gyfrol *Miliwn o Gymry Cymraeg* gyda mwyafrif helaeth y trigolion yn hanu o blwyfi lleol (Williams 1999: 219). Yn wir cofnodwyd bod 1,763 o unigolion sef 90.3 y cant o'r sampl yn hanu o sir Gaerfyrddin. Wrth ystyried cymeriad Cymraeg amlwg y sir hon nid yw'n syndod bod 88.2 y cant o boblogaeth plwyf Llan-non a ddaeth o sir Gaerfyrddin yn siaradwyr uniaith Gymraeg a 11.5 y cant yn siaradwyr dwyieithog. Dim ond chwech o unigolion a aned yn sir

Gaerfyrddin a gofnodwyd yn siaradwyr uniaith Saesneg. Ymhlith y garfan hon oedd dau letywr a drigai yn 32 *Tanygraig Row*, Y Tymbl, sef David Jones o Landybie a John Lewis o Sain Pedr, Caerfyrddin, y ddau'n lowyr. Yn ddiddorol, yr oedd pawb arall ar yr aelwyd yn uniaith Gymraeg. Yn yr un modd Clarice Roderick, 'ymwelydd' uniaith Saesneg o Landeilo oedd yr unig un a fedrai'r Saesneg yn 49 a 50 *Tanygraig Row*. Yn ôl tystiolaeth y cyfrifiad, nid oedd yr unigolion hyn yn gallu cyfathrebu gydag unigolion eraill ar yr aelwyd heb sôn am y mwyafrif helaeth o'r gymdeithas o'u hamgylch! Wrth edrych yn fanylach ar fan geni'r rhai a aned yn sir Gaerfyrddin mae'n ddiddorol nodi mai ychydig dros eu hanner a aned ym mhlwyf Llan-non. Yr oedd 1, 012 o unigolion sef 57.4 y cant o'r rhai a aned yn sir Gaerfyrddin a 51.8 y cant o'r holl sampl yn enedigol o'r plwyf. Siaradwyr uniaith Gymraeg oedd 918 (90.7 y cant) o'r unigolion rheiny, tra yr oedd 92 (9.1 y cant) yn siaradwyr dwyieithog a dim ond dau (0.2 y cant) yn siaradwyr uniaith Saesneg. Yr hyn sy'n arwyddocaol yw bod carfan sylweddol o drigolion plwyf Llan-non yn 1891 yn hanu o'r plwyfi amgylchynol yn sir Gaerfyrddin ac mae'r ystadegau a gyflwynir yn Tabl 3.7 yn tanlinellu hynny.

Tabl 3.7 : Iaith a leferid gan drigolion plwyfi cyfagos, 1891

Plwyf	Cymraeg	Nifer		Cyfanswm	Cymraeg	Canran		Cyfanswm
		Y Ddwy	Saesneg			Y Ddwy	Saesneg	
Llanarthne	164	14	--	178	92.1	7.9	--	100.0
Llandybie	56	2	1	59	94.9	3.4	1.7	100.0
Llanedi	46	5	--	51	90.2	9.8	--	100.0
Llanelli	136	33	1	170	80.0	19.4	0.6	100.0
Llangydeyrn	60	13	--	73	82.2	17.8	--	100.0
Llanddarog	59	5	--	64	92.2	7.8	--	100.0
Cyfanswm	521	72	2	595	87.6	12.1	0.3	100.0

O'r 595 o unigolion a hanai o'r plwyfi cyfagos hyn yr oedd 72 yn siaradwyr dwyieithog (12.1 y cant) tra dim ond dau, (0.3 y cant) a gofnodwyd yn siaradwyr uniaith Saesneg. Serch hynny, o'r gweddill yr oedd 521 o unigolion neu 87.6 y cant, sef y mwyafrif helaeth ohonynt, yn siaradwyr uniaith Gymraeg.

Catherine Gwendoline Jones, merch 19 oed o Gaernarfon, oedd yr unig un o drigolion plwyf Llan-non a aned yng ngogledd Cymru, ac yr oedd yn gallu siarad Cymraeg a'r Saesneg. Bellach, yr oedd Gwendoline wedi ymsefydlu yn y ficerdi ym mhentref Llan-non, aelwyd a oedd yn cynnwys siaradwyr dwyieithog ac uniaith Saesneg. Ei thad, William Jones brodor o Aberystwyth yn sir Aberteifi, oedd ficer plwyf Llan-non (1878-93) ac yr oedd yntau yn siaradwr dwyieithog. Ef oedd un o'r areithwyr yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 'Gae Pound', Cross Hands ar 1 Mai 1893 adeg y Streic Fawr a drafodir eto ym Mhennod 4. Ganed Jane Sophia Jones, gwraig William yn Bungay, swydd Norfolk ac yr oedd yn siaradwraig uniaith Saesneg tra yr oedd ei gyfnither, Margaret Jones a aned yn Llundain yn siaradwraig dwyieithog. Mae'n ddiddorol nodi bod plant eraill William wedi eu geni ym mhlwyf Llan-non ond yr oedd Eleanor Gwladys Jones, 12 oed yn wahanol i'r gweddill gan ei bod yn siaradwraig uniaith Saesneg. Ar yr aelwyd hefyd oedd Alfred Jones, gwas uniaith Saesneg o Tunbridge Wells yng Nghaint.

Yn ddigon naturiol, gwelwyd y mewnfudo mwyaf i'r ardal o'r siroedd Cymraeg hynny a oedd wedi eu lleoli yn agos yn ddaearyddol i sir Gaerfyrddin. Daeth y nifer fwyaf o sir Forgannwg sef 75. Yr oedd 54 (72.0 y cant) yn siaradwyr uniaith Gymraeg, 15 (20.0 y cant) yn medru'r ddwy iaith a 6 (8.0 y cant) yn siaradwyr uniaith Saesneg. Hanai tri o'r siaradwyr uniaith Saesneg o Lan-giwg a'r gweddill o Abertawe, Tregwyr a'r Rhondda. Ymhlith y siaradwyr uniaith Gymraeg oedd tri o drigolion pentref Cross Hands, sef David John Roberts (Cross Hands Villa), William Jones (Glanyrhyd), a Thomas Jones (New Cottage), brodor o Aberdâr. Yr

oedd y datblygiadau diwydiannol yn yr ardal yn cynnig cyfleoedd gwaith gwerthfawr i drigolion y cymunedau amaethyddol a leolid i'r gogledd a'r gorllewin, sef ardaloedd yn cynnwys nifer uchel o siaradwyr Cymraeg a symudodd nifer ohonynt i blwyf Llan-non. Parhaodd y duedd hon yn ystod yr ugeinfed ganrif, a thrafodir hyn eto ym Mhennod 4. Yr oedd y symudiad demograffig hwn yn un arwyddocaol yng nghyd-destun safle'r Gymraeg gyda'r canlyniad bod Cwm Gwendraeth yn parhau yn un o gadarnleoedd yr iaith. Er bod gweithwyr o ardaloedd Cymraeg gogledd, gorllewin, a chanolbarth Cymru wedi symud i gymoedd dwyreiniol de Cymru, denwyd hefyd nifer sylweddol o'r siroedd cyfagos yn Lloegr. Felly, yr oedd dyfodol yr iaith Gymraeg yn yr ardaloedd hyn yn fwy ansicr nag yng Nghwm Gwendraeth, sef ardal gorllewinol Maes Glo De Cymru. Tanlinellir hynny yn y sampl dan sylw gyda phob un a ddaeth o sir Aberteifi naill ai'n siaradwyr uniaith Cymraeg, 16 (80.0 y cant) neu'n rhai dwyieithog, 4 (20 y cant).

Yn gyffredinol, yr oedd gallu ieithyddol y rhai hynny a symudodd i'r ardal o'r siroedd eraill yng Nghymru yn cyfleu sefyllfa ieithyddol eu bröydd genedigol. Serch hynny, er mai o Abaty Cwm Hir yn sir Faesyfed, yr hanai Henry Pugh, teiliwr, 24 oed, yr unig un o'r sampl a aned yn y sir honno, yr oedd yn medru'r ddwy iaith. Yr oedd yr wyth unigolyn arall a drigai yn aelwyd Maesderwn yn hanu o sir Gaerfyrddin gyda chwech yn ddwyieithog a dau yn uniaith Gymraeg. Mae'r wybodaeth a gyflwynir am y rhai hynny a aned yn sir Benfro yn cyfleu rhaniad ieithyddol y sir honno. Ymhlith y siaradwyr uniaith Saesneg oedd Henry Belt, glöwr o Begelly a'i wraig Eleri o Ddoc Penfro; Lewis Howells, glöwr, ei wraig, Mary a'r lletywr William Philips o Begelly. Tra bod James Gibby, ffermwr o Ascot a Lewis Jenkins, mecanydd glofaol o Jeffreyston yn siarad y ddwy iaith, Cymraeg yn unig y siaradai Lizzie Stephens, morwyn o Drefin a Phoebe Daniel o Benrhydd.

Deugain a thri o drigolion y sampl a aned yn Lloegr tra hanai un o Iwerddon. Yr oedd chwech ar hugain o'r rhai a aned yn Lloegr yn

siaradwyr uniaith Saesneg, pedwar ar ddeg yn rhai dwyieithog a thri yn uniaith Gymraeg. Ganed dau o'r siaradwyr uniaith Cymraeg sef Charles H. Parker, gwas fferm a Margaret Robbins yn Llundain. Yr oedd y ddau yn byw ar aelwydydd uniaith Gymraeg ac felly yr oedd sicrhau gwybodaeth o'r Gymraeg yn angenrheidiol. Preswyliai Maud Thomas Sellars, siaradwraig uniaith Gymraeg, 3 oed a aned yn Leeds, swydd Efrog ar aelwyd Pen-y-banc ym mhentref Llan-non. Siaradwyr uniaith Gymraeg oedd pawb ar yr aelwyd heblaw am y lletywr Edward Clement o Dregwyr a siaradai Saesneg ynghyd â'r Gymraeg. Yr oedd Ann Cousen, gwraig weddw 72 oed a siaradwraig uniaith Saesneg yn enedigol o Iwerddon wedi ymsefydlu ar aelwyd uniaith Saesneg yn Nhŷ'r Garddwyr ym mhentref Llan-non. Yr oedd ei merch, Ellen, golchwraig a aned yng Nghaint yn briod â Alfred Edwards, garddwr a brodor o swydd Henffordd. Ganed dau o'u meibion yn swydd Sussex a John, (a oedd yn 2 oed), ym mhlwyf Llan-non.

Yr oedd enghreifftiau tebyg o gartrefi uniaith Saesneg yn brin iawn ym mhlwyf Llan-non yn 1891. Yn wir dim ond yn wyth (1.9 y cant) o'r 410 o dylwythau yn y plwyf y cofnodwyd pob aelod yn siaradwyr uniaith Saesneg. Fel y nodwyd eisoes, symudodd nifer o siaradwyr uniaith Saesneg i'r ardal o sir Benfro ac o'r wyth cartref uniaith Saesneg yr oedd pedwar tylwyth yn hanu o'r sir honno. Nid yw'n syndod bod y pedwar tylwyth arall yn cynnwys yn bennaf unigolion a symudodd i'r ardal o Loegr i sicrhau gwaith yn y lofa ynghyd â rhai eraill o sir Benfro. Mae aelwyd 53 *Tanygraig Row* yn cynnwys unigolion o dair sir gwahanol. Ganed y glöwr Henry Jones yn Llanelli, sir Gaerfyrddin, tra hanai ei wraig, Isabella o Rhymni, sir Fynwy a'u mab James o Gwm Rhondda yn sir Forgannwg. Cyfanswm y tylwythau dwyieithog oedd 91 (22.2 y cant) o'u cymharu â 311 (75.9 y cant) o rhai uniaith Gymraeg. Mae'r ystadegau hyn yn tanlinellu Cymreictod cartrefi'r ardal. Serch hynny, wrth ystyried y nifer sylweddol a oedd yn medru'r iaith yn yr ardal, mae'n syndod mai dim ond deg ar hugain o ffurflenni cyfrifiad Cymraeg a ddefnyddiwyd yn y plwyf. Eto, mae'n bosib bod hyn yn ddealladwy wrth ystyried yr

anawsterau a oedd ynghlwm â ffurflenni Cymraeg megis y rhai a drafodwyd eisoes.

Wrth ddadansoddi Tabl 3.8 mae'n amlwg bod yr uned deuluol yn Gymraeg i raddau helaeth gyda 82.6 y cant o'r penteuluoedd, 83.7 y cant o'r gwragedd a 87.9 y cant o'r plant yn siaradwyr uniaith Gymraeg.

Tabl 3.8 : Iaith a leferid yn ôl perthynas â'r penteulu, 1891
(2 flwydd oed a throsodd)

Perthynas â'r penteulu	Nifer				Canran			
	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfanswm	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfanswm
Penteuluoedd	333	57	13	403	82.6	14.1	3.3	100.0
Gwragedd	263	37	14	314	83.7	11.8	4.5	100.0
Plant ¹	826	102	11	939	87.9	10.9	1.2	100.0
Perthnasau	87	20	4	111	78.4	18.0	3.6	100.0
Gweision	80	18	8	106	75.5	17.0	7.5	100.0
Lletywyr	47	11	6	64	73.4	17.2	9.4	100.0
Ymwelwyr	7	8	1	16	43.7	50.0	6.3	100.0
Cyfanswm	1643	253	57	1953	84.1	13.0	2.9	100.0

1. Gan gynnwys llysblant

Mae'n wir bod canran y siaradwyr Cymraeg yn disgyn ychydig wrth ddadansoddi ystadegau'r rhai hynny oedd y tu allan i'r teulu cnewyllo. Eto mae canrannau siaradwyr uniaith Cymraeg y perthnasau, gweision a'r lletywyr yn parhau dros 70 y cant. Dim ond canran siaradwyr uniaith Cymraeg yr ymwelwyr sy'n amlwg yn wahanol i'r gweddill, sef 43.7 y cant. Eto mae hanner yr ymwelwyr yn ddwyieithog gyda dim ond un unigolyn yn methu siarad Cymraeg. Y lletywyr sy'n cynnwys y ganran uchaf o siaradwyr uniaith Saesneg sef 9.4 y cant a chofnodwyd pob un ohonynt fel glowyr. Cyfeiriwyd eisoes at David Jones a John Lewis o sir Gaerfyrddin tra bod William Philips yn hanu o Begelly, sir Benfro, a John Morgans o Dregwyr, sir Forgannwg. Eto yr oedd y ddau letywr arall wedi teithio ymhellach i fanteisio ar y datblygiadau diwydiannol lleol. Brodor o Plymouth yn Nyfnaint oedd James Ramsey, labrwr yn y lofa ac yr oedd yn lletya gyda theulu dwyieithog o Dalacharn, sir Gaerfyrddin yn 102 *Tumble Row*.

Gwerthwraig ffrwythau a llysiâu oedd Louisa Richards, y penteulu tra gweithiai Morris, ei mab 17 oed, yn y lofa. Hefyd ar yr aelwyd oedd Jane y ferch a oedd yn 14 mlwydd oed. Ganed John Copley, glöwr 17 oed yn Llundain ac yr oedd yn lletya ar fferm Hirwenole, ger pentref Y Tymbl. Siaradwyr uniaith Cymraeg oedd pob aelod o'r teulu cnewyllol. Hanai'r penteulu, David Walters o Gydweli ond yr oedd pob aelod arall o'r teulu yn enedigol o blwyf Llan-non ac yn gweithio fel glowyr, gwniadwraig a ffermwr. Yn ddiddorol yr oedd y lletywr arall yn Hirwenole, sef Henry J. Taylor, hefyd yn löwr ac yn hanu o Lundain ond cofnodwyd ef fel siaradwr dwyieithog. Felly yn rhyfeddol, Henry oedd yr unig un o'r saith arall ar yr aelwyd y gallai John Copley gyfathrebu ag ef! Prin iawn oedd nifer y lletywyr a symudodd i'r plwyf o Loegr ac hefyd o siroedd eraill yng Nghymru. Daeth y mwyafrif o'r ardaloedd amaethyddol cyfagos ac adlewyrchir hynny yn yr ystadegau a gyflwynir yn Nhabl 8. Hanai 48 o letywyr (sef 75.0 y cant o'r cyfanswm) o sir Gaerfyrddin, naw o sir Forgannwg (14.1 y cant), tri o Lundain (4.7 y cant) ac un yr un o siroedd Aberteifi, Penfro, Brycheiniog a Dyfnaint (6.2 y cant). Yn ei ddadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 1891 yn y Rhondda nododd John Davies fod y system letya, un o brif nodweddion y gymdeithas lofaol ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf, yn cadarnhau Cymreictod lletywyr Cymraeg ac yn foddion i gymathu'n ieithyddol ymfudwyr o Loegr (Davies 1995 : 132) .

Yr oedd prinder dylanwadau Seisnig yn sicrhau bod y cartref yn Gymraeg ac mae tystiolaeth Tabl 3.9 yn dangos nad oes llawer o newid ieithyddol rhwng y cenedlaethau. Wrth ystyried dyfodol y Gymraeg yn yr ardal mae'n arwyddocaol mai dim ond un ar ddeg o blant y sampl, 1.2 y cant sy'n siaradwyr uniaith Saesneg. Atgyfnerthir ymhellach y parhad a welwyd o'r naill genhedlaeth i'r llall yn Nhabl 9 sy'n cynnwys manylion am iaith plant mewn teuluoedd cnewyllol.

Tabl 3.9: Iaith Plant (2 flwydd oed a throsodd) o deuluoedd lle'r oedd rhieni uniaith a dwyieithog

Gallu ieithyddol y rhieni		Gallu ieithyddol y plant Nifer yr aelwydydd			Gallu ieithyddol y plant Canran						
Tad	Mam	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cymysg	Cyfan.	Cymraeg	Y Ddwy	Saesne g	Cym ysg	Cyfanswm.
Cymraeg	Cymraeg	188	2	--	2	192	98.0	1.0	--	1.0	100.0
Cymraeg	Dwyieithog	2	2	--	--	4	50.0	50.0	--	--	100.0
Dwyieithog	Cymraeg	10	1	--	1	12	83.3	8.3	--	8.3	100.0
Dwyieithog	Dwyieithog	1	23	--	--	24	4.2	95.8	--	--	100.0
Dwyieithog	Saesneg	--	1	1	1	3	--	33.3	33.3	33.3	100.0
Saesneg	Saesneg	--	2	3	--	5	--	40.0	60.0	--	100.0
Saesneg	Cymraeg	1	--	--	--	1	100.0	--	--	--	100.0
Cyfanswm	Cyfanswm	202	31	4	4	241	83.8	12.8	1.7	1.7	100.0

Dim ond ym mhwm tylwyth o'r sampl y ceir rhieni a oedd yn methu siarad Cymraeg. Yr hyn sy'n drawiadol yw nifer y cartrefi gyda dau riant uniaith Gymraeg. Yn wir yn yr aelwydydd hynny lle yr oedd y ddau riant yn siaradwyr uniaith Gymraeg, sef 79.7 y cant o'r sampl mae mwyafrif helaeth y plant hefyd yn uniaith Gymraeg. Eto ceir pedwar tylwyth lle yr oedd y plant wedi sicrhau gwybodaeth o'r Saesneg. Siaradwr dwyieithog oedd William Anthony, glöwr 32 oed o Landdarog ac unig blentyn i Morgan, diasbyddwr (*castrator*) o Landybïe ac Anne o Lanarthne (y ddau'n siaradwyr uniaith Gymraeg). Mae'n debygol bod William wedi sicrhau gwybodaeth o'r Saesneg yn y lofa. Yn yr un modd tra oedd Rees Thomas, a oedd hefyd yn löwr yn medru'r ddwy iaith yr oedd ei rieni, ei bedwar brawd a'i ddwy chwaer yn siarad Cymraeg yn unig. Ar aelwyd y Groesfaen, cofnodwyd pawb yn siaradwyr uniaith Gymraeg ar wahân i John Griffiths, saer coed yn y lofa a oedd yn ddwyieithog. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod swydd John yn union yr un fath â'i dad ond siaradwr uniaith Gymraeg ydoedd yntau. Mae'n bosib mai oedran ac efallai dylanwad addysg oedd yn gyfrifol am y ffaith fod John yn medru'r iaith Saesneg ag yntau'n 22 oed, deugain ag un o flynyddoedd yn iau na'i dad.

Yn ogystal â'r gweithle, yr ysgol oedd y lleoliad amlwg arall y byddai plant i rieni uniaith Gymraeg yn sicrhau gwybodaeth o'r iaith Saesneg. Ar aelwyd Coedycwmganol yr oedd tri plentyn ieuengaf Evan a Rachel James yn siaradwyr uniaith Gymraeg, tra yr oedd y tri plentyn hynaf, a gofnodwyd yn ddisgyblion ysgol, yn ddwyieithog. Erbyn Cyfrifiad 1891 yr oedd amryw o ysgolion wedi eu hagor ym mhlwyf Llan-non, a thrafodir dylanwad iethyddol yr ysgolion eto ym Mhennod 4. Ar y llaw arall gallai'r ysgol fod yn ganolfan i Gymreigio plant o gartrefi uniaith Saesneg. Yn wir gwelir dylanwad yr ysgol ar allu iethyddol plant rhai o rieni uniaith Saesneg plwyf Llan-non. Tra bod y plant yn nhair o'r pum aelwyd yn siarad Saesneg yn unig fel eu rhieni, yr oedd dwy aelwyd yn cynnwys plant dwyieithog, pob un ohonynt yn ddisgyblion ysgol. Nid oes unrhyw arwydd yn yr ystadegau uchod bod nifer y plant sy'n siarad Cymraeg yn disgyn yn y cartrefi dwyieithog. Yn wir dim ond un tylwyth oedd yn cynnwys plant oedd yn methu siarad Cymraeg pan oedd gan y rhieni

wybodaeth o'r famiaith. Ar aelwyd 38 *Tanygraig Row*, dim ond David Lloyd, brodor o blwyf Llan-non a gyflogid fel taniwr oedd yn gallu siarad Cymraeg. Cofnodwyd David yn siaradwr dwyieithog ond Saesneg yn unig a siaradai gweddill y teulu. Mae'n amlwg bod David wedi treulio cyfnod o'i fywyd yn Lloegr oherwydd yr oedd ei wraig yn hanu o Broad Wood yn Nyfnaint a'i ferch hynaf o Aldershot, swydd Hampshire. Yn ogystal, Saesneg yn unig y siaradai Sidney David, eu mab 2 oed a aned yn Abertawe. Ar yr aelwyd hefyd yr oedd Lily Jessie Beatrice, merch ieuengaf y teulu a oedd yn flwydd oed ac a aned ym mhlwyf Llan-non ynghyd â Kestra George, ymwelydd a aned yn Llanddarog ac a weithiai fel gwniadwraig : yn ddiddorol fe'i cofnodwyd fel siaradwraig ddwyieithog.

Mae'n amlwg felly, ar sail tystiolaeth Cyfrifiad 1891, mai'r Gymraeg a siaredid gan gyfran helaeth o drigolion plwyf Llan-non yn eu cartrefi ac yn y gweithle. Dengys Tabl 3.10 mai cyfanswm y cyflogedig (yn cynnwys dynion a merched 10 mlwydd oed a throsodd) ym mhlwyf Llan-non yn 1891 oedd 886, 636 yn ddynion a 250 yn ferched. Yr oedd 71.8 y cant o gyfanswm y cyflogedig yn ddynion a 28.2 y cant yn ferched. Fel y nodwyd eisoes yr oedd y diwydiant glo yn datblygu'n gyflym erbyn blynyddoedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac adlewyrchir hynny yn yr ystadegau a gyflwynir am alwedigaeth y boblogaeth. Cyflogid 323 o ddynion ym maes mwyngloddio, sef 50.8 y cant o gyfanswm y dynion cyflogedig ac yr oedd pob un o'r rhain heblaw am William Robbin o Lanelli a weithiai fel giard ar y rheilffordd mwynglawdd (mineral railway) yn gysylltiedig â'r diwydiant glo. Yr oedd canran uchel, sef 82.9 y cant o'r cyfanswm uchod, yn siaradwyr uniaith Gymraeg, 11.8 y cant yn ddwyieithog a 5.3 y cant yn uniaith Saesneg. Dim ond 17 o ddynion a gofnodwyd fel siaradwyr uniaith Saesneg ac yr oedd tri ar ddeg ohonynt naill ai'n lowyr neu'n halwyr glo, tri yn lafurwyr ac un yn asiant.

Mae'n drawiadol mai prin yw nifer y siaradwyr uniaith Saesneg ynghyd â'r rhai dwyieithog a oedd mewn swyddi o awdurdod yn y diwydiant glo. Yr oedd asiant yn swydd allweddol ac mae'n debyg y byddai gwybodaeth o'r Gymraeg a'r Saesneg yn ddefnyddiol ar gyfer swydd o'r fath. Brodor o

Hebburn, swydd Durham oedd John Ord ac yr oedd yn byw ar aelwyd ieithyddol ddiddorol iawn yn 17 *Furnace Terrace* ym mhentref Pontyberem. Tra bod John yn siaradwr uniaith Saesneg yr oedd ei wraig, Jane yn siarad Cymraeg a Saesneg a'i ferch, Elizabeth, athrawes a aned ym mhlwyf Llan-non yn siarad Saesneg a Ffrangeg. Mae'n anhebygol iawn y byddai'n bosib i athrawes allu ymgymryd â'u dyletswyddau yn yr ardal heb unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg oherwydd cofnodwyd 84.0 y cant o fechgyn a merched a oedd yn ddisgyblion ysgol yn siaradwyr uniaith Gymraeg, 14.4 y cant yn ddwyieithog a 1.6 y cant yn uniaith Saesneg. Er bod siaradwraig Ffrangeg yn hynod anghyffredin (nid yw'n syndod mai dyma'r unig un yn y sampl) mae'n debygol mai ei chefnidir addysgol fu'n gyfrifol am hyn.

Hanai wyth o unigolion, sef bron i hanner y siaradwyr uniaith Saesneg a gyflogid yn y diwydiant glo, o sir Benfro. Ymhlith y rhain yr oedd William Thomas, brodor o Dale a weithiai fel rhewlwr (roadman) yn y lofa. Yr oedd ei wraig Elizabeth, o Langwm, sir Benfro hefyd yn uniaith Saesneg tra bod tri o'u plant, disgyblion ysgol a aned ym mhlwyf Llan-non yn gallu siarad Cymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Yn yr un modd yr oedd William Hay, labrwr yn y lofa a'i wraig yn hanu o sir Benfro tra ganed un o'u plant yng Nglyn Ebwy, sir Fynwy a'r llall ym mhlwyf Llan-non. Yr oedd tri a aned yn yr un pentref yn sir Benfro yn byw yn 104 *Tumble Row*, aelwyd uniaith Saesneg. Yr oedd y penteulu Joseph Morgans, labrwr yn y lofa, ei frawd, Thomas, glöwr, a'i chwaer, Priscilla, yn enedigol o St Issells a hanai Jane, gwraig Joseph o Aberdaugleddau, a'i lletywr, John Bowen, glöwr o Dregwyr, sir Forgannwg. Mae Cyfrifiad 1891 yn datgelu llawer am darddiad daearyddol a gallu ieithyddol trigolion *Tumble Row*. Tra bod rhai megis yr unigolion a nodwyd uchod yn hanu o ardaloedd mwy Saesneg Cymru daeth eraill o gymunedau cyfagos megis teulu Owen Howells o Langennech (26 *Tumble Row*) a oedd yn uniaith Gymraeg. Yn ogystal yr oedd rhai yn enedigol o ardaloedd eraill yng Nghymru a thu hwnt megis Thomas Jones (rhif 23), a David Williams (rhif 22), siaradwyr uniaith Cymraeg o Aberdâr a David Rees (rhif 21) brodor o Dreorci. Mae'n ddiddorol bod y glowyr hyn o sir Forgannwg wedi ymsefydlu gerllaw ei gilydd. Yr oedd John Hood (rhif 13) yn hanu o Gasnewydd, sir Fynwy ond

ganed ei wraig Lucy yn Marlborough: ei ddau blentyn hynaf yn Swindon, sir Wiltshire: ei ferch arall, Edith yn Fasingdon: tra ganed ei fab ieuengaf, Robert ym mhlwyf Llan-non. Yr oedd pob aelod o'r teulu, ar wahân i Lucy Hood a oedd yn uniaith Saesneg, yn siarad Cymraeg a Saesneg.

Mae'n ddiddorol bod tri o lowyr uniaith Saesneg wedi eu geni yn sir Gaerfyrddin. Brodor o Lanelli oedd Henry Jones, glöwr o Lanelli ac yr oedd pob aelod arall o aelwyd 53 *Tanygraig Row* hefyd wedi eu cofnodi fel siaradwyr uniaith Saesneg. Ar y llaw arall yr oedd aelwyd 32 *Tanygraig Row* yn gymysg yn ieithyddol er bod pob un ohonynt wedi eu geni yn sir Gaerfyrddin. Tra bod Anne Jenkins a'i dwy ferch ynghyd â dau letywr (y ddau'n lowyr) yn siaradwyr uniaith Gymraeg, fel siaradwyr uniaith Saesneg y cofnodwyd y ddau letywr arall sef David Jones o Landybïe a John Lewis o Sain Pedr, Caerfyrddin. Mae enghreifftiau cyffelyb yn arwain yr hanesydd i amau dilysrwydd rhai o'r gosodiadau ieithyddol a gofnodwyd. Mae'n anodd amgyffred y byddai unigolion a aned ac a oedd yn byw yn sir Gaerfyrddin (wrth ystyried Cymreictod y sir honno) heb rhyw wybodaeth o'r iaith Gymraeg. Eto mae'n amlwg bod y ddau letywr uniaith Saesneg o'r farn nad oedd eu Cymraeg yn ddigonol i'w cofnodi fel siaradwyr dwyieithog. Mae'n bosib bod rhai o'r glowyr uniaith Saesneg a aned yn Lloegr yn ymhyfrydu yn eu cefndir Seisnig.

Nid yw'n syndod bod y gweddill o'r glowyr uniaith Saesneg yn hanu o Loegr. Brodor o swydd Norfolk oedd George Groom tra ganed ei wraig yn Forebridge, swydd Stafford. Yn rhyfeddol, Edward Peel o Wlad yr Haf oedd yr unig un ar aelwyd Penrhiw, ym mhentref Cross Hands a oedd yn gallu siarad Saesneg. Gellir dweud bod Edward yn nodweddiadol o nifer a ddaeth i'r ardal oherwydd priododd â Susannah, merch o blwyf Llan-non a ganed eu plant yn lleol ac yn Gymry Cymraeg. Eto mae'n anhebygol iawn y byddai Edward yn methu cyfathrebu o gwbl â'i wraig a'i chwech o blant! Cyfeiriwyd eisoes at y ddau löwr uniaith Saesneg arall sef James Ramsey o Ddyfnaint a John Copley o Lundain.

Cyflogid 38 o weithwyr dwyieithog yn y diwydiant glo. Mae'n drawiadol bod 21 o'r rhain, sef dros hanner y siaradwyr dwyieithog, yn hanu o sir Gaerfyrddin: 11 yn lowyr cyffredin, pedwar yn lafurwyr, dau daniwr, ac un clerc, saer, pwyswr a gyrrwr injan. Mae'n debyg na fyddai gwybodaeth o'r iaith Saesneg wedi bod yn angenrheidiol ar gyfer y swyddi uchod heblaw am swydd clerc y gwaith. Brodor o Langyndeyrn oedd Thomas Beynon ac heblaw am Diana Davies, morwyn o Lanelli, nid oedd neb arall a drigai yn *Coalbrook Office*, sef ei wraig a'i bedwar plentyn, yn gallu siarad Saesneg. Yr oedd Herbert I. Cook, labrwr o Lanelli, yn byw ar aelwyd ieithyddol ddiddorol iawn yn 8 *Furnace Terrace*. Er bod ei rieni, Herbert, banciwr (*banksman*) yn y lofa a'i fam, Mary L. yn enedigol o swydd Stafford yr oeddent wedi meistroli digon o'r Gymraeg i'w cofnodi fel siaradwyr dwyieithog. Siaradwyr dwyieithog oedd ei frawd a'i chwaer hefyd ond Saesneg yn unig a siaradai mamgu Herbert, sef Mary Mann, gwniadwraig wedi ymddeol o Rangeworthy yn swydd Gaerloyw. Yr oedd Herbert Cook, brodor o Stoke on Trent, yn un o bum glöwr a aned yn Lloegr. Enghraifft arall oedd Clive I. Hood, glöwr o Swindon, swydd Wiltshire ac yr oedd ei dad John yn enedigol o Gasnewydd, sir Fynwy. Yr oedd John ymhlith yr un ar ddeg arall a hanai o siroedd yng Nghymru heblaw am sir Gaerfyrddin, gyda chwech yn enedigol o sir Forgannwg, tri o sir Benfro ac un o sir Frycheiniog.

Ymhlith y rhai a aned yn sir Forgannwg oedd Edwin Robert Fisher, peiriannydd glofaol dwyieithog o Lan-giwg. Yn drawiadol, tra bod mam Edwin hefyd yn siaradwraig dwyieithog yr oedd ei dair chwaer (gan gynnwys un a oedd yn ddisgybl ysgol) yn siaradwyr uniaith Saesneg. Ar aelwyd Nant-glas, ym mhentref Cross Hands hefyd yr oedd ymwelydd, sef myfyrwraig meddygol, ynghyd â dwy forwyn-y dair yn siaradwyr dwyieithog. Er bod pawb yn 8 *Tumble Row* yn hanu o sir Forgannwg, dim ond David H. Allen o Lansawel, sir Forgannwg, clerc yn y lofa a oedd yn gallu siarad Saesneg. Yn ddiddorol, cofnodwyd yn y sampl dau reolwr y lofa a oedd wedi ymddeol ac nid yw'n syndod canfod eu bod yn siaradwyr dwyieithog. Yr oedd Thomas Harris a aned yn Llanelli yn letywr gyda Mary Thomas, howsgiper ac yr oedd ei bedwar plentyn hefyd yn byw yn *Llwydcoed Villa* ym mhentref Cross Hands, tra brodor

o Lanedi oedd William Harries.

Fel y nodwyd eisoes yr oedd ychydig dros hanner y dynion cyflogedig yn gweithio ym maes mwyngloddio. Cyflogid y gweddill mewn amryw o wahanol feysydd diwydiannol. O'r naw ar hugain a oedd yn gweithio yn y diwydiant adeiladu ni chofnodwyd yr un siaradwr uniaith Saesneg gyda dim ond pump, (17.2 y cant) yn ddwyieithog. Ymhlith y siaradwyr dwyieithog oedd David Davies, syrffwr tir a mwyn a aned ym mhlwyf Llan-non. Yr oedd y pum aelod arall o'i deulu ar aelwyd Llwydcoed Fawr yn siarad Cymraeg a Saesneg tra bod dau was fferm a morwyn yn siaradwyr uniaith Gymraeg. Yr oedd dau o'r rhai a gofnodwyd yn siaradwyr dwyieithog a gyflogid yn y sector adeiladu yn seiri a'r ddau arall yn saer maen. Yr oedd John Thomas, saer maen o Lan-non yn briod â Mary o Winchester, swydd Hampshire a oedd hefyd yn ddwyieithog, tra ganed eu merch Katherine ym mhlwyf Llan-non. Yn ddiddorol, yr oedd y ddau saer, sef Lewis Lewis o Lanfynydd a William Piles o Wlad yr Haf, yn byw wrth ymyl ei gilydd yn yr un cyfeiriad sef Cwmhowell. Er i William Piles gael ei ddisgrifio fel siaradwr dwyieithog yn 1891, fe'i cofnodwyd yng Nghyfrifiad 1901 yn siaradwr Saesneg yn unig. Mae'n debygol mai dyma'r sefyllfa gywir, ac i gofnod 1891 yn yr achos hwn fod yn un gwallus.

Yn yr un modd, dim ond un o'r 33 a gyflogid ym maes cynhyrchu a gofnodwyd fel siaradwr uniaith Saesneg, sef William H. Martin, adeiladwr wageni rheilffordd o Gaerfaddon, Gwlad yr Haf. Yr oedd ei gartref, 7 *Furnace Terrace* yn enghraifft arall o'r modd y cymathwyd teuluoedd o Loegr i'r Gymraeg ar ôl iddynt symud i Gymru. Tra bod ei wraig, Lucy Martin o Handley, swydd Dorset hefyd yn siarad Saesneg yn unig, cofnodwyd eu plant yn siaradwyr dwyieithog (heblaw am Pauline a oedd ond yn 11 mis oed). Ganed y ddau blentyn hynaf, a oedd yn ddisgyblion ysgol, yn Aberdâr, sir Forgannwg tra ganed y plant iau ym mhlwyf Llan-non. O'r chwech yn y sector cynhyrchu a gofnodwyd yn siaradwyr dwyieithog yr oedd tri yn ofaint, un yn olchwr yn y gwaith tun , un yn deiliwr a'r llall sef William Jenkins o Lanelli yn yrrwr peiriant. Ni chyflogwyd unrhyw ferched ym meysydd

mwyngloddio, adeiladu nac ychwaeth drafnidiaeth. Serch hynny, cyflogid merched ym mhob un o'r dosbarthiadau diwydiannol eraill a gofnodir yn Nhabl 10. Gweithiai 29 o ferched ym maes cynhyrchu a roeddynt i gyd yn siarad Cymraeg. Yn yr un modd â'r ystadegau a gyflwynwyd am y dynion, yr oedd y mwyafrif yn siaradwyr uniaith Gymraeg, sef 82.8 y cant, gyda phump yn ddwyieithog, (17.2 y cant) (ni chofnodwyd yr un siaradwr uniaith Saesneg). Gwniadwagedd oedd y pum siaradwr dwyieithog gyda Mary Maria Whitten o sir Forgannwg yn brentis, mae'n debyg, i'w mam, Maggie a hanai o Frycheiniog.

Cyflogid y nifer fwyaf o ferched sef 101, (40.4 y cant o gyfanswm y merched cyflogedig) ym maes gwasanaethau cartref-yr unig sector lle y cyflogid mwy o ferched na dynion. Eto yr oedd y mwyafrif helaeth, sef 87.1 y cant yn siaradwyr uniaith Gymraeg. Dim ond deuddeg o ferched (11.9 y cant) a gofnodwyd fel siaradwyr dwyieithog ac un yn unig oedd yn uniaith Saesneg, sef Ellen Edwards, golchwraig o swydd Gaint. Yr oedd unarddeg o'r siaradwyr dwyieithog yn hanu o sir Gaerfyrddin gyda Mary H. Herbert yn enedigol o Genarth, sir Aberteifi. Er mai dim ond saith o weithwyr gwrywaidd a gyflogid ym maes gwasanaethau cartref ym mhlwyf Llan-non yn 1891, mae'n arwyddocaol mai dyma'r unig ddsbarth ble y gwelir canran y siaradwyr uniaith Saesneg yn uwch na'r gweddill. Cofnodwyd tri siaradwr uniaith Saesneg o'i gymharu â dau siaradwr dwyieithog a dau siaradwr uniaith Cymraeg. O'r tri siaradwr uniaith Saesneg yr oedd dau yn weision a'r llall yn arddwr. Cyfeiriwyd eisoes at Alfred Jones, gwas a breswyliai yn Ficerdy Llan-non a'r garddwr, Alfred Edwards, tra cofnodwyd Peter Maclean, brodor o Loegr, yn was yn 'Pendery Well', sef cartref y ffermwr David Owens. O Lanedi yr hanai David Owens ac ar yr aelwyd hefyd oedd ei wraig a'i blant ac yr oeddent oll yn siaradwyr dwyieithog ond Cymraeg yn unig a siaradai'r forwyn, Sarah Bowen o Lan-non. Unwaith eto mae'n rhaid amau dilysrwydd y gosodiadau ieithyddol oherwydd mae'n anhebygol iawn y byddai gwas a morwyn ar yr un aelwyd yn methu cyfathrebu â'i gilydd.

Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith mai cymuned amaethyddol yn bennaf oedd yr ardal dan sylw yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er bod newidiadau amlwg wedi effeithio ar gyfansoddiad y gweithlu lleol erbyn diwedd y ganrif yr oedd nifer sylweddol o drigolion yr ardal yn parhau i weithio yn y sector amaethyddol. Yn wir yr oedd 284 o ddynion a merched yn gysylltiedig â'r diwydiant amaeth, sef 32.1 y cant o gyfanswm y cyflogedig ym mhlwyf Llan-non yn 1891. Nid yw'n syndod bod 85.8 y cant yn siaradwyr uniaith Gymraeg, 11.0 y cant yn ddwyieithog a 3.2 y cant yn uniaith Saesneg. Cofnodwyd deuddeg ar hugain o ffermwyr ym mhlwyf Llan-non yn y *Kelly's Directory of Monmouthshire and South Wales 1895*. Mae nifer sy'n ymddangos yn y rhestr hon hefyd yn ystadegau'r plwyf am Gyfrifiad 1891 gan gynnwys Mary Jane Hopkins, Goetrewen; John Richards, Gelliwernen; William Thomas, Cildderwfawr a Sarah Thomas, Tremythyn. Yr oedd pob un o'r chwech a gofnodwyd yn siaradwyr uniaith Saesneg yn weision fferm a hanai o Loegr, pump ohonynt o Lundain ac un o swydd Amwythig. Mae'n debygol iddynt gael eu hanfon i'r ardal o ysgolion diwydiannol yn Lloegr a cheir cyfeiriadau cyson atynt yn yr atebion i holiadur yn ymwneud â gwasanaethau dwyieithog a anfonwyd i bob plwyf yn esgobaeth Tyddewi yn 1908 (Jones 1998 : 462-464). Yr oedd presenoldeb y plant hyn yn aml yn symbylu newid ieithyddol ym mhatrwm y gwasanaethau. Wrth edrych yn fanylach ar gyfansoddiad ieithyddol y chwe aelwyd berthnasol, mae'n drawiadol mai yn achos pedwar cartref, y gweision uniaith Saesneg yw'r unig rai sy'n medru siarad Saesneg. Tra bod William Hebbel o Millwall yn Llundain yn siaradwr uniaith Saesneg, cofnodwyd y saith arall a breswyliai ar fferm Rhydysarnau, ger pentref Cwmgwili, yn rhai uniaith Gymraeg. Yn yr un modd, yn ôl yr ystadegau a gyflwynir, nid oedd William Edward Cole o Lundain yn gallu cyfathrebu â'r deg arall a drigai yn Ystlysycoeduchaf. Ar fferm Pantgwyn, Cross Hands, yr oedd Alfred Jones o Lundain yn gallu cyfathrebu â Thomas Lewis Bowen, y penteulu a oedd yn siaradwr dwyieithog ond cofnodwyd gwraig Thomas a'i ferch yn siaradwyr uniaith Gymraeg. Ar y llaw arall yr oedd pawb (sef y deg arall) yn fferm Gelliwernen, lle y gweithiai Frank Hennessy o Lundain, yn siaradwyr

dwyeithog.

Gweithiai'r ddau was fferm dwyeithog, sef Evan Thomas o Lanybydder a Daniel Thomas o Lanelli ar yr un fferm, sef Marchoglwyn, ger Pontyberem ac yr oedd y pump arall ar yr aelwyd hefyd yn siarad Cymraeg a Saesneg. Yr oedd deg o'r 21 o siaradwyr dwyeithog yn y sector amaethyddol yn ffermwyr a saith yn berthnasau a gynorthwyai ar y fferm. Er bod James Gibby o Ascot, sir Benfro yn siaradwr dwyeithog dim ond y Gymraeg y siaradai ei wraig a'i fab. Yn yr un modd cofnodwyd William Davies a'i wraig yn siaradwyr dwyeithog ond Cymraeg yn unig a siaradai eu pedwar plentyn, y gwas a'r forwyn a drigai yn y Groes-faen. Ymhlith y perthnasau a gynorthwyai yr oedd Jane Rees a'i chwaer Hannah yn siaradwyr dwyeithog ond Cymraes uniaith oedd eu mam, Margaret. Yr oedd y ddau goedwigwr a gofnodwyd yn y sampl yn siaradwyr dwyeithog. Mae'n ddiddorol bod y ddau yn byw gerllaw ei gilydd; William Morris yn *Keeper's Lodge* a David Rolfe yn Graigfach yn ardal pentref Llan-non. Hanai'r ddau o sir Gaerfyrddin ond yr oedd tad David Rolfe, Robert, yn gipar o swydd Suffolk. Arwydd o ddylanwad cynyddol y diwydiant glo yn yr ardal oedd bod pedwar ar ddeg o feibion fferm wedi eu denu i weithio yn y lofa. Mae'n drawiadol bod pum pâr o frodyr ymhlith y rhif yma gan gynnwys David a Thomas Hughes, meibion Morgan Hughes, fferm Ty-isha, a William a Thomas Evans, meibion Josiah Evans, fferm Ffynnonhosfar.

Yr oedd nifer sylweddol o'r merched, sef 63.8 y cant o gyfanswm y merched a weithiai yn y diwydiant amaethyddol, yn perthyn i'r ffermwyr â'u cyflogai, gyda 29.8 y cant yn ffermwyr a 6.4 y cant yn weision fferm. Nid oedd siaradwyr uniaith Saesneg ymhlith y merched a weithiai yn y diwydiant amaethyddol tra bod 10.6 y cant yn ddwyeithog a 89.4 yn siaradwyr uniaith Gymraeg. Ymhlith y siaradwyr dwyeithog oedd Ann Williams, ffermwraig o blwyf Llan-non ynghyd â'i merch, Ann. Yr oedd y ddwy yn nodweddiadol o fwyafrif y gweithwyr amaethyddol, sef eu bod yn enedigol o'r ardal. Yn wir o'r 284 o ddynion a merched a weithiai yn y diwydiant hwn dim ond ugain sef 7.0 y cant a aned y tu hwnt i ffiniau sir Gaerfyrddin, wyth yn Llundain,

chwech ym Morgannwg, tri yn sir Aberteifi ac un yr un yn sir Benfro, swydd Amwythig ac yng Nghymru (ni nodwyd sir).

Nid yw'n syndod bod nifer sylweddol o'r rai a gyflogid yn y gwasanaethau cyhoeddus a'r sector broffesiynol yn hyddysg yn yr iaith Saesneg. Yr oedd wyth o'r un ar ddeg o ddynion a gofnodwyd yn siaradwyr dwyieithog yn gysylltiedig â chrefydd. Cyfeiriwyd eisoes at gyfansoddiad cartref William Jones, Ficer Llan-non, ac yr oedd Watkyn Walters Price, y curad (1889-91), yn hanu o Ystradgynlais, sir Frycheiniog. Cofnodwyd dau weinidog gyda'r Bedyddwyr yn siaradwyr dwyieithog sef David Morgan o sir Benfro a Evan Price o Lanfair-ar-y-bryn, sir Gaerfyrddin, ynghyd â phedwar o weinidogion yr Annibynwyr. Yn ddiddorol, yr oedd dau o weinidogion yr Annibynwyr sef David Bowen a Rees Rees o'r Betws yn sir Gaerfyrddin yn ymwelwyr ar aelwyd Garreg Holtt. Hanai un o'r Gweinidogion Annibynnol eraill o sir Gaerfyrddin, sef Evan Henry Davies o Lan-non tra yr oedd William Ed. Evans o Gwnws yng Ngheredigion. Pedwar yn unig, sef 25.0 y cant a gofnodwyd fel siaradwyr uniaith Gymraeg ac yr oeddynt i gyd yn weinidogion. Yr oedd John Griffiths o Feidrim a William Jones o Lan-non yn weinidogion gyda'r Methodistiaid Calfinaidd tra gweinidogion gyda'r Annibynwyr oedd Thomas Powell o Landybïe a James Henry Davies o Lanelli. William Evans, athro ysgol o Arberth, sir Benfro yw'r unig un yn y sector gwasanaethau cyhoeddus a phroffesiynol a gofnodir yn siaradwr uniaith Saesneg.

Yr oedd tri o'r gweinidogion yn gymdogion ar Heol y *Meadows*, Cross Hands. Trigai Thomas Powell, gweinidog gyda'r Annibynwyr, yn y *Meadows* gyda'i frawd, y ffermwr David Powell. 'Plas Newydd' oedd cartref David Morgan. 'Mathryfardd', gweinidog cyntaf Tabor, eglwys y Bedyddwyr, Cross Hands. Fe'i ganed ger pentref Mathry, sir Benfro, ac enillodd yr enw 'Spurgeon bach' ar sail ei huodledd fel pregethwr pan yn fachgen ifanc. Gweithiodd am gyfnod yn y lofa yn Aberdâr cyn dilyn cwrs yng ngholeg Hwlfordd, ac yna bu'n genhadwr yn Waterford, yn Iwerddon, cyn iddo ddod i Cross Hands pan gorfforwyd eglwys Tabor yn 1871. Bu hefyd yn weinidog eglwys Carmel er 1876, ac yna am gyfnod yn Bethel, Y

Tymbl (Pryce 1972 : 27-30). Yr oedd John Griffiths, gweinidog Pentwyn, eglwys y Methodistiaid Calфинаidd ger Cross Hands yn byw ym Mhen-y-banc gyda'i wraig, ei ddwy ferch a'i fab. Ganed ef ym Meidrim, a symudodd ef a'i deulu i fyw i Lansteffan erbyn 1911 (Morris 1911 : 97). Dymchwelwyd Plas Newydd a Phen-y-banc erbyn heddiw fel rhan o'r paratoadau ar gyfer sefydlu Parc Busnes Cross Hands. Pregethwr gyda'r Methodistiaid Calфинаidd wedi ymddeol oedd Edward Jones a drigai yn Llwynhelig gyda'i ferch Elizabeth. Cysylltwyd ef hefyd gyda Phentwyn, a disgrifiwyd ef fel 'gŵr tawel, llednais a duwiol iawn' (Morris 1911 : 96). Trigai Evan Henry Davies, ei wraig Louisa a'i blant Eunice, Howard ac Elen yn *Flower Hill*, Y Tymbl, ac ef oedd gweinidog Bethania, Tymbl Uchaf, a'r Tabernacl, Cefneithin. Cyflwynwyd anerchiad iddo adeg ei ymddeoliad yn 1912 a dywedwyd ynddo fod 'cyfeillgarwch, gwyleidd-dra, manylrwydd, diwydrwydd, a sefydlogrwydd yn elfennau amlwg yn eich cymeriad' (George 1977 : 51).

Cyfeiriwyd eisoes at aelwyd Nant-glas, cartref Chalmers Williams, ymwelydd a myfyriwr meddygol, tra yr oedd David Jones, swyddog etholiadol o Lansteffan a'i fab, Thomas Maddoc, cleric yn y Swyddfa'r Bost o Lan-non yn preswyllo yn y *Shop* newydd. Nid oes amheuaeth na fyddai gwybodaeth o'r iaith Saesneg yn angenrheidiol ar gyfer swyddi o'r math yma gan eu bod yn ymdrin â thrwch y boblogaeth gan gynnwys y lleiafrif uniaith Saesneg. Mae'n drawiadol bod Mary, chwaer Thomas Maddoc, a oedd yn ddisgybl-athrawes ac yn ddwyieithog, yn byw ar yr un aelwyd. Yr oedd Mary yn un o bedair o ferched dwyieithog a gyflogid ym maes gwasanaethau cyhoeddus a phroffesiynol tra bod y dair arall yn brifathrawesau. Hanai pob un o'r prifathrawesau o sir Gaerfyrddin heblaw am Maud P. Thomas, a gofnodwyd fel ymwelydd o Risca, sir Fynwy. Dim ond Mary Griffiths, byd-wraig o Lanelli ac Emiah Maddox, post feistres o blwyf Llanarthne a oedd yn uniaith Gymraeg ac yr oedd y ddwy yn eu saithdegau.

Yn ôl Cyfrifiad 1891, yr oedd 42 o fasnachwyr ym mhlwyf Llan-non. Chwech yn unig o'r ugain o fasnachwyr oedd yn ferched a siaradai Saesneg a Chymraeg ac nid oedd yna siaradwyr uniaith Saesneg. O'r chwech yr oedd

pump yn gysylltiedig â'r fasnach fwyd ac yr oedd Anne Jenkins yn cadw tŷ llety. Groseriaid oedd Emiah Jones o Lan-non ac Emily Young o Saint George, ger Bryste, yr oedd Louisa Richards yn werthwraig llysiâu a ffrwythau a aned yn Nhalacharn tra yr oedd Edith ac Emily Walters, y ddau o Gydweli ac yn byw ym Maesderwen, yn brentisiaid. Yn byw hefyd ar aelwyd Maesderwen oedd y penteulu, Thomas Greville, groser a dilledydd o Langyndeyrn ac yr oedd yn un o un ar ddeg o ddynion dwyieithog a fasnachai yn y plwyf. Unwaith eto, nid oedd yna fasnachwyr uniaith Saesneg ac yr oedd hefyd unarddeg siaradwr uniaith Gymraeg.

O'r siaradwyr dwyieithog yr oedd pedwar yn ymwneud â'r fasnach ddillad, chwech yn gysylltiedig â'r diwydiant bwyd ac un yn dafarnwr. Cyfeiriwyd eisoes at Emily Young, a drigai yn *Melbourne House* ar Heol Caerfyrddin ym mhentref Cross Hands, ac yr oedd ei gŵr, William Henry o Portbury yn Lloegr hefyd yn groser a siaradai Gymraeg a Saesneg. Yn ogystal yr oedd yn eu cartref dri cynorthwy-ydd dwyieithog sef eu nai, Howard, a dau arall o blwyfi cyfagos Llandybïe a Llanarthne. Yn wir, hanai pob un o'r masnachwyr dwyieithog o sir Gaerfyrddin heblaw am William Henry Young (uchod). Tafarnwr yn y *Red Lion Inn*, Llan-non a siaradai Gymraeg a Saesneg oedd Thomas Thomas, yn wreiddiol o blwyf Llan-non. Yr oedd y *Red Lion Inn* yn un o bum tafarn a gofnodir yn y sampl. Tafarnwraig uniaith Gymraeg yn y *Greyhound Inn* yn yr un pentref oedd Mary Anne Daniel ac yn yr un modd siaradwyr uniaith Gymraeg a gadwai'r ddwy dafarn arall ym mhlwyf Llan-non yn 1891. Thomas Jones o Lanelli oedd y tafarnwr yn y *Tumble Inn* tra Thomas Jenkins, yn enedigol o'r plwyf a gadwai tafarn y *Cross Hands*. Yn ddi-os y dafarn oedd y ganolfan hynaf a'r unig fan cyhoeddus i gael pryd o fwyd ac i aros dros nos. Yn ystod ei daith yn 1793 nododd Iolo Morganwg yn ei ddyddiadur, 'Llannon. Cefais yma westy tan gamp'. Mae'n debyg bod y *Red Lion Inn* mewn bodolaeth yr adeg hynny ynghyd â rhai thafarnau eraill. Daeth y dafarn yn fwy amlwg gyda chynnydd y Cymdeithasau Cyfeillgar (Gibbard 1984a : 85).

Amlygodd tystiolaeth Cyfrifiad 1891 rhai o'r rwydweithiau hynny fyddai'n cynnal y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth am ran helaeth o'r ugeinfed ganrif yn arbennig y cartref, y lofa ynghyd â sefydliadau crefyddol. Yn y penodau dilynol ystyrir dylanwad y rhain ynghyd â pheuoedd eraill yn wyneb newidiadau sosio-ieithyddol. Profodd plwyf Llan-non yn yr un modd â nifer o gymunedau eraill yn Ne Cymru drawsnewidiad syfrdanol yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Datblygodd yr ardal a oedd yn amaethyddol i raddau helaeth cyn 1850 i fod yn ganolfan ddiwydiannol a gynigiai gyflogaeth i'r gweithlu lleol ynghyd â nifer y tu hwnt i ffiniau'r plwyf. Dengys tystiolaeth Cyfrifiad 1891 na effeithiodd y newidiadau hyn yn ormodol ar Gymreictod yr ardal. Mae'n wir bod rhai a gyflogwyd yn y plwyf yn gallu siarad Saesneg ond nifer cymharol fechan ydynt. Yn wir dim ond 29 o unigolion (yn cynnwys dynion a merched) o gyfanswm y cyflogedig a gofnodwyd yn siaradwyr uniaith Saesneg. Ymhellach, yr oedd y mwyafrif o'r rhai a gyflogwyd a siaradai Saesneg hefyd yn siarad Cymraeg sef 132. Er y dysgid Saesneg yn yr ysgolion ychydig iawn o blant a gofnodwyd yn siaradwyr Saesneg. Bu cryn fewnfudo i'r plwyf o blwyfi cyfagos yn sir Gaerfyrddin ynghyd ag ardaloedd ychydig ymhellach i'r gorllewin, a sicrhodd hyn fod plwyf Llan-non yn yr un modd â gweddill Cwm Gwendraeth yn parhau yn un o gadarnleoedd y Gymraeg.

Tabl 3.10: Iaith a leferid yn ôl galwedigaeth
(10 mlwydd oed a throsodd)

Dosbarth diwydiannol	Iaith a leferid				Merched			
	Dynion Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfan.	Cymraeg	Y Ddwy	Saesneg	Cyfan.
AMAETHYDDIAETH								
Ffermio								
Beili	1	--	--	1				
Ffermwyr	86	10	--	96	27	1	--	28
Perthnasau'n cynorthwyo	46	7	--	53	52	8	--	60
Gweithwyr amaethyddol	9	--	--	9	--	--	--	--
Gweision fferm	20	2	6	28	5	1	--	6
Coedwigwyr	--	2	--	2				
Magu								
Diasbyddwr	1	--	--	1				
Cyfanswm	163	21	6	190	84	10	--	94
%	85.8	11.0	3.2	100.0	89.4	10.6	--	100.0
MWYNGLODDIO								
Glo								
Peiriannwr	--							
Asiant	--							
Clercod	3							
Goruchwylwyr/ffeiamryn	4							
Atalbwsywyr	2							
Glowyr/halwyr glo	218							
Gweithwyr peiriannau	9							
Crefftwyr	1							
Labwyr	20							
Gweithwyr pen y pwll/ar yr wyneb	6							
Erail	4							
Mwyngloddwyr eraill								
Giard rheilffordd	1							
Cyfanswm	268	38	17	323				
%	82.9	11.8	5.3	100.0				
ADEILADU								
Rheoli								
Syrffwr	--	1	--	1				
Gweithwyr								
Seiri meini	6							
Seiri	12							
Prentisiaid	2							
Ffyrdd, rheilffyrdd								
Gweithwyr ffordd	1							
Gweithwyr Rheilffyrdd	3							
Cyfanswm	24	5	--	29				
%	82.8	17.2	--	100.0				
CYNHYRCHU								
Hacarn a dur								
Crefftwyr	9	3	--	12				
Tunplad. Sinc, copr, plwm. ayb.								
Crefftwyr	1	--	--	1				
Gweithwyr di-grefft-Labwyr	--	1	--	1	1	--	--	1
Cerbydau a harnesiau								
Crefftwr	--	--	1	1				

Gwlân									
Crefftwr	1	--	--	1					
Cotwm, llin, les, ayb.									
Crefftwr	1	--	--	1					
Dillad									
Crefftwyr	9	1	--	10	23	4	--	27	
Prentis					--	1	--	1	
Bwyd, diod, tybaco									
Crefftwr	1								
Amhenodol									
Gyrwyr injan/ffitwyr peiriannau	4								
Cyfanswm	26	6	1	33	24	5	--	29	
%	78.8	18.2	3.0	100.0	82.8	17.2	--	100.0	
CLUDIANT									
Gorsaf-feistr/swyddog	1	--	--	1					
Cyfanswm	1	--	--	1					
%	100.0	--	--	100.0					
MASNACHU									
Dillad									
Dilledyddion	--	3	--	3					
Cynorthwyr	--	1	--	1					
Bwyd									
Cigyddion	3	--	--	3					
Groseriaid	3	2	--	5	5	2	--	7	
Gwerthwraig llysiâu a ffrwythau					--	1	--	1	
Cynorthwyr	2	4	--	6	2	2	--	4	
Tybaco, diod a llety									
Tyfarwyr	2	1	--	3	1	--	--	4	
Cadw tai llety					6	1	--	7	
Cynorthwyr tafarn	1	--	--	1					
Cyfanswm	11	11	--	22	14	6	--	20	
%	50.0	50.0	--	100.0	70.0	30.0	--	100.0	
GWASANAETHAU CYHOEDDUS A PHROFFESIYNOL									
Gweinyddiaeth ganolog									
Swyddog Swyddfa'r Post					1	--	--	1	
Clerc Swyddfa'r Post	--	1	--	1					
Gweinyddiaeth leol									
Swyddog etholiadol	--	1	--	1					
Meddygaeth									
Myfyriwr meddygol	--	1	--	1					
Bydwraig					1	--	--	1	
Addysg									
Prifathrawon, athrawon ysgol	--	--	1	1	--	3	--	3	
Disgybl-athrawes					--	1	--	1	
Crefydd									
Rheithor, curad	--	2	--	2					
Gweinidogion y MC	2	--	--	2					
Gweinidogion yr Annibynwyr	2	4	--	6					
Gweinidogion y Bedyddwyr	--	2	--	2					
Cyfanswm	4	11	1	16	2	4	--	6	
%	25.0	68.8	6.2	100.0	33.3	66.7	--	100.0	
GWASANAETHAU CARTREF									

Yn y tŷ									
Gweision/morynion	1	--	2	3	80	12	--	92	
Y tu allan									
Garddwyr	--	1	1	2					
Cipar	--	1	--	1					
Gwasanaeth ychwanegol									
Golchwragedd					8	--	1	9	
Gofalwr	1	--	--	1					
Cyfanswm	2	2	3	7	88	12	1	101	
%	28.6	28.6	42.8	100.0	33.3	66.7	--	100.0	
ERAILL									
Labrwyf Cyffredinol	14	1	--	15					
Cyfanswm	14	1	--	15					
%	93.3	6.7	--	100.0					
CYFANSWM Y CYFLOGEDIG									
	513	95	28	636	212	37	1	250	
%	80.7	14.9	4.4	100.0	84.8	14.8	0.4	100.0	
GWEDDILL Y BOBLOGAETH									
	35	4	1	40	328	53	17	398	
%	87.5	10	2.5	100.0	82.4	13.3	4.3	100.0	
DISGYBLION YSGOL									
	77	14	1	92	75	12	2	89	
%	83.7	15.2	1.1	100.0	84.3	13.5	2.2	100.0	
CYFANSWM Y BOBLOGAETH 10 OED +	625	113	30	768	615	102	20	737	
%	81.4	14.7	3.9	100.0	83.4	13.9	2.7	100.0	

PENNOD 4 : YR IAITH GYMRAEG YNG NGHWM GWENDRAETH 1891-1991

Gwelwyd ychydig o newid ieithyddol yng Nghwm Gwendraeth erbyn 1901. Trafodir yn y bennod hon y dystiolaeth a gyflwynir gan Gyfrifiad 1901 a rhyddhawyd yn 2001 ar sail y rheol gan mlynedd. Yna edrychir ar ddatblygiadau yn ystod y cyfnod rhwng 1901 a 1991 pan sefydlwyd Menter Cwm Gwendraeth, gan roddi sylw arbennig i gynheiliaid yr iaith Gymraeg. Yn eu plith y mae'r diwydiant glo a roddodd gynhaliaeth yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol i fwyafrif helaeth y trigolion lleol, a'r sefydliadau crefyddol, diwylliannol, adloniadol ac addysgiadol. Y mae'r prif ffynonellau yn cynnwys Cyfrifiad 1901 a chyfweliadau gyda nifer o unigolion. Ym Mhennod 3 trafodwyd dulliau casglu gwybodaeth ar sail tystiolaeth Cyfrifiad 1891. Mae nifer o'r sylwadau hynny hefyd yn berthnasol ar gyfer ystyried tystiolaeth Cyfrifiad 1901. Yn ogystal, yn y bennod hon ceir trafodaeth ar dyndra ieithyddol/ethnig a ddaeth i'r wyneb adeg mewnlifiad nifer o lowyr estron a symudodd o Loegr a'r Alban i weithio yn yr ardal. Arweiniodd hyn at densiynau rhyngddynt â'r trigolion lleol yn sgîl cystadleuaeth am y safleoedd gweithio gorau yn y glofeydd. Erbyn heddiw, mae disgynyddion nifer o'r mewnfudwyr hyn yn parhau i fyw yn yr ardal ac yn siaradwyr Cymraeg. Gwelwyd yr un duedd hefyd gyda theuluoedd rhai o'r glowyr a ddaeth o Durham i Gwm Gwendraeth yng nghanol yr ugeinfed ganrif, er i'w dyfodiaid hwy hefyd achosi anawsterau ieithyddol yn y tymor byr.

4.1 : Tystiolaeth Cyfrifiad 1901

Yn ystod y ddegawd rhwng cynnal Cyfrifiadau 1891 a 1901 gwelwyd ym mhentref Y Tymbl ddigwyddiadau cynhyrfus a barhaodd am naw mis ac a adwaenir fel Terfysg Y Tymbl (Gibbard 1984b: 77-85, Davies 1996: 139-143). Cyfeiriwyd ym Mhennod 3 at ddatblygiad pentref y Tymbl ac at agor Glofa'r Mynydd Mawr, y *Great Mountain Colliery* yn Y Tymbl gan John Waddell a'i feibion yn 1887, a dangosir

lleoliad y lofa ar **Fap 2**. Datblygodd tensiynau yn y pentref, gan gynnwys rhai ieithyddol rhwng y gwŷr lleol a'r mewnfudwyr, gyda rhai o'r glowyr a ddenwyd o ogledd Lloegr a'r Alban i lofa'r *Great Mountain* yn cael gwell swyddi ar y sail eu bod yn grefftwyr. Dywedodd Noel Gibbard:

The situation was made more complicated by the fact that some of the newcomers were skilled workers, and therefore would have better jobs than the locals. In such a situation it was possible for one match to create a great explosion and this is what happened in 1893.

(Gibbard 1984b : 7)

Dirywiodd y berthynas rhwng y glowyr â'r perchnogion yn gynnar yn 1893, ac yn dilyn awgrym i leihau cyflogau, a newid dulliau gweithio traddodiadol, cychwynnodd y streic ar y Sadwrn cyntaf ym mis Mawrth 1893 gyda'r glowyr yn gadael eu gwaith a'r heddlu yn cael eu galw o Lanelli gan Mr. Beith, rheolwr y *Great Mountain*. Ceisiodd William Abraham (Mabon), yr Aelod Seneddol dros y Rhondda, a llywydd cyntaf Ffederasiwn Glowyr De Cymru, gynorthwyo'r streicwyr trwy drefnu cyfarfod gyda Mr Beith ar 22 Mawrth 1893. Er i'r glowyr fynegi eu hawydd i ganolbwyntio ar y gostyngiad mewn cyflogau ac anhegwch yr amodau gwaith, cyfeiriodd Mr Beith at y gwelliannau a gyflwynwyd yn ddiweddar. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Y Tymbl ar 8 Ebrill a manteisiodd rhai ar y cyfle i greu twrw drwy daflu cerrig at dai, yn enwedig y rhai hynny lle trigai'r 'cynffonwyr'. Mae'n arwyddocaol mai gwŷr o'r tu allan i'r ardal oedd Mr Beith. Ymosododd Cymry ar wŷr â chyfenwau anghyfarwydd sy'n awgrymu mai estroniaid oeddynt. Felly, ceir enghreifftiau o ddyn o'r enw Davies yn ymosod ar Twigg ac un arall gyda'r enw Rees ar McGowan yn y Tumble Hotel. Cyfeiria Noel Gibbard at yr adroddiad yn y *Llanelly Mercury*:

In one incident it was pointed out that it was a clash between the Welsh and English.

(Gibbard 1984b : 80; *Llanelly Mercury*, 6 Gorffennaf 1893)

Cynhaliwyd cyfarfod ar 1 Mai ar 'Gae Pound', Cross Hands (sef Parc Cyhoeddus y pentref heddiw) a chyfeiriwyd eisoes ym Mhennod 3 at y Parchg. William Jones, ficer Plwyf Llan-non yn annerch y dorf yn Gymraeg. Gorymdeithiodd y tair mil a oedd yn bresennol drwy Cross Hands a Tymbl i'r *Gwendraeth Arms* yng Nghwm-mawr. Er bod peth llonyddwch yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst daeth mewnfudwyr, gan gynnwys rhai o ogledd Lloegr, i'r Tymbl. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd rhai o du allan i'r ardal waith yn y glofeydd lleol, ac wrth ystyried bod cyfanswm y gweithlu tua chwedeg i saithdeg, ac mai prin oedd y Cymry ymhlith y nifer hwn, gellir deall anfodlonrwydd y brodorion. Yn ystod y streic gwrthwynebwyd y mewnlifiad hwn yn chwyrn gan weithwyr lleol. Yn wir credai Mabon (a oedd yn erbyn trais) mai dyma'r brif broblem yn hytrach nag anghydweld ariannol. Yr oedd y gweithwyr lleol nid yn unig yn wynebu colli eu gwaith ond hefyd eu cartrefi oherwydd fod nifer yn byw yn nhai y cwmnïau. Ar nos Sadwrn 1 Gorffennaf, taflwyd cerrig at weithwyr o Loegr gan grŵp o lowyr lleol, a chosbwyd tri ohonynt am droseddau'r drefn gyhoeddus (*Llanelly Mercury*, 6 Gorffennaf, 1893). Ym mis Medi ymosododd tyrfa ar y *Lodging House* yn Y Tymbl. Bwriadwyd codi'r llety hwn flwyddyn ynghynt oherwydd yr angen am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer y glowyr, yn enwedig y rhai a ddenwyd i'r lofa o ogledd Lloegr a'r Alban, ac fe'i cwblhawyd erbyn 1893. Ymosodwyd hefyd ar Fryngwili, Cross Hands, cartref Mr Beith, ac anafwyd Mrs. Beith a'i morwyn, a gwnaed difrod i'r dodrefn. Anfonwyd yr heddlu yno o'r Tymbl ac arestiwyd tri pherson.

Mae'n amlwg bod yr amodau iechyd yn ddifrifol wael ym mhentref Y Tymbl, a oedd wedi tyfu yn eithriadol o gyflym yn sgîl datblygiad sydyn y lofa. Ceir disgrifiadau manwl a lliwgar o'r pentref yn y *Llanelly Mercury* ym misoedd Medi a Hydref 1893 :

The scene at the pit's mouth was a striking contrast to that of the deserted street. In the colliery yard all was animation and unrest. A detachment of dragoons were busily engaged in lying down an encampment for their accomodation . . . The spectacle was warlike and imposing to a degree . . . The scene in the Tumble Inn was exceedingly animated.

(*Llanelly Mercury* 14 Medi 1893)

This gloomy Heaven-forsaken valley...this Hell on earth'.

(*Llanelly Mercury* 26 Hydref 1893)

Yn y diwedd cafwyd cytundeb i'r anghydfod ar Ddydd Calan 1894 ac erbyn hynny yr oedd nifer o'r Saeson a'r Albanwyr eisoes wedi gadael y pentref. Serch hynny, yr oedd rhai ohonynt yn dal i fyw yn Y Tymbl adeg Cyfrifiad 1901, gan gynnwys y '*Colliery weigher*', Robert Robinson, 45 oed, a drigai yn 84 *Tumble Row* gyda'i ddau fab, Alexander 16 oed, a Matthew, 14 oed, a oedd yn yrrwyr peiriant yn y lofa; a'i bedair ferch Bessie, Maggie, Mary a Jane. Cofnodir yn y cyfrifiad i'r tad a'r ferch hynaf, Bessie, 17 oed, gael eu geni yn Iwerddon, y ddau fab yn yr Alban, a'r merched ieuengaf ym mhlwyf Llan-non. Preswyliai James Walker, rheolwr ar wyneb y lofa, 61 oed, yn 103 *Tumble Row* gyda'i wraig Jane, 57 oed; a'u mab James, 25 oed a oedd yn glerc i fasnachwr glo; y tri ohonynt yn enedigol o'r Alban. Y *Lower House*, hefyd yn Y Tymbl, oedd cartref Peter Guthrie, ariannwr glofa, 33 oed, a'i wraig Mary, 32 oed. Yr oedd ef yn dod o'r Alban a hithau o Halifax, swydd Efrog. Y mae cysylltiadau y tri theulu hwn gyda'r Alban yn ddiddorol gan ystyried y gwrthwynebiad i gwmni Waddell, a'r cefndir i Derfysg Y Tymbl. Rhannwyd yr hyn a elwid yng Nghyfrifiad 1901 yn '*Model*

Lodging House yn Y Tymbl yn dair uned gyda Hannah Evans, gwraig weddw, ei mab a'i wŷr yn un ohonynt; Thomas Davies, ei wraig a'i deulu a dau letywr yn yr ail; a John Roberts, ei wraig a'i deulu yn y trydydd.

Y mae astudiaeth fanwl o'r data ar gyfer y rhan honno o bentref Cross Hands, sef Heol Caerfyrddin, lle dosbarthwyd yr holiaduron yn ystod 1997, ac a drafodir ym Mhenodau 6 a 7, yn tanlinellu cryfder yr iaith Gymraeg yn 1891, ac eto yn 1901. Yn 1891, cofnodwyd 20 tŷ yn yr ardal rhwng tafarn Cross Hands a Garreg Holtt (ond heb gynnwys y ddau leoliad) gyda 116 o drigolion. Ni chyfrifwyd yr iaith a siaradwyd gan y naw plentyn bach dan ddwy flwydd oed, ond am y gweddill siaradai 101, sef 79.3 y cant y Gymraeg yn unig, 6 y ddwy iaith, sef 5.6 y cant ac nid oedd yno un person a siaradai Saesneg yn unig. Gweithiai 24 o'r 35 gŵr dros 14 oed, sef 68.6 y cant, yn y diwydiant glo. Hanai 74 o'r boblogaeth gyfan o blwyf Llan-non, a 33 o blwyfi cyfagos Llanarthne a Llandybie, ac felly cynrychiola hyn 92.2 y cant o'r gymdogaeth leol; 4 o weddill sir Gaerfyrddin, 3 o weddill Cymru a 2 o Loegr. Erbyn 1901 yr oedd nifer y tai wedi codi i 24, nifer y trigolion i 140, gyda 83.6 y cant o'r boblogaeth yn hanu o blwyfi Llan-non, Llanarthne neu Llandybie, a 34 o'r 43 gŵr dros 14 oed yn gweithio yn y diwydiant glo, sef 79.1 y cant

Yr oedd 131 o'r trigolion dros 2 oed yn Heol Caerfyrddin, a dyma'r rhai a gofnodwyd yn ieithyddol, sef 103 yn siaradwyr Cymraeg yn unig, yn cynrychioli 78.6 y cant; 27 yn ddwyieithog hynny yw 20.6 y cant; ac un person yn siarad Saesneg sef 0.8 y cant. Felly, yr oedd nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ychydig, nifer y siaradwyr dwyieithog wedi cynyddu yn sylweddol, ac un siaradwr Saesneg wedi ymddangos am y tro cyntaf, sef William Davies, glöwr dan ddaear 40 oed, yn enedigol o dref Penfro. Cartrefai ef yn Lletygariad, gyda'i wraig Rachel, 35 oed; tri phlentyn, sef Sarah Letitia, John Edward a Rachel Mary, 10, 5 a 3 oed; a'i dad-yng-nghyfraith John Jones, glöwr a aned ym Merthyr, sir Frycheiniog. Yr oedd aelodau'r teulu hwn i gyd ar wahân i William

Davies yn ddwyieithog. Nodwyd uchod ym Mhennod 3 bod y siaradwyr dwyieithog yn 1891 yn cynnwys y teulu a drigai yn *Melbourne House*, sydd heddiw yn gartref i'r henoed, sef William Henry Young, 49 oed, a oedd yn hanu o Portbury a'i wraig Emily, 53 oed, o Saint George, ger Bristol, ynghyd â'u nai Howard, 18 oed, a aned yn Llanarthne. Disgrifiwyd y rhieni fel groseriaid a'r mab fel groser cynorthwyol. Erbyn 1901 yr oedd preswylwyr *Melbourne House* eto i gyd yn siaradwyr dwyieithog, sef Howard, 28 oed, a ddisgrifiwyd nawr yn groser a dilledydd; ei wraig Annie Letitia; eu mab William Henry, 3 oed; eu merch Doris Emily Ruby, 1 oed; a brawd Annie, sef Griffith Oswald Davies, 13 oed ynghyd â nyrs, Edith Atkins. Ganed y plant ym mhlwyf Llan-non a Annie a Griffith ym mhlwyf Llangadog

Tynnwyd sylw eisoes, yn y drafodaeth ar dystiolaeth Cyfrifiad 1891, at y nifer a ddenwyd o sir Benfro ac o dde-orllewin Lloegr i'r ardal hon oherwydd y datblygiadau diwydiannol, ac yn enwedig y cynnydd yn y diwydiant glo. Y mae'r glowyr a gofnodir yn 1901 yn hanu o sir Benfro ac yn siarad Saesneg yn unig yn cynnwys William Davies, Lletygariad, Heol Caerfyrddin, Cross Hands, a drigai, fel y soniwyd eisoes gyda theulu dwyieithog, ond hefyd John Thomas, glöwr dan ddaear, 36 mlwydd oed yn enedigol o Begelly, sir Benfro. Yr oedd ef yn byw yn Tyucha, gyda'i wraig Margaret, 34 oed, eu merch, Martha Jane, 8 oed, a'u mab William Wendell, 4 oed; y tri olaf wedi eu geni ym mhlwyf Llan-non a'r teulu cyfan yn siaradwyr Saesneg yn unig. Ar y llaw arall cofnodwyd yn 1891 y trigai James Gibby, 68 oed, brodor o Ascot, sir Benfro, a weithiai yn y lofa ar y banc, gyda'i wraig, Ann, 57 oed, yn enedigol o blwyf Llan-non, yn *Whiteland Cottage*, Pontyberem.

Ymhlith y teuluoedd a symudodd i'r ardal o dde-orllewin Lloegr yr oedd rhai megis teuluoedd Pyle a Peel sydd erbyn hyn wedi gosod gwreiddiau dwfn yn yr ardal. Er i Gyfrifiad 1891 gofnodi fod y saer William Piles, 40 oed yn wreiddiol o Wlad yr Haf, yn byw yn Cwmhowell gyda'i wraig Ellen, eu mab Tom Ockley, 12 oed a'u merch

Elizabeth Ann, 8 oed, a'u bod i gyd yn siaradwyr dwyieithog. Yr un oedd sefyllfa ieithyddol y plant yn 1901, ond cofnodwyd y tad yn siaradwr Saesneg yn unig ac erbyn hyn ymddengys iddo ail-briodi â'i ail wraig Elizabeth, 46 oed, yn siaradwraig Cymraeg yn unig. Cofnodwyd bod William nawr yn '*stoker at a colliery*' a dyma hefyd oedd gwaith ei fab Tom a'r lletywr John Peel, 19 oed. Mae'n debyg fod ef yn fab i Edward Peel, brodor arall o Wlad yr Haf a drigai yn 1891 ym Mhenrhiw, Heol y *Meadows*, Cross Hands fel y soniwyd eisoes ym Mhennod 3, gyda'i wraig Susannah a'u tri mab a thair merch. Cofnodir i Edward siarad Saesneg yn unig â gweddill y teulu Cymraeg yn unig. Erbyn 1901 yr oedd yn parhau i fyw ym Mhenrhiw, ond nawr gyda'i ddwy ferch Elizabeth, 21 oed a Hannah, 10 oed. Yr oedd y tad o hyd yn siaradwr Saesneg a'r ddwy ferch yn ddwyieithog.

Tynnwyd sylw ym Mhennod 3 at y sefyllfa ieithyddol ddiddorol a fodolai yn 8 *Furnace Terrace*, Pontyberem. Erbyn 1901 eto yr unig un a siaradai Saesneg yn unig oedd Mary Mann, gweddw 82 oed yn enedigol o Fforest y Ddena, swydd Gaerloyw. Yr oedd y gweddill o'r preswylwyr niferus yn siaradwyr dwyieithog, sef ei merch-yng-nghyfraith, y penteulu Mary Louisa Cook, gwraig weddw a hanai o Burslem, swydd Stafford; ei mab Charles, 20 oed, *stationary engine stoker*; ei pedwar nai: Joseph Mann, 20 oed, labrwr yn y lofa; Edward, 16 oed, halier yn y lofa; John 9 oed; a William 7 oed; a'i pedair nith; Mary, 17 oed; Louisa 13 oed, Joanna 12 oed, a Lizzie, 5 oed; ynghyd â'r lletywr David Lewis, 18 oed. Yr oedd gan eu cymdogion yn rhif 7, *Furnace Terrace* hefyd gysylltiad â de-orllewin Lloegr, sef William Martin, adeiladwr wageni rheilffordd, 38 oed a oedd yn enedigol o Gaerfaddon; ei wraig Lucy, 48 oed, a hanai o Handley, yn swydd Dorset; a'u pedair merch, Winifred, 18 oed, a oedd yn gynorthwy-ydd i ddilledydd; Mansell, Pauline a Nellie. Ganed Winifred yn Aberdâr, ac felly mae'n amlwg i'r teulu drigo yno am gyfnod cyn iddynt ymsefydlu ym mhlwyf Llan-non lle ganed y tair ferch arall. Tra roedd y rhieni yn siaradwyr Saesneg, yr oedd y plant yn ddwyieithog.

Lletyai George Rogers, 24 oed, labrwr yn y lofa, a oedd yn enedigol o Somerton yng Ngwlad yr Haf, ar fferm Llaethdy, Pontyberem. Dyma hefyd gartref John Rees, *farm bailiff* 55 oed; ei wraig Mary, 53 oed; eu mab William, labrwr yn y lofa 25 oed a'u merch Mary, 13 oed; eu wyrion Isaac Griffiths, 10 oed a John Thomas, 6 oed; a'u wyresau Mary, 9 oed a Rachel Griffiths, 8 oed ; ynghyd â'r forwyn Mary Williams, 20 oed; a lletywr arall James Jenkins, *woodman* 57 oed; a'i ferch Sarah, 8 oed. Yr oedd pob un o'r rhain wedi eu geni ym mhlwyf Llan-non, ac yn siaradwyr Cymraeg, ar wahân i James Jenkins a aned yn St. Bride's, sir Benfro. Brodorion o Wlad yr Haf hefyd oedd rhai o'r gweithwyr fferm a siaradai Saesneg yn unig. Ganed George Lambert, labrwr cyffredinol, 50 oed, yn Bolton Shepton Mallet. Trigai ef yn Cwm *Cottage* gyda'i wraig Jane 56 oed, siaradwraig Cymraeg a oedd yn enedigol o Fynydd Bach, sir Aberteifi. *Ploughman* ar fferm Pentwyn oedd John Chislett, 18 oed, a aned yn Taunton, a chartrefai ef yno gyda Thomas a Hannah Williams, a'i mab tair mlwydd oed, Griffith; y tri ohonynt yn siaradwyr dwyieithog.

Cadarnhawyd yn 1901 y duedd a drafodwyd eisoes ym Mhennod 3 i Gwm Gwendraeth ddenu o ardaloedd ymhellach i ffwrdd rhai o'r gweision fferm eraill, a hefyd glowyr a gweithwyr diwydiannol eraill a siaradai Saesneg yn unig. O Lundain yr hanai nifer o wŷr di-briod, gan gynnwys Henry Morgan, labrwr 49 oed ar fferm Penybanc, ar Heol y *Meadows*, Cross Hands; Edward Kinsett, gwas 15 oed ar fferm Eisteddfa; a Thomas Willis, gwas 39 oed ar fferm Llwydcoedisa; ynghyd ag Edward Dutch, 17 oed, *cowman* ar fferm Gelliwen, o Euston; a William Croft, 28 oed, o Paddington, *waggoner* ar fferm Cilddewi-ucha. Trafodir ym Mhennod 3 y posibilrwydd i rai ohonynt ddod o ysgolion diwydiannol yn Lloegr. Brodor o swydd Caint, oedd Fred Howard, gwas 16 oed ar fferm Ffynnonrhosfa, ac hanai Benjamin T. Shelley, glöwr 20 oed o Whitham, Essex. Trigai ef yn 1 Pantycelyn *Cottage*, Llan-non, gyda theulu dwyieithog yn cynnwys Benjamin Jones, glöwr 28 oed, ei wraig Hannah, 33 oed, eu merch fach blwydd oed, Margaret Jane; a'r forwyn Sarah Jones, 18 oed : yr oedd pob un

ohonynt yn hanu o blwyf Llan-non ar wahân i'r penteulu a aned ym mhlwyf Llanarthne. Daeth y gwidman George Fuller, labrwr 33 oed ar wyneb y lofa a gartrefai yn Cwmderry o Carisbrooke, Ynys Wyth.

Yr oedd sefyllfa ieithyddol gymhleth ar rai o'r aelwydydd hynny lle cartrefai lletywyr di-briod a siaradai Saesneg yn unig. Ar fferm Ffynnonrhosfa, lle arhosai Fred Howard, yr oedd y penteulu, Evan Evans, 53 oed, ei frawd John, 36 oed, y labrwr fferm arall, ynghyd â'r forwyn, Emily Daniel, 17 oed, yn siaradwyr Cymraeg. Yn ffodus i Fred yr oedd gwraig Evan, sef Hannah, 43 oed, yn siaradwraig dwyieithog. Mae'n amlwg i Thomas Willis gael anhawster i gyfathrebu gan fod pob aelod o deulu Llwydcoed-isa, a hanai o blwyf Llan-non, yn siaradwyr Cymraeg, sef y ffermwr John Maddox, 50 oed; ei wraig Hannah, 41 oed; eu mab John 15 oed; a'u pum merch Emiah, 16 oed, Jane, 13 oed, Caroline, 11 oed, Elizabeth, 8 oed, a Olwen, 4 oed. Yn yr un modd, lletyai Henry Daunton, prentis grydd, 17 oed, a siaradwr Saesneg a hanai o Dorchester, yn Bronafon, lle roedd pawb arall yn siarad Cymraeg, sef David Charles, crydd, 47 oed; ei wraig Mary Ann, 44 oed; y tri mab, sef y crydd John, 18 oed; Ivor Thomas, 13 oed; a Henry Tudor, 8 oed; a'r ddwy ferch, Sarah Ann, 16 oed; a Mary, 4 oed; a'r lletywr arall, Thomas Tinuche, a oedd hefyd yn grydd ac yn frodor o Landdarog. Y mae'r enghreifftiau hyn, megis y rhai hynny yng Nghyfrifiad 1891, a drafodir uchod ym Mhennod 3, yn creu amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd rhai o'r cofnodion.

Siaradwyr Saesneg oedd nifer o aelodau'r ddau deulu a drigai mewn faniau ar Heol y *Meadows*, Cross Hands. Yn un o'r faniau yr oedd Patrick Rafferty, '*tinman*' 55 oed yn enedigol o Wrecsam, a'i wraig Rose, 53 oed a hanai o sir Faesyfed, yn siaradwyr dwyieithog; ond Saesneg oedd iaith eu pedwar mab, sef Thomas, 19 oed; John, 16 oed; Peter, 9 oed; a Patrick, 3 oed. Yn y fan arall, tra roedd James Rafferty, *tinman* arall a hanai o Ferthyr Tudful, yn siaradwr dwyieithog, yr oedd ei wraig Rose, 20 oed o Blackpool, yn siarad Saesneg yn unig.

Perthynai clwstwr o siaradwyr Saesneg ym mhentref Llan-non i'r hyn a ystyrir yn ddosbarth uwch yn y gymdeithas. Eithriadau prin oedd yr unigolion hynny a ddisgrifiwyd yn y cyfrifiad yn *'living on own means'*. Un ohonynt oedd Gerald Gordon Bond a drigai yn Y Plas, Llan-non gyda'i wraig a'i deulu. Yr oeddynt i gyd yn siaradwyr Saesneg, gyda'u manau geni yn adlewyrchu eu bywyd symudol. Ganed Gerald Gordon Bond, 38 oed yn *Frenton Rectory*, Ipswich; ei wraig Florence, 35 oed yn King's Kerswell, Dyfnaint; eu tair merch Ivy, yn Streatham, Surrey; Laura yn Littlehampton, Sussex; ac Anita yn Woods Bazett, Dyfnaint; a'u mab Gerald yn Southsea, Hampshire. Cofnodwyd pedair gwraig arall ymhlith y preswylwyr yn y Plas, sef Florence Mexfield, 20 oed, y *governess* a aned yn Warminster, Wiltshire; a thair morwyn dwyieithog, dwy ohonynt yn hanu o sir Gaerfyrddin, sef Elizabeth Thomas, 28 oed, y gogyddes, a Catherine Thomas, 20 oed, y forwyn barlwr; a'r llall, Maud Thomas, 13 oed, y forwyn gegin, o Leeds. Yr oedd teulu arall o siaradwyr cwbl Saesneg yn trigo yn Nhŷ'r Garddwyr. Ganed William Rich, y *coachman* a thri o'i bedwar plentyn, yn Nyfnaint; ei wraig Susan yng Nghernyw; a'r mab ieuengaf James, 8 oed yn swydd Henffordd. Siaradwr Saesneg yn unig oedd ysgolfeistr pentref Llan-non, sef William Evans, brodor o Arberth, sir Benfro a drigai yn y *School House* gyda'i wraig ddwyieithog Jane. Yr oedd hi a'u mab Alan, 3 mlwydd oed, yn enedigol o blwyf Llan-non, ond arwyddocaol hefyd yw'r cyfeiriad at y mab hefyd fel siaradwr Saesneg.

Yn Saesneg y cofnodwyd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a gasglwyd yng Nghyfrifiad 1901 ond un gwahaniaeth ddiddorol i'r drefn yn 1891 oedd 24 cofnod a oedd naill ai yn gwbl Gymraeg neu yn rhannol Gymraeg. Fe'u gwelir wedi eu gwasgaru ymhlith yr adran honno a oedd yn gyfrifoldeb i'r cyfrifwr, John Marles Jones, ond gyda phum clwstwr, un yn Y Tymbl a phedwar ym Mhontyberem yn cynnwys yr un mwyaf, sef 11 tŷ a 75 o drigolion, yn *Furnace Terrace*. Defnyddir y Gymraeg ar gyfer y cysylltiadau teuluol ym mhob un o'r 24 cofnod, gan gyfeirio at y penteulu, gwraig, mab, merch, wŷr, wyres, mab-yng-nghyfraith,

morwyn, ac yn 23 *Furnace Terrace* y term 'byrddwr' ar gyfer y lletywr James Jones. Hefyd, yn yr ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â statws cyflogaeth person, nodir 'Meistr', 'Gweithiwr, neu ' Drosto'i hun', ac i'r cwestiwn am yr iaith a siaredir, 'Cymraeg' neu 'y Ddwy': nid yw'n annisgwyl nad oedd un person yn y cofnodion hyn yn siarad Saesneg yn unig. Cyflwynir cyfieithiadau Saesneg ar gyfer 23 o'r cofnodion hyn ar ddiwedd yr adran, ac yn y llall, cyfieithiad uwchben y geiriau Cymraeg. Felly, yn y cofnod ar gyfer 1, *Tumble Row*, Y Tymbl, dywedir bod William Walters, y penteulu (*Head*) yn wŵr priod, yn Is-Arolygwr y Gwaith glo (*Under-manager at Colliery B. G.*), ac yn enedigol o blwyf Llan-non, sir Gaerfyrddin (*Carmarthenshire*). Gosodwyd y Saesneg uwchben y Gymraeg yn y cofnod hwn, ac felly hefyd yn y cyfeiriad at David Hughes, Ty Isa' yn '*Coal miner, Hewer*' yn ogystal â 'Torrwr glo', ac ychwanegu'r geiriau '*Stone*' ger 'Chwarelwr' a '*Carp*' ger 'Saer Coed' yn y disgrifiadau o swyddi David Thomas a'i fab William, *Greenhill*, Y Tymbl.

Ar brydiau, defnyddir termau Saesneg ar gyfer rhai swyddi yn y cofnodion 'Cymraeg', gan gynnwys y disgrifiadau o ddwy chwaer a drigai yn Tŷ'r Clai, Cwm-mawr, sef Mary Jane Jones, '*Dressmaker*', 25 oed, a Margaret, '*Charwoman*', 22 oed. Cyfeiriwyd at Rhys G. Griffiths, 24 *Furnace Terrace*, yn 'penteulu,' 'gweddw', a 'meistr' ond hefyd yn '*Colliery Manager*'; ei fab hynaf William, 15 oed yn '*Colliery Clerk*'; a'r ail fab Edwin, 14 oed, yn '*Carpenter's Assistant*'. Yr oedd y plant eraill, sef pedwar mab a dwy ferch, dan oedran gweithio, ond y disgrifiad a roddwyd i swyddi'r ddwy berson arall ar yr aelwyd, sef Jane Owen a Margaret Owen oedd 'Morwyn Deuluaidd'. Yr oedd y termau Saesneg eraill ar gyfer swyddi a gyflwynwyd yn y cofnodion 'Cymraeg' hyn yn cynnwys '*Coal miner*', '*Foreman haulier*', '*Colliery fitter*', a '*Tinplate maker*'. Ar y llaw arall, Cymraeg oedd iaith y mwyafrif helaeth o'r disgrifiadau swyddi yn y cofnodion hyn. Cyfeiria nifer ohonynt at weithgarwch yn y lofa, a disgrifiwyd nifer o'r gweithwyr yn 'dorrwyr glo', gan gynnwys David Hughes, fferm Ty Isa', Y Tymbl; John Jones,

Tŷ'r Clai, Cwm-mawr; David Hughes, 2 Glannant, Pontyberem; ac yn *Furnace Terrace*, Pontyberem John Jones (rhif 17), John Lewis (rhif 18), David Griffiths (rhif 19), a Daniel Thomas (rhif 21).

Yr oedd rhai o'r termau a ddefnyddiwyd yn nodi'r dyletswyddau yn fwy penodol, megis y cyfeiriad at y peiriannwr sefydlog Thomas Jones, *Rose Cottage*, Y Tymbl; y ffiter Tom Hughes, Fferm Ty-Isa', Y Tymbl; y gyrrwr peiriant glofa John Rees, *Brook House*, Cwm-mawr; y mecanic John Hewitt, 20 *Furnace Terrace*; Pontyberem; yr ostler Rhys D. Jones, Tŷ'r Clai, Cwm-mawr; a'r llafurwr cyffredinol Benjamin Jones, 23 *Furnace Terrace*. Gwelwyd hefyd amrywiaeth mawr o swyddi eraill, megis yn Y Tymbl: yr amaethwr Morgan Hughes, fferm Ty Isa'; a'r chwarelwyr (*quarrymen*) Daniel Thomas a'i fab David, a'r saer coed, y mab iau, William, *Greenhill*: yn Cwm-mawr: y cigydd John Jones, Brook House; a'r gwneuthurwr cewyll (*basket maker*) John Jones, Tŷ'r Clai: ac ym Mhontyberem y clerigwr John Robert Jones, *The Parsonage*; y crydd John Thomas, 1 Bragty Villa; y llythyr gludydd (*Post girl*) Alice Jones, 17 *Furnace Terrace*; ei chymydog yn rhif 18, y teiliwr David Lewis; yr amaethwraig Margaret Morgan, 3 *Groesfaen Cottage*; a'i chymdogion hi, sef y seiri coed William Griffiths a'i fab John, 2 *Groesfaen Cottage*.

Tynnwyd sylw yn y drafodaeth ar Gyfrifiad 1891 at sefyllfa ieithyddol trigolion *Tumble Row*, ac mae'r dystiolaeth yn 1901 ar gyfer y stryd hon eto yn bwysig, gyda mwyafrif helaeth y trigolion yn siaradwyr Cymraeg yn unig neu yn siaradwyr dwyieithog. Yr oedd y siaradwyr dwyieithog yn cynnwys y cyfrifwr a fu'n gyfrifol am gyflwyno cofnodion Cymraeg yn y cyfrifiad ar gyfer y plwyf, sef John Marles Jones, athro ysgol gynradd, 29 oed, yn enedigol o Lanllwni, a drigai yn rhifau 57 a 58 gyda'i wraig Margareta, hefyd yn 29 oed, yn enedigol o Gynwil, a ddisgrifiwyd yn '*Newsagent & Stationer*'. Ar y llaw arall, yr oedd yma hefyd aelwydydd Saesneg yn unig eto yn 1901. Yn eu plith yr oedd rhif 38 lle trigai Alfred J. Walker, 39 oed, labrwr cyffredinol o Gaer Efrog gyda'i wraig a oedd yn enedigol o Drefdraeth, sir Benfro. Er i nifer o'r

siaradwyr Saesneg gael eu denu i ymsefydlu yng Nghwm Gwendraeth o ardaloedd ymhell i ffwrdd, hanai y teulu a siaradai Saesneg yn unig, ac a drigai yn rhif 73, o sir Gaerfyrddin. Ganed Theophilus Richards, halier mewn bragdy, yn Nhalacharn, ei wraig Jane yn Abergwili; a'u plant ym mhlwyf Llan-non, sef dau mab, William a Victor Hugh a phum merch, Mary, Louise, Lizzie, Ethel a Lydia.

Bodolai sefyllfa ieithyddol gymhleth yn rhai o'r tai yn *Tumble Row*, gan gynnwys rhif 56. Siaradwraig Saesneg yn unig oedd Ann Charles, a hanai o Abertawe, ond yr oedd gweddill ei theulu yn ddwyieithog, sef ei gŵr, y cigydd William, 42 oed, a'u dwy merch, Annie 2 oed a Mary Jane, blwydd oed. Ar yr aelwyd hefyd trigai'r lletywr, William Evans, labrwr yn y lofa, siaradwr Cymraeg o Landdarog. Yn rhif 53, trigai George Gray o Lundain, siaradwr Saesneg, gyda'i wraig Elizabeth, siaradwraig Gymraeg a hanai o'r Efail Wen, Abergwili, sir Gaerfyrddin; a'u dwy merch dwyieithog. Yn rhif 18 lletyai William Braby, siaradwr Saesneg 63 oed yn enedigol o dref Caerfyrddin, gyda theulu cwbl Gymraeg, sef y glŵr Richard Jones, 39 oed, ei wraig Elizabeth, 42 oed, eu mab John, 15 oed a oedd yn ffiter yn y lofa, a'u dwy merch Katie, 10 oed a Blodwen, 2 oed.

Gweithiai y rhan fwyaf o breswylwyr *Tumble Row* yn y diwydiant glo. Yn eu plith yr oedd teuluoedd Robinson a Walker, a siaradai Saesneg yn unig, ac yn dal swyddi arbennig, gyda chysylltiadau â'r Alban a drafodir uchod. Saesneg hefyd oedd iaith aelwyd rhif 92, sef cartref John Mills, saer yn y lofa 34 oed, yn enedigol o Upchurch, swydd Caint; ei wraig Esther, a hanai o Sittingbourne, o'r un sir; a'u dau blentyn a aned ym mhlwyf Llan-non, sef Beatrice, 4 oed a Cyril, 4 mis. Ymdoddodd y teulu hwn dros y blynyddoedd i gymuned Gymraeg Y Tymbl, ac y mae hyn yn wir hefyd am deulu Timbrel. Ganed David Timbrel (rhif 34) labrwr yn y lofa, 48 oed, yn Cirencester, swydd Gaerloyw. Saesneg yn unig a siaradai ef, ond yr oedd gweddill y teulu yn ddwyieithog. Yr oedd ei wraig Ann, 40 oed, yn hanu o blwyf Llan-non, ac yno y ganed eu dau

plentyn ieuengaf, Ernst (*sic*), 3 oed, ac Alice, 2 oed. Wedi iddynt briodi, gwariwyd rhywfaint o amser yn swydd Gaerloyw oherwydd yno, yn Ewen, y ganed y mab hynaf Wilfred Edward, 10 oed. Fodd bynnag, yr oeddynt wedi dychwelyd i Gymru wedyn gan i'r ail blentyn Elizabeth Ann, 5 oed, gael ei geni yn Llandybïe. Dyma enghraifft o deulu gyda'r tad yn siaradwr uniaith Saesneg a ddenwyd i'r ardal ond a briododd Gymraes leol a'r plant yn siaradwyr dwyieithog. Yr oedd Arthur Bryant, glŵr dan ddaear 35 oed, a aned yn Middlesborough, swydd Efrog, hefyd wedi priodi Cymraes, sef Elizabeth Jane, a aned yng Nghaerfyrddin. Yn wahanol i lawer o'r rhai a ddaeth i Gwm Gwendraeth o wledydd eraill, llwyddodd ef i ddysgu'r Gymraeg, a phreswyliai ef a'i wraig yn rhif 74 gyda'u merch fach Blodwen, blwydd oed. Cymry Cymraeg oedd mwyafrif helaeth eu cymdogion yn *Tumble Row*. Cyfeiriwyd ym Mhennod 3 at Owen Howells, ac ef oedd un o'r 17 tenant a dderbyniodd wŷs i adael *Tumble Row* ym mis Gorffennaf 1893 ynghanol cyfnod y Terfysg (*Gibbard, 1984a: 120, South Wales Press, 13 Gorffennaf, 1893*). Methwyd â chwblhau'r broses gyfreithiol ond erbyn 1901 yr oedd ef ynghyd â'i deulu wedi symud o rhif 26 i rhif 37, ac yn parhau yn siaradwyr uniaith Gymraeg. Yr oedd pedwar o'r teulu yn gweithio yn y lofa, gyda'r tad Owen, 52 oed, a oedd yn wreiddiol o Langennech, yn labrwr; David 24 oed yn *repairer*; Thomas, 24 oed a Richard 18 oed, ill dau yn lowyr.

Dau o drigolion dwyieithog pentref Cross Hands oedd D. Farr Davies, brodor o Ddowlais, a'i wraig Primrose, yn enedigol o Bontardawe, a drigai yn Rheidole, Heol Llandeilo. Wedi gweithio dan ddaear ac yn swyddog yn un o lofeydd Cory yng Nghwm Rhondda, symudodd ef i Cross Hands yn 1899 yn rheolwr y lofa, y *New Cross Hands Colliery* (Owen 1982 : 5, *Llanelly and County Guardian*, 17 Ionawr 1935). Cysylltir llwyddiant y lofa â'i waith ef fel rheolwr ac fe'i dyrchafwyd wedyn gan berchnogion y lofa, sef cwmni C.E. Cleeves a ddatblygodd wedyn dan yr enw *Cleeves Western Valleys Anthracite Collieries Co. Ltd*. Bu'n amlwg ym mywyd cyhoeddus yr ardal a

chefnogai nifer o ddigwyddiadau diwylliannol a chrefyddol. Yn aelod yn eglwys y Tabernacl, Cefneithin, bu'n bresennol mewn nifer o gyfarfodydd arbennig yn eglwysi a chapeli'r cylch. Yr oedd yn un o ymddiriedolwyr gwreiddiol Neuadd a Llyfrgell Gyhoeddus Cross Hands, a sefydlwyd ar 10 Mehefin 1904 a chadeirydd y pwyllgorau a ffurfiwyd yn ystod y cyfnod arloesol hwn (Jones 2000: 110-111). Ei wraig oedd un o'r ddwy wraig a osododd garreg sylfaen capel Bethel Cross Hands, ar 3 Ebrill 1906 (Owen 1982 : 3). Preswyliai morwyn ddwyieithog, Elizabeth Jones, yn enedigol o Lanarthne, hefyd yn Rheidole. Mae'n amlwg mai Cymraeg oedd iaith yr aelwyd, a chofnodwyd eu merch dwy flwydd oed, a elwid hefyd yn Primrose, yn siaradwraig Gymraeg yn unig,

4.2 : Y Diwydiant Glo

Yr oedd agwedd gefnogol D. Farr Davies yn arwydd o bwysigrwydd y diwydiant glo fel un o brif gynheiliaid yr iaith Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth. Tynnodd Ioan Matthews sylw at Gymreictod y diwydiant glo carreg gyda 'llawer o'r perchnogion yn ogystal â mwyafrif y gweithwyr yn Gymry Cymraeg', ac un o'r enghreifftiau a gyflwynwyd ganddo oedd John Aeron Thomas, mab i ffermwr yng Ngheredigion a pherchennog Glofa'r Emlyn ym Mhenygroes (Matthews: 1988, 126). Pwysleisiwyd hyn hefyd yn y cyfweiliadau a gynhaliwyd gennyf fel rhan o'r ymchwil ar gyfer y traethawd. Gweithiodd y Parchg. Elwyn Jenkins, brodor o ardal Pentwyn ar gyrion Cross Hands a'r Tymbl, mewn glofa leol am gyfnod cyn ymadael i fod yn weinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru ym Mrynaman, Aberystwyth a Llanbedr-Pont-Steffan. Pan holwyd ef am ei gysylltiadau teuluol â'r diwydiant glo, dywedodd:

Yr oedd fy nhad yn gweithio yn y gwaith glo drwy ei oes nes ei fod yn ymddeol yn 65. Yr oedd brodyr fy nhad yn gweithio yn y pyllau glo hefyd-rhai ohonynt yn dioddef o *silicosis* ac yr oedd yn rhaid iddynt ymddeol yn

gynnar. Buodd rhai o'm brodyr yn gweithio yn y gwaith glo, fel y fues i.

(Atodiad 6.4 : C1)

Wedi iddo adael yr ysgol pan yn 16 oed i ddilyn cwrs yng Ngholeg Technegol Rhydaman am rai blynyddoedd, aeth i weithio yn y lofa gan mai'r:

duedd oedd dilyn eich tad, meibion yn dilyn eu tadau. Nid oedd llawer o swyddi yn yr ardal hon os oeddech am aros yn y gymuned.

(Atodiad 6.4 : C3)

Gadawodd waith glo'r *Great Mountain* yn Y Tymbl ym mhumedgau'r ugeinfed ganrif. Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y lofa, atebodd:

Yr oedd fy nhad yn gweithio yng ngwaith Cross Hands a'r Gymraeg a ddefnyddiwyd fwyaf. Yn ogystal, yr oeddwn yn gweithio yng ngwaith y Tymbl a siarad Cymraeg oedden ni'n gyffredinol. Ond cofiwch chi, yr oedd ambell i Sais yn dod i mewn. Dwi ddim yn dweud ei fod yn Gymraeg pur ond yn gyffredinol bydden ni'n dweud mai'r Gymraeg oedd iaith y mwyafrif llethol.

(Atodiad 6.4 : C4)

Gweithiai Terry Davies, Swyddog Cymunedol Menter Cwm Gwendraeth pan oeddwn yn ei holi, yng nglofa Cwmgwili mewn cyfnod ychydig yn fwy diweddar, sef wythdegau'r ugeinfed ganrif, ac y mae'n amlwg i'r Gymraeg barhau i fod y brif iaith lafar:

'Ro'n i'n ffodus iawn yn Cwmgwili gan fod bron pawb yn siarad Cymraeg a'r rhan fwyaf yn deall Cymraeg.

Felly, gan ei fod yn waith cartrefol yr oedd yn llawer anoddach pan yr oedd rhywun yn dod i weithio fel *under manager* neu rhyw swydd fel hynny. Yr oedd pawb yn naturiol yn siarad Cymraeg, nid o'r safon uchaf gyda llawer o eiriau Saesneg yn y drafodaeth.

(Atodiad 6.3 : C1)

Un eglurhad am gryfder yr iaith Gymraeg oedd fod y diwydiant glo wedi denu llawer o weithwyr o'r ardaloedd gwledig cyfagos, a Chwm Gwendraeth felly yn cynnig cynhaliaeth i gymunedau amaethyddol gorllewin Cymru ynghyd â rhai eraill. Cyfeiriodd Ioan Mathews at hyn:

I lawer o weithwyr amaethyddol, yr oedd yr adeg tawel ym mhatrwm gwaith y fferm yn cynnig cyfle i ennill arian da yn y pyllau glo cyn dychwelyd i gefn gwlad yn y gwanwyn. Yr oedd hyn yn arbennig o wir am y maes glo carreg, gan fod yr elfen dymhorol gref yn y diwydiant yn golygu bod llawer llai o alw am weithwyr yn yr haf nag yn y gaeaf. Mor ddiweddar â'r 1920au, teithiai ugeiniau o weithwyr o sir Aberteifi i weithio yng ngwaith yr Emlyn ym Mhen-y-groes, a gelwid y sifft brynhawn yng ngwaith y *Great Mountain* yn Y Tymbl yn Cardi am yr un rheswm .

(Mathews 1998 : 124)

Adlewyrchir y duedd i'r ardal ddenu gweithwyr o siroedd y gorllewin yn y llysenwau a roddwyd i drigolion lleol yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, megis Tom Jones, Cynwil, David Evans, Llangeitho, Tommy Evans Goginan, Jac Llan-y-bri a Jac Pencader. Bu'r tri cyntaf a enwyd yn swyddogion amlwg yng nghapel Bethel, Cross Hands. Gweithiodd Tom Jones, brodor o Gynwil, am dair blynedd yng Ngwaun-cae-gurwen, cyn symud i Gwm Gwendraeth a gweithio yn y *New Dynant*, Cwm-mawr, ym Mhont-iets, Pontyberem ac yna ym

Mlaenhirwaun; David Evans Llangeitho am flynyddoedd yn y *New Cross Hands* cyn symud i lofeydd Cwmgwili a Chapel Hendre; a Tommy Evans Goginan, a weithiai pan yn ifanc ar y *screens* ac yn y *washery* yn y *New Cross Hands* cyn gweithredu am flynyddoedd yn swyddog cymorth cyntaf yn yr un lofa. Aeth ei dad ef, Evan Evans o Aberffrd, yng ngogledd Ceredigion, i weithio fel glôwr yn Abertridwr, ym Morgannwg cyn symud i Cross Hands. Y mae hanes teulu Ebeneser, sy'n parhau i chwarae rhan allweddol ym mywyd crefyddol y pentref, yn enghraifft o'r symudiadau a wnaed i sicrhau gwaith. Yn hanu o ardaloedd Llanfihangel-y-Creuddyn, Penuwch a Phontrhydfendigaid yng Ngheredigion, magwyd wyth o feibion John Ebeneser yng Nghwmaman, Aberdâr, cyn iddynt symud i Cross Hands yn 1925 yn sgîl dirwasgiad yn y diwydiant glo (Owen 1982: 9,12-13). Fel y pwysleisiwyd ym Mhennod 3 yr oedd y duedd hon yn holl bwysig ar gyfer sicrhau cryfder y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth.

Amcangyfrifwyd bod 5,800 o lowyr yn gweithio yng Nghwm Gwendraeth yn ystod degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif, sef y cyfnod mwyaf llewyrchus yn hanes y diwydiant glo lleol. Yr oedd yr amcangyfrif hwn gan K.C. Treharne, awdur y gyfrol *Glofeydd Cwm Gwendraeth* yn cyfeirio at 1,100 o lowyr yng nglofeydd Pentref-mawr, Pontyberem a'r Mynydd Mawr, Y Tymbl; 500 yn Glyn Hebog a 400 yn *Coalbrook*, Pontyberem; 350 yn y *New Cross Hands*; a 300 yn Blaenhirwaun, Cefneithin. Hefyd, gweithiai 600 yn Nhrimsaran; 400 ym Mhont-henri; 300 yr un yn Carwe a Phont-iets; ac yn Nghwm-mawr, 250 yn y Dynant Newydd; 150 yn Clos-yr-Yn; a 50 yn Cwm-mawr Newydd (Morgan 2000 : 18, sgwrs gyda K.C Treharne: gweler lleoliad y glofeydd ar **Fap 2**)

Er i'r sefyllfa yng Nghwm Gwendraeth fod yn llai cythryblus nag yn ardaloedd dwyreiniol Maes Glo De Cymru, ac i'r berthynas rhwng y perchnogion a'r gweithwyr fod yn gymharol heddychlon ym mlynnyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, ar wahân i Derfysg y Tymbl,

cafwyd trafferthion yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau. Yn 1923 crewyd yr *Amalgamated Anthracite Collieries Ltd.*, perchnogion glofa'r *New Cross Hands* a hefyd yr *United Anthracite Collieries Ltd.*, perchnogion glofa'r Mynydd Mawr, neu'r *Great Mountain* yn Y Tymbl. Yn sicr cyfrannodd cymeriad amheronol y cwmnïau hyn, y problemau a achoswyd gan orgyfalafiad ('*over-capitalization*'), a'r bygythiad i arferion a thraddodiadau lleol at y digofaint a ddaeth i'r wyneb yn ystod streiciau 1925 a 1926 (Griffiths d.d.: 78-81).

Yr oedd tua 30,000 o lowyr y maes glo carreg ar streic ym mis Gorffennaf 1925. Yr oedd gwrthdystiad mawr yng Nglofa'r Emlyn, Penygroes, a hefyd yn Cross Hands lle dychrynwyd yr heddlu gan dyrfa, dan arweiniad Edgar Lewis, yr atalbwyswr lleol, yn canu'r emyn-don *Aberystwyth* a'r geiriau ymfflamychol 'Beth sydd i mi mwy'n y byd, gorthrymderau mawr o hyd!' Ym mis Rhagfyr carcharwyd nifer o'r glowyr, gan gynnwys Edgar Lewis, ac anerchwyd cyfarfod protest yn Cross Hands gan James Griffiths, a etholwyd yn Aelod Seneddol dros Lanelli yn 1936 ond yr adeg yma ef oedd trefnydd llawn-amser y Blaid Lafur yn etholaeth Llanelli (Francis 1973: 20,24).

Yr oedd cryfder yr ymrwymiad lleol i Undeb y Glowyr yn adlewyrchu hanes cythryblus y diwydiant glo yn yr ugeinfed ganrif. Er gwaethaf y defnydd helaeth o'r iaith Gymraeg ymhlith y glowyr, Saesneg oedd iaith swyddogol Undeb y Glowyr. Pan yn trafod y defnydd o'r iaith Gymraeg gan yr Undeb, dywedodd y Parchg. Elwyn Jenkins,

Dwi ddim yn siwr am hynny. Anaml iawn yr oedd llawer o gofnodion yn cael eu cadw i ddweud y gwir, ond i alw'r gweithwyr i gyd at ei gilydd

(Atodiad 6.4 : C9)

Yr oedd ymateb Terry Davies, cyn-swyddog gyda'r Undeb, i'r cwestiwn yn fwy pendant:

Yng Nghyfrinfa'r Undeb 'roedd y draffodaeth i gyd yn Gymraeg ym mhob cyfarfod ond 'roedd y cofnodion i gyd yn Saesneg. Yn ogystal, yn Saesneg wrth gwrs fyddai'r draffodaeth pan fyddem yn mynd bant i gynhadledd.

(Atodiad 6.3 : C1)

Ar y llaw arall defnyddiwyd y Gymraeg yn helaeth gyda'i gydweithwyr yn y lofa:

Ond mor bell â'r draffodaeth ar ben gwaith, hyd yn oed gyda'r *manager*, yn Gymraeg fyddde'r draffodaeth yn naturiol oherwydd ardal Gymraeg oedd hi ac yr oedd pobl hyn yn dod miwn o gwaith Cross Hands ac ati, Cymraeg oedd yr iaith. Un neu ddau falle oedd ddim yn Gymro Cymraeg.

(Atodiad 6.3 : C1)

4.3 Cau'r glofeydd : 1939 - 1989

Effeithiwyd hefyd ar y Maes Glo Carreg gan broblemau daearegol a bu'n rhaid cau nifer o'r glofeydd bychan. Syfrdanwyd yr ardal gan y penderfyniad i gau Glofa'r Emlyn, ym Mhen-y-groes yn 1939. Dyma'r lofa a 'oedd o flaen ei hamser mewn adnoddau i'r gweithwyr', gyda baddonau pen-pwll yn y dauddegau, ' lle hwylus i'r glowyr fynd a dod i'r lofa yn eu dillad glân, newid cyn mynd i lawr ac ymolchi cyn mynd adref' (Treharne 1995 :8). Caewyd pwll Cross Hands yn 1943 a Glynhebog yn 1947 (Treharne 1995: 8, 198). Yn y flwyddyn honno gwladolwyd y diwydiant glo, gan sefydlu'r Bwrdd Glo Cenedlaethol, a rhagwelwyd gwell dyfodol i'r diwydiant. Bwriadwyd moderneiddio'r glofeydd hynny gydag adnoddau digonol, mecaneiddio'r diwydiant ac agor glofeydd newydd i gymryd lle'r hen lofeydd bychain (Evans 2000 : 148). Cychwynwyd adeiladu glofa Cynheidre yn 1953 a'r farn oedd y

byddai'n cynhyrchu tua miliwn o dunelli o lo bob blwyddyn am tua chan mlynedd (Treharne 1995 : 202). Dechreuwyd cynhyrchu glo yma yn 1960, ac o ganlyniad i'r polisi o ganoli'r gweithgareddau yno, caewyd glofeydd Carwe yn 1960, Cross Hands yn 1961, y Mynydd Mawr yn Y Tymbl a Blaenhirwaun yn 1962, ac yna Pentremawr, Pontyberem, yn 1974. Ni wireddwyd y gobeithion am lofa Cynheidre ac fe'i caewyd yn 1989. Agorwyd glofa Cwmgwili yn agos iawn i leoliad glofa Cross Hands a bu'n llewyrchus iawn am gyfnod byr cyn iddo gael ei gau yn 1992. Bellach nid oes yr un lofa cloddio dwfn yn y Cwm, ond gwnaed sawl ymdrech i gloddio glo brig, megis y safle yn Ffoslas yn ardal Trimsaran. Gwelir lleoliad y glofeydd ar **Fap 2**.

Arweiniodd agor glofa newydd Cynheidre a chau'r hen weithiau glo at y polisi o ddenu glowyr o feysydd glo Gogledd Lloegr a'r Alban i'r ardal. Cyfeiriodd y Parchg. Elwyn Jenkins at yr angen am fwy o weithwyr, a dyfodiad :

llawer lawr o Durham a'u teuluoedd i sicrhau gwaith a byw yn ardal Trimsaran. Fodd bynnag, yr oedd nifer yn dweud wrtho'i fod yr awyrgylch wedi newid, nad oedd pethau ddim yn rhy dda pan ddaethon nhw draw ac yr oedd y naws yn wahanol. Yr oedd llawer o drafferthion yn y pwll hefyd ac fe aeth llawer nôl. O ran y Gymraeg yr oedd wrth gwrs yn gwneud gwahaniaeth. Saeson uniaith oedd y rhain. Ond ar y cyfan yr oedd cydweithio ond bod newid yn y naws, yn yr awyrgylch.

(Atodiad 6.4 : C6)

Ym mhentref Carwe cafodd dyfodiad y glowyr o Durham ddylanwad sylweddol. Adeiladwyd ystâd Maesgwern yn 1964, ac o'r 100 o blant ar gofrestr yr ysgol y flwyddyn honno, hanai 31 o Durham. Tynnodd Terry Davies sylw at effaith yr ymfudo ar y pentref:

‘Daeth *lot* o’r Alban i Carwe a tueddodd yr ardaloedd hynny aros yn fwy Saesnigedd. Pan oedd un neu ddau yn dod i miwn ‘roedde’n nhw’n cael eu boddi yn y Gymraeg ond os oedd llawer yn dod wrth gwrs ‘roedde’n nhw’n sefydlu eu hunain a doedde’n nhw ddim yn tueddu i ddefnyddio’r Gymraeg.

(Atodiad 6.3 :C2)

Ar y llaw arall yr oedd elfen o barhâd yn nylanwad yr ardaloedd gwledig ym mhen uchaf Cwm Gwendraeth:

Ond yn ein ardal ni yn y pen top, welon ni ddim o’r mewnlifiad hyn o fobl. Yr oedd mwy o bobl o’r wlad o lefydd megis Cwmduad yn dod i weithio yng ngwaith Cross Hands, Cwmgwili a Phentremawr. Yr o’nhw yn dueddol o ddod o’r pentrefi yn hytrach nag o’r trefi mawr.

(Atodiad 6.3 :C2)

Cyfeiriodd hefyd at blant y newydd-ddyfodiaid a phobl ifanc a ddaeth o Durham:

Symudodd rhai lawr o Durham i weithio fwy yn Cynheidre. Ond mae’n rhaid i mi gyfaddef fod rhai o rheiny hyd yn oed ar ôl cyrraedd yn siarad dim ond Saesneg rhonc, bod eu plant nhw wedi dod yn eitha’ naturiol i’r Gymraeg. ‘Roedd bachgen ifanc yn brentis gyda ni ac ‘roedd e’n dechrau pigo’r Gymraeg lan.

(Atodiad 6.3 :C2)

Achoswyd problemau eto yn dilyn cau’r glofeydd olaf yn y Cwm, gan gynnwys Cynheidre a Chwmgwili. Gweithiai Terry Davies yng nglofa Cwmgwili a phwysleisiodd ef ganlyniadau diweithdra:

Fydden ni'n dweud bod nifer uchel iawn o'r rhai gwplodd amser gaeodd y gwaith olaf gyda ni dal heb ffindio gwaith...Oedd y mwyafrif o nhw yn tynnu am eu pumdegau a aetho'n nhw un ai ar dostrwydd neu gawson nhw rhyw *bension*-doedden nhw ddim yn edrych am waith. Mae rhai o'r lleill wedyn wedi cael hi'n anodd iawn i ffindio gwaith parhaol- cael *job* a wedyn symud mlaen yn araf bach oherwydd 'doedd dim sgiliau gyda nhw a diffyg wedyn ail-hyfforddiant...

(Atodiad 6.3 :C3)

Cyfeiriodd at ei brofiad personol, a'i sefyllfa fanteisiol gan ei fod yn ddi-briod:

Pan o'n ni'n dechrau fel prentis yr oedd rhyw gant o brentisiaid bob blwyddyn, dim ond yn pen top Cwm Gwendraeth yn mynd i Goleg Rhydaman a gwithio yn y gwithfeydd cyfagos. Wedyn am rhyw ddeg mlynedd, cyn diwedd, canol yr wythdegau diflannodd hynny, ble oedd neb yn dod mewn . . . Bues i falle'n ffodus gan fy mod yn shengl, 'roedd hi'n haws i mi, es i nôl i Goleg am dwy flynedd. Ond os fydden ni'n briod â plant dwi ddim yn siwr os fydden ni'n gallu fforddio gwneud hynny . . . Ond i'r mwyafrif does dim llawer wedi ffindio swyddi rhywbeth yn debyg i'r hyn oedd ganddyn' nhw o safbwynt arian.

(Atodiad 6.3 : C3 a C4)

Ymdrechwyd i ymateb i'r problemau difrifol a achoswyd gan gau'r glofeydd gan geisio sicrhau cymorth ariannol oddi wrth y Llywodraeth a ffynonellau eraill. Hyd at ad-drefnu llywodraeth leol yng Ngwanwyn 1996, yr oedd Cyngor Dosbarth Caerfyrddin a Chyngor

Bwrdeistref Llanelli yn gyfrifol am weinyddu rhannau helaeth o Gwm Gwendraeth, gyda rhai ardaloedd hefyd yn perthyn i Gyngor Bwrdeistref Dinefwr. Ystyriwyd bod y Cwm yn cael ei drin yn llai ffafriol na rhannau dwyreiniol Maes Glo De Cymru a oedd yn derbyn y mwyafrif o gymorthdaliadau, er i Gwm Gwendraeth gael ei gynnwys o fewn Rhaglen y Cymoedd â'r hawl i dderbyn mwy o gefnogaeth ariannol (Price A 1992 : 7). Mynegwyd anfodlonrwydd ynglŷn â'r sefyllfa gymhleth a fodolai ers nifer o flynyddoedd gan ystyried cyflwr economaidd Cwm Gwendraeth, a chyfeiriodd Adam Price at hynny:

the root problem is not so much social as economic i.e. a basic lack of investment, both public and private, in the area over a period of some thirty years . . . local councillors regularly voice their concern that the West has won precious little from the Government's Valleys Initiative.

(Price 1992 : 5)

I geisio datrys y problemau hyn, comisynwyd cwmni Coopers & Lybrand Deloitte gan Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Dosbarth Caerfyrddin, Cyngor Sir Dyfed a Chyngor Bwrdeistref Llanelli i baratoi adroddiad ar gymoedd Aman a Gwendraeth. Yr oedd yr adroddiad yn sôn am effaith bellgyrhaeddol cau y pyllau glo ar Gwm Gwendraeth:

In the past two decades, the Gwendraeth Valley has faced a number of critical economic, social and environmental difficulties stemming from major economic restructuring and the loss of traditional industry. Almost 30 % of the valley's employment in 1991 was lost by mine closures alone by 1989. Although some new employment (particularly in construction, retailing and distribution) has mitigated against these

losses, the complexity of the valley's problems are still severe.

(Coopers & Lybrand Deloitte 1991: 201-202)

Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at lefelau uchel o ddiweithdra yng Nghwm Gwendraeth gyda 15 y cant yn ddi-waith o'i gymharu gyda'r ffigur o 10 y cant yng Nghymru a 8 y cant ym Mhrydain. Ymhlith rhai o brif ganfyddiadau eraill yr adroddiad oedd lefelau uchel o allfudo pobl â chymwysterau; lefelau isel o weithgaredd economaidd; lefelau incwm gyda'r isaf yn Nyfed (a oedd ar y pryd â Phowys gyda'r incwm isaf ym Mhrydain); sylfaen economaidd yn rhy gyfyng; gorddibyniaeth ar sectorau gwaith sydd â rhagolygon cyfyngedig megis chwareli a gweithfeydd; bach iawn o fuddsoddi o'r sector preifat; problemau amgylcheddol yn sgîl effeithiau'r gweithfeydd glo a glo brig; a dibyniant uchel ar dai ar rent o'r sector gyhoeddus

Pan luniwyd yr adroddiad yn 1991 yr oedd Parc Busnes Cross Hands eisoes yn dechrau datblygu. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y buddsoddiad yn ardal Cross Hands gan gymharu hyn â'r sefyllfa fwy ansicr ym mhentrefi'r Cwm sy'n bellach o'r M4 ac nad oedd wedi profi'r un llewyrch economaidd:

The social deprivation found in the Gwendraeth is not uniform throughout the valley's communities but tends to be most concentrated and acute within the middle reaches of the Valley. Recent investment at Cross Hands, with its immediate access to the growing M4/A48 corridor, has provided a focus for new growth effectively polarising socio-economic conditions. The upper valley enjoys relative buoyancy whilst the more remote communities of Pont-henri, Pontyberem and Pontyates remain amongst the more deprived in Wales.

(Coopers & Lybrand Deloitte 1991 : 318)

Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar broblemau economaidd a chymdeithasol yr ardal a sut y gellir gwella'r sefyllfa, mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at gryfderau'r ardal. Sonir am y datblygiadau economaidd yn ardal Cross Hands â'r Parc Busnes a hefyd ar yr angen i fod yn wyladwrus ynglŷn â'r datblygiadau posib, gan fod yr amgylchedd i raddau helaeth yn ddeniadol.

The Gwendraeth Valley has in our view an important potential to become known as 'the greenest valley'

(Coopers & Lybrand Deloitte 1991 : 475)

Yn ogystal, cyfeiriwyd at bwysigrwydd y diwylliant Gymraeg fel rhan annatod o wead y gymuned:

One of the critical attributes of the Gwendraeth is the strength of community ties and loyalties based upon the Welsh language and culture. Not only does this give a distinctive character to the Gwendraeth but it forms the basis for a passionate commitment by local people to resolving the problems facing the communities. Local people and groups will, in our view, play an essential role in securing local regeneration.

(Coopers & Lybrand Deloitte 1991 : 475)

Yn dilyn datblygiad enfawr ar safle glofa'r *New Cross Hands* trawsnewidiwyd yr ardal hon. Cliriwyd yn llwyr y safle a'r tipiau glo, gan adeiladu cylchfan ar gyfer ffordd ddeuol newydd sy'n ddilyniant o'r M4, yn ymestyn i'r gorllewin o Bont Abraham; tŷ bwyta a motel; arch-farchnadoedd; a siopau a mentrau busnes amrywiol sy'n ffurfio Parc Busnes Cross Hands. Atyniad mawr y Parc Busnes yw'r agosatrwydd at Bont Abraham sydd ond tair milltir i ffwrdd ar derfyn gorllewinol 'Coridor yr M4'. Tra bod staff y cwmnïau newydd yn symud i'r ardal,

manteisiodd nifer o drigolion lleol ar y cyfle i deithio ymhellach i ffwrdd i sicrhau gwaith, nid yn unig i Gaerfyrddin, Llanelli ac Abertawe, fel y gwnaed yn y gorffennol, ond nawr ar hyd yr M4 i'r dwyrain i Ben-y-bont, Caerdydd a Bryste. Y mae'r cysylltiadau trafnidiaeth felly wedi arwain rhai o'r ieuenctid i symud i ffwrdd o'r pentref, ac i ymsefydlu mewn ardaloedd eraill.

Trafododd y Cynghorydd Brin Davies, a fu'n cynrychioli pentref Cross Hands ar Gyngor Sir Caerfyrddin am nifer o flynyddoedd, fanteision ac anfanteision gwella'r cysylltiad gyda'r M4:

Mae'r M4 wedi hwyluso gwaith i nifer o bobl. Mae nifer o bobl lleol nawr... yn gweithio yn Abertawe, rhai yn gweithio yng Nghaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr a rhai hyd yn oed yn bellach na hynny. Mae un person 'rwy'n adnabod yn gweithio ym Mhryste . . . Mae na fantais i'r person unigol gan ei fod yn cael gwaith ac yn aml swyddi da. Ond mae hefyd yn mynd â'r goreuon allan mewn gwirionedd o'r gymdeithas... Mae'n nhw'n dilyn yr arian a gallwch chi ddim â'i beio nhw.'

(Atodiad 6.2 : C8)

Cyfeiriodd Terry Davies hefyd at bwysigrwydd yr M4. Er i'w swyddfa gael ei lleoli ym Mhont-henri:

yr ydym yn gwybod mai yn Cross Hands fydd y buddsoddiad oherwydd os oes rhywun am deithio un ffordd neu'r llall, bydd hynny ar yr *M4 corridor*... Mae bod yn agos i'r M4 yn allweddol. Mae pobl sy'n gweithio yn Cross Hands yn fodlon byw ar gyffiniau'r pentref gan fod Cross Hands yn ddigon rhwydd i fynd iddo. Mae'n agos i Abertawe ac yr ydych yng

Nghaerfyrdin mewn chwarter awr - mae mor syml â hynny i bobl drafeili.

(Atodiad 6.3 : C6)

Pan yn ystyried dylanwad ieithyddol y cysylltiad â'r M4 dywedodd Brin Davies:

Mae'n siŵr o gael effaith ar Gymreictod yr ardal...Mae pobl yn *commuto* o Llan-non, Cross Hands, Gors-las, Dre-fach, gan eu bod yn agos i'r M4, sydd yn gweithio yng Nghaerdydd gan fod Caerdydd o fewn awr i Cross Hands. Mae nifer yn gweithio ym Mhen-y-bont. Mae'n flin 'da fi ddweud, o ran yr iaith mae'r pobl hyn yn dod o ardaloedd Seisnigaidd. Ond un peth da s'yn dod i'r wyneb yw mae 'na ddosbarthiadau dysgu Cymraeg yn Cross Hands, Cefneithin a'r Tymbl ddwywaith yr wythnos. Byddech yn synnu faint o bobl sy' am ddysgu'r iaith. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn parhau.

(Atodiad 7.4 : C4)

Croesawyd yr ymdrechion i ddarparu gwaith ar gyfer trigolion lleol, ond ar y llaw arall denwyd yma rhai o weithwyr y cwmnïau o ardaloedd eraill, gan gynnwys nifer o'r penaethaid. Dyma, i ddefnyddio geiriad Brin Davies, y '*top dogs*' a brynodd dai sylweddol yn y cyffiniau, yn Llan-non, Foelgastell a Maes-y-bont. Cyfeiriodd ef hefyd at y penderfyniad i godi dros 600 o dai yn Cross Hands. Gwnaed hyn i gyfarfod â'r cynnydd tebygol yn y boblogaeth, a mynegodd y Cynghorydd ei bryder ynglŷn ag effeithiau'r datblygiadau yn Cross Hands ar Gymreictod yr ardal:

Dwi ddim yn dweud ein bod yn colli tir, ond byddwn ni'n dweud mai colli tir y byddwn yn gwneud.

(Atodiad 6.2 : C5)

Wrth gyfweld â'r Cynghorydd am yr ail dro yn 2004 cefais wybod ganddo nad oedd y datblygiad hwn wedi cymryd lle eto ond y byddai'n debygol yn y dyfodol agos (Atodiad 7.4 : C3).

Ar yr un pryd, y mae diffygion y cysylltiadau y tu fewn i'r Cwm yn rhwystro rhai o'r Cymry Cymraeg lleol rhag cael swyddi yn y Parc Busnes. Pwysleisiodd Terry Davies yr anhawster i weithwyr nad oedd yn berchen ar geir i deithio o Bont-henri i Cross Hands, sef pellter o wyth milltir, gyda'r rheidrwydd i fynd ar y bws yn gyntaf i Lanelli cyn dal bws arall i Cross Hands. Yr oedd yn gryf o'r farn nad:

oes pwynt dweud ein bod yn buddsoddi a datblygu yn Cross Hands os nad yw pobl lawr yng ngwaelod y Cwm gyda'r cyfleusterau i deithio na'. Os nag oes car gyda pobl, mae'n anodd iddynt gael swyddi.

(Atodiad 6.3 : C5)

Tynnodd sylw at y gwahaniaeth rhwng y sefyllfa heddiw â'r un a fodolai yn y gorffennol:

yr oedd y gweithiau glo mor fawr fel eu bod yn cynnig gwasanaeth bysus i fynd â'r gweithwyr i'r gwaith. Yr oedd pobl yn dod i Gynheidre mor bell â Brynman a'r bysus yn pigo bobl lan ar y ffordd yn Llandybie a Cross Hands. Yn ogystal, yr oedd pobl o ardal Caerfyrddin a Llanelli yn dod i Gynheidre. Ond gyda'r unedau bach hyn, 'does dim trafndiaeth i fynd â phobl i'r gwaith.

(Atodiad 6.3 : C5)

4.4: Crefydd

Datblygodd cymdeithas glòs yng Nghwm Gwendraeth yn bennaf oherwydd natur y diwydiant glo gyda mwyafrif helaeth y boblogaeth yn ddibynnol arno. Yn ystod y cyfnod pan oedd y diwydiant glo lleol yn ei anterth, gweithiai nifer sylweddol o'r trigolion yn y glofeydd megis y

New Cross Hands, Blaenhirwaun, y *Great Mountain* yn Y Tymbl, a Phentre-mawr ym Mhontyberem. Medrent gerdded i'r gwaith, a hefyd i'r canolfannau crefyddol, addysgiadol ac adloniadol. Yr oedd cysylltiadau agos iawn rhwng eglwysi a chapeli'r Cwm â'r glofeydd lleol, ac adlewyrchir hyn gan astudiaeth o gapel Bethel, Cross Hands, yn perthyn i Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Rhoddwyd y tir ar gyfer adeiladu'r capel gan Evan Jones, perchen plasdy bychan Nantglas ger y capel, tiroedd eang yn y pentref a hefyd ystad Trimsaran yn cynnwys glofeydd a glofa'r *Crown* ym Mhwll, Llanelli. Gweithiai'r rhan fwyaf o'r aelodau gwrywaidd yn y glofeydd leol, a chwaraewyd rhan amlwg ym mywyd y capel gan newydd-ddyfodiaid i'r pentref, a ddenwyd gan y cyfleoedd i sicrhau gwaith. Yn eu plith yr oedd pedwar a gyfeiriwyd atynt uchod, yn y drafodaeth ar symudiad demograffig, sef Tom Jones, Cynwil, David Evans Llangeitho, Tommy Evans Goginan, a John Ebeneser. Effeithiwyd ar fywyd y capel gan yr anghydfod diwydiannol a chafwyd nifer o gyfeiriadau perthnasol yng nghofnodion y capel. Cofnodwyd adeg Cyfarfod Hanner-Blynyddol Ebrill 1921 'ac er fod y *Strike* wedi dechrau gwnaed casgliad hynod dda', yn 1925 yr oedd y casgliadau 'yn llawer llai nag arfer, a hynny yn ddiau oherwydd effeithiau y *Strike*', ac yn 1926 'Blwyddyn yw (sic) hir gofio fu y flwyddyn hyn. Bu y glofeydd yn segur am 7 mis, o fis Mai hyd ddiwedd Tachwedd, a'r oll o'r gweithwyr bron yn derbyn eu cymorth oddi wrth y Plwy'. Cyfeiriwyd at anghenion rhai o'r aelodau a chasglwyd tuag at aelodau hen a methiedig yn 1925 a chyflwynwyd rhoddion i bump o wragedd gweddw (Owen, 1982:11-12).

Cymraeg oedd iaith y cofnodion uchod, a Chymraeg yw iaith mwyafrif helaeth addoldai'r Cwm heddiw. Nid oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â'u cyfraniad pwysig i hybu cefnogaeth i'r iaith a diwylliant Cymraeg, a dangosir hyn mewn nifer o gyfraniadau yn y cyfrolau *Balchder Bro* a *Cyfes y Cymoedd; Cwm Gwendraeth* (er enghraifft Owen 1989b : 12-14, Davies 1989a : 76-80, Owen 2000a : 26-31). Dywedodd y Parchedig Brifathro D. Eirwyn Morgan: 'Crefydd a gafodd y lle blaenaf' ym mhentref Pen-y groes rhwng dauddegau a thriedegau'r

ugeinfed ganrif (Morgan 1989 : 23), a chrynhoir ei bwysigrwydd yn y frawddeg 'Mewn gair, cymdeithas capel ac eglwys-ganolog a fu cymdeithas Cwm Gwendraeth' (Davies 1989 : 77). Yn ei gyfweiliad pwysleisiodd y Parchg. Elwyn Jenkins gyfraniad y capel i greu cymdeithas glòs yn y gymdogaeth, ac yn arbennig felly i ddiogelu'r iaith Gymraeg:

Yr oedd y capel yn ffactor cryf iawn yn y gymdeithas. Yr oedd llawer mwy yn mynd i'r cwrdd y pryd hynny, a rhai yn arfer dweud bod y capel, pregethu o'r pulpud yn ffordd o gadw'r Gymraeg yn fyw. Yr oedd llawer o weithgarwch yn mynd ymlaen, cyfarfodydd diwylliadol yn yr wythnos, cwrdd gweddi, y seiat, gymanfa'r plant, i gyd yn y capel a cadw'r Gymraeg yn fyw yn rhywbeth mawr iawn.

(Atodiad 6.4 : C10}

Am flynyddoedd lawer, crefydd oedd canolbwynt bywyd cymdeithasol trigolion Cwm Gwendraeth. Nid yn unig ar y Sul y cynhaliwyd cyfarfodydd ond trefnwyd gweithgarwch bob noson o'r wythnos. Y Gymraeg oedd iaith y mwyafrif helaeth o'r cyfarfodydd hynny ac o ganlyniad yr oedd y trigolion lleol yn medru byw rhan bwysig o'u bywydau yn llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Ynghyd â'r oedfaon, yr oedd y capeli yn rhoddi cyfleon i bobl arddangos eu doniau mewn gwahanol feysydd diwylliannol a thrafodir hyn isod yn 7.5.

Mae addoldai'r ardal wedi gweld gostyngiad cynyddol yn eu haelodaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal, mae nifer y cyfarfodydd wedi lleihau yn yr addoldai ac felly pur anaml y ceir cyfle i gymdeithasu yn ystod yr wythnos. Er nad yw'r gefnogaeth iddynt mor gryf heddiw ag y bu yn y gorffennol, maent yn parhau yn ganolfannau egnïol a gweithgar, fel y dengys rhifynau cyfredol y papur bro, *Papur y Cwm*. Yn ogystal, yr oedd tystiolaeth yr holiaduron a ddosbarthais yn yr

ardal ac a drafodir ym Mhenodau 6 a 7 yn tanlinellu parhad pwysigrwydd crefydd ymhlith oedolion ac hefyd ieuenctid yr ardal, ac mae hyn yn wahanol i'r farn gyffredinol am ieuenctid yn troi eu cefnau ar grefydd. Honodd yr hanesydd D. Gareth Evans i ddylanwad y capeli fod yn 'pervasive' hyd at flynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif ac, er gwaethaf y gwanhau yn y blynyddoedd wedi' Rhyfel Fawr, i barhau i chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl hyd at yr 1940au (Evans 2000 : 4). Felly, nid yw hanes capeli Cwm Gwendraeth yn ystod y blynyddoedd diweddar yn cyfiawnhau y gosodiad hwn.

4.5 : Adloniant a neuaddau'r pentrefi

Bu cysylltiad agos rhwng yr addoldai lleol â digwyddiadau diwylliannol, a gwnaed defnydd helaeth gan eglwysi a chapeli'r Cwm o'r neuaddau a fu'n ganolfannau pwysig yn y pentrefi, megis yr un ym Mhontyberem a agorwyd yn 1904, Cross Hands yn 1905 a'r Tymbl yn 1913. Codwyd y neuaddau hyn yn bennaf drwy ymdrechion y glowyr a gyfrannai yn gyson tuag at eu cynnal a'u cadw. Fe'u defnyddiwyd gan drigolion y pentrefi hyn a hefyd y pentrefi cyfagos a darparwyd adloniant ynddynt mewn cyngherddau, dramâu a dawnsfeydd. Cyfeiriodd Terry Davies at apêl neuadd Cross Hands:

Pan oedd y neuadd yn ei ogoniant nid oedd e' byth yn gallu dibynnu dim ond ar Cross Hands. Yr oedd pobl Dre-fach, Gors-las, Cefneithin, Pen-y-groes, Tymbl a Chwm-mawr wastad yn gefnogol.

(Atodiad 6.3 : C9)

Cyflwynir astudiaeth fanwl gan Lyn T Jones o neuadd Cross Hands, a ymestynwyd yn 1913 gan ychwanegu ystafelloedd darllen, ystafell bwyllgor a byrddau ar gyfer chwarae snwcer a biliards (Jones 2000: 109-130). Defnyddiwyd y neuadd gan gapeli Bethel, Cross Hands; Bethania, Y Tymbl Uchaf; a Tabernacl, Cefneithin yn achlysurol ar gyfer cynnal oedfaon, a hefyd ar gyfer dramâu, cyngherddau ac *operattas*, lle

rhoddwyd cyfle i aelodau a phlant y capeli ymarfer ac arddangos eu doniau. Perfformiodd cwmni drama capel Bethel weithiau megis *Yr Oruchwyliaeth Newydd* ac *Ymgom yr Adar* mewn neuaddau ledled gorllewin Cymru. Yr oedd y cynhyrchiadau hyn a'r paratoi trwyadl ar eu cyfer yn cynrychioli gweithgarwch gymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Trefnwyd hefyd yn y neuadd ddramâu a chyngherddau gan gwmnïau ac unigolion o ardaloedd eraill, a buont yn gyfryngau effeithiol ar gyfer codi arian a dileu dyledion adeiladau'r capeli. Cymraeg oedd iaith y mwyafrif helaeth o'r gweithgareddau hyn, ac: 'Ar hyd y blynyddoedd, o'r ugeiniau tan y chwedegau, bu llif cyson o gwmnïau drama Cymraeg da yn ymweld yn rheolaidd â'r neuadd'. (Jones, 2000: 116). Yr oedd y cwmnïau hyn yn cynnwys y rhai a gysylltir â Dan Matthews, Pontarddulais, ac Edna Bonnell, y Pwll. Sefydlwyd y *Mynydd Mawr Council for the Arts* ar ddiwedd y tridegau ac yn ogystal â threfnu ymweliadau gan gwmnïau a noddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, llwyfannwyd hefyd ddramau Cymraeg megis *Y Ffordd*, gan T. Rowland Hughes, ac yn y pumdegau *Corn Beca* a *Lili'r Gwendraeth* gan y dramodydd lleol, Gwynne D. Evans. o Gefneithin. Cafwyd nifer o berfformiadau llwyddiannus a phoblogaidd gan gwmni Gwmni Theatr Cymru yn y blynyddoedd yn dilyn y cynhyrchiad o *Dawn Dweud* yn 1969. Cynhaliwyd cyngherddau, eisteddfodau a nosweithiau llawen dros y blynyddoedd, a gwnaed cyfraniad sylweddol i fwrlwm y traddodiadau corawl a diwylliant poblogaidd Cymraeg gan Gôr Meibion y Mynydd Mawr, ac artistiaid lleol megis Shoni a Iori, Jac a Wil, Ronnie Williams ac Elfed Lewis. Wynebwyd anawsterau dybryd am nifer o flynyddoedd, yn bennaf oherwydd yr angen i sicrhau cyllid i gynnal y neuadd ar ôl cau'r glofeydd a cholli cefnogaeth y diwydiant glo a bu'n rhaid cau'r neuadd yn 1984. Fe'i hail-agorwyd ym mis Ebrill 1996 a thrafodir y defnydd o'r neuadd yn y cyfnod ers hynny ym Mhennod 7.

Yn ystod cyfnod mwyaf llewyrchus y neuadd, o'r tridegau i'r chwedegau yn yr ugeinfed ganrif, darparwyd math arall o adloniant poblogaidd ym mhentref Cross Hands, sef y ffilmiau a ddangoswyd yn sinema'r *Capitol* ar Heol Llandeilo. Denwyd yma hefyd drigolion y pentref a phentrefi cyfagos, a chofia preswylwyr heddiw y torfeydd yn tyrru i'r sinema ar nosweithiau Sadwrn. Drwy'r cyfrwng yma llifodd diwylliant Eingl-Americanaidd i'r Cwm ond ni lwyddwyd i oresgyn her cystadleuaeth rhaglenni teledu a chaewyd y sinema nifer o flynyddoedd cyn cau'r neuadd. Bellach defnyddir y neuadd yn rhannol fel sinema, a thrafodir eto lwyddiant yr arbrawf ym Mhennod 7.

Un dull o adloniant sydd wedi parhau yn boblogaidd dros y blynyddoedd yw'r gefnogaeth i glybiau rygbi'r Cwm, megis Cefneithin, Y Tymbl a Phontyberem. Cymraeg oedd yr iaith a ddefnyddiwyd gan fwyafrif helaeth aelodau'r timau hyn, ac mae felly yn arwyddocaol mai mewn cyfrol Gymraeg, *Dyddie Dathlu*, y croniclwyd hanes Clwb Rygbi Pontyberem adeg dathlu canmlwyddiant y clwb yn 1995. Y mae is-deitl y gyfrol hon, sef 'Golwg ar y Pentre' yn tanlinellu'r cysylltiad agos rhwng y clybiau rygbi a bywyd y pentrefi yng Nghwm Gwendraeth. Bu'r Parchg. Elwyn Jenkins yn chwarae rygbi i'r Tymbl ac yna i Lanelli ac Abertawe ym mhymdegau'r ugeinfed ganrif. Pan ofynnwyd iddo am y defnydd o'r Gymraeg yn y timau hyn, dywedodd:

Y Gymraeg oedden ni'n siarad yn bennaf. Yr oedd llawer iawn o Gymraeg. Wrth gwrs yr oedd ambell un yn dod heb ei fagu yn yr ardal yn chwarae i'r Tymbl ac efallai y byddem ar adegau yn siarad Saesneg. Ond yn gyffredinol, y Gymraeg oedd yr iaith yno ac hefyd i raddau helaeth yn Lanelli... Wrth gwrs, yr oedd yna ambell un ddim yn gartrefol yn y Gymraeg. Ond yr oedd hi'n wahanol pan es i ware yn Abertawe -yr oedd mwy o Saesneg yn cael ei siarad er bod ychydig o Gymraeg yn cael ei siarad.

(Atodiad 6.4 : C11)

4.6 Addysg

Cyflwynwyd eisoes yn y bennod hon, a hefyd ym Mhennod 3, gyfeiriadau at yr ysgolion lleol yn gyfryngau i hybu'r iaith Saesneg. Yn ddiamau dyma un o ganlyniadau effeithiau niweidiol Llyfrau Gleision 1847 a Deddf Addysg 1870. Darparwyd addysg ddyddiol yn ystod blynyddoedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Ysgol Genedlaethol Llan-non ac Ysgolion y Bwrdd ym Mryn-du, Llan-non, Pontyberem a Llechyfedach, y Tymbl Uchaf. Rhoddwyd pwyslais yn yr ysgolion hyn ar ddysgu Saesneg i blant uniaith Gymraeg, gyda dysgu a chydadrodd darnau ar y cof yn elfen bwysig o'r ddarpariaeth addysgiadol. Yr oedd cyn-ddisgyblion Ysgol Bryn-du yn cynnwys R. R. Williams, Is-gyfarwyddwr Addysg y Rhondda a luniodd bolisi iaith oleuedig ar gyfer y Rhondda tra'n Is-gyfarwyddwr Addysg yno, a'r Parchg. William Jones, Aberdulais, Gweinidog amlwg gyda'r Methodistiaid Calфинаidd a fynegodd ei werthfawrogiad o'i brifathro tra yn yr ysgol (Gibbard 1984a : 68-76, Treharne 1989 : 122-4).

Serch hynny, y mae nifer o gyfeiriadau yng nghofnodion Cyfrifiadau 1891 a 1901 yn awgrymu awyrgylch Saesneg ysgolion lleol. Tynnwyd sylw at athrawon a siaradai Saesneg yn unig, megis William Evans, ysgolfeistr pentref Llan-non. Hefyd, cofiodd nifer o'r rhai a gofnododd eu hargraffiadau am eu magwraeth y profiad anffodus o dderbyn eu haddysg mewn sefydliadau Saesneg er gwaethaf cymeriad cwbl Gymraeg y cymunedau y'u maged ynddynt. Diddorol felly yw cymharu sylwadau dau weinidog amlwg, un ym mhen ucha'r Cwm a'r llall ynghanol y Cwm. Er i'r Parchg. Brifathro D. Eirwyn Morgan sôn yn 1970 am ei fagwraeth ym mhentref 'gwbl Gymreig' Pen-y-groes, gyda rhai o'r trigolion yn uniaith, ' yr oedd yr Ysgol Saesneg yn lled Saesneg' (Morgan 1989: 19). Ym marn y Parchg. Athro Cyril G. Williams ' Y Gymraeg oedd iaith capel, cegin, cae chwarae ac eisteddfod' ym Mhont-iets, ond eto ' yr eithriad oedd yr ysgol, gan y tybiwyd bod Saesneg ac addysg yn gyfystyr ac mai cymwynas oedd ein paratoi ar gyfer galwadau'r byd mawr' (Williams 1989 : 75-6). Yr oedd hyn yn wir hefyd

am ysgolion uwchradd y Cwm gyda phob pwnc ar wahân i'r Gymraeg yn cael ei ddysgu drwy'r Saesneg hyd at chwedegau'r ugeinfed ganrif. Erbyn heddiw mae'r sefyllfa wedi newid eto yn dilyn sefydlu Ysgol Ddwyieithog Maes-yr-Yrfa yn 1983 a chydabod y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd yn Ysgolion 'Categori A' yn strwythur addysg sir Gaerfyrddin. Erbyn 2005, yr oedd 70 ysgol 'Categori A' yn y sir a saith ysgol Gymraeg, lle ceir addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a chyflwyniad i'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Ceir 33 o ysgolion categori B a 15 ysgol categori A/B, ond tueddir gweld bod y ffrwd Gymraeg yn fwy cryf na'r ffrwd Saesneg yn yr ysgolion hynny (www.sirgar.gov.uk). Trafodir ym Mhenodau 6 a 7 yr ymatebion i'r holiaduron a ddosbarthwyd i ddisgyblion Ysgol Gyfun y Gwendraeth ac Ysgol Ddwyieithog Maes-yr-Yrfa, a rhieni a disgyblion Ysgol Gynradd Cross Hands.

Nid oes amheuaeth ynglŷn â phwysigrwydd y diwydiant glo fel prif gynheiliad economi Cwm Gwendraeth yn ystod y rhan fwyaf o'r ganrif dan sylw, gyda mwyafrif helaeth y trigolion lleol yn gweithio yn y diwydiant glo a nifer o'r gweddill hefyd yn ddibynnol arno. Meddir rhannu'r ganrif yn bedwar cyfnod allweddol sef 1891-1911; 1912-39; 1940-70; a 1971-91. Yn ystod yr ugain mlynedd gyntaf, o 1891 hyd 1911, cyfrannodd y Cwm, ynghyd â gweddill Maes Glo Carreg y Gorllewin, yn sylweddol at sicrhau mai De Cymru oedd un o'r ardaloedd diwydiannol mwyaf ffyniannus ym Mhrydain. Llwyddwyd i gymhathu nifer o'r newydd-ddyfodiaid, er gwaethaf y tensiynau a amlygwyd adeg Terfysg y Tymbl yn 1893. Profwyd anawsterau economaidd yn ystod yr ail gyfnod, o 1912 tan 1939, ond er gwaethaf y dirwasgiad bu hwn, megis y cyfnod cyntaf, ac hefyd y trydydd cyfnod, yn un o ffyniant ieithyddol a diwylliannol gyda'r addoldai a'r neuaddau yn ganolfannau pwysig ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Yn y trydydd cyfnod, o 1940 hyd 1970, gwelwyd patrymau cymhleth yn datblygu, gydag agor glofa Cynheidre, mudo glowyr o Durham a'r Alban i'r ardal, a chau'r hen lofeydd yng Ngharwe,

Pontyberem, Y Tymbl, Blaenhirwaun a Cross Hands. Yn sgîl llwyddiant, a hefyd methiannau'r diwydiant glo, datblygodd cymdeithas glòs, i raddau oherwydd i gymaint o'r gwŷr gyd-weithio'n agos mewn sefyllfaoedd peryglus gyda thrychinebau achlysurol yn clymu ynghyd y gymuned. Daeth trigolion y pentrefi at ei gilydd mewn sefyllfaoedd gwaith, addoli, gweithgareddau diwylliannol ac ar y maes chwarae, lle mynegwyd eu dyheadau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yn ystod y pedwerydd cyfnod, o 1971 tan 1991, rhyddhawyd rhai o'r clymau gyda dirywiad, ac yna dranc y diwydiant glo lle'r oedd y Gymraeg yn iaith y gwaith. Sylweddolwyd bod angen cynheiliaid newydd i'r Gymraeg yn sgîl gwanhau y rhai traddodiadol. Er i'r ardal barhau i fod yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, a'r ysgolion bellach yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith, yr oedd yr ymwybyddiaeth o'r angen i ddiogelu'r iaith yn rhan o'r cefndir i sefydlu Menter Cwm Gwendraeth.

PENNOD 5: MENTER CWM GWENDRAETH: Y FENTER IAITH GYNTAF YNG NGHYMRU

Ymwybyddiaeth o effeithiau niweidiol y datblygiadau cymdeithasol a diwylliannol yng Nghwm Gwendraeth fu'n gyfrifol am y penderfyniad i sefydlu Menter Cwm Gwendraeth yn 1991. Nid oes amheuaeth nad yw sefydlu'r mentrau iaith ymhlith y datblygiadau mwyaf diddorol ac allweddol yn yr ymdrech i warchod y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Eu bwriad yw hybu datblygiad yr iaith gan ystyried yn ofalus y cefndir cymdeithasol, a chysylltu'r iaith gydag adfywiad cymunedol (Jones & Williams 2000 : 69). Y mentrau iaith yw un o brif bartneriaid Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn ystod y flwyddyn ariannol 2004-05, mae'r Bwrdd yn dyrannu £1.4 miliwn i'r mentrau iaith. Yn dilyn llwyddiant Menter Cwm Gwendraeth, sef y fenter iaith gyntaf, gwelwyd mentrau iaith yn cael eu sefydlu ledled Cymru ac erbyn 2005 mae 25 o fentrau yn weithgar mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Bu nifer o ymchwilyr mewn amrywiol brifysgolion yn dadansoddi'r mentrau iaith gan gynnwys Menter Cwm Gwendraeth. Yn ogystal, y ddau brif waith a wnaed mewn perthynas â'r mentrau iaith oedd *Y Cynllun Cymunedol* gan Colin Williams a Jeremy Evas yn 1997 a'r *Arolwg Mentrau Iaith Cymru 2000* gan Kathryn Jones a Gareth Ioan o gwmni *Iaith Cyf* a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn y bennod hon, bwriadaf ystyried cefndir sefydlu Menter Cwm Gwendraeth yn 1991, datblygiad y Fenter, y newidiadau a fu i Fenter Cwm Gwendraeth yn dilyn sefydlu Mentrau Iaith Myrddin yn 1998, ac asesiad o effeithiolrwydd Menter Cwm Gwendraeth a'r mentrau iaith yn gyffredinol ynghyd â datblygiad Mentrau Iaith Cymru.

Ym Mhenodau 6 a 7 ceir dadansoddiad manwl o ganlyniadau gwaith maes y cynhaliais yng Nghwm Gwendraeth ar ddiwedd nawdegau'r ugeinfed ganrif. Fel rhan o'r gwaith maes, dosbarthais holiaduron i drigolion yr ardal ac yr oedd rhan o'r holiadur yn naturiol yn ymdrin â Menter Cwm Gwendraeth. Fel y nodir yn y ddwy bennod ddilynol er bod cefnogaeth gyffredinol i

fodolaeth a gwaith y Fenter, nid oedd y mwyafrif a oedd yn rhan o'r sampl a lenwodd yr holiaduron wedi mynychu gweithgareddau'r Fenter yn ystod y 6-12 mis blaenorol. Fel yr amlinellir yn y dadansoddiad yr oedd rhesymau penodol i gyfrif am hynny gan gynnwys rhesymau gwleidyddol.

Cyfeiriwyd ym Mhennod 1 at y cyfweiliadau dwys a gynhaliais yn yr ardal fel rhan o'r gwaith maes a thrafodwyd pam y dewiswyd y bobl hyn a'u rôl fel arweinwyr lleol sef '*gatekeepers*'. Yng nghyd-destun y bennod hon yr oedd y cyfweiliadau dwys yn fy ngalluogi i sicrhau gwybodaeth allweddol am waith a chyfraniad Menter Cwm Gwendraeth gan unigolion oedd â chysylltiad uniongyrchol ar wahanol lefelau yng ngwaith y Fenter, ac eraill a oedd mewn sefyllfa i ystyried effaith gwaith y Fenter. Dewiswyd yr unigolion hynny yn ofalus a chynhaliwyd y cyfweiliadau ar ddechrau a diwedd y gwaith maes er mwyn cael darlun cyflawn o'r gwaith a wnaed i adfywio'r iaith yn lleol dros gyfnod o amser. Pan fûm yn cyfweld Cefin Campbell am y tro cyntaf yn 1998 yr oedd yn Gyfarwyddwr Menter Cwm Gwendraeth ond erbyn i mi ei gyfweld am yr ail dro yn ystod 2004, yr oedd bellach yn Gyfarwyddwr Mentrau Iaith Myrddin â chyfrifoldeb am fentrau iaith eraill yn sir Gaerfyrddin ynghyd â Menter Cwm Gwendraeth. Felly, yr oedd ei gyfrifoldebau erbyn yr ail gyfweiliad wedi newid ac yn ehangach ond yr oedd yn parhau yn unigolyn allweddol yn natblygiad y mentrau iaith yn lleol. Yn yr un modd, yr oedd Deris Williams, sef olynnydd Cefin Campbell fel Cyfarwyddwr Menter Cwm Gwendraeth, ynghyd â Terry Davies a fu'n gyfrifol am waith cymunedol y Fenter, yn unigolion allweddol yn natblygiad y Fenter ac yn y broses o adfywiad ieithyddol yn lleol. Felly, yr oedd y tri unigolyn ar wahanol adegau â chysylltiad uniongyrchol yng ngwaith y Fenter o ddydd i ddydd. Yr oedd y cyfweiliadau â gynhaliais â'r Cynghorwyr Eirwyn Williams a Brin Davies yn fy ngalluogi i sicrhau gwybodaeth allweddol am gyfraniad y Fenter ar lefel lleol a sirol. Er bod y Cynghorydd Eirwyn Williams yn Gadeirydd Mentrau Iaith Myrddin yr oedd hefyd yn gyfrifol am bolisïau'r iaith Gymraeg ar Gyngor Sir Gaerfyrddin ac felly yr oedd mewn sefyllfa i ystyried gwaith y mentrau iaith yng nghyd-destun polisïau ehangach y Cyngor i gynnal a hybu'r iaith. Ar y llaw arall, yr oedd y ddau gyfweiliad a gynhaliais â'r Cynghorydd Brin Davies,

fu'n cynrychioli pentref Cross Hands ar Gyngor Sir Caerfyrddin, yn gyfle i holi am gyfraniad Menter Cwm Gwendraeth ar lefel mwy lleol ym mhentref Cross Hands. Yr oedd y cyfweiliad â Bethan Roberts o Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyfle i sicrhau gwybodaeth am waith a chyfraniad Menter Cwm Gwendraeth yn y broses o gynnal ac adfywio'r iaith ar lefel gymunedol yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth y Cynulliad. Felly, yr oedd yr unigolion a ddewiswyd gennyf ar gyfer y cyfweiliadau dwys yn rhai ar wahanol lefelau a fyddai mewn sefyllfa i ddarparu gwybodaeth allweddol am gyfraniad y Fenter ers ei sefydlu i adfywio'r iaith yn lleol.

Fel y nodwyd ym Mhennod 1, ac a bwysleisir yn y gyfrol *Y Cyffro yn y Cwm*, a gyhoeddwyd gan Fenter Cwm Gwendraeth yn 2001 (John: 2001), cefndir sefydlu Menter Cwm Gwendraeth yn 1991 oedd ymweliad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd â Chwm Gwendraeth yn 1989. Felly, deilliodd sefydlu Menter Cwm Gwendraeth yn uniongyrchol o'r gymuned leol yn sgîl yr hwb a gawsant gan ymweliad yr Eisteddfod. Nid oes amheuaeth nad oes rhai eisteddfodau yn cael effaith mwy trawiadol ar y boblogaeth leol nag eraill, ac yr oedd Eisteddfod 1989 yn sicr yn un o'r rhain. Bwriad Menter Cwm Gwendraeth oedd ceisio adeiladu ar y sylfeini hynny er mwyn sicrhau parhad y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth. Er bod y Fenter yn awyddus i barhau â'r brwdfrydedd a ddatblygodd wrth baratoi ar gyfer yr Eisteddfod, bu'n rhaid i'r Fenter ystyried yn ofalus pa drywydd yr oedd y Fenter yn mynd i'w dilyn. Cyfeiriodd Cefin Campbell, cyfarwyddwr cyntaf Menter Cwm Gwendraeth sydd bellach yn gyfarwyddwr Mentrau Iaith Myrddin, at hyn yn y cyfweiliad a gynhaliwyd yn Swyddfa Menter Cwm Gwendraeth ar 10 Chwefror 1998:

Pan ddechreuais i ar y swydd yr oedd angen i ni dorri ar yr hen feddylfryd o godi arian mewn pwyllgorau apêl, i drefnu gweithgareddau ar werth eu hunain, nid at bwrpas codi arian. Felly, yr oedd rhaid newid yr holl feddylfryd ynglŷn â phwrpas y Fenter hon a chymerodd hi dipyn o amser i ni wneud hynny ar y dechrau. 'O'n i'n awyddus i bobl weld bod trefnu gweithgareddau cymdeithasol yn

rhan o raglen adfywio ieithyddol, nid er mwyn codi arian. Ond hefyd wrth gwrs yr oedd angen i ni gplysu rhaglen o weithgarwch cymunedol gydag agwedd mwy proffesiynol at gynllunio ieithyddol lle 'ro'n ni'n ymchwilio i'r angen, yn nodi bylchau mewn darpariaeth ac yn ystyried y galw am fuddsoddiad ieithyddol. Yr oedd hynny'n golygu gwaith paratoi, ymgynghori ac ymchwilio manwl cyn bo ni'n bwrw ati i lansio unrhyw brosiectau.

(Atodiad 6.1: C3)

Gellir dadlau (ac yn wir codwyd cwestiynau gan rhai beirniaid) ei bod yn gryn syndod bod angen ariannu sefydliad a oedd i warchod yr iaith Gymraeg a hynny mewn ardal a oedd yn parhau yn un o gadarnleoedd y Gymraeg gyda dros 70 y cant yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 1991. Fodd bynnag, fel y pwysleisiwyd eisoes, yr oedd y ffin ieithyddol wedi symud ymhellach i'r gorllewin ar ddechrau nawdegau yr ugeinfed ganrif, ac yn wir, ym mlynnyddoedd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain ac mae gwarchod y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth ac ardaloedd cyfagos yn allweddol i ddyfodol y Gymraeg ledled Cymru.

Y ddau gorff a fu'n gyfrifol am sefydlu Menter Cwm Gwendraeth oedd y Bwrdd Iaith Ymgynghorol a Chyngor Sir Dyfed. Nid oedd hawl gan y Bwrdd Iaith Ymgynghorol i ddarparu grantiau ond gwelwyd hwy'n cynghori'r Swyddfa Gymreig i wneud hynny. Felly, pan lawnsiwyd Menter Cwm Gwendraeth ar 1 Ionawr 1991 derbyniwyd cymorth ariannol oddi wrth y Swyddfa Gymraeg am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Derbyniodd y Fenter £40,000 yn y lle cyntaf a chynyddodd y grant i £73,037 yn 1991-92. Yn sgîl *Mesur yr Iaith* 1993, trosglwyddwyd y Fenter i ofalaeth y Bwrdd Iaith statudol.

Gellir rhannu hanes Menter Cwm Gwendraeth i ddau gyfnod penodol:

1991-1998: Menter Cwm Gwendraeth

1998-2004 : Sefydlu Mentrau Iaith Myrddin a'r newidiadau i Fenter Cwm Gwendraeth yn sgîl y datblygiad hwn.

Cyflwynwyd Strategaeth wreiddiol Menter Cwm Gwendraeth o dan y penawdau isod:-

1. Yr Iaith Gymdeithasol
2. Statws i'r Iaith
3. Addysg a'r Gymraeg
4. Ymwybyddiaeth Ieithyddol
5. Tai a Chynllunio
6. Datblygu Economaidd
7. Ymchwil

Er bod strategaeth y Fenter wedi datblygu'n sylweddol ers ei sefydlu, byddaf yn trafod yr hyn a gyflawnwyd yng nghyd-destun y pynciau uchod. Amhosibl fyddai ystyried pob agwedd o'r hyn a gyflawnwyd gan y Fenter ond ceisiaf grynhoi'r prif feysydd gwaith.

5.1 Yr Iaith Gymdeithasol.

Ym Mhennod 4, trafodwyd cyfraniad nifer o'r sefydliadau fu'n cynnal y Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif megis y capeli a'r neuaddau pentref a'r dirywiad a fu yng ngweithgareddau cymdeithasol yr ardal drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ddi-os, bwriad Menter Cwm Gwendraeth oedd ceisio llenwi'r gwagle hwn drwy drefnu gweithgareddau cymdeithasol megis cyngherddau, dramâu a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Eto, mae'r Fenter wedi ceisio cynnal cynifer o'u gweithgareddau â phosib mewn mannau megis tafarndai a chlybiau, lle na chysylltwyd y Gymraeg yn draddodiadol, yn hytrach na chapeli a neuaddau cyhoeddus. Bwriad y Fenter oedd ceisio cyrraedd y bobl hynny a oedd yn siarad yr iaith, ond a oedd heb efallai ymwneud â'i diwylliant. Er bod ambell i ymateb a ddaeth i'r wyneb yn ymchwil Llinos Dafis, *Ymwybyddiaeth*

Cyffredinol o Fenter Cwm Gwendraeth, ei gweithgarwch a'i hamcanion, yn nodi bod 'Gormod o bethe mewn tafarne', bu'n rhaid i'r Fenter gynnal eu gweithgareddau yn y mannau hynny a oedd yn mynd i ddenu cynulleidfaoedd. Yn wir, profwyd hyn gan ymchwil Heini Gruffudd o Adran Addysg Barhaus Oedolion, Prifysgol Abertawe, *Y Gymraeg a Phobl Ifainc* (1996). Dangosodd yr astudiaeth hon o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ymysg oedolion ifanc Gorllewin Morgannwg a Dwyrain Dyfed mai tafarndai a chlybiau yw prif ganolfannau cymdeithasol ieuenctid yr ardal.

Tabl 5.1: Amllder mynychu canolfannau a gweithgareddau:-

	Byth		Ambell Waith		Misol		Wythnosol	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Capel, eglwys	160	48.6	96	29.2	34	10.3	39	11.9
Dawns, disgo	16	4.9	104	31.6	118	35.9	91	27.7
Chwaraeon	51	15.5	105	32.0	55	16.8	117	35.7
Tafarn, clwb	29	8.8	71	21.6	77	23.5	151	46.0
Yr Urdd	221	67.4	98	29.9	8	2.4	1	0.3
Ffermwyr Ifainc	304	94.1	10	3.1	4	1.2	5	1.5
Cymdeithasau eraill	250	76.5	41	12.5	13	4.0	23	7.0
Cymdeithasau hobi	170	52.1	72	22.1	30	9.2	54	16.6
Sinema	11	3.3	158	48.0	140	42.6	20	6.1

(Gruffudd 1996 : 101)

Gwnaed arolwg hefyd o'r defnydd o'r Gymraeg yn y mannau a nodir:

Tabl 5.2 : Defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliadau perthnasol

	Cyfan		Mwy na 1/2		Tua 1/2		Llai na 1/2		Fawr ddim	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Capel, eglwys	104	57.5	19	10.5	17	9.4	13	7.2	28	15.5
Dawns, disgo	17	5.4	26	8.3	56	17.9	80	25.6	133	42.6
Chwaraeon	20	7.3	36	13.1	44	16.1	85	31.0	89	32.5
Tafarn, clwb	17	5.8	40	13.6	49	16.7	75	25.5	113	38.4
Yr Urdd	53	45.7	32	27.6	12	10.3	5	4.3	14	12.1
Ffermwyr Ifainc	10	28.6	3	8.6	1	2.9	1	2.9	20	57.1
Cymdeithasau eraill	9	10.0	9	10.0	10	11.1	19	21.1	43	47.8
Cymdeithasau hobi	19	11.7	11	6.7	33	20.2	37	22.7	63	38.7
Sinema	20	6.4	27	8.7	44	14.1	65	20.9	155	49.8

(Gruffudd 1996 : 102)

Mae'n ddiddorol nodi mai crefydd yw'r unig bau amlwg y tu allan i'r system addysg, lle mae gan y Gymraeg flaenoriaeth dros y Saesneg ymhob ardal. Eto fel y dywed Heini Gruffydd:-

Yn anffodus nid yw hi'n agos cyn gryfed â'r peuoedd adloniant a chymdeithasu poblogaidd, a gall cysylltu'r Gymraeg â'r bau hon atgyfnerthu'r syniad fod y Gymraeg yn perthyn i fyd diwylliant a thraddodiadau'r gorffennol yn hytrach nag i fyd modern ieuencid.

(Gruffudd 1996 : 104)

Ni ellir gwadu bod staff y Fenter wedi canolbwyntio llawer o'u hymdrechion yn ystod y blynyddoedd cynnar ym maes adloniant. Rhwng Ebrill 1991 a Mawrth 1996 trefnwyd pum cant o weithgareddau cymdeithasol gan y Fenter:- 234 gan y Fenter yn ganolog a 266 gan bobl leol. Yr hyn sy'n

galonogol i'r Fenter yw bod nifer o glybiau bellach yn darparu gweithgareddau eu hunain. Dyma'n union beth yr oedd y Fenter eisiau gweld yn digwydd, oherwydd yn y blynyddoedd cyn ei sefydlu, bu gostyngiad yn nifer y gweithgareddau a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod dal angen rôl gydlynol Menter Cwm Gwendraeth, cadarnhaodd Deris Williams wrth ei chyfweld yn 2004 bod nifer cynyddol o ddigwyddiadau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu trefnu yn naturiol:

Mae'n dal i ddigwydd ond braf yw nodi bod mudiadau, cymdeithasau, clybiau rygbi a chwaraeon ac yn y blaen yn trefnu gweithgareddau eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn hyn a dyna oedd y nod. Er enghraifft, yng Ngŵyl y Gwendraeth ym mis Mai 2004, ac mae braslun o'r rhaglen eisoes wedi ei llunio, mae bron bob noson yn y rhaglen 'na yn perthyn i rhyw fudiad lleol yn y gwahanol bentrefi. Nid ni sy'n trefnu yn uniongyrchol ond yn hytrach cydlynu'r cyfan. Rwy'n meddwl mai rhyw ddwy noson allan o ddeg sy'n perthyn i ni yn benodol.

(Atodiad 7.2 : C5)

Yn ddi-os, uchafbwynt gweithgareddau cymdeithasol y Fenter yw'r ŵyl flynyddol, 'Gŵyl y Gwendraeth' sef wythnos o ddigwyddiadau diwylliannol Cymraeg a gynhelir bob mis Mai. Cynhaliwyd yr Ŵyl am y tro cyntaf yn 1992 ac yn flynyddol ers hynny ar ddechrau mis Mai. Mae oddeutu pedair mil o bobl yn mynychu'r Ŵyl bob blwyddyn ynghyd â rhwng 900 i fil o bobl sy'n cymryd rhan mewn cwisiau pentrefol sy'n rhan o'r Ŵyl ac sy'n hynod o boblogaidd (Campbell 2000 : 275-276). Yn ogystal, ym mis Ionawr 1996 lawnsiwyd 'Gŵyl Werin Menter Cwm Gwendraeth' ac yn sgîl ei llwyddiant cynhaliwyd yr ŵyl yn flynyddol.

Yn ddi-os, agwedd bwysig o weithgarwch Menter Cwm Gwendraeth yw'r pwyslais a roddir ar waith ieuenctid. Cyfeiriwyd mewn adroddiad ar ddechrau'r nawdegau at ddiweithdra i rai dan 25 oed yn agosáu at 30 y cant. Dangosodd arolwg TEC Gorllewin Cymru (sefydliad hyfforddiant ac addysg)

fod 'Ardal Teithio i'r Gwaith' Llanelli, sy'n cynnwys rhannau helaeth o Gwm Gwendraeth, yn dioddef cyfradd ddiweithdra o 11.2 y cant. Yr oedd y sefyllfa yma yn waeth nag yn Abertawe (9.6 y cant), a Chaerfyrddin (3.7 y cant). Eto, gwnaed cyfraniad at economi'r ardal gan Barc Busnes Cross Hands gyda chynnydd sylweddol yn lleol yn nifer y swyddi ar gyfer merched, a chreu swyddi adwerthu i fwy na 1,000 o bobl, y rhan fwyaf yn weithwyr rhan amser (Tec Gorllewin Cymru 1991 : 9). Canlyniad anochel hyn yw'r ymdeimlad o anobaith a'r diffyg ysgogiad sy'n nodweddu'r gymdeithas yn gyffredinol. Nid oes syndod nad yw problemau cymdeithasol megis alcoholiaeth a chamddefnydd o gyffuriau yn brigo i'r wyneb yn y fath amgylchiadau. Felly, gobeithir bod y gweithgareddau amrywiol a drefnir gan y Fenter yn llwyddo i leihau ychydig ar ddifflastod y bobl ifanc.

Nid oes amheuaeth nad oedd penodi Swyddog Datblygu Ieuenctid Menter Cwm Gwendraeth yn mis Medi 1992 yn gam pwysig yn natblygiad y Fenter. Noddwyd y swydd am gyfnod cychwynnol gan gwmni *British Telecom*. Cyn dyfodiad y Fenter yr oedd prinder amlwg yn y ddarpariaeth ar gyfer ieuenctid Cwm Gwendraeth, gyda phrinder cyllid ac adnoddau yn cyfrannu at hyn. Felly, yr oedd y Swyddog Ieuenctid yn wynebu tasg aruthrol wrth geisio creu darpariaeth ar gyfer y grŵp eang 4-25 oed. Sylweddolai'n syth fod yn rhaid iddo drafod ei gynlluniau gyda ieuenctid yr ardal cyn dechrau trefnu gweithgareddau ar eu cyfer. Felly, sefydlwyd Pwyllgor Ieuenctid Menter Cwm Gwendraeth, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau yn y Cwm a oedd yn weithgar ym maes ieuenctid. Serch hynny, sylweddolwyd yn fuan bod angen cylch ehangach o bobl i fynegi eu barn. Yn ogystal, yr oedd cyfarfodydd gyda'r nos yn peri problemau trafndiaeth i nifer o gynrychiolwyr iau y pwyllgor. Er mwyn goresgyn y problemau uchod sefydlwyd Fforymau Ysgol yn yr ysgolion uwchradd lleol. Maent yn cyfarfod fesul blwyddyn ysgol tua unwaith y tymor. Mae'r fforymau hyn yn gyfle i gynnig syniadau o'r newydd i'r Fenter ac i werthuso'r hyn a drefnwyd eisoes. Yn ogystal, yr oedd yr holiaduron a ddarparwyd, megis yn y nosweithiau 'roc', yn werthfawr i'r Fenter fesur datblygiad ac i weld os oeddent yn denu cynulleidfa newydd. Eto y grŵp oedran 18-24 oedd yr anoddaf i'r Fenter i'w chyrraedd. Er bod rhai â phlant yn

y grŵp oedran hwn nid yw'r mwyafrif mewn cysylltiad ag ysgol, chlwb neu gymdeithas.

Bu'n rhaid i'r Swyddog Ieuenctid gydweithio gyda mudiadau ieuenctid eraill yr ardal megis Urdd Gobaith Cymru, y Ffermwyr Ifanc, y Sgowtiaid a'r Groes Goch. Gellir dadlau pe fyddai cyrff megis yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc wedi bod yn llwyddiannus wrth ddarparu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer ieuenctid Cwm Gwendraeth na fyddai bodolaeth y Fenter wedi bod yn angenrheidiol. Fodd bynnag, nifer fechan o'r rhai dros un ar bymtheg oed sy'n mynychu'r ddwy adran o'r Urdd sydd yng Nghwm Gwendraeth. Er bod aelwydydd o'r Urdd yn darparu mewn enw i ieuenctid dan bump ar hugain oed, anaml y gwelir neb yn hŷn nag oed addysg orfodol yn cymryd mantais o'u gweithgareddau. Serch hynny, ni ellir diystyru cyfraniad yr aelwydydd yn eu darpariaeth a'u hymdrech ar gyfer disgyblion ysgol, â'r arweinwyr yn gweithredu'n wirfoddol. Mae'r pum Clwb Ffermwyr Ifanc lleol yn darparu ar gyfer pobl ifanc rhwng 13-26 oed a'r Gymraeg yma eto, yn yr un modd ag yn aelwydydd yr Urdd, yw'r brif iaith a ddefnyddir. Cyfeiria Heini Gruffydd yn ffafriol at deyrngarwch aelodau hŷn y clybiau hyn:-

Mae llwyddiant y Clybiau hyn yn gwrthgyferbynu'n ffafriol â'r aelwydydd yn y modd y denant ac y cadwant y bobl ifanc ymysg eu rhengoedd.

(Gruffudd 1996 : 51)

Dadl swyddogion y Fenter yw mai llenwi bylchau fu'r Fenter yn hytrach na dyblygu gwaith mudiadau eraill. Cyfeiriodd Deris Williams at hyn a phwysleisiodd bod bellach strwythurau mewn lle i sicrhau bod pob corff yn cydweithio i ddiwallu anghenion ieuenctid Cwm Gwendraeth:

Na, fydden ni byth yn cymryd eu rôl drosodd gan y byddai hynny yn dyblygu gwaith. Yng Nghwm Gwendraeth, yr ydym wedi sefydlu Pwyllgor Plant a Phwyllgor Ieuenctid i'r Cwm sy'n cyfarfod bob deufis. Mae'r Pwyllgor Plant yn cynnwys

darparwyr sy'n cynnig gwasanaethau i blant a theuluoedd ifanc ledled y Cwm gan gynnwys Mudiad Ysgolion Meithrin, Twf, yr Urdd, Cymdeithas Plant Dewi, *Homestart*, *Sure Start* - Cychwyn Cadarn sy'n targedu plant difreintedig iawn. . . . 'Ry'ni wedi gwneud union yr un peth ym maes ieuenctid. Mae gyda ni bwyllgor sy'n cynnwys y Cyngor Sir, Gwobr Dug Caeredin, Barnardos, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, pawb yn eistedd o gwmpas y ford i rannu arbenigedd a phrofiadau a cheisio cydlynu prosiectau ar y cyd i sicrhau ein bod yn cynnwys gwasanaeth gyflawn i ieuenctid y Cwm.

(Atodiad 7.2 : C6)

Felly, er mai'r Fenter sy'n cydlynu nifer o'r pwyllgorau uchod ynghyd â gweithgareddau eraill mae'n amlwg ei bod yn ceisio gweithio mewn partneriaeth ac mae hyn yn holl bwysig.

Nid oes amheuaeth nad yw cerddoriaeth gyfoes yn elfen amlwg a phwysig ym mywydau ieuenctid. Yn wir, yr oedd dawnsfeydd a 'disgos' yn rhan annatod o ddarpariaeth y Fenter i bobl ifanc Cwm Gwendraeth, a thrwy gyflwyno cerddoriaeth 'roc' Gymraeg ceisiodd y Fenter godi ymwybyddiaeth o fodolaeth y Sîn Roc Gymraeg a dileu'r ragfarn mai canu traddodiadol yw'r unig fath o ganu Cymraeg. Cafodd y dawnsfeydd a'r 'gigs' a drefnwyd gan y Fenter eu cynnal mewn nifer o ganolfannau yn amrywio o glybiau nos a thafarndai i ysgolion a chlybiau ieuenctid. Yn ddi-os, bu'r gweithgareddau hyn yn llwyddiannus, ac amlygir hyn gan y niferoedd a'u mynychodd. Yn ogystal â threfnu dawnsfeydd a 'disgos' bu'r Fenter yn annog tafarndai a chlybiau lleol i ddarparu cerddoriaeth Gymraeg gefndirol. Bellach clywir artistiaid Cymraeg ar y 'Jukebox' mewn amryw i dafarn a chlwb rygbi lleol. Mae tafarn y 'Phoenix' yng Ngors-las yn enghraifft o dafarn sydd wedi newid ei darpariaeth gerddorol ers sefydlu'r Fenter. Yn ogystal, dosbarthodd y Fenter gasetiau, cryno ddisgiau a 'fideos' Cymraeg i'w gwerthu mewn siopau lleol.

Yn ddi-os, mae clybiau ieuenctid yn rhan ganolog o weithgareddau hamdden pobl ifanc ymhob ardal. Eto y problemau cyffredinol sy'n nodweddu'r clybiau ieuenctid yw diffyg cyllid a phrinder adnoddau. Nid yw'r sefyllfa'n wahanol yng Nghwm Gwendraeth a cheisiodd y Fenter wella'r ddarpariaeth. Yn wir, yr oedd y Fenter yn gysylltiedig â llwyddiant tymor-byr Clwb Ieuenctid Pont-iets ond bu'n rhaid cau'r clwb oherwydd lleoliad anaddas. Eto, yr oedd llwyddiant y clwb yn brawf o'r galw am rwydwaith eang o glybiau yng Nghwm Gwendraeth. Ym mis Ebrill 1996, lawnsiwyd gan yr Aelod Seneddol Ewropeaidd Eluned Morgan y llyfryn *Ieuenctid yng Nghwm Gwendraeth- Y Ffordd Ymlaen*. Ynddo cyflwynwyd canlyniadau holiadur a gynlluniwyd gan ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun y Gwendraeth dan gyfarwyddyd Menter Cwm Gwendraeth, Cymdeithas Plant a Ieuenctid Llanelli ac Adran Addysg Gymunedol Cyngor Sir Gaerfyrddin. Prif ddiben yr ymchwil oedd darganfod pa ddarpariaeth oedd ar gael i ieuenctid yr ardal a sut y gellir gwella ar hyn. Dychwelwyd 942 o holiaduron gan bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sy'n byw yng Nghwm Gwendraeth ac yn mynychu Ysgol Gyfun Maes yr Yrfa, Ysgol Gyfun y Strade, Ysgol Glan - y- Mor ac Ysgol y Gwendraeth. Yr oedd hyn yn cynrychioli 58 y cant o'r cyfanswm o boblogaeth 11-18 oed yng Nghwm Gwendraeth. Dyma rhai o ganlyniadau'r ymchwil:-

- Nid yw 28 % o ieuenctid y Cwm yn manteisio ar unrhyw fath o ddarpariaeth sy'n cael ei ddarparu ar eu cyfer.
- Mae 46 % yn defnyddio'r cyfleusterau 'unwaith yr wythnos'.
- Byddai 20 % yn dymuno gweld mwy o weithgareddau chwaraeon yn eu hardal.
- Mae 43 % yn fodlon teithio mwy na 2-5 milltir i ddefnyddio unrhyw gyfleusterau ieuenctid. Ar y llaw arall mae 25 % yn gwrthod teithio mwy nag 1-2 filltir.

- Dymuniad 52 % yw gweld eu hoff weithgaredd yn digwydd unwaith yr wythnos.
- Byddai 94 % o'r sampl yn fodlon talu am eu gweithgareddau:-
53 % yn barod i dalu rhwng £1- £3
14 % yn gwrthod talu mwy nag £1
- Nid oedd 83 % yn poeni ym mha adeilad y cynhaliwyd y gweithgareddau.

(Menter Cwm Gwendraeth 1996)

Derbyniodd y Fenter £80,847 dros gyfnod o dair mlynedd gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol i weithredu argymhellion yr adroddiad a phenodwyd dau weithiwr ieuenctid rhan amser.

Parhaodd y Fenter i ddarparu clybiau ieuenctid ac yn *Adroddiad Blynyddol Menter Cwm Gwendraeth* ar gyfer 2002-03 nodir bod y Fenter yn hyrwyddo 'saith Clwb Ieuenctid yn wythnosol yn ogystal â gweithgaredd ymgynghorol o fewn dwy ysgol gyfun leol' (Menter Cwm Gwendraeth 2002-2003 : 10). Llwyddodd y Fenter i ehangu ei gwasanaeth ieuenctid yn sgîl sicrhau Cytundeb Lefel Gwasanaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin a arweiniodd at y Cyngor i ariannu swydd, Swyddog Ieuenctid y Fenter. Cadarnhaodd Deris Williams wrth ei chyfweld nad yw plant hŷn ysgolion uwchradd yn dueddol o ddewis mynychu clybiau ieuenctid oherwydd newidiadau cymdeithasol. Yr oedd y Theatr Ieuenctid a sefydlwyd gan y Fenter yn fwy tebygol o apelio i'r grŵp oedran hwn (Atodiad 7.2 : C18). Bu'r Fenter ynghlwm â threfnu amryw o weithgareddau cymdeithasol i drigolion Cwm Gwendraeth dros y blynyddoedd ac mae'n parhau i wneud hynny. Byddai'n amhosibl rhestrï'r cyfan ond dyma flas o'r hyn a drefnwyd yn enw'r Fenter ac sy'n parhau i'w cynnal :

Gŵyl y Gwendraeth; Gŵyl Werin; Clybiau Dysgu;
Clybiau Gofal; Clybiau Chwarae; Clybiau Brecwast;

Clybiau Hwyl; Clybiau Joio; Clybiau Fideo;
Clybiau Bore Sadwrn; Clybiau ar ôl Ysgol;
Cyrsiau Preswyl; Fforymau Ieuenctid; Gweithdai.

5.2 Statws i'r Iaith.

Yn sgîl y ffaith nad oedd statws swyddogol i'r iaith ym *Mesur yr Iaith* 1993 ac nad oedd busnesau yn y sector breifat wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon, bu'n rhaid i'r Fenter barhau i'w perswadio i wneud defnydd o'r Gymraeg. Yn ddi-os, mae sgîl effeithiau'r Ddeddf wedi dylanwadu ar y sector breifat eisoes ac mae nifer yn gweld manteision amlwg o ddefnyddio'r iaith. Eto mynegodd Cefin Campbell yn 1998 y farn na chafodd Deddf yr Iaith 1993 fawr iawn o effaith ar drigolion Cwm Gwendraeth hyd yn hyn nac ar agweddau'r cyrff cyhoeddus eu hunain:-

Bach iawn hyd yn hyn oherwydd mae'r prif awdurdodau cyhoeddus a chyrff cyhoeddus un ai wrthi neu newydd gyhoeddi eu cynlluniau iaith. Erbyn bod y cynlluniau iaith yn cael eu derbyn gan Fwrdd yr Iaith a'u gweithredu, bydd dipyn o amser wedi mynd. Dwi ddim yn credu eto bod y mwyafrif o bobl wedi sylwi gwahaniaeth mawr ond 'rwy'n gobeithio dros y blynyddoedd nesaf y byddant yn gweld gwahaniaeth. Os na fyddant yn gweld gwahaniaeth, bydd yr holl gost sydd wedi bod ynghlwm â'r cynlluniau iaith hyn wedi bod yn ofer.

(Atodiad 6.1: C12)

5.3 Addysg a'r Gymraeg

Nid oes amheuaeth nad yw addysg yn ganolog yn yr ymdrech i wrthdroi symudiad ieithyddol. Bu twf addysg Gymraeg yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf, yn enwedig yn ardaloedd traddodiadol Seisnig y de-ddwyrain, yn un rhyfeddol. Fel y dywed Colin Baker:-

It appears likely that . . . without such growth in bilingual education, the Welsh language would have almost no chance of survival as a living language of the people.

(Baker 1990 :93)

Mae pob un o'r 24 ysgol gynradd yng Nghwm Gwendraeth heblaw am un (sy'n ysgol Categori A/B) wedi eu gosod yng 'Nghategori A' ac felly maent yn dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg (Campbell 2000 : 235). Mae dwy ysgol uwchradd yng Nghwm Gwendraeth, sef Ysgol Gyfun y Gwendraeth ac Ysgol Gyfun ddwyieithog Maes yr Yrfa. Mae cysylltiad agos rhwng yr ysgolion lleol a'r Fenter a bu'r ysgolion yn manteisio ar y gweithgareddau a drefnwyd gan y Fenter. Bu'r Fenter yn ceisio lleihau'r gagendor rhwng iaith y dosbarth a iaith y gymuned ac ail-sefydlu'r Gymraeg fel iaith hamdden. Yn wir, mae'n debyg mai un o brif lwyddiannau'r Fenter fu pontio'r ysgol â'r gymuned gyda gweithgareddau megis Clybiau Hwyl a gweithdai.

Gwendid sylfaenol y system addysg i'r rhai dros un ar bymtheg oed yw fod y cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf yn rhai academaidd. Prin yw'r cyrsiau galwedigaethol megis BTEC a diploma cenedlaethol a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg. Bu'r Fenter yn lloŷo Coleg Sir Gaerfyrddin i wella'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, cydnabyddodd Cefin Campbell wrth ei gyfweled yn 2004 bod y system addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n hollol annigonol:

Trychinebus i ddweud y gwir. 1.9 y cant yw'r ffigwr ar draws Cymru gyfan o ran y sawl sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dwi'n meddwl bod y ffigwr efallai rhywfaint bach bach yn well yn Sir Gaerfyrddin ond mae'n dal i fod yn gwbl annerbyniol. Mae yna gyfrifoldeb mawr 'sen i'n meddwl ar Fwrdd yr Iaith i bwysu ar Goleg Sir Gâr, er enghraifft, i ehangu ei ddarpariaeth yn sylweddol iawn. Beth sy'n mynd i ddigwydd yw ein bod ni'n mynd i golli'r math o bobl sy'n fwyaf tebygol o aros yn eu cymunedau o ran unrhyw waith cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach.

(Atodiad 7.1 : C17)

Bu'r Fenter yn gysylltiedig hefyd gyda'r ymdrech i wella'r cyfleusterau ar gyfer myfyrwyr dros un ar bymtheg oed ac oedolion sydd eisoes yn y gweithle, ac sydd yn siarad neu'n dysgu Cymraeg. Yn sgîl y mewnlifiad i Gwm Gwendraeth yn ystod y blynyddoedd ddiwethaf mae darparu dosbarthiadau Cymraeg i oedolion yn allweddol. Bu'r Fenter yn cyd-weithio'n agos â threfnwyr y cyrsiau hyn a gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr bob blwyddyn. Byddaf yn trafod maes o law y ganolfan hyfforddiant sydd bellach yn rhan o swyddfa Menter Cwm Gwendraeth sy'n galluogi trigolion yr ardal i dderbyn hyfforddiant mewn amryw o wahanol feysydd.

5.4 Ymwybyddiaeth Ieithyddol

Mae'r diffyg hyder sy'n nodweddu'r ardal yn gyffredinol yn berthnasol hefyd mewn cyd-destun ieithyddol. Er y cynnydd yn y ddarpariaeth mewn addysg Gymraeg, gwelir cwmp yn y defnydd gwirioneddol o'r iaith. Mae'r ardal yn amlwg am ei diffyg hyder yn y defnydd o'r iaith a byddaf yn trafod hyn yn fanylach ym Mhenodau 6 a 7 sy'n dadansoddi'r gwaith maes y cynhaliais yng Nghwm Gwendraeth ac a oedd yn cynnwys ymdriniaeth o sgiliau ieithyddol trigolion yr ardal. Mae'r ddarpariaeth o gylchgronau Cymraeg ar gyfer ieuenctid yn bur denau o'u cymharu â'r toreth o gynnyrch Saesneg. Yn anffodus, nid yw cylchgronau Cymraeg megis *Golwg* a'r *Cymro* yn denu llawer o ddarllenwyr ifanc yng Nghwm Gwendraeth. Dengys astudiaeth Adran Addysg Barhaus Abertawe nad oedd 52.1 y cant o'r sampl a holwyd yn darllen cylchgronau Cymraeg ac mai dim ond 20.3 y cant oedd yn eu darllen o leiaf unwaith y mis. Mewn cyferbyniad â hyn yr oedd 86.5 y cant yn darllen cylchgronau Saesneg unwaith y mis (Gruffudd 1996 : 125).

Cred y Fenter bod rhoi dewis i'r cwsmer ddefnyddio'r Gymraeg yn allweddol. Bu'r Fenter yn hyrwyddo cynllun Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Iaith Gwaith*, sef fod aelodau o staff yn gwisgo bathodynau i ddynodi eu bod yn ddwyieithog. Yr oedd hyn yn system syml, ond effeithiol i osgoi'r embaras a allai godi rhwng y cwsmer ac aelod o'r staff yng nghyd-destun defnyddio'r Gymraeg. Yn ogystal darbwyllwyd rhai o'r archfarchnadoedd lleol, megis *Kwik Save* a hefyd siopau a busnesau mawr eraill y Cwm, i ddefnyddio'r Gymraeg ar

yr uchelseinyddion. Er bod nifer o fusnesau Cwm Gwendraeth yn gefnogol i'r Gymraeg, cadarnhaodd Deris Williams mai un o brif fethiannau'r Fenter oedd yr ymgyrch i sefydlu Cwlwm Busnes. Mae'n debygol bod nifer o ffactorau yn gyfrifol am hyn megis rhesymau daearyddol, diffyg diddordeb a diffyg amser gan fusnesau bach i fynychu pwyllgorau.

Un o'r eitemau cyntaf a brynwyd gan y Fenter oedd offer cyfieithu soffistigedig. Yn dilyn cyrsiau hyfforddi yr oedd nifer o gyfieithwyr ar gael i wneud defnydd cyson o'r offer, ac yr oedd galw cynyddol am eu gwasanaeth yn arwydd bod rhoi dewis i'r holl ddefnyddwyr yn bwysig ar gyfer sicrhau cydbwysedd ieithyddol. Yn ogystal, bu'r Fenter yn darparu'r offer yn rhad ac am ddim i gymdeithasau, mudiadau a chynghorau lleol. Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r Fenter yn yr un modd â mentrau iaith eraill fod yn wylidwrus nad oedd gormod o amser y staff yn mynd ar gynorthwyo cyrff ac unigolion gyda gwaith cyfieithu. Yn wir, yr oedd hyn yn destun trafodaeth yn adroddiad *Iaith Cyf* o waith y mentrau iaith. Cyflwynir dadansoddiad mwy manwl o'r adroddiad hwn yn ddiweddarach yn y bennod hon.

5.5 Tai a Chynllunio.

Sylweddola'r Fenter bod iaith yn gysylltiedig â phob agwedd o fywyd pob dydd yn y gymdeithas, ac felly cafodd yr Adran Tai a Chynllunio ei chynnwys yn y Strategaeth. Pe byddai parhad ac adfer y Gymraeg yn cael ei ystyried wrth benderfynu ceisiadau cynllunio, cred y Fenter y gallasai awdurdodau'r llywodraeth leol gyfrannu'n ddirfawr tuag at sicrhau amodau mwy ffafriol gogyfer â dyfodol mwy sicr i'r iaith. Dywedir yn y Strategaeth:-

Fel bod tai yn cael eu hystyried fel angen yn hytrach na chyfrwng masnachol dylid annog cynghorau lleol i wneud ymchwil manwl i anghenion pobl leol am dai ac eiddo a diwallu'r angen hwnnw yn ôl y galw.

(Campbell 1991 : 23)

Er bod nifer cynyddol o dai ar werth yn yr ardal, adeiladir tai newydd ar raddfa sylweddol. Eto nid ar gyfer pobl leol yn aml y bwriedir y tai hyn, ond ar gyfer mewnfudwyr. Yn naturiol, nid oes angen amgyffred effaith datblygiad o'r fath ar Gymreictod yr ardal. Trafodwyd yn y bennod ddiwethaf effaith yr M4 a'r modd y mae amryw yn teithio i Abertawe, Caerdydd a hyd yn oed Bryste yn ddyddiol i weithio. Fel y nododd Cefin Campbell, bu'r mentrau yn ymwneud â'r meysydd hyn:

Yn anuniongyrchol yn sicr. Yr y'm ni wedi ymateb i Gynllun Datblygu Unedol y Cyngor Sir, ac wedi cyflwyno syniadau ar sut y gallai rhai o'r datblygiadau fod yn niweidiol i'r Gymraeg. Fel rhan o adolygiad Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad i'r Gymraeg, fe wnaeth Mentrau Iaith Cymru gynnwys adran ynglŷn â thai a chynllunio a oedd yn awgrymu mwy o arian ar gyfer Cymorth Prynu i brynwyr tai am y tro cyntaf, pethau fel codi treth ar dai haf ac yn y blaen, a gwneud asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg pan fyddai unrhyw fath o ddatblygiad tai dros hyn a hyn o dai yn digwydd mewn unrhyw ardal.

(Atodiad 7.1 : C17)

5.6 Datblygu Economaidd

Trafodwyd ym Mhennod 4 effeithiau andwyol cau y pyllau glo ar drigolion ac economi Cwm Gwendraeth. Arweiniodd cau'r pyllau glo at ddiweithdra ac amryw o broblemau eraill yng Nghwm Gwendraeth. Canlyniad hyn oedd bod nifer o bobl ifanc yr ardal yn gorfod gadael y Cwm i chwilio am waith. Cyfeirir at hyn yn Strategaeth Menter Cwm Gwendraeth:-

I ardal sydd eisoes â chanran uchel o'i gweithlu yn ganol oed neu hŷn gallasai'r allfudo hwn o safbwynt demograffaid fod yn ergyd ddifrifol i ddyfodol y cymunedau hynny sydd wedi cynnal a chadw'r iaith a'r diwylliant Cymraeg cyhyd.

(Campbell 1991 : 25)

Gellir dadlau bod parhad yr iaith Gymraeg, yn yr un modd â bywoliaeth teuluoedd yng Nghwm Gwendraeth, yn ddibynnol ar yr economi leol. Ni all y Fenter wneud rhyw lawer yng nghyd-destun yr economi leol. Awdurdodau lleol, asiantaethau'r Llywodraeth a'r Llywodraeth ei hun sy'n llywio strategaeth economaidd. Eto mae'r Fenter wedi datblygu partneriaethau gyda nifer o gyrff amlwg yn yr ardal.

5.7 Ymchwil.

Er mwyn datblygu ar gyfer y dyfodol mae ymchwil trwyadl yn allweddol a phwysleisir hyn yn y Strategaeth:-

Fel bod cyfeiriad a gweithgarwch y Fenter yn cael ei seilio ar wybodaeth a data dibynadwy bydd hi'n hanfodol i ni gomisiynu prosiectau ymchwil amrywiol fydd yn edrych ar wahanol agweddau ar gymdeithaseg iaith yng Nghwm Gwendraeth.

(Campbell 1991 : 27)

Ymhlith yr astudiaethau ymchwil a welwyd eisoes mae'r *Iaith Gymraeg yn y gweithle ac Asesiad o Fenter Cwm Gwendraeth*. Gobaith Menter Cwm Gwendraeth yw y bydd canlyniadau'r ymchwil hyn yn ei galluogi i ddadansoddi'r defnydd lleol o'r iaith.

5.8 Datblygiad Strategaeth a Gweithgareddau'r Fenter

Nid oes amheuaeth nad yw Strategaeth y Fenter wedi datblygu cryn dipyn i'r un a gyhoeddwyd yn 1991. Dywed Cefin Campbell:-

Pan gychwynon ni ar y broses o ymgynghori i weld beth oedd y blaenoriaethau nôl yn 1991, yr oedd yn amlwg bod angen buddsoddi mewn gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc yn bennaf, a hefyd wrth gwrs codi ymwybyddiaeth gyffredinol o werth y Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol, yn arbennig ym myd adloniant a gweithgareddau i'r gymuned gyfan.

(Campbell 6.1:C2)

Erbyn hyn, mae Menter Cwm Gwendraeth yn gweithio ar sail Fframwaith Cynllunio Cymunedol y Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Sir Caerfyrddin gan ddatblygu prosiectau yn ôl y galw o dan y penawdau canlynol:

- Iechyd a Lles
- Yr Amgylchedd
- Adfywio Cymunedol
- Addysg Gydol Oes
- Diogelwch y Gymuned

Fodd bynnag, fel y nododd Deris Williams yn 2004, er bod y Fenter bellach yn gweithredu yn ôl themâu penodol, nid yw hanfod gwreiddiol y Fenter wedi newid:

Cafodd cynllun newydd ei lansio rhyw flwyddyn yn ôl bellach ond yn dal at y nod ac amcanion gwreiddiol. 'Dyw'r nod ac amcanion ddim wedi newid, y ffordd o weithredu sydd wedi newid gan ein bod yn gweithredu fesul themâu penodol megis iechyd a lles, adfywio cymunedol, yr amgylchedd, addysg gydol oes a diogelwch y gymuned gan gynnwys cynhwysedd yr unigolyn a'r iaith yn rhan annatod o'r cyfan.

(Atodiad 7.2 : C4)

Yn ddi-os, mae sicrhau bod yr iaith yn cael ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall yn holl bwysig. Trafodwyd eisoes yn y bennod gyntaf bwysigrwydd y prosiect Twf wrth geisio sicrhau bod rhieni yn dewis siarad Cymraeg â'u plant. Mae'n bosibl mai dyma'r maes pwysicaf y mae Menter Cwm Gwendraeth ynghyd â'r mentrau iaith eraill yn ymwneud â hi. Mae Menter Cwm Gwendraeth yn cydweithio'n agos iawn gyda'r prosiect Twf a Mudiad Ysgolion Meithrin. Menter Cwm Gwendraeth oedd ynghlwm â phrosiect pilot y cynllun Twf cyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg benderfynu

lledaenu'r prosiect ledled Cymru. Wrth edrych yn ôl ar ei gyfnod gyda Menter Cwm Gwendraeth ac yna Mentrau Iaith Myrddin mae Cefin Campbell yn cydnabod y byddai wedi hoffi mynd i'r afael yn gynharach â throsglwyddiad iaith (Atodiad 7.1 : C22) . Yn sgîl derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2002, llwyddodd y Fenter i benodi tri swyddog rhan-amser: un i gynorthwyo â'r prosiect Twf i gydlynu darpariaeth ar gyfer rhieni ifanc; un i ddatblygu gweithgareddau hamdden ar gyfer pobl ifanc; ac un i ddatblygu'r defnydd o'r iaith yn y sector breifat.

5.9 Gwaith Cymunedol Menter Cwm Gwendraeth

Nid oes amheuaeth bod Menter Cwm Gwendraeth wedi canolbwyntio yn ystod y blynyddoedd cyntaf ar godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn gymdeithasol megis trefnu gweithgareddau yn enwedig ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, sylweddolodd swyddogion y Fenter nad oedd hybu'r Gymraeg ar ben ei hunan yn ddigon. Er bod y digwyddiadau cymdeithasol a drefnwyd gan y Fenter wedi bod yn hynod o lwyddiannus ac wedi ennyn cryn ddiddordeb, awgrymwyd wrthyf yn yr holiaduron gan rai o drigolion yr ardal mai dim ond lleiafrif o boblogaeth Cwm Gwendraeth yr oedd y Fenter yn ei chyrraedd. Fel y nodwyd eisoes, yr oedd y Cwm yn profi effeithiau ôl-ddiwydiannol difrifol, megis dirwasgiad, diweithdra a phroblemau cymdeithasol. Canlyniad anochel hyn oedd bod blaenoriaethau trigolion yr ardal yn wahanol i flaenoriaethau swyddogion y Fenter ac wrth ei gyfweld yn 1998, nododd Cefin Campbell y bu'n rhaid i'r Fenter addasu'r hyn oedd yn y strategaeth wreiddiol drwy ganolbwyntio fwyfwy ar yr iaith yng nghyd-destun adfywiad cymunedol. Yr oedd o'r farn bod hyn yn ddatblygiad arwyddocaol yn hanes y Fenter:-

Beth i ni wedi ceisio gwneud felly yw cyfuno gwaith i ddatblygu'r gymuned leol, i adfywio'r gymuned leol, i wella ansawdd bywyd y gymuned leol ac i hybu sgiliau a hyder y bobl leol, ac ochr yn ochr â hynny, hybu'r iaith drwy gyfrwng y gweithgareddau cymunedol fel bod pobl ddim yn gweld yr iaith yn rhywbeth sydd yn bodoli mewn gwagle: bod yr iaith yn rhan o adfywiad cymuned. 'Rwy'n credu bod creu'r berthynas yna

rhwng datblygu iaith a datblygu cymuned wedi bod yn ddatblygiad pwysig iawn yn hanes y Fenter, rhywbeth sydd wedi datblygu yn ddiweddar nad oedd yn ein strategaeth wreiddiol.

(Atodiad 6.1 : C2)

Yr oedd y Fenter yn sylweddoli nad oedd y Gymraeg yn bodoli mewn gwagle a bod angen i'r Gymraeg fod yn rhan ganolog o bob agwedd o fywyd cymuned, nid yn unig fel cyfrwng diwylliannol. Gellir dadlau bod yr hyn a wnaeth Menter Cwm Gwendraeth yn adlewyrchiad o'r hyn fyddai'n rhan ganolog o strategaeth iaith Llywodraeth Cynulliad Cymru sef *Iaith Pawb* a gyhoeddwyd yn 2003 a oedd yn gosod pwyslais ar brif-ffrydio'r Gymraeg. Yr oedd atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn un o brif flaenoriaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei strategaeth ar gyfer y Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2000 sef *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005*.

Soniodd Cefin Campbell am y modd y dechreuodd ystyried gynlluniau datblygu cymunedol pan oedd yn Gyfarwyddwr Menter Cwm Gwendraeth:

Rwy'n meddwl bod ymwneud â datblygu cymunedol yn allweddol i lwyddiant unrhyw fenter iaith. Eto, fi ddechreuodd y syniad yma yn wreiddiol yng Nghwm Gwendraeth a chyflwyno papur trafod. Rwy'n cofio'n iawn nifer a oedd ar y Pwyllgor Rheoli ar y pryd yn *sceptic* iawn ynglŷn â pham ddylwn i fynd i feysydd sydd ddim yn ymwneud â'r Gymraeg. Fy nadl i yw fod popeth sydd yn ymwneud â'r gymuned leol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, boed hynny'n ddatblygu economaidd, tai a chynllunio, iechyd, trafidaeth ac ati. Erbyn hyn, mae'r egwyddor a'r meddylfryd hwnnw wedi ei dderbyn yn gyffredinol nid yn unig gan y mentrau a'r Cyngor Sir ond gan Bwrdd yr Iaith. Felly, mae hynny'n sicr yn newyddion da.

(Atodiad 7.1: C10)

Bellach, mae'n annog y mentrau sydd dan ei gyfarwyddyd yn sir Gaerfyrddin i ymwneud fwyfwy â datblygu cymunedol:

Dwi'n annog nawr bob un o'r mentrau yn sir Gaerfyrddin i ymwneud mwyfwy â gwaith datblygu cymunedol achos mewn ffordd i ni'n cyflawni dau beth. I ni'n cyrraedd pobl drwy gyfrwng y Gymraeg na fydde' ni fel arfer yn eu cyrraedd drwy weithgaredd traddodiadol ieithyddol a hefyd i ni'n dangos i bobl fod y Gymraeg yn gallu bod yn gyfrwng i adfywiad cymdeithasol ac economaidd. Yn seicolegol rwy'n meddwl bod hynny'n bwysicach.

(Atodiad 7.1: C10)

Yr oedd y seiliau ar gyfer gwaith cymunedol Menter Cwm Gwendraeth wedi eu gosod rhai blynyddoedd cyn i'r Fenter lwyddo ym mis Hydref 1996 i sicrhau cyllid Ewropeaidd ar gyfer ymgymryd â'r gwaith. Fel y nodwyd eisoes, sefydlwyd Partneriaeth Aman Gwendraeth yn 1993 mewn ymateb i adroddiad cwmni Coopers & Lybrand Deloitte yn 1991 ar gyflwr cymdeithasol ac economaidd Cwm Gwendraeth. Cafodd y corff ei ariannu gan Awdurdod Datblygu Cymru a'r cynghorau lleol a'r nod oedd ceisio uno, cynghori a hybu'r cynghorau lleol. Yr oedd gweithio mewn partneriaeth yn holl bwysig ac yr oedd y prosiect *Ffyniant Cefn Gwlad* yn gynllun ar y cyd rhwng Awdurdod Datblygu Cymru a Menter Cwm Gwendraeth, ac fe benodwyd Terry Davies yn Swyddog Cymunedol Ffyniant Cefn Gwlad. Yr oedd y prosiect yn cynnwys cydweithio gyda chynghorau cymuned lleol i adnabod anghenion o safbwynt gwella'r amgylchedd. Ymhlith y prosiectau oedd gwelliannau i neuaddau pentref, ardaloedd chwarae a llwybrau seiclo. Os oedd y sector breifat yn penderfynu gwneud gwelliannau o dan y cynllun, yr oedd yn rhaid iddynt ddod o hyd i 50 y cant o'r gost. Bu'r cynlluniau yn fodd i gynnig cyfleodd am swyddi i bobl leol a chyfleodd hyffordiant i'r di-waith. Cyfeiriodd Cefin Campbell at lwyddiant y cynlluniau:

During the eighteen months or so of its existence the project succeeded in realizing some significant visual improvements to the structural environment and contributed in no small measure to increasing the quality of life in many communities in the area.

(Campbell 2000: 266)

Yn mis Ebrill 1995 penodwyd Terry Davies yn Swyddog Datblygu Cymunedol rhan-amser Menter Cwm Gwendraeth. Ariannwyd y swydd gan Fenter Cwm Gwendraeth, Hybu Iechyd Cymru, Gwasnaeth Cymdeithasol Dyfed (ardal Llanelli) a Chomisiwn Iechyd Gorllewin Cymru. Cefndir sefydlu swydd y Swyddog oedd llunio dogfen fanwl a oedd yn amlinellu prif egwyddorion yr hyn a olygir gan ddatblygu cymunedol a cheisio priodoli anghenion yr asiantaethau a gynrychiolwyd ar weithgor Prosiect Cwm Gwendraeth sef Awdurdod Iechyd Dwyrain Dyfed, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Dyfed, Partneriaeth Aman Gwendraeth a chynrychiolwyr o'r sector wirfoddol. Rhan ganolog o waith y swyddog fyddai edrych yn fanwl ar anghenion pentrefi'r Cwm ar draws amryw o feysydd a throsglwyddo rhaglen weithredol i'r cyrff perthnasol. Parhaodd Terry Davies hefyd i weithio'n rhan-amser i Bartneriaeth Aman Gwendraeth ar y cynlluniau amgylcheddol

Erbyn mis Ebrill 1996 cwblhawyd cynlluniau amgylcheddol Partneriaeth Aman Gwendraeth a throsglwyddwyd unrhyw grantiau nad oeddynt wedi eu cwblhau i'r Cyngor Sir. Yn sgîl ad-drefnu llywodraeth leol yng Ngwanwyn 1996, yr oedd Cymoedd Aman a Gwendraeth bellach yn rhan o sir Gaerfyrddin ac felly nid oedd dyfodol i Bartneriaeth Aman Gwendraeth. Fodd bynnag, yr oedd nifer o'r farn ei fod yn holl bwysig bod corff penodol yn bodoli i warchod buddiannau'r ardal.

Felly, erbyn sefydlu Canolfan Ddatblygu Cymunedol Menter Cwm Gwendraeth yn 1996 yr oedd y Fenter eisoes yn ymwneud fwyfwy â gwaith cymunedol. Mae'n wir bod datblygu cymunedol wedi bod yn rhan o athroniaeth y Fenter ers ei sefydlu ond nid oedd y Fenter wedi canolbwyntio'n

benodol ar y gwaith. Ym mis Hydref 1996, derbyniodd Menter Cwm Gwendraeth gyllid o £241,000 am gyfnod o dair mlynedd gan gynnwys £120,704 o'r Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd i gyflogi dau swyddog llawn-amser ac un rhan-amser. Cefnogwyd cais y Fenter am gyllid gan Bartneriaeth Aman Gwendraeth, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Dyfed, Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, Tîm Comisiynu Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth Iechyd Llanelli/Dinefwr, Cynllun Addysg Gymunedol Cwm Gwendraeth a'r 'West Wales Training and Enterprise Council'. Rheolwyd y prosiect gan Fenter Cwm Gwendraeth a lleolwyd staff y prosiect mewn swyddfa ar ystad ddiwydiannol ym Mhont-henri.

Mae'n debygol mai prif nod y prosiect oedd bod y gymuned leol yn cymryd perchnogaeth am yr hyn oedd yn digwydd yn eu cymunedau ac felly osgoi unrhyw duedd tuag at or-ganoli penderfyniadau gan swyddogion y Fenter. Yn ddi-os, un o lwyddiannau pennaf y prosiect oedd y fforymau pentref a sefydlwyd er mwyn darganfod anghenion eu pentrefi. Yr oedd y fforymau pentref a sefydlwyd gan y Fenter yn arwydd pellach o'r cysylltiad oedd wedi datblygu rhwng y Fenter a'r gymuned a llwyddwyd i ddenu gwirfoddolwyr a sicrhau diddordeb lleol. Y fforymau pentrefol oedd yn llunio'r holiadur a ddosbarthwyd a thrafodwyd eisoes gynnwys yr adroddiadau a baratowyd ar sail yr holiaduron ym Mhennod 1. Cynhaliwyd arolygon yn y pentrefi canlynol :

Gors-las (1995)

Trimsaran (1997 a 2003)

Pont-henri (1997)

Pontyberem a Bancffosfelen (1998)

Carwe (1999)

Cefneithin a Foelgastell (1999)

Drefach (2000)

Llanddarog (2001)

Pum Heol (2003)

Pen-y-groes (2004)

Porth Tywyn (2004)

Glanyfferi (2005)

Llansaint (2005)

Yr oedd y cwestiynau a ofynnwyd yn yr holiaduron wedi eu haddasu i anghenion y pentrefi dan sylw. Cafodd canlyniadau'r holiaduron eu hamlinellu yn y cynlluniau gweithredu a luniwyd gan y gwahanol bentrefi. Yr hyn oedd yn bwysig oedd mai'r gymuned leol oedd yn penderfynu beth oedd eu hanghenion a'u blaenoriaethau. Cafwyd ymateb da i'r holiaduron. Yn wir, yn Nhrimsaran ymatebodd dros 80 y cant a oedd yn arwydd bod y gymuned yn awyddus i gael lleisio eu barn. Fel y dywedodd Terry Davies, yr oedd sicrhau perchnogaeth leol yn holl bwysig:

'Rwy'n credu bod pobl yn dechrau gweld y ffordd i ni'n gweithredu oherwydd mae nhw'n sylweddoli mai nid ein prosiectau ni ydyn nhw ond prosiectau'r gymuned. Yr unig beth i ni'n ei wneud yw *facilitato* nhw a helpu nhw a bod yn gefndir iddyn nhw. Wrth eu bod nhw'n gweld mai eu prosiectau nhw yw nhw, mae gwell cyfle a pharhâd i nhw, ac yn fwy tebygol i bara oherwydd eu prosiectau nhw yw nhw. Os fydden ni ddim ond yn dod miwn a gwneud hyn yn Trimsaran, Pont-henri neu Pontyberem, erbyn i ni symud ymlaen efallai y byddai'n *collapso* fory. Ond wrth bod y gymuned yn cael yr hawl i rhoi eu barn a chael dyrnedd o bobl, cael pobl miwn i ddweud hyn a'r llall a dod nôl yn y diwedd a dweud mai dyna'r *consensus* sydd gyda nhw, mae nhw'n teimlo mai nhw sy'n perchnogi'r prosiect.

(Atodiad 6.3 : C8)

Llwyddodd y Ganolfan Ddatblygu Cymunedol i ymateb i nifer o'r argymhellion a oedd yn deillio o'r holiaduron. Mae'n bwysig pwysleisio mai nid cyfrifoldeb y Ganolfan Ddatblygu oedd creu swyddi ond yn hytrach rôl gydlynu mewn gwirionedd megis cynorthwyo busnesau ac ati i ddod o hyd i gyllid. Er enghraifft, yn sgîl adroddiad pentrefol Trimsaran sylweddolwyd bod y pentrefwyr yn awyddus i gael canolfan i gyfarfod a chynnal gweithgareddau.

Yn dilyn hyn llwyddwyd i sicrhau cyllid gan Sportlot, y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd er mwyn cael adeilad aml-bwrpas (cost y prosiect oedd £570,000) a oedd yn cynnwys meithrinfa a lle oedd yn rhoi cyfle i bobl ymgynnull. Ymhlith llwyddiannau eraill y Ganolfan oedd trefnu cyrsiau a hyfforddiant addysgol i oedolion, grantiau ar gyfer arwyddion dwyieithog, datblygu rhaglenni gofal plant, gwella adnoddau parcio ac ymestyn darpariaeth hamdden ar gyfer plant a phobl ifanc (Campbell 2000 : 266-267).

Yn 1999, penderfynodd Pwyllgor Rheoli Menter Cwm Gwendraeth sefydlu dwy gangen sef y Fenter Iaith a'r Ganolfan Ddatblygu Cymunedol. Er bod y Ganolfan yn ymgymryd â chryn dipyn o waith drwy gyfrwng y Gymraeg, byddai'n wir i ddweud mai prif gyfrifoldeb y Ganolfan oedd adnabod anghenion a gwella pentrefi'r Cwm yn hytrach na chynllunio ieithyddol uniongyrchol. Yn wir, nid oedd y cyfan o waith y Ganolfan gan gynnwys yr adroddiadau pentrefol yn ddwyieithog. Mewn astudiaeth o Fenter Cwm Gwendraeth ar gyfer gradd MA ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2000, mae Lowri Hughes yn tanlinellu'r pwysigrwydd fod y Ganolfan yn gweithredu'n ddwyieithog:

Er nad yw cynllunio ieithyddol yn brif ffocws na amcan y Ganolfan Ddatblygu Cymunedol mae ganddi'r potensial i gyrraedd ystod eang o'r partneriaethau gweithredol. Pe anwybyddir y ffocws ieithyddol o fewn y fenter gymunedol hon, collir tir gwerthfawr sydd wedi ei ennill yn raddol gan Fenter Cwm Gwendraeth dros y ddegawd ddiwethaf, a chanlyniad tebygol fyddai dychwelyd at gysylltu'r iaith gydag agweddau diwylliannol yn unig.

(Hughes 2000 : 64)

Fel y byddaf yn trafod maes o law yn sgîl agor swyddfa newydd Menter Cwm Gwendraeth ym Mhontyberem, mae dwy rhan y Fenter bellach wedi dod at ei

gilydd i greu gwir fenter iaith gymunedol. Fel y dywedodd Deris Williams, mae cysylltiad annatod rhwng iaith a'r gymuned:

Allwch chi ddim ysgaru iaith ag adfywio cymunedol. Mae'n wir pan sefydlwyd y Fenter fod nifer o weithgareddau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth a newid agweddau pobl tuag at yr iaith Gymraeg. Bellach mae'n fwy o destun na hynny gan fod yna effaith sosio-economaidd ar yr ardal yn dilyn gymaint o ddifreintedd sydd yma. Mae'r iaith ac adfywio cymunedol yn mynd llaw yn llaw. Dyna paham ein bod yn gweithredu drwy fforymau pentref, grwpiau tasg penodol ac yn y blaen a chael y Gymraeg yn rhan annatod o ddatblygiadau'r pwyllgorau hynny.

(Atodiad C2:2004)

5.10 Agor swyddfa newydd Menter Cwm Gwendraeth ym Mhontyberem

Pan sefydlwyd Menter Cwm Gwendraeth yn 1991 lleolwyd staff y Fenter mewn caban fechan y tu cefn i ysgol gynradd pentref Cross Hands. Erbyn diwedd 1991, dim ond dau staff llawn-amser oedd yn gweithio i'r Fenter. Erbyn 2005, mae 13 yn gweithio'n llawn-amser; chwech yn gweithio 26 awr yr wythnos; a 40 hyd at 15 awr yr wythnos. Er bod Cross Hands yn datblygu'n gyflym yn sgîl dyfodiad y Parc Busnes yr oedd yr ymdeimlad o bentref wedi diflannu yn Cross Hands yn bennaf oherwydd nad oedd man cyfarfod yn y pentref cyn i neuadd gyhoeddus y neuadd ail-agor yn Ebrill 1996. Wrth i Adran Ddatblygu Cymunedol y Fenter ddatblygu, gwelwyd staff y Fenter a oedd yn ymdrin â'r gwaith hwn yn ymsefydlu mewn swyddfa ar Stâd Diwydiannol ym Mhont-henri. Yn sgîl llifogydd difrifol yn swyddfa'r Fenter yn Cross Hands, bu'n rhaid i weddill staff y Fenter symud i'r swyddfa ym Mhont-henri. Er bod y swyddfeydd yn Cross Hands a Phont-henri yn rhai digon cyfleus i drigolion Cwm Gwendraeth, ni ellir dweud eu bod wedi eu lleoli yng nghanol y Cwm. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2002 agorwyd swyddfa newydd Menter Cwm Gwendraeth yng nghanol pentref Pontyberem gan Weinidog y Cynulliad, Edwina Hart. Mewn rhan o'r swyddfa mae canolfan hyfforddi lle mae trigolion yr ardal yn gallu derbyn pob math o hyfforddiant. Er

enghraifft, mae'r ganolfan wedi ei chofrestru fel Canolfan Addysg Fugeiliol gan y Bwrdd Iechyd lleol ac felly mae modd i drigolion lleol ymweld â'r ganolfan i dderbyn gwasanaeth atal cenhedlu ac ymwybyddiaeth am faterion megis cyffuriau. Yn ogystal, drws nesaf i hyn lleolir *Caffi Cynnes* sy'n fan cyfarfod poblogaidd. Ynghyd â hyn, agorwyd gerllaw siop lyfrau ac adnoddau Cymraeg. Felly, nid oes amheuaeth nad yw'r ganolfan yn ffenestr siop ac yr oedd Cefin Campbell sydd bellach yn Gyfarwyddwr Mentrau Iaith Myrddin yn cydnabod hyn:

Dwi'n meddwl bod yr hyn sydd gan Fenter Cwm Gwendraeth ar hyn o bryd yn ffenestr siop, yn llythrennol ac yn ffigurol, dda iawn. Mae'n dangos i bobl bod y Fenter yn ymwneud mwy na iaith fel rhywbeth absoliwt neu abstract ond ei fod yn ymwneud â chynnig cyfleodd i bobl i weithio yn y caffi, i ddatblygu sgiliau drwy'r ganolfan IT a'r ganolfan hyfforddiant sydd ganddyn'nhw. Bron bob awr o'r dydd mae rhywun yno yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, mae'r ochr hynny yn bwysig dros ben.

(Atodiad 7.1 : C12)

Mae'n siŵr bod rhai yn cydymdeimlo â sylwadau'r Cynghorydd Brin Davies a oedd, er yn cydnabod bod Pontyberem yn fwy canolog yn y Cwm, yn dadlau y byddai'n fwy manteisiol i'r Fenter gael ei lleoli yn Cross Hands. Mae'n rhaid ystyried bod Brin Davies yn cynrychioli pentref Cross Hands ar Gyngor Sir Gaerfyrddin ac felly nid yw'n syndod ei fod yn gwarchod buddiannau'r pentref. Fel y dywed Deris Williams, mae'r ganolfan ar gyfer trigolion Cwm Gwendraeth ac nid yn unig Pontyberem:

Mae'r ganolfan yn ffenestr siop. Fel 'ro'ni'n dweud yn gynharach, mae'r ganolfan hyfforddi yn tynnu pobl drwy'r drws. Mae pobl o Cross Hands, Penygroes a hyd yn oed Rhydaman, Cwmgwili yn dod i hyfforddi yma ym Mhontyberem. Mae mudiadau gan gynnwys neuadd

Cross Hands yn defnyddio ein gwasanaeth llungopïo, ffacs a phethe yn gyson. Mae'n ganolfan bwrpasol, gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer Cwm Gwendraeth yn gyfan. Fydden ni ddim yn edrych arni fel canolfan Pontyberem ond yn ganolfan i bawb. Wrth gwrs, wrth ein bod wedi mynd â'r Fenter fel ffenest siop, yr ydych wedi sôn am y caffi, y ganolfan hyfforddi. 'Ry'ni hefyd wedi agor siop lyfrau ac adnoddau ym Mhontyberem ac mae hynny wedi bod yn fanteisiol wrth inni sicrhau fod ein gwasanaethau ar gael i bobl lleol.

(Atodiad 7.2 : C17)

5.11 Mentrau Iaith Myrddin

Yn sgîl sefydlu Menter Aman Tawe yn 1993 a Menter Iaith Llanelli yn 1995 yr oedd tair menter iaith yn gwasanaethu de-ddwyrain sir Gaerfyrddin sydd yn ddaeryddol yn rhyw chwarter o holl dir y sir. Ar y llaw arall, nid oedd menter iaith yn darparu ar gyfer gweddill y sir sef yr ardal mwy gwledig a llai phoblog (Williams 2000: 286), Er mwyn newid y sefyllfa hon, penderfynodd Cyngor Sir Gaerfyrddin, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a phartneriaid eraill ystyried sut y gellid sefydlu mentrau iaith yng ngweddill y sir. Yr oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn awyddus i weld mentrau iaith yn adlewyrchu ffiniau daearyddol yr awdurdodau lleol. Yn ystod 1996, bu Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried y posibilrwydd o fframwaith cynllunio ieithyddol ar lefel sirol. Cynigiwyd gan Banel Ymgynghorol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r mentrau iaith, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Phrifysgol Caerdydd, dri opsiwn i'r Cyngor fel ffyrdd ar gyfer datblygu ac ehangu'r ddarpariaeth:

- sefydlu mentrau ychwanegol ledled y sir;
- sefydlu menter iaith ar gyfer y sir gyfan gyda nifer o ganghennau;
- datblygu'r mentrau a'r anturiaethau cyfredol, ynghyd â fforwm i gydlynu eu gweithgareddau.

Penderfynodd Cyngor Sir Gaerfyrddin gyfuno opsiynau 2 a 3 i sefydlu Mentrau Iaith Myrddin (Williams 2000: 235-236).

Pan fûm yn cyfweld Cefin Campbell ym mis Chwefror 1998, yr oedd ar fin gadael ei swydd fel Cyfarwyddwr Menter Cwm Gwendraeth i ddechrau ar ei swydd fel Cyfarwyddwr Mentrau Iaith Myrddin. Yr oedd o'r farn y byddai Menter Cwm Gwendraeth yn elwa o'r trefniant newydd:

Bydd dyfodol y Fenter hon yn ddiogel. Wrth gwrs, beth i ni'n gobeithio yw y bydd y Fenter yn elwa o sefydlu Mentrau Iaith Myrddin. Wrth bod arian Bwrdd yr Iaith yn rhyddhau arian oddi wrth y Cyngor Sir, mae hynny fel petai'n rhoi mwy o arian i'r *pot* . . . Drwy rannu profiadau gyda'n gilydd, rhannu a symud arbenigedd o gwmpas y sir, y gobaith yw y bydd pob menter yn elwa o'r math hyn o ddarpariaeth.

(Atodiad 6.1 : C16)

Pan ddechreuodd Cefin Campbell yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Mentrau Iaith Myrddin ar 1 Ebrill 1998, y mentrau a oedd eisoes yn bodoli yn sir Gaerfyrddin oedd Menter Cwm Gwendraeth, Menter Aman Tawe sydd bellach wedi newid yn gyfansoddiadol i fod yn Menter Dyffryn Aman a Menter Iaith Llanelli. Ers hynny sefydlwyd yn gyfansoddiadol Menter Iaith Llanelli a thair menter newydd a leolir mewn rhannau gwledig Sir Gaerfyrddin, sef Menter Bro Dinefwr (yn 1999), Menter Bro Myrddin (yn 1999) a Menter Bro Teifi (yn 2000).

Rôl gweinyddu a chydlynu ynghyd â sicrhau cyllid yw prif gyfrifoldeb Cefin Campbell a'i ysgrifenyddes a leolir yng Ngholeg y Drindod yng Nghaerfyrddin. Fel y dywed Cefin Campbell:

Ie yn sicr mae gweinyddu a chydlynu'r mentrau iaith yma yn un o'r prif ddyletswyddau. Ond hefyd wrth gwrs rwy'n teimlo fod gen i rôl bwysig o ran cefnogi'n strategol y gwaith sydd yn cael ei wneud yn lleol. Hefyd, mae gen i gyfrifoldeb o ran pethau fel dod o hyd i ragor o nawdd. Mae sawl prosiect diddorol iawn—

efallai y cawn ni gyfle i sôn amdany'n'nhw yn nes ymlaen— wedi deillio o arian Ewropeaidd, loteri, NOF ac yn y blaen yr ydym wedi llwyddo i'w gael. Felly, dwi wedi bod yn mynd ar ôl dipyn o arian i ddweud y gwir er mwyn ehangu nifer y gweithwyr sy'n gyflogedig gan y mentrau.

(Atodiad 7.1 : C2)

Ategwyd hyn gan Deris Williams wrth ei chyfweld ond pwysleisiodd nad yw Mentrau Iaith Myrddin yn ddarparwyr:

Sefydlwyd Mentrau Iaith Myrddin fel corff ymbarél ymgynghorol i ddatblygu mentrau iaith ar draws y sir. Mae wedi bod yn rôl ganolog, yn rôl lle mae *lot* o weinyddu canolig wedi digwydd ond wrth gwrs 'dyw Mentrau Iaith Myrddin ddim yn ddarparwyr, 'dy nhw ddim yn darparu dim, ymgynghorwyr y'nhw, mewn gwirionedd, ac i fod i arwain yn strategol gan dynnu mwy o arian ac yn y blaen i'r mentrau.

(Atodiad 7.2 : C10)

Cadarnhaodd Cefin Campbell bod amrywiaethau ymhlith y mentrau iaith sy'n rhan o Fentrau Iaith Myrddin, gyda rhai wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwledig ac eraill mewn ardaloedd diwydiannol, a bod hyn wedi arwain at broblemau o safbwynt cyllido:

Mae'n sicr yn peri rhai problemau yn yr ystyr bod yr ardaloedd diwydiannol o ran ariannu Amcan 1 yn dod i mewn i gynllun a elwir yn 'Ardaloedd Blaenoriaeth 3' tra bod yr ardaloedd gwledig yn 'Flaenoriaeth 5'. Felly, wrth i ni (ac rydyn ni wedi gorfod gwneud), gyflwyno cais sirol yr ydym yn gorfod cyflwyno dau gais, un ar gyfer y naill ardal a'r llall. Mae yna strwythurau o ran pwyllgorau ac atebolrwydd i 'Bartneriaeth Adfywio'r Cyngor Sir' ac i bethau fel Amcan 1 yn golygu bod yn rhaid i ni ddyblu'r gwaith bob tro oherwydd fod y sir wedi ei

rhannu'n ddwy rhwng y ddwy ardal sosio-economaidd sydd gyda ni.

(Atodiad 7.1 : C7)

Yn ddi-os, yr oedd y ffaith bod Menter Cwm Gwendraeth bellach yn rhan o Fentrau Iaith Myrddin yn newid sylweddol i'r Fenter. Er bod Menter Cwm Gwendraeth yn parhau yr oedd dyfodiad y corff ymbarél newydd yn mynd i arwain at oblygiadau pell gyrhaeddol i'r Fenter yn y modd yr oedd yn gweithredu a'i chyllido yn arbennig. Er bod Cefin Campbell wedi mynegi cyn iddo ddechrau fel Cyfarwyddwr Mentrau Iaith Myrddin y byddai Menter Cwm Gwendraeth yn elwa o sefydlu Mentrau Iaith Myrddin efallai wrth edrych yn ôl ei fod yn anochel y byddai dyfodiad y corff cydlynus newydd yn arwain at densiynau. Yr oedd Cefin Campbell wedi symud o fod yn gyfrifol am un fenter i reoli chwech o fentrau yn sir Gaerfyrddin. Wrth ei gyfweld ym mis Mai 2004, mae'n cydnabod nad oedd hyn wedi bod yn hawdd:

Mae wedi bod yn wahanol ac mae wedi bod yn anodd hefyd, achos o fod wedi geni'r babi mewn gwirionedd a'i feithrin yng Nghwm Gwendraeth yr oedd yn anodd i adael hynny i fynd. Ond beth y gwnes ei sylweddoli wrth gwrs ar ôl datblygu chwech menter iaith oedd nad o'n ni'n gallu ffafrio unrhyw un ardal yn fwy na'r llall. Fe gyrhaeddod ni fan 'na drwy broses boenus iawn lle bellach mae bob menter yn cael yr un faint o arian. Pan ddechreuais yn y swydd hon, yr oedd Menter Cwm Gwendraeth yn cael llawer mwy o arian na phawb arall oherwydd y drefn hanesyddol. Ond yr oedd trio dod â nhw wedyn yn nes at lefelau ariannu pawb arall yn golygu dipyn o ddiflastod i ddweud y gwir ac yr oedd hynny yn sicr yn beth anodd i mi yn bersonol.

(Atodiad 6.1 : C9)

Fel y nododd Cefin Campbell, mae Menter Cwm Gwendraeth bellach yn derbyn yr un faint o gyllid â'r mentrau iaith eraill yn y sir gan Fentrau Iaith

Myrddin tra yr oedd yn derbyn llawer mwy cyn i'r trefniant newydd fodoli. Mae Adroddiad Blynyddol Mentrau Iaith Myrddin 2002-2003 yn nodi'r rhesymau pam y penderfynodd Pwyllgor Rheoli Mentrau Iaith Myrddin ar y newid hyn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2002-03:

Seiliwyd y ddadl ar y ffaith bod y tair Menter ddiweddaraf a gafodd eu sefydlu – ym Mro Dinefwr, Bro Myrddin a Bro Teifi – wedi aeddfedu a bwrw gwreiddiau'n ddigonol i gael eu hystyried yn gydradd o ran statws â'r Mentrau eraill. Er nad oedd y penderfyniad hwn wrth fodd pawb yr oedd derbyn yr egwyddor o gydraddoldeb yn gam pwysig ymlaen o safbwynt creu gwell perthynas rhwng un Fenter â'r llall

(Mentrau Iaith Myrddin 2002-03)

Ar y naill law, gellir dadlau ei fod yn gam gwbl naturiol i Fentrau Iaith Myrddin ariannu'r mentrau iaith yn gyfartal. Fodd bynnag, i Fenter Cwm Gwendraeth yr oedd hyn yn cadarnhau'r tensiwn a oedd wedi datblygu rhwng y Fenter â'r corff canolog. Fel y nododd Deris Williams wrth ei chyfweld, mae Menter Cwm Gwendraeth yn ystyried bod ei sefyllfa yn dra gwahanol i'r mentrau iaith eraill sy'n rhan o Fentrau Iaith Myrddin:

... gan ein bod yn gwmni cyfyngedig ein hunain, yn elusen. Bellach, wedi'r blynyddoedd cynnar yma, bu rhai rhwystredigaethau yn hanes y Fenter yma ac 'ry'ni bellach yn gweinyddu drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Mentrau Iaith Myrddin. Felly, mae nhw'n cyfrannu i ni am ein gwasanaeth ni.

(Atodiad 7.2: C9)

Buaswn yn cytuno bod sefyllfa Menter Cwm Gwendraeth yn wahanol i'r mentrau iaith eraill sy'n rhan o Fentrau Iaith Myrddin. Wrth gwrs, yr oedd Menter Cwm Gwendraeth wedi bod mewn bodolaeth am gyfnod hirach na'r mentrau eraill ac felly yr oedd wedi datblygu profiad ac arbenigedd. Er bod y mentrau eraill yn ymwneud â datblygu cymunedol, nid oes amheuaeth nad oedd

Menter Cwm Gwendraeth wedi rhoi llawer mwy o sylw i'r agwedd dra phwysig hon. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod datblygiad y ganolfan ym Mhontyberem sy'n cynnwys swyddfa'r Fenter, canolfan hyfforddiant a chaffi yn gwneud y Fenter yn un wir gymunedol, ac yn ei gwneud yn dra gwahanol i'r mentrau eraill yn sir. Mae Bethan Roberts o Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn cytuno bod sefyllfa'r Fenter yn wahanol:

Mae yn sicr yn gwbl unigryw a rhesymau hanesyddol sy'n gyfrifol am hynny. Mae Menter Cwm Gwendraeth erbyn hyn wrth gwrs â 10 mlynedd o brofiad y tu cefn iddi. Oherwydd fod staff presennol Menter Cwm Gwendraeth wedi bod yn gweithio i'r Fenter ers y dechrau, mae wedi gallu cadw'r profiad hynny. Byddwn ni'n dadlau fod y Fenter wedi sefydlu ei hun yn y gymuned leol yn enwedig ers cael swyddfa, caffi, canolfan hyfforddiant ac yn y blaen: mae'n fwy agored, *accessible* i'r gymuned leol.

Pwysleisiodd y gwahaniaeth rhwng y Fenter â mentrau eraill sir Gaerfyrddin:

Mae'r mentrau eraill sy'n bodoli yn sir Gaerfyrddin ar wahân i efallai Menter Dyffryn Aman yn fentrau newydd o ran maint, a ddim ond wedi eu sefydlu ers rhyw bedair mlynedd. Oherwydd nad ydy' eu statws cyfansoddiadol ddim unrhyw beth yn debyg i Fenter Cwm Gwendraeth, mae nhw'n gwbl ddibynnol ar Fentrau Iaith Myrddin yn ganolog ar gyfer cyllid, cyngor personél, arweiniad ac ar gyfer cyfrifoldebau rheolwr llinell ac yn y blaen. Felly, byddwn i'n dweud fod y berthynas rhwng Menter Cwm Gwendraeth â Mentrau Iaith Myrddin ychydig bach yn wahanol i'r berthynas rhwng Mentrau Iaith Myrddin â Menter Llanelli a'r dair fenter wledig.

(Atodiad 7.5 : C8)

Yn y gwaith ymchwil a wnaed gan Ruth Morgan o Brifysgol Cymru Llanbed, *Menter Cwm Gwendraeth 1991-97* a gyhoeddwyd yn 2000, nodwyd bod potensial i fentrau iaith gydweithio yn hytrach na chystadlu yn erbyn ei gilydd am gyllid gan Fwrdd yr Iaith a chyrff eraill:

Ceir yma gyfle i rannu profiadau ac arbenigedd, ac i geisio goresgyn y broblem o ddyblygu gwaith. Dylai peth o'r pwysau ariannol gael ei ddwyn oddi ar ysgwyddau'r mentrau unigol, wrth i'r corff newydd, gyda chymorth ac arbenigedd y Cyngor Sir, wneud ceisiadau am grantiau a chymorth ariannol. Dylai hyn ryddhau'r mentrau i wneud eu priod waith – sef gwarchod a hybu'r Gymraeg ar hyd a lled cymunedau Sir Gâr.

(Morgan 2000: 108)

I ryw raddau llwyddwyd i wireddu hyn o safbwynt rhannu arfer da ac arbenigedd. Yn ogystal, yr oedd y ffaith bod y Cyngor Sir yn ariannu ac yn cymryd cyfrifoldeb am bolisiâu iaith Gymraeg yn gam pwysig ymlaen. Fodd bynnag, oherwydd rhesymau hanesyddol a pholiteicaidd mae Menter Cwm Gwendraeth wedi datblygu ar wahân i'r mentrau eraill sy'n rhan o bartneriaeth Mentrau Iaith Myrddin. Wrth gyfweled Deris Williams, mae'n amlwg nad yw Menter Cwm Gwendraeth yn fodlon â'r strwythur bresennol, er bod elfennau o gydweithio:

'Does dim llawer o drefnu gweithgareddau ar y cyd. Mae rhannu arfer da a gwybodaeth yn sicr yn digwydd. Er enghraifft, llwyddodd Menrau Iaith Myrddin i gael cyllid i ddatblygu cyfres o glybiau gofal i blant ar draws y sir. Wrth gwrs, yr oedd gan Fenter Cwm Gwendraeth y profiad hynny, yr oeddem yn gwneud hynny yn barod. Fe wnaetho' ni gytuno i hyrwyddo'r gwasanaeth hynny ar draws y sir yn gyfan ar ran Mentrau Iaith Myrddin. . . Mewn gwirionedd, rydym yn ddau gwmni ac felly prynu ein gwasanaeth ni fel 'ry'm ni'n prynu eu gwasanaeth nhw ddylai fod yn digwydd. 'Dyw hynny ddim wedi bod yn

digwydd fel y mae ar hyn o bryd. . . Felly, mae *lot* o arfer da wedi digwydd o'r cyfeiriad hynny, *lot* mwy i ddweud y gwir nag y mae nhw wedi gallu cynnig i ni. Ond wrth ystyried ein bod efallai yn llawer mwy aeddfed na nhw.

(Atodiad 7.2 : C11)

5.12 Mentrau Iaith Cymru

Sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn Rhagfyr 2000. Mae'n debygol mai'r prif reswm dros sefydlu'r corff hwn oedd yr angen i rannu arfer da yn sgîl y cynnydd sylweddol yn nifer y mentrau iaith ledled Cymru. Sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru fel Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant ond erbyn hyn mae MIC hefyd wedi cofrestru fel elusen fel y gall fod yn gymwys i ymgeisio am grantiau. Ar y dechrau, staff y mentrau iaith oedd aelodau MIC ond wrth newid y cyfansoddiad yr oedd yn rhaid i hyn newid a bellach aelodau MIC yw aelodau'r pwyllgorau rheoli gydag is-bwyllgor yn cynnwys staff y mentrau yn cyfarfod ar wahân. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cyfarfod yn chwarterol a chynhelir yn gyson gyfarfodydd staff y mentrau iaith. Nid yw MIC wedi llwyddo i berswadio Bwrdd yr Iaith Gymraeg na Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r egwyddor i gyflogi staff canolog i MIC.

Mae MIC yn dadlau bod angen corff cydlynu cenedlaethol gan bod nifer o fentrau iaith wedi eu sefydlu heb gyngor a chefnogaeth addas a bod anghysondebau amlwg rhwng y gwahanol fentrau iaith, gyda gwahaniaethau o ran strwythurau ariannol, hyfforddiant, cyllidebau, pensiynau, telerau cyflogaeth, yswiriant a materion cyfansoddiadol. Wrth gwrs, gellir dadlau bod hyn yn adlewyrchiad o'r ffaith bod union rôl a natur mentrau iaith yn amrywio o ardal i ardal. Mewn papur ar gyfer cyfarfod rhwng y sector wirfoddol â'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, Alun Pugh ym mis Mai 2004, awgrymwyd mai prif swyddogaethau Mentrau Iaith Cymru fyddai:

- rhannu profiadau, arferion da a chyfnwid syniadau
- darparu gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor

- cynorthwyo'r mentrau iaith i ddod o hyd i ffynonellau cyllid
- hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata i godi proffil y mentrau
- darparu cyfleoedd hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr
- datblygu partneriaethau gweithgar â chyrrff a sefydliadau cenedlaethol
- cynrychioli Mentrau Iaith ar bwyllgorau a sefydliadau cenedlaethol
- darparu cyngor ar faterion cyfansoddiadol
- gweithredu fel pwynt cyswllt i staff
- creu ymdeimlad o berthyn i dîm o Fentrau
- darparu cyngor ar reolaeth cyllid a gweinyddiaeth
- creu strategaethau sirol a rhanbarthol
- cyfrannu tuag at strategaethau cenedlaethol
- llobio ar faterion polisi yn ymwneud â'r iaith Gymraeg
- hyrwyddo prosiectau arloesol a chyffrous ym maes cynllunio ieithyddol
- cyfrannu i'r broses o adfywiad cymunedol ac economaidd

(Campbell 2004)

Mae MIC o'r farn y dylid gweithredu yr argymhelliad yn *Ein Hiaith: Ei Dyfodol* sef adolygiad polisi o'r iaith Gymraeg gan Bwyllgor Diwylliant a Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid darparu adnoddau i sefydlu fframwaith cydlynu cenedlaethol ar gyfer y Mentrau Iaith. Byddai hynny'n galluogi'r Mentrau i gydlynu eu gweithgareddau, i rannu arferion da a mynd i'r afael â meysydd lle mae angen mwy o ddatblygiad neu hyfforddiant.

(Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2002: 32)

Er bod *Iaith Pawb* yn cydnabod pwysigrwydd y mentrau iaith wrth gynnal a chynyddu y defnydd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol o'r iaith ar lefel gymunedol, nid oedd cyfeiriad penodol at sefydlu MIC fel corff cydlynu cenedlaethol. Fodd bynnag, yr oedd gan y mentrau iaith rôl allweddol wrth wireddu argymhellion *Iaith Pawb*. Yn wir, yn dilyn cyhoeddi *Iaith Pawb*,

derbyniodd mentrau cymunedol, gan gynnwys y mentrau iaith a'r cynlluniau gweithredu iaith, £3 miliwn yn ychwanegol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2003-06 fel rhan o'r £16 miliwn ychwanegol y bydd y Bwrdd yn derbyn gan Lywodraeth y Cynulliad yn yr un cyfnod. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2004-05, y mentrau iaith sy'n derbyn y grant uchaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sef £1.34 miliwn o'i gymharu â £800,000 yn 2002-03.

Nid oes amheuaeth bod gwahaniaeth barn ymhlith y mentrau iaith o safbwynt rôl Mentrau Iaith Cymru. Mae rhai o staff y mentrau iaith megis Cefin Campbell o'r farn y dylai Mentrau Iaith Cymru ddatblygu'n gorff lobïo â staff cyflogedig a fyddai'n darparu arweiniad o ran agweddau megis strategaeth, polisi ac hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw pob menter iaith yn rhannu'r farn hon. Mae rhai o'r mentrau yn credu y byddai datblygu Mentrau Iaith Cymru yn y fath fodd yn cyflwyno haen arall o fiwrocratiaeth a byddai neilltuo cyllid ar gyfer sefydlu MIC fel strwythur ganolog yn mynd ar draul cefnogi'r mentrau unigol ar lefel gymunedol. Wrth gyfweld Deris Williams mae'n amlwg bod Menter Cwm Gwendraeth o'r farn y byddai sefydlu Mentrau Iaith Cymru fel corff canolog yn arwain at haen arall o fiwrocratiaeth. Er ei bod yn cytuno y dylid rhannu arfer da rhwng y mentrau, awgrymwyd mai drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg y dylid gwneud hynny:

Mae'n braf i gydlynu'r mentrau drwy Gymru, rhannu arfer da, rhannu gwybodaeth ac yn y blaen. Ond 'dwi ddim yn meddwl fod angen haen arall o fiwrocratiaeth. Mae rôl bendant a chlir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac rwy'n meddwl y dylem gydweithredu â'r rôl hynny heb ddyblygu gwaith a manteisio ar yr hyn sydd gan y Bwrdd bellach i'w gynnig i ni fel mentrau.

(Atodiad 7.2:C13)

Gellir dadlau nad yw'n syndod bod Menter Cwm Gwendraeth yn gwrthwynebu sefydlu Mentrau Iaith Cymru fel corff canolog wrth ystyried bod y Fenter yn profi anawsterau o fewn y strwythur sy'n bodoli yn sir Gaerfyrddin â Mentrau Iaith Myrddin. Fodd bynnag, ar sail sgysiau anffurfiol gyda rhai o

swyddogion y mentrau iaith ledled Cymru a swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mae'n amlwg nad Menter Cwm Gwendraeth yw'r unig fenter sy'n amheus o'r cyfeiriad y mae Mentrau Iaith Cymru yn ei ddilyn. Maent o'r farn y dylid sianelu pob cyllid posibl tuag at fentrau unigol yn hytrach nag at gynnal haen arall o fiwrocratiaeth. Arwydd o'r tensiwn sy'n bodoli ymhlith y mentrau yw nad yw pob un o'r mentrau yn anfon dirprwyaeth o'r pwyllgorau rheoli i gyfarfodydd MIC.

Dadl Mentrau Iaith Cymru yw y dylid trin y mentrau iaith yn yr un modd â chyrrff cenedlaethol eraill megis Mudiad Ysgolion Meithrin ac Urdd Gobaith Cymru sy'n derbyn cyllid gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ond sydd â Phrif Weithredwr. Er bod Cadeirydd Mentrau Iaith Cymru ar hyn o bryd yn gallu cynrychioli barn y mentrau iaith, awgryma Mentrau Iaith Cymru bod angen staff cyflogedig er mwyn gwneud hynny'n effeithiol. Yr oedd sylwadau Cefin Campbell yn adlewyrchu safbwynt yr unigolion hynny sydd o blaid sefydlu Mentrau Iaith Cymru fel corff annibynnol ac sy'n dadlau nad lle Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw rheoli cyrrff y maent yn eu hariannu a'u monitro. Fodd bynnag, wrth ystyried safbwynt rhai o'r mentrau iaith megis Menter Cwm Gwendraeth mae'n rhaid amau os oes 'teimlad cyffredinol' fel y nododd Cefin Campbell:

Felly, mae yna deimlad cyffredinol fod angen rhyw fath o gorff cydlynu ar y mentrau fyddai'n annibynnol i Fwrdd yr Iaith. Y cwestiwn dwi wedi ei ofyn i Fwrdd yr Iaith a'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yw sut y gall corff statudol sydd yn Gwango neu'n ASPB, rheoli cyrrff cymunedol fel y mentrau iaith a'u monitro nhw ar yr un pryd. Dwi ddim yn credu bod modd i gorff i wneud hynny a dwi ddim yn siŵr iawn sut y maen'nhw'n gallu parhau i wneud hynny. Ond ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn gweld hi'n anodd iawn i gefnogi sefydlu Mentrau Iaith Cymru yn gorff canolog ond i ni'n dal i bwysu ar y Bwrdd a'r Gweinidog i wneud hynny.

(Atodiad 7.1:C15)

Dadl arall o blaid sefydlu corff annibynnol yw nad Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw unig ffynhonnell ariannol y mentrau. Er mai'r Bwrdd yw'r prif gorff ariannu mae'r mentrau yn derbyn nawdd sylweddol gan gyrff eraill megis Cronfa Gymunedol y Loteri, Ewrop ac awdurdodau lleol. Wrth gyfweld Bethan Roberts o Fwrdd yr Iaith Gymraeg mae'n amlwg nad yw'r Bwrdd yn rhannu'r farn uchod o safbwynt monitro'r mentrau:

Byddwn yn anghytuno'n llwyr na ddylai'r Bwrdd fonitro'r mentrau. Mae'n gyfrifoldeb sylfaenol ar unrhyw gorff cyhoeddus sy'n dosrannu arian cyhoeddus bod yn rhaid monitro y defnydd o'r arian. Mae'r Bwrdd yn monitro unrhyw sefydliad sy'n derbyn grant gennym ni. Mae'n rhaid i ni wneud hynny ac mae hynny ynghlwm ag arfer dda neu safonau gwariant cyhoeddus. Felly, dwi ddim yn gweld sut bod unrhyw sefydliad yn gallu anghytuno bod yna gyfrifoldeb ar y Bwrdd.

(Atodiad 7.5: C5)

Mae Bwrdd yr Iaith yn gefnogol iawn i'r syniad o rannu arfer da rhwng y mentrau a chynyddu'r ymdeimlad o weithio fel tîm cenedlaethol ac yn wir nid yw'n gwrthwynebu bodolaeth na sefydlu MIC. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd yn ystyried ei bod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd ariannu gweinyddiaeth ganolog Mentrau Iaith Cymru. Yn hytrach, mae ariannu'r mentrau unigol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r iaith ar lefel gymunedol yn fwy o flaenoriaeth i'r Bwrdd. Byddai angen i Fentrau Iaith Cymru wneud cais i'r Bwrdd am gyllid yn yr un modd â sefydliadau eraill o dan brif gynllun grantiau'r Bwrdd. Nid oedd Bethan Roberts yn cytuno nad oes llawer o gyfleoedd i'r mentrau iaith rannu arferion da:

Mae yna nifer fawr o gyfleoedd i'r mentrau iaith rhannu arfer da, i rannu syniadau ac i ddod at ei gilydd fel staff ac fel gwirfoddolwyr i rannu profiad a syniadau. Mae hynny wedi digwydd yn y gorffennol drwy gyfarfodydd a chynadleddau

enedlaethol y mae'r Bwrdd wedi eu trefnu. Ar hyn o bryd, mae hefyd yn digwydd drwy'r cyfarfodydd mae Mentrau Iaith Cymru yn eu trefnu, naill ai'n genedlaethol neu'n rhanbarthol. Felly, fyddwn i ddim yn cytuno efo'r ddadl 'does yna ddim cyfleoedd. Buaswn yn gofyn beth sydd yn deillio o gyfarfodydd o'r fath a pha weithgaredd newydd fyddai'n deillio o gyfarfodydd o'r fath. Cyn belled fod yna ganlyniad, fyddai ddim unrhyw fath o wrthwynebiad o gwbl i'r mentrau ddod at ei gilydd i rannu arfer da a bydden ni'n annog hynny

(Atodiad 7.5: C5)

5.13 Ariannu Menter Cwm Gwendraeth a'r mentrau iaith yn gyffredinol

Fel y nodwyd eisoes, yn sgîl *Mesur yr Iaith* 1993, trosglwyddwyd y Fenter i ofalaeth y Bwrdd Iaith statudol. Yn sgîl llwyddiant Menter Cwm Gwendraeth sefydlwyd mentrau iaith ledled Cymru. Er bod hyn i'w groesawu, yr oedd yn anorfod y byddai hynny'n arwain at gystadleuaeth am arian. Bwrdd yr Iaith Gymraeg fu'n gyfrifol am sefydlu ac ariannu'r mentrau yn y lle cyntaf. Y broblem a oedd yn wynebu'r Bwrdd Iaith Statudol oedd sut y dylid ariannu'r mentrau a oedd yn bodoli eisoes a phenderfynu a ddylid sefydlu rhai eraill. Yr oedd yr Arglwydd Elis Thomas o'r farn bod profiad Menter Cwm Gwendraeth yn fodd i ddatrys y benbleth hon:-

Ac, yn fy marn i, profiad Menter Cwm Gwendraeth a fydd ar y dechrau'n sail i'r arbenigedd a gynigid. O osod y sail a chynnig cyfeiriad sicr, gallai gweithgaredd pellach ddeillio o ymdrechion a brwdfrydedd y bobol leol heb orfod chwilio am arian mawr o ffynhonnell ganolog.

(Thomas 1994 : 7- 8)

Nid oes amheuaeth bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi chwarae rôl ganolog yn natblygiad y mentrau iaith. Fodd bynnag, wrth i fentrau newydd ymddangos ledled Cymru yr oedd yn anorfod y byddai'n rhaid i'r mentrau

ddod o hyd i gyllid o ffynonellau eraill. Trafodwyd eisoes y sefyllfa yn sir Gaerfyrddin gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin yn cyfrannu tuag at Fentrau Iaith Myrddin. Dros y blynyddoedd, llwyddodd Menter Cwm Gwendraeth i ddenu nawdd o amryw o ffynonellau ar wahân i Fwrdd yr Iaith megis yr awdurdodau lleol, Ewrop, Y Loteri Cenedlaethol, Cronfa Plant Mewn Angen ynghyd â'r sector breifat gyda Dŵr Cymru a BT yn cyfrannu arian. Bu'n rhaid i'r holl fentrau iaith ddod o hyd i ffynonellau nawdd tebyg oherwydd yr oedd yn amhosibl i'r Bwrdd allu parhau i ariannu'r mentrau i'r un graddau ag y gwnaethant yn ystod y blynyddoedd cyntaf yn sgîl sefydlu Menter Cwm Gwendraeth. Yn wir, gwiredwyd yr hyn yr oedd Colin Williams a Jeremy Evas wedi ei ragweld yn *Y Cynllun Ymchwil Cymunedol* yn 1997 :

Peth da yw fod Bwrdd yr Iaith yn cael ei weld fel corff hwyluso a chyfrannwyr ariannol cychwynnol i fentrau lleol fel Menter Cwm Gwendraeth a Menter Aman Tawe. Heb yr ymroddiad allanol a'r gefnogaeth ariannol hon, mae'n anhebygol a fyddai Mentrau Iaith wedi datblygu i'r fath raddau. Serch hynny, mae'n debyg na fydd Bwrdd yr Iaith mewn sefyllfa i gyfrannu'n ariannol at Fentrau newydd i'r un graddau ag a wnaed yn achos y Mentrau a sefydlwyd eisoes, ac y bydd yn rhaid i Fentrau ddarganfod ffynonellau eraill o gefnogaeth ariannol.

(Williams & Evas 1997 : 26)

Er bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn parhau i ariannu'r mentrau iaith, erbyn hyn nid y Bwrdd yw'r unig ffynhonnell ariannol. I'r mwyafrif o fentrau iaith un o amryw o bartneriaid yw'r Bwrdd. Bu hyn yn ddatblygiad arwyddocaol yn hanes y mentrau iaith.

Ni ellir gwadu na fu'r ansicrwydd ynglyn ag ariannu Menter Cwm Gwendraeth yn yr un modd â'r mentrau iaith eraill yn faen tramgwydd. Ers ei sefydlu, ni fu patrwm sefydlog yn y modd y cafodd y Fenter ei hariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn wir, cawsant eu ariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Ebrill 1994 am gyfnod o chwe mis yn unig, ac yna'n fisol tan

ddiwedd y flwyddyn ariannol ym mis Mawrth 1995 ac yr oedd hynny yn amharu'n ddirfawr ar eu gwaith. Yn y flwyddyn ariannol 1995-96 cafodd y Fenter gytundeb blwyddyn a dyma fu'r sefyllfa am rai blynyddoedd.

Ers rhyw ddwy flynedd bellach mae'r mentrau iaith yn cael eu ariannu am gyfnod o dair blynedd. Mae Mentrau Iaith Myrddin hefyd yn cael eu ariannu am gyfnod o dair blynedd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Er bod Cefin Campbell yn nodi bod ariannu am dair blynedd yn roddi dipyn mwy o sicrwydd na'r sefyllfa flaenorol o flwyddyn yn unig, yr oedd o'r farn mai cyfnod byr oedd hyn yng nghyd-destun cynllunio ieithyddol ar gyfer y dyfodol. Yr oedd Bethan Roberts hefyd yn cydnabod nad oedd tair blynedd efallai yn ddigon o amser ond nad oedd oedd llawer o gyllidwyr yn rhoi sicrwydd o fwy na dair blynedd. Nododd y manteision o'i gadw'n dair blynedd:

. . . yw os nad yw sefydliad yn perfformio neu'n datblygu o gwbl o fewn tair blynedd, mae hynny'n rhoi digon o awgrym i'r cyllidwr na fydden nhw'n gwneud dim gwell ymhen tair blynedd arall. Felly, os nad ydyn'nhw wedi gwneud y gorau y medren'nhw mewn tair blynedd, fydden ni ddim efallai yn parhau i gyllido ond yn sicr fydden ni ddim yn rhoi mwy o gyllid iddyn'nhw ddatblygu am er enghraifft cyfnod o rhwng saith a deg mlynedd.

(Atodiad 7.5: C2)

Mae'r drefn o ariannu Mentrau Iaith Myrddin dros gyfnod o dair blynedd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Sir Caerfyrddin yn peri ansicrwydd i staff y mentrau yn y sir yn arbennig tua diwedd y cyfnod dan sylw.

Er bod Menter Cwm Gwendraeth yn gofidio y gallai parhad cynyddol yng ngostyngiad ei grant gan Fwrdd yr Iaith effeithio ar ei gweithgarwch, yr oedd Cefin Campbell yn cydnabod bod y Fenter wedi paratoi ar gyfer hyn:

A bod yn deg o'n ni'n rhagweld y byddai hynny'n debygol o ddigwydd oherwydd wrth i 'Menter Mania' sgubo ar draws y wlad 'ro n i'n sylweddoli mai yr un *pot* arian oedd yna i gynnal un neu ddwy o fentrau ag sydd yna i gynnal naw neu ddeg o fentrau, ac wrth gwrs bod ein rhan ni o'r gacen yn mynd i fod yn llai.

(Atodiad 6.1: C13)

Am flynyddoedd, Menter Cwm Gwendraeth oedd y fenter iaith a dderbyniodd y grant fwyaf gan Fwrdd yr Iaith. Yn wir, amlinellir y sefyllfa yn yr ystadegau isod o Adroddiad Blynddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer 1996-97:

	1996- 97	1997- 98
Menter Cwm Gwendraeth	£87,262	£70,000
Menter Aman Tawe	£71,696	£47,678
Menter Taf Elai	£46,323	£46,000
Menter Maldwyn	£18,451	£20,000
Menter Iaith Llanelli	£2,860	
Menter Môn		£12,000

(Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1996- 97)

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2004-05, mae'r mentrau iaith yn eu cyfanrwydd ledled Cymru yn derbyn £1.4 miliwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae Mentrau Iaith Myrddin yn derbyn £221,000 sef y swm unigol fwyaf . Dim ond Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru oedd yn derbyn mwy na'r mentrau iaith. Fodd bynnag, o'r £221,000

sy'n mynd i Fentrau Iaith Myrddin yn 2004-05, dim ond £40,000 y mae Menter Cwm Gwendraeth yn ei dderbyn gan Fentrau Iaith Myrddin sy'n cynnwys £20,000 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Fel y dywed Deris Williams:

'dyw pobl ddim yn sylweddoli o'r £40,000 sy'n dod gan Fentrau Iaith Myrddin, hanner y swm 'na sy'n dod wrth Fwrdd yr Iaith. Wrth feddwl am gwmni sydd â incwm o £400,000 mai £20,000 yn unig sy'n dod gan y Bwrdd Iaith. Ond eto i gyd mae'r un amodau a strwythurau gweinyddu yn bodoli er mai cyn lleied yw'r cyfraniad.

(Atodiad 7.2 : C12)

Felly, bu gostyngiad sylweddol yn y cymorth ariannol y mae'r Fenter yn ei dderbyn gan Fwrdd yr Iaith wrth ystyried bod y Fenter yn derbyn £87,262 yn y flwyddyn ariannol 1996-97. Dylid llongyfarch Menter Cwm Gwendraeth ar ddenu nawdd o ffynonellau eraill hyd yn oed ym mlynnyddoedd cyntaf bodolaeth y Fenter pan oedd y grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn fwy sylweddol nag ydyw erbyn 2004.

Wrth i fwy o fentrau iaith gael eu sefydlu ledled Cymru, yr oedd yn anorfod y byddai grant Bwrdd yr Iaith i Fenter Cwm Gwendraeth yn lleihau. Yr oedd denu cefnogaeth yr awdurdod lleol yn holl bwysig. Nid oes amheuaeth na fu'r Fenter yn siomedig yn ystod blynyddoedd cyntaf ei bodolaeth gyda'r nawdd a dderbyniwyd gan y cynghorau lleol. Yn wir yn ei chyfweliad gyda Ruth Thomas (a oedd yn gwneud gwaith ymchwil ar yr iaith yng Nghwm Gwendraeth ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd) yn 1995 mae Cefin Campbell yn datgan ei siom gyda Chyngor Sir Dyfed a Chyngor Bwrdeistref Llanelli am eu amharodrwydd i roddi llawer o arian i'r Fenter. Fodd bynnag, yn sgîl ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996, dim ond gydag un cyngor, sef Cyngor Sir Caerfyrddin y bu'n rhaid i'r Fenter orfod delio, ac mae'n siŵr y bu hynny'n fanteisiol. Nid oes amheuaeth y bu Cyngor Caerfyrddin yn gefnogol iawn i'r Fenter a buddsoddiad ariannol y cyngor oedd cefndir sefydlu Mentrau Iaith Myrddin. Dywed Cefin Campbell yn 1998:

'rwy'n falch i ddweud bod pethau yn boliticaidd wedi gwella yn fawr.

(Atodiad 6.1 : C18)

Felly, yr oedd penderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin i ariannu Mentrau Iaith Myrddin ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Choleg y Drindod yn ddatblygiad arwyddocaol. Er bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn cefnogi mentrau iaith yn ariannol, fel y nododd Cefin Campbell yn 2004, Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n darparu'r mwyaf o gyllid ymhlith y cynghorau ac mae'n hapus iawn gyda'r gefnogaeth hon sydd yn treiddio'n ddyfnach na darparu cyllid yn unig:

. . . Cyngor Sir Caerfyrddin o bob cyngor yng Nghymru sy'n rhoi fwyaf tuag at y mentrau iaith. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ar hyn o bryd ac yn sicr dros y tair blynedd diwethaf wedi rhoi £100,000 y flwyddyn sydd dair gwaith yn fwy nag y mae unrhyw un sir arall yn ei rhoi tuag at y mentrau iaith. Felly, mae ein dyled ni'n fawr i'r Cyngor Sir. Nid yn unig i ni'n cael cefnogaeth ariannol ganddyn'nhw ond yr ydym yn cael cefnogaeth o ran polisiau a chefnogaeth o ran cydweithredu. Mae nhw yn sicrhau fod y mentrau yn rhan allweddol o ddatblygu polisiau ac o ran strwythurau pwyllgorau ac yn y blaen lle mae'r mentrau yn gallu dylanwadu yn fewnol hefyd ar waith y Cyngor.

(Atodiad 7.1 : C3)

Cyfeiriodd Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd at y gefnogaeth ariannol a roddwyd mewn cymhariaeth ag awduroddau lleol eraill Cymru mewn cyflwyniad i adolygiad iaith Pwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 6 Chwefror 2002:

Mae'r gefnogaeth a roddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin i'r maes arbennig hwn o gynllunio ieithyddol yn fwy na chefnogaeth holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru gyda'r gilydd.

(www.cymru.gov.uk)

Yn ystod dyddiau cynnar Mentrau Iaith Myrddin yn 1998 bu gwrthdaro rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg sef prif bartneriaid Mentrau Iaith Myrddin ynglŷn ag ariannu Mentrau Iaith Myrddin. Er na fu unrhyw densiynau amlwg ers hynny, mae'n bosibl ei fod yn anorfod wrth i gynghorau megis Cyngor Sir Caerfyrddin ddod ynghlwm â'r mentrau iaith fod yna bosibilrwydd i benderfyniadau gael eu rheoli gan ffactorau gwleidyddol.

5.14 Monitro'r mentrau iaith

Fel y nodwyd eisoes, bu Bwrdd yr Iaith yn ganolog iawn wrth sefydlu a datblygu'r mentrau iaith drwy gefnogaeth ariannol a hefyd wrth gynghori'r mentrau mewn amrywiol ffyrdd. Mae'n bwysig ystyried felly beth yw perthynas y mentrau iaith â'r Bwrdd. Tra'n trafod perthynas y Fenter gyda Bwrdd yr Iaith wrth ei gyfweld yn 1998 datgelodd Cefin Campbell, er nad oedd y Bwrdd yn ymyrryd o gwbl yng ngwaith y Fenter, y byddai wedi hoffi pe byddent wedi dod i weld sut y mae eu arian yn cael ei wario:-

Dwi'n deall efallai bod llawer iawn o bethau eraill gyda Bwrdd yr Iaith i boeni amdanynt, mwy efallai pwysig na mentrau iaith, yn arbennig efallai y Fenter hon, gan ei bod nhw efallai yn hapus gyda'r gwaith i ni'n neud ac yn teimlo ein bod yn gwneud y gwaith yn iawn ac nad oes angen dod i'n trafferthu ni. Ond weithiau bydden ni wedi hoffi petai nhw wedi dangos ychydig bach mwy o ddiddordeb efallai yn y gwaith i ni'n neud.

(Atodiad 6.1 : C15)

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn monitro'r mentrau iaith yn y ffyrdd canlynol:

- drwy fesur cynnydd yn erbyn targedau. Dim ond ar yr amod fod cynnydd digonol yn cael ei wneud yng ngwaith y mentrau iaith y telir grantiau. Mae'r mentrau yn gorfod anfon dau adroddiad i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf a Ionawr er mwyn adrodd ar y targedau a gytunwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Fel y nodwyd eisoes, mae'r mentrau bellach yn derbyn cyllid am gyfnod o dair blynedd ond mae angen i'r mentrau gytuno ar dargedau â'r Bwrdd ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol mae'r mentrau yn anfon adroddiad cyfrifon i'r Bwrdd.
- drwy fonitro a gwerthuso gwaith y mentrau iaith. Mae hyn yn golygu ymweld â phob menter o leiaf unwaith y flwyddyn i gwrdd â'r staff a monitro'r gweithgareddau yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt. Cyfeiriodd Bethan Roberts wrth ei chyfweld bod y Bwrdd mewn cysylltiad agos â'r mentrau a bod staff y Bwrdd mewn cysylltiad gyda phob menter o leiaf unwaith y mis. Soniodd hefyd mai dau o staff y Bwrdd sy'n ymdrin yn benodol â'r mentrau iaith ond bod dau arall gan gynnwys un o'r uwch gyfarwyddwyr hefyd yn treulio rhan o'u amser yn ymdrin â'r mentrau. Mae'r Bwrdd hefyd yn cwrdd â staff y mentrau yn ganolog yn reolaidd i drafod amryw o faterion, gan gynnwys cydweithredu ar brosiectau cyffredin. Mae'r Bwrdd yn trefnu cynhadledd flynyddol ar gyfer y mentrau.
- drwy fonitro allanol. Cyn 1998 yr oedd angen i gyllidwyr gynnal arolwg annibynnol o gyrff a oedd yn derbyn dros £200,000 bob chwe mlynedd. O ran arfer da, mae'r Bwrdd yn parhau i gomisiynu arolygon annibynnol. Felly, yn 2000 cynhaliwyd adolygiad o'r mentrau iaith gan gwmni *Iaith Cyf*. Yr oedd hwn yn adroddiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd ac effaith y mentrau iaith oedd yn bodoli bryd hynny.

Ar wahân i'r adolygiad allanol gan *Iaith Cyf*, daw'r gost o fonitro'r mentrau o gyllideb staffio craidd y Bwrdd.

Rhaid cofio bod y mentrau yn derbyn cyllid o ffynonellau eraill megis yr awdurdodau lleol, arian loteri, Plant mewn Angen, ac Ewrop, a bod gan bob un o'r rhain eu mecanweithiau monitro eu hunain. Yn achos Mentrau Iaith Myrddin mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin rôl benodol wrth fonitro'r mentrau iaith. Fel y dywed y Cynghorydd Eirwyn Williams:

Mae'r rheolwyr ardal—mae nhw wedi newid eu henw yn ddiweddar—yn cyflwyno eu hadroddiadau i ni yn rheolaidd o ran y cynnydd neu'r diffyg cynnydd sy'n digwydd. Wrth gwrs 'does dim cynnydd bob amser ond mae angen cymhwyso beth y ddylid ei wneud yn sgîl yr adroddiadau hynny.

(Atodiad 7.3: C7)

Yn ogystal, mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am gymeradwyo strategaeth gorfforaethol Mentrau Iaith Myrddin.

5.15 Adroddiad Iaith Cyf

Mae cwmni *Iaith Cyf* yn darparu nifer o wasanaethau er mwyn hybu dwyieithrwydd drwy gynnig arweiniad i nifer o sefydliadau yng Nghymru. Pan gyhoeddwyd adroddiad y cwmni ar y mentrau iaith yn 2000, yr oedd 19 o fentrau iaith wedi eu sefydlu ledled Cymru. Wrth gwrs ers cyhoeddi'r adroddiad parhaodd y mentrau i ddatblygu ac erbyn hyn y mae 25 o fentrau iaith. Yr oedd yr adroddiad yn croesawu cyfraniad y mentrau iaith o ran cynllunio ieithyddol yng Nghymru:

Mae'r adroddiad hwn o'r farn fod y cysyniad o fenter iaith yn ddatblygiad i'w groesawu ac yn un sydd â photensial sylweddol i weithredu cynllunio iaith yn y gymuned yng Nghymru . . . gall y mentrau gyfrannu'n arwyddocaol at yr holl broses o ddatblygu cymunedol yng Nghymru mewn modd cyffrous a blaengar.

(Jones & Ioan 2000: 9)

Er bod ymdriniaeth o'r gwaith da a gyflawnwyd gan y mentrau, mae awduron yr adroddiad yn cydnabod bod yr adroddiad efallai yn canolbwyntio mwy ar y diffygion er mwyn gallu cyflwyno argymhellion er mwyn datblygu'r mentrau.

Lluniwyd holiadur a anfonwyd at bob un o'r mentrau ac ymwelodd yr awduron â saith o'r mentrau. Arolygwyd y mentrau yn ôl tair is-adran:

- Statws, Adnoddau, a Rheolaeth y Mentrau
- Meysydd Gweithgareddau y Mentrau
- Dulliau Gweithredu

Nid wyf yn bwriadu dadansoddi'n fanwl gynnwys a chasgliadau'r adroddiad ond teg fyddai nodi bod yr awduron wedi ystyried pob agwedd o waith y mentrau gan gynnwys statws cyfansoddiadol y mentrau, rheolaeth cyllid ac adnoddau dynol. Mae'n bosibl mai un o'r prif nodweddion a nodir yw bod y mentrau yn wahanol iawn i'w gilydd o ran eu cyfansoddiad a sut maent yn gweithredu. Yn ogystal, nodir mai un o brif gryfderau'r mentrau yw bod eu staff a gwirfoddolwyr yn frwdfrydig iawn ac yn gweithio'n ddiflino, ond ar y cyfan gweithlu ifanc, di-brofiad sydd gan y mentrau ac mae darparu hyfforddiant i'r staff yn un o brif argymhellion yr adroddiad. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad sy'n amlinellu'r ffordd ymlaen i'r mentrau iaith ym marn yr awduron .

Fel y nodwyd eisoes, gwelwyd datblygiad pellach yn y mentrau iaith ers cyhoeddi'r adroddiad dros bedair blynedd yn ôl, a byddai disgwyl bellach i nifer helaeth o'r argymhellion fod wedi eu gweithredu. Wrth gyfweld cynrychiolwyr o'r mentrau iaith a Bwrdd yr Iaith Gymraeg cefais ymateb tra gwahanol wrth holi am lwyddiant gweithredu'r argymhellion. Nid oedd Cefin Campebl o'r farn bod llawer o'r argymhellion wedi eu gweithredu:

Araf iawn y mae'r argymhellion hynny wedi cael eu gweithredu.
Dwi'n meddwl mai gyda Bwrdd yr Iaith y mae'r cyfrifioldeb yn

y pen draw. Heblaw am ambell i sesiwn hyfforddiant, ‘does dim llawer o weithredu wedi digwydd ar yr argymhellion eraill.

(Atodiad 7.1 : C14)

Ar y llaw arall yr oedd Deris Williams yn credu bod nifer o’r argymhellion wedi eu cyflawni yn naturiol. Soniodd am y cyfeiriad yn adroddiad *Iaith Cyf* at rhyw fath o *exit strategy* ac yng Nghwm Gwendraeth gyda digwyddiadau fel Gŵyl y Gwendraeth a chlybiau ar ôl ysgol yr oedd y gymuned leol yn gyfrifol am eu trefnu (Atodiad 7.2 : C23). Yn yr un modd, mae Bethan Roberts o Fwrdd yr Iaith Gymraeg o’r farn bod nifer o argymhellion adroddiad *Iaith Cyf* wedi eu gweithredu. Yn wahanol i Cefin Cambell a nododd mai Bwrdd yr Iaith Gymraeg oedd â’r prif gyfrifoldeb i weithredu’r argymhellion, pwysleisia Bethan Roberts mai nid cyfrifoldeb Bwrdd yr Iaith yn unig oedd gwneud hynny. Nododd bod disgwyl i’r mentrau eu hunain ynghyd â chyrrff a phartneriaid eraill weithredu nifer o’r argymhellion:

Felly, mae angen i bawb sydd ynghlwm â’r mentrau, naill ai fel cyllidwr, cyfranddalwr, gwirfoddolwr neu staff i fynd nôl at yr argymhellion ag ystyried cyfrifoldeb pwy ydy’ gwireddu nifer fawr ohonyn’ nhw. . . mae’n fater o gyfateb pob un o’r argymhellion i weld cyfrifoldeb pwy ydy’ i’w gweithredu nhw ac yna edrych pa rhai sydd wedi eu gweithredu.

(Atodiad 7.5 : C6)

Cadarnhaodd yr hyn a ddywedodd Cefin Campbell o ran y Bwrdd yn trefnu hyfforddiant ar gyfer staff y mentrau. Fel y nodwyd eisoes darparu hyfforddiant i staff y mentrau oedd un o brif argymhellion yr adroddiad. Wrth ei chyfweld cadarnhaodd Bethan Roberts mai un o’r argymhellion nad oedd wedi ei weithredu oedd sicrhau unffurfiaeth mewn cyflogau ar draws y mentrau iaith ond pwysleisiodd mai cyfrifoldeb y mentrau oedd cytuno ar hynny ac nad oedd yn bosibl i Fwrdd yr Iaith fel cyflogwr i fynnu pa raddfeydd cyflog y dylai’r mentrau dalu i’w staff.

5.16 Dadansoddiad o gyfraniad Menter Cwm Gwendraeth a sylwadau ar gyfer y dyfodol

Ers ei sefydlu yn 1991 gwnaed cyfraniad holl bwysig gan Fenter Cwm Gwendraeth ar gyfer hyrwyddo'r iaith ar lefel gymunedol. Llwyddodd y Fenter i ail-gyflwyno'r Gymraeg mewn rhai peuoedd tra ar yr un pryd gyflwyno'r iaith mewn rhwydweithiau newydd. Nid oes amheuaeth y bu'n rhaid i'r Fenter ganolbwyntio yn ystod y blynyddoedd cyntaf ar ddarparu digwyddiadau cymdeithasol yn enwedig i ieuenctid yr ardal. Serch hynny, sylweddolodd swyddogion y Fenter bod angen roddi sylw hefyd i ddatblygu cymunedol. Am gyfnod datblygodd y Fenter Iaith a'r Fenter Gymunedol ar wahân ac yr oedd perygl i'r ddwy ymbellhau. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y ddwy bellach wedi uno yn arwydd clir bod cysylltiad annatod rhwng yr iaith ag adfywio cymunedol. Mae'r Fenter, yn enwedig ers agor y swyddfa newydd ym Mhontyberem, wedi datblygu i fod yn enghraifft dda o ymagwedd holistig tuag at gynllunio ieithyddol gymunedol. Bu'n rhaid i flaenoriaethau'r Fenter ddatblygu dros y blynyddoedd. Nodwedd amlwg o'r cyfweiliadau y cynhaliAIS yn yr ardal oedd fod angen i drigolion Cwm Gwendraeth gymryd perchnogaeth o'r Fenter ac yr oedd Deris Williams yn cydnabod mai dyma oedd un o brif lwyddiannau'r Fenter:

Rwy'n meddwl mai prif lwyddiant y Fenter yn sicr yw fod pobl wedi teimlo perchnogaeth lleol ac wedi perchnogi'r Fenter sy'n braf o beth.

(Atodiad 7.2 : C8)

Cytunaf â sylwadau Colin Williams a Jeremy Evas am Fenter Cwm Gwendraeth yn *Y Cynllun Ymchwil Cymunedol*:

Mae Menter Cwm Gwendraeth wedi elwa o ddenu personél galluog sydd wedi dangos treiddgarwch wrth ddatblygu cynllunio strategol gwrthrychol. Cynnwys hyn osod nodau realistig, dadansoddi materion penodol sy'n berthnasol i amcanion y Fenter gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ddata

cynradd ac eilradd, monitro ei phrosiectau'n fanwl, a hunanwerthuso ei hymdrechion ymarferol ym maes cynllunio ieithyddol. Yn hynny o beth, mae'r Fenter yn fodel arloesol o gyllunio pwrpasol da.

(Williams & Evas 1997: 23)

Canlyniad anochel llwyddiant Menter Cwm Gwendraeth oedd sefydlu mentrau eraill ledled Cymru. Nid oes amheuaeth pe byddai Menter Cwm Gwendraeth wedi bod yn fethiant na fyddai mentrau eraill wedi eu sefydlu. Erbyn hyn, canran fechan o gyllideb y Fenter sy'n dod o Fentrau Iaith Myrddin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r cyllid hwn yn parhau'n bwysig i'r Fenter a byddai unrhyw leihad yn amharu'n fawr ar effeithiolrwydd y Fenter. Yn wir, mae Mentrau Iaith Myrddin yn cael ei hariannu am gyfnod o dair mlynedd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Sir Caerfyrddin ac mae'n naturiol bod elfen o ansicrwydd wrth i'r cyfnod o dair blynedd o ariannu ddirwyn i ben.

Er y bu Menter Cwm Gwendraeth yn llwyddianus ers ei sefydlu yn 1991, fel y byddaf yn trafod yn y penodau dilynol, pur siomedig fu'r ymateb i weithgareddau'r Fenter ymhlith y rhai hynny a ymatebodd i'r holiaduron a ddosbarthais yn bennaf yn ardal Cross Hands. Rhesymau hanesyddol a pholitecaidd fu'n bennaf gyfrifol am hynny. Yn yr un modd, gellir dadlau mai rhesymau hanesyddol a pholitecaidd fu'n gyfrifol am y modd y datblygodd Menter Cwm Gwendraeth ers 1998 pan sefydlwyd Mentrau Iaith Myrddin. Yn sgîl datblygiad Menter Cwm Gwendraeth yr oedd yn anochel y byddai sefyllfa'r Fenter yn wahanol i'r mentrau eraill. Ar y dechrau cafodd Menter Cwm Gwendraeth ei drin yn wahanol wrth dderbyn mwy o gyllid ond bellach mae'n derbyn yr un faint o gyllid â'r mentrau eraill sy'n rhan o Fentrau Iaith Myrddin. Yr oedd yr ymateb i'r penderfyniad hwn yn cadarnhau'r tensiynau a oedd eisoes yn bodoli rhwng Menter Cwm Gwendraeth â MIM. Wrth gyfweld Bethan Roberts, mae'n amlwg fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cymryd agwedd hyd braich o'r berthynas:

‘Dy’ ni ddim yn cytuno nac yn anghytuno efo’r trefniant ei hun. Yr unig beth ‘rydym yn pryderu yn ei gylch yw fod y gwaith yn cael ei wneud, hynny yw, mae Mentrau Iaith Myrddin yn cyflwyno cais am grant i’r Bwrdd ar ran Menter Cwm Gwendraeth a’r pump is-fenter arall yn y sir. Mae’r Bwrdd wedyn yn cytuno i rannu’r grant i Fenter Iaith Myrddin yn ganolog a hwythau yn ei tro yn ei rhannu allan i’r is-fentrau. Fel y dywedais yn gynharach, yr ydym yn cytuno targedau efo’r mentrau a pha weithgarwch sydd i fod i gael ei gyllido gan y grant. ‘Rydym angen sicrwydd fod yna gyllid yn cael ei rhannu i Fenter Cwm Gwendraeth i weithredu yn unol â’r cynnig grant. Felly, o ran trefniant mewnol mewn ffordd mae hynny’n led braich oddi wrth ein cyfrifoldeb ni. ‘Does dim hawl gennym fel cyllidwr i fynnu bod Mentrau Iaith Myrddin neu Fenter Cwm Gwendraeth yn newid eu trefniadau.

(Atodiad 7.5 : C7)

Wrth gwrs rôl ganolog sydd gan MIM i sicrhau cyllid a chydlynu’r mentrau ac yn wir gwirededwyd llawer o’r hyn y bwriadwyd ei gyflawni pan sefydlwyd MIM yn 1998. Er bod ychydig o gydweithio a threfnu gweithgareddau ar y cyd â’r mentrau eraill yn sir Gaerfyrddin, mae’r ffaith bod Menter Cwm Gwendraeth bellach yn gweithredu fel elusen ac fel cwmni cyfyngedig yn arwydd bod y Fenter mewn gwirionedd yn gweithredu yn annibynnol ac mai dim ond mewn enw yn unig y mae’n rhan o MIM. Nid wyf yn meddwl bod y trefniant presennol yn ddigonol. Yr wyf yn cydnabod bod llawer o’r tensiynau wedi datblygu yn bennaf yn sgîl rhesymau hanesyddol ond credaf y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Sir Caerfyrddin gydweithredu i ddatrys y problemau sydd wedi datblygu. Yr wyf yn pryderu y gallai datblygiad y mentrau iaith yn Sir Gaerfyrddin a ledled Cymru gael ei lethu gan densiynau rhwng personoliaethau. Arwydd pellach o gymhlethdod y maes yw’r amgwyddweld a fu ac sydd yn parhau ynglyn â datblygiad Mentrau Iaith Cymru. Yn yr un modd â’r tensiynau yn sir Gaerfyrddin mae gwrthdaro rhwng gwahanol bersonoliaethau ymhlith y mentrau a sefydliadau megis Bwrdd yr

Iaith Gymraeg yn dueddol o lywio'r agenda yn hytrach na phriod waith y mentrau i hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel gymunedol.

Fodd bynnag, er bod tensiynau a chymhlethdodau wedi datblygu ymhlith unigolion sy'n gysylltiedig â'r mentrau iaith yn sir Gaerfyrddin a ledled Cymru, yr wyf yn sicr bod gan y mentrau gyfraniad holl bwysig i warchod yr iaith. Fel y dywed Bethan Roberts o Fwrdd yr Iaith Gymraeg:

'Rydym yn credu fod y mentrau yn gwneud cyfraniad reit unigryw i hybu'r Gymraeg yn gymunedol. Mae'r mentrau iaith yn gweithredu mewn ffordd wahanol iawn ar y lefel leol i sut mae sefydliadau eraill megis yr Urdd a Mudiad Ysgolion Meithrin yn gweithredu oherwydd mae amrediad gwaith menter iaith yn eang iawn. 'Dy' nhw ddim yn canolbwyntio ar un sector nac ar un gynulleidfa. Mae mentrau hefyd yn gallu dod â phartneriaid eraill at ei gilydd a chydlynu prosiectau yn lleol. Felly, 'does ddim yr un fenter iaith ar ei phen ei hun yn mynd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymuned. Mae nhw'n un o'r chwaraewyr ynghyd â nifer o sefydliadau gwirfoddol eraill fel yr Urdd, Mudiad Ysgolion Meithrin, Ffermwyr Ifanc a Merched y Wawr ond hefyd ar y cyd â'r sector statudol a darpariaeth a gwasanaeth cynghorau cymuned a chyngor sir.

(Atodiad 7.5 : C9)

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf sefydlwyd cynlluniau gweithredu iaith mewn nifer o ardaloedd ledled Cymru. Y prif wahaniaeth rhwng cynlluniau gweithredu iaith a mentrau iaith yw bod dalgylch y cynlluniau gweithredu iaith yn llai. Yn ogystal, yn wahanol i'r mentrau iaith mae gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg rheolaeth lwyr am y cynlluniau gweithredu iaith. Yn sir Gaerfyrddin, sefydlwyd cynllun gweithredu iaith yn Rhydaman a bu'r Fenter yn cydweithio â'r cynllun i drefnu rhai gweithgareddau. Yn y gwerthusiad ar y cynlluniau gweithredu iaith, a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ystod 2004, trafododd cwmni *Llais y Lli* y berthynas rhwng

mentrau iaith a'r cynlluniau gweithredu iaith, a chyfeiriwyd at y llwyddiant ar y cyfan i gydweithio (Gruffudd, Davies a Morris 2004). Mae'r mentrau iaith yn unigryw ac er bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r mentrau eu hunain yn derbyn ymholiadau niferus o wledydd yn Ewrop a thu hwnt am eu gwaith, nid oes sefydliadau tebyg wedi ymddangos hyd yn hyn. Cyfeiriodd yr Arglwydd Elis Thomas at y Fenter yn ei ddarlith 'Bywyd Yr Iaith' yn 1994, a'r modd y gallai fod yn esiampl i gymunedau eraill. Rhaid cydnabod y gwirededwyd y broffwydolaeth hon a bu'r mentrau yn holl bwysig i warchod y Gymraeg ar lefel gymunedol:

Nid wyf fi yn amau nad yw'r ateb ar gyfer diogelu ein holl gymunedau dwyieithog i'w gael, yn rhannol o leiaf, ym mhrofiad Menter Cwm Gwendraeth.

(Thomas 1994 :7)

Gellir dadlau bod y mentrau bellach wedi cyrraedd croesffordd yn eu hanes a bydd yn ddiddorol gweld sut fydd y mentrau'n datblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

PENNOD 6: DADANSODDIAD O'R GWAITH MAES: Strwythur yr holiadur, iaith yr aelwyd a sgiliau ieithyddol

Yn y bennod hon, a'r un ganlynol, trafodir rhai agweddau o gynnwys yr holiadur a luniwyd gennyf ac a ddosbarthwyd ym mhentref Cross Hands a'r cyffiniau yn ystod 1997. Wrth lunio'r holiadur, yr oeddwn yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar ym maes ethnograffeg gydag ymchwilwyr yn cymryd rhan ym mywydau dyddiol y gymuned a chasglu data yn berthnasol i'w hymchwil. Pwysleisiwyd gwerth y dulliau ymchwil hyn gan arbenigwyr megis Martyn Hammersley a Paul Atkinson a ddywedodd:

In many respects ethnography is the most basic form of social research

(Hammersley & Atkinson 1995 : 2)

Cyflwynwyd rhybudd ganddynt i'r ymchwilydd a ddefnyddia dulliau ethnograffig:

. . . it is salutary to remind ourselves that the ethnographer is very much part of the social world he or she is studying, and is subject to distinctive purposes, constraints, limitations, and weaknesses like everyone else.

(Hammersley & Atkinson 1995 : 287)

Ymdrechais i ystyried oblygiadau'r cyngor hwn wrth baratoi ac asesu'r holiaduron a'u trafod gyda'r ymatebwyr.

Cyn ystyried strwythur yr holiadur, a'r ymatebion i Adran 1, sy'n ymwneud â manylion personol yr ymatebwyr; ac Adran 2, sef iaith yr ymatebwyr, trafodir y rhesymau am ddewis pentref Cross Hands yn ffocws ar

gyfer y gwaith maes. Lluniwyd holiadur a fyddai'n cyfrannu at ystyried yr hyn a ddigwyddodd yn dilyn cau y pyllau glo yn yr ardal. Trafodir rhai agweddau o gynnwys yr holiadur yn y bennod hon a'r gweddill yn y bennod nesaf.

Dewisais ganolbwyntio ar bentref Cross Hands am nifer o resymau. Y mae gennyf gysylltiadau teuluol agos â'r pentref, yn ymestyn nôl dros nifer o genedlaethau. Ymwelais â'r pentref yn gyson dros y blynyddoedd, a threuliais gyfnod ar brofiad gwaith tra'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth yn swyddfa Menter Cwm Gwendraeth yn y pentref ychydig wedi sefydlu'r Fenter yn 1991. Er i swyddfa'r Fenter gael ei lleoli yn y pentref ac i nifer uchel o drigolion y pentref fedru'r Gymraeg, sef 1,086 neu 80.4 y cant yn ôl tystiolaeth Cyfrifiad 1991, cyfeiriwyd yn aml at yr argraff bod y pentref hwn ym mhen uchaf Cwm Gwendraeth, yn llai Cymraeg ei naws na phentrefi eraill y Cwm.

Eglurhad arall am ddewis pentref Cross Hands, ac un pwysicach, yw'r ymwybyddiaeth bod Cross Hands yn un o'r enghreifftiau mwyaf nodedig sydd ar gael yn unman yng Nghymru o bentref glofaol a brofodd y broses o ddad-ddiwydiannu. Gwelwyd yng nghyffiniau Cross Hands ddatblygiadau cynnar yn hanes maes glo De Cymru. Cyfeiriwyd eisoes at sylwadau John Leland, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, am y glo carreg a gynhyrchwyd yng Nghwm Gwendraeth; ymdrechion diwydianwyr megis Alexander Raby ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i gysylltu glofeydd pen uchaf Cwm Gwendraeth gyda phorthladd Llanelli ar arfordir Bae Caerfyrddin; a'r cynnydd sylweddol ym mhoblogaeth pentrefi megis Cross Hands a'r Tymbl ar droad yr ugeinfed ganrif. Yn ystod y cyfnod pan oedd y diwydiant glo lleol yn ei anterth, gweithiai mwyafrif helaeth o'r trigolion lleol yng nglofeydd y *New Cross Hands*, Blaenhirwaun, a'r *Great Mountain* yn Y Tymbl. Medrent gerdded i'r gwaith, a hefyd i'r ysgolion a'r addoldai lleol. Codwyd y Neuadd Gyhoeddus yn Cross Hands yn bennaf drwy ymdrechion y glowyr, a darparwyd adloniant yno mewn cyngherddau, dramâu a dawnsfeydd ar gyfer nid yn unig y pentrefwyr lleol ond hefyd trigolion pentrefi cyfagos megis Dre-fach, Gorslas, Cefneithin, Pen-y-groes, Y Tymbl, a Chwm-mawr. Trafodwyd ym

Mhennod 4 effeithiau cau'r glofeydd lleol ac adeiladu'r ffordd ddeuol newydd sy'n cysylltu â'r M4.

Credais mai doeth fyddai dewis un rhan o bentref Cross Hands yn hytrach na gwneud arolwg gyffredinol. Yr wyf yn ymwybodol na all canolbwyntio ar un rhan o bentref Cross Hands adlewyrchu tueddiadau ym mhob rhan o Gwm Gwendraeth, ond credais mai gwell fyddai canolbwyntio ar un lleoliad yn hytrach na dosbarthu'r holiaduron ledled yr ardal. Dosbarthwyd mwyafrif yr holiaduron i drigolion sy'n byw ger Heol Caerfyrddin a leolir yng nghanol pentref Cross Hands. Mae'r stryd yn cynnwys Canolfan Iechyd, cartref hen bobl, tafarn, capel, neuadd gyhoeddus ac ysgol gynradd. Yr oedd y stryd hefyd yn gartref i brif swyddfa Menter Cwm Gwendraeth pan ymgymrais â'r gwaith maes. Yn anffodus, yn sgîl effeithiau llifogydd, bu'n rhaid i staff y Fenter symud a bellach lleolir staff y Fenter ym Mhontyberem.

Penderfynais siarad wyneb yn wyneb gyda phob un o'r rhai a fyddai'n rhan o'r sampl yn hytrach na gadael yr holiaduron o dan y drws gan obeithio y byddent yn cael eu llenwi. Esboniais gynnwys a diben yr holiadur ac yr oedd yn well gan y mwyafrif i mi alw yn ôl i'w casglu naill ai yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw neu drannoeth. Eto yr oedd yn well gan rai, yn enwedig yr henoed, i mi aros i'w helpu wrth llenwi'r holiadur.

Yn ogystal, gadewais 35 o'r holiaduron gyda phrifathro'r ysgol gynradd yn Cross Hands, sydd wedi ei lleoli ar y stryd y dewisais i lunio'r astudiaeth, i'w dosbarthu i rieni'r dwy flynedd olaf yn yr ysgol ynghyd â'r athrawon. Mae'r ysgol, yn yr un modd ag holl ysgolion cynradd Cwm Gwendraeth, wedi eu gosod yng Nghategori 'A' ac felly maent yn dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Eto, er bod mwyafrif helaeth y disgyblion yn dod o bentref Cross Hands, prin yw'r rhai a ddaw o gartrefi uniaith Gymraeg. Yn wir, cyfeirir at hyn yn yr adroddiad a ddilynodd arolygiad o'r ysgol yn 1996:

Ardal draddodiadol Gymraeg yw'r un a wasanaethir gan yr ysgol, ond gwelwyd gostyngiad amlwg a chyson dros y

blynyddoedd diwethaf yn y niferoedd sydd yn siarad Cymraeg fel mamiaith ac ar adeg yr arolygiad, ychydig o dan 20 % yn unig o drigolion oedd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

(Elliott 1996 : 5)

Mae'r adroddiad yn sôn hefyd am effeithiau cau'r pyllau glo ar yr ysgol ac adlewyrchiad o hyn oedd yr hawl gan 24 y cant o'r disgyblion i gael prydau ysgol yn rhad ac am ddim. Cynhaliwyd adroddiad arall o'r ysgol yn 2002 ac mae'n drawiadol bod gostyngiad yn nifer y rhai hynny sy'n derbyn prydau bwyd am ddim.

'121 disgybl sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Nodir gan yr ysgol nad yw cefndir y disgyblion yn freintiedig nac yn ddifreintiedig. Mae tua 12% a hawl i brydiau bwyd am ddim ac mae'r disgyblion yn cynrychioli ystod gallu llawn. Daw tua 25% o gartrefi lle Cymraeg yw prif iaith y cartref ac 1% o gefndir lleifarifoedd ethnig'.

(Betts 2002 : 5)

Cefais ymateb cadarnhaol iawn gan drigolion y tai a rhieni plant ysgol gynradd y pentref. Ymatebodd 47 o drigolion sy'n byw ar Heol Caerfyrddin ynghyd ag ystad Bancyffynnon sy'n ffinio Heol Caerfyrddin, a hefyd pump sy'n aelodau yng nghapel Tabor, enwad y Bedyddwyr, prifathro'r ysgol gynradd ynghyd ag un o'r athrawon a thri sy'n gweithio yn y Ganolfan Iechyd. Yr oedd y mwyafrif o'r bobl yn ddigon parod i gydymffurfio i lenwi'r holiadur. Dim ond rhyw chwech o bobl a wrthododd gydweithredu ac yr oedd ganddynt resymau amrywiol am wneud hynny. Tra bod dwy wraig mewn un tŷ yn siarad Cymraeg ac yn gefnogol i'r iaith nid oeddent yn gallu bod o gymorth oherwydd gwaeledd, yr oedd rhesymau y gweddill yn wan i ddweud y lleiaf. Eto, dim ond wrth ymweld ag un tŷ y profais wrthwynebiad llwyr i'r astudiaeth a'r Gymraeg yn gyffredinol. Yr oedd y gŵr a oedd yn byw yno yn amlwg wedi symud i'r ardal o Loegr ac nid oedd ganddo unrhyw ddiddordeb yn yr iaith. Ceisiais esbonio'r hyn yr oeddwn yn ei wneud, ond mae'n debyg mai camgymeriad

fyddai wedi ceisio dadlau gyda'r gŵr hwn yn enwedig am fod ganddo gi enfawr a oedd yn edrych yn ddigon peryglus!

Felly, gan bod rhai o drigolion y tai wedi gwrthod llenwi'r holiadau, nid oeddwn yn rhy obeithiol o'r ymateb wrth i blant yr ysgol fynd â'r holiaduron adref. Fodd bynnag, o'r 35 a adewais, derbyniais 19 yn ôl wedi eu llenwi. Yn ddi-os, yr oedd yr ymateb cadarnhaol hyn yn ganlyniad ar lawer ystyr i frwdfrydedd a chefnogaeth ddiffuant y prifathro.

Strwythur yr Holiadur

Mae'r holiadur yn ei gyflawn ffurf i'w ganfod yn Atodiad 4. Ar dudalen flaen yr holiadur ceir llythyr sy'n amlinellu pwrpas a diben yr holiadur a phwysleisir cyfrinachedd y gwaith. Cyflwynwyd yr holiadur yn ddwyieithog ac yr oedd hyn yn angenrheidiol ar gyfer yr ymatebwyr uniaith Saesneg ond hefyd yn gymorth i'r siaradwyr Cymraeg a oedd yn teimlo'n lletchwith wrth ddarllen ac ysgrifennu'n Gymraeg. Mae hyn yn duedd sy'n amlygu ei hun wrth ddadansoddi'r holiaduron a cheir trafodaeth lawn ar hyn yn ddiweddarach yn y bennod hon. Mae'r holiadur yn ymdrin â nifer o wahanol agweddau sy'n berthnasol i ystyried nodweddion cymdeithasol ac ieithyddol yr ymatebwyr. Rhannwyd yr holiadur yn wyth brif adran ac amlinellir hwy isod:-

1. Personol

Mae manylion personol yn cynnwys man geni yr ymatebwyr ynghyd â'u rhieni. Mae hyn yn fy ngalluogi i ganfod faint yn union o'r sampl sy'n enedigol o'r ardal ac i ddadansoddi maint y mewnfudo i'r ardal. Gofynnir cwestiynau hefyd am gefndir addysgol yr ymatebwyr.

2. Iaith

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r iaith a siaredir ar yr aelwyd, iaith rhieni ynghyd â galluoedd ieithyddol yr ymatebwyr wrth ysgrifennu a darllen y Gymraeg.

3. Gwaith

Gofynnir cwestiynau am swyddi neu gyn-swyddi a'r iaith a siaredir yn y gwaith. Yn ogystal bu cyfle i gyn-lowyr ateb cwestiynau penodol am eu cyfnod yn y gwaith glo (Adran 8). Yn ogystal, bu cyfle i'r ymatebwyr nad oedd yn defnyddio'r Gymraeg i nodi'r prif rhwystrau rhag gwneud hynny.

4. Crefydd a Hamdden

Pwrpas yr adran hon yw darganfod nodweddion crefydd ac hamdden yr ymatebwyr ynghyd â'r iaith a ddefnyddir yn y peuoedd perthnasol. Gofynnir cwestiynau yn ymwneud â mynychu capel neu eglwys, tafarn neu glwb, clwb chwaraeon ynghyd ag unrhyw gymdeithas neu glwb arall. Mae cwestiynau olaf yr adran hon yn ymdrin â Neuadd Gyhoeddus Cross Hands, a ail-agorwyd yn 1996. Yr oeddwn yn gobeithio cael manylion am y gweithgareddau a gynhelir yno ynghyd â'r defnydd o'r Gymraeg yn y neuadd a barn yr ymatebwyr o'r neuadd ar ei newydd wedd

5. Teledu a Radio

Tanlinellir pwysigrwydd y cyfryngau torfol yn gyson heddiw yng nghyd-destun cynnal a hybu'r Gymraeg ac yr oeddwn yn gweld cyfle yn yr holiadur i weld eu heffaith yn y rhan hon o Gwm Gwendraeth. Gofynnir cwestiynau yn ymdrin â S4C, Radio Cymru a Sain Abertawe. Yr oedd cyfle i'r ymatebwyr i nodi unrhyw sylwadau oedd ganddynt am natur iaith S4C a Radio Cymru.

6. Menter Cwm Gwendraeth

Yn naturiol yr oedd gofyn cwestiynau am Fenter Cwm Gwendraeth yn anorfod. Holwyd am bresenoldeb yr ymatebwyr yn y gweithgareddau, darpariaeth y Fenter ynghyd â barn am weithgareddau'r Fenter.

7. Cyffredinol

Yr oedd yr adran hon yn gyfle i'r ymatebwyr nodi unrhyw sylwadau perthnasol eraill.

8. Cwestiynau i'w hateb gan gyn- lowyr

Yn sgîl y ffaith bod y diwydiant glo yn rhan mor ganolog o'r economi leol yn y gorffennol, credais y byddai'n werth gosod adran ar wahân i gwestiynau a fyddai'n berthnasol i gyn lowyr. Ymhlith y cwestiynau a ofynnir yw rhai sy'n ymdrin ag Undeb y Glowyr ynghyd â rhai a ddaeth i'r ardal i sicrhau gwaith.

Wrth ddadansoddi canlyniadau'r gwaith maes ym mhentref Cross Hands, sylweddolais yn eithaf buan y byddai mwyafrif helaeth y sampl yn hŷn na hanner cant. Felly, er mwyn sicrhau bod gennyf gydbwysedd o safbwynt oedran i gynrychioli tueddiadau ieuencid yr ardal, penderfynais ddsbarthu 30 holiadur i ddisgyblion chweched dosbarth y ddwy ysgol uwchradd lleol, sef Ysgol Gyfun Maes-yr-Yrfa, Cefneithin ac Ysgol Gyfun y Gwendraeth, Dre-fach. Wrth gwrs, mae'r ddwy ysgol yn allweddol bwysig yn yr ymdrechion i gynnal a hybu'r iaith yn yr ardal. Mae'r ddwy ysgol yn cydweithio'n agos â Menter Cwm Gwendraeth, fel y pwysleisiwyd gan Deris Williams (Atodiad 7.2 : C14), a gwelir cyfraniadau cyson gan y ddwy ysgol yng ngholofnau *Papur y Cwm*. Cefais ymateb rhagorol i'm cais i lenwi'r holiadur a dychwelwyd pob un o'r 30 holiadur a ddsbarthais. Yn naturiol, bu'n rhaid i mi newid ychydig ar strwythur yr holiadur a ddsbarthwyd i drigolion pentref Cross Hands ond yn ei hanfod mae'r cwestiynau a ofynnir yn ddigon tebyg. Y prif newid oedd hepgor yr adran ar swyddi gan y byddai'r cwestiynau a ofynnwyd yn amherthnasol i ddisgyblion chweched dosbarth. Fodd bynnag, penderfynais y byddai'n fuddiol cynnwys cwestiwn ar gysylltiad teuluol yr ymatebwyr â'r diwydiant glo er mwyn canfod effaith pwysigrwydd y diwydiant hwnnw ar yr ardal yn y gorffennol. Yn wir, yr oedd 17 o'r disgyblion â chysylltiadau teuluol â'r diwydiant glo. Mae'r holiadur a ddsbarthwyd i ddisgyblion chweched dosbarth Ysgolion Maes-Yr-Yrfa a'r Gwendraeth yn Atodiad 5.

Mae holl ganlyniadau'r gwaith maes yn Atodiadau 1, 2 a 3. Mae'r canlyniadau wedi eu gosod o dan dri phennawd:

- ◆ Trigolion lleol
- ◆ Rhieni plant yr ysgol
- ◆ Disgyblion chweched dosbarth

Mae'r cyfeiriadau yn y bennod hon, ac yn y bennod nesaf, at 'drigolion lleol' hefyd yn cynnwys rhieni plant yr ysgol. Yn sgîl y ffaith bod rhieni plant ysgol gynradd Cross Hands hefyd yn byw yn y pentref, penderfynais gynnwys eu canlyniadau yn rhan o'r brif sampl sydd hefyd yn cynnwys trigolion Heol Caerfyrddin a'r strydoedd cyfagos. Fodd bynnag, credaf ei bod yn bwysig i gynnwys canlyniadau'r rhieni fel is-sampl ar wahân er mwyn arsylwi ar unrhyw dueddiadau sy'n unigryw i rheini'r plant.

Bwriadaf ddehongli canlyniadau'r holiaduron fesul adran a byddaf yn trafod gyda'i gilydd ganlyniadau'r trigolion lleol, rhieni plant yr ysgol ynghyd â disgyblion y chweched dosbarth.

Adran 1

1) Rhyw

Fel y dengys y canlyniadau, mae cydbwysedd o safbwynt rhyw y rhai hynny a ymatebodd i'r holiadur. Ymhlith y trigolion lleol, yr oedd 52.6 y cant o'r sampl yn wrywod a 47.4 y cant yn fenywod ac mae'r ffigurau am ddisgyblion y chweched dosbarth yn eithriadol o debyg. Fodd bynnag, yn ddiddorol mae'r is-sampl o rhieni plant yr ysgol yn dynodi bod 63.2 y cant yn fenywod a 36.8 y cant yn wrywod. Tra'n ymweld â nifer o gartrefi ar Heol Caerfyrddin yr oedd nifer, yn fenywod ac yn ddynion, yn henoed ac yn byw ar eu pennau eu hunain ac yr oedd yn amlwg bod rhai yn gwerthfawrogi'r cyfle am sgwrs a chwmi. Tra bod rhai yn weddwon yr oedd rhai yn famau ifanc adref yn edrych ar ôl eu plant.

2) *Statws Priodasol*

Mae 80 y cant o'r sampl yn briod neu'n byw â chymar. Yn yr un modd mae canlyniadau'r is-sampl o rieni plant yr ysgol gynradd yn dynodi bod 84.2 y cant yn briod tra bod 15.8 yn ddi-briod. Nid yw'n syndod nad oes unrhyw un o'r disgyblion chweched dosbarth yn briod.

3) *Oed*

Mae 54 y cant o drigolion lleol y sampl yn hŷn na 50 oed. Yn wir, mae un ar bymtheg yn hŷn na 70 oed gan gynnwys dau sydd dros 90 tra dim ond pedwar sy'n iau na 30 oed. Ar y llaw arall, fel y gellid disgwyl, mae oedran rhieni plant yr ysgol yn llawer iau. Yn wir, dim ond un rhiant sy'n hŷn na 50 tra bod y gweddill o'r sampl, sef 18 rhwng 30 a 50. Fel y nodwyd eisoes, penderfynais y byddai'n fuddiol dosbarthu'r holiadur i ddisgyblion chweched dosbarth y ddwy ysgol uwchradd leol er mwyn sicrhau bod gennyf gydbwysedd oedrannol.

4) *Cefndir daearyddol*

Fel y dengys Ffigur 1, yr oedd y mwyafrif o'r sampl wedi eu geni yn sir Gaerfyrddin gyda 55 o unigolion, sef 75.3 y cant o'r trigolion lleol wedi eu geni yn y sir honno. Yr hyn sy'n drawiadol yw bod y mwyafrif helaeth sy'n byw heddiw ger Heol Caerfyrddin yn enedigol o'r ardal. Yn wir, yr oedd 26 o'r trigolion lleol yn enedigol o Gwm Gwendraeth: 18 o bentref Cross Hands a'r wyth arall o bentrefi cyfagos yn y Cwm. Yr oedd yr unigolion eraill a oedd yn hano o sir Gaerfyrddin wedi eu geni ledled y sir: 14 yn nhref Caerfyrddin, saith yn Llanelli, dau yng Nglanaman a'r gweddill ym Mancycapel, Gwynfe, Llanymddyfri, Castell Newydd Emlyn, Rhydaman a Pheniel.

Prin iawn yw nifer y rhai hynny a atebodd yr holiadur a aned yn siroedd eraill Cymru heb sôn am y tu hwnt i Glawdd Offa. O'r 16 a aned yn siroedd eraill Cymru yr oedd 11 yn hano o sir gyfagos Morgannwg : pedwar yn Abertawe, dau yn Nhreforys a'r gweddill ym Mhontardawe, Ystrad Rhondda, Llwynypia, Merthyr a Chaerdydd. Yr oedd dau o'r sampl wedi eu geni yn sir Fynwy; ym Mhant-teg a Blaenafon; tra yr oedd un wedi eu geni yn nhref

Penfro. Dim ond dau a aned yn Lloegr ac yr oedd y ddau yn hanu o Swydd Gaerhirfryn: o Bolton a Manceinion. Yn ddi-os, y man geni mwyaf diddorol o'r holl sampl oedd Ynysoedd y Philipinos. Mae'r wraig a hanai o'r ynys honno wedi priodi gŵr o bentref Cross Hands. Mae'n gweithio yng Nghanolfan Ddydd y Pentref ac mae'n mynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg. Cyfeiriodd nifer y bum yn siarad ag hwy at y modd y mae'r wraig hon, wrth wneud ymdrech i ddysgu'r iaith, yn esiampl i lawer.

Nid yw canlyniadau rieni plant ysgol gynradd Cross Hands yn arddangos unrhyw newidiadau amlwg o'u cymharu â rhai y brif sampl. Er bod y ganran o rieni plant yr ysgol a aned yn sir Gaerfyrddin ychydig yn llai, mae'r mwyafrif helaeth sef 62.5 y cant yn hanu o'r sir. Fodd bynnag, dim ond un person a oedd yn enedigol o bentref Cross Hands tra ganed saith yn nhref Caerfyrddin, un yn Rhydaman ac un yn nhref Llanelli. Yr oedd pedwar rhiant wedi eu geni yn sir Forgannwg, dau yn Abertawe a'r ddau arall yng Nghaerdydd a Llwynypia. Ganed un rhiant ym Mlaenafon, sir Fynwy tra yr oedd un yn enedigol o swydd Rhydychen-yr unig un o'r rhieni a aned y tu hwnt i Glawdd Offa.

Penderfynais y byddai'n fanteisiol cynnwys y cwestiwn 'Ble cawsoch eich magu?' gan fy mod yn rhagweld y byddai rhai a aned yn y trefi cyfagos, lle y mae'r ysbytai agosaf wedi eu lleoli, ond a fagwyd yn y pentrefi lleol. Yn wir, yr oedd pedwar a aned yng Nghaerfyrddin wedi eu magu yn Cross Hands; dau a aned yn Nhreforys wedi eu magu yn Cross Hands a Mynydd-y-garreg; un a aned yn Abertawe wedi ei magu ym mhentref Cefneithin; ac un a aned yn Llanelli wedi ei fagu yn Y Tymbl. Fel y dengys y canlyniadau, o'r deg arall a nododd eu bod wedi eu magu mewn lleoliad gwahanol i'r lle y'u ganed, yr oedd y mwyafrif wedi nodi pentref neu dref gyfagos. Yr unig un sy'n drawiadol yw glöwr sydd bellach yn byw ar Heol Caerfyrddin ond a aned yn Ystrad, Cwm Rhondda, Morgannwg ac a fagwyd ym mhentref Aber-arth, Ceredigion. Yr oedd pedwar o rieni plant yr ysgol a aned yng Nghaerfyrddin wedi eu magu yn Cross Hands ac un yng Ngors-las.

Yn yr un modd, fel y dengys Ffigur 15, yr oedd mwyafrif o'r disgyblion chweched dosbarth a oedd yn rhan o'r sampl wedi eu geni yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd 22 o unigolion sef 78.6 y cant wedi eu geni yn y sir honno ac yr oedd 21 ohonynt wedi eu geni yn nhref Caerfyrddin oherwydd dyna leoliad yr ysbyty lleol tra bod y llall wedi nodi Pontyberem fel man geni. Yr oedd tri wedi eu geni yn sir Forgannwg; yn Abertawe, Castell Nedd a Phontypridd; tra yr oedd un wedi ei eni yn Hwlfordd yn sir Benfro. Dim ond un o'r disgyblion a aned yn Lloegr sef yn Maidstone, swydd Caint tra yn ddiddorol yr oedd un wedi ei eni yn Efrog Newydd.

O'r 22 disgybl a aned yn nhref Caerfyrddin, magwyd naw ohonynt ym mhentrefi Cwm Gwendraeth. Yn ogystal, yr oedd yr un a aned yn Abertawe wedi ei magu ym mhentref Cross Hands. Magwyd dau o'r disgyblion yn Rhydaman ond cawsant eu geni yn Hwlfordd a Chastell Nedd. Cafodd un a aned ym Phontypridd ei fagu yn Cross Hands. Mae'r unigolyn a aned yn Maidstone wedi ei fagu yn Cross Hands tra bod yr un a aned yn Efrog Newydd wedi ei fagu yn y ddinas honno cyn symud i Gwm Gwendraeth.

Penderfynais y byddai'n fanteisiol cynnwys yn yr holiadur gwestiwn yn holi am fan geni rhieni yr ymatebwyr er mwyn darganfod eu tarddiad teuluol. Mae Tabl 1.6 (Atodiad 1) yn cynnwys manylion am fan geni y rhieni hynny a oedd yn wahanol i un yr ymatebwyr. Nid yw'n syndod bod rhieni y wraig a aned yn Ynysoedd y Phillipinos hefyd yn hanu o'r ynys honno. O'r tri a aned yn Lloegr, yn gyffredinol yr oedd mwyafrif o'u rhieni hefyd yn dod o Loegr. Yr oedd rhieni y wraig a aned yn Bolton hefyd yn enedigol o'r dref a thra bod mam y wraig a aned ym Manceinion hefyd wedi ei geni yn y ddinas yr oedd ei thad wedi ei geni yn Senghennydd, Morgannwg. Yr oedd y rhiant a aned yn Rhydychen hefyd yn enedigol o dde Lloegr: ei fam hefyd o Rhydychen a'i dad o Eastbourne, Sussex. Yr oedd mam un o rieni plant yr ysgol a aned yng Nghaerfyrddin yn enedigol o Hammersmith, Llundain a'r tad o swydd Gaerwrangon. Tri o'r sampl a aned yng Nghymru oedd â un o'u rhieni wedi eu

geni yn Lloegr. Yr oedd gŵr a aned ym Mhant-teg, sir Fynwy â'i fam yn enedigol o Bont-y-pŵl a'i dad o Newton Abbot; yr oedd gŵr a aned yn Cross Hands â'i fam o Wigan; ac yr oedd un o rieni plant yr ysgol a oedd yn hanu o Flaenafon, sir Fynwy â'i fam o Birkenhead a'i dad o Donypandy. Yr oedd un arall o rieni plant yr ysgol â'i fam o Iwerddon a'i dad o Fanceinion. Fel y dengys Tabl 1.6 (Atodiad 1), yr oedd rhieni yr unigolion eraill sydd wedi eu cynnwys yn y Tabl yn hanu o siroedd eraill yng Nghymru. Mae'n siŵr mai'r ddwy enghraifft fwyaf trawiadol yw'r wraig a aned yn Cross Hands â'i mam yn hanu o'r *Holland Arms*, Ynys Môn a'i thad o Fryn-coch, Morgannwg a thra bod tad y gŵr a aned yn Ystrad, Cwm Rhondda, hefyd yn hanu o'r un pentref, yr oedd ei fam yn enedigol o Aber-arth, Ceredigion.

Fel y dengys Tabl 1.6 (Atodiad 3), yr oedd nifer o rieni disgyblion y chweched dosbarth yn hanu y tu hwnt i ffiniau Cwm Gwendraeth. Mae'n debygol mai'r enghraifft fwyaf amlwg yw'r unigolyn a aned yn Efrog Newydd ond yr oedd ei rhieni yn enedigol o Hawick yng Ngororau'r Alban. Yr oedd rhieni y disgybl a aned yn Maidstone yn enedigol o sir Gaerfyrddin, ei fam o Lanelli a'i dad o Landeilo. Yr oedd tair enghraifft o un rhiant yn enedigol o Loegr, o Groesoswallt, Southampton a Durham, a'r llall o Gaerfyrddin.

5) Addysg

Fel y soniwyd eisoes, bu addysg Gymraeg yn holl bwysig i gynnal a datblygiad yr iaith Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif. Dywed Heini Gruffudd:

Mae pwysigrwydd addysg yn y broses o geisio gwrthdroi symud ieithyddol yn amlwg. Trwy'r system addysg yn bennaf y dysgir yr iaith yng Nghymru i rai o gartrefi Saesneg, ac y cryfheir iaith rhai o gefndir Cymraeg.

(Gruffudd 1996: 78)

Fodd bynnag, er na ellir gwadu pwysigrwydd cyfraniad addysg i'r iaith Gymraeg, nid yw pob arbenigwr ym maes cynllunio ieithyddol, gan gynnwys

Joshua Fishman, o'r farn y gellir cynnal ieithoedd yn unig yn sgîl cyfraniad yr ysgolion. Yn wir, yr oedd Fishman o'r farn mai drwy gyfrwng ysgolion preifat a gefnogwyd gan garedigion iaith y mae'r gobaiith gorau o drosglwyddo iaith. Sefydlwyd nifer o'r ysgolion o'r math hyn yng Nghatalonia a Gwlad y Basg ond yr unig enghreifftiau a welwyd yng Nghymru oedd yr ysgolion Cymraeg a gysylltir yn bennaf gyda Syr Ifan ab Owen Edwards yn Aberystwyth a Trefor Morgan ym Mhenybont.

Yng nghyd-destun y gwaith maes, yn naturiol, ni ofynnwyd y cwestiwn sy'n ymdrin ag oedran gadael ysgol, a'r addysg a dderbyniwyd ar ôl gadael yr ysgol, i ddisgyblion y chweched dosbarth. Wrth ddehongli Cwestiwn 7 yn yr adran hon sy'n ymdrin ag oedran gadael ysgol yr ymatebwyr daw'n amlwg mai nifer gymharol isel o'r sampl a benderfynodd barhau â'u haddysg ar ôl oedran gorfodol gadael ysgol. Yn wir, nododd 11 o'r trigolion lleol (14.5 y cant o'r sampl) eu bod wedi gadael yr ysgol yn y categori oedran 11-14. Mae hyn yn adlewyrchiad o oedran yr ymatebwyr gan iddynt fedru gadael yr ysgol yn y gorffennol cyn eu bod yn 16 oed. Mae'n drawiadol nad oedd unrhyw un o'r rhieni wedi gadael yr ysgol yn y grŵp oedran hwn, ac mae hyn yn cyfleu ystod oed eang y sampl. Eto, fel y dengys Ffigur 9, yr oedd mwyafrif helaeth o'r rhieni wedi gadael yr ysgol pan gawsant y cyfle i wneud hynny yn 16 oed. Dim ond un rhiant a nododd ddeunaw fel oedran gadael ysgol. Er bod 18 o unigolion, 23.7 y cant o'r trigolion lleol, wedi parhau â'u haddysg tan eu bod yn 18 oed, mae'n drawiadol bod 76.3 y cant ohonynt heb wneud hynny.

Wrth ystyried y ganran isel o'r sampl a wnaeth barhai â'u haddysg ar ôl 16 oed, nid yw'n syndod bod 54.7 y cant o'r trigolion lleol heb dderbyn unrhyw fath o addysg ar ôl iddynt adael yr ysgol. Yr oedd canran rhieni plant yr ysgol yn llawer uwch, sef 70.6 y cant. Tra bod 13 o unigolion wedi nodi eu bod wedi derbyn addysg mewn Prifysgol neu Goleg Politechneg, nid oedd yr un o'r rhieni wedi gwneud hynny. Yn yr un modd, nid oedd neb o'r rhieni wedi eu haddysgu mewn Coleg Hyfforddi Athrawon o'u cymharu gyda chwech o drigolion lleol. Cofnododd pump o drigolion lleol a phedwar o'r rhieni eu bod wedi derbyn addysg mewn Coleg Technegol. Yn ystod y blynyddoedd

diwethaf, bu sylw yn y wasg leol, a chan fudiadau megis Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, at y prinder cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gyfundrefn addysg ôl-ysgol. Cyfeiriodd Heini Gruffudd hefyd at hyn:

Gwelwyd eisoes bod addysg bellach Saesneg ei chyfrwng . . . yn cynnig pau hynod o ddylanwadol o blaid y Saesneg, drwy gyflwyno rhwydweithiau cyfeillgarwch newydd, ymhlith rhai na fedrant y Gymraeg.

(Gruffudd 1996 : 139)

Er nad oes modd i ganlyniadau'r holiaduron fod yn gynrychioliadol o holl nodweddion pentref Cross Hands, a Chwm Gwendraeth yn gyffredinol, mae'n amlwg wrth ddadansoddi'r holiaduron bod diffyg addysg yn nodwedd gyffredin iawn yn yr ardal dan sylw ac yn ffactor sydd wedi peri problemau dwys yn dilyn cau'r pyllau glo. Yr oedd nifer o lowyr, yn enwedig y rhai canol oed a gollodd eu swyddi yn dilyn cau'r pyllau glo, heb unrhyw sgiliau a gwelwyd rhai yn cael eu hail-hyfforddi mewn sefydliadau megis y Colegau Technegol. Yr oedd Terry Davies yn un o'r bobl hynny a ddilynodd gwrs yng Ngholeg Rhydaman am ddwy flynedd. Fodd bynnag, dywedodd yn y cyfweiliad nad oedd nifer o gyn-lowyr wedi gwneud hynny am amryw o resymau. Yr oedd nifer yn methu fforddio gwneud hynny oherwydd dyletswyddau teuluol ac yr oedd angen arian arnynt i gynnal eu teuluoedd. Bu'n anodd iawn i gyn-lowyr ddod o hyd i waith hollol newydd ar ôl treulio eu hoes yn y lofa. Fel y dywed Terry Davies:

Felly, mae wedi bod yn anodd i'r bobl hyn i ffindo gwaith a'r gwir yw nad oes swyddi ar gael heblaw rhai rhan amser. Nid oes swyddi o werth heblaw eich bod yn mynd mewn i faes newydd a wedyn wrth gwrs gorfod derbyn ail- hyfforddiant. Dyna'r trueni oherwydd nid yw ail-hyfforddiant wedi dilyn y colli swyddi.

(Atodiad 6.3 : C4)

Adran 2

1) *Iaith yr Aelwyd*

Dros y blynyddoedd, mae arbenigwyr ym maes cynllunio ieithyddol wedi bod yn tanlinellu pwysigrwydd y cartref mewn unrhyw ymdrech i wrthdroi dyfudiad ieithyddol. Yn eu plith, y mae Joshua Fishman a ddywedodd:

The home-family-neighbourhood community complex is the normal 'whole' of childhood life and of the intergenerational mother tongue transmission. Accordingly, it must remain at the centre of RLS [Reversing Language Shift]-efforts, no matter what are the stages that necessarily come thereafter.

(Fishman 1991: 95)

Yn y trafodaethau ar ddyfodol y Gymraeg, rhoddwyd cryn bwyslais yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref. Un o'r prif broblemau sy'n wynebu ieithoedd lleiafrifol ledled y byd yw nad yw rhieni yn eu trosglwyddo i'w plant. Mae trosglwyddo'r Gymraeg o rieni i blant yn allweddol i ddyfodol y Gymraeg. Ni fydd ieithoedd yn parhau os na siaredir hwy yn y cartref. Cyfeiriodd Colin Baker a Sylvia Prys Jones at sylwadau Joshua Fishman wrth ystyried pwysigrwydd y cartref yng nghyd-destun trosglwyddiad iaith:

Once a language ceases to be reproduced within the family, it is very difficult to reverse its decline. Thus the dwindling of bilingualism within families mirrors the attitudes of society to the minority language and the fate of bilinguals in the wider community.

(Baker and Jones 1998 : 30)

Yn ôl Fishman, diffyg trosglwyddiad iaith o un genhedlaeth i'r llall yw'r prif ffactor sy'n cyfrannu at farwolaeth ieithyddol. Er mwyn i iaith barhau, mae'n

allweddol bod rhieni yn siarad y iaith honno â'u plant. Mae nifer o ffactorau cymdeithasol a phersonol yn effeithio ar benderfyniad rhieni ynghylch pa iaith i siarad â'u plant. Er bod dwyieithrwydd yn ffenomen ddiethr i nifer ym Mhrydain, mae'r mwyafrif o blant yn Ewrop yn siarad o leiaf tair iaith.

Drwy ddefnyddio tystiolaeth Cyfrifiad 1991, bu swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymchwilio i drosglwyddiad iaith yn y teulu. Cyflwynwyd papur ar hyn ar 4 Mawrth 2002 i is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Genedlaethol Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Dengys canlyniadau yr ymchwil bod 11.6 y cant o aelwydydd yng Nghymru â'r ddau riant yn siarad Cymraeg. Mewn 5.2 y cant o aelwydydd yng Nghymru, mae'r gŵr yn siarad Cymraeg ac nid y wraig tra mewn 6.0 y cant o gartrefi yng Nghymru, y wraig ac nid y gŵr sy'n siarad Cymraeg. Felly, mae 22.8 y cant o aelwydydd yng Nghymru lle mai un partner â'r potensial i siarad Cymraeg â'u plant (os nad ydynt yn ddi-plant). Mae hyn yn uwch na'r ffigur o 18.7 y cant sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 1991.

Dengys astudiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg os fydd y ddau riant yn siarad Cymraeg, bydd 92 y cant o siawns y bydd eu plant yn siarad Cymraeg: 92.9 y cant o siawns os yn ferch a 91.3 y cant os yn fachgen. Mae bygythiad amlwg i'r iaith lle mae oddeutu 8 y cant o blant yn methu siarad y Gymraeg mewn sefyllfaoedd lle mae eu rhieni yn siarad yr iaith. Fodd bynnag, yn fwy niweidiol i ddyfodol y Gymraeg yw'r enghreifftiau hynny ble y tad ac nid y fam s'yn siarad Cymraeg. Mewn sefyllfaoedd lle mae'r tad yn unig yn siarad Cymraeg, mae 55.0 y cant o ferched a 43.0 o feibion yn datblygu i siarad Cymraeg. Os y fam ac nid y tad sy'n siarad Cymraeg, mae 53.5 y cant o siawns y bydd y plentyn yn siarad Cymraeg. Yn yr un modd â'r tadau, mae'r ganran yn llawer uwch i ferched na meibion: 58.3 y cant o ferched o'u cymharu â 48.4 y cant o feibion. Pan nad oes un o'r rhieni yn siarad Cymraeg, mae yna siawns o 12.1 y cant y bydd y plentyn yn siarad Cymraeg, mae'n debyg mewn ysgolion meithrin, ysgolion cynradd neu rhywle arall. Yn yr un modd, pan nad oes un o'r rhieni yn siarad Cymraeg, mae 14.5 y cant o ferched yn siarad Cymraeg o'u cymharu â 10.0 y cant o feibion. Mae'n debyg bod ffigurau'r cyfrifiad yn

cuddio rhai teuluoedd lle nad yw rhieni sy'n siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg â'u plant ac yn dymuno i'w plant ddysgu'r Gymraeg yn yr ysgol.

Mae'n ymddangos o ymchwil Bwrdd yr Iaith Gymraeg bod 16.5 y cant o aelwydydd yn trosglwyddo'r iaith i'w plant, naill ai drwy'r ddau riant neu'r fam neu'r tad yn siarad yr iaith â'u plant. Fodd bynnag, mae'n debygol mai mwyafswm yw'r ffigur hwn. Mae'n debygol hefyd bod ffigurau'r cyfrifiad yn cuddio rhai aelwydydd lle nad yw rhieni sy'n siarad Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith i'w plant. Yn hytrach, mae'r plant yn dysgu'r iaith yn yr ysgol. Mae'n ymddangos nad oes digon o deuluoedd yn trosglwyddo'r iaith gan bod y ffigur o 16.5 y cant ychydig yn is na'r ffigur o 18.7 y cant sy'n siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 1991. Os na fydd rhieni yn trosglwyddo'r iaith i'w plant, bydd yr iaith yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun rhwystredig a bydd yr iaith yn fwyfwy ddibynnol ar y system addysg i atgynhyrchu nifer y siaradwyr.

Yn ogystal ag ymchwil Bwrdd yr Iaith Gymraeg, dengys ymchwil a wnaed gan BBC Cymru ar gyfer rhaglen i nodi deugain mlynedd ers darlith Saunders Lewis, *Tynged yr Iaith* ym mis Chwefror 2002, dueddiadau niweidiol yng nghyd-destun trosglwyddiad iaith yn y teulu. Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd i rieni ynglŷn â'u harfer o siarad Cymraeg â'u plant, nododd 40 y cant eu bod yn gwneud hynny bob amser, 8 y cant yn aml, 20 y cant ambell waith a 32 y cant byth yn siarad Cymraeg â'u plant. Yr oedd y canlyniadau yn amrywio mewn gwahanol rannau o Gymru: 63 y cant o rieni yn y gogledd bob amser yn siarad Cymraeg a 11 y cant byth yn gwneud hynny. Fodd bynnag, yr oedd y sefyllfa yn llawer mwy digalon yn y de a'r gorllewin gyda 11 y cant bob amser yn siarad Cymraeg â'u plant a 45 y cant byth yn gwneud hynny. Bu cryn drafod yn y wasg yn dilyn cyhoeddi'r ffigurau hyn. Yn ei ddarlith *Rhagolygon yr Iaith* yng Nghaerdydd ar 26 Chwefror 2002, dywedodd Rhodri Williams, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mewn ymateb i astudiaeth BBC Cymru:

Dwi ddim am fychanu'r arolwg o gwbl, i'r gwrthwyneb rwy'n ddyledus i'r BBC am ei gomisiynu yn y lle cynta', mae pob ymchwil yn gymorth, ond un arolwg barn oedd e', gyda sampl o

1,004 o siaradwyr Cymraeg a 682 o siaradwyr Saesneg. Cyfraniad gwerthfawr ac amserol i'r drafodaeth gyfoes ar bolisi iaith, ond prin ynddo'i hunan yn sail ddigonol i bolisi cenedlaethol, a chwarae teg 'doedd neb yn honni mai dyna beth ydoedd. Y rheswm pam bod arolwg o'r fath wedi denu cymaint o sylw, wrth gwrs, yw'r ffaith mai ychydig iawn sy'n digwydd o ran casglu gwybodaeth ar ddefnydd iaith.

(www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

Er 1998, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi bod yn gweithio mewn cydweithrediad â bydwagedd ac ymwelwyr iechyd ar fanteision magu plant yn ddwyieithog o oedran cynnar iawn. Yn ogystal, bu'r Bwrdd yn targedu rhieni newydd drwy sicrhau eu bod yn derbyn 'pecyn Bounty' yn dilyn genedigaeth eu plentyn. Mae'r pecyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch manteision addysg ddwyieithog a manteision siarad dwy iaith. Cynhyrchodd y Bwrdd amryw o daflenni a llyfrynnau a gynhwysir yn y pecynnau 'Bounty' ar gyfer rhieni. Ers mis Awst 1998, dosbarthwyd y taflenni hyn i bob mam newydd sy'n rhoi genedigaeth mewn ysbyty, sef rhyw 33,000 bob blwyddyn.

Yn dilyn prosiectau peilot llwyddiannus yn siroedd Caerfyrddin, Dinbych a Chonwy, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg y dylid ehangu prosiect y Bwrdd "Trosglwyddiad Iaith yn y Teulu". Yr oedd Menter Cwm Gwendraeth ynghlwm â'r prosiect o'r dechrau a chyfeiriodd Cefin Campbell at hynny:

Un o'r pethau yr y'm ni wedi bod yn edrych yn fanwl arno yn fwy diweddar yw trosglwyddiad iaith yn y cartref. Yr ydym wedi bod yn cydweithio â chynllun Twf ac mewn gwirionedd Menter Cwm Gwendraeth, pan o'n ni'n gweithio yno, ddechreuodd y cynllun hynny fel peilot, blannodd y syniad y gwnaeth Bwrdd yr Iaith ei fabwysiadu a sydd bellach yn cael ei drefnu'n genedlaethol

(Atodiad 7.1 : C8)

Ar 5 Mawrth 2002, lawnsiodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg, Jenny Randerson y prosiect *Twf*. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu £140,000 y flwyddyn ar gyfer y prosiect ar gyfer y blynyddoedd 2001-2004. Mae swyddogion maes a swyddogion datblygu yn gweithio gyda bydwagedd ac ymwelwyr iechyd, gan rannu gwybodaeth ar fanteision codi plant yn ddwyieithog. Mae hyn yn mynd â'r iaith i un o'r peuoedd sydd yn ganolog i fywyd cymunedol, sef y cartref.

Mae'r staff a gyflogir gan *Twf* yn gweithio gyda rhieni i bwysleisio manteision magu eu plant yn ddwyieithog, nid yn unig o safbwynt addysgol ond hefyd o safbwynt economaidd. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ynghyd â'r Saesneg yn gymhwyster ar gyfer marchnata. Byddant yn gweithio nid yn unig â phartneriaid yn y sector iechyd ond hefyd gyda mudiadau iaith Cymraeg eraill yn y gymuned megis y mentrau iaith a Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae *Twf*, sydd yn ddatblygiad a fydd yn gymorth i rieni deimlo'n gartrefol i fagu eu plant i siarad Cymraeg, yn gynllun arloesol oherwydd nid oes cynllun tebyg unman yn Ewrop. Os fydd yn llwyddiannus, gallai *Twf* fod yn fodel rhyngwladol.

Ar 9 Gorffennaf 2002, cyhoeddodd Jenny Randerson y rhoddir yn ychwanegol £450,000 i gefnogi a hyrwyddo yr iaith Gymraeg. Ymhlith y prosiectau hyn, rhoddwyd mwy o adnoddau ar gyfer *Twf* trwy benodi wyth swyddog maes yn Rhydaman, Cwm Tawe, Llanelli, Dyffryn Clwyd, Gogledd sir Benfro, Caerfyrddin, Corwen a Chaergybi; ardaloedd lle mae diffyg trosglwyddo iaith yn broblem fawr. Nod y prosiect yw sicrhau bod rhieni'n deall manteision magu eu plant yn ddwyieithog a'u hannog i siarad Cymraeg â hwy.

Tanlinellir pwysigrwydd *Twf* yn natganiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb*:

Edrychwn ar **drosoglwyddo'r iaith yn y teulu** fel un o elfennau allweddol ein strategaeth iaith. Mae cymaint o rieni sydd yn

rhugl eu Cymraeg nad ydynt yn trosglwyddo'r iaith i'w plant. Mae gwrth-ddweud rhyfedd yn y fan hon, gan fod ymchwil yn dangos bod gwerthfawrogi cynyddol ar fanteision addysgol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd dwyieithrwydd.

(Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003:39)

I gydfynd â lawnsio *Iaith Pawb* ar 27 Tachwedd 2002, cyhoeddodd Jenny Randerson y byddai £26.8 miliwn o gymorth ychwanegol i'r Gymraeg rhwng 2003-06 gan gynnwys £1 miliwn yn ychwanegol ar gyfer *Twf* i annog rhieni i siarad Cymraeg â'u plant. Yn sgîl yr arian ychwanegol, cyflogwyd mwy o swyddogion maes i'w droi'n brosiect cenedlaethol, a darparwyd cyllid i gynhyrchu deunydd hyrwyddo ac i werthuso effaith y prosiect. Mae maint y cyllid a fuddsoddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'r prosiect yn adlewyrchiad o bwysigrwydd y prosiect hwn i sicrhau trosglwyddiad iaith o fewn y teulu. Nid oes amheuaeth bod y prosiect wedi bod yn un llwyddiannus a chyfeiriwyd at hynny yn yr arolwg o'r cynllun a gynhaliwyd yn ystod 2003. Yr oedd yr arolwg gan yr Athro Viv Edwards o Brifysgol Reading yn asesu effeithiolrwydd y cynllun ac yn cynnig argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Ni ddylid tanbriso pwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol *Twf*. Tra bod cymunedau lleiafrifoedd ethnig amrywiol yn mynd i'r afael â throsglwyddo iaith yn y teulu mewn ffordd ddeinamig, cynllun *Twf* yw'r ymgais ddifrifol gyntaf i fynd i'r afael â'r mater hwn ar lefel strategol. Bydd yn bwysig i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ledaenu profiad y cynllun hynod arloesol hwn i siaradwyr ieithoedd lleiafrifol eraill.

(Edwards 2003 : 17)

Wrth ystyried pwysigrwydd siarad y Gymraeg yn y cartref a'r angen i drosglwyddo'r iaith, byddai'n ddiddorol ystyried y tueddiadau fyddai'n deillio o'r holiaduron a ddosbarthais yn yr ardal. Dengys canlyniadau'r holiaduron a ddosbarthwyd ym mhentref Cross Hands bod y Gymraeg yn cael ei siarad gan

73. 8 y cant o drigolion lleol gan gynnwys y rhai hynny sy'n siarad y ddwy iaith yn eu cartrefi. Fel y dengys Ffigur 2, mae'n drawiadol bod 33 o unigolion (sef 41.3 y cant o'r sampl) yn siarad Cymraeg yn unig yn eu cartrefi o'u cymharu â 11 o unigolion sy'n siarad Saesneg yn unig (13.8 y cant). Fodd bynnag, yn fwy niweidiol o safbwynt dyfodol y Gymraeg ymhlith y genhedlaeth nesaf yn yr ardal yw mai dim ond yng nghartref un o rhieni plant ysgol gynradd yr ysgol y siaradwyd y Gymraeg yn unig. Nododd saith o rieni (36.8 y cant) mai Saesneg yn unig a siaradwyd yn y cartref tra bod tri (15.8 y cant) yn siarad Saesneg yn bennaf. Yn fwy calonogol, fel y dengys Ffigur 16, yr oedd 11 (36.7 y cant) o ddisgyblion y chweched dosbarth yn siarad Cymraeg yn unig yn y cartref o'u cymharu â 7 (23.3 y cant) a oedd yn siarad Saesneg yn unig.

Penderfynwyd y byddai'n fanteisiol edrych yn fanylach ar gyfansoddiad yr ymatebwyr hynny a nododd mai'r iaith Saesneg a siaradwyd yn unig ar yr aelwyd. O'r 11 a oedd yn siarad Saesneg yn unig yn y cartref, nid yw'n syndod bod pump o'r cyfanswm hwnnw yn cynnwys neb arall a oedd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Fodd bynnag, yr oedd siaradwyr Cymraeg yn byw yng nghartrefi y chwe ymatebwr arall a oedd yn rhieni plant yr ysgol gynradd. Yr oedd priod pedwar o'r ymatebwyr yn medru'r Gymraeg tra yn naturiol yr oedd eu plant yn gallu siarad Cymraeg ynghyd ag aelodau eraill o'r teulu. Yn ddiddorol, ni wnaeth un o'r rhieni nodi bod un o'u plant yn siarad Cymraeg sy'n gryn syndod wrth ystyried eu bod yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn Ysgol Categori A.

Nid yw'n syndod hefyd bod ychydig mwy o siaradwyr Cymraeg yn byw ar yr aelwydydd hynny lle nodwyd mai Saesneg yn bennaf a siaradwyd. Dim ond un o'r ymatebwyr hynny a nododd nad oedd neb arall a oedd yn medru'r Gymraeg yn byw ar yr aelwyd. Cyfeiriodd pump at eu priod yn medru'r Gymraeg tra yr oedd nifer o'r plant yn medru'r Gymraeg. Felly, mae'n gryn syndod ac yn bryder mai'r Saesneg yw'r iaith a siaradwyd yn bennaf ar yr aelwydydd hynny. Yn naturiol, os nad oes neb arall sy'n medru'r Gymraeg yn byw ar aelwydydd, mae i'w ddisgwyl mai'r Saesneg a siaredir ar yr aelwydydd

hynny. Fodd bynnag, fel y dywedir uchod, yr oedd nifer o siaradwyr Cymraeg yn byw ar yr aelwydydd hynny ac yn llawer ohonynt yr oedd o leiaf dau berson arall yn siarad Cymraeg. Yn wir, yr oedd chwe siaradwr Cymraeg ar un aelwyd ond nodwyd mai'r Saesneg oedd yr unig iaith a siaradwyd yn y cartref arbennig hwnnw. Yn yr un modd, yr oedd dwy aelwyd yn cynnwys pum siaradwr Cymraeg ond nodwyd mai Saesneg yn unig a siaradwyd yn un o'r cartrefi a Saesneg yn bennaf yn y llall.

Yn ogystal, dengys canlyniadau disgyblion y chweched dosbarth rhai tueddiadau diddorol. O'r saith aelwyd a nodwyd mai'r Saesneg yn unig a siaradwyd, dim ond un nad oedd yn cynnwys unrhyw siaradwr Cymraeg. Yr oedd y chwe aelwyd arall yn cynnwys siaradwyr Cymraeg eraill ac felly mae'n syndod eto mai'r Saesneg yn unig a siaradwyd ar yr aelwydydd hynny. Ar un aelwyd, yr oedd mam, tad, brawd a chwaer yr ymatebwr yn siarad Cymraeg, ond eto nodwyd mai Saesneg yn unig a siaradwyd. Yn yr un modd, yr oedd mam pob un o'r ymatebwyr a nododd mai Saesneg yn bennaf a siaradwyd ar yr aelwyd yn siarad Cymraeg.

Fel y dengys Tabl 2.1 (Atodiad 1), yr oedd 15 o'r trigolion lleol (18.8 y cant) yn siarad y Gymraeg a'r Saesneg yn eu cartrefi. Nid oedd yn annisgwyl bod y mwyafrif o'r aelwydydd hynny yn cynnwys y cyfansoddiad disgwylidig o unigolion a oedd yn medru'r Gymraeg a rhai nad oedd yn gwneud hynny. Fodd bynnag, wrth ystyried yn fanwl allu ieithyddol y rhai hynny a oedd yn byw ar ambell i aelwyd, yr oedd yn amlwg bod tuedd i siarad y ddwy iaith hyd yn oed pan oedd pawb yn gallu siarad Cymraeg. Er enghraifft nodwyd bod defnydd cyfartal o'r ddwy iaith ar aelwyd lle yr oedd priod, mab, ynghyd â brawd yr ymatebwr yn gallu siarad Cymraeg. Yr oedd y ffaith bod brawd yr ymatebwr yn siarad Cymraeg yn awgrymu'n gryf bod yr ymatebwr hefyd yn medru'r Gymraeg ac felly nid oedd rheswm pam nad y Gymraeg ddylai fod yn briod iaith yr aelwyd honno. Yn yr un modd ar aelwyd arall yr oedd priod, mam, tad, merch, mab chwaer a pherthynas arall yn gallu siarad Cymraeg ond nododd yr ymatebwr y siaradwyd y ddwy iaith ar yr aelwyd.

Fel y dengys y canlyniadau yr oedd tri o ddisgyblion y chweched dosbarth yn siarad y Gymraeg a'r Saesneg yn eu cartrefi. Yr oedd hynny i'w ddisgwyl ar un o'r aelwydydd hynny gan mai dim ond mam y disgybl a oedd yn medru'r Gymraeg. Fodd bynnag, yr oedd y ddwy aelwyd arall yn peri pryder gwirioneddol am ddyfodol y Gymraeg wrth ystyried yr hyn a ddywedwyd yn gynharach am bwysigrwydd trosglwyddiad iaith yn y cartref. Ar un aelwyd yr oedd mam, tad a chwaer yr ymatebwr yn gallu siarad Cymraeg ond eto nodwyd bod y ddwy iaith yn cael eu siarad yno. Yn yr un modd ar yr aelwyd arall yr oedd mam, tad a brawd yr ymatebwr ynghyd â pherthynas arall yn gallu siarad Cymraeg. Er mai nifer fechan oedd yr enghreifftiau o ddiffyg trosglwyddiad iaith yn y gwaith maes y cynhaliais, trafodais hyn gyda Deris Williams gan holi beth oedd y Fenter yn gwneud i geisio mynd i'r afael â hyn:

Mae'n broblem gynyddol lle 'dyw'r partneriaid ddim yn trosglwyddo'r iaith i'w plant. 'Rwy' wedi bod yn mynd i ganolfannau cyn famolaeth ac ôl mamolaeth i wneud cyflwyniadau yn benodol ar gyfer rhieni neu bartneriaid sy'n disgwyl plant, ac wrth gwrs gan godi ymwybyddiaeth o'r anghenion i drosglwyddo'r iaith ac i sôn am y manteision. 'Ry' ni wrth gwrs hefyd yn cydweithio â Twf ar weithgareddau. Yn ogystal, yr wythnos hon, 'rwy'n mynd i gynnal tair gwrs yn Ngholeg Sir Gâr yn Rhydaman er mwyn bod y pobl ifanc sy'n gweithio ym maes gofal plant yn gweld yr anghenion a'r manteision o weithio'n ddwyieithog. Pan mae nhw'n gwarchod plant ar yr aelwyd, mewn ysgolion, cartrefi, beth bynnag, mae'n bwysig eu bod yn gweld bod manteision o weithio'n ddwyieithog a phwy a wŷr pan mae nhw'n rhieni eu hunain.

(Atodiad 7.2 : C19)

2) Iaith Rhieni

Arwydd o gefndir Cymraeg yr ymatebwyr yw bod mwyafrif helaeth o rieni y trigolion lleol yn siarad Cymraeg. Yn wir, yr oedd 60 (78.9 y cant) o famau a 53 (69.7 y cant) o dadau y trigolion lleol yn siarad Cymraeg. Fel y nodwyd eisoes yr oedd canran rhieni plant yr ysgol a oedd yn hanu o sir

Gaerfyrddin ychydig yn llai na phrif sampl y trigolion lleol ac adlewyrchir hynny yn iaith eu rhieni hwythau. Dim ond naw (47.4 y cant) o famau a chwech (31.6 y cant) o dadau oedd yn siarad Cymraeg. Ar y llaw arall, yr oedd mwyafrif helaeth o rieni y disgyblion chweched dosbarth yn siarad Cymraeg: 24 (80 y cant) o famau a 21 (70 y cant) o dadau. Yn ddiddorol ym mhob un o'r samplau yr oedd mwy o famau yn siarad Cymraeg na thadau, ac mae'n bosibl bod y duedd hon yn cadarnhau'r ymchwil a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a oedd yn profi bod mwy o siawns y byddai plant yn datblygu i siarad Cymraeg gyda'r fam yn hytrach na'r tad.

3) Darllen ac Ysgrifennu

Nid yw'n syndod mai ychydig iawn o'r 11 ymatebwr a nododd mai Saesneg oedd prif iaith yr aelwyd sy'n dewis ysgrifennu neu ddarllen Cymraeg. Yn wir, nododd naw mai Saesneg yn unig yr oeddynt yn dewis ysgrifennu, un Saesneg yn bennaf ac un defnydd cyfartal o'r ddwy iaith. Yn yr un modd, yr oedd chwech yn dewis darllen yn Saesneg yn unig, pedwar yn Saesneg yn bennaf tra nododd un ddewis cyfartal o'r ddwy iaith

Yr oedd Cyfrifiad 1991 yn cynnwys mwy o fanylion yn ymwneud â sgiliau ieithyddol nag unrhyw gyfrifiad blaenorol. Yr oedd 546,551 o bobl yn gallu naill ai siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg. Mae'n werth nodi bod y ffigur hwn yn uwch na'r nifer a gofnodwyd yn siaradwyr Cymraeg sef 508,098. Yr oedd 369,609 yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Dengys canlyniadau Cyfrifiad 1991 rhai tueddiadau diddorol mewn perthynas â sgiliau ieithyddol. Yr oedd 38,191 o'r boblogaeth yn gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu yr iaith; 100,298 yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nag ysgrifennu Cymraeg; 36,775 yn gallu darllen ond ddim yn gallu siarad nag ysgrifennu Cymraeg; a 1,678 yn gallu darllen ac ysgrifennu ond ddim yn gallu siarad Cymraeg (Aitchison a Carter 1994:99). Mae'n debygol bod rhai o'r tueddiadau hyn wedi dod i'r amlwg yn sgîl y cwestiwn ar ffurflen y cyfrifiad sef 'A yw'r person yn siarad Cymraeg?' Gellir diffinio'r cwestiwn hwn fel y defnydd arferol a chyson o'r Gymraeg yn hytrach na'r gallu

i siarad Cymraeg. Dyna sy'n esbonio bod rhai wedi cofnodi eu bod yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad yr iaith.

Wrth edrych yn fanylach ar yr ystadegau hyn, mae canlyniadau Cyfrifiad 1991 yn amrywio o safbwynt llythrennedd. Mae llythrennedd ar ei uchaf yng Ngwynedd lle mae 82.5 y cant o siaradwyr Cymraeg yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Fodd bynnag, dim ond 57.7 y cant o boblogaeth Gorllewin Morgannwg a oedd yn meddu ar y dair sgil ieithyddol. Gellir priodoli, i raddau helaeth, y ffigurau isel hyn i oedran. Y sir hon yn ôl Cyfrifiad 1991 oedd â'r ganran uchaf o'i phoblogaeth dros 65 oed sef 31.6 y cant. Mewn cyferbyniad, yr oedd canrannau uchel o lythrynnedd yn yr ardaloedd hynny lle yr oedd y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg ifainc megis De Morgannwg, ac yno yr oedd y cynnydd mwyaf rhwng 1981 a 1991. Yn ddiddorol, Gorllewin Morgannwg oedd y sir â'r ganran uchaf sef 13.1 y cant a oedd yn gallu siarad a darllen ond ddim ysgrifennu Cymraeg. Wrth ystyried mai yng Ngorllewin Morgannwg y cafwyd y gostyngiad mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cyfnod 1981-1991, mae'r ystadegau am lythrynnedd yn peri pryder yng nghyd-destun sefyllfa'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth, sy'n ffinio Gorllewin Morgannwg. Dywed Aitchison a Carter wrth asesu canlyniadau llythrennedd yn rhannau gorllewinol yr hen faes glo:

Yma eto ceir prawf o gyflwr bregus yr iaith yn yr ardal hon oherwydd os yw colli llythrennedd yn arwydd o ddirywiad, dyma dystiolaeth ychwanegol o fygythiad i'r Gymraeg mewn ardal lle ceir y nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg.

(Aitchison a Carter 2000:93)

Wrth ystyried y dyfyniad uchod, mae canlyniadau'r holiaduron a ddosbarthwyd yn yr ardal fel rhan o'r gwaith maes yn peri pryder difrifol am ddyfodol y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ym mha iaith y mae'n well gennych ysgrifennu?', dengys Ffigur 3 mai dim ond dau a nododd Cymraeg yn unig (sef 2.6 y cant) tra yr oedd pump yn dewis ysgrifennu'n Gymraeg gan amlaf sef 6.5 y cant o'r sampl. Ar y llaw arall

nododd 19 (24.7 y cant) eu bod yn dewis ysgrifennu'n Saesneg yn bennaf tra yr oedd 31 (40.3 y cant) yn dewis ysgrifennu'n Saesneg yn unig. Mae'n wir bod 20 o unigolion (26.0 y cant) yn dewis ysgrifennu yn y ddwy iaith ond mae'r nifer uchel sy'n dewis ysgrifennu'n Saesneg yn destun gofid yng nghyd-destun sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardal. Yr oedd yr un tueddiadau yn dod i'r amlwg yn y cwestiwn a ofynnwyd yn holi 'Pa gyfran o'ch ysgrifennu sydd yn y Gymraeg?'. Nododd 31 (41.4 y cant) o'r sampl nad oedd unrhyw gyfran o'u hysgrifennu yn y Gymraeg o'i gymharu ag un (1.3 y cant) a nododd bod y cyfan o'r ysgrifennu a gyflawnwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n drawiadol cymharu'r ystadegau hyn â thystiolaeth Cyfrifiad 2001 am sir Gaerfyrddin a wardiau Cwm Gwendraeth a amlygir yn Nhabl 6.1:

Tabl 6.1 : Sgiliau Ieithyddol: Cyfrifiad 2001

Sir/Ward	Poblogaeth	Deall Cymraeg a siaredir ond methu siarad, darllen na ysgrifennu Cymraeg	Siarad. Darllen ac ysgrifennu Cymraeg	Siarad ond methu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	Siarad a darllen ond methu ysgrifennu Cymraeg	Darllen ond methu siarad na ysgrifennu Cymraeg	Ysgrifennu ond methu siarad na darllen Cymraeg	Darllen ac ysgrifennu ond methu siarad Cymraeg	Dim gwybodaeth o'r Gymraeg	Cyfuniad eraill o sgiliau
Sir Gaerfyrddin	172842	18176	65293	12881	6528	2878	291	1589	64812	394
Glyn	2034	151	1037	174	97	19	3	13	536	4
Gors-las	3724	251	2156	267	154	38	4	16	831	7
Cydweli	3289	405	1156	327	159	53	5	28	1156	9
Llan-non	5001	384	2770	456	254	51	3	22	1051	10
Pontyberem	2828	196	1656	249	117	19	0	13	570	8
Trimsaran	2531	290	1072	228	108	34	0	12	781	6

(www.statistics.gov.uk)

Wrth ddadansoddi'r is-sampl o rieni plant yr ysgol, mae'r canlyniadau hyd yn oed yn fwy digalon o safbwynt y rhai hynny sy'n dewis ysgrifennu'n Gymraeg. Fel y dengys Ffigur 10, dim ond un o'r rhieni mewn cyfanswm o 19 sef 5.3 y cant sy'n ysgrifennu'n Gymraeg yn unig o'i gymharu â 13 (68.4 y cant) sy'n ysgrifennu'n Saesneg yn unig. Yn yr un modd, nododd 14 (73.7 y cant) o'r sampl bod cyfran eu ysgrifennu yn Gymraeg: ni wnaeth unrhyw riant nodi bod y cyfan o'i ysgrifennu'n Gymraeg tra dim ond un a nododd bod y mwyafrif o'u hysgrifennu'n Gymraeg.

Fodd bynnag, fel y dengys Ffigur 17, yr oedd canlyniadau disgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun y Gwendraeth ac Ysgol Maes-yr-Yrfa yn llawer mwy calonogol ac yn cynnig gobaith ar gyfer y dyfodol. Mae'n bwysig ystyried mai Saesneg oedd y cyfrwng addysg yn y gorffennol ac felly nid oedd nifer o'r oedolion ym mhentref Cross Hands a oedd yn rhan o'r sampl wedi derbyn addysg ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n debygol mai dyma'r eglurhad am y gwahaniaeth rhwng canlyniadau'r trigolion lleol a rhieni plant yr ysgol ar y naill law, â'r disgyblion ar y llall. Ymhlith y disgyblion, mae nifer y rhai hynny'n sy'n dewis ysgrifennu yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn debyg iawn. Yr oedd pedwar wedi nodi Cymraeg yn unig, pedwar Cymraeg gan amlaf tra yr oedd chwech wedi dewis Saesneg yn bennaf a chwech Saesneg yn unig. Y categori y dewisodd y mwyafrif oedd 'Defnydd Cyfartal o'r ddwy iaith'. Yn ddiddorol, yng nghanlyniadau'r cwestiwn a oedd yn holi am ba gyfran o ysgrifennu yr ymatebwyr a oedd yn y Gymraeg, yr oedd mwy wedi nodi'r Gymraeg na'r Saesneg. Tra bod dau wedi nodi 'y cyfan', wyth 'y mwyafrif, nododd chwech 'ychydig' tra dim ond un a nododd 'dim'.

Yn yr un modd, mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd yn holi am allu'r ymatebwyr wrth ddarllen yn peri pryder amlwg wrth ystyried sgiliau ieithyddol trigolion Cross Hands. Dengys Ffigur 4 mai dim ond tri o'r trigolion lleol (3.9 y cant) o'r sampl a nododd mai yn y Gymraeg yn unig yr oeddent yn dewis darllen tra pedwar (5.3 y cant) oedd yn darllen yn Gymraeg gan amlaf. Ar y llaw arall, yr oedd 24 (31.6 y cant) yn dewis darllen yn Saesneg yn bennaf a 19 (25.0 y cant) yn darllen yn Saesneg yn unig. Penderfynodd 26 o'r trigolion

lleol (34. 2 y cant,) ddewis yr opsiwn ‘defnydd cyfartal o’r ddwy iaith’ a dyma oedd y dewis mwyaf poblogaidd. Nid oedd unrhyw dueddiadau gwahanol yn amlygu eu hunain wrth ddadansoddi canlyniadau’r cwestiwn yn holi am gyfran maint darllen yr ymatebwyr yn y Gymraeg. Yn wir, nododd 24 nad oedd unrhyw gyfran o’u darllen yn y Gymraeg, ac mewn cyferbyniad dim ond un a nododd ei bod yn gwneud y cyfan o’i darllen drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth ddadansoddi canlyniadau’r cwestiynau a ofynnwyd am ddewis iaith darllen rhieni plant ysgol gynradd Cross Hands, unwaith eto yr oedd y mwyafrif yn dewis darllen drwy gyfrwng yr iaith Saesneg. Yn wir, fel y dengys Ffigur 11, dim ond un a nododd mai drwy gyfrwng y Gymraeg yr oedd yn dewis darllen. Ar y llaw arall, nododd wyth mai yn Saesneg yn bennaf yr oeddynt yn dewis darllen a wyth yn Saesneg yn unig. Yn yr un modd, dim ond un a nododd bod y mwyafrif o’u darllen drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyferbyniad â chwech a ddewisodd yr opsiwn ‘ychydig’, a deg ‘dim’.

Yn yr un modd â chanlyniadau’r cwestiynau a ofynnwyd am ddarllen, dengys Ffigur 18 bod canlyniadau disgyblion y chweched dosbarth yn llawer mwy calonogol. Yr oedd dau (6.7 y cant) o’r sampl yn dewis darllen Cymraeg yn unig, tri yn gwneud hynny gan amlaf ac yr oedd 11 (36. 7 y cant) wedi nodi defnydd cyfartal o’r ddwy iaith. Er bod yr un nifer, sef chwech, yn dewis darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn unig, yr oedd wyth yn dewis darllen drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf o’i gymharu â chwech a oedd yn ysgrifennu’n Saesneg yn bennaf.

Ers ei sefydlu bu Menter Cwm Gwendraeth yn ceisio mynd i’r afael â diffyg hyder trigolion y Cwm wrth ddarllen ac ysgrifennu. Wrth eu cyfweld, cyfeiriodd swyddogion y Fenter at amryw o gynlluniau a gweithgareddau y cyflwynodd y Fenter i geisio datrys y broblem hon. Mae’n amlwg bod y Fenter wedi cyflwyno dulliau arbrolfol i geisio gwella’r sgiliau ieithyddol megis trefnu fod plant yn darllen ar fws *double decker* a bod sesiynau darllen yn y *bath* gan awduron neu bersonoliaethau o fyd y cyfryngau (Atodiad 6.1 : 10). Yn ogystal, trefnwyd gweithgareddau mwy confensiynol megis clybiau bore Sadwrn i godi

ymwybyddiaeth o ddarllen yn y Gymraeg a dosbarthiadau gloywi iaith a sesiynau ysgrifennu creadigol o dan arweiniad beirdd ac awduron sy'n ysgrifennu ar gyfer y cyfryngau.

Cyfeiriwyd ym Mhennod 5 at y cyrsiau technoleg gwybodaeth a gynhelir yn swyddfa'r Fenter ym Mhontyberem. Wrth ei chyfweld yn 2004, nododd Deris Williams bod nifer a oedd yn derbyn hyfforddiant yno heb ysgrifennu yn Gymraeg ers gadael yr ysgol. Yn ogystal, dywedodd bod y Fenter bellach yn cydweithio â'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i ddatblygu cynlluniau i hyfforddi pobl i ail-ysgrifennu a darllen drwy gyfrwng y Gymraeg (Atodiad 7.2 : C20). Cyfeiriodd Cefin Campbell yn 2004 at ddau ddatblygiad amlwg wrth geisio mynd i'r afael â gwella sgiliau ieithyddol. Yn ardal Llanelli a Chwm Gwendraeth penodwyd Swyddog Addysg a Mentora i ymweld â busnesau i drefnu cyrsiau dysgu Cymraeg a gloywi iaith. Yn ogystal, mae Mentrau Iaith Myrddin mewn cydweithrediad â Choleg y Drindod yn darparu cyrsiau hyfforddiant cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg (Atodiad 7.2 : C16)

PENNOD 7: DADANSODDIAD O'R GWAITH MAES : Cyflogaeth, peuoedd cymdeithasol, cyfryngau torfol a Menter Cwm Gwendraeth

Yn dilyn y drafodaeth ym Mhennod 6 o'r ymatebion yn yr holiadur i Adran 1 a 2, tynnir sylw yn y bennod hon at ymatebion gweddill yr holiadur sef Adrannau 3, 4, 5, 6 a 7. Mae rhain yn cynnwys cyflogaeth; crefydd a diddordebau hamdden; a'r ymateb i'r cyfryngau torfol ac i Fenter Cwm Gwendraeth. Cyfeiriwyd eisoes at y canfyddiad bod Cross Hands yn llai Cymraeg ei naws na phentrefi eraill Cwm Gwendraeth. Cyn ystyried Adran 3 sy'n canolbwyntio ar waith y trigolion lleol, dylid nodi bod lefel diweithdra yn y pentref yn is nag ym mhentrefi eraill y Cwm. Yn y dystiolaeth am ddiweithdra ymhlith y boblogaeth sydd o oed gwaith, yr oedd y nifer ar gyfer Cross Hands yn Chwefror 2003 sef 16 yn sylweddol is na'r 31 a gofnodwyd ar gyfer Gors-las a Phontyberem, a 42 yn Y Tymbl a 62 yn Nhrimsaran (www.statistics.gov.uk)

Trafodwyd eisoes leoliad Cwm Gwendraeth mewn ardal Amcan 1 sy'n adlewyrchu natur fregus yr economi leol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu cryn drafod am effeithiolrwydd rhaglen Amcan 1 yng Nghymru. Ar y naill law gwelwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddfa Cyllid Cymru yn dadlau bod Amcan 1 wedi bod yn llwyddiant ar ôl problemau cychwynnol. Ar y llaw arall, bu beirniaid megis Kevin Morgan, Philip Cooke a Dylan Jones Evans yn fwy beirniadol o'r rhaglen ac nad yw'n creu nifer digonol o swyddi. Dadleuodd Kevin Morgan bod trafodaeth agored ar hyn yn holl bwysig a bod goblygiadau ehangach:

. . . the fate of the Objective 1 programme will be a barometer of our political culture as well as a measure of our regeneration capacity.

(Morgan 2003 : 20)

Pryder arall yw bod ardaloedd tu hwnt i ffiniau Amcan 1 yn elwa o'r rhaglen a chyfeiriodd Phil Boland at hynny:

While Cardiff does not technically break the eligibility rules, surely it is better that the management of projects takes place actually within the Objective 1 area, in order to build institutional capacity.

(Boland 2004 : 73)

Bu gwahaniaeth barn hefyd ymhlith beirniaid mewn perthynas â chyfraniad yr economi wybodaeth (*knowledge economy*) i ddatblygu economaidd. Ar y naill law gwelwyd beirniaid megis Kevin Morgan a Philip Cooke yn tanlinellu manteision yr agwedd hon tra bod eraill megis John Lovering o'r farn nad oedd hyn yn berthnasol i economi Cymru (Boland 2004 : 69).

Adran 3

Yr oedd 33 o'r trigolion lleol, sef 43.4 y cant o'r sampl, yn gweithio adeg llenwi'r holiadur. O'r 33 yr oedd 19 mewn swyddi llawn-amser tra yr oedd deg mewn rhai rhan-amser. Ni wnaeth pedwar o'r rhai a nododd eu bod yn gweithio fanylu a oedd ganddynt swyddi llawn neu rhan amser. Nid yw'n syndod bod naw o'r deg unigolyn a oedd mewn swyddi rhan-amser yn fenywod. Yr oedd yr unig wryw a oedd mewn swydd rhan-amser yn ofalwr yn ysgol gynradd Cross Hands. Yr oedd ei wraig, a oedd yn hanu o Ynysoedd y Philipinos, hefyd mewn swydd rhan-amser fel Cynorthwydd Coginio yng Nghanolfan Ddydd Cross Hands. O'r gweddill, mae'n debygol bod pump, gan gynnwys tri o rieni plant yr ysgol, mewn swyddi rhan-amser oherwydd dyletswyddau teuluol. Ymhlith y swyddi rhan-amser yr oedd gwraig a oedd yn dysgu yng Ngholeg Abertawe, athrawes yn Ysgol Gynradd Cross Hands ac un a oedd yn gweithio mewn caffi yn Cross Hands. Fel y nodwyd yn gynharach, yr oedd nifer uchel o drigolion Heol Caerfyrddin a lenwodd yr holiadur yn hŷn na 60 oed ac adlewyrchir hynny yn y ffaith bod 25 o unigolion sef 32.9 y cant wedi ymddeol. Mae'n drawiadol mai dim ond pedwar unigolyn, sef 5.3 y cant

o'r sampl s'yn ddi-waith ac mae hyn efallai'n esbonio cyfraniad a phwysigrwydd Parc Busnes Cross Hands i'r economi leol.

Yn naturiol, yr oedd yr holiadur yn holi am yr iaith a siaradwyd yn y gweithle. Fel y dengys Tabl 3.4 a Ffigur 5 (Atodiad 1), sy'n cynnwys yr iaith a ddefnyddiwyd gan yr rhai hynny sy'n ddi-waith neu wedi ymdddeol, ynghyd â'r rhai hynny sy'n gweithio ar hyn o bryd, gwnaed defnydd cyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg wrth weithio gan y mwyafrif helaeth, sef 25, neu 37.3 y cant. Yr oedd yr un nifer sef 21, sy'n siarad Cymraeg yn unig a Chymraeg yn bennaf, a'r rhai hynny sy'n siarad Saesneg yn bennaf a Saesneg yn unig.

Gweithiai 19 ym mhentref Cross Hands a chwech o fewn ffiniau Cwm Gwendraeth. Felly, mae mwyafrif helaeth o'r sampl yn gweithio yn agos i'w cartrefi. Ar y llaw arall, mae nifer yn teithio ymhellach i'w gwaith bob dydd. Trafodwyd ym Mhennod 4 y ffaith bod Cross Hands yn agos at derfyn gorllewinol yr M4 ac felly mae'n ddigon hawdd i drigolion Cross Hands deithio i'w gwaith bob dydd. Er nad oes neb o ymatebwyr yr holiadur yn teithio i Gaerdydd nac i Fryste mae tri yn teithio i Gaerfyrddin a rhai eraill i Abertawe, Port Talbot, Treforys, Fforest-fach, Felinfoel, Cynwyl Elfed, Porth Tywyn a Llanelli.

Mae lleoliad nifer o'r swyddi yn effeithio ar yr iaith a ddefnyddir yn y gweithle. Yn galonogol, gan ystyried parhad yr iaith, mae mwyafrif y rhai hynny sy'n gweithio yn Cross Hands ac ym mhentrefi eraill Cwm Gwendraeth yn siarad y Gymraeg yn y gwaith neu'n gwneud defnydd cyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n wir bod yna eithriadau megis peiriannydd yn Cross Hands, siopwr yn Cross Hands a chynorthwydd cegin yng Nghefneithin sy'n siarad Saesneg yn unig. Fodd bynnag, nid oes neb sy'n gweithio y tu allan i ffiniau Gwm Gwendraeth yn siarad y Gymraeg yn y gweithle. Gwneir defnydd cyfartal o'r ddwy iaith gan dri sy'n gweithio yng Nghaerfyrddin. Yn yr un modd, mae athrawes yn Felinfoel a dyn tân sydd wedi ei leoli yn Nhreforys yn siarad Cymraeg a Saesneg yn y gweithle. Fodd bynnag, nid yw'r gweddill sy'n teithio y tu hwnt i Gwm Gwendraeth bob dydd yn defnyddio'r Gymraeg wrth eu

gwaith. Ymhlith y rhai hynny sy'n siarad Saesneg yn bennaf yn eu gwaith y mae athro coleg yn Abertawe ac ymchwilydd ym Mhort Talbot. Yn yr un modd, ymhlith yr unigolion hynny sy'n siarad Saesneg yn unig yn eu gwaith y mae gwerthwr blodau yn Abertawe, technegydd labordy ym Mhorth Tywyn a pherson sy'n gweithio mewn siop crefftiau'r cartref (*DIY*) yn Fforest-fach.

Yr oedd cyfle yn yr holiadur i'r rhai hynny a oedd wedi ymddeol neu a oedd yn ddi-waith i nodi eu swyddi yn y gorffennol ac ym mhle yr oeddynt yn gweithio. Yn wir, o'r 23 a wnaeth hynny, yr oedd y mwyafrif helaeth yn arfer gweithio yn lleol gan gynnwys saith ym mhentref Cross Hands. Yr oedd y gweddill (heblaw am ddau na nododd ym mhle yr oeddynt yn gweithio) yn arfer gweithio mewn rhannau eraill o sir Gaerfyrddin. Dim ond un o'r 23 oedd yn arfer gweithio y tu hwnt i ffiniau sir Gaerfyrddin, sef gwas sifil a arferai weithio ym Mryste a Llundain ond a oedd wedi dychwelyd i fyw ym mhentref Y Tymbl i ofalu am ei rieni oedrannus. Yr oedd y gwas sifil hwnnw, ynghyd â gŵr a fu'n gweithio i'r Cyngor Sir yng Nghaerfyrddin, ymhlith pump o unigolion a nododd eu bod yn siarad Saesneg yn unig neu'r Saesneg yn bennaf yn y gweithle. Yn drawiadol, o'r 23 a oedd yn arfer gweithio, yr oedd wyth o'r cyfanswm hwnnw yn siarad Cymraeg yn unig neu'r Gymraeg yn bennaf yn y gweithle. Yr oedd naw yn gwneud defnydd cyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle gan gynnwys perchennog garej ac unigolyn a oedd yn berchen cwmni carafannau: y ddau yn Cross Hands. Yn ogystal, yr oedd pump yn siarad Saesneg yn bennaf neu Saesneg yn unig tra ni wnaeth un o'r ymatebwyr nodi ym mha iaith yr oedd yn arfer siarad yn y gwaith. Felly, yr oedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn gwneud defnydd sylweddol o'r iaith Gymraeg yn y gweithle. Fodd bynnag, credais y byddai'n fuddiol cynnwys cwestiwn yn yr holiadur yn holi am y rhesymau dros beidio defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Fel y dengys Tabl 3.5 (Atodiad 1) nododd dau mai'r rheswm dros beidio defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith oedd diffyg arfer defnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol tra nododd chwech ddiffyg hyder. Ni ofynnwyd cwestiwn, yn yr holiadur, am gyflogau'r gweithwyr ac felly ni chafwyd tystiolaeth a fyddai'n berthnasol ar gyfer y drafodaeth ynglŷn â lefelau cyflogau mewn economi

ddwyieithog gyda ‘gallu iaith . . . yn cael eu gwobrwyo ac nid defnydd o’r iaith yn y gweithle’ (Henley a Jones 2001).

Wrth ddadansoddi canlyniadau rhieni plant yr ysgol, yr oedd 11 o’r 19 a lenwodd yr holiadur, sef 57.9 y cant, yn gweithio. Yr oedd chwech mewn swyddi llawn amser, tri yn gweithio’n rhan amser tra na wnaeth dwy rhiant a oedd yn gweithio nodi os oedd ganddynt swyddi llawn neu rhan amser. Fel y nodwyd uchod, mae’n debygol bod y tri rhiant mewn swyddi rhan-amser oherwydd eu bod hefyd yn gofalu am eu plant. Yn wir, mae’r ffaith bod dwy o’r rhieni yn gweithio ym mhentref Cross Hands, un fel cynorthwydd siop ac ysgrifenyddes, a’r llall fel cynorthwydd cegin yn Ysgol Gyfun Maes-yr-Yrfa ym mhentref cyfagos Cefneithin, yn tueddu i gadarnhau hynny. Nid oedd llawer o’r rhieni yn teithio yn bell i weithio bob dydd. Yn wir, dim ond pedwar oedd yn teithio y tu hwnt i ffiniau Cwm Gwendraeth, sef ymchwilydd a oedd yn gweithio ym Mhort Talbot, technegydd labordy ym Mhorth Tywyn, curwr paneli (*panel beater*) yng Nghynwil Elfed a gweithiwr mewn siop crefftiau’r cartref (*DIY*) yn Abertawe. Yn ddiddorol, heblaw am y curwr paneli yng Nghynwil Elfed a oedd yn gwneud defnydd cyfartal o’r Gymraeg a’r Saesneg wrth weithio, yr oedd y tri arall yn siarad Saesneg yn unig neu Saesneg yn bennaf yn y gweithle. Yn wir, y duedd fwyaf trawiadol wrth ddadansoddi canlyniadau plant yr ysgol yw mai’r Saesneg a ddefnyddir yn bennaf yn y gweithle. Yn wir, fel y dengys Ffigur 12, yr oedd naw yn siarad Saesneg yn unig yn y gwaith, 52.9 y cant o’r sampl, a dau yn siarad Saesneg yn bennaf, sef 11.8 y cant. Ar y llaw arall, nid oedd neb o’r sampl yn siarad Cymraeg yn unig tra dim ond un oedd yn siarad Cymraeg yn bennaf.

Gwaith Glo

Yr oedd cyfle i’r ymatebwyr hynny a oedd wedi gweithio yn y gwaith glo yn y gorffennol lenwi adran benodol ar ddiwedd yr holiadur a oedd yn holi am eu cyfnod yn gweithio yn y lofa. Wrth ystyried pwysigrwydd y gwaith glo i economi’r ardal yn y gorffennol, gellir dadlau y byddai disgwyl i mwy na wyth o’r trigolion lleol, gan gynnwys dau o’r rhieni, fod wedi gweithio yn y lofa. O’r wyth bu tri yn gweithio yng nglofa Cross Hands, un yn y *Great Colliery*, Y

Tymbl, un yng Nghwmgwili, un mewn sawl glofa gan gynnwys Blaenhirwaun a Chwmgwili tra na wnaeth dau nodi ym mha lofa y buont yn gweithio. Yr oedd yr adeg pan gychwynnodd y glowyr, a oedd yn rhan o'r sampl, weithio yn y lofa yn amrywio o 1920 i 1971. Nododd un o'r ymatebwyr ei fod wedi dechrau gweithio yn y lofa yn 14 oed a chwech mis tra yr oedd un arall wedi gweithio 42 mlynedd a hanner yng nglofa Cross Hands rhwng 1944 a 1989.

Soniwyd eisoes na ddiodeffodd Cwm Gwendraeth, yn wahanol i gymoedd dwyreiniol de Cymru, effaith mewnlifiad sylweddol o Loegr. Yn hytrach, symudodd nifer o siroedd Cymraeg y gorllewin gyda'r canlyniad fod Cwm Gwendraeth yn parhau yn un o gadarnleoedd y Gymraeg. Cyfeiriwyd ym Mhennod 4 at y rhai hynny a symudodd yn ystod chwedegau'r ugeinfed ganrif o Durham yng ngogledd-ddwyrain Lloegr i Gwm Gwendraeth i sicrhau gwaith yn y glofeydd lleol. Credais y byddai'n fuddiol gofyn cwestiwn yn yr holiadur i gyn-lowyr i ganfod dylanwad y bobl hyn a symudodd i'r ardal i sicrhau gwaith. Er na wnaeth rhai o'r cyn-lowyr gyflwyno sylwadau am unrhyw effaith gydag un yn dweud nad oeddynt ddim gwell na gwaeth na'r bobl leol, yr oedd eraill yn ddigon parod i fynegi barn. Soniodd un o'r cyn-lowyr bod y gweithwyr a ddaeth o Durham i weithio yng nglofa Cynheidre wedi derbyn llawer mwy o barch na'r gweithlu brodorol. Yn ogystal, yr oeddynt yn mynnu cael mwy o weithgareddau cymdeithasol yn Nghwm Gwendraeth a chanlyniad hynny oedd dinistrio sancteiddrwydd y Sul yr oedd y brodorion yn arfer ei fwynhau. Cyfeiriodd un arall bod nifer a symudodd i'r ardal yn wrthwynebus i'r Gymraeg. Er bod rhai a ddaeth i'r ardal megis o Wlad Pwyl wedi gwneud ymdrech i ddysgu'r iaith, yr oedd eraill megis yr Almaenwyr a ddaeth ar ôl y rhyfel yn meddwl mai hwy oedd y 'bosys'. Dywedodd hefyd bod rhai a ddaeth i'r ardal o sir Benfro, er yn gallu siarad Cymraeg, yn dueddol o droi yn nôl i'r Saesneg gan mai dyna'r iaith yr oedd yn well ganddynt siarad.

Penderfynais holi am dueddiadau ieithyddol Undeb Cenedlaethol y Glöwyr. Er bod y mwyafrif helaeth o'r glowyr yn siarad Cymraeg, mae'n ddiddorol bod pedwar wedi nodi mai'r Saesneg a ddefnyddiwyd yng ngweithgareddau Undeb Cenedlaethol y Glöwyr, tri y ddwy iaith a dim ond un a

nododd y Gymraeg. Mae'n bosibl bod yr amrywiaeth yn yr ymatebion yn ganlyniad i'r hyn a ddywedodd un o'r ymatebwyr sef mai'r Gymraeg oedd yr iaith a siaradwyd yn y cyfarfodydd ond mai'r Saesneg oedd iaith y cofnodion. Ategir hyn gan Terry Davies a chyfeiriwyd at hyn eisoes ym Mhennod 4.

Gofynnwyd dau gwestiwn yn ymwneud â Neuadd Gyhoeddus Cross Hands yn yr adran a neilltuwyd ar gyfer cyn-lowyr. Glowyr lleol oedd yn cynnal ac yn cefnogi Neuadd Gyhoeddus Cross Hands yn yr un modd â'r neuaddau cyhoeddus eraill ledled Cwm Gwendraeth. Trafodwyd hyn eisoes ym Mhennod 4 a gwelir cyfeiriadau perthnasol yn ddiweddarach yn y bennod hon yn ymatebion cyn-lowyr i'r cwestiynau yn ymwneud â'r neuadd yn Cross Hands.

Er nad oedd cwestiynau ar swyddi i'r disgyblion chweched dosbarth, yr oedd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oedd aelodau o'u teulu wedi bod yn gweithio yn y gweithfeydd glo yn y gorffennol. Yn wir, tanlinellir pwysigrwydd y lofa ym mywyd yr ardal gan y dystiolaeth bod 17 o'r disgyblion wedi nodi eu cysylltiadau teuluol â'r diwydiant glo. Yr oedd pedwar o dadau'r disgyblion, 14 tadcu ac un ewythr wedi gweithio yn y gwaith glo (nododd rhai o'r disgyblion mwy nag un aelod o'r teulu). Yr oeddynt wedi eu lleoli mewn amryw o lofeydd ledled yr ardal: pedwar yng Nghynheidre; tri yn Cross Hands; dau yn y Mynydd Mawr; ac un yr un yn Y Tymbl, Carwe; Betws, Y Wernos, Capel Ifan, Pontyberem, Pentre-mawr a Rhydaman.

Adran 4

Cyfeiriwyd eisoes at bwysigrwydd y cartref wrth ystyried dyfodol y Gymraeg a throsglwyddo'r iaith o un cenedlaeth i'r llall. Er bod rhai arbenigwyr ieithyddol o'r farn mai'r cartref yw'r canolbwynt i unrhyw ymdrech i wrthdroi dyfudiad ieithyddol, y mae eraill, er yn cydnabod pwysigrwydd y cartref a'r ysgol, o'r farn bod yr iaith a siaredir gyda chyfoedion a diwylliant poblogaidd yn bwysicach. Yn eu plith y mae Colin Baker a nododd:

While home and school are clearly of some influence, the major influence is with peers and popular culture’.

(Baker 1992: 96)

Pwysleisodd Heini Gruffudd hefyd bwysigrwydd diwylliant poblogaidd:

Y mae’r farn gyffredinol fod a wnelo diogelu iaith â diogelu diwylliant.

(Gruffudd 1996:100)

Dengys astudiaeth Heini Gruffydd yn ei ddadansoddiad o dueddiadau ieithyddol ymhlith ieuencid rhannau dwyreiniol sir Gaerfyrddin a hen sir Gorllewin Morgannwg. ‘Y Gymraeg a Phobl Ifanc’, mai tafarnau a chlybiau oedd y peuoedd mwyaf poblogaidd ymhlith pobl ifanc. Yn wir, o’r 329 a oedd yn rhan o’r sampl (a oedd yn cynnwys 60 y cant o holl bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a oedd yn byw o fewn radiws o 18 milltir i Brifysgol Cymru Abertawe) yr oedd 151 (46.0 y cant) yn mynychu tafarn neu glwb yn wythnosol. Fodd bynnag, mewn ymateb i’r defnydd o’r Gymraeg a wnaed yn y gwahanol weithgareddau, nododd 38.4 y cant ‘fawr ddim’ mewn ymateb i’r cwestiwn hwn. Ar y llaw arall, er bod 48.6 y cant o’r sampl byth yn mynychu capel neu eglwys, nododd 57.5 y cant o’r bobl ifanc mai’r Gymraeg a ddefnyddiwyd yn y manau hynny. Pwysleisiodd Heini Gruffudd arwyddocâd hynny yng nghydestun diwylliant poblogaidd:

Crefydd yw’r unig bau gymharol sylweddol y tu allan i’r system addysg lle mae gan y Gymraeg flaenoriaeth ar y Saesneg ym mhob ardal. Yn anffodus, nid yw hi’n agos cyn gryfed â’r peuoedd adloniant a chymdeithasau poblogaidd, a gall cysylltu’r Gymraeg â’r bau hon atgyfnerthu’r syniad fod y Gymraeg yn perthyn i fyd diwylliant a thraddodiadau’r gorffennol yn hytrach nag i fyd modern ieuencid.

(Gruffudd 1996:104)

1) Crefydd

Trafodwyd ym Mhennod 4 rôl ganolog crefydd ym mywyd cymdeithasol nifer helaeth o drigolion Cwm Gwendraeth. Pwrpas y cwestiynau yn yr holiadur ar grefydd oedd darganfod faint o ddylanwad oedd gan grefydd ar drigolion Cwm Gwendraeth ar drothwy'r unfed ganrif ar hugain a pha mor bwysig yw crefydd wrth gynnal yr iaith Gymraeg yn yr ardal. Sonir yn aml heddiw am leihad yn y niferoedd sy'n mynychu addoldai yng Nghymru yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Fodd bynnag, fel y dengys Ffigur 6, yr oedd 31 o'r trigolion lleol (41.3 y cant) yn mynychu capel neu eglwys yn gyson tra bod 25 (33.3 y cant) yn gwneud hynny yn achlysurol. Pedwar ar bymtheg yn unig o'r trigolion lleol (25.3 y cant) nad oedd yn mynychu capel neu eglwys.

Un nodwedd amlwg o'r rhai sy'n mynychu llefydd o addoliad yw bod nifer o'r sampl yn teithio i'r gwasanaethau. Yn wir, o'r 56 o'r trigolion lleol sy'n mynychu capel neu eglwys yn gyson neu'n achlysurol, 25 sy'n gwneud hynny ym mhentref Cross Hands. O'r 25 mae 21 yn addoli yn Eglwys y Santes Anne, dau yng nghapel Bethel, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, (Capel y Drindod er 2002) a dau yn y *Gospel Hall* (a gaewyd yn 2002). Yr oedd nifer o rhai eraill yn mynychu llefydd o addoliad mewn pentrefi cyfagos megis capeli Tabernacl, Cefneithin; Bethania, Tymbl Uchaf (Annibynwyr); ac eglwys San Lleian, Gors-las. Fodd bynnag, yr oedd eraill yn teithio i lefydd megis Rhydaman, Llangyndeyrn, Llandeilo, Llanddarog, Dre-fach Felindre a Sgeti, Abertawe. Mae'n debygol bod nifer yn teithio o Cross Hands oherwydd eu bod yn arfer addoli yn y manau penodol cyn symud i Cross Hands ac wedi penderfynu parhau i wneud hynny ar ôl symud. Yn ogystal, yr oedd eraill yn gwneud hynny gan nad oedd capel o bob enwad yn Cross Hands ac yr oedd hynny yn esbonio pam fod dau o'r sampl yn mynychu'r Eglwys Gatholig yn Rhydaman.

Yr oedd y gwasanaethau yn yr Eglwys Gatholig yn Rhydaman yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg. Yn wir, yr oedd 12 o'r trigolion lleol sef 21.1 y cant o'r sampl yn mynychu addoldai ble Saesneg oedd iaith y gwasanaethau. Tra bod 25 wedi nodi mai drwy gyfrwng y Gymraeg oedd y

gwasanaethau, yr oedd 20 yn mynychu gwasanaethau lle yr oedd y ddwy iaith yn cael eu siarad. Yr oedd pob un o'r rhai a nododd bod y ddwy iaith yn cael eu defnyddio yn y gwasanaethau yn mynychu eglwys pentref Cross Hands sef Eglwys y Santes Anne. Er bod un person oedd yn mynychu'r eglwys wedi nodi mai'r Gymraeg oedd iaith y gwasanaethau, yr oedd y gweddill yn cadarnhau natur ddwyieithog y gwasanaethau.

Wrth ddadansoddi canlyniadau is-sampl rhieni plant yr ysgol, mae'n amlwg bod tueddiadau gwahanol yn dod i'r amlwg o'u cymharu â rhai y trigolion lleol. O'r 18 rhiant a atebodd y cwestiwn, dim ond un oedd yn mynychu capel neu eglwys yn gyson tra yr oedd pump yn gwneud hynny yn achlysurol. Ar y llaw arall, nid oedd 11 sef 61.1 y cant o sampl y rhieni yn mynychu capel neu eglwys. Fel y dengys Tabl 4.3 (Atodiad 2) nid oedd unrhyw dueddiadau amlwg ynglŷn ag iaith y gwasanaethau, gyda'r un faint yn nodi gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog a dau yn mynychu oedfaon Saesneg. Yn yr un modd, dim ond pedwar o'r disgyblion chweched dosbarth sy'n mynychu capel neu eglwys yn gyson tra yr oedd 11 yn gwneud hynny yn achlysurol. Nid oedd 15, sef 50.0 y cant o'r disgyblion, yn mynychu capel neu eglwys. Un nodwedd o ganlyniadau'r disgyblion chweched dosbarth yw bod nifer uwch yn mynychu gwasanaethau Cymraeg eu hiaith. Nododd wyth, sef 53.3 y cant o'r sampl, eu bod yn mynychu gwasanaethau Cymraeg, dau rhai Saesneg a phump rhai yn y ddwy iaith. Yr oedd rhai o'r capeli neu eglwysi a nodwyd gan y disgyblion megis Capel Newydd, Betws a Phenuel, Caerfyrddin yn adlewyrchu talgylch eang y ddwy ysgol uwchradd.

Wrth ystyried bod canlyniadau rhieni plant yr ysgol a disgyblion y chweched dosbarth yn gwahaniaethu oddi wrth rhai y trigolion lleol, penderfynwyd y byddai'n fuddiol edrych yn fanylach ar oedran y rhai hynny sy'n mynychu'r gwasanaethau i weld a oedd yna dueddiadau amlwg. Mae Tabl 4.4 (Atodiad 1) a Tabl 4.4 (Atodiad 2) yn cofnodi oedran y rhai hynny sy'n mynychu oedfaon a'r rhai sy'n penderfynu peidio â gwneud hynny. Yr oedd 24 o'r 31 o drigolion lleol a nododd eu bod yn mynychu capel neu eglwys yn gyson dros 60 oed. Yn wir, yr oedd saith yn eu wythdegau ac yr oedd saith yn

yr ystod oedran 70-80. Ar y llaw arall, yr oedd 15 o'r 19 nad oedd yn mynychu capel neu eglwys yn iau na 50 oed gan gynnwys wyth oedd yn yr ystod oedran 30-40. Yn yr un modd, yr oedd pob un o'r 11 o'r rhieni nad oedd yn mynychu capel neu eglwys yn iau na 50 oed gan gynnwys chwech oedd rhwng 30 a 40. Yn naturiol, yr oedd y disgyblion chweched dosbarth i gyd oddeutu 17 oed. Felly, ar yr wyneb wrth edrych ar ystadegau y rhai sy'n mynychu oedfaon, mae'n ymddangos bod nifer helaeth o'r sampl yn gwneud hynny. Fodd bynnag, wrth edrych yn fanylach, daw'n amlwg mai nifer cymharol fechan o bobl canol oed ac iau sy'n gwneud hynny'n gyson. Yn wir, mae'r canlyniadau yn profi bod y duedd sy'n gyffredin ledled Cymru sef lleihad yn y nifer sy'n mynychu addoldai yn enwedig ymhlith pobl ifainc hefyd yn wir yn y rhan hon o Gwm Gwendraeth.

Yn anffodus dim ond mewn ychydig o'r holiaduron a ddosbarthwyd yn yr adroddiadau pentrefol a baratowyd gan Fenter Cwm Gwendraeth y cynhwyswyd cwestiynau ar y nifer a fynychai addoldai. Ar y cyfan, yr oedd yr ymatebion yn siomedig a'r eithriad oedd Porthyrhyd, gyda 41 y cant yn disgrifio eu hunain yn addolwyr cyson, 46 y cant yn rhai achlysurol a 12 y cant byth yn mynychu addoldy. Yr oedd ystadegau y pentrefi eraill yn llai cadarnhaol, a'r rhai cyfatebol ar gyfer Llanddarog oedd 24 y cant, 35 y cant a 41 y cant; Dre-fach 19 y cant, 39 y cant a 42 y cant; Meinciau 19 y cant, 39 y cant, a 42 y cant; a Phont-iets 19 y cant, 40 y cant a 41 y cant.

2) Tafarn/Clwb

Fel y nodwyd eisoes, yr oedd canlyniadau astudiaeth Heini Gruffudd yn profi mai tafarnau a chlybiau oedd y peuoedd cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymhlith pobl ifanc ond mai yno yn gyffredinol yr oedd y defnydd lleiaf o'r Gymraeg. Penderfynais hepgor y cwestiwn yn holi am amllder mynychu tafarnau a chlybiau i'r disgyblion chweched dosbarth gan eu bod yn iau na 18 oed. Fodd bynnag, yr oedd canlyniadau'r trigolion lleol a'r rhieni i'r cwestiwn hwnnw, a'r un oedd yn holi am yr iaith a siaradwyd yn y tafarnau a chlybiau yn hynod o ddiddorol. Ymhlith y trigolion lleol, dim ond 15 (20.6 y cant) oedd yn mynychu tafarn neu glwb yn gyson tra bod 23 (31.5 y cant) yn gwneud

hynny'n achlysurol. Ar y llaw arall, nid oedd 35 (47.9 y cant) yn mynychu tafarn neu glwb.

Yr oedd y rhan fwyaf o'r tafarnau a chlybiau yr oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn mynychu ym mhentref Cross Hands neu yn y pentrefi cyfagos: saith yng Nghlwb y Gweithwyr (*Workingmen's Club*) ym mhentref Cross Hands, naw y *Cross Hands Hotel*, chwech Clwb Rygbi Cefneithin a phump Tafarn y Phoenix yng Ngors-las. Dim ond ambell i dafarn neu glwb a nodwyd oedd y tu allan i ffiniau Cwm Gwendraeth megis rhai ym Mhontarddulais, Abertawe, Port Talbot ac mor belled â Bow Street, Ceredigion.

Er mai dim ond pedwar (11.8 y cant) o'r trigolion lleol a nododd mai'r Saesneg oedd yr iaith a siaradwyd yn bennaf mewn tafarnau a chlybiau, nododd nifer helaeth, sef 18 (52.9 y cant), bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio. Ar y llaw arall, nododd 12 (35.3 y cant) mai'r Gymraeg a ddefnyddiwyd yn bennaf. Fel y gellir disgwyl, siaradwyd y Gymraeg a'r Saesneg yn y tafarnau a chlybiau lleol ond y Saesneg a siaradwyd yn Abertawe a Port Talbot. Yn ddiddorol, yr oedd rhai o'r ymatebwyr wedi nodi bod iaith wahanol yn cael ei siarad yn yr un dafarn neu glwb. Enghraifft o hyn oedd Clwb Rygbi Cefneithin lle nodwyd bod y Gymraeg, y Saesneg a'r ddwy iaith yn cael eu siarad.

Wrth ddaddansoddi canlyniadau rhieni plant yr ysgol, daw'n amlwg bod y ganran sy'n mynychu tafarnau neu glybiau yn uwch na'r brif sampl o'r trigolion lleol. Yn wir, mae 22.2 y cant yn mynychu'n gyson tra 50.0 y cant sy'n gwneud hynny'n achlysurol. Ar y llaw arall, dim ond 27.8 y cant o'r rhieni nad oedd yn mynychu tafarn neu glwb o'u gymharu â 47.9 y cant o'r brif sampl o'r trigolion lleol. Nid yw'r iaith a ddefnyddir gan y rhieni yn y tafarnau a'r clybiau yn gwahaniaethu'n fawr o'r brif sampl. Fodd bynnag, yr oedd y ffaith bod mwy o'r rhieni yn mynychu tafarnau neu glybiau yn arwain yn naturiol at edrych ar oedran yr ymatebwyr a oedd yn mynychu. Fel y dengys Tabl 4.8 (Atodiad 1) a Tabl 4.8 (Atodiad 2), yr oedd mwyafrif helaeth o'r trigolion lleol a'r rhieni a oedd yn mynychu tafarnau neu glybiau yn gyson neu'n achlysurol

yn iau na 50 oed. Yn wir, yr oedd saith o'r trigolion lleol a oedd yn mynychu'n gyson a 15 a oedd yn gwneud hynny'n achlysurol yn iau na 50 oed. Yr oedd 10 yn yr ystod oedran 30-40 a oedd yn mynychu'n achlysurol yn cynnwys pump o'r rhieni.

3) Clybiau Chwaraeon

Yr oedd cyfle yn yr holiadur i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn perthyn i glwb chwaraeon ac i nodi'r iaith a ddefnyddiwyd yn bennaf. Mae'n amlwg mai lleiafrif o'r tair sampl sef y trigolion lleol, y rhieni a'r disgyblion chweched dosbarth sy'n perthyn i glybiau chwaraeon. Yn wir, dim ond 11 o'r trigolion lleol sef 15.7 y cant o'r sampl sy'n perthyn i glwb chwaraeon. Nid oedd y 59 arall a atebodd y cwestiwn, sef 84.3 y cant, yn perthyn. Yr oedd yr 11 a oedd yn perthyn i glwb chwaraeon yn cynnwys tri o rhieni plant yr ysgol. Fodd bynnag, nid oedd mwyafrif helaeth o'r rhieni, sef 82.4 y cant, yn perthyn. Er bod canran y disgyblion chweched dosbarth a oedd yn perthyn i glwb chwaraeon yn uwch, sef 30 y cant, gellid disgwyl y byddai'r ganran hyd yn oed yn uwch wrth ystyried bod pob un o'r sampl tua 17 oed.

Un nodwedd amlwg o'r canlyniadau yw nad y Gymraeg a ddefnyddir yn bennaf yn y clybiau hynny. Yn wir, o'r 11 o'r trigolion lleol a oedd yn perthyn, dim ond tri (30 y cant) o'r sampl a nododd mai'r Gymraeg a ddefnyddir yn bennaf, dau (20 y cant) mai'r Saesneg a phump (50 y cant) y ddwy iaith. Ni wnaeth un o'r tri rhiant a oedd yn perthyn i glwb chwaraeon nodi mai'r Gymraeg oedd yr iaith a ddefnyddiwyd yno'n bennaf: nododd dau Saesneg a un y ddwy iaith. Yn yr un modd, ni wnaeth neb o'r naw disgybl a oedd yn perthyn i glwb chwaraeon nodi'r Gymraeg: nododd tri y Saesneg a chwech y ddwy iaith.

4) Cymdeithas/Clwb arall

Pwrpas y cwestiwn yn yr holiadur a oedd yn holi am gymdeithas neu glwb arall oedd i weld faint o ddefnydd o'r Gymraeg a wnaed yn y manau hynny. Fel y dengys Tabl 4.12 (Atodiad 1) nodwyd amrywiaeth eang o wahanol gymdeithasau gan y trigolion lleol. Yr oedd y defnydd o iaith yn y

mannau hynny yn amrywio gyda naw yn nodi mai'r Gymraeg a defnyddiwyd yn bennaf, chwech y Saesneg, saith y ddwy iaith tra na wnaeth tri nodi iaith. Ni wnaeth unrhyw riant ymateb i'r cwestiwn hwn. Yn gyffredinol, wrth ystyried y cymdeithasau a restrwyd, cynhaliwyd y mwyafrif o'r gweithgareddau yn yr iaith ddisgwyliedig. Er enghraifft y Gymraeg a siaradwyd yn bennaf yn y corau a restrwyd ond y Saesneg oedd i'w chlywed yn bennaf yn y dosbarth nos arlunio a Chymdeithas y *Parachute Regiment*. Cafwyd yr un amrywiaeth ieithyddol yn y canlyniadau i'r cwestiwn hwn gan ddisgyblion y chweched dosbarth. O'r 11 a ymatebodd i'r cwestiwn, nododd dau (9.1 y cant) mai'r Gymraeg a siaradwyd yn bennaf, pump (45.5 y cant) y Saesneg a phedwar (36.4 y cant) y ddwy iaith. Yn yr un modd â chanlyniadau'r trigolion lleol, ar y cyfan y Gymraeg a siaradwyd yn y cymdeithasau traddoddiadol Cymreig megis y clybiau Ffermwyr Ifanc lleol tra'r Saesneg a siaradwyd mewn gweithgareddau megis y *2227 Mid-Gwendraeth Air Training Corps* ym Mhont-henri.

5) Neuadd Gyhoeddus Cross Hands

Ym Mhennod 4 trafodwyd cyfraniad Neuadd Gyhoeddus Cross Hands i gynnal y Gymraeg yn yr ardal. Ail-agorwyd y neuadd yn Ebrill 1996. Lleolir y neuadd yng nghanol pentref Cross Hands a phwrpas cynnwys y cwestiwn ar y neuadd oedd darganfod pwysigrwydd y neuadd erbyn hyn ym mhatrymau hamdden rhai o drigolion Cross Hands a'i chyfraniad tuag at ddarparu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriwyd eisoes bod cwestiwn yn yr adran a neilltuwyd i gyn-lowyr yn gofyn iddynt sut yr oeddynt yn cynnal y neuadd. Yr oeddynt yn gwneud hynny drwy gyfrannu ceiniog yr wythnos allan o'u cyflogau. Cyfeiriodd un o'r cyn-lowyr bod yn rhaid i bob gweithiwr yng nglofa Cross Hands a Blaenhirwaun gyfrannu ceiniog yr wythnos tuag at y neuadd a cheiniog tuag at Barc Cross Hands. Nodwyd bod amrywiaeth eang o weithgareddau wedi eu lleoli yn y neuadd wreiddiol gan gynnwys llyfrgell, ystafell snwcer, drama, cyngherddau, canu cynulleidfaol, ystafelloedd pwyllgora, ac ystafelloedd cawod i chwaraewyr pêl droed a rygbi.

Prif atyniad y neuadd a adnewyddwyd yw'r sinema a leolir yno sy'n gyrchfan boblogaidd yn enwedig i ieuenctid yr ardal. Cynhelir cyngherddau yno a defnyddir rhan sylweddol o'r neuadd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Canolfan Ddydd Lle darperir bwyd yn ddyddiol i henoed yr ardal. Yn y cyfweiliadau a gynhaliats â'r Cynghorydd Brin Davies a oedd yn Gadeirydd y neuadd, yr oedd yn hapus iawn â'r neuadd a adnewyddwyd yn enwedig y sinema a chyfeiriodd at gyngherddau blynyddol corau lleol fel Llandybïe, Llandeilo a Mynydd Mawr yn cael eu cynnal yn y neuadd. Yn ddiddorol iawn yng ngyd-destun y traethawd hwn, ymfalchiai mewn un datblygiad diweddar, sef sefydlu cwmni drama Saesneg,

Mae'n gwmni ifanc ac rwy'n gweld gwell dyfodol i'r neuadd a bydd mwy o ddefnydd ohoni o hyn ymlaen.

(Atodiad 7.4 :C1)

Cyfeiriodd at y diddordeb sylweddol a ddangoswyd yn y cwmni drama hwn, ac mae'n debyg y dylid ystyried y sylw hwn yng nghyd-destun llwyddiant y cwmni drama Cymraeg a sefydlwyd yn ddiweddar gan Fenter Cwm Gwendraeth ac a lwyfannodd nifer o gynhyrchiadau llwyddiannus.

Ymhlith y trigolion lleol yr oedd wyth (11.3 y cant) o'r sampl yn mynychu'r gweithgareddau a gynhelir yn y neuadd yn gyson tra yr oedd 34 (47.9 y cant) yn gwneud hynny'n achlysurol. Nid oedd 29 o unigolion (40.8 y cant) o'r sampl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn mynychu gweithgareddau yn y neuadd. Wrth ystyried y gweithgareddau a gynhelir yn y neuadd bresennol, nid oes amheuaeth, ar sail canlyniadau'r holiadur, mai'r sinema a leolir yno yw'r canolbwynt. Yn wir, rhestrodd y mwyafrif helaeth o'r rhai a oedd yn mynychu'r neuadd, sef 26, y sinema wrth lenwi'r holiadur. Yr oedd y gweithgareddau eraill a nodwyd yn cynnwys dramâu, nosweithiau llawen, a chyngherddau, ac yr oedd un person yn aelod o bwyllgor y neuadd. Yn ogystal, nododd rhai eu bod yn ymweld â'r neuadd i gymryd mantais o'r cyfleusterau sydd wedi eu neilltuo yno gan Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer pobl oedrannus ac anabl gyda grwpiau yn ymgynnull bob

dydd o'r wythnos i gael prydiau o fwyd ac i gymdeithasu. Wrth ystyried yr iaith a ddefnyddir yn y neuadd yn bennaf, mae'n amlwg y gwneir defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg. Yn wir, yr oedd 24 (63.2 y cant) o'r sampl wedi nodi bod y ddwy iaith yn amlwg yno. Ar y llaw arall, nododd chwech (15.8 y cant) mai'r Gymraeg a siaradwyd yn bennaf a wyth (21.1 y cant) y Saesneg.

Nid oedd canlyniadau rhieni plant yr ysgol yn amlygu unrhyw dueddiadau gwahanol i'r brif sampl. Yn wir, mae'r canrannau yn debyg iawn sef 6.3 y cant yn mynychu'r neuadd yn gyson, 43.8 y cant yn achlysurol tra nad oedd 50.0 y cant yn gwneud hynny. Tanlinellir pwysigrwydd y sinema i fywyd cymdeithasol pentref Cross Hands yn sgîl y ffaith bod saith o'r wyth rhiant a oedd yn mynychu gweithgareddau yn y neuadd wedi nodi'r sinema. Yn yr un modd â'r brif sampl, nododd mwyafrif helaeth o'r rhieni sef 75.0 y cant bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio yn y neuadd.

Ar y llaw arall, mae canlyniadau disgyblion y chweched dosbarth yn amrywio ychydig o'r ddwy sampl arall. Yn wir, nid oes unrhyw un o'r disgyblion yn mynychu'n gyson, 11 (36.7 y cant) yn mynychu'n achlysurol tra nad oedd 19 (63.3 y cant) yn gwneud hynny. Nododd naw eu bod yn mynychu'r sinema tra nododd dau gyngherddau. Mae'n bwysig ystyried nad yw mwyafrif helaeth o'r disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol uwchradd yn byw ym mhentref Cross Hands. Felly, mae hynny o bosibl yn esbonio pam fod llai o'r disgyblion yn mynychu gweithgareddau yn y neuadd.

Yr oedd cyfle yn yr holiadur i'r ymatebwyr gofnodi unrhyw sylwadau oedd ganddynt ynglyn â'r neuadd a sut y mae'n cymharu gyda'r neuadd wreiddiol. Mae'n amlwg bod y neuadd yn destun cryn ddiddordeb ym mhentref Cross Hands oherwydd manteisiodd 54 o'r ymatebwyr ar y cyfle i wneud hynny, gan gynnwys 11 rhiant ynghyd â 18 o'r disgyblion ysgol. Yn ddiddorol, yr oedd nifer nad oedd yn mynychu gweithgareddau yn y neuadd am amryw resymau, megis henaint a gwaeledd, wedi cynnwys sylwadau. Cyfeiriodd nifer o'r rhieni nad oeddynt yn gallu cymharu'r ddwy neuadd gan eu bod yn rhy ifanc i gofio llawer am y neuadd wreiddiol. Penderfynwyd newid y cwestiwn

i'r disgyblion chweched dosbarth gan ofyn am eu barn am y neuadd newydd gan hepgor y cyfeiriad at y gymhariaeth â'r neuadd wreiddiol. Yn ddiddorol, cyfeiriodd un o'r ymatebwyr at y ffaith na ddylid cyfeirio at y neuadd fel un 'newydd' gan mai adeilad wedi ei hadnewyddu ydyw. Er bod y neuadd a ail-agorwyd yn adnodd pwysig iawn i'r ardal, dywedodd un o'r ymatebwyr ei bod yn anodd iawn i'w chymharu â'r neuadd wreiddiol gan bod anghenion cymdeithas wedi newid. Nodwyd bod cymeriad y neuadd wreiddiol yn debyg i'r un bresennol gan mai glowyr a gynhaliodd y neuadd. Yn ogystal, soniodd un o'r ymatebwyr a oedd yn aelod o bwyllgor y neuadd ei bod yn rhy gynnar i feirniadu'r neuadd a adnewyddwyd ac na fyddai modd asesu ei llwyddiant am rai blynyddoedd.

Ar y cyfan, yr oedd y mwyafrif a gyflwynodd sylwadau yn hapus iawn â'r neuadd ers ei hail-agor. Cyfeiriodd nifer at y neuadd fel adeilad hyfryd a oedd wedi ei hadnewyddu i safon uchel iawn. Yr oedd nifer o'r farn ei bod yn hen bryd adnewyddu'r neuadd ar ôl bod yn adfail am gymaint o flynyddoedd gan fod yn embaras i'r pentref. Yr oedd nifer yn amlwg yn croesawu ail-agor y neuadd a'r ffaith bod bellach leoliad addas i drefnu gwahanol weithgareddau yn y pentref. Mae'n amlwg bod ail-agor y neuadd wedi rhoi ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned glòs i drigolion Cross Hands gan nad oedd canolfan addas i bobl gyfarfod yn y pentref cyn hynny. Soniodd rhai bod ail-agor y neuadd wedi bod yn arbennig o bwysig i bobl ifanc y pentref. Un gwahaniaeth amlwg rhwng y neuadd a ail-agorwyd oedd ei bod yn cynnwys sinema. Yn y gorffennol, lleolwyd sinema mewn rhan arall o'r pentref ond bu ar gau ers dros deugain mlynedd. Felly, ni fu sinema yn y pentref ers hynny ac mae'n amlwg bod croeso twymgalon i ddyfodiad y sinema yn y neuadd yn enwedig ymhlith ieuencid yr ardal. Fodd bynnag, cyfeiriodd dau o'r disgyblion y dylid dangos ffilmiau a ryddhawyd yn gynnar i'r sinema a soniodd un arall nad oedd yn croesawu dangos ffilmiau yn y Gymraeg yn y sinema.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y ffaith bod y neuadd a ail-agorwyd yn debyg iawn i'r hen neuadd er ei bod yn naturiol yn fwy modern. Yn wir, er bod rhai o'r farn bod y neuadd a ail-agorwyd yn well gan ei bod yn fwy modern

a moethus, yr oedd eraill o'r farn bod adnewyddu'r neuadd ar safle'r un wreiddiol yn deyrnged i lowyr y gorffennol. Yn ogystal, yr oedd nifer yn croesawu'r defnydd gan yr henoed sy'n mynd yno heddiw i'r rhan o'r neuadd sydd wedi ei neilltuo fel canolfan ddydd, yn enwedig gan eu bod wedi talu am y neuadd wreiddiol pan oeddynt yn lowyr yn yr ardal. Fel y dywed Brin Davies wrth fynegi ei fodlonrwydd â'r neuadd a adnewyddwyd:

rwy'n gwybod ein bod wedi colli cyfleusterau ar gyfer yr ieuenctid ond yn bersonol 'rwy'n hapus dros ben oherwydd y bobl sydd yn dod i'r *Day Centre* nawr yw'r bobl sydd wedi talu am yr adeilad. Mae nhw'n cael rhywbeth allan nawr o'r hyn dalodd ein cyndeidiau ni nôl ar ddechrau'r ganrif.

(Atodiad 6.2 : C4)

Un sylw a wnaed gan nifer o'r ymatebwyr oedd bod llawer mwy o gyfleusterau ar gael yn y neuadd wreiddiol. Soniodd rhai bod llawer o le gan y neuadd i wella ar yr hyn a ddarperir i drigolion yr ardal. Er bod nifer yn croesawu dyfodiad y sinema a chyngherddau i'r neuadd a ail-agorwyd, cyfeiriodd amryw at y ffaith bod mwy o ddefnydd ac amrywiaeth yn y neuadd wreiddiol. Yn wir, yr oedd nifer yn gweld eisiau llawer o'r hyn a oedd yn y neuadd wreiddiol megis llyfrgell, aelwyd yr Urdd, a'r cyfle i chwarae snwcer, a chynnal mwy o gyngherddau yno. Cyfeiriodd eraill at y diffyg digwyddiadau ar gyfer pobl ifanc yn y pentref ac nad oes digon o gyfleusterau yno. Un mater a oedd yn amlwg yn poeni nifer o'r ymatebwyr yn enwedig rhieni plant yr ysgol oedd bod yr ysgol yn gorfod talu i wneud defnydd o'r neuadd i gynnal sioe Nadolig. Yn wir, yr oedd un o'r rhieni yn boicotio'r neuadd (heblaw am bleidleisio adeg etholiadau) oherwydd hyn gan bwysleisio bod y tâl yn hollol groes i'r hyn a ddigwyddodd yn y neuadd wreiddiol yn y pumdegau. Yn ogystal, soniodd rhai y dylai'r ysgol gael mwy o fynediad i'r neuadd yn gyffredinol.

Er i fwyafrif yr ymatebwyr groesawu'r ffaith bod rhan o'r neuadd wedi ei neilltuo fel canolfan ddydd i henoed yr ardal, soniodd eraill y dylai'r neuadd

gyfan fod ar gael i'r gymuned yn yr un modd â'r un wreiddiol. Un sylw a wnaed gan nifer o'r ymatebwyr oedd mai siomedig iawn oedd yr hysbysebu i'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn y neuadd. Beirniadaeth arall a wnaed oedd bod llwyfan y neuadd yn rhy uchel o'r llawr.

Adran 5: Teledu a Radio

Pwysleisiodd Giles a Coupland bod cynnal cyfryngau torfol drwy gyfrwng ieithoedd lleiafrifol yn rhan o'r gefnogaeth a gyflwynir gan sefydliadau tuag at ddiwylliant a iaith:

Groups that have institutional support for their culture and language, a reasonable social standing in terms of their historical past and economic situation, and a strong demography such as large numbers and an increasing birthrate, may be considered to have a high vitality.

(Giles & Coupland 1991:136)

Fodd bynnag, pwysleisiodd Fishman na ddylid gorbwysleisio cyfraniad y cyfryngau pan fod sylfeini trosglwyddiad iaith ar yr aelwyd yn cael eu hanwybyddu:

it does question the need or the ability of all languages to function in these particular spheres, as well as the advisability of such goals when the more foundational spheres –more foundational in so far as integrational mother tongue transmission is concerned – of family and community have not yet been safeguarded.

(Fishman 1991: 4)

Nid oes amheuaeth na fu sefydlu Radio Cymru yn 1977 ac yn enwedig S4C yn 1982 yn ddatblygiadau nodedig wrth gynnal a hybu'r iaith Gymraeg.

Fel y dengys Tabl 5.1 (Atodiad 1) a Ffigur 7, yr oedd mwyafrif helaeth o'r trigolion lleol yn gwylio rhaglenni teledu Cymraeg ar S4C. Yn wir, yr oedd 28 yn gwylio'n gyson, sef dros bum awr yr wythnos (37.3 y cant); 38 yn achlysurol, sef rhwng 1 a 5 awr yr wythnos (50.7 y cant); tra dim ond naw (12.0 y cant) nad oedd yn gwylio o gwbl. Wrth ystyried hoff raglen yr ymatebwyr, er bod amrywiaeth o raglenni wedi eu cynnwys, nid yw'n syndod mai *Pobol y Cwm* a nodwyd gan y mwyafrif helaeth. Yn wir, fel y dengys Tabl 5.2 (Atodiad 1), dewisodd 41 o'r trigolion lleol *Pobol y Cwm* fel eu hoff rhaglen tra yr oedd yr ail raglen fwyaf poblogaidd, sef *Dechrau Canu Dechrau Canmol*, wedi eu nodi gan ddim ond chwech o ymatebwyr. Mae'n arwyddocaol mai dim ond pump a nododd y rhaglen *Heno* gan gofio bod Cwm Gwendraeth yn rhan o'r ardal yr oedd y rhaglen wedi ei dargedu. Eto, mae'n debygol mai gwylio eitemau o fewn *Heno* yr oedd pobl a bod hyn efallai yn rhoddi darlun camarweiniol o'r ffigurau gwylio.

Wrth ystyried canlyniadau yr is-sampl o rieni plant yr ysgol, mae'n amlwg bod canran dipyn llai yn gwylio dros bum awr o raglenni Cymraeg yr wythnos. Yn wir, dim ond tri (16.7 y cant) oedd yn gwneud hynny, tra yr oedd 11 (61.1 y cant) yn gwylio rhwng un a phum awr yr wythnos. Nid oedd pedwar o'r rhieni (22.2 y cant) yn gwylio S4C o gwbl. Yn yr un modd, nid yw'n syndod mai *Pobol y Cwm* oedd y rhaglen a ddewisodd y mwyafrif helaeth fel eu hoff rhaglen. Mae'n bosibl bod canran y rhai hynny sy'n gwylio S4C yn llai gan bod mwyafrif y rhieni yn gweithio a bod ganddynt oherwydd hynny ddyletswyddau teuluol.

Yn yr un modd, nid oes unrhyw duddiadau gwahanol yn amlygu eu hunain yng nghanlyniadau y disgyblion chweched dosbarth. Yn wir, tra yr oedd wyth (26.7 y cant) yn gwylio dros bum awr yr wythnos, yr oedd 18 (60.0 y cant) yn gwylio rhwng un a phum awr yr wythnos. Nid oedd pedwar (13.3 y cant) yn gwylio rhaglenni Cymraeg o gwbl. Er mai *Pobol y Cwm* hefyd oedd hoff raglen y mwyafrif helaeth o'r disgyblion, yr oedd mwy o amrywiaeth o raglenni wedi eu cynnwys ymhlith eu dewisiadau. Yr oedd rhai o'r rhaglenni a nodwyd ganddynt megis *Pam Fi Duw*, *Rownd a Rownd* ac *I-dot* wedi eu hanelu

yn bennaf at bobl ifainc ac felly mae'n addas eu bod wedi eu cynnwys.

Er bod canlyniadau yr ymatebwyr i'r cwestiynau a oedd yn holi am eu harferion wrth wyllo rhaglenni teledu Cymraeg ar y cyfan yn weddol gadarnhaol ni ellir dweud yr un peth wrth ystyried rhaglenni Cymraeg ar y radio. Dim ond naw (12.5 y cant) o'r trigolion lleol a oedd yn gwrando ar dros 5 awr o raglenni ar Radio Cymru tra yr oedd 20 (27.8 y cant) yn gwrando rhwng 1 a 5 awr yr wythnos. Fodd bynnag, nid oedd 43 (59.7 y cant) yn gwrando o gwbl ar Radio Cymru. Yn wahanol i *Pobol y Cwm*, nid oedd unrhyw hoff raglen amlwg ymhlith gwrandawyr Radio Cymru a oedd yn rhan o'r sampl. Fel y dengys Tabl 5.4 (Atodiad 1), rhaglenni *Hywel Gwynfryn*, *Sulwyn Thomas* a *Newyddion* oedd fwyaf poblogaidd. Nododd tri y sianel *Radio 2* ac un y sianel *Talk Radio* mewn ymateb i'r cwestiwn hwn sy'n adlewyrchiad o'r ffaith eu bod naill ai wedi camddeall y cwestiwn neu eu bod yn manteisio ar y cyfle i ddangos nad ydynt yn gwrando ar Radio Cymru.

Wrth ystyried yr is-sampl o rieni plant yr ysgol, mae'r canlyniadau hyd yn oed yn fwy siomedig i garedigion yr iaith. Dengys Ffigur 13 nad oedd unrhyw un o'r rhieni yn gwrando ar Radio Cymru am fwy na phum awr yr wythnos tra dim ond dau (12.5 y cant) a oedd yn gwrando rhwng un a phum awr yr wythnos. Nid oedd y mwyafrif helaeth o'r rhieni sef 14 (87.5 y cant) yn gwrando o gwbl ar Radio Cymru. Ni wnaeth y ddau a oedd yn gwrando'n achlysurol ar Radio Cymru nodi eu hoff rhaglen. Nid oes unrhyw galonddid hefyd i benaethiaid Radio Cymru wrth ystyried canlyniadau'r disgyblion chweched dosbarth. Yn yr un modd â rhieni plant yr ysgol, dengys Ffigur 19, nad oedd unrhyw un o'r disgyblion yn gwrando am fwy na phum awr yr wythnos ar raglenni Radio Cymru, tra dim ond pedwar (13.3 y cant) a oedd yn gwrando rhwng un a phum awr yr wythnos. Ar y llaw arall, nid oedd y mwyafrif helaeth, sef 26 (86.7 y cant), yn gwrando o gwbl ar Radio Cymru. Nododd dau o'r rhai a oedd yn gwrando ar Radio Cymru mai'r rhaglen *Becs*, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gerddoriaeth ddiweddaraf y siartiau, oedd eu hoff rhaglen. Fodd bynnag, y rhaglen hon yw'r unig un (heblaw am raglen *Jonsi* a nodwyd gan un o'r trigolion lleol) ymhlith y disgyblion a'r trigolion

lleol y gellir ei diffinio fel rhaglen a anelwyd at bobl ifanc. Yn wir, mae'r mwyafrif helaeth o'r rhaglenni a nodwyd gan y trigolion lleol yn rhai y gellir eu diffinio fel rhai traddodiadol, 'canol y ffordd'. Yn eu plith y mae *Talwrn y Beirdd*, *Beti a'i Phobol*, rhaglenni cais megis un *Rhys Jones* tra chyfeiriwyd eisoes at rhai *Hywel Gwynfryn* a *Sulwyn Thomas*.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Radio Cymru wedi adolygu cynnwys eu rhaglenni er mwyn ceisio denu mwy o wrandawyr, yn enwedig ymhlith yr ifanc, i wrando ar y sianel. Yr oedd penaethiaid y sianel yn sylweddoli bod yn rhaid gwneud hynny er mwyn ceisio cystadlu gydag arlwy yr amrywiol sianeli Saesneg megis *Radio 1*. Maent wedi gwneud defnydd o eiriau a cherddoriaeth Saesneg i geisio denu mwy o wrandawyr. Beirniadwyd y polisi hwn gan fudiadau megis Cymdeithas yr Iaith ac yn enwedig Cylch yr Iaith sy'n anhapus gyda'r polisi hwn, gan ddadlau bod Radio Cymru ac S4C bellach yn troi'r ddau wasanaeth yn rhai dwyieithog eu cynnwys yn hytrach nag yn rhai Cymraeg. Er bod penaethiaid y sianel yn hawlio'n gyson eu bod yn denu mwy o wrandawyr, mae'n amlwg o'r ymatebion i'r holiaduron nad yw Radio Cymru yn apelio llawer at nifer o drigolion Cwm Gwendraeth, boed yn ifanc neu'n hen. Bellach, clywir rhaglenni Cymraeg ar Radio Cymru am 20 awr y dydd o 5:00 a.m. tan 1:00 a.m. Datblygiad pwysig arall gan Radio Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw darparu rhaglenni ar gyfer ardaloedd penodol. Mae'n debygol bod hyn wedi deillio o lwyddiant gorsafoedd masnachol megis Radio Ceredigion a fu'n gryn fygythiad i Radio Cymru yn y Gorllewin. Erbyn hyn mae rhai rhaglenni penodol yn cael eu darparu ar Radio Cymru ar gyfer ardaloedd de-orllewin Cymru gan gynnwys Cwm Gwendraeth sy'n wahanol i'r hyn a glywir ledled Cymru. Yr oedd Deris Williams o'r farn bod cael cyflwynydd sy'n adnabyddus ac yn boblogaidd yn yr ardal megis Ray Gravell wedi ennyn diddordeb lleol (Atodiad 7.2 : C21).

Penderfynais y byddai'n fuddiol gofyn hefyd os oedd yr ymatebwyr yn gwrandao ar raglenni Cymraeg ar yr orsaf radio leol, Sain Abertawe. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau hyd yn oed yn llai cadarnhaol nag ar gyfer Radio Cymru. Dim ond un o'r trigolion lleol (1.4 y cant) oedd yn gwrandao dros bum

awr yr wythnos tra dim ond deg (14.1 y cant) oedd yn gwrando rhwng un a phum awr yr wythnos. Nid oedd y mwyafrif helaeth sef 60 (84.5 y cant) yn gwrando o gwbl ar raglenni Cymraeg ar Sain Abertawe. Fel y dengys Tabl 5.6 (Atodiad 1) nid oedd unrhyw hoff raglen amlwg gan y lleiafrif a oedd yn gwrando ar y donfedd honno. Dim ond un o rieni plant yr ysgol oedd yn gwrando rhwng un a phum awr yr wythnos tra nad oedd y gweddill, sef 16, yn gwrando o gwbl ar raglenni Cymraeg ar Sain Abertawe. Ymhlith y disgyblion chweched dosbarth, yr oedd pedwar (13.3 y cant) yn gwrando rhwng un a phum awr yr wythnos tra nad oedd 26 (86.7 y cant) yn gwrando o gwbl. Yn yr un modd â rhieni plant yr ysgol, ni wnaeth unrhyw un o'r disgyblion a oedd yn gwrando ar raglenni Cymraeg ar Sain Abertawe nodi eu hoff raglen heblaw am un a nododd bod ei fam yn darllen y newyddion o bryd i'w gilydd! Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu cwtogiad yn nifer y rhaglenni Cymraeg ar Sain Abertawe. Yn ogystal, nid yw'r donfedd sy'n darparu rhaglenni Cymraeg i'w glywed yn glir yng Nghwm Gwendraeth. Felly, mae problem dechnegol o safbwynt Sain Abertawe.

Yr oedd cyfle i'r ymatebwyr nodi unrhyw sylwadau a oedd ganddynt ynglŷn â safon y Gymraeg ar y cyfryngau. Wrth ystyried nad oedd llawer o'r sampl yn gwrando ar raglenni Cymraeg ar Radio Cymru a Sain Abertawe, nid yw'n syndod bod y mwyafrif helaeth o'r sylwadau yn gysylltiedig â'r iaith ar y teledu. Yn wir, yr oedd bron yr holl sylwadau a gyflwynwyd yn ymwneud â safon a natur yr iaith a siaradwyd ar S4C. Dylid cydnabod bod amryw a gymerodd fantais o'r cyfle hwn yn ddigon hapus gyda'r iaith a siaredir. Fodd bynnag, un o'r prif gwynion oedd bod gormod o actorion o'r gogledd yn ymddangos ar nifer o raglenni S4C ac felly nad oeddynt yn deall rhai ymadroddion. Cyfeiriodd amryw at 'iaith y gogledd' ac nid yw'n syndod mai'r rhaglen a ddenodd fwyaf o ymateb yn y cyd-destun hwn oedd *Pobol y Cwm*. Seiliwyd *Pobol y Cwm* yn wreiddiol yng Nghwm Gwendraeth a chyfeiriodd amryw o'r ymatebwyr at hynny ac mae'n bosibl bod hynny'n cyfrannu at y feirniadaeth ynglŷn ag iaith y rhaglen. Yn ddiddorol, er bod actorion o'r gogledd wedi ymddangos ar y rhaglen o'r dechrau, mae'n amlwg bod y rhai a ymatebodd i'r holiadur yn ystyried y rhaglen fel un ddeheuol. Yn wir,

awgrymodd un o'r ymatebwyr mai dim ond actorion o'r De ddylai ymddangos ar *Pobol y Cwm*. Cyfeiriodd un o'r ymatebwyr at y ffaith bod nifer o actorion gogleddol yn rhy ddiog i ddysgu tafodiaith ddeheuol ar gyfer rhai rhaglenni megis *Pobol y Cwm*.

Yn gyffredinol, cydnabyddir bod sefydlu S4C wedi bod yn gam holl bwysig yn yr ymgais i leihau'r ffiniau ieithyddol rhwng iaith y de a'r gogledd. Er bod rhai o'r ymatebwyr wedi nodi bod y sefyllfa wedi gwella ers sefydlu'r sianel a'u bod wedi dod yn gyfarwydd â'r dafodiaith erbyn hyn, mae'n amlwg bod nifer o drigolion Cwm Gwendraeth yn dal i gael anhawster i ddeall rhai o'r acenion gogleddol a siaredir ar y sianel. Dywedodd un o'r ymatebwyr bod y cyfuniad o acenion de a gogledd mewn dramâu yn tueddu i dynnu sylw oddi ar y perfformiad. Yr oedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod llawer o'r Gymraeg a siaredir ar S4C yn rhy anodd a dwfn i'w deall a nodwyd bod yr iaith yn rhy lenyddol ar brydiau. Yr oedd un o'r disgyblion chweched dosbarth yn ddigon hapus â'r rhaglenni a ddarlledir ar S4C, ond yr oedd o'r farn bod y Gymraeg a siaredir naill ai'n rhy bur a chywir neu yr oedd wedi ei hanelu at ddysgwyr - nid oedd dim yn y canol. Yr oedd ymatebwr arall yn teimlo'n gryf iawn ynglŷn â'r mater hwn. Yr oedd o'r farn bod gormod o Gymraeg snobyddlyd yn cael ei siarad. Dywedodd bod hyn yn '*typical of posers living in the Cardiff area*'! Yr oedd o'r farn nad oedd dim o'i le ar ddefnyddio geiriau Saesneg yn hytrach na Chymraeg synthetig. Heblaw am raglenni digywilydd megis *Torri Gwynt*, nid oedd o'r farn bod S4C yn darparu ar gyfer pobl 'normal', di-broffesiynol. Yn hytrach, credai bod S4C wedi ei hanelu at bobl a oedd yn meddwl eu bod yn well na'r Cymry di-Gymraeg. Ar y llaw arall, dywedodd rhai bod gormod o eiriau Saesneg ar nifer o'r rhaglenni. Yn wir, cyfeiriodd rhai yn benodol at y rhaglen *Heno* a soniwyd bod dylanwad yr iaith Saesneg yn treiddio i mewn i'r rhaglen.

Er mai ymdrin â'r iaith a ddarlledir ar y teledu a'r radio oedd pwrpas y cwestiwn hwn, manteisiodd rhai o'r ymatebwyr ar y cyfle i drafod amrywiaeth o wahanol bynciau. Nododd un bod safonau y rhaglenni yn weddol dda heblaw am *Heno*. Cyferiodd un arall nad oedd digon o raglenni ar gyfer plant yn cael

eu darlledu yn ystod y bore i helpu plant i ddysgu Cymraeg. Nid oedd yn deall pam y darlledwyd y rhaglen *Slot Meithrin* yn ystod y prynhawn pan yr oedd nifer o blant bach yn cysgu. Yr oedd yn poeni bod ei merch dwy flwydd oed yn defnyddio llawer o eiriau Saesneg oherwydd dylanwad y teledu. Cyfeiriodd un o'r ymatebwyr at amseru rhaglenni gan sôn bod angen mwy o raglenni Cymraeg ar Radio Cymru a S4C rhwng 9:00 a 12:00 yn yr un modd â rhai Saesneg. Yn ddiddorol, ers dosbarthu'r holiadur hwn yn yr ardal, mae Radio Cymru bellach yn darlledu tan 1:00 y bore ac yn Ionawr 2003, penderfynodd S4C ddarlledu rhaglenni Cymraeg mewn slot hwyrach rhwng 7:00 a 10:00. Cefais bregeth gan un wraig a oedd yn ddiog iawn am rai agweddau o *Bobol y Cwm* yn enwedig y berthynas lesbiaidd rhwng dwy o'r cymeriadau, Lisa a Fiona. Yr oedd yn awyddus i wneud yn siŵr bod penaethiaid S4C yn clywed am ei chwyn. Er bod llythyron yn ymddangos o bryd i'w gilydd yn y wasg yng Nghymru sy'n cwyno nad oes modd derbyn rhaglenni Channel 4 ar S4C (heblaw am yr ardaloedd dwyreiniol hynny lle mae mastiau teledu rhai tai yn wynebu Lloegr), dim ond un o'r ymatebwyr a nododd bod gormod o raglenni Cymraeg ar S4C. Mae'n werth cofio bod modd i bobl yng Nghymru erbyn hyn dderbyn Channel 4 drwy gyfrwng teledu digidol. Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cwyno am wahanol faterion, yn gyffredinol yr oeddynt o'r farn fod arlwy llawn cydbwysedd ar S4C, yn darparu ar gyfer yr hen a'r ifanc.

Adran 6 : Menter Cwm Gwendraeth

Trafodwyd eisoes ym Mhennod 5 hanes sefydlu Menter Cwm Gwendraeth yn 1991, ei datblygiad a'i chyfraniad i drigolion yr ardal. Pwrpas gofyn y cwestiynau am y Fenter yn yr holiadur oedd darganfod ymateb carfan o boblogaeth Cwm Gwendraeth i weithgareddau'r Fenter. Yn yr un modd â'r cwestiynau eraill a ofynnwyd yn yr holiadur, ni all y canlyniadau adlewyrchu tueddiadau ledled y Cwm. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau i'r cwestiynau a ofynnwyd ynglŷn â'r Fenter yn ddiddorol i ddweud y lleiaf.

Yn wir, fel y dengys Ffigur 8, dim ond deg (14.1 y cant) o'r trigolion lleol a oedd wedi mynychu gweithgareddau a drefnwyd gan y Fenter yn ystod y 6-12 mis diwethaf. Nid oedd y mwyafrif helaeth sef 61 (85.9 y cant) wedi

mynychu unrhyw weithgaredd a drefnwyd yn enw'r Fenter. Fel y dengys Tabl 6.2 (Atodiad 1), nid oedd unrhyw weithgaredd amlwg ymhlith dewisiadau'r ymatebwyr a oedd wedi mynychu gweithgareddau, er bod pedwar wedi nodi cyngherddau. Yn yr un modd, fel y dengys Ffigur 14, digon tebyg oedd canlyniadau'r is-sampl o rieni plant yr ysgol gyda dim ond tri (17.6 y cant) wedi mynychu'r gweithgareddau o'i gymharu â 14 (82.4 y cant) nad oedd wedi gwneud hynny. Yr oedd canran y disgyblion chweched dosbarth a oedd wedi mynychu gweithgareddau yn ystod y 6-12 mis diwethaf ychydig yn uwch ond pur siomedig hefyd oedd y canlyniadau hynny. Dengys Ffigur 20 bod saith (24.1 y cant) wedi mynychu gweithgareddau, tra nad oedd 22 (75.9 y cant) wedi gwneud hynny. Nododd tri o'r disgyblion eu bod wedi mynychu clybiau drama, dau oedd wedi teithio ar fws a drefnwyd gan y Fenter i weld gig y *Stereophonics* yn stadiwm y Morfa yn Abertawe, tra'r oedd un wedi mynychu clwb ieuenctid yn Nrefach ac un yn aelod o Theatr Ieuenctid Cwm Gwendraeth.

Felly, pur anffafriol fu'r canlyniadau yng nghyd-destun mynychu gweithgareddau Menter Cwm Gwendraeth ymhlith y trigolion lleol a'r disgyblion chweched dosbarth. Mae'n werth pwysleiso eto bod y disgyblion chweched dosbarth yn byw ledled Cwm Gwendraeth a thu hwnt a dim ond lleiafrif fechan ohonynt oedd yn byw ym mhentref Cross Hands. Fodd bynnag, yr oedd y mwyafrif o'r trigolion lleol a holwyd yn byw ym mhentref Cross Hands ac mae'n rhaid gofyn pam bod gweithgareddau'r Fenter wedi ennyn ymateb llugoer yn y pentref. Yr oedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd digon o weithgareddau'r Fenter yn Cross Hands. Mewn ymateb i'r canlyniadau hyn cyfeiriodd Deris Williams at y gweithgareddau a drefnwyd yn enw'r Fenter yn Cross Hands megis Clwb Gwyliau yn yr ysgol gynradd ynghyd â'r gwaith y mae'r Fenter yn parhau i wneud yn y ddwy ysgol gyfun leol. Cyfeiriodd at y ffaith nad oedd pobl efallai yn sylweddoli bob tro mai'r Fenter oedd yn trefnu rhai gweithgareddau ac rwy'n meddwl bod hynny'n sylw holl bwysig:

Beth mae pobl yn aml ddim yn sylweddoli yw pwy yw'r darparwyr. Mae gwasanaeth yn cael ei gynnig yn naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg a 'dy'nhw ddim yn cwestiynu pwy yw'r

darparwr. Mae pobl yn ennyn am wasanaeth ac nid pwy sy'n darparu ac rwy'n meddwl fod hynny'n broblem gyffredinol. Bydd pob gohebiaeth sydd yn gadael y Fenter yn mynd ar ben llythyr Menter Cwm Gwendraeth ond yn aml iawn mae pobl yn darllen y cynnwys, beth sydd yno ar eu cyfer a beth sy'n briodol iddy' nhw ac yn cwrdd â'u hanghenion ac nid pwy yw'r darparwr ar waelod y llinyn.

(Atodiad 7.2 : C14)

Yn ogystal, soniodd rhai nad oedd y Fenter yn gwneud digon o ddefnydd o'r neuadd ym mhentref Cross Hands. Fodd bynnag, nid oedd Cefin Campbell yn synnu clywed hyn pan fum yn ei gyfweld. Er bod prif swyddfa Menter Cwm Gwendraeth adeg cyflawni'r gwaith maes wedi ei lleoli yng nghanol pentref Cross Hands, pwysleisiodd yr eironi bod y Fenter wedi cael llai o ymateb yn Cross Hands na bron pob pentref arall yn y Cwm. Nododd bod rhai o'r farn bod y teimlad o gymuned wedi diflannu yn Cross Hands yn dilyn y datblygiadau ar y Parc Busnes a sefydlwyd ar safle'r lofa a gaewyd. Yn ogystal, cyn ail-agor Neuadd Gyhoeddus Cross Hands, nid oedd unrhyw leoliad amlwg i drefnu gweithgareddau. Er bod y Fenter wedi bod yn cydweithio â phwyllgor y neuadd, cyfeiriodd at y tensiwn a fu rhyngddynt.

i ni wedi bod yn ymwybodol yma yn Cross Hands bod yna rhyw fath o ddrwgdybiaeth wedi bod bron o'r cychwyn ymhlith y gwleidyddion lleol ynglŷn â nod ac amcanion y Fenter: yr hen gred bod pawb sydd yn gysylltiedig â hybu'r Gymraeg yn genedlaetholwyr eithafol. 'Rwy'n gwybod bod y berthynas rhwng y Fenter â phwyllgor y neuadd wedi bod yn un anodd. Er ein bod wedi rhoi pob cefnogaeth i'r neuadd, mae'r pwyllgor wedi cadw'r Fenter hyd braich. Mae'r pwyllgor hyd yn oed wedi gwrthod darparu ar gyfer pobl ifanc yn y neuadd. I ddyfynnu un cynghorydd amlwg yn Cross Hands, fe ddywedodd ar gais gen i : 'I ni ddim eisiau *youngsters* miwn yn neuadd Cross Hands'. 'Rwy'n credu bod hynny yn drist iawn. . . .

(Atodiad 6.1 : C8)

Mae'n arwyddocaol iawn bod y Fenter a oedd yn rhoddi cymaint o bwyslais ar ddarparu gweithgareddau i ieuenctid yr ardal wedi ennyn y fath ymateb gan rai unigolion a oedd yn gysylltiedig â'r neuadd. Mae'n eironig na dderbyniodd y Fenter gefnogaeth llwyr gan rai ym mhentref Cross Hands wrth ystyried mai yn y pentref hwnnw y lleolwyd swyddfa'r Fenter yn ystod blynyddoedd cyntaf ei bodolaeth. Cyfeiriodd Cefin Campbell at hyn:

Dwi'n gwybod bod rhai ar y pwyllgor yn wrthwynebus i'r Fenter, a'r syndod eto yw mai dim ond yn y pentref hwn yr ydym wedi dod o hyd i'r gwrthwynebiad hyn. Mae'n bosibl mai eiddigedd ydyw gan mai ni wnaeth y *fuss* ar y dechrau ynglyn â chyflwr neuadd Cross Hands. Wrth ein bod yn tynnu sylw at y ffaith bod Neuadd Cross Hands bron wedi mynd â'i ben iddo, yr oedd hynny'n pigo cydwybod rhai cynghorwyr a oedd yn gyfrifol am gyflwr truenus y neuadd. Wrth ein bod yn gwneud hynny, nid oedd hynny wrth gwrs yn plesio ac wrth ein bod yn feirniadol o'r rheolaeth fuodd ar Neuadd Cross Hands gan adael iddi fynd i'r fath gyflwr, yr oedd hynny yn mynd i ennyn adwaith, efallai negyddol yn ein herbyn ni ac mae'r adwaith hynny'n parhau yn anffodus. Ond dim dyna beth sydd yn bwysig ar ddiwedd y dydd. Beth sydd wedi bod yn bwysig i ni yw fod y neuadd ar agor. Y piti yw nad oes cyfleusterau yn y neuadd ar gyfer pobl ifanc a'r piti hefyd yw nad ydym fel Menter yn cael cymaint â hynny o wahoddiad i drefnu gweithgareddau yn y neuadd.

(Atodiad 6.1 :C8)

Pan fûm yn cyfweld â'r cynghorydd Brin Davies, cadarnhaodd bod ffactorau gwleidyddol wedi amharu ar lwyddiant y Fenter yn Cross Hands. Soniodd y dylai'r Fenter fod wedi derbyn mwy o gefnogaeth gan nifer o bobl leol, a byddai hynny wedi hwyluso gwaith y Fenter. Fodd bynnag, pan fûm yn

ei gyfsweld am yr ail-dro yn ystod 2004 cyfeiriodd bod y Fenter bellach yn gwneud defnydd o'r neuadd.

Mae nhw'n cynnal cyngerdd dwy waith y flwyddyn. Rhwng Pontyberem, y Tymbl, Cross Hands a Phontiets, 'rwy'n meddwl ein bod yn cael ein rhan. Chwarae teg i Fenter Cwm Gwendraeth.

(Atodiad 7.4 : C8)

3) Ar gyfer pwy mae'r Fenter yn darparu orau?

Mewn ymateb i'r cwestiwn yn holi ar gyfer pwy yr oedd y Fenter yn darparu orau, mae'n amlwg bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cysylltu'r Fenter gyda ieuenctid. Yn wir, fel y dengys Tabl 6.3 (Atodiad 1), yr oedd 17 (23.6) o'r trigolion lleol o'r farn mai ar gyfer plant y mae'r Fenter yn darparu orau a 33 (45.9) yn nodi pobl ifanc. Dim ond un a gyfeiriodd at 'oedolion', 16 at 'bawb' a phump at 'neb yn arbennig'. Fel y dengys Tabl 6.3 (Atodiad 2) a Tabl 5.3 (Atodiad 3) nid oedd unrhyw dueddiadau gwahanol yn amlygu eu hunain ymhlith rhieni plant yr ysgol a'r disgyblion chweched dosbarth Yn yr un modd â'r trigolion lleol, yr oedd y mwyafrif o rieni plant yr ysgol a disgyblion y chweched dosbarth o'r farn mai ar gyfer plant a phobl ifanc y mae'r Fenter yn darparu orau.

4) Barn am weithgareddau'r Fenter.

Er mai lleiafrif o'r rhai a ymatebodd i'r holiadur oedd wedi mynychu gweithgareddau'r Fenter yn ystod y 6-12 mis, mae'n ymddangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ddigon hapus gyda'r gweithgareddau a drefnwyd gan y Fenter. Yn wir, yr oedd 19 (33.3 y cant) o'r trigolion lleol o'r farn bod y gweithgareddau yn 'dda iawn' tra nododd 12 (21.1 y cant) eu bod yn 'eithaf da'. Tra mai 'boddhaol' oedd y gweithgareddau ym marn 11 (19.3 y cant), dim ond tri (5.2 y cant) a oedd yn siomedig gyda'r gweithgareddau. Mae'n ddiddorol bod cymaint â 12 (21.1 y cant) wedi dewis 'dim sylw' mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Yn yr un modd, fel y dengys Tabl 6.4 (Atodiad 2), yr oedd rhieni plant yr ysgol yn ddigon hapus gyda'r gweithgareddau a drefnwyd gan y

Fenter. Wrth ddadansoddi canlyniadau disgyblion y chweched dosbarth mae'n drawiadol bod cymaint â 40.0 y cant wedi dynodi 'dim sylw' i'r cwestiwn hwn. Fel arall, mae'r canlyniadau yn ddigon tebyg i rai y trigolion lleol a'r rhieni er bod pedwar (13.3 y cant) yn siomedig gyda gweithgareddau'r Fenter.

5) Sylwadau ar weithgareddau'r Fenter

Yn yr un modd â rhai o'r cwestiynau eraill yn yr holiadur, yr oedd cyfle i'r ymatebwyr gyflwyno unrhyw sylwadau a oedd ganddynt ynglŷn â gweithgareddau Menter Cwm Gwendraeth. Er nad oedd nifer helaeth o'r sampl wedi mynychu gweithgareddau'r Fenter yn ystod y 6-12 mis diwethaf, mae'n amlwg bod gan nifer deimladau cryf ynglŷn â gwahanol agweddau yn ymwneud â'r Fenter. Yn wir, penderfynodd 20 o'r trigolion lleol (gan gynnwys dau o'r rhieni) a deg o'r disgyblion chweched ddosbarth ymateb i'r cwestiwn hwn. Yn ddiddorol, dywedodd un o'r ymatebwyr nad oedd wedi mynychu gweithgareddau'r Fenter yn ystod y 12 mis diwethaf, ond eto yr oedd wedi gwneud hynny ar nifer o achlysuron dros y blynyddoedd gan fynychu sawl cyngerdd Cymraeg a drefnwyd yn enw'r Fenter, megis y rhai yn cynnwys y Moniars, Jac y Do a Dafydd Iwan. Mae'n bosibl bod eraill a oedd yn rhan o'r sampl yn yr un sefyllfa. Yn ddiddorol, yr oedd dau o'r ymatebwyr, er yn gefnogol i'r Fenter ers ei sefydlu, yn cwestiynu os oedd angen sefydlu Menter Cwm Gwendraeth yn y lle cyntaf wrth ystyried bod y Cwm yn un o'r ardaloedd Cymreiciaf yng Nghymru: ychwanegwyd ganddynt hefyd bod pentref Gors-las yn un o'r pentrefi Cymreiciaf.

Mae'n rhaid cydnabod bod y rhai a oedd yn canmol gweithgareddau'r Fenter ymhlith y lleiafrif a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Mae'n ddigon posibl nad oedd y rhai hynny a oedd yn hapus â'r Fenter yn gweld yr angen i ymateb i'r cwestiwn hwn. Cyfeiriodd y rhai a oedd yn canmol at y ffaith bod sefydlu'r Fenter wedi bod yn arbennig o dda i'r Cymry Cymraeg. Cyfeiriodd un arall y dylai holl siaradwyr Cymraeg yr ardal fod yn gefnogol i weithgareddau'r Fenter. Yr oedd un o'r ymatebwyr yn canmol y Fenter am drefnu gweithgareddau i blant ysgol gynradd Cross Hands. Canmolwyd y Fenter gan bod ei gweithgareddau yn fodd i gadw ieuenctid yr ardal oddi ar yr heolydd. Er

i un arall o'r trigolion lleol ganmol y Fenter am sicrhau bod nosweithiau adloniant Cymraeg yn ddigwyddiadau 'normal' yn yr ardal, ynghyd â nodi bod y clybiau hwyl yn ardderchog, yr oedd yn awyddus i weld mwy o ddylanwad y Fenter ar y 'dyn cyffredin' yn y stryd. Canmolwyd y Fenter am ddsbarthu bathodynau 'Iaith Gwaith' i fusnesau lleol er mwyn i weithwyr allu dynodi eu bod yn siarad Cymraeg. Nododd un o'r disgyblion chweched dosbarth bod sefydlu'r Fenter wedi bod yn fodd i gael pobl yr ardal i gydweithio. Er bod ambell un o'r ymatebwyr o'r farn bod sefydlu'r Fenter wedi bod yn llesol i bentref Cross Hands, cyfeiriodd nifer at y ffaith nad oedd digon o weithgareddau yn cael eu cynnal yn y pentref. Yn wir, nid oedd un o'r ymatebwyr yn deall pam nad oedd gan y Fenter glwb ieuencid yn y pentref. Yn ogystal, cyfeiriodd eraill at y ffaith nad oedd y Fenter yn gwneud digon o ddefnydd o'r neuadd gyhoeddus yn y pentref a chyfeiriais eisoes at ymateb Cefin Campbell a Brin Davies i hyn.

Yn ddi-os, y feirniadaeth fwyaf a gafwyd gan y trigolion lleol a'r disgyblion chweched dosbarth oedd nad oedd y Fenter yn hysbysebu digon o'i gweithgareddau. Nodwyd y dylai'r Fenter fod yn hysbysebu yn y wasg leol ynghyd â gosod posteri yn y siopau, neuaddau a swyddfeydd post. Cyfeiriodd amryw y byddent wedi mynychu mwy o weithgareddau a drefnwyd gan y Fenter os fyddent yn gwybod bod y gweithgareddau hynny yn cael eu cynnal. Yn wir, ymateb un oedd '*I don't know much about them*'. Pan gyfeiriais at hyn wrth gyfweld Cefin Campbell, anghytunodd yn llwyr â hynny:

Bydden i'n gwrthod yr honiad hynny yn llwyr oherwydd un peth i ni wedi bod yn falch iawn ohono yw'r cyhoeddusrwydd i ni wedi ei gael. Petai rhywun yn darllen un ai'r *South Wales Guardian*, y *Llanelli Star* neu'r *Evening Post*, bron yn wythnosol mae yna erthygl bron yn ddieithriad yn y papurau hynny am Fenter Cwm Gwendraeth a'r math o weithgarwch i ni'n ei wneud. I ni'n defnyddio colofnau lleol i hysbysebu. Mae'n rhaid dweud eto nad yw'r colofnydd sydd yn gyfrifol am Cross Hands bob tro yn rhoi gwybodaeth am y Fenter i mewn.

‘Dwi’n credu bod yna broblem bersonol fan hyn. Mae’n rhaid i mi fod yn ofalus fel dwi’n dweud hyn ond nid yw hi yn un o’r bobl mwyaf brwd dros yr iaith ac felly dwi ddim yn siwr iawn a ydyw’r Fenter yn un o’i hoff mudiadau hi yn y Cwm. Beth bynnag am hynny, na, bydden i’n gwrthod yr honiad hynny’n llwyr oherwydd mae’n cyhoedduswydd ni wedi bod yn dda iawn.

(Atodiad 6.1 : C9)

Un o’r prif gwynion gan nifer o’r disgyblion chweched dosbarth oedd nad oedd y Fenter yn trefnu digon o weithgareddau iddynt hwy a’u cyfoedion. Cyfeiriodd nifer y dylid rhoi mwy o sylw i’r ystod oedran 15-18 a bod y Fenter wedi canolbwyntio gormod yn y gorffennol ar ddarparu gweithgareddau ar gyfer plant iau. Cytunodd Cefin Campbell mai at blant a phobl ifanc yr oedd y Fenter wedi ei anelu atynt yn bennaf:

Bydden i raddau ac ni fyddem yn ymddiheuro chwaeth oherwydd mae’n rhaid i ni fuddsoddi yn y plant a’r bobl ifanc. Mae’n ystrydeb i ddweud erbyn hyn mai nhw yw’r dyfodol ac mae hynny yn ddigon gwir. Mae plant a phobl ifanc Cross Hands yn sicr wedi mwynhau pob math o weithgarwch drwy gyfrwng y Gymraeg: clybiau hwyl, clybiau ieuenctid, clybiau bore Sadwrn ac yn y blaen. I ni ar hyn o bryd yn trefnu noson i’r teulu mewn cysylltiad gyda’r ysgol gynradd yma yn Cross Hands fydd, gobeithio, yn dwyn rhieni di-Gymraeg a Chymry Cymraeg i mewn i’r weithgaredd deuluol hynny.

(Atodiad 6.1 : C8)

Adran 7: Cyffredinol

Pwrpas yr adran hon oedd i’r ymatebwyr gyflwyno unrhyw sylwadau eraill yr oeddynt yn awyddus i’w nodi. Yn wir, manteisiodd rhai ar y cyfle i ymhelaethu ar rai pwyntiau yr oeddynt wedi nodi mewn ymateb i rai o’r cwestiynau cynharach yn yr holiadur. Yn gyffredinol, yr oedd nifer a

gyflwynodd sylwadau yn ddigon hyderus ynglŷn â dyfodol y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth. Cyfeiriwyd at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bod sefydlu Menter Cwm Gwendraeth o bosib wedi arwain at hynny. Dywedodd ymatebwr arall bod angen i Fenter Cwm Gwendraeth weithio yn glòs iawn gydag ysgolion gan ddod â hwy at ei gilydd, er enghraifft i drefnu gweithgareddau adloniadol a chwaraeon. Cyfeiriodd at y Fenter fel 'cog i'r machine' i godi safon a defnydd o'r Gymraeg yn y Cwm. Soniodd un arall o'r ymatebwyr at y ffaith bod y Gymraeg yn fyw iawn yng Nghwm Gwendraeth. Er bod tafodiaith unigryw i'r iaith yn yr ardal, yr oedd o'r farn fod perygl i'r dafodiaith ddiffannu yn sgîl dylanwad iaith y gogledd yn Ysgol Gyfun Maes-yr-Yrfa, a byddai hynny yn drasiedi. Soniodd un o'r ymatebwyr at y ffaith bod nifer o blant ysgol gynradd Cross Hands, hyd yn oed y rhai hynny sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg, yn siarad Cymraeg arbennig o dda. Yr oedd ei phlant yn ddisgyblion yn yr ysgol a dywedodd eu bod yn dysgu llawer iddi o safbwynt y Gymraeg er mai 4 a 5 oed yn unig oeddynt.

Ar y llaw arall, yr oedd yn amlwg bod nifer o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddigon pryderus am ddyfodol y Gymraeg yn yr ardal. Dywedodd un mai sylw amlwg efallai oedd dweud bod angen gwaith yn y ardal ond yr oedd angen tanlinellu pwysigwydd hynny. Soniodd un o'r ymatebwyr nad oedd digon o weithgareddau ar gyfer ieuenctid er mwyn gallu addysgu a mwynhau ar yr un pryd. Beirniadwyd y ffaith nad oedd Aelwyd yr Urdd yn bodoli yn Cross Hands. Yr oedd mewn cysylltiad agos gyda phobl ifainc drwy'r Ysgol Sul ac yr oedd yn clywed yn gyson nad oedd dim byd ar gael i'r ieuenctid wneud ar benwythnosau heblaw am fynychu tafarndai. Soniodd un arall o'r ymatebwyr am ddyfodiad nifer o bobl ddi-Gymraeg i bentref Cross Hands ynghyd ag agor yr M4, ac i'r datblygiadau hyn newid natur y pentref yn llwyr o fod yn un hapus, glòs i un sy'n cynnwys nifer o ddieithriaid sydd yn annibynnol o fywyd pentrefol gyda'r canlyniad iddynt gynyddu dirywiad y Gymraeg yn y ardal.

Rhestr o'r Ffigurau

1. Man Geni (Trigolion Lleol)
2. Iaith yr Aelwyd (Trigolion Lleol)
3. Hoff Iaith Ysgrifennu (Trigolion Lleol)
4. Hoff Iaith Darllen (Trigolion Lleol)
5. Iaith yn y Gwaith (Trigolion Lleol)
6. Amllder Mynychu Capel neu Eglwys (Trigolion Lleol)
7. Amllder Gwyllo Rhaglenni Cymraeg ar S4C (Trigolion Lleol)
8. Amllder Mynychu Gweithgareddau Menter Cwm Gwendraeth (Trigolion Lleol)
9. Oed Gadael Ysgol (Rhieni Plant yr Ysgol)
10. Hoff Iaith Ysgrifennu (Rhieni Plant yr Ysgol)
11. Hoff Iaith Darllen (Rhieni Plant yr Ysgol)
12. Iaith yn y Gwaith (Rhieni Plant yr Ysgol)
13. Amllder Gwranddo ar Radio Cymru (Rhieni Plant yr Ysgol)
14. Amllder Mynychu Gweithgareddau'r Fenter (Rhieni Plant yr Ysgol)
15. Man Geni (Disgyblion Chweched Dosbarth)
16. Iaith yr Aelwyd (Disgyblion Chweched Dosbarth)
17. Hoff Iaith Ysgrifennu (Disgyblion Chweched Dosbarth)
18. Hoff Iaith Darllen (Disgyblion Chweched Dosbarth)
19. Amllder Gwyllo Rhaglenni Cymraeg ar S4C (Disgyblion Chweched Dosbarth)
20. Amllder Mynychu Gweithgareddau Menter Cwm Gwendraeth (Disgyblion Chweched Dosbarth)

Mynegai i'r Byrfoddau


CU : Cymraeg yn Unig

CB : Cymraeg yn Bennaf


DCDDI : Defnydd Cyfartal o'r Ddwy Iaith

SB : Saesneg yn Bennaf


SU : Saesneg yn Unig




Ffigur 1 : Man Geni (Trigolion Lleol)




Ffigur 2 : Iaith yr Aelwyd (Trigolion Lleol)




Ffigur 3 : Hoff laith Ysgrifennu (Trigolion Lleol)




Ffigur 4 : Hoff iaith Darllen (Trigolion Lleol)




Ffigur 5 : Iaith yn y Gwaith (Trigolion Lleol)




Ffigur 6 : Amllder Mynychu Capel neu Eglwys (Trigolion Lleol)




Ffigur 7 : Amllder Gwyllo Rhaglenni Cymraeg ar S4C (Trigolion Lleol)




Ffigur 8 : Amllder Mynychu Gweithgareddau Menter Cwm Gwendraeth (Trigolion Lleol)




Ffigur 9 : Oed Gadael Ysgol (Rhieni Plant yr Ysgol)




Ffigur 10 : Hoff Iaith Ysgrifennu (Rhieni Plant yr Ysgol)




Ffigur 11 : Hoff Iaith Darllen (Rhieni Plant yr Ysgol)




Ffigur 12 : Iaith yn y Gwaith (Rhieni Plant yr Ysgol)




Ffigur 13 : Amllder Gwranddo ar Radio Cymru (Rhieni Plant yr Ysgoll)




Ffigur 14 : Amllder Mynychu Gweithgareddau'r Fenter (Rhieni Plant yr Ysgol)




Ffigur 15 : Man Geni (Disgyblion Chweched Dosbarth)




Ffigur 16 : Iaith yr Aelwyd (Disgyblion Chweched Dosbarth)




Ffigur 17 : Hoff Iaith Ysgrifennu (Disgyblion y Chweched Dosbarth)



Ffigur 18 : Hoff Iaith Darllen (Disgyblion Chweched Dosbarth)



Ffigur 19 : Amllder Gwylio Rhaglenni Cymraeg ar S4C (Disgyblion Chweched Dosbarth)



Figur 20 : Amllder Mynychu Gweithgareddau'r Fenter (Disgyblion Chweched Dosbarth)

PENNOD 8 : DIWEDDGLO, CASGLIADAU A THRAFODAETH GYFFREDINOL

8.1 Newidiadau economaidd a goblygiadau i'r iaith

Bwriad yr astudiaeth hon oedd ystyried effaith y newidiadau economaidd yng Nghwm Gwendraeth ar yr iaith Gymraeg. Ar yr wyneb ymddengys bod sefyllfa'r Gymraeg yn parhau yn gryf yng Nghwm Gwendraeth ar sail canlyniadau'r arolygon diwethaf gan gynnwys Cyfrifiad 2001. Yn y flwyddyn honno, yr oedd rhai o'r wardiau yn y Cwm megis Llan-non gyda 71.1 y cant, Gors-las gyda 70.4 y cant a Phontyberem gyda 73.3 y cant ymhlith y rhai Cymreiciaf yng Nghymru (Aitchison & Carter 2004 : 150-151). Fodd bynnag, wrth ystyried y canlyniadau'n fanylach nid yw'r sefyllfa mor gadarnhaol. Er bod cymharu canlyniadau Cyfrifiadau 1991 a 2001 yn peri problemau yr oedd canran y siaradwyr Cymraeg wedi disgyn yng Ngors-las o 78.4 y cant yn 1991 i 70.4 yn 2001 ac ym Mhontyberem o 80.5 y cant yn 1991 i 73.3 y cant yn 2001. Yn ogystal, cadarnhaodd y gwaith maes y cynhaliais yn yr ardal bod diffyg hyder ymhlith trigolion yr ardal wrth ysgrifennu a darllen Cymraeg a bod arwyddion o ddiffyg trosglwyddiad iaith. Mae'r gostyngiadau hyn yn peri pryder wrth ystyried pwysigrwydd ym marn arbenigwyr ieithyddol megis Aitchison a Carter wrth i'r ffin ieithyddol symud fwyfwy i'r gorllewin.

Yn *The Other Wales, the Case for Objective 1 Funding Post 1999*, sef yr adroddiad, a baratowyd gan Kevin Morgan ac Adam Price (1999), yn dadlau'r achos o blaid rhaglen Amcan 1, awgrymwyd bod Cwm Gwendraeth yn perthyn i ddwy ardal sef gorllewin Cymru a ddisgrifiwyd yn 'Y Fro Gymraeg'; a'r Cymoedd sef 'Welsh Wales'. Yr oedd y ddwy ardal hon wedi dioddef yn enbyd ar sail y newidiadau economaidd ac yn wahanol iawn i'r ardal fwy llewyrchus yn y dwyrain a enwyd yn 'British Wales' (Morgan & Price 1999: 25-27). Mewn papur arall, pwysleisiodd un o'r awduron, sef Adam Price ynghyd â Caitriona Ó Torna ac Allan Wynne Jones, y cysylltiad allweddol rhwng bywiogrwydd ieithyddol a chryfder economaidd:

language vitality and economic vitality are two sides of the same coin. No language can survive for long without a sound economic base.

(Price, Ó Torna a Jones 2000 : 20)

Yn ystod y cyfnod 1891-2005 bu newidiadau diwydiannol sylweddol yng Nghwm Gwendraeth. Ar ddechrau'r cyfnod dan sylw yr oedd yr ardal yng nghanol trawsnewid o fod yn gymuned amaethyddol i un ble yr oedd y diwydiant glo i fod yn brif gyflogwr yr ardal am bron i hanner canrif. Yn yr un modd â nifer eraill o gymunedau yn ne Cymru gwelwyd yr ardal yn trawsnewid wrth i ddylanwad y diwydiant glo gynyddu. Bu cynnydd ym mhoblogaeth yr ardal a bu'r diwydiant glo yn gynhaliath i drigolion yr ardal am flynyddoedd. Am genedlaethau y lofa fu prif gyflogwr yr ardal ac yr oedd yn gysylltiedig â phob agwedd o fywyd yr ardal yn gymdeithasol a diwylliannol. Y Gymraeg oedd iaith naturiol y lofa ac yr oedd modd i drigolion yr ardal siarad yr iaith yn y gwaith ynghyd â'u cartrefi. Yr oedd y glofeydd yn galluogi trigolion yr ardal i weithio yn lleol ac yr oedd elfen o sicrwydd cyflogaeth. Fodd bynnag, erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif gwelwyd glofeydd yr ardal fel mwyafrif helaeth rhai de Cymru yn cau ac arweiniodd hyn at ddiweithdra a digofaint. Er bod cau'r glofeydd yn ystod chwedegau'r ugeinfed ganrif yn drobwynt i'r ardal, yr oedd Terry Davies o'r farn bod y cyfnod cyn hynny yr un mor allweddol o ran beth ddigwyddodd ar ôl cau'r glofeydd:

Yr oedd yn ergyd fawr. Ond daeth yr ergyd i fi rhai blynyddoedd cyn 'ny oherwydd 'doedd neb yn cael eu cyflogu am rhyw ddeg mlynedd cyn y dirywiad. Felly, nifer bach iawn o bobl ifanc oedd yn y diwydiant ac felly yr oedd diweithdra wedi effeithio arnyn' nhw sbel yn ôl . . . Felly pan ddaeth y gwypm fawr, pan gaeodd y gwithe', yr oedd y mwyafrif yn hŷn na phedwardeg. 'Doedd dim llawer o bobl ifancach na fi yn y diwydiant . . . yr oedd yn anodd iddynt ddod o hyd i waith oherwydd nid oedd neb yn mynd i roi swydd i bobl deugain mlwydd oed a oedd wedi gweithio dan ddaear am ugain mlynedd ac yn chwilo am

waith hollol newydd. Felly, mae wedi bod yn anodd i'r bobl hyn i ffindo gwaith a'r gwir yw nad oes swyddi ar gael heblaw rhai rhan amser. 'Does dim swyddi o werth ar gael heblaw eich bod yn mynd miwn i faes newydd a wedyn wrth gwrs gorfod derbyn ail- hyfforddiant. Dyna'r trueni oherwydd nid yw ail-hyfforddiant wedi dilyn y colli swyddi.

(Atodiad 6.3 : C4)

Yn yr un modd mae datblygiadau economaidd y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig gyda dyfodiad Parc Busnes Cross Hands, wedi galluogi nifer o'r gweithlu lleol i barhau i weithio yn lleol. Mae'r ffaith bod nifer o swyddi ar gael yn lleol yn gam positif ymlaen wrth ystyried y digofaint a ddilynodd cau'r pyllau glo. Fodd bynnag, yn wahanol i'r cyfnod pan oedd y diwydiant glo yn ei anterth nid oes bellach un prif gyflogwr â chymaint o ddyllanwad yn yr ardal er mai'r Cyngor Sir yw'r prif gyflogwr Erbyn hyn, datblygodd diwydiannau eraill yng Nghwm Gwendraeth ac yn ganolbwynt i hyn fu Parc Busnes Cross Hands. Mae'n eironig mewn gwirionedd bod y datblygiad hwn wedi digwydd ar safle'r hen lofa. Felly, yr un lleoliad yw canolbwynt yr ardal ag ydoedd adeg bri y diwydiant glo ond fel y cyfeiriodd y Parchedig Elwyn Jenkins trawsnewidiwyd y safle a'r ardal yn gyffredinol:

Ar safle'r gwaith glo mae Leekes a Leos a'r cwmnïau busnes a byddech chi byth yn meddwl heddiw fod gwaith glo wedi bod yno erioed. 'Dyw'r genhedlaeth sy'n codi yn Cross Hands heddiw ddim yn gwybod llawer am y dioddefaint a fu yn yr ardal. Os ewch chi o amgylch mynwentydd fe welwch feddau dynion ifainc yn eu hugeiniau, tridegau a pedwardegau.

(Atodiad 6.4 : C13)

Nid oes amheuaeth bod y datblygiadau hyn wedi cyfrannu at leihau diweithdra yn yr ardal. Pan fûm yn cyfweld y Cynghorydd Brin Davies yn ystod 1998 yr oedd o'r farn bod ffigurau diweithdra yn yr ardal oddeutu 30 y cant er bod y ffigurau swyddogol efallai yn dynodi 9 neu 10 y cant. Fodd

bynag, erbyn 2004 pan fûm yn ei holi eto yr oedd o'r farn bod y ffigur bellach oddeutu 20 y cant (Atodiad 7.4 : C10). Yr oedd y ffigurau hyn yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd ar sail tystiolaeth Cyfrifiad 2001 sef 3 y cant. O'r rhai a oedd yn ddi-waith yn Llan-non yr oedd 20 y cant yn hŷn na 50 oed, nid oedd 10 y cant erioed wedi gweithio tra yr oedd 38 y cant yn ddi-waith dros gyfnod hir (www.statistics.gov.uk). Yr oedd gwybodaeth o'r fath yn cadarnhau pwysigrwydd siarad ag arweinwyr lleol, sef y *gatekeepers*, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar ystadegau swyddogol. Yn wahanol i'r glofeydd yn y gorffennol nid oes yr un sicrwydd mai'r Gymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn amryw o weithfeydd yr ardal. Cadarnhaodd y gwaith maes y cynhaliAIS yn yr ardal nad oedd nifer siaradwyr Cymraeg yn gwneud defnydd o'r iaith yn y gweithle ac yr oedd nifer o resymau am hynny. Bu Menter Cwm Gwendraeth yn gweithio'n ddiwyd i fynd i'r afael â'r Gymraeg yn y gweithle ond mae hyn yn parhau'n broblem gynyddol yng Nghwm Gwendraeth a ledled Cymru. Gobeithir y bydd ail-lansio *Iaith Gwaith* yn ystod 2005, sef ymgyrch Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hybu dwyieithrwydd yn y gweithle, yn cael effaith ar weithwyr a chyflogwyr Cwm Gwendraeth. Felly, bu cryn newid ym mhatrwm gweithio yr ardal yn ystod y cyfnod dan sylw ac yr oedd goblygiadau ieithyddol i hyn. Er bod nifer o drigolion yr ardal yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn wahanol i'r cyfnod pan oedd y diwydiant glo mewn bri, ni ellir dweud mai'r Gymraeg erbyn hyn yw prif iaith gwaith yr ardal. Er mai'r Gymraeg oedd iaith naturiol y glowyr yn y lofa nid y Gymraeg oedd y iaith weinyddol ac felly cafodd hyn effaith ar statws yr iaith..

8.2 Effaith y datblygiadau diwydiannol ar yr iaith Gymraeg (yng nghydestun dadl Brinley Thomas)

Ym Mhennod 1 y traethawd hwn trafodwyd syniadau Brinley Thomas, a ddaeth i'r casgliad fod y datblygiadau diwydiannol yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi bod yn llesol i'r iaith Gymraeg. Bu cryn ymateb i'r dadansoddiad hwn gyda nifer o haneswyr yn mynegi barn wahanol. Rhaid cytuno â Thomas a oedd o'r farn y byddai Cymry wedi gorfod symud i Loegr neu i'r Unol Daleithiau, fel y bu'n rhaid i nifer o Wyddelod, i sicrhau gwaith onibai am y datblygiadau diwydiannol yn ne Cymru. Galluogodd y

datblygiadau diwydiannol i nifer o Gymry barhau i fyw yng Nghymru. Arweiniodd hyn at barhâd y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn nifer o ardaloedd diwydiannol de Cymru. Ar y llaw arall, arweiniodd y twf diwydiannol at fewnlifiad sylweddol hefyd o bobl y tu allan i Gymru a arweiniodd dros amser at wanhau'r Gymraeg mewn nifer o gymunedau yn ne Cymru. Nid oes amheuaeth bod y sefyllfa yn un gymhleth ond ni ellir dadlau â hanfod dadl Thomas a oedd yn bendant ynghlych pwysigrwydd diwydiant yng nghyd-destun diogelu'r diwylliant Cymraeg:

Without the cauldron of economic and demographic rebirth and the creation of a large industrialized Welsh-speaking working class, what was hailed as the rebirth of a nation by the end of nineteenth century would have been impossible.

(Thomas 1993: 214)

Yr oedd nifer helaeth a symudodd i weithio yn y glofeydd ym Maes Glo De Cymru wedi gallu parhau i allu siarad Cymraeg ac i fwynhau'r diwylliant Cymraeg. Fodd bynnag, yn wahanol i Gwm Gwendraeth gwelwyd hefyd fewnfudo sylweddol i'r ardaloedd hynny o ardaloedd mwy Seisnig Cymru a thu hwnt i Gymru yn enwedig o Loegr. Arweiniodd hynny dros amser at ddirywiad yng nghryfder y Gymraeg yn yr ardaloedd hynny. Yn wahanol i nifer o gymunedau eraill de Cymru, llwyddodd Cwm Gwendraeth i osgoi mewnfudo helaeth yn sgîl y datblygiadau diwydiannol. Yn wir, cadarnhaodd tystiolaeth Cyfrifiadau 1891 a 1901 bod y mwyafrif o blwyf Llan-non, a leolwyd yn rhan orllewinol y Cwm, yn hanu o sir Gaerfyrddin. Mae'n wir bod rhai wedi symud i'r ardal o siroedd eraill Cymru i gymryd mantais o'r datblygiadau diwydiannol. Daeth rhai o du hwnt i Gymru a thrafodwyd ym Mhennod 4 bod nifer wedi symud o Durham i weithio yn y glofeydd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, a bod nifer ohonynt wedi dysgu'r iaith ynghyd â'u teuluoedd. Fodd bynnag, nifer cymharol fechan oeddynt wrth gymharu â'r hyn a welwyd yn nifer o gymoedd eraill de Cymru lle bu mewnfudo ar raddfa helaeth.

Cadarnhaodd tystiolaeth cyfrifiadau 1891 a 1901 bod y mwyafrif o'r menwfudo a fu i'r ardal o blwyfi cyfagos ac hefyd o ardaloedd gwledig sir Gaerfyrddin a siroedd cyfagos. Yr oedd y bobl hyn yn dod o ardaloedd Cymraeg ac felly nid oedd symud i Gwm Gwendraeth yn mynd i wneud unrhyw newid iddynt yn ieithyddol. Golygai hyn na fu unrhyw effaith sylweddol ar Gymreictod yr ardal. Ar y llaw arall, parhaodd Cwm Gwendraeth yn un o gadarnleoedd y Gymraeg. Yr wyf yn sicr mai un o'r prif rhesymau am hynny oedd nad oedd y datblygiadau diwydiannol wedi arwain at fewnfudo sylweddol a bod y mwyafrif a ddenwyd i'r ardal yn hanu o ardaloedd Cymraeg y gorllewin. Rhaid ystyried hefyd beth fyddai wedi ddigwydd petai'r datblygiadau diwydiannol heb ddigwydd yn Nghwm Gwendraeth. Byddai'r ardal wedi parhau yn un amaethyddol ac mae'n debygol y byddai nifer o drigolion yr ardal wedi gorfod gadael i sicrhau gwaith yn sgîl y datblygiadau diwydiannol yn ne Cymru. Byddai hynny wedi arwain at leihad yn y boblogaeth yn hytrach na'r cynnydd a welwyd yn dilyn datblygiad y diwydiant glo a hefyd at leihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

8.3 Rhwydweithiau fu'n cynnal y Gymraeg-yn y gorffennol a heddiw

Er bod y ganran o'r boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth ymhlith yr uchaf yng Nghymru ar sail tystiolaeth Cyfrifiad 2001, nid oes amheuaeth na fu dadfeilad yn y peuoedd traddodiadol hynny fu'n cynnal y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth. Yn gyffredinol, credaf mai'r prif beuoedd fu'n cynnal y Gymraeg yn ystod y cyfnod oedd:

- Y Cartref / Teulu
- Y Gwaith
- Addysg
- Crefydd
- Neuaddau'r Pentrefi ac Adloniant

Trafodwyd yn fanwl gyfraniad y rhain fel cynheiliaid y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth. Hyd at ddiflaniad y gweithfeydd glo, y Gymraeg oedd yr iaith a siaradwyd yn bennaf yn y gwaith er mai'r Saesneg oedd iaith weinyddol yr

Undeb. Bu capeli ac eglwysi'r ardal yn flaenllaw wrth gynnal y Gymraeg nid yn unig ar gyfer cynnal gwasanaethau ond fel cyfrwng cymdeithasol drwy gynnal dramâu a chyngherddau. Cyfeiriodd y Parchedig Elwyn Jenkins at y cysylltiad annatod rhwng crefydd â'r iaith:

Wrth i bobl golli crefydd mae nhw hefyd yn tueddu i golli'r iaith hefyd.

(Atodiad 6.4: C13)

Fel Gweinidog nid yw'r sylwadau hyn yn annisgwyl ond ni ellir anghytuno gyda'r gosodiad hwn. Bu addysg hefyd yn gyfrwng i gynnal y Gymraeg tra'r Gymraeg oedd iaith y mwyafrif helaeth o gartrefi'r ardal a hefyd cynhaliwyd yn neuaddau pentrefi'r Cwm nifer o ddigwyddiadau adloniannol.

Erbyn dechrau'r unfed ganrif ar hugain rhaid ystyried pa mor bwysig yw'r pedwar pau hyn wrth gynnal y Gymraeg heddiw yng Nghwm Gwendraeth.

➤ Y Cartref/Teulu

Nid oes amheuaeth bod y cartref a'r teulu yn holl bwysig wrth gynnal yr iaith. Ledled Cymru mae gofid nad yw'r rhai hynny sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i furiau'r ysgol. Hyd yn oed mewn ardal draddodiadol Gymraeg fel Cwm Gwendraeth lleihau mae'r teuluoedd hynny lle mae pawb ar yr aelwyd yn siarad Cymraeg. Yr oedd enghreifftiau yn y gwaith maes o ddiffyg trosglwyddiad iaith, ac mae hynny'n ofid cynyddol yn yr ardal hon a ledled Cymru. Nid oes amheuaeth bod sicrhau bod rhieni sy'n gallu siarad Cymraeg â'u plant yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, o ran y Gymraeg. Felly, mae'r ffaith bod y prosiect *Twf* i dderbyn £1 miliwn yn ychwanegol rhwng 2003-06 i annog rhieni i siarad Cymraeg â'u plant yn adlewyrchiad o'r pwysigrwydd hwn.

➤ Y Gwaith

Adeg bri y diwydiant glo y lofa oedd prif gyflogwr yr ardal ac nid oes amheuaeth mai'r Gymraeg oedd y prif iaith a siaradwyd. Fodd bynnag, erbyn hyn nid oes un prif gyflogwr yn yr ardal er bod nifer o gyflogwyr ym Mharc Busnes Cross Hands. Yr oedd enghreifftiau yn y gwaith maes bod diffyg hyder ymhlith rhai o'r gweithlu lleol wrth siarad yr iaith ac nad oedd rhai yn gyfarwydd â defnyddio'r iaith yn broffesiynol. Mae'r gwaith y mae Menter Cwm Gwendraeth yn ei wneud wrth annog busnesau a siopau i weud defnydd o'r iaith yn holl bwysig.

➤ Addysg

Mae sefydliadau addysgiadol hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol o ran hyrwyddo'r Gymraeg. Wrth ystyried y lleihad yn y cartrefi hynny lle siaredir y Gymraeg yng Nhwm Gwendraeth gellir dadlau bod gan yr ysgolion rôl bwysicach erbyn hyn wrth gynnal y Gymraeg nag yn y gorffennol. Cyfeiriwyd eisoes bod y mwyafrif o ysgolion cynradd Cwm Gwendraeth yn rai Categori A felly y Gymraeg yw prif cyfrwng yr ysgolion hynny. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r system addysg bellach cystal o ran y Gymraeg a thrafodwyd hyn eisoes. Pryder arall yw'r gyfundrefn Cymraeg i Oedolion yn sir Gaerfyrddin. Mae'n amlwg bod diffygion wrth gymharu'r sefyllfa â gwledydd eraill megis Gwlad y Basg a chyfeiriodd Cefin Campbell at y sefyllfa:

Y sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin yw bod yna ormod o ddarparwyr yn cystadlu am farchnad rhy fach o bobl ac mae yna densiynau yn codi rhwng darparwyr a chystadleuaeth ddi-angen, a gwrthdaro a chenfigen yn hytrach na chydweithio. Dwi wedi dweud ar goedd 'dyw'r ddarpariaeth ar hyn o bryd ddim yn gweithio er lles y dysgwyr. Mae'n rhaid symud tuag at fodel lle fyddai yna un darparwr yn gyfrifol am ardal eang, boed hynny'n sirol neu'n rhanbarthol.

(Atodiad 7.1 : C18)

➤ **Crefydd**

Er bod dylanwad crefydd wedi lleihau, nid oes amheuaeth bod capeli ac eglwysi'r ardal yn parhau i fod yn bwysig wrth gynnal y Gymraeg. Dangosodd y cyfweiliadau y cynhaliais bod nifer o drigolion yr ardal yn parhau i fynychu addoldai. Yn eu plith yr oedd nifer o bobl ifanc ac mae hyn yn drawiadol wrth ystyried dadfeiliad crefydd.

➤ **Neuaddau'r Pentrefi ac Adloniant**

Mae neuaddau pentrefi Cwm Gwendraeth yn parhau i gynnal gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bu ail-agor Neuadd Gyhoeddus Cross Hands yn ddatblygiad pwysig a fu'n ffocws i drigolion y pentref yn enwedig ar ôl ail-sefydlu'r sinema. Trafodwyd y problemau a fu yn Cross Hands cyn ail-agor y neuadd gyda diffyg lleoliad i gynnal gweithgareddau. Yn ddi-os bu cynnydd yn y gweithgareddau cymdeithasol a gynhelir yn Gymraeg yn enwedig y rhai a drefnir gan Fenter Cwm Gwendraeth. Fodd bynnag, rhaid ystyried bod llai o bobl erbyn hyn yn mynychu gweithgareddau cymdeithasol yn gyffredinol ac fe gadarnhaodd canlyniadau'r gwaith maes hynny. Tueddiad arall a amlygwyd oedd mai Saesneg oedd iaith nifer o beuoedd cymdeithasol megis clybiau chwaraeon.

O'r peuoedd uchod gellir dadlau bod pob un ohonynt heblaw am addysg yn llai dylanwadol erbyn hyn o ran cynnal y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth nag yr oeddynt yn ystod y rhan fwyaf o'r ugeinfed ganrif. Yn ddi-os, cafodd cau'r pyllau glo effaith bell-gyrhaeddol ar bob agwedd o fywydau trigolion yr ardal gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Er bod y peuoedd hyn yn parhau i gynnal y Gymraeg nid oes amheuaeth gennyf bod dyfodiad Eisteddfod yr Urdd i'r ardal yn 1989 wedi bod yn drobwynt o ran sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardal. Yr oedd nifer o drigolion yr ardal wedi bod yn ymgyrchu dros yr iaith yn y blynyddoedd cyn hynny ac yr oeddynt yn gofidio bod cau'r pyllau glo wedi effeithio ar nifer o'r rhwydweithiau fu'n cynnal y Gymraeg megis yr addoldai a gweithgareddau diwylliannol. Fodd bynnag, cafwyd y cyfle ymarferol cyntaf i ddylanwadu ar y sefyllfa ieithyddol adeg ymweliad yr Eisteddfod, ac wedi hynny sefydlwyd Menter Cwm Gwendraeth. Bu dyfodiad yr Eisteddfod yn

ffocws i drigolion yr ardal yng nghyd-destun y Gymraeg ac yr oeddynt yn awyddus i barhau â'r brwydfrydedd a oedd wedi datblygu wrth baratoi ar gyfer ymweliad yr Eisteddfod.

8.4 Ymyrraeth Ieithyddol

8.4.1 Sefydlu Menter Cwm Gwendraeth

Arweiniodd yr Eisteddfod at sefydlu Menter Cwm Gwendraeth a bu'r Fenter yn holl bwysig wrth warchod a chynnal yr iaith yng Nghwm Gwendraeth. Yn gwbl naturiol wrth ystyried y lleihad yn nylanwad peuoedd traddodiadol yr iaith, canolbwyntiodd y Fenter yn ystod blynyddoedd cyntaf ei bodolaeth ar ddarparu digwyddiadau cymdeithasol i drigolion yr ardal yn enwedig yr ieuenctid. Fodd bynnag, fel y trafodwyd ym Mhennod 5 datblygodd y Fenter yn dra gwahanol i'r hyn a welwyd adeg ei sefydlu. Yr oedd yr ardal yn profi effeithiau difrifol yr hyn a welwyd yn sgîl diflaniad y diwydiant glo megis diweithdra, dirwasgiad a phroblemau cymdeithasol. Fel canlyniad i hynny, yr oedd blaenoriaethau'r trigolion lleol yn wahanol i rai swyddogion y Fenter ac yr oedd hynny'n holl bwysig. Bu'n rhaid i'r Fenter addasu ei strategaeth wreiddiol ac wrth i'r Fenter roddi sylw i'r iaith yng nghyd-destun adfywiad cymdeithasol yr oedd yn cydnabod nad oedd modd ystyried yr iaith mewn gwagle.

Yr oedd ymwneud â gwaith datblygu cymunedol yn gam holl bwysig yn hanes y Fenter a bellach mae'r Fenter, yn enwedig ers sefydlu'r swyddfa, y caffi a'r ganolfan gymunedol ym Mhontyberem yn wir Fenter gymunedol. Rhan allweddol o'r gwaith cymunedol oedd y fforymau pentrefi a oedd yn adnabod anghenion pentrefi'r Cwm. Drwy gyfrwng y fforymau pentrefi a'r holiaduron a ddsbarthwyd yr oedd y gymuned leol yn cymryd perchnogaeth o'r anghenion hynny a oedd yn flaenoriaethau yn y pentrefi ac yr oedd hynny'n holl bwysig ac mae'r gymuned bellach yn trefnu nifer o weithgareddau yn hytrach na swyddogion y Fenter. Wrth gwrs, y nod tymor hir yw y bydd y gymuned leol yn cymryd perchnogaeth llwyr ac na fydd angen mentrau iaith yng Nghwm Gwendraeth ac yng ngweddill Cymru. Bu'r Fenter bellach mewn

bodolaeth am bron i bymtheg mlynedd a rhaid ystyried os mai dyma'r ffordd fwyaf priodol i warchod a chynnal y Gymraeg ar lefel gymunedol. Sefydlwyd cynlluniau gweithredu mewn rhai ardaloedd a chyfeiriwyd eisoes bod eu rôl yn wahanol i'r mentrau iaith. Fodd bynnag, mae'r mentrau iaith gan gynnwys Menter Cwm Gwendraeth wedi gwneud cyfraniad allweddol i warchod y Gymraeg. Er bod arwyddion yng Nghwm Gwendraeth bod y gymuned yn cymryd perchnogaeth o'r gweithgareddau, yr wyf yn sicr bod angen i'r Fenter barhau. Cyfeiriodd Cefin Campbell at bwysigrwydd parhâd y mentrau:

Dwi ddim wedi dod ar draws unrhyw fodel yn y darllen 'rwy' wedi ei wneud yn Ewrop yn sicr o gynllun sy'n mynd i'r afael ag egwyddorion datblygu cymunedol, yn ymwneud â datblygu pobl, sicrhau perchnogaeth pobl i gynlluniau a bod ganddyn' nhw gyfrifoldeb am y Gymraeg. Rhoi cyfleoedd cymdeithasol i bobl fel yr o'n i'n sôn amdano yn gynt, ac edrych wedyn ar gynllunio holistaidd a cheisio dylanwadu ar bolisiâu cyrff statudol mewn gymaint o wahanol feysydd. Mae'r model yn un cyffrous dros ben a beth sydd angen efallai yw mwy o adnoddau eto i sicrhau mwy o bersonél i weithio mewn sectorau gwahanol o fewn y gymuned.

(Atodiad 7.1 : C21)

Gan fod y mentrau iaith yn hollol unigryw ac nid yn rhan o theori cynllunio ieithyddol, yr oedd yn ddisgwyliadwy y byddai strategaeth a blaenoriaethau'r Fenter yn datblygu. Yr oedd profiad organig y Fenter yn tyfu o'r profiad lleol. Er bod sefydliadau mewn gweledydd eraill fel y *consortia* yng Nghatalonia yn debyg i'r mentrau iaith mae'r mentrau yn hollol unigryw a chyfeiriodd Bethan Roberts o Fwrdd yr Iaith Gymraeg at hynny:

Mae'r *consortia* yng Nghatalonia sydd yn gwneud gwaith tebyg ond mae'r rheiny yn sefydliadau sydd yn cael eu rhedeg gan y Llywodraeth ganolog: maen nhw'n atebol i'r Llywodraeth ond mae nhw hefyd yn rhoi llawer o bwyslais ar ddysgu Catalaneg i

oedolion. Felly, mae'r *consortia* yn fwy o sefydliadau addysg gydol oes sydd yn cael eu rhedeg gan y Llywodraeth lle mae'r mentrau iaith yn unigryw o ran eu bod wedi eu sefydlu yn y lle cyntaf gan y gymuned leol, eu bod wedi eu sbarduno gan anghenion y mae'r gymuned leol wedi eu hadnabod. Mae nhw'n atebol ar ddiwedd y dydd, nid i'r Bwrdd, ond i'w pwyllgorau rheoli eu hunain. Felly'r gymuned leol sydd yn gyfrifol am eu bodolaeth.

(Atodiad 7.3 : C11)

Trafodwyd yn helaeth ym Mhennod 5 y newidiadau gweinyddol a fu gyda'r Fenter bellach yn rhan o Fentrau Iaith Myrddin. Arweiniodd hyn at densiynau amlwg a bu anghydweld hefyd yng nghyd-destun rôl Mentrau Iaith Cymru. Mae'n holl bwysig na fydd y tensiynau hyn yn amharu ar briod waith Menter Cwm Gwendraeth, sef gwarchod a hyrwyddo'r iaith ar lefel gymunedol. Cytunaf â sylwadau Deris Williams:

'Dwi'n mawr hyderu bod dyfodol sicr i Fenter Cwm Gwendraeth. 'Dwi'n gweld y Fenter yma yn sefyll ar dwy droed eu hunain ac mae'n bwysig fod hynny'n digwydd. Rhywbeth cymunedol yw menter i fod ac mae'n rhaid i ni fod yn or-ofalus nad y'ni'n llwytho'r deis yn ormodol i'r canol, yn sirol neu yn genedlaethol, gan golli'r nod ac amcanion pam y sefydlwyd mentrau iaith yn y lle cyntaf.

(Atodiad 7.2 : 24)

Mae Menter Cwm Gwendraeth yn yr un modd â'r mentrau iaith eraill fel system oddi fewn i systemau yn lleol ac yn genedlaethol. Gan fod y Fenter yn rhan o Fentrau Iaith Myrddin mae yna haen arall o fiwrocratiaeth yn bodoli fel y dengys y siart isod:

Llywodraeth y Cynulliad



Bwrdd yr Iaith Gymraeg



[Mentrau Iaith Cymru]

Mentrau Iaith Myrddin

[Cefnogaeth Cyngor Sir Caerfyrddin]



Menter Cwm Gwendraeth



Y Gymuned-Perchnogaeth Leol

Llwyddodd y Fenter i sicrhau nawdd o ffynonellau amrywiol gan ddatblygu partneriaethau ar draws ystod eang o weithgareddau. Er bod y Fenter

yn parhau i ystyried nawdd canolog Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Sir Caerfyrddin yn holl bwysig dim ond lleiafrif bellach yw'r nawdd hynny o holl dderbyniadau'r Fenter. Felly, llwyddwyd i brif-ffrydio yn ariannol a hefyd gwireddwyd un o brif nodau *Iaith Pawb* sef prif-ffrydio'r iaith i wahanol gyfeiriadau megis iechyd, yr economi a busnes. Yr oedd Deris Williams yn sicr fod gan y mentrau iaith rôl allweddol i'w chwarae wrth weithredu argymhellion *Iaith Pawb*.

Yn sicr, yn ddi-os. Mae pwysau cryf yn gymunedol yn *Iaith Pawb* ac mae'n bwysig iawn mai corff fel Menter Cwm Gwendraeth sy'n gwneud hynny ac yn ceisio dylanwadu ar asiantaethau eraill o fewn eu milltir sgwar i wneud yr un peth i gyrraedd y nod.

(Atodiad 7.2 : C25)

Wrth gwrs bydd y model uchod yn newid ar ôl 2007 wrth i swyddogaethau presennol Bwrdd yr Iaith gael eu trosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad fydd yn gyfrifol yn uniongyrchol am y mentrau iaith ynghyd â'r holl gyrff eraill a ariannir ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Ni ddylid anghofio mai Llywodraeth y Cynulliad a'r Swyddfa Gymreig cyn hynny fu'n ariannu'r mentrau iaith ers eu sefydlu ond sianelwyd y cyllid drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yn ddiddorol gweld sut fydd y mentrau iaith gan gynnwys Menter Cwm Gwendraeth yn datblygu ar ôl 2007. Bydd nifer o gwestiynau yn codi gan gynnwys dyfodol Mentrau Iaith Myrddin o fewn y gyfundrefn newydd wrth ystyried bod MIM wedi datblygu yn sgîl partneriaeth rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Sir Caerfyrddin. Ystyriaeth ddiddorol arall fydd dyfodol Mentrau Iaith Cymru. Trafodwyd bod gwahaniaeth barn ymhlith y mentrau iaith ynglŷn â rôl MIC. Nid yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi ystyried ariannu gweinyddiaeth ganolog MIC yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, ar ôl 2007 bydd yr hinsawdd wleidyddol wedi newid a gellir dadlau y bydd gan MIC rôl bwysicach.

8.4.2 Polisiâu Cyngor Sir Caerfyrddin

Trafodwyd yn gynharach rôl Cyngor Sir Caerfyrddin wrth sefydlu ac ariannu Mentrau Iaith Myrddin. Er bod y Cyngor wedi bod yn allweddol wrth ariannu a datblygu Mentrau Iaith Myrddin rhaid ystyried rôl ehangach y Cyngor wrth ddatblygu polisiâu i hyrwyddo'r iaith yn sir Gaerfyrddin. Mae gan y Cyngor gynllun iaith a dderbyniodd gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 16 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 13 Medi 2002. Felly, mae'r Cyngor yn gweithredu polisi ddwyieithog er nad yw hynny'n osgoi sefyllfaoedd fel yr un yn ystod Ionawr 2005. Bu dadlau ynglŷn â phenodi Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant y sir lle gwelwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gwrthwynebu penderfyniad y Cyngor i beidio ystyried y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer y swydd. Er y penodwyd siaradwr Cymraeg i'r swydd nid oedd y cyhoeddusrwydd hwn yn fanteisiol i'r Cyngor na'r rhai hynny sy'n ceisio hyrwyddo'r iaith yn y sir.

Yr oedd y cyfweiliad a gynhaliais â'r Cynghorydd Eirwyn Williams yn gyfle i holi am y defnydd o'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y Cyngor. Er bod cyfleoedd i Gynghorwyr wneud defnydd o'r iaith nid oedd pawb yn gwneud hynny. Cyfeiriodd at y Cynghorwyr hynny a oedd yn dewis siarad Saesneg gan eu bod wedi arfer gwneud hynny yn gyhoeddus. Felly, er bod cyfleoedd i Gynghorwyr ddangos arweiniad i drigolion y sir wrth siarad yr iaith nid oedd pawb yn dewis gwneud hynny. Cyfeiriodd hefyd at strategaeth sgiliau iaith y Cyngor

Mae gennym strategaeth flaengar o ran sgiliau iaith a phenodi pobl. 'Ry'n ni'n edrych yn wyddonol ar y sefyllfa pan fyddwn ni'n penodi swyddogion i weld os yw'r Gymraeg yn hanfodol . . . Mae'r sefyllfa yn gwella yn sgîl defnyddio'r strategaeth yma oherwydd nawr 'ry'm ni'n gwybod i'r dim lle mae angen cael swyddog sy'n ddwyieithog.

(Atodiad 7.3 C2)

Yn ogystal, lluniwyd strategaeth iaith gan y Cyngor a oedd yn ymwneud â datblygu'r iaith ym mhob agwedd o bolisiau'r Cyngor yn y sir. Cyhoeddwyd drafft terfynol o'r strategaeth iaith honno ym mis Gorffennaf 2000 wedi ei baratoi gan Gwmni *Iaith Cyf*. Fodd bynnag, ni ddatblygodd y strategaeth fel y bwriadwyd. Collwyd y 'partner iaith' a sefydlwyd er mwyn gweithredu a hwyluso'r strategaeth. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn obeithiol y bydd cyfleoedd newydd i ailsefydlu partneriaeth yn dilyn y model Cynllunio Cymunedol a hynny ar bob lefel yn y sir. Cyhoeddwyd Cynllun Cymunedol Gwendraeth ar gyfer y Cwm. Gobaith y Cyngor yw y bydd strwythur newydd mewn lle erbyn Mawrth 2006 ac o hynny bydd cyfle i ailddatblygu'r strategaeth iaith, gan sicrhau bod systemau mewn lle i fonitro ag adrodd ar y cynnydd. Mae'r strategaeth iaith yn rhan o'r pecyn holistaidd y mae'r Cyngor Sir yn gweithio tuag ato er mwyn datblygu'r Gymraeg yn y sir. Ar y naill law, mae'r cynllun iaith yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor tuag at yr iaith ac yn amlinellu eu mecanweithiau yn fewnol ac yn sicrhau bod cwsmeriaid y Cyngor yn derbyn eu gwasanaethau yn unol â'u dewis iaith. Ar y llaw arall, mae'r strategaeth fel petai yn creu y galw am y gwasanaethau yn y Gymraeg ac hefyd yn gweithio tuag at ddileu yr hen feddylfryd o'r Saesneg fel iaith swyddogol gweinyddiaeth y Cyngor a sefydliadau eraill. Mae cynlluniau datblygu adrannol unigol yn mynd gam ymhellach na hyn, gan nodi y cyfleoedd sydd gan adrannau i gydweithio â phartneriaid, gan sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddwyieithog.

Nododd y Cynghorydd Eirwyn Williams bod y Gymraeg yn cael ei ystyried ymhlith polisiau ehangach megis datblygu economaidd, tai a chynllunio ond bod y Cyngor i raddau helaeth yn ddibynnol ar y Cynulliad:

Bydden ni'n aml yn dymuno gweithredu un ffordd ac yn anffodus mae'r Cynulliad yn troi o amgylch ac dweud 'dyw hynny ddim yn bosibl oherwydd gwahanol ddamcaniaethau a rheolau. 'Ry'ni'n ceisio gwneud ein gorau i sicrhau bod economeg a chynllunio yn cael effaith dda ar sefyllfa'r iaith. Mae gyda ni bolisi addysg gref iawn wrth gwrs ond eto 'dy'ni

ddim yn ei weithredu cant y cant ond 'dy' ni'n gweithio tuag at hynny.

(Atodiad 7.3 : C4)

Er bod rhai o bolisiâu'r Cyngor yn ddibynnol ar rai y Cynulliad, nid oes amheuaeth bod gan y Cyngor gyfrifoldeb holl bwysig o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir.

8.4.3 Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn ddi-os, mae polisiâu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwysig iawn ar gyfer gwarchod y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth. Er y bu consensws cyffredinol ymhlith yr holl bleidiau yn y Cynulliad i gynnwys *Iaith Pawb*, nid oedd pawb yn rhannu'r un brwdfrydedd. Gwelwyd y mudiadau iaith Cymdeithas yr Iaith a Chymuned yn feirniadol o sawl agwedd o gynnwys y ddogfen, megis yr anallu i fynd i'r afael â'r farchnad dai yn nghadarnleoedd yr iaith. Mae'n debygol mai'r adran ar addysg a dderbyniodd fwyaf o ymateb gydag unigolion megis Heini Gruffudd yn feirniadol iawn o Lywodraeth y Cynulliad, ac yn enwedig y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson am beidio gweithredu'r hyn a addawyd yn *Iaith Pawb*. Nid oes amheuaeth bod *Iaith Pawb* yn ddogfen uchelgeisiol iawn sy'n cynnwys polisiâu ar gyfer prif-ffrydio'r Gymraeg i bob agwedd o fywyd yng Nghymru gan gynnwys meysydd lle na fu'r iaith yn amlwg yn y gorffennol megis iechyd, twristiaeth a datblygu economaidd. Mewn erthygl yn ystod 2004 yn y cylchgrawn *Contemporary Wales*, cyfeiriodd Colin Williams at bwysigrwydd *Iaith Pawb* ond hefyd at yr angen i sicrhau cyllid digonol i weithredu amcanion y ddogfen:

If we focus on the rhetoric, as opposed to the possible implementation, we can state that it is the most far-reaching document yet published on official language promotion and represents a genuine, historical commitment by government. And yet it only needs a cursory reading of the document to suggest that this is a work in progress, for the declared aims do

not square with the current relatively low investment or provide sufficient specification of any proposed increased expenditure on elements which conduce to robust bilingualism.

(Williams 2004b : 5)

Datblygiad arwyddocaol wrth gwrs ers cyhoeddi *Iaith Pawb* yw na fydd Bwrdd Yr Iaith Gymraeg yn bodoli ar ôl 2007 wrth i'w swyddogaethau gael eu trosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad. Yr oedd *Iaith Pawb* yn datgan yn glir y byddai Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn parhau fel y corff cynllunio iaith yng Nghymru ac yn wir derbyniodd gyllid sylweddol sef £16 miliwn yn ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, ar ôl 2007, Llywodraeth y Cynulliad fydd yn gyfrifol am ddatblygu polisiau ar gyfer yr iaith yng Nghymru. Bydd goblygiadau pellgyrhaeddol i'r datblygiad hwn a fydd yn effeithio ar nifer yn enwedig y cyrff hynny sy'n derbyn cyllid yn uniongyrchol ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Er mai Llywodraeth y Cynulliad fu'n ariannu Bwrdd yr Iaith, y Bwrdd fu'n gyfrifol am ddatblygu polisiau yn ymwneud â'r iaith ac felly y Bwrdd mewn gwirionedd fu'n atebol am lwyddiannau a methiannau. Fodd bynnag, ar ôl 2007, bydd y cyfrifoldeb hwn wedi ei drosglwyddo i'r Gweinidog yn y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg. Wrth ysgrifennu'r geiriau hyn, erys sawl cwestiwn am yr hyn fydd yn digwydd ar ôl 2007 megis swyddogaethau'r dyfarnydd, sut fydd gwaith presennol y Bwrdd, gan gynnwys marchnata, yn newid ac yn datblygu, a beth fydd yn digwydd i frand y Bwrdd megis y logo.

Yn gyffredinol, credaf y bydd y datblygiad hwn yn gam ymlaen o safbwynt y Gymraeg yng Nghymru. Er bod rhai beirniaid o'r farn y gallai hyn arwain at wneud yr iaith yn bel-droed boliticaidd, credaf fod hwn yn gam naturiol yn yr oes ddatganoledig. Gwelwyd newid tebyg yng Nghatalonia yn ddiweddar a bydd yn ddiddorol gweld sut fydd hynny'n datblygu. Bydd angen i swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth y Cynulliad ystyried a fydd unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer yr hyn fydd yn digwydd ar ôl 2007. Er bod uned iaith Gymraeg yn bodoli o fewn Llywodraeth y Cynulliad a bod arwyddion amlwg o brif-ffrydio'r iaith yn sgîl cyhoeddi *Iaith Pawb*, credaf y

bydd cyfle gwirioneddol ar ôl 2007 i ddod â'r Gymraeg i galon polisïau llywodraethol yng Nghymru. Yn ddi-os, bydd hyn yn hwb o safbwynt Cymreigio'r gwasanaeth sifil yng Nghymru wrth i staff y Bwrdd ddod yn weithwyr cyflogedig Llywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal, y tu allan i'r Cynulliad bydd un haen yn llai o fiwrocratiaeth a bydd pobl yn glir o ran pwy fydd yn datblygu polisïau. Mae cyfrifoldeb mawr ar ysgwyddau Llywodraeth y Cynulliad. Gwnaed y penderfyniad i ddod â'r Bwrdd yn rhan o'r Llywodraeth ond amser a ddengys os fydd yn llesol i'r Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth a ledled Cymru.

8.5 Sefyllfa Ieithyddol heddiw yng Nghwm Gwendraeth

Er bod canlyniadau Cyfrifiad 2001 yn eithaf cadarnhaol am Gwm Gwendraeth efallai nad yw'r Cyfrifiad yn adlewyrchiad llwyr o'r hyn sydd yn digwydd o ddydd i ddydd ar lawr gwlad. Yr oedd 71.1 y cant o blwyf Llan-non yn siarad yr iaith yn ôl tystiolaeth Cyfrifad 2001. Fodd bynnag, wrth gerdded y stryd ym mhentref Cross Hands mae'n debygol mai'r Saesneg fyddai'r iaith a glywid yn bennaf yn enwedig ymhlith yr ifanc. Cyfeiriwyd yn gynharach at y modd y datblygodd pentref Cross Hands ychydig yn wahanol i weddill pentrefi'r Cwm a byddai tueddiadau gwahanol mewn pentref fel Pontyberem. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r Cyfrifiad ar ben ei hun yn ddigon i fesur tueddiadau ieithyddol. Dyna pam fod y gwaith y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei wneud yn sgîl cyhoeddi *Iaith Pawb* yn holl bwysig. Mae'n amlwg bod nifer yn gallu siarad Cymraeg a nodir hynny ar ffurflenni'r Cyfrifiad ond nid ydynt yn gwneud defnydd o'r iaith. Mae gwahaniaeth amlwg rhwng gallu a defnydd yn nifer o gymunedau Cwm Gwendraeth a chyfeiriodd Cefin Campbell at hynny:

Ond mewn ardaloedd traddodiadol diwydiannol, mae'r Gymraeg wedi dal ei thir ond y tristwch yw bod y defnydd o'r Gymraeg wedi lleihau. . . . Mae'r cysylltiad rhwng gallu a defnydd yn un allweddol bwysig. Dwi'n credu mai'r hyn y gwelwn ni dros y blynyddoedd nesaf yw mwy o bobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg ond llai yn gwneud defnydd ohoni. Dyna lle mae'n

rhaid i'r mentrau mewn cydweithrediad gyda chymaint o fudiadau eraill i wneud mwy eto o waith yn y gymuned leol er mwyn sicrhau fod yna gyfleoedd cymdeithasol i bobl i arfer siarad y Gymraeg â'i gilydd?

(Atodiad 7.1 : C20)

Ym Mhennod 2 ystyriwyd y sefyllfa ieithyddol mewn gwledydd eraill ac mae'n amlwg bod y gwahaniaeth amlwg rhwng gallu a defnydd hefyd yn berthnasol mewn gwledydd eraill megis Gwlad y Basg. Yn y bennod honno hefyd trafodwyd tueddiadau yn y gwledydd dan sylw a oedd hefyd yn berthnasol yng Nghymru megis diwydiannu, mewnfudo ac allfudo. Daeth i'r amlwg fod gan Gymru wersi i ddysgu o'r hyn a gyflawnwyd gan rai ieithoedd lleiafrifol eraill megis Catalaneg ond gellir cyflwyno rhai datblygiadau sydd eisoes wedi digwydd yng Nghymru megis mentrau iaith mewn gwledydd eraill.

Yr oedd canlyniadau'r gwaith maes yn amlygu tueddiadau gofidus o ran y Gymraeg sy'n awgrymu bod talcen caled yn wynebu Menter Cwm Gwendraeth. Yr oedd yn amlwg bod diffyg hyder amlwg wrth ysgrifennu a darllen Cymraeg. Cyfeiriodd Cefin Campbell at hynny:

Mae ysgrifennu a darllen mewn unrhyw iaith yn sgiliau creiddiol a hanfodol. Mae'r sgiliau hynny'n beuoedd ieithyddol pwysig iawn. Pan fydd pobl yn gweld diffygion yn y sgiliau ysgrifennu neu ddarllen, maent yn amlwg yn mynd i gredu bod eu Cymraeg yn gyffredinol yn ddiffygiol. Mae hynny'n arwain at ddiffyg hyder ac yn y pen draw, efallai mewn rhai achosion iddyn nhw droi eu cefn ar eu hiaith y mae nhw'n eu hystyried yn ddiffygiol, at y Saesneg, mae nhw'n teimlo sydd yn rhagorach. Ond yr eironi eto yw nid yw eu Saesneg nhw cetyn gwell na'u Cymraeg yn aml iawn.

(Atodiad 6.1 : C10)

Er bod gofid am sgiliau iaith yr ardal wrth ysgrifennu a darllen Cymraeg, rhaid ystyried bod gofid yn gyffredinol am sgiliau pobl hefyd yn yr iaith Saesneg. Buaswn yn dadlau bod yr enghreifftiau a ddaeth i'r wyneb yng nghanlyniadau'r gwaith maes ac yn gyffredinol ledled Cymru o ddiffyg trosglwyddiad iaith yn peri mwy o bryder o ran dyfodol y Gymraeg. Mae'n anodd deall sefyllfa ble ceir dau rhiant sy'n siarad Cymraeg ond sydd ddim yn trosglwyddo'r iaith i'w plant yn enwedig wrth ystyried manteision amlwg dwyieithrwydd. Ni ellir gorbwysleisio arwyddocâd y prosiect arloesol Twf sydd wedi derbyn cyllid sylweddol i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Mae pwysigrwydd siarad yr iaith yn y cartref yn holl bwysig wrth ystyried nad yw'r iaith yn cael ei ddefnyddio gan nifer o drigolion yr ardal yn y gweithle ac mewn nifer o beuoedd cymdeithasol. Yn yr un modd mae gan y cyfryngau torfol rôl holl bwysig yn natblygiad yr iaith. Er nad oedd tystiolaeth y gwaith maes yn awgrymu bod nifer o drigolion yr ardal yn gwranddo ar raglenni radio Cymraeg yr oedd y ffigurau ar gyfer gwyllo S4C yn fwy calonogol. Fodd bynnag, mae datblygiad sianelau digidol yn golygu bod gan drigolion Cwm Gwendraeth fwy o ddewis ac felly mae dyfodol mwy ansicr yn wynebu S4C. Mae arolwg y corff rheoleiddio Ofcom yn ystod 2005 yn ystyried yr opsiynau sy'n wynebu S4C gan gynnwys uno S4C â'r BBC. Er bod gwahanieth barn ar y ffordd ymlaen ar gyfer rôl S4C yn yr oes ddigidol mae cytundeb fod gan y sianel gyfraniad pwysig wrth gynnal yr iaith. Bu trafodaeth ar hyn yn yr Ŵyl Ffilm a Theledu Geltaidd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2005 lle trafodwyd rôl y darlledwyr wrth gynnal ieithoedd lleiafrifol yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon. Trafodwyd ai priod ddyletswydd sianelau o'r math hyn yw darparu ar gyfer eu cynulleidfaoedd neu gyfrannu at gynllunio ieithyddol. Yn achos S4C er bod Cadeirydd y sianel, Elan Closs Stephens yn dadlau bod gan S4C rôl wrth gynnal yr iaith yr oedd o'r farn fod rôl ehangach ganddi erbyn hyn yn enwedig yn nhermau economaidd.

8.6 Sefyllfa economaidd-ieithyddol

Yn yr un modd â thystiolaeth Cyfrifiadau 1991 a 2001 cadarnhaodd canlyniadau'r gwaith maes na fu unrhyw fewnfudo sylweddol i'r ardal. Yr oedd

y mwyafrif helaeth a ymatebodd i'r holiaduron yn enedigol o'r ardal ac wedi parhau i fyw yn lleol gydol eu hoes. Ar y llaw arall, yr oedd tystiolaeth Cyfrifiad 2001 yn cadarnhau bod sir Gaerfyrddin wedi profi mewnfudo amlwg i'r sir yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chafodd hynny effaith ar sefyllfa'r Gymraeg ac adlewyrchir hynny ar **Fap 17**. Mae gan Awdurdod Addysg Sir Gaerfyrddin ganolfannau i hwyrddyfodiaid a mewnfudwyr a'u pwrpas yw darparu cyrsiau Cymraeg dwys i blant a oedd, fel rheol, heb unrhyw gysylltiad cyn hynny â'r iaith Gymraeg. Yn ogystal, mae gan y mentrau iaith rôl bwysig wrth gymhathu mewnfudwyr a chyfeiriodd Cefin Campbell at hynny:

Yn ddiweddar, drwy gydweithrediad y Cyngor Sir a'r *Rural Community Action/Gweithredu dros Gymunedau Gwledig* yr Awdurdod Datblygu yr y'm ni wedi bod yn gwneud dipyn o waith ar gymathu mewnfudwyr yn arbennig yn yr ardaloedd gwledig ac i ni wedi datblygu pecyn croeso ar gyfer mewnfudwyr a chanllawiau ar gymathu mewnfudwyr. Felly, mae yna dipyn o ffocws wedi bod ar y maes cymharol newydd hwnnw i ni yn ddiweddar.

(Atodiad 7.1 C8)

Cyfeiriodd Deris Williams hefyd at y ffaith bod y Ganolfan Iaith lle mae plant Cwm Gwendraeth yn mynd un diwrnod yr wythnos i wella eu sgiliau iaith yn llawn (Atodiad 7.2 : C22).

Er bod mewnfudo yn broblem gyffredinol yn sir Gaerfyrddin ac i raddau yng Nghwm Gwendraeth, mae'n debygol nad mewnfudo o Loegr yw'r prif broblem yng Nghwm Gwendraeth. Mae dyfodiad yr M4 wedi arwain at nifer gynyddol o bobl yn teithio o'r ardal i weithio yn Abertawe, Caerdydd a thu hwnt yn ddyddiol. Ar y naill law mae'r M4 wedi bod yn fanteisiol i rai o'r gweithlu lleol gan eu bod yn gallu parhau i fyw yn yr ardal a theithio yn ddyddiol i'w gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r bobl hyn yn dueddol o gyfrannu i fywyd cymdeithasol yr ardal ac mae hyn yn cael effaith ar sefyllfa'r Gymraeg

yn yr ardal. Cyfeiriodd Cefin Campbell bod targedu'r bobl hyn yn anodd i'r mentrau:

Mae ardaloedd fel Cross Hands ac yn fwyfwy ardaloedd fel Llandeilo sydd o fewn cyrraedd y draffordd yn datblygu yn rhyw fath o *dormitory towns* lle nad yw pobl yn cymdeithasu ond mae nhw'n dod yno i fyw a chysgu. Mae'r rhain yn bobl anodd iawn i'w tynnu i mewn i weithgaredd. Beth i ni'n gobeithio gwneud wrth gwrs yw targedu'r plant os oes plant ganddyn'nhw yn yr ysgolion lleol. Dyma yw un o'r tueddiadau mwyaf diweddar gyda gwella trafndiaeth ar hyd y draffordd.

(Atodiad 7.1 : C19)

Yn ur un modd Deris Williams:

Clasur o enghraifft yw Cross Hands. Mae'r stâd newydd o dai ar bwys y Gwernllwyn yn Cross Hands yn llawn o bobl sy'n teithio bob dydd. Mae Llan-non yn enghraifft arall â tai yn gwerthu am £200,000 a phobl yn teithio bob dydd i Gaerdydd ac i Fryste. Dyna pahan y sefydlom glybiau brecwast yn yr ysgol fel bod y plant yna yn gallu aros i gael addysg yn eu pentref. Yr oedd y tai hyn i gyd yn cael eu codi ond 'doedd nifer yr ysgol ddim yn cynyddu gan eu bod yn mynd bant i gael eu haddysg. Mae pethau'n gwella rhywfaint ond mae'n anodd iawn oherwydd fod yr effaith sosio-economiadd yn cael effaith yn ieithyddol.

(Atodiad 7.2 : C22)

Mae'n debygol bod Cross Hands wedi profi'r newidiadau hyn yn fwy nag ardaloedd eraill yn y Cwm. Yn y traethawd trafodwyd yn fanwl y modd y datblygodd y pentref ar wahân i weddill pentrefi'r Cwm. Yn ogystal, cyn ail-agor neuadd gyhoeddus y pentref nid oedd man cyfarfod yn y pentref i gynnal gweithgareddau. Ynghyd â hynny, yr oedd ffactorau gwleidyddol wedi amharu

ar waith y Fenter yn y pentref. Cyfeiriodd Deris Williams at gymhlethdod y sefyllfa yn Cross Hands:

Yn bersonol, rwy'n meddwl fod yr ochr ddiwydiannol wedi ei yrru gan anghofio y trigolion ar ôl, y pentrefwyr a dyna yw'r targed anodd. Targed efallai nad ydym wedi gallu ymgymryd â hi. . . Mae'r bobl sy'n dod i weithio ar y Parc Busnes yn dod miwn yn y bore ac yn gadael yn yr hwyr. 'Dy'nhw ddim yn bobl sy'n aros. Dyna paham rwy'n meddwl fod y cerbyd fel petai yn mynd yn rhy gyflym i'r trigolion lleol.

(Atodiad 7.2 : C15, C16)

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf sefydlwyd fforwm bentrefol yn Cross Hands i geisio ystyried y tueddiadau hyn a bu'n ymghyngori'n gyson a'r Fenter. Mae'n sicr mai datblygu ymhellach fydd y Parc Busnes yn ystod y blynyddoedd nesaf a chyfeiriodd y Cynghorydd Brin Davies at hynny:

Mae rhan arall wedi agor yn awr- yr hyn yr 'ym yn ei alw'n *West Site*. Mae *Dawn Pac* yn adeiladu ffatri newydd sbon yno. Mae Castell Howell, cwmni busnes o Gaerfyrddin yn datblygu ar y *site* newydd 'ma. O fewn rhyw ddwy flynedd bydd y ddwy ffatri newydd hyn ar ben eu hunain yn cyflogi rhyw 600 i 700 o bobl.

(Atodiad 7.4 : C5)

Felly, mae'n debygol mai dwyshau fydd y rhaniad rhwng y Parc Busnes a gweddill y pentref. Fodd bynnag, ni ellir gorbwysleisio cyfraniad y Parc Busnes i leihau ychydig o'r digofaint a ddilynodd cau'r pyllau glo. Er bod problemau cymdeithasol a diweithdra yn parhau yn yr ardal, rhaid cyfaddef fod y sefyllfa yn well nag ydoedd yn ystod wythdegau a nawdegau'r ugeifed ganrif.

Er gwaethaf cyfraniad y Parc Busnes tuag at yr economi leol, mae pryderon yn parhau nad yw ardaloedd gorllewinol y Cymoedd gan gynnwys Cwm Gwendraeth yn derbyn yr un chwarae teg ag ardaloedd mwy dwyreiniol. Mae'r hyn a ddywedodd Dylan Jones-Evans wrth drafod y rhaglen Amcan 1 yn berthnasol i ardal Cwm Gwendraeth:

The evidence . . . suggests that in terms of employment generation, weekly wages, and economic activity, the gap between the poorer and richer parts of Wales continues to increase . . . Perhaps the most important question is whether there are enough infrastructure and capacity building projects being undertaken within the Objective 1 region to underpin a sustainable future.

(Jones-Evans 2003 : 12)

Mae'n holl bwysig bod Cwm Gwendraeth yn derbyn buddsoddiadau economaidd a fyddai'n cyfrannu at gadw nifer o bobl ifanc yn yr ardal. Er bod yr M4 yn galluogi i'r gweithlu lleol deithio bob dydd ac i barhau i fyw yng Nghwm Gwendraeth nid oes amheuaeth bod nifer yn gadael yr ardal oherwydd rhesymau economaidd. Yn anffodus, nid oes llawer o swyddi proffesiynol yn Nghwm Gwendraeth a gwelwyd nifer yn enwedig ymhlith yr ifanc yn dewis symud o'r ardal. Wrth gwrs, mae nifer yn dewis byw mewn dinasoedd megis Caerdydd ond mae eraill yn gorfod gadael gan nad oes swyddi addas ar eu cyfer yn lleol.

8.7 Cwm Gwendraeth yn y cyd-destun cenedlaethol

Gellir dadlau bod y mewnfudo o'r ardaloedd gwledig i sicrhau gwaith a welwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif wedi ei ail-adrodd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar hugain wrth i nifer symud oherwydd rhesymau economaidd i ddinasoedd megis Caerdydd. Mae **Map 18** yn adlewyrchu patrymau mudo pobl ifanc 20 i 24 oed o sir Gaerfyrddin i weddill Cymru a gwelir mai de-ddwyrain Cymru sy'n denu'r mwyafrif. Tra bod symudiadau ar raddfa helaeth ymhlith pobl ifanc o

gadarnleoedd yr iaith Gymraeg i ardaloedd poblog gwelwyd mewnlifiad sylweddol i nifer o gymunedau gwledig. Arweiniodd y datblygiadau hyn at ddirywiad y Fro Gymraeg ond ar yr un pryd bu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd poblog dwyreiniol megis Caerdydd.

Rhodddwyd cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg sicrhau swyddi yng nghyffiniau Caerdydd megis rhai gweinyddol ac yn y 'cyfryngau', yn enwedig ar ôl sefydlu Radio Cymru yn 1979 a S4C yn 1982, ac yr oedd llawer o'r rhain yn dod o'r 'Fro Gymraeg' gan gynnwys Cwm Gwendraeth. Yn ogystal, arweiniodd dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 1999 at fudo pellach i Gaerdydd yn enwedig ymhlith siaradwyr Cymraeg. Yr oedd y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol i nifer o swyddi yn y Cynulliad megis yn yr Uned Gyfieithu ac yng Nghofnod y Trafodion. Yr oedd y rhai hynny a oedd wedi symud i Gaerdydd yn mynnu addysg Gymraeg i'w plant ac mae'r twf aruthrol mewn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd yn adlewyrchu patrwm mudo i Gaerdydd o gadarnleoedd traddodiadol yr iaith. Heddiw ystyrir gwybodaeth o'r iaith yn gymhwyster allweddol. Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr i'r farn draddodiadol am yr iaith fel un pwysig yn ddiwylliannol yn hytrach nag o werth economaidd. Eto, mae ymchwil diweddar wedi profi mai prin yw'r defnydd a wneir o'r iaith gan nifer o ddisgyblion ar ôl gadael yr ysgol, yn enwedig rhai o'r dosbarth gweithiol. Gellir dadlau, fel ag y gwnaeth rhai beirniaid bod gormod o bwyslais yn yr ardaloedd dinesig wedi ei roi yn y gorffennol ar fyd addysg yn yr ymgais i hybu defnydd o'r iaith. Dywed Colin Williams:-

There has also been an undue concentration on the role of education as a basis for language reproduction within the urban sector which has in my view detracted from attention being paid to the wider perspective of how and when Welsh is actually used, by adults in particular, in different socioeconomic contexts of industrial Wales.

(Williams 1987 : 75)

Arweinia'r tueddiadau hyn at broblemau amrywiol. Mae trefi yn fannau 'cosmopolitan' lle daw'r Gymraeg wyneb yn wyneb â'r Saesneg, ac mae'n anodd os nad yn amhosibl i fyw bywyd llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Aitchison a Carter yn tanlinellu pwysigrwydd diwylliant yn nyfodol yr iaith.:-

Outside very limited domains, indeed outside the school, the use of Welsh at home, at work and at play seems greatly constrained. Without a strong cultural focus, one which was once provided by the chapel, the significant educational efforts are in danger of being seriously dissipated when that special environment is left.

(Aitchison & Carter 1994 : 86)

Mae'n anhebygol iawn y bydd y Gymraeg yn famiaith y mwyafrif yn yr ardaloedd dwyreiniol hynny sy'n dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Yn anffodus mae hyn yn wir bellach am y cadarnleoedd traddodiadol. Er y bu cynnydd amlwg yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn dinas megis Caerdydd mae'r ganran sy'n siarad yr iaith yn parhau'n isel. Cyfeiriwyd yn gynharach at syniadau Aitchison a Carter a bwysleisiodd bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i furiau'r system addysg.

Er bod mwy o statws i'r Gymraeg ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain nag erioed o'r blaen, mae nifer o arbenigwyr ieithyddol, yn enwedig ar ôl dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 1999, yn bryderus y gallai'r Gymraeg wynebu sefyllfa debyg i'r sefyllfa ieithyddol sy'n bodoli yn Iwerddon. Er bod gwybodaeth gyffredinol o'r iaith mae'n bosibl y bydd yr ardaloedd Cymraeg lle mae'r iaith yn famiaith yn cael eu cyfyngu, yn yr un modd â'r Gaeltacht yn yr Iwerddon, i fannau anghysbell y gogledd-orllewin. Arwydd o'r gofid hyn yw fod nifer o Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n Gymry Cymraeg yn amharod i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Cyfarfodydd Llawn ac ym mwyllgorau'r Cynulliad er waetha'r ffaith bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael. Gellir priodoli hyn o bosibl i ddiffyg arfer defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyhoeddus a'r ymdeimlad bod angen siarad Saesneg i ddenu

sylw'r cyfryngau torfol. Pryder amlwg arall yw mai lleiafrif o siaradwyr Cymraeg sydd bellach yn siarad Cymraeg adref. Cyfeiriodd Aitchison a Carter at hyn:

'o ganlyniad i'r newid addysgol, yr anghysondeb olaf yw fod plant yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif yn siarad Cymraeg gartref a Saesneg yn yr ysgol; bellach mewn rhai achosion o leiaf, y maent yn siarad Cymraeg yn yr ysgol a Saesneg gartref'

(Aitchison a Carter 2000: 83)

Yn sgîl y mesurau llywodraethol sy'n gefnogol i'r Gymraeg a'r poblogrwydd cymharol sy'n nodweddu'r iaith ar hyn o bryd, mae yna obaith am Gymru ddwyieithog yn y dyfodol. Serch hynny, fel y dywed Aitchison a Carter, byddai hyn yn arwain at Gymru dra gwahanol:

where the cultural associates of language will be greatly changed, for the concomitant life-styles of bilingualism will be greatly different from those of traditional Welsh Wales.

(Aitchison & Carter 1994:113)

Mae'r isod yn cadarnhau rhai o'r prif ffactorau fu'n gyfrifol am dranc yr iaith Gymraeg a'r ymdrechion a wneir i adfer yr iaith:

Ffactorau sydd wedi arwain at y lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn enwedig yng nghadarnleoedd yr iaith

- **Y Dirwasgiad rhwng y Ddau Ryfel Byd**
- **Y Dirywiad Economaidd a'r diboblogi yn yr ardaloedd gwledig**
- **Dirywiad amaethyddiaeth**
- **Dirywiad Anghydfurfiaeth**
- **Mewnfudiad pobl ddi-Gymraeg yn enwedig pobl a oedd wedi ymddeol i'r cymunedau Cymreiciaf. Ar yr un pryd, allfudiad (i dde-ddwyrain Cymru yn bennaf) yn enwedig ymhlith pobl ifanc o'r cymunedau hynny yn sgîl yr angen i sicrhau swyddi. Y mewnfudiad ac allfudiad hyn yn cyfrannu at ddadfeiliad y Fro Gymraeg draddodiadol. Hyn yn arwain hefyd at broblemau yn ymwneud a pholisïau cynllunio a thai.**
- **Dad-ddiwydiannu**
- **Twristiaeth**

Ffactorau sydd wedi arafu dirywiad y Gymraeg

- **Addysg ddwyieithog**
- **Pasio deddfwriaeth (amddiffynnol) yn ymwneud â'r Gymraeg yn 1967 a 1993.**

- **Datblygiad y Cyfryngau yng Nghymru : sefydlu Radio Cymru yn 1977 ac yn enwedig S4C yn 1982**

Ymdrechion i adfer a hyrwyddo'r iaith

Llywodraeth Cynulliad Cymru ► Iaith Pawb



Sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg



Mudiadau a sefydliadau ieithyddol megis Mentrau Iaith> Twf> Mudiad Ysgolion Meithrin> Urdd Gobaith Cymru> Eisteddfod Genedlaethol Cymru

8.8 Casgliad

Pwysleisiwyd eisoes arwyddocâd yr ardal hon gan arbenigwyr ieithyddol megis Aitchison a Carter yng nghyd-destun dyfodol y Gymraeg. Defnyddiwyd ganddynt y gair *catastrophic* wrth gyfeirio at y gostyngiad yn niferoedd a chanrannau siardwyr Cymraeg yn nwyrain sir Gaerfyrddin a gorllewin Morgannwg yn ystod y cyfnod 1991-2001. Tynnwyd sylw at effeithiau negyddol dad-ddiwydiannu yn yr ardaloedd hyn, ac er iddynt fynegi pryder ynglŷn â'r gostyngiad, yr oeddynt eto yn hyderus am y dyfodol:

But given their history and place in Welsh history it is difficult to see why the Aman Valley and Cwm Gwendraeth should not be power centres in language regeneration.

(Aitchison & Carter 2004 : 132)

Felly, nid oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â phwysigrwydd ieithyddol Cwm Gwendraeth.

Er gwaethaf yr anawsterau a wynebir, y mae nifer o arwyddion gobeithiol ar gyfer dydodol yr iaith Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth. Un ohonynt yw ymwybyddiaeth o'r bygythiad i'r iaith, ac y mae'r datganiad diweddar a gyhoeddwyd gan Fenter Cwm Gwendraeth yn arwyddocaol yn y cyd-destun hwn:

Mewn ardal ddifreintiedig ôl-ddiwydiannol a fu unwaith yn geidwadol ei natur, gwelwyd newid delwedd yn sgîl y bygythiad sosio-economaidd a fu'n ergyd drom yn gymdeithasol, yn gymunedol, ac yn ieithyddol. Her y dyfodol fydd cynnal y cymunedau gan gynnig cyfleoedd penodol i'n plant a'n pobl ifanc yn eu cynefin brodorol.

(Menter Cwm Gwendraeth 2005 : 2)

Yn sicr gwneir cyfraniad pwysig gan ymroddiad swyddogion Menter Cwm Gwendraeth, a Mentrau Iaith Myrddin, ac mae cefnogaeth frwd nifer o drigolion lleol sy'n poeni am barhad eu treftadaeth diwylliannol yn gwbl allweddol yn yr ymdrechion i ddiogelu'r iaith Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth.

LLYFRYDDIAETH

- Aaron, R.I. (1970) : 'The Struggle for the Welsh Language: Some Pre-Census Reflections'. *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Part 2, Session 1969, 229-249.
- Aitchison, J. & Carter, H. (1991) : 'Rural Wales and the Welsh Language', *Rural History*, 2, 59-76
- Aitchison, J. & Carter, H. (1993) : 'The Welsh Language in 1991-a broken heartland and a new beginning?', *Planet*, 97, 3-10
- Aitchison, J. & Carter, H. (1994) : *A Geography of the Welsh Language 1961-1991* (Cardiff : University of Wales Press)
- Aitchison, J. & Carter, H. (1995) : 'Household Structures and the Welsh Language', *Planet*, 113, 25-32
- Aitchison, J. & Carter, H. (2000) : *Language, Economy and Society: The Changing Fortunes of the Welsh Language in the Twentieth Century* (Cardiff: University of Wales Press)
- Aitchison, J. & Carter, H. (2000) : 'Yr Iaith Gymraeg 1921-1991 :Persbectif Geo-ieithyddol' yn G.H. Jenkins. a M.A. Williams, (goln.), 'Eu Hiaith a Gadwant' ?, 27-106 (Caerdydd:Gwasg Prifysgol Cymru)
- Aitchison, J. & Carter, H. (2004) : *Spreading the Word. The Welsh Language 2001* (Talybont : Y Lolfa)
- Akenson, D. (1975) : *A Mirror to Kathleen's Face: Education in Independent Ireland, 1922 - 60.* (Montreal and London: McGill : Queen's University Press)
- Ap Huw (1873) : *Hanes Dyffryn Gwendraeth* (Llanelli)

- Astrain, L. N. (1997): *The Basques : Their Struggle for Independence*, translated by Meic Stephens (Welsh Academic Press)
- Baber, C. & Williams, L.J. (eds) (1986): *Modern South Wales: Essays in Economic History* (Cardiff : University of Wales Press)
- Baines, D. (1985): *Migration in a Mature Economy: Emigration and Internal Migration in England and Wales, 1861-1900* (Cambridge: Cambridge University Press)
- Baker, C. (1985): *Aspects of Bilingualism in Wales* (Clevedon: Multilingual Matters)
- Baker, C. (1990): 'The Growth of Bilingual Education in the Secondary Schools of Wales' in W. Gareth Evans, (ed.) *Perspectives on a Century of Secondary Education in Wales*, 77-96 (Aberystwyth : Y Ganolfan Astudiaethau Addysg)
- Baker, C. (1995): *Attitudes and Language* (Clevedon: Multilingual Matters)
- Baker, C. & Jones, S.P. (1998): *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education* (Clevedon :Multilingual Matters)
- Betts, E. (2002): *Adolygiad dan Adran 10 o'r Ddeddf Arolygu Ysgolion 1996* (Llundain/Caerdydd : Hawlfraint y Goron)
- Boland, P. (2004): 'An Assessment of the Objective 1 Programme in Wales, 1999-2003', *Contemporary Wales*, 17, 66-78
- Bowen, E.G. (1959): 'Le Pays de Galles', *Transactions of the Institute of British Geographers* , 26, 1-24
- Brennan, M. (1964) : 'The restoration of Irish', *Irish Studies*,53, 263- 77
- Brennan, T., Cooney, E.W., Pollons, H. (1954): *Social Change in South-West Wales* (London : C A Watts & Co, Ltd)

- Brooks, S. (1907) : *The New Ireland* (Dublin : Maunsel)
- Brooks, Simon (2001) : *Llythyrau at Seimon Glyn* (Talybont : Y Lolfa)
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1995): *Amlinelliad o Strategaeth ar Gyfer yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd : Bwrdd yr Iaith Gymraeg)
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996): *Adroddiad Blynyddol 1996-97* (Caerdydd : Bwrdd yr Iaith Gymraeg)
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999): *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005* (Caerdydd : Bwrdd yr Iaith Gymraeg)
- Byrne, E. (1938): 'Where the Irish Language Still Lives', *Ireland-American Review*, 1, 50-5
- Campbell, C. (1991) : *Strategaeth Menter Cwm Gwendraeth* (Llandybïe : Gwasg Dinefwr)
- Campbell, C. (2000) : 'Menter Cwm Gwendraeth: a Case-study in Community Language Planning' in Colin H. Williams, (ed.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, 247-291 (Cardiff: University of Wales Press)
- Campbell, C. (2004) : *National Co-ordinating Body for Mentrau Iaith (Language Initiatives)* (Heb ei gyhoeddi)
- Carter, H. (1989a) : *Diwylliant, Iaith a Thiriogaeth* (Caerdydd : Darlith Radio Flynyddol BBC Cymru)
- Carter, H. (1989b) : 'Urban and Industrial Settlement in the Modern Period, 1750-1914 in D H. Owen, (ed.) , *Settlement and Society in Wales*, 269-296 (Cardiff : University of Wales Press)
- Carter, H. (1992) : *Yr Iaith Gymraeg Mewn Oes Ôl Fodern* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru-Darlith Eisteddfod y Brifysgol)
- Carter, H. (1994) : 'Arwyddocad Tiriogaethol Iaith' yn Rhian Huws Williams, Hywel Williams (Caerdydd:Gwasg Prifysgol Cymru)

- & Elaine Davies, *Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg*, 1-39 ran CCETSW Cymru)
- Census (1893) : *Census of Population for England and Wales: 1891, Vol. 111: Ages, Condition as to Marriage, Occupations, Birth-Places and Infirmities* (London : HMSO)
- Commins, P. (1988) : 'Socioeconomic Development and Language Maintenance in the Gaeltacht', *International Journal of the Sociology of Language*, Vol 70, 11-28
- Coopers & Lybrand Deloitte (1991) : *Gwendraeth Valley Regeneration Strategic Framework : Final Report* (Carmarthen : Dyfed County Council Central Print Unit)
- Corkery, D. (1968) : *The Fortunes of the Irish language* (Cork : Mercier)
- Coupland, N. (1990) : *English in Wales* (Clevedon : Multilingual Matters)
- Crowe, R. (1988) : *Yr Wlpan yn Israel* (Aberystwyth: Canolfan Ymchwil Cymraeg i Oedolion)
- (1991) : *Cynllun ar Gyfer Ffyniant* (Abertawe:TEC Gorllewin Cymru)
- Cyngor Sir Dyfed:Adran Gynllunio (1981) : *Yr Iaith Gymraeg yn Nyfed, Crynodeb o Gyfrifiad 1981* (Cyngor Sir Dyfed : Caerfyrddin)
- Cyngor Sir Dyfed:Adran Gynllunio (1991) : *Yr Iaith Gymraeg yn Nyfed, Crynodeb o Gyfrifiad 1991* (Cyngor Sir Dyfed : Caerfyrddin)
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002) : *Ein Hiaith : Ei Dyfodol, Adroddiad Polisi o'r Iaith Gymraeg* (Caerdydd:Cynulliad Cenedlaethol Cymru)
- Dafis, Cynog (1978) : *Cymdeithaseg Iaith a'r Gymraeg* (Aberystwyth : Cymdeithas yr Iaith Gymraeg)
- Dafis, Llinos (d.d.) : *Ymwybyddiaeth Cyffredinol o Fenter Cwm Gwendraeth, ei gweithgarwch a'i hamcanion* (Cross Hands : Menter Cwm Gwendraeth)

- Darlington, Thomas (1894) : 'The English-Speaking Population of Wales', *Wales*, 1, 11-16
- Darlington, Thomas (1893) : 'Iaith Cymru Fydd', *Y Genhinen*, XI, rhif 4, 224-231
- Davies, Dan Ifan (1989a) : 'Addolwyr y Cwm' yn *Balchder Bro*, 76-80 (Pwyllgor Llên Eisteddfod Cwm Gwendraeth),
- Davies, Ieuan (1989) : *Lewis Tymbl* (Abertawe : Tŷ John Penry)
- Davies, John (1990) : *Hanes Cymru* (Llundain: Penguin Press)
- Davies, John (1995) : 'Y Gymraeg yn Nhreorci yn 1891' yn Hywel Teifi Edwards, (gol.), *Cwm Rhondda*, 126-133 (Llandysul : Gwasg Gomer)
- Davies, Russell (1996) : *Secret Sins : Sex, Violence & Society in Carmarthenshire 1870-1920* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- De Fréine, S. (1977) : 'The Dominance of the English Language in the Nineteenth Century' in D. O'Muirthe (ed.), *The English language in Ireland*, 71-87 (Cork : Mercier)
- Denison, N. (1977) : 'Language Death or Language Suicide', *International Journal of the Sociology of Language*, 12, 13- 22
- Dorian, N. (1981) : *Language Death: the Cycle of a Scottish Gaelic Dialect* (Philadelphia: University of Philadelphia Press)
- Eastman, C. (1983) : *Language Planning* (San Francisco: Chandler & Sharp)
- Edwards, Hywel Teifi (gol.) (1995) : *Cwm Rhondda, Cyfres y Cymoedd* (Llandysul : Gwasg Gomer)

- Edwards, Hywel Teifi (gol.) (2000) : *Cwm Gwendraeth, Cyfres y Cymoedd* (Llandysul : Gwasg Gomer),
- Edwards, J. (1985) : *Language, Society and Identity* (Oxford: Blackwell)
- Edwards, J. (1994) : *Multilingualism* (London & New York : Routledge)
- Edwards, Viv (2003) : *Gwerthuso Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd Cynllun Twf, sy'n Annog Rhieni i Drosglwyddo'r Iaith Gymraeg i'w Plant.* (Reading : Prifysgol Reading)
- Elliott, J. (1996) : *Adolygiad dan Adran 10 o'r Ddeddf Arolygu Ysgolion 1996* (Hawlfraint y Goron)
- Eisteddfod Cwm Gwendraeth (1989): *Balchder Bro Cwm Gwendraeth* (Pwyllgor Llên Eisteddfod Cwm Gwendraeth)
- European Bureau for Lesser Used Language (1993) : *Select Bibliography on Lesser Used Languages in the European Community* (Dublin & Brussels)
- European Bureau for Lesser Used Language (1994): *Language Rights : Individual and Collective* (Dublin & Brussels)
- European Bureau for Lesser Used Language (1995): *Images of Europe, Television and Lesser Used Languages* (Dublin & Brussels)
- Evans,D. Gareth (2000) : *A History of Wales 1906-2000* (Cardiff : University of Wales Press)
- Fellman, J. (1973) : *The Revival of a Classical Tongue : Eliezer Ben Yehuda and the Modern Hebrew Language* (The Hague :Mouton)
- Fishman, J.A. (1991) : *Reversing Language Shift* (Clevedon:Multilingual Matters)
- FitGerald, Garret (1984) : 'Estimates for Baronies of Minimum Level of Irish-Speaking Amongst (Dublin: Royal Irish Academy)

- Successive Decennial Cohorts 1771-1781 to 1861-1871' in *Proceedings of the Royal Irish Academy*, Vol. 84. C, No.3, 117-55
- Francis, Hywel (1973) : 'The Anthracite Strike and Disturbances of 1925', *Llafur*, 1,2, 15-28
- Gardner, N. (2000) : *Basque in Education in the Basque Autonomous Community* (Vitoria-Gasteiz)
- George, Eifion (1977) : *Eglwys Annibynnol Y Tabernacl, Cefneithin 1876-1976* (Llandysul : Gwasg Gomer)
- George, K. (1995) : 'Which Base For Revived Cornish?' in *Cornish Studies* 3, 104-124
- Gibbard, Noel (1984a): *Hanes Plwyf Llan-non,* (Llandysul: Gwasg Gomer)
- Gibbard, Noel (1984b) : 'The Tumble Strike 1893', *The Carmarthenshire Antiquary*, XX, 77-85.
- Giles, H. & Coupland, N. (1991) : *Language: Contexts and Consequences* (Milton Keynes: Open University Press)
- Gottman, J. (1987) : *Megalopolis Revisited: 25 Years Later* (Maryland: Institute of Urban Studies, University of Maryland)
- Griffiths, James (1978) : *James Griffiths and his Times/ Commissioned by the Labour Party Wales and the Llanelli Constituency Labour Party* (Labour Party of Wales)
- Grin, F. (2003) : *Language Policy Evaluation and the European Charter for Regional or Minority Languages* (London & New York : Palgrave Macmillan)
- Grin,F.& Vaillancourt, F. (1999) : *The Cost Effectiveness Evaluation of Minority Language Policies: Case Studies on Wales, Ireland and the Basque Country, ECMI monograph 2* (Flensburg : European Centre for Minority Issues)
- Gruffudd, Heini (1996) : *Y Gymraeg a Phobl Ifainc : Astudiaeth o'r Defnydd a Wneir o'r Gymraeg* (Abertawe : Cynllun Ymchwil Adran

- Ymysg Oedolion Ifanc Gorllewin
Morganwg a Dwyrain Dyfed* Addysg Barhaus
Oedolion Prifysgol
Cymru, Abertawe
1991-1994)
- Gruffudd, Heini, Davies, Charlotte Aull a Morris, Steve (2004) : *Cynlluniau Gweithredu Iaith: Gwerthusiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg* (Abertawe : Llais y Lli)
- Hammersley, Martyn & Atkinson, Paul (1995) : *Ethnography. Principles in Practice* (London & New York : Routledge)
- Haugen, E, McClure, J.D. & Thomson, D. (eds.) (1981) : *Minority Languages Today* (Edinburgh: Edinburgh University Press)
- Heiberg, M. (1989) : *The Making of the Basque nation* (Cambridge : Cambridge University Press)
- Henley, A. a Jones, Rhian Eleri (2000) : *Cyflog a Gallu Ieithyddol Mewn Economi Ddwyieithog* (Aberystwyth: Prifysgol Cymru Aberystwyth)
- Higgs, Edward (1996) : *Public Record Office. A clearer sense of the Census : the Victorian censuses and historical research* (London : British Library)
- Higgs, Gary, Williams, Colin H & Dorling, Danny (2004) : Use of the Census of Population to Discern Trends in the Welsh Language : an Aggregate Analysis, *Area*, 36, 2, 187-201
- Hindley, R. (1990) : *The Death of the Irish Language* (London & New York : Routledge)
- Holmes, J. (1992) : *An Introduction to Sociolinguistics* (London & New York : Longman)
- Hume, I. and Pryce, W.T.R. (eds.) (1986) : *The Welsh and their Country* (Llandysul : Gwasg Gomer)
- Jenkins, Geraint H. (gol.) (1998) : *Iaith Carreg Fy Aelwyd : Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd : Gwasg Prifysgol Cymru)

- Jenkins, Geraint H. (1999) : 'Na wadwch eich Iaith': Y Cefndir Hanesyddol i Gyfrifiad 1891' yn Gwefair Parry a. Mari A Williams *Miliwn o Gymry Cymraeg!*,1-29 (Caerdydd : Gwasg Prifysgol Cymru)
- Jenkins, G.H. a Williams, M.A. (goln.) (2000) : 'Eu Hiaith a Gadwant?' *Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- John, Arwel (1995) : *Dyddie Dathlu : Can mlwyddiant Clwb Rygbi Pontyberem a Golwg ar y Pentre* (Pontyberem : Gwasg Dinefwr)
- John, Arwel (2001) : *Y Cyffro yn y Cwm. Degawd cyntaf Menter Cwm Gwendraeth 1991-2001* (Pont-henri: Menter Cwm Gwendraeth)
- Jones, Dot (1998) : *Tystiolaeth Ystadegol yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg 1801-1911/ Statistical Evidence relating to the Welsh Language 1801-1911* (Caerdydd : Gwasg Prifysgol Cymru)
- Jones, E. a Griffiths, I.L. (1963) : 'A Linguistic Map of Wales, 1961', *Geographical Journal*, 129, 192-6
- Jones, Hywel & Williams, Colin H. (2000) : The Statistical Basis for Welsh Language Planning: Data Trends, Patterns, Processes' in Colin H. Williams (ed.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*, 48-82 (Cardiff: University of Wales Press)
- Jones, Ieuan Gwynedd (1980) : 'Language and Community in Nineteenth Century Wales' in Smith. D. (ed.), *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales 1780-1980*, 47-71 ((London: Pluto Press in association with Llafur, the Society for the study of Welsh labour history)
- Jones, Ieuan Gwynedd (1981) : *Explorations and Explanations: Essays in the Social History of Victorian Wales* (Llandysul : Gwasg Gomer)
- Jones, Ieuan Gwynedd (1987) : *Communities: Essays in the Social History of Victorian Wales* (Llandysul : Gwasg Gomer)

- Jones, Kathryn a Ioan, Gareth (2000) : *Arolwg Mentrau Iaith Cymru 2000* (Castell Newydd Emlyn: Iaith Cyf)
- Jones, Lyn T. (2000) : 'Neuadd y Cross' yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Gwendraeth* Cyfres y Cymoedd, 109-130 (Llandysul : Gwasg Gomer),
- Jones, P.N. (1970) : 'Some Aspects of the Immigration into the Glamorgan Coalfield between 1881 and 1911', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Part 1, Series 1969, 82-98
- Jones, R. Tudur (1977) : ' Cysgod y Swastika?', *Tafod y Ddraig*, 99, Chwefror 1977, 6-7
- Jones-Evans, Dylan (2003) : 'Mind the Gap, *Agenda, Journal of the Institute of Welsh Affairs*, Winter 2003/04, 10-12
- Kelly's Directory of Monmouthshire and South Wales 1895* (London : Kelly and Co.)
- Kloss, H. (1984) : 'Forschungsprogrammes zum Thema "Sprachentod', *International Journal of the Sociology of Language*, 1984, 45, 65-76
- Lewis, Saunders (1972) : *Tynged Yr Iaith* (Talybont : Y Lolfa)
- Llewelyn, Emyr (1970) : *Areithiau Cymdeithas yr Iaith* (Talybont:Y Lolfa)
- Llewelyn, Emyr (1977) : *Adfer a'r Fro Gymraeg* (Pontypridd, Lerpwl :Cyhoeddiadau Modern Cymreig)
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) : *Cyflwyniad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Is-Bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cenedlaethol Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc* (Caerdydd : Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) : *Iaith Pawb, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Macnamara, J. (1966) : *Bilingualism and Primary Education: A Study of Irish Experience* (Edinburgh: Edinburgh University Press)

- Macnamara, J. (1971) : ‘Successes and Failures in the Movement for the Restoration of Irish’ yn J. Rubin & B.H. Jernudd (eds.), *Can language be planned?*, 65-94 (Honolulu : University of Hawaii Press)
- McRoberts, K. (2001) : *Catalonia : Nation Building Without a State* (Oxford: Oxford University Press)
- Mathews, Ioan (1998) : ‘Yr Iaith Gymraeg yn y Maes Glo Carreg c. 1870- 1914’ yn Geraint H Jenkins (gol.), *Iaith Carreg Fy Aelwyd. Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, 121-141 (Caerdydd : Gwasg Prifysgol Cymru)
- Mathews, Ioan (1993) : ‘Maes y Glo Carreg ac Undeb y Glowyr 1872-1925’ yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Cof Cenedl, VIII*, 133-164 (Llandysul : Gwasg Gomer)
- May, S. (2001) : *Language and Minority Rights. Ethnicity, Nationalism and the Politics of Language* (London : Longman)
- Medrano. J.D. (1995) : *Divided Nations: Class, Politics and Nationalism in the Basque Country and Catalonia* (Ithaca : Cornell University Press)
- Menter Cwm Gwendraeth (a Chymdeithas Plant a Ieuenctid Llanelli) (1996) : *Ieuenctid yng Nghwm Gwendraeth :Y Ffordd Ymlaen* (Cross Hands : Menter Cwm Gwendraeth)
- Menter Cwm Gwendraeth (d.d.) : *Menter Cwm Gwendraeth Adroddiad Blynyddol 2002-2003*
- Menter Cwm Gwendraeth (d.d.) : *Menter Cwm Gwendraeth Adroddiad Blynyddol 2003-2004*
- Menter Cwm Gwendraeth (2005) : ‘Dros Iaith a Chymuned’/Safeguarding Language and the Community
- Mentrau Iaith Myrddin (d.d.) : *Mentrau Iaith Myrddin Adroddiad Blynyddol 2002-2003*

- Moran, D.P. (1900) : 'The Gaelic Revival', *New Ireland Review*, 12, 257- 72
- Morgan, D. (1989) : 'Y Pentref (Pen-y-groes)' yn *Balchder Bro*, 18-24 (Pwyllgor Eisteddfod Cwm Gwendraeth)
- Morgan, Hopkin (1962) : 'Local Administration in the Rural Areas', *Carmarthenshire Local History Magazine* 11 79- 90.
- Morgan, K.O. (1981): *Rebirth of a Nation : Wales 1880-1980* (Oxford: Oxford University Press/ Cardiff : University of Wales Press)
- Morgan, Kevin (2003) : 'The Devolution dividend', *Agenda. Spring*, 18-22
- Morgan Kevin & Price, Adam (1999) : *The Other Wales. The Case for Objective 1 Funding Post 1999* (Cardiff : Institute of Welsh Affairs)
- Morgan, P. (1983) : 'From Death to a View: The Hunt for the Welsh Past in the Romantic Period', yn E Hobsbawm & T. Ranger, *The Invention of Tradition* (Cambridge : Cambridge University Press)
- Morgan, T. J. (1972) : *Diwylliant Gwerin ac Ysgrifau Eraill* (Llandysul : Gwasg Gomer)
- Morris, James (1911) : *Hanes Methodistiaeth Sir Gaerfyrddin* (Dolgellau: Swyddfa'r Goleuad)
- Nahir, M. (1977) : 'The Five Aspects of Language Planning: A Classification'. *Language Problems and Language Planning*, 1, 107- 23
- O'Brien, Flann (1973) : 'An Beal Bocht and other Irish Matters', *Irish University Review*, 3, 21-40
- O'Muirthe, D. (1977) : *The English Language in Ireland* (ed.) (Cork : Mercier)
- Ó Riagáin, P. (1997) : *Language Policy and Social Reproduction : Ireland 1893-1993* (Oxford: Oxford University Press)

- Owain, Gwion (2001) : 'Y Drefnidiaeth Fewnol', *Barn*, 462/463, Gorffennaf/Awst, 26-29
- Owen, D. Huw (1982) : *Bethel, Eglwys mewn Pentref Glofaol, 1907-82* (Pontarddulais : Eglwys Bethel)
- Owen, D. Huw (1989a) : *Cwm Gwendraeth a Llanelli* (Llanelli : Cyngor Bwrdeistref Llanelli)
- Owen, D. Huw (1989b) : 'Yr Hen a'r Newydd' yn *Balchder Bro*, 9-15 (Pwyllgor Llên Eisteddfod Cwm Gwendraeth)
- Owen, D. Huw (ed.) (1989c) : *Settlement and Society in Wales* (Cardiff : University of Wales Press)
- Owen, D. Huw (2000a) : 'Pobl y Cwm' yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Gwendraeth* Cyfres y Cymoedd. 13-36 (Llandysul : Gwasg Gomer)
- Owen, Hywel (2000b) : 'Tystiolaeth Cyfrifiad 1891 ym Mhlwyf Llan-non' yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Gwendraeth* Cyfres y Cymoedd, 87-108 (Llandysul : Gwasg Gomer)
- Parry, Gwenfair (1998) : 'Chwareli a Chymreictod': Blaenau Ffestiniog a Chyfrifiad Iaith 1891' *Cylchgrawn Hanes Sir Feirionnydd*, X111 rhan 1, 73-88
- Parry, Gwenfair a Williams, Mari A. (1999) : *Miliwn o Gymry Cymraeg! Yr Iaith Gymraeg a Chyfrifiad 1891* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru)
- Parri, Harri (1999) : *Tom Nefyn : Portread* (Caernarfon : Gwasg Pantycelyn)
- Pearse, P. (1976) : *The Murder Machine and Other Essays* (Cork : Mercier)
- Penglase, C. (1984) : 'Authenticity in the Revival of Cornish', *Cornish Studies*, 2, 96-107

- Price, Adam (1992) : *The Forgotten Valleys : Prospects for Change in the Amman and Gwendraeth* (Cardiff : Department of City and Regional Planning University of Wales College of Cardiff)
- Price, Adam (1994) : *Chwyldro Tawel: Diwylliant ac Economi yn y Nawdegau* (Aberystwyth : Menter a Busnes)
- (gol.) Casson, Mark C., Cooke, Phillip Jones, R. Merfyn, Williams, Colin H.
- Price, Adam, Ó Torna, Caitriona, Jones Allan Wynne (2000) : *The Diversity Dividend: Language and Culture in an Integrated Europe* (Brussels : European Bureau for Lesser Used Languages)
- Price, G. (1984) : *The Languages of Britain* (London : Edward Arnold)
- Price, M.R.C. (1992) : *The Llanelli and Mynydd Mawr Railway* (Heddington, Oxford : The Oakwood Press)
- Pryce, T.D (1972) : *Tabor, Cross Hands, 1872-1972* (Llandysul : Gwasg Gomer)
- Gwynallt Pryce
- Pryce, W.T.R. (1986) : 'Wales as a Culture Region: Patterns of Change 1750-1971 in I. Hume and W.T.R. Pryce (eds.). *The Welsh and their Country*, 26-63 (Llandysul : Gwasg
- (2001) : *Report on the Language Policy in the Basque Autonomous Community* (The Basque Government Deputy Ministry: Vitoria-Gasteiz)
- Rubin, J. & Jernudd, B.H. (1971) : *Can language be planned?* (Honolulu: University of Hawaii Press)
- (eds.)

- Smith, A.D. (1979) : *Nationalism in the Twentieth Century* (Oxford : Martin Robertson)
- Smith, A.D. (1982) : 'Nationalism, Ethnic Separatism and the Intelligentsia' in C.H. Williams (ed.), *National Separatism*, 17-41 (Cardiff : University of Wales Press)
- Smith, D. (ed.) (1980) : *A People and a Proletariat: Essays in the History of Wales, 1780-1980* (London: Pluto Press in association with Llafur, the Society for the study of Welsh labour history)
- Smith, L. Toulmin (1906) : *The Itinerary in Wales of John Leland in or about the years 1536- 1539* (London)
- Southall, J.E. (1895) : *The Welsh Language Census of 1891* (Newport, Mon. : John E. Southall)
- Stephens, Meic (gol.) (1997) : *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd : Gwasg Prifysgol Cymru)
- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2001) : *Amcan 1, Arweiniad Syml i Gyfranogiad y Sector Preifat* (Caerdydd : Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Thomas, Brinley (1959) : 'Wales and the Atlantic Economy', *Scottish Journal of Political Economy*, 6: 169- 92.
- Thomas, Brinley (1973) : *Migration and Economic Growth : A Study of Great Britain and Atlantic Economy* (London: Cambridge University Press)
- Thomas, Brinley (1980) : 'Towards an Energy Interpretation of the Industrial Revolution' in *Atlantic Economic Journal*, V111 (March 1980), 1-15
- Thomas, Brinley (1986) : 'The Industrial Revolution and the Welsh Language' in C. Baber & L.J. Williams, *Modern South Wales Essays in Economic History*, 6-21 (Cardiff : University of Wales Press)

- Thomas, Brinley (1987) : 'A Cauldron of Rebirth : Population and the Welsh Language in the Nineteenth century' in *The Welsh History Review/Cylchgrawn Hanes Cymru, Vol. 13, No. 4, 418-437*
- Thomas, Brinley (1993) : *The Industrial Revolution and the Atlantic Economy: Selected Essays* (London: Routledge)
- Thomas, Dafydd Elis (1994): *Bywyd Yr Iaith, Darlith Radio Flynyddol BBC Cymru* (Caerdydd:BBC Cymru)
- Thomas, J.G. (1956) : 'The Geographical Distribution of the Welsh Language', *Geographical Journal*, 122, 71- 9
- Trask, R.L. (1997) : *The History of Basque* (London: Routledge)
- Town, Stephen W. (1978) : *After the Mines: Changing Employment in a South East Valley* (Cardiff : University of Wales Press)
- Treharne, K.C. (1995) : *Glofeydd Cwm Gwendraeth* (Llanelli : Cyngor Bwrdeistref Llanelli, Llyfrgell Gyhoeddus Llanelli)
- Treharne, Stella (1989) : 'R.R' yn *Balchder Bro*, 122-124 (Pwyllgor Llên Eisteddfod Cwm Gwendraeth)
- Ussher, A. (1949) : *The Face and Mind of Ireland* (London : Gollancz)
- Walters, Huw (1987) : *Canu'r Pwll a'r Puplud. Portread o'r Diwylliant Barddol Cymraeg yn Nyffryn Aman* (Caernarfon: Cyhoeddiadau Barddas)
- Williams, Colin H. (ed.). (1982) : *National Separatism* (Cardiff : University of Wales Press)
- Williams, Colin H. (1987) : 'Location and Context in Welsh Language Reproduction and Geographic Interpretation', *International Journal of Sociology of Language*, 66, 61- 83

- Williams, Colin H. (1988) : *Language in Geographic Context* (Clevedon : Multilingual Matters)
- Williams, Colin H. (1990) : 'The Anglicisation of Wales' in N. Coupland (ed.), *English in Wales* (Clevedon : Multilingual Matters)
- Williams, Colin H. (ed.) (2000): *Language Revitalization, Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press)
- Williams, Colin H. (2004a): 'Bilingual price tag', *Agenda*, Spring, 64-66
- Williams, Colin H. (2004b): 'Iaith Pawb: The Doctrine of Plenary Inclusion', *Contemporary Wales*, 17, 1-27
- Williams, Colin H. & Evas, Jeremy (1997): *Y Cynllun Ymchwil Cymunedol* (Caerdydd : Prifysgol Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg)
- Williams, Cyril G. (1989) : 'Pont-iets' yn *Balchder Bro*, 76-80 (Pwyllgor Llên Eisteddfod Cwm Gwendraeth)
- Williams, D. (1950) : *A History of Modern Wales* (London:John Murray)
- Williams, D.T. (1937) : 'A Linguistic Map of Wales'. *The Geographical Journal*, 89, 146- 51
- Williams, Gareth (1998) : *Valleys of Song, Music and Society in Wales 1840-1914* (Cardiff : University of Wales Press)
- Williams, John (1985) : *Digest of Welsh Historical Statistics*, Vol. 1 (Cardiff:Welsh Office)
- Williams, John (1995) : *Was Wales Industrialised?* (Llandysul : Gwasg Gomer)
- Williams, Mari A. (1999) : 'Cwmaman (Sir Gaerfyrddin)' yn *Gwenfair Parry*, a Mari A. Williams, *Miliwn o Gymry Cymraeg!* , 213-230 (Caerdydd : Gwasg Prifysgol Cymru)
- Williams, P. (1974) : 'Paham y mae'r Iaith yn Marw?' *Barn*, 143, 480-1

- Williams, Rhian (1994) : *Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith* (Caerdydd:Gwasg
Huws, *Gymraeg* Prifysgol Cymru ar
Williams, ran CCETSW
Hywel & Cymru)
Davies, Elaine
- Williams, (2002) : *Rhagolygon yr Iaith* (Caerdydd : Bwrdd
Rhodri yr Iaith Gymraeg)
- Williams, Sian (1992) : *Oes y Byd i'r Iaith Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg
Rhiannon Prifysgol Cymru)

FFURFLENNI'R CYFRIFIAD

Copiau *microfiche* ar gyfer y blynyddoedd 1891 a 1901 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

TRAETHODAU YMCHWIL

Basterra, H. (1999) : The Sociolinguistics of Iron and Coal', Unpublished Ph.D. Thesis, Philips University, Marburg

Hughes, Lowri Wyn (2000) : Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngymunedau Cwm Gwendraeth: Astudiaeth o Fenter Cwm Gwendraeth fel Enghraifft o Gynllunio Ieithyddol ar Lefel Gymunedol, Traethawd MA, Prifysgol Cymru, Caerdydd

Morgan, Ruth (2000) : Menter Cwm Gwendraeth 1991-97 Traethawd M.Phil Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan

Thomas, Ruth Olwen (1996) : Y Gymraeg yng Nghwm Gwendraeth : arolwg ieithyddol a chymdeithasol o un gymuned fach. Traethawd M.Phil. Prifysgol Cymru, Caerdydd

PAPURAU NEWYDD

Baner ac Amserau Cymru (21 Mawrth 1891, 15 Ebrill 1891)
Llanelly Mercury (6 Gorffennaf 1893, 14 Medi 1893, 26 Hydref 1893)
Llanelly and County Guardian, (17 Ionawr 1935)
South Wales Press (13 Gorffennaf 1893)
The Cambrian News (21 Ebrill 1891)
The Times (31 Awst 1894)
The Welshman (30 Mai 1891)
The Western Mail (18 Ebrill 1891)

GWEFANNAU

Eurolang

www.eurolang.net

Foras na Gaeilge

www.bnag.ie

Direcció General de Política Lingüística / Directorate General of Language Policy (Catalonia)

Cultura.gencat.net/llengcat

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

www.cymru.gov.uk

Mercator Cyfryngau

www.aber.ac.uk/~merwww

Cyngor Sir Caerfyrddin

www.sirgar.gov.uk

Mudiad Ysgolion Meithrin

www.mym.co.uk

Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

www.statistics.gov.uk

